Cynllun Datblygu Lleol Bro Morgannwg 2011-2026

# Cynllun Datblygu Lleol Bro Morgannwg

## Datganiad Ysgrifenedig

Mehefin 2017



VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

Local Development Plan
Cynllun Datblygu Lleol

# Rhagair

Rwy'n falch o gyflwyno'r Cynllun Datblygu Lleol sy'n darparu fframwaith ar gyfer datblygu cynaliadwy ym Mro Morgannwg hyd at 2026. Mae'n ddogfen Bolisi eithriadol o bwysig a fydd yn rhoi arweiniad o ran twf ym Mro Morgannwg dros gyfnod o bymtheng mlynedd ac sy'n nodi anghenion seilwaith ein cymunedau o ran cyflogaeth, cyfleusterau a gwasanaethau i gefnogi'r twf hwnnw.

Wrth bennu'r fframwaith hwn ar gyfer datblygiad Bro Morgannwg yn y dyfodol, rydym wedi bod yn ymwybodol o'r angen i adfywio a chefnogi ein cymunedau ac wrth wneud hynny mae'r Cynllun yn ceisio taro cydbwysedd rhwng twf economaidd, cydlyniant cymdeithasol ac effaith amgylcheddol.

Lle bynnag y bo'n bosibl mae pwyslais y Cynllun ar ailddefnyddio tir a ddatblygwyd yn flaenorol a lleihau i'r eithaf yr angen i ddatblygu safleoedd maes glas. Nid yw hyn yn fwy amlwg nag yn y Barri lle ceir pwyslais cryf ar barhau i adfywio'r Glannau. Hefyd, rydym wedi sicrhau bod pwyslais digonol yn cael ei roi ar ddarparu lefel briodol o dwf mewn cymunedau eraill ledled y Fro gan felly sicrhau eu cynaliadwyedd a'u hyfywedd hirdymor.

Wrth ddarllen y ddogfen hon fe gewch fod y sail dystiolaeth ar gyfer y Cynllun a'i bolisïau'n eang ac yn gadarn. Rwy'n arbennig o falch ein bod, wrth fynd ati i lunio'r Cynllun hwn, wedi gallu adnabod a dyrannu tir ar gyfer y gwasanaethau a'r cyfleusterau y bydd eu hangen i gefnogi twf preswyl a thwf cyflogaeth ychwanegol yn ystod cyfnod y Cynllun a hynny mewn modd cynhwysfawr. Wrth wneud hynny mae'r Cynllun yn cynnwys manylion a thystiolaeth i ddynodi ble y mae angen cyfleusterau addysg, cymunedol a gofal iechyd newydd ac mae hefyd yn nodi cynigion newydd ar gyfer trafnidiaeth a'r mannau agored y mae eu hangen i gefnogi a hwyluso dyraniadau tai a chyflogaeth ychwanegol.

Mae'r Cynllun yn ceisio achub ar y cyfleoedd a gynigir gan Ardal Fenter Sain Tathan – Maes Awyr Caerdydd ac yn dangos rôl hanfodol Bro Morgannwg yn llwyddiant ardal ehangach Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Mae hefyd yn dangos ymrwymiad cadarn i adfywiad parhaus y Barri a Bro Morgannwg.

Fe ymgynghorwyd yn helaeth ynghylch y Cynllun trwy gydol camau amrywiol y broses o baratoi'r Cynllun ac mae'r Cyngor wedi gwrando ar bob barn a fynegwyd. O ganlyniad fe wnaed nifer o newidiadau i'r Cynllun trwy gydol y broses. Mae'r Cynllun wedi bod yn destun archwiliad cyhoeddus gan Arolygydd Cynllunio annibynnol sydd, ar ôl ystyried y sail dystiolaeth a barn rhanddeiliaid, wedi dod i'r casgliad bod y Cynllun yn gadarn. Fel yr Aelod Cabinet dros Adfywio a Chynllunio, mae'n dda gennyf gyflwyno Cynllun Datblygu Lleol Bro Morgannwg a hoffwn ddiolch i bawb a gyfrannodd at ddatblygu'r ddogfen strategol allweddol hon.



Y Cynghorydd Jonathan Bird
Aelod Cabinet dros Adfywio a Chynllunio

# Cynnwys


| Rhestr o Bolisïau | | Rhif y Dudalen |
|---|---|---|
| 1. | Cyflwyniad | 4 |
| 2. | Y Cyd-destun Cynllunio Cenedlaethol, Rhanbarthol a Lleol | 9 |
| 3. | Proffil Gofodol Bro Morgannwg | 18 |
| 4. | Gweledigaeth ac Amcanion | 24 |
| 5. | Strategaeth y CDLl | 29 |
| 6. | Rheoli Twf ym Mro Morgannwg | 55 |
| 7. | Rheoli Datblygu ym Mro Morgannwg | 98 |
| 8. | Cyflawni a Gweithredu | 125 |
| 9. | Mesur Llwyddiant | 128 |

| Atodiadau | | Rhif y Dudalen |
|---|---|---|
| Atodiad 1: | Rhestr Termau | 151 |
| Atodiad 2: | Safleoedd Cadwraeth Natur Dynodedig a Diffiniedig | 162 |
| Atodiad 3: | Dyraniadau Tai (Polisi MG2): Manylion Safleoedd Unigol | 163 |
| Atodiad 4: | Dyraniadau Cyflogaeth (Polisi MG9): Manylion Safleoedd Unigol | 193 |
| Atodiad 5: | Canolfannau Manwerthu Tref ac Ardal: Prif Ffryntiadau Siopa a Ffryntiadau Siopa Eilaidd | 203 |
| Atodiad 6: | Ffiniau Canolfannau Manwerthu Lleol a Chymdogaeth | 209 |
| Atodiad 7: | Safleoedd o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur | 221 |
| Atodiad 8: | Dynodiadau Amgylchedd Hanesyddol: Dosbarthiad Adeiladau Rhestredig; Ardaloedd Cadwraeth; Trysorau Sirol Rhestredig Lleol; Parciau a Gerddi o Ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru; a Thirweddau o Ddiddordeb Neilltuol yng Nghymru | 226 |

## Polisïau Strategol


| Cyfeirnod y Polisi | Teitl y Polisi | Rhif y Dudalen |
|---|---|---|
| SP1 | Cyflawni'r Strategaeth | 38 |
| SP2 | Safleoedd Strategol | 39 |
| SP3 | Gofyniad Preswyl | 41 |
| SP4 | Darpariaeth Tai Fforddiadwy | 43 |
| SP5 | Gofynion Cyflogaeth | 44 |
| SP6 | Manwerthu | 45 |
| SP7 | Trafnidiaeth | 46 |
| SP8 | Rheoli Gwastraff yn Gynaliadwy | 49 |
| SP9 | Mwynau | 51 |
| SP10 | Yr Amgylchedd Adeiledig a Naturiol | 52 |
| SP11 | Twristiaeth a Hamdden | 53 |


## Polisïau Rheoli Twf


| Cyfeirnod y Polisi | Teitl y Polisi | Rhif y Dudalen |
|---|---|---|
| MG1 | Cyflenwad Tai ym Mro Morgannwg | 56 |
| MG2 | Dyraniadau Tai | 57 |
| MG3 | Safle Strategol yng Nglannau'r Barri | 60 |
| MG4 | Tai Fforddiadwy | 62 |
| MG5 | Safle Sipsiwn a Theithwyr | 64 |
| MG6 | Darparu Cyfleusterau Addysgol | 65 |
| MG7 | Darparu Cyfleusterau Cymunedol | 66 |
| MG8 | Darparu Cyfleusterau Iechyd | 67 |
| MG9 | Dyraniadau Cyflogaeth | 68 |
| MG10 | Ardal Fenter Sain Tathan – Maes Awyr Caerdydd | 69 |
| MG11 | Tir i'r De o Gyffordd 34 yr M4 Hensol | 71 |
| MG12 | Hierarchaeth Manwerthu | 72 |
| MG13 | Ardaloedd Manwerthu ar Gyrion Trefi a'r Tu Allan i Drefi | 73 |
| MG14 | Defnyddiau Heblaw A1 Manwerthu mewn Canolfannau Manwerthu Tref ac Ardal | 74 |
| MG15 | Defnyddiau Heblaw A1 Manwerthu o fewn Canolfannau Manwerthu Lleol a Chymdogaeth | 75 |
| MG16 | Cynigion Trafnidiaeth | 77 |
| MG17 | Ardaloedd Tirwedd Arbennig | 84 |
| MG18 | Lletemau Glas | 85 |
| MG19 | Safleoedd a Rhywogaethau o Bwysigrwydd Ewropeaidd | 85 |
| MG20 | Safleoedd a Rhywogaethau a Warchodir yn Genedlaethol | 86 |

| Cyfeirnod y Polisi | Teitl y Polisi | Rhif y Dudalen |
|---|---|---|
| MG21 | Safleoedd o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur, Safleoedd Daearegol a Geomorffolegol sy'n Bwysig yn Rhanbarthol a Chynefinoedd a Rhywogaethau y Rhoddir Blaenoriaeth Iddynt | 87 |
| MG22 | Datblygiadau mewn Ardaloedd Diogelu Mwynau | 88 |
| MG23 | Clustogfeydd Chwareli | 88 |
| MG24 | Safleoedd Mwynau Segur | 89 |
| MG25 | Gweithio Mwynau (Gan Gynnwys Echdynnu Olew a Nwy) | 90 |
| MG26 | Safleoedd Penodol ar gyfer Gweithio Mwynau | 91 |
| MG27 | Arfordir Treftadaeth Morgannwg | 92 |
| MG28 | Dyraniadau ar gyfer Mannau Agored Cyhoeddus | 93 |
| MG29 | Cyfleusterau Hamdden a Thwristiaeth | 94 |
| MG30 | Ardaloedd Chwilio Lleol ar gyfer Ynni Solar | 95 |


## Polisïau Rheoli Datblygu


| Cyfeirnod y Polisi | Teitl y Polisi | Rhif y Dudalen |
|---|---|---|
| MD1 | Lleoliad Datblygiadau Newydd | 99 |
| MD2 | Dyluniad Datblygiadau Newydd | 100 |
| MD3 | Darpariaeth ar gyfer Mannau Agored | 102 |
| MD4 | Seilwaith Cymunedol a Rhwymedigaethau Cynllunio | 104 |
| MD5 | Datblygiadau o fewn Ffiniau Aneddiadau | 107 |
| MD6 | Dwyseddau Tai | 108 |
| MD7 | Diogelu'r Amgylchedd | 109 |
| MD8 | Yr Amgylchedd Hanesyddol | 110 |
| MD9 | Hybu Bioamrywiaeth | 112 |
| MD10 | Datblygiadau Tai Fforddiadwy y Tu Allan i Ffiniau Aneddiadau | 113 |
| MD11 | Addasu ac Adnewyddu Adeiladau Gwledig | 114 |
| MD12 | Anheddau yng Nghefn Gwlad | 115 |
| MD13 | Twristiaeth a Hamdden | 116 |
| MD14 | Cynigion Cyflogaeth Newydd | 117 |
| MD15 | Diogelu Safleoedd Cyflogaeth a Ddyrannwyd | 118 |
| MD16 | Diogelu Safleoedd ac Adeiladau Cyflogaeth Presennol | 119 |
| MD17 | Mentrau Gwledig | 120 |
| MD18 | Llety Sipsiwn a Theithwyr | 121 |
| MD19 | Cynhyrchu Ynni Carbon Isel ac Adnewyddadwy | 121 |
| MD20 | Asesu Cynigion Rheoli Gwastraff | 123 |

# Adran 1

# Cyflwyniad



1.1 Mae Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 yn ei gwneud yn ofynnol i Gyngor Bro Morgannwg (y Cyngor) baratoi Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) ar gyfer ei ardal weinyddol, a hwnnw'n nodi strategaeth y Cyngor ar gyfer defnyddio a datblygu tir yn y dyfodol. Cafodd Cynllun Datblygu Lleol Bro Morgannwg ei fabwysiadu'n ffurfiol ar 28 Mehefin 2017 a bydd yn cael ei ddefnyddio i wneud penderfyniadau mewn modd cyson a rhesymegol yn ystod cyfnod y Cynllun i sicrhau'r defnydd mwyaf effeithlon o dir ac adnoddau cyfyngedig eraill, gan fynd ati ar yr un pryd i hybu camau i adfywio ac ysgogi'r economi leol er budd poblogaeth y presennol a'r dyfodol.

## Proses y Cynllun Datblygu Lleol

1.2 Mae'r Cytundeb Cyflawni a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru yn cynnwys Cynllun Cynnwys y Gymuned sy'n nodi dull y Cyngor o ran cynnwys y gymuned a rhanddeiliaid ac ymgysylltu â hwy trwy gydol proses y CDLl. Mae'r Cytundeb Cyflawni hefyd yn cynnwys amserlen ar gyfer paratoi'r Cynllun sy'n nodi'r raddfa amser ar gyfer pob cam o ran ei baratoi yn ogystal â'r adnoddau a ddyrennir i bob cam. Mae Ffigur 1 ar y dudalen nesaf yn dangos bod proses y CDLl yn cynnwys 8 cam ar wahân ond rhyngberthynol. Mabwysiadu'r CDLl yw'r cam olaf yn y broses. Bydd y gwaith o Fonitro ac Adolygu yn parhau dros oes y Cynllun.

1.3 Yn ogystal â chyflawni pob un o'r camau yn y broses o lunio cynllun roedd yn ofynnol i'r Cyngor gynnal Arfarniad Cynaliadwyedd ac Asesiad Amgylcheddol Strategol cyfunol o'r CDLl. Cyflawnir y rhain fel un broses asesu gynhenid, o ystyried bod yr Asesiad Amgylcheddol Strategol yn rhan annatod o'r Arfarniad Cynaliadwyedd. Mae hyn yn sicrhau bod cynaliadwyedd yn ganolog i'r broses o baratoi'r cynllun a bod effeithiau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd cynigion a pholisïau'r Cynllun yn cael eu harfarnu o ran cydymffurfio ag egwyddorion datblygu cynaliadwy. Mae'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd (92/43/EEC) yn ei gwneud yn ofynnol cynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar gyfer y CDLl hefyd. Mae hyn yn sicrhau bod asesiad priodol o effaith y Cynllun ar Safleoedd Cynefinoedd Dynodedig Ewropeaidd yn cael ei gynnal.

1.4 Ceir rhagor o wybodaeth ynglŷn â phroses y CDLl ym Mro Morgannwg yn y Cytundeb Cyflawni (Mehefin 2013) ac ar wefan y Cyngor yn www.valeofglamorgan.gov.uk/ldp.

## Strwythur y Cynllun Datblygu Lleol

1.5 **Mae'r adran** hon yn nodi'r cyd-destun ar gyfer y CDLl.

1.6 **Mae Adran 2** yn disgrifio sut y mae'r Cynllun yn ystyried strategaethau, cynlluniau a rhaglenni lleol, rhanbarthol a chenedlaethol perthnasol.

1.7 **Mae Adran 3** o'r Cynllun yn nodi'r materion economaidd-gymdeithasol ac amgylcheddol allweddol ym Mro Morgannwg. Mae'r materion wedi cael eu hadnabod trwy ymgynghori a dadansoddi ymchwil sydd wedi'i chynnwys yn sail dystiolaeth y CDLl.

## Ffigur 1




1.8 Mae **Adran 4** yn nodi Gweledigaeth y Cyngor ar gyfer Bro Morgannwg dros gyfnod y Cynllun ac yn darparu fframwaith manwl o amcanion defnydd tir. Rôl y weledigaeth yw egluro diben craidd y Cynllun a darparu fframwaith ar gyfer datblygu polisïau. Felly mae'r Weledigaeth a'r Amcanion o ran y Cynllun wedi cael eu datblygu i ystyried y nodweddion a'r materion allweddol sy'n berthnasol i Fro Morgannwg.

1.9 Mae **Adran 5** yn nodi Strategaeth y Cynllun a fydd yn rhoi arweiniad ar gyfer datblygu a defnydd tir trwy gydol cyfnod y Cynllun. Mae'r Strategaeth hon yn ceisio hybu datblygiadau yn y Parth De Ddwyreiniol, ardal sy'n cynnwys y prif ganolfannau poblogaeth ac aneddiadau trefol gydag ystod o gyfleusterau a gwasanaethau sy'n hygyrch gan ddefnyddio ystod o ddulliau cludiant. O fewn y Parth De Ddwyreiniol, mae'r Barri wedi'i nodi'n anheddiad allweddol, gan ddarparu cyfleoedd

ar gyfer twf cynaliadwy gyda ffocws arbennig ar adfywio Glannau'r Barri ac Ynys y Barri. Mae'r strategaeth hefyd yn cynnwys Sain Tathan, sydd wedi'i nodi'n Ardal Cyfle Strategol, ac 'Ardal Fenter Sain Tathan – Maes Awyr Caerdydd', gyda ffocws ar y sector awyrofod a buddsoddi yn ac o amgylch daliadau tir Llywodraeth Cymru a'r Weinyddiaeth Amddiffyn. Mae'r Strategaeth hefyd yn nodi Maes Awyr Caerdydd fel ffocws ar gyfer buddsoddi mewn cludiant a chyflogaeth. Mae hefyd yn cydnabod yr angen am lefelau priodol o dwf a datblygu yn ac o amgylch aneddiadau cynaliadwy eraill, a fydd yn cefnogi ac yn gwella cyfleusterau a gwasanaethau presennol yn ogystal â'r ardaloedd gwledig ehangach ym Mro Morgannwg.

1.10 Mae **Adran 6** yn nodi cyfres o bolisïau, dyraniadau tir a dynodiadau lleoliad-benodol sydd wedi'u bwriadu i ddarparu fframwaith ar gyfer rheoli twf ym Mro Morgannwg.

1.11 Mae **Adran 7** yn cynnwys polisïau seiliedig ar feini prawf sydd wedi'u bwriadu i ddarparu fframwaith ar gyfer rheoli datblygu ledled yr ardal, ac a fydd yn sail i asesu'r holl geisiadau cynllunio yn y dyfodol. .

1.12 Mae **Adran 8** yn nodi'r gwaith manwl o ran cynllunio seilwaith sydd wedi cael ei wneud fel rhan o'r CDLl a materion mewn perthynas â chyflawni a gweithredu safleoedd a ddyrannwyd ar gyfer eu datblygu yn y Cynllun.

1.13 Mae **Adran 9** yn darparu fframwaith monitro manwl ar gyfer y Cynllun. Mae'r adran yn nodi cyfres o dargedau a dangosyddion craidd, lleol ac o ran cynaliadwyedd sydd wedi'u bwriadu i fonitro perfformiad y Cynllun.

1.14 Mae **Atodiadau** yn cynnwys rhestr geirfa lawn, manylion safleoedd tai a chyflogaeth a ddyrannwyd, dynodiadau statudol allweddol megis Ardaloedd Cadwraeth, Safleoedd o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur (SoBCN) a Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), ffiniau manwerthu a phrif ardaloedd siopa.

1.15 Caiff dyraniadau manwl, dynodiadau statudol ac ardaloedd gwarchod eu dangos ar y **mapiau cynigion a chyfyngiadau** sy'n cyd-fynd â'r Cynllun.

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon

1.16 Mae'r CDLl yn cynnwys y Weledigaeth a'r Amcanion ar gyfer y Cynllun, y Strategaeth, Polisïau Strategol, Polisïau Rheoli Datblygu a Pholisïau ar gyfer Rheoli Twf. Mae'n nodi'r gofynion ar gyfer cyflawni a gweithredu'r safleoedd a ddyrannwyd ar gyfer eu datblygu ac mae'n darparu fframwaith monitro ar gyfer mesur effeithiolrwydd y Cynllun.

1.17 Mae'r CDLl yn cynnwys Map Cynigion a Map Cyfyngiadau a gyflwynir fel mapiau unigol yn ôl graddfa o 1:20,000. Mae'r Map Cynigion yn nodi'r ardaloedd hynny a ddyrannwyd yn benodol ar gyfer eu datblygu neu a gaiff eu gwarchod trwy bolisïau perthnasol yn y Cynllun. Mae'r Map Cyfyngiadau'n gynllun ar wahân y dylid ei ddarllen ochr yn ochr â'r Map Cynigion ac sy'n nodi cyfyngiadau ar ddatblygu ym Mro Morgannwg. Sylwer bod y Map Cyfyngiadau'n gywir ar adeg ei gyhoeddi ac y dylid ei ddefnyddio at ddibenion mynegol yn unig. Wrth baratoi cynigion manwl dylid cyfeirio at yr wybodaeth fwyaf cyfoes am gyfyngiadau gan y corff dynodi cyfrifol perthnasol megis Cyfoeth Naturiol Cymru, Llywodraeth Cymru neu Cadw.

1.18 Dylai'r CDLl gael ei ddarllen fel cyfanwaith. Mae llawer o amcanion, strategaethau a pholisïau'r Cynllun yn drawsbynciol ac yn rhyngberthynol. Bydd penderfyniadau ynghylch cynigion datblygu'n rhoi sylw i'r polisïau perthnasol yn y Cynllun a gofynion y Polisi Cynllunio Cenedlaethol, sydd wedi'i gynnwys mewn ystod eang o ddogfennau polisi, datganiadau a nodiadau cyngor a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru www.wales.gov.uk.

# Adran 2

# Y Cyd-destun Polisi Cenedlaethol, Rhanbarthol a Lleol



# Y Cyd-destun Polisi Cenedlaethol, Rhanbarthol a Lleol

2.1 Elfen bwysig o broses y CDLl yw sicrhau bod y Cynllun yn rhoi sylw i'r cyd-destun polisi a ddarperir gan ystod o gynlluniau, strategaethau a rhaglenni cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.

2.2 Caiff y dogfennau polisi cenedlaethol, rhanbarthol a lleol a oedd yn sail i'r CDLl eu crynhoi isod.

## Y Cyd-destun Polisi Cenedlaethol

2.3 Wrth baratoi'r CDLl mae'r Cyngor wedi ystyried amrywiaeth o ddeddfwriaeth, strategaethau, polisïau a chanllawiau gan Lywodraeth Cymru.

### Y Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer Cymru (2006)

2.4 Mae'r **Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer Cymru** yn nodi strategaeth hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer amgylchedd Cymru, sy'n egluro'r cyfeiriad strategol ar gyfer yr 20 mlynedd nesaf.

2.5 Diben y Strategaeth yw darparu fframwaith ar gyfer creu amgylchedd sy'n lân, yn iach, yn amrywiol yn fiolegol ac yn cael ei werthfawrogi gan bobl Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn dymuno gweld yr amgylchedd yn ffynnu ac yn cyfrannu at lesiant economaidd a chymdeithasol ac iechyd holl bobl Cymru.

### Pobl, Lleoedd, Dyfodol – Cynllun Gofodol Cymru (2008)

2.6 Mae **Cynllun Gofodol Cymru** yn darparu fframwaith ar gyfer datblygiad gofodol Cymru yn y dyfodol. Mae Bro Morgannwg, ynghyd ag awdurdodau cyfagos Caerdydd, Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful, Caerffili a Rhondda Cynon Taf wedi'i nodi fel rhan o Ranbarth "Rhwydwaith Prifddinas De Ddwyrain Cymru". Y Weledigaeth ar gyfer y Brifddinas-Ranbarth yw:

*"Ardal fedrus arloesol sy'n cynnig ansawdd bywyd uchel – sy'n rhyngwladol ond eto'n unigryw Gymreig. Bydd yn cystadlu'n rhyngwladol trwy gynyddu ei hyfywedd byd-eang trwy gysylltiadau cryfach rhwng y Cymoedd a'r Arfordir a'r DU ac Ewrop, gan helpu i ledaenu ffyniant o fewn yr ardal a dwyn budd i rannau eraill o Gymru"*

2.7 Mae Cynllun Gofodol Cymru yn cynnig dulliau gwahanol ar gyfer y tair ardal sy'n rhan o'r Brifddinas-Ranbarth. Y tair ardal yw:

- Dinas/Arfordir;
- Blaenau'r Cymoedd a Mwy; a'r
- Coridor Cysylltiadau.

2.8 Mae Cynllun Gofodol Cymru yn adnabod 14 anheddiad hwb y mae'n eu hystyried yn hollbwysig i lwyddiant y brifddinas-ranbarth gan gynnwys anheddiad y Barri.

2.9 Yn ogystal â'r ardaloedd strategaeth a'r aneddiadau hwb mae'r ddogfen hefyd yn nodi tair Ardal Cyfle Strategol. Mae'r Ardaloedd Cyfle Strategol wedi'u canoli ar:

- Sain Tathan, Bro Morgannwg;
- Llantrisant a Gogledd Orllewin Caerdydd;
- Ffordd Blaenau'r Cymoedd (A465).

2.10 Mae Ardaloedd Cyfle Strategol yn cynnig y potensial i ddatblygu ddigwydd mewn ffordd gynaliadwy, a fydd o fudd i'r rhanbarth cyfan. Mae adnabod Ardal Cyfle Strategol yn Sain Tathan ac i'r gogledd o Fro Morgannwg o amgylch Llantrisant a Gogledd Orllewin Caerdydd yn golygu bod gan yr ardal a'r CDLl rôl hollbwysig o ran datblygiad a thwf economaidd rhanbarth De Ddwyrain Cymru.

### Adnewyddu'r Economi: Cyfeiriad Newydd (2010)

2.11 **Adnewyddu'r Economi: Cyfeiriad Newydd** yw Fframwaith Strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu economaidd. Mae'r Strategaeth yn nodi gweledigaeth ar gyfer gwneud Cymru yn 'un o'r lleoedd gorau yn y byd i fyw a gweithio', ac yn nodi pum blaenoriaeth Llywodraeth Cymru, sef: Buddsoddi mewn seilwaith cynaliadwy o ansawdd da; gwneud Cymru yn lle mwy deniadol i gynnal busnes; ehangu a dyfnhau'r sail sgiliau; rhoi anogaeth i arloesi; a thargedu cymorth ar gyfer busnes.

### Cymru'n Un: Cysylltu'r Genedl – Strategaeth Drafnidiaeth Cymru (2008)

2.12 **Cymru'n Un: Cysylltu'r Genedl – Strategaeth Drafnidiaeth Cymru** yw strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer trafnidiaeth. Mae'n nodi sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflawni rhai canlyniadau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol penodol. Mae pum maes allweddol wedi'u nodi fel rhai sy'n feysydd ar gyfer cynnydd, sef:-

- Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a ffactorau eraill sy'n effeithio ar yr amgylchedd;
- Gwella trafnidiaeth gyhoeddus a sicrhau gwell integreiddio rhwng y moddau;
- Gwella cysylltiadau a hygyrchedd rhwng aneddiadau a safleoedd allweddol ledled Cymru ynghyd â chysylltiadau Cymru gyfan sydd o bwys strategol;
- Gwella'r cysylltiadau rhyngwladol; a hefyd
- Gwella diogelwch a diogeledd.

### Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol (2010)

2.13 Mae'r **Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol** yn nodi'n fanwl sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflawni Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, 'Cymru'n Un: Cysylltu'r Genedl'. Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol yn adeiladu ar gynlluniau blaenorol, gan ychwanegu ac integreiddio trafnidiaeth gyhoeddus a chymunedol, cerdded a beicio fel bod buddsoddiadau'n helpu i gyflawni'r amcanion yn 'Cymru'n Un'. Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol yn eistedd ochr yn ochr â'r Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol i gyflawni Strategaeth Drafnidiaeth Cymru er mwyn sicrhau cysondeb o ran darparu gwasanaethau ar draws y rhwydwaith trafnidiaeth. Gyda'i gilydd, mae'r cynlluniau cenedlaethol a rhanbarthol yn ceisio cryfhau'r modd y darperir gwasanaethau'n lleol a gwella mynediad at wasanaethau hanfodol megis gwasanaethau iechyd ac addysg.

### Y Cynllun Sector Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd (2012)

2.14 Mae'r Cynllun Sector Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd yn ymdrin â rheoli'r holl wastraff yng Nghymru ac yn awgrymu ble y mae angen ailgylchu gwell a'i nod yw hwyluso datblygiadau seilwaith i fynd i'r afael â'r anghenion o ran capasiti rheoli gwastraff ar gyfer Cymru. Ar gyfer rhanbarth De Ddwyrain Cymru, mae'r Cynllun yn nodi gofyniad am gyfleusterau rheoli gwastraff ychwanegol sy'n gallu ymdrin â rhwng 421,000 a 871,000 o dunelli erbyn 2024-2025.

# Y Cyd-destun Polisi Cenedlaethol, Rhanbarthol a Lleol

## Ein Dyfodol Iach (2009)

2.15 **Ein Dyfodol Iach** yw fframwaith strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer iechyd y cyhoedd er mwyn rhoi arweiniad i'r Llywodraeth, y gwasanaeth iechyd a llywodraeth leol hyd at y flwyddyn 2020. Mae'n canolbwyntio ar iechyd a llesiant trwy gydol bywyd, cymunedau cynaliadwy iach, llai o anghydraddoldebau iechyd, atal ac ymyrryd yn gynnar, ac iechyd fel nod cyffredin. Mae'n cynnwys nifer o ganlyniadau blaenoriaeth sy'n cynnwys lleihau'r arfer o beidio â bwyta'n iach, cynyddu gweithgarwch corfforol a lleihau nifer y damweiniau ac anafiadau.

## Creu Cymru Egnïol (2009)

2.16 Mae **Creu Cymru Egnïol** yn nodi cynllun Llywodraeth Cymru i annog mwy o bobl i gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol yn rheolaidd ac mae'n gosod targedau i gynyddu gweithgarwch corfforol ar gyfartaledd ymhlith oedolion a phlant erbyn 2020. Ei nod yw sicrhau bod y rhai nad ydynt yn egnïol yn gorfforol yn cael eu hannog a rhoi cymorth pellach i'r rhai sydd eisoes yn egnïol yn gorfforol. Un o'r themâu allweddol ynddo yw rhoi anogaeth i ddatblygu amgylchedd cynaliadwy sy'n hybu gweithgarwch corfforol ac yn annog pobl i fod yn egnïol yn gorfforol yn hytrach na rhwystro hynny.

## Gosod y Cyfeiriad (2010)

2.17 Mae Gosod y Cyfeiriad: Gwasanaethau Cychwynnol a Chymuned - Rhaglen Strategol ar Gyfer Cyflenwi (2010) yn nodi'r weledigaeth strategol ar gyfer y sector gofal iechyd ledled Cymru. Ei nod yw sicrhau y cyflenwir gwasanaethau cymunedol ledled Cymru sy'n ddibynadwy ac yn hygyrch ni waeth ble y mae pobl yn byw. Mae'n amcanu at sicrhau bod gwasanaethau gofal iechyd yn galluogi pobl i gadw eu hannibyniaeth am gyhyd â phosibl a chadw'n ddiogel yn eu cartref. Mae'r strategaeth hon ar gyfer gofal iechyd ynghyd â strategaethau cenedlaethol eraill gan Lywodraeth Cymru yn amlygu pwysigrwydd creu amgylcheddau iach fel rhan o ddatblygu cymunedau cynaliadwy. Maent yn nodi'r weledigaeth ar gyfer darparu gofal iechyd, sef adeiladu ar y ddarpariaeth bresennol a chyflenwi gofal wedi'i ddatganoli mewn cymunedau lleol lle bynnag y bo'n bosibl. Bydd hyn yn dod yn fwyfwy pwysig wrth ystyried anghenion grwpiau oedran penodol gyda phoblogaeth sy'n heneiddio.

## Polisi Cynllunio Cenedlaethol a Nodiadau Cyngor Technegol

2.18 Mae polisi cynllunio cenedlaethol a chyngor ynghylch cynllunio gofodol a chynllunio defnydd tir wedi'u cynnwys mewn ystod o ddogfennau polisi, cylchlythyrau a Nodiadau Cyngor Technegol (TAN). Y rhai sy'n arbennig o arwyddocaol yw Polisi Cynllunio Cymru a chyfres o Nodiadau Cyngor Technegol a gynhyrchwyd i roi cyngor ac arweiniad pellach ynghylch materion cynllunio. Gellir gweld y rhain yn www.wales.gov.uk/planning.

## Deddf Cynllunio (Cymru) 2015

2.19 Mae Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn nodi cyfres o newidiadau deddfwriaethol i ddiwygio'r system gynllunio yng Nghymru, er mwyn sicrhau ei bod yn deg, yn gydnerth ac yn galluogi datblygu i ddigwydd. Mae'r Ddeddf yn mynd i'r afael â 5 amcan allweddol:

- Fframwaith wedi'i foderneiddio ar gyfer darparu gwasanaethau cynllunio – mae'r Ddeddf yn cyflwyno pwerau i ganiatáu cyflwyno ceisiadau cynllunio yn uniongyrchol i Weinidogion Cymru dan amgylchiadau cyfyngedig.
- Cryfhau'r dull seiliedig ar gynlluniau – mae'r Ddeddf yn cyflwyno sail gyfreithiol i baratoi Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a Chynlluniau Datblygu Strategol.
- Gwell cydnerthedd – bydd y Ddeddf yn caniatáu i Weinidogion Cymru gyfarwyddo awdurdodau cynllunio lleol i gydweithio a rhoi cyfarwyddyd bod yn rhaid i awdurdodau cynllunio lleol uno.
- Rhoi mwy o bwyslais ar gamau rhagarweiniol y system rheoli datblygu – bydd y Ddeddf yn cyflwyno gweithdrefn cyn ymgeisio ar gyfer ceisiadau cynllunio mewn categorïau diffiniedig.
- Galluogi gorfodi ac apeliadau effeithiol i ddigwydd – mae'r Ddeddf yn galluogi newidiadau i weithdrefnau gorfodi i sicrhau camau gweithredu prydlon, ystyrlon yn erbyn achosion o dorri rheolaeth gynllunio a chynyddu tryloywder ac effeithlonrwydd y system apelio.

## Y Cyd-destun Polisi Rhanbarthol

### Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer Agregau (2014)

2.20 Mae'r Datganiad Technegol Rhanbarthol wedi cael ei lunio gan Weithgor Agregau Rhanbarthol De Cymru (SWRAWP). Mae TAN 1 – Mwynau (gweler paragraff 1.45) yn nodi amcan trosfwaol, sy'n ceisio sicrhau cyflenwad a reolir yn gynaliadwy o agregau sy'n hanfodol ar gyfer adeiladu trwy daro'r cydbwysedd rhwng costau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol. Mae'r Datganiad Technegol Rhanbarthol wedi cael ei lunio i helpu i roi arweiniad i Awdurdodau Lleol unigol yn Ne Cymru o ran sut i weithredu'r polisïau cynllunio mwynau hyn wrth lunio polisïau a dyraniadau eu CDLliau unigol hwy eu hunain.

### Cynllun Trafnidiaeth Lleol (2010)

2.21 Cynghrair o 10 awdurdod lleol yn Ne Ddwyrain Cymru a oedd yn gweithio gydag eraill i sicrhau trafnidiaeth well yn rhanbarth De Ddwyrain Cymru oedd Cynghrair Trafnidiaeth De Ddwyrain Cymru (Sewta).

2.22 Gweledigaeth Sewta ar gyfer y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol oedd darparu system drafnidiaeth fodern, integredig a chynaliadwy ar gyfer De Ddwyrain Cymru a oedd yn cynyddu cyfleoedd, yn hybu ffyniant ac yn diogelu'r amgylchedd, lle mae trafnidiaeth gyhoeddus, cerdded, beicio a chludo nwyddau mewn modd cynaliadwy yn darparu dewisiadau teithio eraill go iawn.

2.23 Mae blaenoriaethau'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn dal i fod yn berthnasol ac maent wedi goleuo'r broses o baratoi'r Cynllun Trafnidiaeth Lleol. Blaenoriaethau'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol oedd:

- Gwella mynediad at wasanaethau, cyfleusterau a chyflogaeth, yn enwedig trwy ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, cerdded a beicio;
- Darparu system drafnidiaeth sy'n cynyddu'r defnydd o ddulliau teithio cynaliadwy;
- Lleihau'r galw am deithio;

- Datblygu system drafnidiaeth effeithlon a dibynadwy gyda lefelau is o dagfeydd a chysylltiadau trafnidiaeth gwell yn rhanbarth Sewta ac â gweddill Cymru, y DU ac Ewrop;
- Darparu system drafnidiaeth sy'n rhoi anogaeth i fyw bywydau iach ac egnïol, sy'n fwy diogel ac sy'n cefnogi cymunedau lleol;
- Lleihau'n sylweddol yr allyriadau nwyon tŷ gwydr a'r llygredd aer sy'n deillio o drafnidiaeth;
- Sicrhau bod datblygiad defnydd tir yn ne ddwyrain Cymru yn cael ei ategu gan fesurau trafnidiaeth cynaliadwy; a
- Gwneud defnydd gwell o'r system drafnidiaeth.

## Dinas-Ranbarthau (Gorffennaf 2012)

2.24 Sefydlwyd 'Grŵp Tasg a Gorffen' gan Lywodraeth Cymru i ystyried y dystiolaeth ar gyfer dinas-ranbarthau fel sbardunau economaidd, ac i adnabod dinas-ranbarthau posibl yng Nghymru. Ystyrid mai'r prif amcan oedd penderfynu a oedd yn ymddangos y byddai dull seiliedig ar ddinas-ranbarthau'n debygol o greu mwy o swyddi a mwy o ffyniant yng Nghymru ac i Gymru na dulliau datblygu economaidd presennol. Cyhoeddwyd yr adroddiad terfynol ym mis Gorffennaf 2012 ac roedd yn dod i'r casgliad y gallai dull seiliedig ar Ddinas-Ranbarthau yng Nghymru ddwyn tri phrif fudd economaidd:

- Marchnadoedd llafur sy'n fwy o faint ac yn fwy effeithlon, fel bod y siawns o gyfatebiaeth dda rhwng anghenion cyflogwyr a sgiliau gweithwyr yn cael ei chynyddu;
- Marchnadoedd posibl mwy ar gyfer nwyddau a gwasanaethau oherwydd y crynodiad o weithgarwch a'r arbedion mewn costau trafnidiaeth; a hefyd
- Mwy o gyfnewid gwybodaeth, syniadau a datblygiadau arloesol. Mae ei lwyddiant yn ddibynnol ar bresenoldeb poblogaeth sylweddol sydd â sgiliau perthnasol, rhwydweithiau cyfathrebu effeithlon, ac ewyllys wleidyddol.

2.25 Roedd yr adroddiad yn ymgorffori 22 o argymhellion gan gynnwys argymell sefydlu Prifddinas-Ranbarth ar gyfer De Ddwyrain Cymru ac ym mis Tachwedd 2013 fe sefydlodd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth Fwrdd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Mae'r Bwrdd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r gymuned fusnes, sectorau addysg ac awdurdodau lleol a'i rôl yw rhoi arweinyddiaeth strategol a chyngor ynghylch datblygiad a thwf y Rhanbarth. Yn 2015 fe gyhoeddodd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ei weledigaeth strategol ar gyfer y Rhanbarth a oedd yn dwyn y teitl "Sbarduno Economi Cymru". Mae hon yn canolbwyntio ar y cyfle ar gyfer aliniad a chydweithio rhanbarthol gwell mewn perthynas â phedair thema allweddol sy'n canolbwyntio ar gysylltedd, sgiliau, arloesi a thwf, a hunaniaeth.

2.26 Ym mis Mawrth 2016, cafodd 'Bargen Prifddinas-Ranbarth Caerdydd' ei chytuno gan y 10 awdurdod lleol yn Ne Ddwyrain Cymru, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Mae'r Fargen Ddinesig yn cynnwys buddsoddiad gwerth £1.2 biliwn dros 20 mlynedd a rhagwelir y gallai'r rhaglen greu hyd at 25,000 o swyddi newydd ac ysgogi gwerth £4 biliwn yn ychwanegol o fuddsoddiad gan y sector preifat yn y Rhanbarth. Nod y fargen yw adeiladu ar gryfderau sectoraidd y rhanbarth a bydd yn cynnig cyfleoedd i fynd i'r afael â rhwystrau i dwf economaidd trwy: wella cysylltedd trafnidiaeth; cynyddu lefelau sgiliau ymhellach byth; cynorthwyo pobl i gael gwaith; a rhoi i fusnesau y cymorth y mae'i angen arnynt i arloesi a thyfu. Mae disgwyl y bydd prosiectau allweddol yn cynnwys cyflawni Metro De Ddwyrain Cymru a moderneiddio rheilffyrdd y Cymoedd. Bydd penderfyniadau ynghylch cynlluniau allweddol eraill yn cael eu gwneud gan Gabinet Prifddinas-Ranbarth Caerdydd wrth i

raglen y Fargen Ddinesig ddatblygu. Gallai'r rhain gynnwys, er enghraifft, cynlluniau trafnidiaeth pellach; buddsoddiad i ddatgloi safleoedd tai a chyflogaeth; a datblygu cyfleusterau ymchwil ac arloesi sy'n mynd i'r afael â'r amcanion ar gyfer y Rhanbarth.

## Y Cyd-destun Polisi Lleol

### 'Cynllunio a Gweithio Gyda'n Gilydd': Strategaeth Gymunedol Bro Morgannwg 2011 - 2021

2.27 Mae 'Cynllunio a Gweithio gyda'n Gilydd' yn darparu gweledigaeth o ran sut y bydd Bro Morgannwg yn edrych yn y dyfodol a sut y gellir gwireddu'r weledigaeth honno. Mae'n ceisio sicrhau bod sefydliadau sy'n weithredol ym Mro Morgannwg yn canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau o ansawdd ar gyfer trigolion, ymwelwyr a busnesau. Mae'r Strategaeth Gymunedol yn ddull cydgysylltiedig o wella ansawdd bywyd ym Mro Morgannwg.

2.28 Mae'r Strategaeth yn cynnwys y Cynllun Plant a Phobl Ifanc, y Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Llesiant, y Strategaeth Diogelwch Cymunedol a'r Strategaeth Pobl Hŷn. Mae ymgorffori strategaethau a chynlluniau partneriaethau allweddol mewn un strategaeth wedi'i fwriadu i gael gwared ar ddyblygu a dryswch ar draws partneriaethau, gwella gwasanaethau cyhoeddus a sicrhau defnydd effeithlon o adnoddau.

2.29 Mae'r Strategaeth Gymunedol yn cynnwys 10 canlyniad blaenoriaeth fel a ganlyn:

- Bod pobl o bob oedran yn cymryd rhan weithredol ym mywyd y Fro a bod ganddynt y gallu a'r hyder i adnabod eu hanghenion eu hunain fel unigolion ac o fewn cymunedau.
- Diwallu anghenion amrywiol pobl leol trwy ddarparu gwasanaethau a gwybodaeth hygyrch sy'n canolbwyntio ar y cwsmer.
- Bod trigolion a sefydliadau'r Fro yn parchu'r amgylchedd lleol ac yn gweithio gyda'i gilydd i gwrdd â her newid yn yr hinsawdd.
- Bod pobl hyn yn cael eu gwerthfawrogi a'u grymuso i barhau i fod yn annibynnol, yn iach ac yn weithgar. Eu bod yn cael cyfle cyfartal ac yn derbyn gwasanaethau o ansawdd uchel i gwrdd â'u hamrywiol anghenion.
- Bod gan Blant a Phobl Ifanc yn y Fro wybodaeth dda a chynhaliaeth i gyrchu ystod eang o wasanaethau o ansawdd a fydd yn eu galluogi i gymryd mantais lawn ar y cyfleoedd bywyd sydd ar gael yn ein cymunedau lleol a thu hwnt.
- Bod pobl o bob oed yn gallu cael mynediad at gyfleoedd dysgu cydgysylltiedig a bod ganddynt y sgiliau angenrheidiol i gyflawni eu llawn botensial, gan helpu i leihau rhwystrau i gyflogaeth.
- Delio gydag achosion gwaelodol amddifadedd a pharhau i adfywio'r Fro, datblygu cyfleoedd i unigolion a busnesau ac amddiffyn a gwella ansawdd yr amgylchedd adeiledig a naturiol.
- Bod y Fro yn gwneud y gorau o'i sefyllfa o fewn y rhanbarth trwy weithio gyda'i chymdogion er budd pobl a busnesau lleol, gan ddenu ymwelwyr, trigolion a buddsoddiad.
- Bod trigolion ac ymwelwyr yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel a bod y Fro yn cael ei chydnabod fel ardal trosedd isel.
- Bod anghydraddoldebau iechyd yn cael eu lleihau a bod trigolion yn gallu cael gwasanaethau, yr wybodaeth a'r cyngor angenrheidiol i wella eu lles ac ansawdd eu bywyd.

2.30 Bydd y CDLl yn darparu fframwaith a fydd yn cyflawni rôl bwysig o ran rhoi cymorth i gyflawni llawer o'r canlyniadau blaenoriaeth hyn.

### Cynllun Rheoli Cyrchfan Bro Morgannwg 2015

2.31 Mae Cyngor Bro Morgannwg yn ymrwymedig i ddatblygiad y diwydiant twristiaeth lleol. Mae'n cydnabod bod diwydiant twristiaeth a reolir yn dda'n ffynhonnell bwysig ar gyfer creu swyddi newydd, galluogi arallgyfeirio economaidd i ddigwydd, gwarchod y dreftadaeth leol a'r amgylchedd lleol a dwyn manteision i'r gymuned leol.

2.32 Mae'r Cynllun Rheoli Cyrchfan yn ceisio sicrhau bod Bro Morgannwg yn parhau i ffynnu fel cyrchfan llwyddiannus i dwristiaid yn y blynyddoedd a ddaw ac yn parhau i gael y bydd mwyaf posibl o'r economi ymwelwyr. Gweledigaeth y Cyngor yw 'datblygu economi ymwelwyr ffyniannus ym Mro Morgannwg yn seiliedig ar ei chryfderau a'i chymeriad unigryw, sy'n creu mwy o wariant ac incwm lleol, yn gwella'i delwedd a'i henw da ac yn gwella ansawdd bywyd i gymunedau lleol.'

### Cynllun Corfforaethol (2016 – 2020)

2.33 Mae'r Cynllun Corfforaethol yn nodi sut y mae'r Cyngor yn bwriadu helpu i wireddu'r weledigaeth drosfwaol yn y Strategaeth Gymunedol ar gyfer 2016 – 2020, mae'n darparu fframwaith ar gyfer Cynlluniau Gwasanaeth ac mae'n tanategu cyllideb y Cyngor. Mae'n adlewyrchu dyhead y Cyngor i fynd ati'n barhaus i wella'r gwasanaethau y mae'n eu darparu ar gyfer y gymuned leol, ac mae'n seiliedig ar y Gwerthoedd Craidd canlynol:

- **Darparu Gwasanaethau Da:** Rydym yn credu mewn darparu gwasanaethau o ansawdd da sy'n rhoi gwerth am arian, a byddwn wastad yn ymegnïo i wneud hynny gan ymlynu wrth y gwerthoedd eraill ar yr un pryd. Byddwn yn cofleidio syniadau arloesol fel bod gwasanaethau'n parhau i gyflawni canlyniadau gwell a diwallu anghenion ein cwsmeriaid;
- **Tryloywder:** Bydd penderfyniadau'r Cyngor yn agored ac yn dryloyw, a byddwn yn gwneud newidiadau i'r ffordd y mae'r Cyngor yn gweithio er mwyn cyflawni hyn;
- **Ymgysylltu:** Cyn gwneud penderfyniadau arwyddocaol byddwn yn ymgysylltu â'r unigolion, grwpiau a chymunedau y maent yn effeithio arnynt;
- **Grymuso:** Byddwn yn ymegnïo i alluogi pob rhan o'r gymuned, gan gynnwys y rhai nad yw eu lleisiau wedi cael eu clywed yn y gorffennol, i fod â rheolaeth ar eu bywydau.

### Strategaeth Dai Leol Bro Morgannwg (2015 - 2020)

2.34 Cafodd y Strategaeth Dai Leol ar gyfer Bro Morgannwg ei datblygu mewn ymgynghoriad gyda phartneriaid allweddol a thrigolion lleol. Mae'r Strategaeth yn ceisio codi safonau a gwella mynediad at dai sy'n hanfodol i ansawdd bywyd a llesiant. Mae'r Strategaeth yn nodi'r Weledigaeth ar gyfer tai yn y Fro dros gyfnod o bum mlynedd ac yn nodi sut y bydd y Weledigaeth yn cael ei gwireddu.

### Cynllun Rheoli Traethlin Aber Afon Hafren 2 (2010) a Chynllun Rheoli Traethlin Trwyn Larnog i Ben y Santes Ann 2 (2012).

2.35 Mae'r Cynlluniau Rheoli Traethlin yn darparu fframwaith ar gyfer rheoli'r morlin ym Mro Morgannwg. Mae'r ddwy dogfen yn darparu 'map trywydd' i symud o'r sefyllfa bresennol tuag at ddiwallu

anghenion yn y dyfodol ac adnabod y dulliau mwyaf cynaliadwy o reoli'r risgiau i'r arfordir yn y tymor byr (0-20 mlynedd), y tymor canolig (20-50 mlynedd) a'r tymor hir (50-100 mlynedd). Mae'r Cynlluniau Rheoli Traethlin yn cynnwys cynllun gweithredu sy'n blaenoriaethu'r gwaith y mae ei angen i reoli prosesau arfordirol yn y dyfodol.

### Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Bro Morgannwg

2.36 Mae Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Bro Morgannwg yn cydnabod amrywiaeth planhigion ac anifeiliaid a'r lle y maent yn byw (Cynefinoedd), gan eu hadnabod fel blaenoriaethau lleol. Amcan Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Bro Morgannwg ar y cyfan yw gwarchod a gwella bioamrywiaeth y Fro trwy wneud y canlynol:

- Gwarchod yr holl gynefinoedd a rhywogaethau sy'n bwysig ar lefel leol yn ogystal chenedlaethol neu ryngwladol ar gyfer cadwraeth natur;
- Hybu rheolaeth optimaidd ar gyfer y safleoedd hyn;
- Lle y bo'n briodol, gwella cynefinoedd sydd wedi diraddio neu greu cynefinoedd newydd; a chreu amgylchedd iach y gall y rhywogaethau mwy cyffredin ffynnu ynddynt; a hefyd
- Creu ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd o fioamrywiaeth leol trwy addysg a gwybodaeth i bob sector.

### Cynllun Trafnidiaeth Lleol Bro Morgannwg 2015 - 2030

2.37 Mae Cynllun Trafnidiaeth Lleol (CTLl) y Cyngor yn ceisio adnabod yr holl fesurau o ran trafnidiaeth gynaliadwy sy'n ofynnol er mwyn sicrhau bod Bro Morgannwg yn ymlynu wrth ofynion a bennwyd gan Lywodraeth Cymru a chanllawiau arfer da presennol. Mae'r CTLl yn nodi nifer o amcanion byrdymor hyd at 2020 ac yn cynnwys amcanion dros y tymor canolig a hwy hyd at 2030. Mae'r CTLl wedi cael ei oleuo gan gynigion yng Nghynllun Datblygu Lleol y Cyngor ac mae hefyd yn gyson â'r amcanion yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru. Trwy adnabod cynlluniau mae'r CTLl yn ceisio ffyrdd o sicrhau amodau gwell ar gyfer cerddwyr, beicwyr a defnyddwyr trafnidiaeth gyhoeddus ac o roi anogaeth i newid trwy ddewis dulliau yn lle car ag un teithiwr ynddo. Mae'r CTLl hefyd yn ceisio mynd i'r afael â thagfeydd traffig trwy sicrhau gwelliannau i'r coridorau priffyrdd strategol ar gyfer cymudwyr y gall fod arnynt angen teithio mewn car yn ogystal â darparu seilwaith gwell ar gyfer cludo nwyddau. Mae hefyd yn ceisio mynd i'r afael â'r blaenoriaethau allweddol o ran diogelwch ar y ffyrdd ar gyfer y Fro. Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Lleol yn cefnogi cynigion ar gyfer Metro Caerdydd a bydd y CTLl yn goleuo'r broses ranbarthol o gynllunio trafnidiaeth yn y dyfodol.

# Adran 3

# Proffil Gofodol Bro Morgannwg



3.1 Mae'r proffil gofodol canlynol wedi'i fwriadu i amlygu'r ffactorau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd sy'n nodweddu Bro Morgannwg yn yr 21ain Ganrif. Mae'r materion a nodir wedi cael eu hadnabod trwy'r gwaith a wnaed gan y Cyngor fel rhan o'r adolygiad o Strategaeth Gymunedol y Cyngor. Hefyd, mae'r broses o amlygu materion wedi cael ei goleuo gan waith ymgynghori ac ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol i baratoi'r wybodaeth sylfaenol ar gyfer y CDLl sydd wedi'i chynnwys yn yr Asesiad Amgylcheddol Strategol ac astudiaethau o'r sail dystiolaeth a baratowyd i ategu'r CDLl. Yn olaf, mae'r cyd-destun ar gyfer datblygu a ddarperir gan y fframwaith polisi cenedlaethol wedi dylanwadu ar y broses hon hefyd.

## Y Lleoliad a'r Cyd-destun Rhanbarthol

3.2 Bro Morgannwg yw'r Awdurdod Unedol mwyaf deheuol yng Nghymru, ac mae'n gorwedd i'r gorllewin o Gaerdydd rhwng yr M4 ac Aber Afon Hafren ac yn gorchuddio 33,097 hectar, y mae tua 85% (28,132 hectar) ohono'n dir amaethyddol. Mae gan Fro Morgannwg 53 cilometr o forlin, y mae 19 cilometr ohono wedi'i ddynodi'n Arfordir Treftadaeth. Ei awdurdodau cyfagos yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i'r gorllewin, Cyngor Caerdydd i'r dwyrain a Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf i'r gogledd.

3.3 Mae'r A48 yn cysylltu Bro Morgannwg â rhanbarth y de ddwyrain a'r tu hwnt, gyda thraffordd yr M4 wedi'i lleoli i'r gogledd o'r ffin weinyddol. Hefyd, mae tref y Barri wedi'i chysylltu â'r rhanbarth ehangach gan brif reilffordd Bro Morgannwg rhwng Pen-y-bont ar Ogwr a Chaerdydd. Mae'r unig faes awyr masnachol yn Ne Ddwyrain Cymru wedi'i leoli yn y Rhws, ryw 8 cilometr i'r gorllewin o Ganol Tref y Barri. Mae rhedfa'n bodoli yn y Weinyddiaeth Amddiffyn yn Sain Tathan hefyd.

## Portread Economaidd-gymdeithasol

3.4 Mae'r amcangyfrifon canol blwyddyn ar gyfer 2014 yn dynodi bod poblogaeth Bro Morgannwg yn 127,685 y mae tua 52,000 ohoni'n byw yn y Barri. Mae 49,000 arall wedi'u dosbarthu ymhlith trefi mwy Penarth, Llanilltud Fawr, Dinas Powys a'r Bont-faen. Mae gweddill y boblogaeth wedi'i dosbarthu rhwng pentrefi a phentrefannau gwledig llai Bro Morgannwg.

3.5 Mae'r Amcanestyniadau Poblogaeth (2011) yn dynodi y bydd poblogaeth Bro Morgannwg yn codi o 126,700 yn 2011 i 132,500 erbyn 2026. Er y bydd proffil y rhywiau'n aros yn ddigyfnewid i raddau helaeth gyda 49% o ddynion a 51% o fenywod, mae oedran y boblogaeth yn dangos cynnydd rhagamcanol o 8% mewn plant dan 18 a 37% mewn pobl o oedran ymddeol.

3.6 Mae'r Gymraeg yn rhan o ffabrig cymdeithasol a diwylliannol Cymru ac mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei chefnogi ac y rhoddir anogaeth i'w defnyddio ledled Cymru. Mae pwysigrwydd diwylliant a threftadaeth Cymru wedi cael ei gydnabod yn y Cynllun. Fodd bynnag, yn dilyn asesu dwyseddau o ran y defnydd o'r Gymraeg ledled Bro Morgannwg, ni ystyrir bod hwn yn fater y mae gofyn mynd i'r afael ag ef yn y Cynllun. O ganlyniad nid yw'r cynigion a geir yn y CDLl yn cael eu hystyried yn rhai a fydd yn cael effaith anffafriol ar y Gymraeg a diwylliant Cymru nac yn cael effaith sylweddol ar gydbwysedd ieithyddol Bro Morgannwg na'r cymunedau ym Mro Morgannwg.

3.7 Mae amrywiaeth economaidd-gymdeithasol sylweddol i'w gweld ym Mro Morgannwg a hithau'n cynnwys rhai o'r cymunedau mwyaf goludog a mwyaf amddifadus yng Nghymru. Mae'r Mynegai

Amddifadedd Lluosog (2014) yn dangos, o'r 79 Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHI) ym Mro Morgannwg, bod 4 ACEHI yn y Barri yn perthyn i'r 10% o ardaloedd mwyaf amddifadus yng Nghymru. Mae meysydd sy'n achosi pryder yn arbennig yn ymwneud â mynegeion uchel o ran amddifadedd mewn perthynas â chyflogaeth, incwm, addysg, iechyd a diogelwch cymunedol. O ganlyniad i'r ffactorau economaidd-gymdeithasol hyn fe wnaeth Llywodraeth Cymru ddynodi'r dref yn Ardal Adfywio Strategol yn 2011. Bydd y dynodiad yn helpu i ddarparu dull â ffocws pendant o fynd ar drywydd adfywio a bydd o gymorth i ddwyn manteision economaidd a chymdeithasol i'r dref.

3.8 I'r gwrthwyneb, mae llawer o'r trefi a phentrefi eraill ym Mro Morgannwg yn ffyniannus. Mae'r Mynegai Amddifadedd Lluosog (2014) yn dangos bod 18 o'r ACEHIoedd ym Mro Morgannwg yn y 10% uchaf o ran yr ardaloedd lleiaf amddifadus yng Nghymru. Fodd bynnag, er bod Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn nodi crynodiad o'r ACEHIoedd mwyaf amddifadus yn y Barri, cydnabyddir bod pocedi llai o amddifadedd yn bodoli yng nghornel wledig a de ddwyreiniol Bro Morgannwg hefyd.

3.9 O ran anghydraddoldebau iechyd, mae ffigyrau gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru yn dangos bod disgwyliad oes ym Mro Morgannwg, fel yng Nghymru'n gyffredinol, yn cynyddu. Fodd bynnag, nid yw'r gwelliant hwn yn cael ei brofi'n gyfartal ar draws pob ardal gyda bylchau anghydraddoldeb yn bodoli rhwng yr ardaloedd mwyaf a lleiaf amddifadus ar gyfer disgwyliad oes. Ceir anghydraddoldebau hefyd yn ansawdd bywyd mewn perthynas â disgwyliad oes iach a disgwyliad oes heb anabledd. Mae'r Mynegai Anghydraddoldeb Goleddol (SII) ar gyfer Bro Morgannwg yn dangos, er enghraifft, bod y bwlch mewn disgwyliad oes mewn dynion rhwng y bumed fwyaf a lleiaf amddifadus oddeutu 8 mlynedd. Wrth ystyried disgwyliad oes iach mae'r bwlch yn fwy byth, sef tuag 20 mlynedd.

3.10 Mae agosrwydd Bro Morgannwg at Gaerdydd ynghyd â natur gyfoethog ac amrywiol y trefi a'r pentrefi yn yr ardal wedi arwain at bwysau sylweddol ar gyfer datblygiadau preswyl newydd. Mae cyfradd codi tai o 426 annedd y flwyddyn ar gyfartaledd rhwng 1998 a 2009 yn dangos yn glir pa mor gryf yw'r farchnad dai. Caiff canlyniad net y pwysau hyn ei ddangos trwy werthoedd tir a phrisiau tai cymharol uchel. Roedd Mynegai Prisiau Tai'r Gofrestrfa Tir (Mai 2016) yn dynodi mai £199,577 oedd pris tŷ ym Mro Morgannwg ar gyfartaledd.

3.11 Mae prisiau eiddo uchel yn cyfrannu at gynnydd yn nifer y trigolion sy'n methu ag ymuno â'r farchnad dai breifat. Mae'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (2015-2020) yn dangos angen am dai ar y cyfan o 559 o anheddau fforddiadwy y flwyddyn am y cyfnod 2015-2020. Mae canfyddiadau'r asesiad yn ei gwneud yn glir bod angen am dai fforddiadwy ledled Bro Morgannwg, gyda'r ardaloedd â'r angen mwyaf wedi'u hadnabod yn wardiau Penarth a Llandochau, a'r Barri, ac yna Llanilltud Fawr, Dinas Powys, Y Bont-faen, Y Rhws, Sili, Sain Tathan, Gwenfô, Llanbedr-y-fro, Llandŵ/Ewenni a Saint-y-brid.

3.12 Mae proffil economaidd Bro Morgannwg yn un o amrywiaeth. Mae'r Astudiaeth Tir ac Adeiladau Cyflogaeth (2013) yn dynodi'r ystod o sectorau cyflogaeth sy'n weithredol yn y Fro ar hyn o bryd, ac yn nodi bod y rhan fwyaf o fusnesau'r Fro'n cyflogi llai na deg o gyflogeion (84.5%). Mae bron i draean (32.4%) y bobl ym Mro Morgannwg yn cael eu cyflogi mewn galwedigaethau proffesiynol a galwedigaethau proffesiynol a thechnegol cysylltiedig, o'i gymharu â chyfartaledd Cymru, sef ychydig dros chwarter (26.6%). I'r gwrthwyneb, mae 5.4% o'r bobl yn y Fro'n cael eu cyflogi mewn galwedigaethau megis gweithredwyr proses, offer a pheiriannau a galwedigaethau elfennol (8.1%

yw cyfartaledd Cymru). Mae gwestai a bwytai'n darparu bron i 5.2% o'r sail gyflogaeth. Mae nifer y bobl a gyflogir mewn amaethyddiaeth ac yn y diwydiant pysgota, a oedd yn arfer bod yn fwy blaenllaw nag unrhyw ddiwydiannau eraill ym Mro Morgannwg, yn rhoi cyfrif am lai nag 1% (0.7) o'r farchnad gyflogaeth, o'i gymharu â chyfartaledd cenedlaethol o 1.7%.

3.13 Mae'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (Ebrill 2015 – Mawrth 2016) yn dynodi bod diweithdra (Ebrill 2015 – Mawrth 2016) yn dynodi bod diweithdra ym Mro Morgannwg 4.3% islaw cyfartaledd Cymru, sef 5.4%. Mae Ystadegau Incwm Personol yn ôl Blwyddyn Dreth y Swyddfa Ystadegau Gwladol 2013 – 2014 yn dynodi mai £30,900 yw'r incwm cyfartalog yn yr ardal, sy'n sylweddol uwch na chyfartaledd Cymru, sef £25,600.

3.14 Mae Astudiaeth Tir ac Adeiladau Cyflogaeth y Cyngor (2013) yn dynodi bod y dirywiad economaidd wedi effeithio ar gyfradd defnyddio tir cyflogaeth yn y tymor hir, gan nodi gofyniad blynyddol dros gyfnod y Cynllun o 2.65 hectar (4.1 hectar yn flaenorol yn astudiaeth tir cyflogaeth 2007). Er gwaethaf hyn, mae astudiaeth 2013 yn dynodi bod galw cryf am adeiladau a lleiniau o dir bach a chanolig, yn enwedig yn ardal y Barri, sy'n denu busnes o Gaerdydd sy'n chwilio am le rhatach. Hefyd, mae'r astudiaeth yn nodi bod y Bont-faen a Phenarth yn cefnogi marchnad adeiladau swyddfeydd ffyniannus. O ganlyniad, mae'r astudiaeth yn argymell y dylai'r Cyngor ddiogelu tir ac adeiladau cyflogaeth presennol, a hefyd gweithio gyda thirfeddianwyr i gyflwyno tir nad oes llawer o ddefnydd arno/tir gwag mewn ardaloedd lle mae galw'n bodoli.

3.15 Roedd dynodi Ardal Fenter 'Sain Tathan – Maes Awyr Caerdydd' ym mis Medi 2011 yn gam sydd o bwysigrwydd rhanbarthol, ac mae'n canolbwyntio ar y sector awyrofod ac amddiffyn. Mae hwn yn gyfle arwyddocaol i ddod â mewnfuddsoddiad sy'n gysylltiedig ag awyrofod i'r ardal. Mae cyfle arall pwysig ar gyfer cyflogaeth wedi'i leoli yn hen ffatri Bosch yng nghyffordd 34 yr M4. Cafodd y safle hwn ei gaffael gan Renishaw yn 2011 ac mae wedi cael caniatâd cynllunio amlinellol i ddatblygu'r safle gan gynnwys defnyddiau Dosbarth B1, B2 a B8; gwesty/canolfan hyfforddi breswyl (defnyddiau Dosbarth C1/C2); defnyddiau atodol yn Nosbarthiadau A1, A2, A3.

3.16 Ffactor allweddol yn y farchnad gyflogaeth yw agosrwydd Bro Morgannwg at Gaerdydd. Yn 2015, roedd ystadegau blynyddol ynghylch cymudo a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn dangos mai'r Fro, ar 51.1%, sydd â'r gyfradd allgymudo uchaf yng Nghymru o'i gymharu â ffigwr cyfartalog cenedlaethol Cymru, sef 30.6%. Mae'r mwyafrif o'r allgymudo'n digwydd i mewn i Gaerdydd (34.4%) ac awdurdodau cyfagos Pen-y-bont ar Ogwr (4.8%), Rhondda Cynon Taf (3.6%) a Chasnewydd (1.9%). I'r gwrthwyneb, mae 14,300 o bobl yn cymudo i mewn i'r Fro i weithio. Mae bron hanner (47.6%) yr allgymudwyr yn dod o Gaerdydd ac 17.5% yn dod o Ben-y-bont ar Ogwr.

3.17 Mae'r sector manwerthu ym Mro Morgannwg yn cynnwys ystod o siopau cyfleustra a chymharol sydd wedi'u canoli'n bennaf yn aneddiadau'r Barri, Penarth, Llanilltud Fawr a'r Bont-faen. Mae'r Astudiaeth Manwerthu (2013) yn dynodi bod y sector manwerthu ym Mro Morgannwg yn werth £554 miliwn y flwyddyn. Ar hyn o bryd mae bron i 85% o gyfanswm y gwariant ar nwyddau cyfleus a 30% o'r gwariant ar nwyddau cymharol yn cael ei gadw yn yr ardal.

3.18 Mae'r astudiaeth yn dynodi bod potensial i gadw cyfran fwy o'r gwariant ar nwyddau cyfleus trwy ddarparu arwynebedd llawr ychwanegol yn y Barri, Penarth a'r Bont-faen. Gelli'r priodoli'r gwariant cymharol sy'n cael ei golli allan o'r ardal i nifer o ffactorau, a'r mwyaf arwyddocaol o'r rhain yw agosrwydd yr ardal at Gaerdydd.

## Portread Amgylcheddol

3.19 Mae gan Fro Morgannwg ystod eang o adnoddau amgylcheddol, y mae rhai ohonynt yn cael eu cydnabod am eu gwerth gan ddynodiadau rhyngwladol a chenedlaethol megis Aber Afon Hafren ac Arfordir Treftadaeth Morgannwg. Ceir hefyd nifer fawr o safleoedd o werth cadwraeth natur dynodedig sy'n bwysig yn genedlaethol ac yn lleol ac sy'n darparu cynefinoedd pwysig ar gyfer bioamrywiaeth leol gan gynnwys rhywogaethau a warchodir. Mae gan Fro Morgannwg 27 Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGAoedd), 1 Ardal Warchodaeth Arbennig, 2 Ardal Cadwraeth Arbennig ac un sy'n ffinio â Bro Morgannwg yng Nghynffig (Pen-y-bont ar Ogwr) ac 1 safle RAMSAR.

3.20 O ran treftadaeth ddiwylliannol, mae gan Fro Morgannwg tua 740 o adeiladau rhestredig, dros 100 o Henebion Cofrestredig, 39 Ardal Gadwraeth, 18 ardal sydd wedi'u cynnwys yn y Gofrestr o Barciau a Gerddi Hanesyddol a 2 ardal ar y Gofrestr o Dirweddau sydd o Ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru. Mae rhestr lawn o'r dynodiadau hyn wedi'i chynnwys yn Atodiad 8. Mae rheolaeth hirdymor ar yr asedau diwylliannol pwysig hyn yn ystyriaeth allweddol.

3.21 Fel awdurdod arfordirol, gallai codiadau posibl yn lefelau'r môr o ganlyniad i'r newid yn yr hinsawdd fod yn fygythiad i amgylchedd arfordirol Bro Morgannwg yn ogystal â'r trefi a phentrefi sydd wedi'u lleoli ar yr arfordir. Mae'r Cynlluniau Rheoli Traethlin (2010) ar gyfer Bro Morgannwg yn cyfleu darlun o erydiad a chwympiadau clogwyni sy'n achosi peth enciliad ar hyd y forlin. Mae'r Cynlluniau'n dynodi angen am ymyrraeth hirdymor gyfyngedig i atal erydiad mewn ardaloedd allweddol megis y Barri. Bydd gweddill y forlin yn cael ei reoli mewn modd anymwthiol i atal erydiad pellach.

## Heriau a Chyfleoedd ar gyfer y CDLl

3.22 Mae'r dadansoddiad economaidd-gymdeithasol ac amgylcheddol yn yr adran hon o'r Cynllun yn dynodi, er bod Bro Morgannwg yn ardal gymharol oludog, bod nifer o ffactorau y mae angen eu rheoli o hyd er mwyn i Fro Morgannwg ddiwallu anghenion trigolion mewn modd cynaliadwy yn y presennol a'r dyfodol. Mae'r materion hyn yn cynnwys:

- Lefelau uchel o ddiweithdra, lefelau isel o incwm ac amddifadedd addysgol mewn ardaloedd penodol yn y Barri;
- Prisiau tai sy'n sylweddol uwch na chyfartaledd Cymru gan olygu bod ar nifer sylweddol o drigolion angen cymorth i ymuno â'r farchnad dai;
- Lefelau uchel o allgymudo ar gyfer gwaith a hynny'n arwain at dagfeydd yn ystod oriau brig ar y prif ffyrdd dosbarthu yn ardal ddwyreiniol Bro Morgannwg;
- Yr angen i arallgyfeirio'r farchnad gyflogaeth a darparu cyfleoedd ar gyfer menter a thwristiaeth wledig;
- Colli gwariant yn y sector manwerthu i Gaerdydd a Phen-y-bont ar Ogwr; a hefyd
- Yr angen i reoli amgylchedd naturiol, arfordirol ac adeiledig Bro Morgannwg.

3.23 Mae'r CDLl yn darparu fframwaith polisi sydd:

- Yn cynyddu i'r eithaf y cyfleoedd a gynigir yn sgîl dynodi'r Barri yn Ardal Adfywio Strategol;
- Yn rheoli'r cyflenwad tai'n effeithiol er mwyn darparu ystod o gartrefi fforddiadwy o ansawdd da mewn lleoliadau cynaliadwy;
- Yn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a gyflwynir yn sgîl dynodi Ardal Fenter Sain Tathan – Maes Awyr Caerdydd i ddenu mewnfuddsoddiad a fydd yn dwyn budd i'r rhanbarth yn ei gyfanrwydd;
- Yn darparu ystod o safleoedd cyflogaeth i ddiwallu'r angen lleol a hybu cyfleoedd i arallgyfeirio'r economi wledig;
- Yn lleihau allgymudo trwy ddarparu cyfleoedd ar gyfer datblygiadau tai, manwerthu a chyflogaeth newydd mewn lleoliadau hygyrch ym Mro Morgannwg;
- Yn gwella ac yn cyfoethogi cysylltiadau trafnidiaeth allweddol â Bro Morgannwg ac o fewn Bro Morgannwg er budd trigolion, ymwelwyr a busnesau;
- Yn cefnogi'r canolfannau manwerthu ac yn cadw gwariant manwerthu trwy ddarparu cyfleoedd ar gyfer datblygiadau manwerthu newydd; a hefyd
- Yn rheoli amgylchedd naturiol, arfordirol ac adeiledig Bro Morgannwg ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol ac yn cynyddu'r potensial ar gyfer twristiaeth ac ymwelwyr i'r eithaf.

# Adran 4

# Gweledigaeth ac Amcanion



## Gweledigaeth

4.1 Wrth ystyried sut y dylai'r CDLl roi arweiniad ar gyfer datblygu a rheoli datblygu yn y dyfodol, mae gweledigaeth glir o ran sut y dylai Bro Morgannwg edrych yn 2026 wedi cael ei llunio.

4.2 Mae Strategaeth Gymunedol y Cyngor (2011 i 2021) wedi cael ei datblygu mewn partneriaeth gyda Bwrdd Gwasanaethau Lleol Bro Morgannwg a thrwy ymgynghori'n helaeth â'r cyhoedd ac mae'n cynnwys Gweledigaeth ar gyfer Bro Morgannwg hyd at 2021. Er mwyn sicrhau cysondeb rhwng y CDLl a'r Strategaeth Gymunedol, mae Gweledigaeth y Strategaeth Gymunedol[1] wedi cael ei mabwysiadu fel y weledigaeth drosfwaol ar gyfer CDLl Bro Morgannwg:

***"Ein gweledigaeth ar gyfer y Fro yw y bydd yn lle:***

- ***Sy'n ddiogel, yn lân ac yn ddeniadol, lle mae gan unigolion a chymunedau gyfleoedd cynaliadwy i wella eu hiechyd, eu dysgu, eu sgiliau, eu ffyniant a'u lles, a***
- ***Lle mae ymdeimlad cryf o gymuned lle mae gan grwpiau ac unigolion lleol y gallu a'r cymhelliad i wneud cyfraniad effeithiol at gynaliadwyedd yr ardal yn y dyfodol."***

4.3 Mae'r Strategaeth Gymunedol yn nodi deg canlyniad blaenoriaeth ar draws pum ardal thematig (Plant a Phobl Ifanc, Dysgu a Sgiliau, Adfywio, Bro Ddiogelach ac Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles) ac fe'i datblygwyd o ddealltwriaeth am y materion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol allweddol sy'n effeithio ar Fro Morgannwg. Mae'n cydnabod y bydd cyflawni'r canlyniadau blaenoriaeth yn dibynnu ar ystod eang o bartneriaid ac yn drawsbynciol gan gwmpasu holl feysydd gwasanaeth allweddol y Cyngor. Gall y CDLl ategu amcanion y Strategaeth Gymunedol a bod o gymorth i gyflawni'r canlyniadau blaenoriaeth lle maent yn ymwneud â datblygu a defnyddio tir neu warchod asedau naturiol neu lle maent yn golygu bod hyn yn ofynnol. Yn y cyswllt hwn, trwy ddyraniadau a pholisïau defnydd tir penodol, bydd y CDLl yn darparu fframwaith a fydd yn ceisio:

- Datblygu economi amrywiol a chynaliadwy sy'n manteisio i'r eithaf ar asedau Bro Morgannwg a photensial ei safle yn y rhanbarth, i ddarparu cyfleoedd ar gyfer gweithio sy'n dwyn budd i drigolion a busnesau ac yn denu ymwelwyr a buddsoddiad;
- Darparu ystod a dewis o dai gan gynnwys tai fforddiadwy, mewn lleoliadau cynaliadwy sy'n galluogi'r rhai sy'n byw ym Mro Morgannwg i ddiwallu eu hanghenion o ran tai gan gefnogi rôl a swyddogaeth aneddiadau presennol;
- Meithrin dyfodol cynaliadwy sy'n rheoli adnoddau naturiol ac adeiledig Bro Morgannwg ac yn gwneud cyfraniad cadarnhaol tuag at leihau effaith y newid yn yr hinsawdd trwy hybu datblygu cynaliadwy a thrafnidiaeth gynaliadwy, arbed ynni a'r arfer o gynhyrchu ynni adnewyddadwy; a
- Diogelu a gwella bywiogrwydd a hyfywedd atyniadau manwerthu presennol ac atyniadau presennol i dwristiaid ac ymwelwyr sy'n annog pobl i ddefnyddio'r ystod amrywiol o gyfleusterau ac atyniadau a gynigir ym Mro Morgannwg, i ymweld â hwy ac i'w mwynhau.

## Amcanion y CDLl

4.4 I ategu'r themâu cymdeithasol, economaidd a chynaliadwy sy'n gynhenid i'r CDLl a Gweledigaeth y Strategaeth Gymunedol, mae nifer o amcanion strategol allweddol wedi cael eu datblygu sy'n gosod y cyd-destun ar gyfer Strategaeth y CDLl:

[1] **Cyfarfod Cabinet Bro Morgannwg 27 Chwefror 2007, Cofnod C2911**

# Gweledigaeth ac Amcanion

**Amcan 1:** **Cynnal a hybu datblygiad cymunedau cynaliadwy ym Mro Morgannwg, gan ddarparu cyfleoedd ar gyfer byw, dysgu, gweithio a chymdeithasu i bawb.**

4.5 Lleoedd y mae pobl yn dymuno byw a gweithio ynddynt yw cymunedau cynaliadwy. Maent yn cynnig mynediad at dai, gwaith a gwasanaethau ac yn cyfrannu at well iechyd, lles ac ansawdd bywyd da. Bydd y CDLl yn ceisio sicrhau bod rôl a swyddogaeth y trefi a'r pentrefi a enwir yn yr hierarchaeth aneddiadau cynaliadwy yn cael eu cynnal a'u cyfoethogi trwy sicrhau bod datblygiadau newydd ar raddfa sy'n briodol i'w lleoliad, yn cefnogi'r economi leol ac yn cynnal a lle bynnag y bo'n bosibl yn gwella gwasanaethau a chyfleusterau lleol.

**Amcan 2:** **Sicrhau bod datblygu ym Mro Morgannwg yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at leihau dylanwad a lliniaru effeithiau niweidiol y newid yn yr hinsawdd.**

4.6 Bydd y CDLl yn ceisio sicrhau bod datblygiadau newydd yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at leihau dylanwad a lliniaru effeithiau niweidiol y newid yn yr hinsawdd. Bydd datblygiadau newydd yn cael eu lleoli mewn lleoliadau cynaliadwy sy'n lleihau i'r eithaf yr angen i deithio, ac yn ymgorffori datrysiadau dylunio ac adeiladu cynaliadwy. Mae Asesiad Ynni Adnewyddadwy'r Cyngor (2016) wedi adnabod cyfleoedd ym Mro Morgannwg ar gyfer ystod o gynlluniau ynni adnewyddadwy, yn enwedig o ddatblygiadau solar ffotofoltaig annibynnol, clystyrau bychain o botensial ynni'r gwynt, biomas a micro gynhyrchu gan gynnwys Integreiddio Ynni Adnewyddadwy mewn Adeiladau [BIR]. Yn unol â hynny, er mwyn cyfrannu tuag at gyrraedd targedau cenedlaethol o ran ynni adnewyddadwy mae'r Cynllun yn cynnwys targedau monitro i ymateb i alw rhagamcanol o 21.19% am drydan a galw rhagamcanol o 1.48% am wres ym Mro Morgannwg trwy ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2026. Felly, bydd y CDLl hefyd yn hybu'r arfer o arbed ynni a chynhyrchu ynni adnewyddadwy yn lleol. Er mwyn lliniaru effeithiau niweidiol y newid yn yr hinsawdd bydd datblygiadau newydd yn osgoi ardaloedd sy'n tueddu i brofi llifogydd.

**Amcan 3:** **Lleihau'r angen i drigolion Bro Morgannwg deithio i ddiwallu eu hanghenion beunyddiol a'u galluogi i gael mwy o fynediad at fathau cynaliadwy o drafnidiaeth.**

4.7 Un o'r prif ffactorau sy'n cyfrannu at y newid yn yr hinsawdd yw tueddiad pobl i deithio mewn car preifat. Bydd y CDLl yn ceisio cynyddu'r defnydd o drafnidiaeth cynaliadwy a lleihau tagfeydd trwy ganoli datblygiadau newydd yn Ardal y De Ddwyrain a'r aneddiadau a enwir yn yr hierarchaeth aneddiadau cynaliadwy sy'n cael, neu a allai gael, eu gwasanaethu'n dda gan drafnidiaeth gyhoeddus neu lwybrau cerdded neu feicio. Bydd y CDLl hefyd yn ceisio sicrhau bod seilwaith lleol priodol yn cael ei ddarparu fel rhan o gynigion datblygu i wella'r cyfleoedd i fabwysiadu patrymau teithio cynaliadwy.

**Amcan 4:** **Gwarchod a gwella amgylchedd hanesyddol, adeiledig a naturiol Bro Morgannwg.**

4.8 Mae amgylchedd hanesyddol, adeiledig a naturiol Bro Morgannwg yn cael ei werthfawrogi'n fawr gan drigolion ac ymwelwyr ac mae'n cynnwys dynodiadau Ewropeaidd, Cenedlaethol a lleol sy'n darparu hunaniaeth ac unigrywiaeth leol ac yn cynnig cyfleoedd ar gyfer hamdden a thwristiaeth. Bydd y CDLl yn sicrhau bod yr asedau amgylcheddol naturiol ac adeiledig hyn yn cael eu diogelu, eu gwarchod a lle y bo'n briodol yn cael eu gwella fel adnodd pwysig i bobl leol ac sy'n cyfrannu at yr economi leol.

**Amcan 5:** **Cynnal, gwella a hybu cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol ym Mro Morgannwg.**

4.9 Mae cyfleusterau cymunedol sy'n briodol ac wedi'u lleoli'n gyfleus yn elfen bwysig o gymunedau cynaliadwy, gan leihau'r angen i bobl deithio a gwella ansawdd bywyd. Bydd y CDLl o gymorth i

gadw cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol, ac yn ceisio sicrhau nad yw datblygiadau newydd, yn enwedig tai, yn rhoi pwysau gormodol ar ysgolion, cyfleusterau cymunedol a chyfleusterau iechyd a'u bod yn darparu'n ddigonol ar gyfer anghenion y boblogaeth leol yn ogystal â chyfrannu at iechyd a lles y gymuned.

**Amcan 6:** **Atgyfnerthu bywiogrwydd, hyfywedd a dengarwch canolfannau siopa tref, ardal, lleol a chymdogaeth Bro Morgannwg.**

4.10 Bydd bywiogrwydd, hyfywedd a dengarwch canolfannau manwerthu'n cael eu cefnogi trwy gyfeirio cynigion manwerthu newydd at ganolfannau tref, ardal, lleol a chymdogaeth presennol Bro Morgannwg.

4.11 O fewn canolfannau tref ac ardal sefydledig y Barri, Penarth, y Bont-faen a Llanilltud Fawr, byddir yn rhoi anogaeth ar gyfer amrywiaeth er mwyn cynnal ystod o wasanaethau a chyfleusterau tra bydd defnyddiau manwerthu'n cael eu gwarchod mewn canolfannau lleol a chymdogaeth.

**Amcan 7:** **Darparu'r cyfle i bobl ym Mro Morgannwg ddiwallu eu hanghenion o ran tai.**

4.12 Mae un o'r galwadau mwyaf am ddatblygu tir yn deillio o ddarparu tai newydd i ddiwallu anghenion y boblogaeth yn y dyfodol. Bydd y CDLl yn darparu ystod a dewis o dai, gan gynnwys tai fforddiadwy, mewn lleoliadau cynaliadwy sy'n cefnogi anghenion y gymuned leol ac yn gwella rôl a swyddogaeth yr aneddiadau a enwir yn yr hierarchaeth aneddiadau cynaliadwy, gan greu cymunedau integredig, amrywiol a chynaliadwy.

**Amcan 8:** **Meithrin datblygiad economi leol amrywiol a chynaliadwy sy'n diwallu anghenion Bro Morgannwg ac anghenion Rhanbarth ehangach De Ddwyrain Cymru.**

4.13 Mae economi gref ac amrywiol yn elfen hanfodol o gymunedau cynaliadwy gan ddarparu cyfleoedd cyflogaeth a denu buddsoddiad. Bydd y CDLl yn ceisio cynyddu i'r eithaf y cyfleoedd a gynigir gan leoliad Bro Morgannwg ym Mhrifddinas-Ranbarth De Ddwyrain Cymru a manteisio ar ddynodiad Ardal Fenter Sain Tathan – Maes Awyr Caerdydd i ddenu mewnfuddsoddiad, a chanolbwyntio ar ei hasedau economaidd megis y Weinyddiaeth Amddiffyn yn Sain Tathan a Dociau'r Barri i ddwyn budd i'r rhanbarth yn ei gyfanrwydd. O ran Dociau'r Barri, bydd y Cyngor yn ffafrio cynigion datblygu sy'n cynorthwyo hyfywedd hirdymor Porthladd y Barri i hwyluso symudiad effeithlon a dibynadwy nwyddau ar y môr.

4.14 Bydd y CDLl yn rhoi pwyslais arbennig ar gyflogaeth newydd o ansawdd da sy'n cynyddu ffyniant ond yn lleihau amddifadedd lleol ac allgymudo beunyddiol. Yn ardal wledig Bro Morgannwg, bydd y Cynllun yn cefnogi mentrau sydd o gymorth i ddatblygu economi wledig gref, yn enwedig lle mae hyn yn hybu twristiaeth gynaliadwy.

**Amcan 9:** **Creu cyrchfan twristiaeth deniadol gyda delwedd gadarnhaol i Fro Morgannwg, gan roi anogaeth ar gyfer datblygu cynaliadwy a chyfleusterau o ansawdd i gyfoethogi'r profiad ar gyfer ymwelwyr a thrigolion.**

4.15 Mae gan Fro Morgannwg amrywiaeth eang o atyniadau ar gyfer twristiaid ac ymwelwyr, sy'n amrywio o Arfordir Treftadaeth Morgannwg i gyrchfannau mwy traddodiadol megis Ynys y Barri a Thraeth Penarth. Bydd y CDLl yn ffafrio cynigion sy'n gwarchod ac yn cefnogi atyniadau presennol ar gyfer twristiaid ac yn gwella'r ystod a'r dewis o gyfleusterau ar gyfer twristiaid ac ymwelwyr.

# Gweledigaeth ac Amcanion

**Amcan 10:** **Sicrhau bod datblygiadau ym Mro Morgannwg yn defnyddio tir yn effeithiol ac yn effeithlon a hybu defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol a rheolaeth gynaliadwy arnynt.**

4.16 Gall defnydd amhriodol o adnoddau y mae pen draw iddynt effeithio ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion. Trwy ffafrio'r defnydd o dir a ddatblygwyd yn flaenorol a defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol o ba bynnag fath a ble bynnag y maent wedi'u lleoli, bydd y CDLl yn cyfrannu at warchod eu hargaeledd i genedlaethau'r dyfodol.

4.17 Mae'r deg amcan a nodir uchod wedi cael eu trosi'n fframwaith gofodol a ddarperir gan y CDLl ac maent wedi goleuo datblygiad y Strategaeth, polisïau rheoli datblygu, yn ogystal â pholisïau ar gyfer rheoli twf. Mae fframwaith monitro manwl ar gyfer y Cynllun wedi'i gynnwys yn Adran 9 o'r CDLl, a fydd yn galluogi'r Cyngor i asesu'r modd y cyflawnir amcanion y CDLl dros gyfnod y cynllun.

# Adran 5

# Strategaeth y CDLl



# Strategaeth y CDLl

5.1 Mae Strategaeth y CDLl yn nodi ardaloedd eang lle bydd datblygiadau newydd yn digwydd er mwyn gwireddu'r Weledigaeth a chyflawni'r Amcanion a nodwyd yn gynharach yn y Cynllun. Mae'r Strategaeth wedi cael ei llunio gan roi ystyriaeth lawn i'r cyd-destun polisi Cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, y materion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol sy'n berthnasol i Fro Morgannwg, a hefyd argaeledd safleoedd a'r gallu i'w darparu. Hefyd, mae'n ystyried canfyddiadau'r Arfarniad Cynaliadwyedd, canlyniadau gweithgarwch blaenorol o ran ymgysylltu ac ymgynghori â rhanddeiliaid, gweithgarwch dilynol o ran ymgysylltu â'r cyhoedd a datblygiadau a mentrau polisi Cenedlaethol a rhanbarthol mewn perthynas ag opsiynau gofodol amrywiol.

5.2 Mae'r deg amcan strategol a nodir yn Adran 4 hefyd wedi cael dylanwad arwyddocaol ar ddatblygiad y Strategaeth, sy'n ceisio taro cydbwysedd rhwng yr angen am dwf ar y naill law a'r angen i warchod amgylchedd naturiol ac adeiledig unigryw Bro Morgannwg ar y llaw arall. Er mwyn lleihau dylanwad a lliniaru effeithiau niweidiol y newid yn yr hinsawdd, lle bynnag y bo'n bosibl mae'r Strategaeth yn ceisio ffafrio ailddefnyddio tir a ddatblygwyd yn flaenorol, mae'n osgoi ardaloedd lle ceir perygl llifogydd ac mae'n hybu ystod a dewis o safleoedd tai newydd mewn lleoliadau cynaliadwy gyda mynediad da at gyflogaeth, trafnidiaeth gyhoeddus, cyfleusterau cymunedol a siopau. Hefyd, mae'r Strategaeth yn amcanu at warchod a gwella asedau naturiol ac adeiledig unigryw'r ardal ac yn cydnabod y manteision economaidd posibl a all ddeillio o hybu twristiaeth gynaliadwy briodol. Trwy gydol proses y CDLl, mae pedair thema wedi cael eu hadnabod, sef Byw, Gweithio, Rheoli a Mwynhau ac mae'r rhain wedi cael eu hymgorffori lle y bo'n briodol drwy'r Cynllun gan gynnwys y Polisïau Strategol.

5.3 Mae Strategaeth y CDLl yn cynnwys pedair elfen allweddol fel a ganlyn:

*"Hybu cyfleoedd datblygu yn y Barri ac Ardal y De Ddwyrain. Bydd ardal Sain Tathan yn gyfle datblygu allweddol a Maes Awyr Caerdydd yn ffocws ar gyfer buddsoddi mewn trafnidiaeth a chyflogaeth. Bydd aneddiadau cynaliadwy eraill yn derbyn datblygiadau tai a datblygiadau cysylltiedig pellach."*

## (i) Datblygu yn Ardal y De Ddwyrain

5.4 Lle y bo'n briodol, bydd Strategaeth y CDLl yn ceisio hybu cyfleoedd datblygu nwydd yn 'Ardal y De Ddwyrain'. At ddibenion y CDLl, mae Ardal y De Ddwyrain yn cynnwys aneddiadau trefol y Barri, Dinas Powys, Llandochau (Penarth), Penarth a Sili. Mae Ardal y De Ddwyrain yn cynnwys y mwyafrif o boblogaeth Bro Morgannwg ac mae ganddi ystod eang o wasanaethau a chyfleusterau gan gynnwys dewis o gysylltiadau trafnidiaeth â Chaerdydd, Pen-y-bont ar Ogwr a'r rhanbarth ehangach. Mae Strategaeth y CDLl yn ceisio cynyddu'r manteision hyn i'r eithaf er mwyn hwyluso datblygu cynaliadwy a denu mewnfuddsoddiad newydd yn yr ardaloedd hyn.

5.5 Y Barri yw canolfan weinyddol Bro Morgannwg a chaiff y dref ei hadnabod fel 'anheddiad allweddol' yng Nghynllun Gofodol Cymru gan gydnabod ei rôl yn llwyddiant Prifddinas-Ranbarth De Ddwyrain Cymru. Felly mae Strategaeth y CDLl yn canolbwyntio ar gynnal a gwella rôl bresennol y dref fel canolfan wasanaeth bwysig trwy fanteisio ar ei chysylltiadau ffyrdd a rheilffyrdd strategol yn ogystal â'i lleoliad arfordirol deniadol. Yn 2010, fe wnaeth Llywodraeth Cymru ddynodi'r Barri yn Ardal Adfywio i helpu i gydgysylltu gweithgareddau adfywio ac i roi anogaeth i ymgysylltu â phobl berthnasol sydd â buddiant. Fe gytunodd Bwrdd Partneriaeth Adfywio'r Barri ar ddau amcan ar gyfer y rhaglen: cefnogi datblygiad y Barri fel lle deniadol i fyw; a chefnogi datblygiad Ynys y Barri fel cyrchfan ar gyfer teithiau dydd i gymryd rhan mewn gweithgareddau yn bennaf.

5.6 Yng ngoleuni'r uchod, mae'r Strategaeth yn ceisio hybu cyfleoedd tai, cyflogaeth a manwerthu newydd yn Ardal y De Ddwyrain. Yn arbennig, mae'r Strategaeth yn cydnabod y cyfleoedd adfywio presennol yng Nglannau'r Barri ac mae Polisi SP2 yn dyrannu gweddill y safle adfywio strategol tir llwyd hwn ar gyfer cymysgedd o ddefnyddiau gan gynnwys preswyl, cyflogaeth, manwerthu a hamdden. Bydd y datblygiad hwn hefyd yn hwyluso cysylltiadau trafnidiaeth gwell rhwng y dref ehangach ac Ynys y Barri. Rhagwelir y bydd y dull Strategol hwn yn helpu i ddarparu gwasanaethau a chyfleusterau cymunedol newydd a gwell ac yn creu cyfleoedd newydd lleol ar gyfer tai fforddiadwy a chyflogaeth i ddiwallu'r angen a gaiff ei adnabod yn ystod cyfnod y Cynllun

### (ii) Sain Tathan fel Cyfle Datblygu Allweddol

5.7 Caiff Sain Tathan ei nodi fel un o Dair Ardal Cyfle Strategol yng Nghynllun Gofodol Cymru (Diweddariad 2008) a hithau'n cynnig manteision rhanbarthol posibl sylweddol. Mae dynodi Ardal Fenter 'Sain Tathan – Maes Awyr Caerdydd' ym mis Medi 2011, sy'n canolbwyntio ar y sector awyrofod ac amddiffyn, yn gyfle arwyddocaol i ddenu mewnfuddsoddiad sy'n gysylltiedig ag awyrofod i'r ardal.

5.8 Er bod Llywodraeth y DU wedi penderfynu peidio â bwrw ymlaen â datblygiad y Coleg Hyfforddiant Amddiffyn, mae Uned y Weinyddiaeth Amddiffyn yn Sain Tathan yn dal i fod yn elfen bwysig o gynllunio ar gyfer Amddiffyn yn y DU fel rhan o 'Future Force 2020', ac mae'r safle'n mynd i fod yn croesawu mwy o filwyr o 14eg Gatrawd y Signalau.

5.9 Mae Strategaeth y CDLI yn cydnabod y rôl bwysig a fydd gan Sain Tathan yn ffyniant Bro Morgannwg ac ardal ehangach Prifddinas-Ranbarth De Ddwyrain Cymru yn y dyfodol. Mae Polisi SP2 yn ceisio cynyddu i'r eithaf y cyfleoedd ar gyfer mewnfuddsoddiad a thwf newydd sy'n deillio o'r dynodiadau newydd hyn, tra bo Polisi SP7 yn pwysleisio pwysigrwydd strategol Ffordd Fynediad Ogleddol newydd i hwyluso datblygiad pellach y Parc Busnes Awyrofod yn Sain Tathan fel rhan o'r Ardal Fenter. Mae lefelau sylweddol o ddatblygiadau tai newydd yn cael eu cynnig hefyd i adlewyrchu pwysigrwydd Sain Tathan i Strategaeth y Cynllun, ac i gefnogi'r cyfleoedd cyflogaeth allweddol yn yr ardal.

### (iii) Maes Awyr Caerdydd – Cyfle ar gyfer Cyflogaeth a Thrafnidiaeth

5.10 Mae Strategaeth y CDLI yn cydnabod pwysigrwydd Maes Awyr Caerdydd i ffyniant Bro Morgannwg yn y dyfodol, fel y mae ei ddynodiad (ynghyd â Sain Tathan) fel rhan o Ardal Fenter 'Sain Tathan – Maes Awyr Caerdydd'. Mae Maes Awyr Caerdydd, a berchnogir gan Lywodraeth Cymru, yn borth hollbwysig i Gymru ar gyfer busnesau, twristiaeth a theithwyr cyffredinol fel ei gilydd, ond cydnabyddir bod y maes awyr, dros y blynyddoedd diwethaf, wedi dioddef gostyngiad mawr yn niferoedd y teithwyr o frig o ddwy filiwn yn 2007 i ychydig dros un filiwn yn 2012. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i godi nifer y teithiau gan deithwyr yn ôl i 2.5 miliwn erbyn 2023.

5.11 Mae Polisi SP2 felly'n nodi'r tir i'r dwyrain o'r maes awyr ac i'r de o Port Road fel tir sy'n rhan o Ardal Fenter Sain Tathan – Maes Awyr Caerdydd, ac yn pwysleisio ei bwysigrwydd strategol, tra bo Polisi SP5 yn ffafrio cyfleoedd datblygu newydd sy'n manteisio ar ddiwydiannau deilliedig y Maes Awyr ac yn adlewyrchu ei bwysigrwydd strategol a rhanbarthol o ran denu mewnfuddsoddiad newydd a chreu cyfleoedd cyflogaeth ar gyfer Bro Morgannwg ac ardal ehangach y Brifddinas-Ranbarth.

5.12 Bydd lleoliad y Barri'n cael ei warchod trwy gymhwyso ffiniau aneddiadau preswyl (gweler Polisi MD5) a dyrannu lletem las i'r gorllewin o'r Barri (gweler Polisi MG18).

### (iv) Datblygu yn yr Aneddiadau Cynaliadwy Eraill

5.13 Er mwyn helpu i wasgaru manteision datblygu preswyl a masnachol yn fwy cyfartal ledled Bro Morgannwg, mae Strategaeth y CDLl wedi nodi aneddiadau cynaliadwy eraill a allai dderbyn datblygiadau tai a datblygiadau cysylltiedig. Ystyrir bod gan yr aneddiadau hyn, sy'n cynnwys y Bont-faen, Llanilltud Fawr, Y Rhws, Gwenfô a rhai mân aneddiadau gwledig, boblogaeth, gwasanaethau a chyfleusterau digonol i gymhathu twf heb iddo gael effaith niweidiol ar eu cymeriad a'u hamgylchedd lleol presennol. Yn wir, nid yn unig bydd datblygiadau ychwanegol yn y lleoliadau hyn yn helpu i gynnal gwasanaethau a chyfleusterau presennol ond gallant hefyd ddarparu cyfleoedd i wella seilwaith.

### Strategaeth Twf ar gyfer yr Anheddiad Allweddol, Canolfannau Gwasanaethau, Prif Aneddiadau a Mân Aneddiadau Gwledig

5.14 Mae hierarchaeth aneddiadau'r CDLl yn nodi aneddiadau cynaliadwy yr ystyrir eu bod yn gallu derbyn datblygiadau ychwanegol yn ystod cyfnod y Cynllun. Mae'r aneddiadau hyn wedi cael eu grwpio yn ôl eu maint, rôl a nodweddion fel a nodir isod.

**HIERARCHAETH ANEDDIADAU'R CDLL**

**Anheddiad Allweddol:** Y Barri

**Canolfannau Gwasanaethau:** Y Bont-faen, Llanilltud Fawr a Phenarth

**Prif Aneddiadau:** Dinas Powys, Llandochau (Penarth), Y Rhws, Sain Tathan, Sili a Gwenfô

**Mân Anheddau Gwledig:** Aberthin, Tresimwn, Tregolwyn, Corntwn, Croes Cwrlwys, Dwyrain Aberddawan, Ewenni, Fferm Goch, Graig Penllyn, Llancarfan, Llandŵ, Llanmaes, Llyswyrny, Aber Ogwr, Pendeulwyn, Penllyn, Llanbedr-y-fro, Tresign, Southerndown, Saint-y-brid, Sain Niclas, Treoes, Y Wig ac Ystradowen.

5.15 Bydd anheddiad allweddol y Barri'n parhau i fod yn ganolbwynt pwysig ar gyfer gweithgarwch cymdeithasol ac economaidd ac fe'i cydnabyddir yn y Strategaeth fel un o'r lleoliadau mwyaf cynaliadwy i fod yn ffocws ar gyfer cyfleoedd datblygu newydd pwysig. Bydd ailddatblygiad cynhwysfawr Glannau'r Barri o gymorth i adfywio'r dref a rhoi anogaeth ar gyfer twf economaidd. Yn unol â hynny, mae'r Strategaeth yn hybu peth wmbredd o ddatblygiadau tai, cyflogaeth a manwerthu newydd yn y Barri.

5.16 Er bod canolfannau gwasanaethau hanesyddol y Bont-faen, Penarth a Llanilltud Fawr oll yn wahanol iawn o ran eu cymeriad, mae ganddynt rolau tebyg. Er enghraifft, mae ganddynt i gyd boblogaethau preswyl sylweddol, darpariaeth dda o ran trafnidiaeth gyhoeddus, cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth leol, canol trefi sefydledig ac ystod eang o wasanaethau a chyfleusterau diwylliannol, addysgol a chymunedol. Mae'r canolfannau gwasanaethau'n diwallu anghenion beunyddiol eu trigolion lleol a hefyd yn gweithredu fel canolbwyntiau pwysig ar gyfer y rhai sy'n byw mewn aneddiadau llai cyfagos. Felly, mae'r Strategaeth yn rhagweld y bydd yr aneddiadau hyn hefyd yn gweithredu fel canolbwyntiau ar gyfer twf ym Mro Morgannwg dros gyfnod y Cynllun.

5.17 Yn ychwanegol at rôl strategol Sain Tathan, mae gan brif aneddiadau Dinas Powys, Llandochau (Penarth), Y Rhws, Sili, Sain Tathan a Gwenfô rôl bwysig o ran diwallu'r angen am dai ac o ran

darparu rhai gwasanaethau a chyfleusterau lleol allweddol hefyd. Mae'r prif aneddiadau'n ategu rôl y canolfannau gwasanaethau yn yr ystyr eu bod yn diwallu anghenion trigolion a hefyd yn darparu ar gyfer anghenion yr ardaloedd gwledig ehangach o amgylch. Maent yn cynnig nifer o wasanaethau a chyfleusterau allweddol, sy'n hanfodol i'w rôl fel cymunedau cynaliadwy, gan eu bod yn lleihau'r angen i deithio i'r Barri neu'r canolfannau gwasanaethau ar gyfer anghenion o ddydd i ddydd. Mae'r cyfleusterau hyn yn cynnwys ysgolion cynradd, siopau cyfleustra bychain, mannau gwerthu bwyd a diod, peth darpariaeth cyflogaeth ar raddfa fach a thrafnidiaeth gyhoeddus reolaidd. O ganlyniad, gall yr aneddiadau hyn hefyd dderbyn cyfran sylweddol o ddatblygiad preswyl ychwanegol ac mae ganddynt rôl bwysig o ran cyflawni'r Strategaeth yn llwyddiannus.

5.18 Mae'r Strategaeth yn amcanu at ganoli'r mwyafrif o'r twf yn yr anheddiad allweddol, y canolfannau gwasanaethau a'r prif aneddiadau er mwyn cynyddu i'r eithaf y cyfleoedd ar gyfer adfywio cynaliadwy, i ffafrio darpariaeth gwasanaethau lleol newydd ac i roi anogaeth i ddefnyddio dulliau teithio cynaliadwy. Mae'r dyraniadau yn yr aneddiadau hyn yn adlewyrchu eu priod rolau a nodweddion yn ogystal â'u cyfyngiadau ffisegol neu amgylcheddol perthnasol.

5.19 Mae'r mân aneddiadau gwledig amrywiol a nodir yn hierarchaeth aneddiadau'r CDLl yn cyfrannu at gymeriad arbennig y Fro wledig ac mae ganddynt hefyd rôl bwysig o ran tanategu cymunedau gwledig cynaliadwy. Mae'r aneddiadau hyn yn tueddu i fod wedi'u lleoli naill ai ochr yn ochr â'r rhwydwaith priffyrdd strategol neu'n gymharol agos at y trefi a'r pentrefi mwy a nodir yn yr hierarchaeth aneddiadau. Mae'r mathau o wasanaethau a chyfleusterau a geir yn nodweddiadol yn y mân aneddiadau gwledig yn cynnwys mannau addoli, neuaddau cymunedol, defnyddiau manwerthu ar raddfa fechan a chyfleusterau hamdden ffurfiol. Mae nifer o aneddiadau gwledig llai hefyd yn darparu cyfleoedd cyflogaeth leol ar raddfa fach, naill ai yn yr aneddiadau neu'n agos iawn atynt. Mae rhai o'r aneddiadau llai megis Pendeulwyn, Tregolwyn, Sain Niclas a Saint-y-brid hefyd yn cynnwys ysgolion cynradd sy'n gwasanaethu dalgylch ehangach. Yn unol â hynny, gellir ystyried bod y mân aneddiadau gwledig wedi'u cysylltu'n swyddogaethol, gan bwysleisio pwysigrwydd diogelu cyfleusterau yn ogystal â hwyluso cyfleoedd datblygu newydd.

5.20 Yn ychwanegol at yr anheddiad allweddol, y canolfannau gwasanaethau a'r prif aneddiadau, mae'r Strategaeth yn cydnabod yr angen am beth twf cymedrol yn y mân aneddiadau gwledig i helpu i ddiwallu'r angen lleol am dai ac i gefnogi gwasanaethau lleol presennol. Yn y pentrefi hyn, bydd y pwyslais ar ddatblygiadau sydd o gymorth gydag arallgyfeirio gwledig megis mentrau gwledig newydd a thwristiaeth gynaliadwy. Mae Croes Cwrlwys yn perthyn i'r categori hwn, er y cydnabyddir nad anheddiad gwledig nodweddiadol mohono. Fodd bynnag, mae'n cynnwys amrywiaeth o ddefnyddiau tir, gan gynnwys datblygiadau tai, manwerthu a chyflogaeth ac mae ganddo wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus da. Bydd dynodiadau yn y CDLl megis Ardaloedd Tirwedd Arbennig ac Arfordir Treftadaeth Morgannwg yn helpu i sicrhau bod amgylchedd yr ardaloedd o amgylch yn cael ei ddiogelu.

5.21 Mae ffiniau aneddiadau wedi cael eu tynnu o gwmpas pob un o'r trefi a phentrefi yn hierarchaeth aneddiadau'r CDLl ac maent wedi'u diffinio'n glir ar y Map Cynigion. Mae gan ffiniau aneddiadau rôl bwysig o ran sicrhau y cyflawnir datblygu cynaliadwy trwy roi anogaeth i ddatblygu o fewn yr aneddiadau cynaliadwy a nodir yn Hierarchaeth y CDLl. Maent hefyd o gymorth i warchod y wlad o amgylch sydd heb ei datblygu rhag datblygu amhriodol, yn unol â pholisi cynllunio cenedlaethol[2], trwy nodi maint datblygiadau adeiledig. Felly mae nodi ffiniau aneddiadau'n helpu i gefnogi ac atgyfnerthu'r broses o gyflawni amcanion a strategaeth y Cynllun ac yn darparu mecanwaith polisi allweddol ar gyfer rheoli twf ym Mro Morgannwg.

[2] Gweler Paragraff 4.7.8 o Bolisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 9, Tachwedd 2016

5.22 Mae'r diagram allweddol a ddangosir yn Ffigur 2 dros y dudalen yn darlunio Strategaeth y CDLl ac yn dangos maint Cyngor Bro Morgannwg ac ardal y CDLl. Mae'r diagram allweddol hefyd yn dangos y llwybrau trafnidiaeth strategol, lleoliadau allweddol ar gyfer datblygu yn y dyfodol, hierarchaeth aneddiadau'r cynllun a chydberthnasoedd ag awdurdodau lleol cyfagos.

## Amcanion yr Ardal


5.23 Er mwyn sicrhau bod Strategaeth y CDLl yn cael ei chyflawni'n llwyddiannus, mae amcanion ardal benodol wedi cael eu nodi ar gyfer anheddiad allweddol y Barri, pob un o'r canolfannau gwasanaethau ac, oherwydd ei statws fel cyfle datblygu allweddol, Sain Tathan. Mae amcanion cyffredin wedi cael eu datblygu hefyd ar gyfer y prif aneddiadau a'r mân aneddiadau gwledig sy'n weddill. Mae'r amcanion hyn yn darparu llwyfan ar gyfer Rheoli Datblygu a Thwf ym mhob un o'r aneddiadau a restrir.

### Y Barri

- Creu cyfleoedd cyflogaeth, hyfforddi a dysgu newydd i gefnogi busnesau presennol a rhoi anogaeth ar gyfer datblygu economaidd priodol a mewnfuddsoddiad i hybu'r gwaith o adfywio'r Barri ymhellach.
- Darparu cyfleoedd newydd ar gyfer gwasanaethau cymunedol, cyfleusterau, tir y cyhoedd a seilwaith wedi'u cyfoethogi i gefnogi rôl bwysig y Barri, yn lleol ac yn rhanbarthol, fel anheddiad allweddol.
- Gwella'r stoc dai bresennol trwy barhau i fuddsoddi mewn adnewyddu seiliedig ar ardal a hybu ystod a dewis o dai newydd, yn enwedig tai fforddiadwy o ystyried y lefel uchel o angen a ganfuwyd yn y Barri.
- Cefnogi agenda Trechu Tlodi Llywodraeth Cymru trwy 'Cymunedau yn Gyntaf' gan weithio gyda thrigolion, mudiadau cymunedol, busnesau ac asiantaethau allweddol eraill, gan arwain at gynaliadwyedd a lles hirdymor cymunedau.
- Gwella mynediad i ac o fewn y Barri, trwy welliannau strategol a gwelliannau i'r priffyrdd lleol ac ystod o fesurau trafnidiaeth gynaliadwy, a fydd yn cefnogi adfywio a hefyd yn rheoli tagfeydd ar ffyrdd prifwythiennol y dref mewn modd effeithiol.
- Gwella cysylltiadau cerdded a beicio rhwng canol y dref, y Glannau ac Ynys y Barri.
- Hybu buddsoddiadau a gwaith gwella amgylcheddol parhaus yng nghanolfannau manwerthu'r Barri, yn enwedig Holton Road a High Street i atgyfnerthu eu bywiogrwydd, eu hyfywedd a'u dengarwch, gan hefyd roi anogaeth i ddefnyddio lloriau uchaf adeiladau manwerthu mewn modd buddiol.
- Hyrwyddo Bae Whitmore a Glannau'r Barri fel cyrchfannau twristiaeth a hamdden deniadol trwy gydol y flwyddyn trwy roi anogaeth ar gyfer amrywiaeth o lety â gwasanaeth o ansawdd da, atyniadau pob tywydd, cyfleusterau gwell ar gyfer ymwelwyr a thwristiaeth sy'n seiliedig ar ddigwyddiadau.
- Ffafrio cynigion datblygu sydd o gymorth gyda hyfywedd hirdymor Porthladd y Barri i hwyluso symudiad effeithlon a dibynadwy nwyddau ar y môr.

### Y Bont-faen

- Darparu ar gyfer ystod a dewis o dai i ddiwallu anghenion trigolion presennol a thrigolion cymunedau gwledig o amgylch.


Diagram Allweddol
Ffigur 2
Caerdydd
Rhondda Cynon Taf
Pen-y-bont ar Ogwr
Bro Morgannwg
Y BARRI
PENARTH
LLANILLTUD FAWR
Y BONT-FAEN
Sain Tathan
Y Rhws
Dinas Powys
Llandochau
Sili
Gwenfô
Trafford yr M4
Cyff 32
Cyff 33
Cyff 34
Cyff 35
Parth y de-ddwyrain
Rhyngberthynas gydag Awdurdodau Lleol
Coridor Trafnidiaeth Strategol
Prif Ardal Annedd ac Adfywio Allweddol
Ardal Canolfan Gwasanaeth
Prif Annedd
Annedd Gwledig Llai
Ardal Cyfle Strategol
Safle Cyflogi Strategol
Parth Menter Sain Tathan Maes Awyr Caerdydd
Cyfleuster Rheoli Gwastraff a Ffefrir
Cynigion Priffyrdd Strategol
Llwybr 88 Rhwydwaith Seiclo Cenedlaethol a Gynigir
Trydaneiddio'r Rheilffordd
Adnodd Parcio a Theithio
Arfordir Treftadaeth Morgannwg
Rhwydwaith Strategol y Priffyrdd
5km

- Gwarchod a gwella'r amgylchedd adeiledig hanesyddol o ystyried ei gyfraniad arwyddocaol at gymeriad a bywiogrwydd craidd masnachol y dref a'i rôl fel cyrchfan twristiaeth a hamdden.
- Diogelu a gwella mannau agored pwysig o fewn ac ar bwys Ardaloedd Cadwraeth y Bont-faen a Llanfleiddan.
- Atgyfnerthu bywiogrwydd, hyfywedd a dengarwch canol y dref trwy gynnal ystod amrywiol o ddefnyddiau manwerthu, masnachol a chymunedol a rhoi anogaeth i economi hwyr y nos fywiog y dref.
- Gwella cyfnewidfa fysiau bresennol y dref a ffafrio cynigion sy'n darparu cyfleusterau cerdded a beicio gwell i ac o fewn y Bont-faen i leddfu tagfeydd traffig, yn enwedig traffig trwodd ar hyd y Stryd Fawr.
- Hybu cynigion datblygu sy'n darparu cyfleoedd ar gyfer seilwaith ychwanegol neu well, gan gynnwys cyfleusterau parcio arhosiad byr yng nghanol y dref.

## Llanilltud Fawr

- Gwella tir y cyhoedd yn ardal siopa'r dref trwy ffafrio cynigion adfywio sy'n cynnwys tirlunio caled a meddal newydd, dodrefn stryd newydd a chynlluniau parcio gwell.
- Gwella bywiogrwydd, hyfywedd a dengarwch canol y dref trwy roi anogaeth ar gyfer ystod amrywiol o ddefnyddiau, yn enwedig y rhai sy'n cyfrannu at economi hwyr y nos lwyddiannus.
- Gwella cyfleusterau cerdded a beicio a chysylltiadau o amgylch y dref ag ardaloedd preswyl cyfagos ac Arfordir Treftadaeth Morgannwg a'r traethau sydd gerllaw.
- Cynyddu potensial twristiaeth y dref i'r eithaf trwy warchod a gwella'i hamgylchedd adeiledig hanesyddol, yn enwedig ei chraidd canoloesol unigryw a'i hyrwyddo fel y "fynedfa i Arfordir Treftadaeth Morgannwg."
- Atgyfnerthu a gwella cysylltiadau presennol rhwng Llanilltud Fawr a'r Ardal Fenter yn Sain Tathan.
- Darparu ar gyfer lefel, ystod a dewis o dai, gan gynnwys tai fforddiadwy i ddiwallu anghenion lleol.

## Penarth

- Ffafrio cynigion datblygu sy'n ceisio gwarchod a gwella diddordeb pensaernïol a hanesyddol arbennig y dref.
- Gwella bywiogrwydd, hyfywedd a dengarwch canol y dref trwy roi anogaeth ar gyfer ystod amrywiol o ddefnyddiau, yn enwedig y rhai sy'n cyfrannu at economi hwyr y nos lwyddiannus a hybu buddsoddiadau a gwaith gwella amgylcheddol parhaus.
- Ffafrio cynigion sy'n ceisio gwarchod a gwella apêl Penarth o safbwynt twristiaeth a hamdden trwy roi anogaeth ar gyfer llety â gwasanaeth o ansawdd da, cyfleusterau gwella ar gyfer ymwelwyr a thwristiaeth sy'n seiliedig ar ddigwyddiadau.
- Cryfhau'r cysylltiadau rhwng Marina Penarth, yr Esblanâd a chanol y dref trwy gynlluniau rheoli traffig effeithiol, gwelliannau priodol i'r seilwaith, arwyddion sensitif ychwanegol a gwelliannau i dir y cyhoedd.
- Hyrwyddo Penarth fel 'tref trafnidiaeth gynaliadwy' trwy roi anogaeth ar gyfer cysylltiadau cerdded a beicio wedi'u gwella o fewn y dref a rhwng y dref ac ardaloedd preswyl a masnachol cyfagos, gan gynnwys Bae Caerdydd, a hwyluso darpariaeth parcio a theithio.
- Rhoi cymorth i ddarparu cyfleusterau addysg a hyfforddiant modern, addas ar gyfer y diben gan gynnwys Cymuned Ddysgu Penarth.

- Darparu ar gyfer lefel, ystod a dewis priodol o dai, gan gynnwys tai fforddiadwy i ddiwallu anghenion lleol.

### Sain Tathan

- Hyrwyddo tir sydd o fewn Ardal Fenter Sain Tathan ac sy'n ffinio â hi fel ardal o ragoriaeth ar gyfer y sectorau awyrofod a milwrol, a rôl Uned y Weinyddiaeth Amddiffyn yn Sain Tathan o ran cefnogi 'Future Force 2020' a gweithgarwch hyfforddi a datblygu cysylltiedig.
- Hyrwyddo cyfleoedd newydd i greu swyddi, buddsoddi mewn busnesau, hyfforddi a dysgu i adlewyrchu'r ffaith bod y lle wedi'i adnabod yn Ardal Cyfle Strategol ac yn Ardal Fenter.
- Darparu ar gyfer ystod a dewis o dai newydd, gan gynnwys tai fforddiadwy ar gyfer trigolion yn y presennol a'r dyfodol, i gefnogi rôl strategol Sain Tathan fel cyfle datblygu allweddol a rhan o Ardal Fenter Sain Tathan – Maes Awyr Caerdydd.
- Darparu cyfleoedd ar gyfer cyfleusterau a seilwaith cymunedol newydd a gwell i gefnogi cynigion datblygu presennol a chynigion datblygu yn y dyfodol ac i ddiwallu anghenion trigolion yn y presennol a'r dyfodol.
- Gwella mynediad i ac o fewn Sain Tathan trwy ystod o fesurau trafnidiaeth i gefnogi a hwyluso buddsoddiadau economaidd.
- Gwella cyfleusterau cerdded a beicio o fewn ac o amgylch Sain Tathan

### Prif Aneddiadau

- Darparu ar gyfer lefel, ystod a dewis priodol o dai, gan gynnwys tai fforddiadwy i ddiwallu anghenion lleol.
- Diogelu a gwella gwasanaethau a chyfleusterau lleol allweddol presennol, yn enwedig y rhai sydd hefyd yn diwallu anghenion y Fro wledig ehangach.
- Hybu mesurau trafnidiaeth gynaliadwy a chyfleusterau cysylltiedig er mwyn lleihau dibyniaeth ar y car preifat.

### Mân Aneddiadau Gwledig

- Darparu ar gyfer lefel, ystod a dewis priodol o dai, gan gynnwys tai fforddiadwy i ddiwallu anghenion lleol.
- Ffafrio cynigion sy'n ceisio gwarchod a gwella hyfywedd, hygyrchedd neu werth cymunedol cyfleusterau a gwasanaethau trafnidiaeth mewn pentrefi.
- Rhoi anogaeth i arallgyfeirio'r economi leol trwy ffafrio datblygiadau cyflogaeth priodol a datblygiadau priodol sy'n gysylltiedig â thwristiaeth

### Asesu Risg

5.24 Ystyrir bod Strategaeth y CDLl yn realistig, yn gynaliadwy ac yn gadarn. Mae'r Strategaeth yn ceisio adeiladu ar y cyfleoedd adfywio presennol a manteisio ar y seilwaith presennol yn Ardal y De Ddwyrain trwy ganoli datblygiadau newydd yn yr ardal hon. Hefyd, mae'r Strategaeth yn hyrwyddo Sain Tathan yn amlwg fel cyfle datblygu allweddol, gyda'r Ardal Fenter yn Sain Tathan – Maes Awyr Caerdydd yn cynnig cyfleoedd arwyddocaol ar gyfer datblygu dros gyfnod y Cynllun. Ar ben hynny, mae hefyd yn cydnabod y bydd rhai o'r pentrefi gwledig mwy yn cael budd o gyfleoedd datblygu ychwanegol er mwyn cynnal gwasanaethau a chyfleusterau cymunedol newydd a phresennol. O ganlyniad, mae'r CDLl wedi ceisio lleihau risg i'r eithaf trwy fabwysiadu dull cytbwys o fynd ar drywydd twf sy'n hybu datblygiad ystod o safleoedd, gyda seilwaith sy'n cyd-fynd â hwy mewn nifer o leoliadau.

5.25 Mae Strategaeth y CDLl yn darparu fframwaith defnydd tir sy'n hyblyg ac a fydd yn helpu i ddwyn manteision eang ledled Bro Morgannwg. Bydd y Cyngor yn ceisio roi cymorth i gyflawni'r CDLl trwy sicrhau cyllid gan y sector preifat trwy fecanweithiau amrywiol megis Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig (2014 – 2020) a Chronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig. Mae dynodi Sain Tathan – Maes Awyr Caerdydd yn Ardal Fenter a'r Barri'n Ardal Adfywio yn allweddol i gyflawni'r Strategaeth yn llwyddiannus.

5.26 Cydnabyddir, fodd bynnag, bod gweithredu'r Strategaeth yn llwyddiannus yn dibynnu ar nifer o ffactorau allanol allweddol. Mae enghreifftiau'n cynnwys argaeledd tir gwirioneddol ddatblygadwy, cyflwyno polisi Ewropeaidd neu genedlaethol newydd, newidiadau yn yr economi fyd-eang a lleol ac argaeledd cyllid y sector preifat a chyhoeddus.

5.27 Yng ngoleuni'r uchod, mae adran naw o'r CDLl yn cynnwys fframwaith monitro a fydd yn helpu i asesu effeithiolrwydd Strategaeth a pholisïau'r CDLl o ran cyflawni amcanion y Cynllun. Yn arbennig, bydd y Cyngor yn mynd ati'n fanwl i fonitro datblygiad y safle adfywio strategol yng Nglannau'r Barri, datblygiadau yn Ardal Fenter Sain Tathan – Maes Awyr Caerdydd, y ddarpariaeth o ran tir newydd ar gyfer cyflogaeth a thai (gan gynnwys tai fforddiadwy), yn ogystal â gwelliannau arfaethedig i drafnidiaeth.

5.28 Yn dilyn mabwysiadu'r CDLl, bydd y Cyngor yn cyhoeddi Adroddiad Monitro Blynyddol a fydd yn nodi unrhyw Bolisïau nad ydynt yn cael eu gweithredu, y rhesymau pam ac yn awgrymu diwygiadau addas i'r CDLl er mwyn mynd i'r afael â'r sefyllfa. Hefyd, mae'n ofynnol cynnal adolygiad llawn o'r CDLl bob pedair blynedd yn unol â Rheoliad CDLl 41 (1)[3].

# Polisïau Strategol

5.29 Mae'r Polisïau Strategol (SP) canlynol yn darparu fframwaith ar gyfer cyflawni Strategaeth y CDLl.

## POLISI SP1 -
### CYFLAWNI'R STRATEGAETH

**Bydd y strategaeth yn ceisio gwella'r amgylchedd byw a gweithio, hybu mwynhad o gefn gwlad a'r arfordir a rheoli asedau amgylcheddol pwysig. Bydd hyn yn cael ei gyflawni trwy'r canlynol:**

1. **Darparu ystod a dewis o dai i ddiwallu anghenion yr holl sectorau yn y gymuned;**
2. **Hyrwyddo ystod o safleoedd cyflogaeth y mae eu hangen i ddiwallu anghenion Bro Morgannwg a'r brifddinas-ranbarth ehangach;**
3. **Atgyfnerthu rôl y Barri, canolfannau gwasanaethau a phrif aneddiadau fel darparwyr gwasanaethau diwylliannol, masnachol a chymunedol;**
4. **Hybu trafnidiaeth gynaliadwy;**
5. **Cyflawni seilwaith allweddol sy'n gysylltiedig ag effeithiau datblygu;**
6. **Gwarchod a gwella'r amgylchedd adeiledig, naturiol ac arfordirol;**

[3] Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005

**7 Darparu cyfleoedd ar gyfer twristiaeth a hamdden gynaliadwy; a**

**8. Ffafrio datblygu sy'n hybu ffordd iach o fyw.**

5.30 Caiff ardal Strategaeth y CDLl ei dangos ar y Diagram Allweddol. Dros y 15 mlynedd ddiwethaf, mae Ardal y De Ddwyrain a rhai o'r Prif Aneddiadau wedi profi twf sylweddol mewn tai ac mae angen o hyd am dai fforddiadwy yn yr ardal hon, yn enwedig yn y Barri. Er bod y tai ychwanegol hyn o gymorth i gefnogi a chynnal cyfleusterau, maent hefyd wedi rhoi mwy o bwysau ar seilwaith presennol yn ogystal â gwasanaethau a chyfleusterau lleol. Mae'r cyfleoedd cyfyngedig ar gyfer cyflogaeth leol wedi golygu hefyd bod nifer fwy o drigolion sy'n byw yn yr ardal hon yn dal i gymudo i awdurdodau cyfagos, yn enwedig Caerdydd, yn ddyddiol gan roi pwysau cynyddol ar wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus presennol a'r rhwydwaith priffyrdd strategol.

5.31 Mae'r CDLl yn darparu fframwaith polisi sy'n ceisio cynyddu cyfleoedd adfywio i'r eithaf a chreu cymunedau cynaliadwy. Nod Strategaeth y CDLl yw cael cyfatebiaeth rhwng datblygiadau tai presennol ac arfaethedig ar y naill law a chyfleoedd newydd ar gyfer cyflogaeth leol ar y llall gan felly ddarparu cyfleoedd i'r boblogaeth breswyl weithio ym Mro Morgannwg. Mae Strategaeth y CDLl hefyd yn ceisio gwella cyfleoedd trafnidiaeth gynaliadwy er mwyn lleihau dibyniaeth ar y car a lleddfu tagfeydd yn yr ardal leol. Hefyd, bydd cyfleusterau manwerthu a chymunedol newydd a gwell yn cael eu darparu fel rhan o gynigion datblygu newydd i ddiwallu anghenion poblogaeth gynyddol Bro Morgannwg.

5.32 Wrth ddatblygu cymunedau cynaliadwy, bydd cynigion sy'n hybu ffyrdd iach o fyw ac sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd yn cael eu ffafrio hefyd. Mae hyn yn cynnwys dylunio amgylcheddau sy'n rhoi anogaeth ar gyfer gweithgarwch corfforol ac ystyried anghenion trigolion hŷn o ran iechyd a gofal iechyd trwy ddyluniad adeiladau neu ddefnydd amlbwrpas o gyfleusterau cymunedol, yn enwedig lle mae hyn yn galluogi pobl i gadw eu hannibyniaeth ac aros yn y gymuned leol.

## POLISI SP2 -
### SAFLEOEDD STRATEGOL

**Dyrennir tir ar gyfer datblygu yn y safleoedd strategol canlynol:**

**1. Defnyddiau cymysg yng Nglannau'r Barri;**

**2. Defnyddiau cymysg yn Sain Tathan; a**

**3. Defnyddiau cyflogaeth ar dir ar bwys y maes awyr a Port Road, y rhws, fel rhan o ardal fenter Sain Tathan – Maes Awyr Caerdydd.**

5.33 Y safleoedd a nodir ym Mholisi SP2 (Safleoedd Strategol) yw'r rhai yr ystyrir eu bod yn elfennau pwysig sy'n cyfrannu at weithredu Strategaeth y CDLl fel a nodir yn y Cynllun, h.y. hybu cyfleoedd datblygu ac adfywio yn yr ardaloedd penodol a nodir yn y strategaeth.

### Glannau'r Barri

5.34 Mae Glannau'r Barri ar bwys Doc Rhif 1 ac yn cynnwys tua 48.55 hectar o dir a ddatblygwyd yn flaenorol, gan amgáu 30 hectar o ddŵr â 4.3km o lan cei. Y Weledigaeth ar gyfer Glannau'r Barri yw:

*"Creu ardal drefol newydd gynaliadwy gyda chymdogaethau unigryw, lleoedd deniadol a chyfleusterau cymunedol sy'n ategu, yn integreiddio ac yn cysylltu â thref y Barri ac Ynys y Barri, gan fanteisio'n llawn hefyd ar leoliad morol Doc Rhif 1."*

5.35 Mae'r datblygiad presennol yng Nglannau'r Barri yn cynnwys tuag 800 o unedau preswyl ynghyd â pharc manwerthu. Mae 'Ardal Arloesi' y Cyngor, prosiect adfywio defnydd cymysg 19 acr a hwylusir gan Lywodraeth Cymru, hefyd yn rhan o gyd-destun ehangach y glannau, gan gynnwys ystod o unedau busnes a swyddfeydd, canolfan feddygol a Gwesty Premier Inn a bwyty/tŷ tafarn cysylltiedig.

5.36 Ym mis Mawrth 2012, rhoddodd y Cyngor ganiatâd cynllunio amlinellol (cyf. 2009/00946/OUT) ar gyfer cam terfynol Glannau'r Barri. Mae'r cynllun yn cynnwys cymysgedd o ddefnyddiau preswyl (C3), manwerthu (A1), caffis, bariau a bwytai (A3), gwesty (C1), swyddfeydd (B1) a defnyddiau cymunedol a hamdden (D1 a D2), gan gynnwys ysgol newydd. Hefyd bydd y datblygiad yn darparu ar gyfer mynediad gan gerbydau a cherddwyr/beiciau, gan gynnwys ffordd gyswllt newydd i Ynys y Barri, ailraddio'r safle i ffurfio lefelau newydd a gwaith cysylltiedig i'r seilwaith, mannau parcio, gwasanaethau, tirlunio, tir y cyhoedd a darparu mannau agored cyhoeddus. Bydd y datblygiad defnydd cymysg strategol yng Nglannau'r Barri yn helpu i wireddu manteision adfywio sylweddol ar gyfer y dref, yn helpu i integreiddio Ynys y Barri, y Glannau a chanol y dref ac yn cryfhau rôl y Barri fel anheddiad allweddol yn y Brifddinas-Ranbarth.

### Sain Tathan

5.37 Caiff Sain Tathan ei nodi fel Ardal Cyfle Strategol yng Nghynllun Gofodol Cymru (Diweddariad 2008), gydag Ardal Fenter ddynodedig sydd hefyd yn canolbwyntio ar Barc Busnes Awyrofod Llywodraeth Cymru. Bydd y dynodiad hwn yn creu manteision economaidd sylweddol nid dim ond i Sain Tathan, ond hefyd i Fro Morgannwg yn ei chyfanrwydd a rhanbarth ehangach De Ddwyrain Cymru.

5.38 Rhoddwyd dau ganiatâd cynllunio amlinellol ar gyfer Coleg Hyfforddiant Amddiffyn newydd a datblygiad Parc Busnes Awyrofod ar 1 Rhagfyr 2009. Mae Strategaeth y CDLI yn cydnabod nid dim ond y dynodiadau uchod ond hefyd hanes cynllunio'r safle. Mae Ardal Fenter Sain Tathan a'r cyffiniau felly wedi'u nodi fel safle Strategol, o ystyried eu pwysigrwydd o ran cyflawni Strategaeth y CDLI sy'n ceisio hybu Sain Tathan fel cyfle datblygu allweddol, yn anad dim fel ardal ragoriaeth hyfforddiant a chyflogaeth, yn enwedig ar gyfer y sectorau milwrol ac awyrofod, yn ogystal â darparu cyfleoedd sylweddol ar gyfer datblygiad preswyl newydd.

5.39 Bydd y Parc Busnes Awyrofod yn adeiladu ar y gweithlu crefftus sydd eisoes yn bodoli yn yr ardal. Elfen arwyddocaol o'r cynigion ar gyfer yr Ardal Fenter yw darparu Ffordd Fynediad Ogleddol newydd i hwyluso datblygiad pellach y Parc Busnes Awyrofod yn Sain Tathan, ac mae hon felly wedi cael ei nodi ar y map cynigion a chan Bolisïau SP7 ac MG16. Cynigir datblygiad tai newydd hefyd i adlewyrchu pwysigrwydd Sain Tathan i Strategaeth y Cynllun, ac i gefnogi'r cyfleoedd cyflogaeth allweddol yn yr ardal. Mae'r dyraniadau tai newydd yn cynrychioli estyniadau trefol rhesymegol at yr anheddiad, neu ddyraniadau strategol sy'n mynd i'r afael â'r Ffordd Fynediad Ogleddol newydd, ac maent wedi'u lleoli'n dda o ran mynediad at wasanaethau a chyfleusterau presennol a'r cyfleoedd ar gyfer buddsoddiadau pellach a chyflogaeth newydd.

5.40 Mae safle'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn Sain Tathan yn darparu ffynhonnell cyflogaeth bwysig ar gyfer yr economi leol ac fe'i hadnabuwyd yn flaenorol fel y lleoliad a ffefrir ar gyfer cydleoli

hyfforddiant technegol ar gyfer y lluoedd arfog. Er na fwriwyd ymlaen â'r cynigion ar gyfer Canolfan Hyfforddiant Amddiffyn, fe gyhoeddodd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn 2013 y byddai 14eg Gatrawd y Signalau'n symud i Sain Tathan, gan felly atgyfnerthu rôl bwysig y safle fel rhan o gynlluniau amddiffyn y DU.

**Maes Awyr Caerdydd**

5.41 Mae Strategaeth y CDLl yn cydnabod pwysigrwydd Maes Awyr Caerdydd i ffyniant Bro Morgannwg yn y dyfodol, fel y mae ei ddynodiad (ar y cyd â Sain Tathan) fel rhan o Ardal Fenter 'Sain Tathan – Maes Awyr Caerdydd'. Mae'r safle blaenllaw hwn mewn lleoliad strategol wedi'i fwriadu i ysgogi mewnfuddsoddiad a chydnerthu rôl Bro Morgannwg yn y Brifddinas-Ranbarth.

5.42 I hwyluso'r Ardal Fenter, mae Polisi MG10 yn dyrannu 77.4HA o dir o amgylch y maes awyr, y bwriedir iddo ganolbwyntio ar ddefnyddio busnes a chyflogaeth gan ddarparu'n benodol ar gyfer anghenion y diwydiant awyrofod a gweithgynhyrchu uwchdechnolegol. Mae Polisi MG10 yn ehangu ar y dynodiad hwn fel dyraniad strategol, a fydd yn galw am Uwchgynllun i ddangos sut y gall datblygiad cynhwysfawr gyrraedd y nodau strategol a nodir yn y CDLl, ochr yn ochr â darparu estyniad mawr at Barc Gwledig Porthceri sydd eisoes yn bodoli i'r gorllewin o'r Barri (gweler Polisi MG28).

# Byw

## POLISI SP3 - GOFYNIAD PRESWYL

**Er mwyn ateb y gofyniad preswyl dynodedig, trefnir bod tir ar gael mewn lleoliadau cynaliadwy i ddarparu 9,460 o unedau preswyl newydd hyd at 2026.**

5.43 Mae Polisi SP3 yn rhagweld yr angen am 9,460 o unedau preswyl ychwanegol dros gyfnod y Cynllun, sy'n deillio o newid demograffig ac ymfudo ynghyd â newidiadau o ran ffurfiant aelwydydd. Mae'r gofyniad hwn yn deillio o amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd awdurdodau lleol Llywodraeth Cymru sy'n seiliedig ar 2011. Ceir rhagor o wybodaeth am y gofyniad am anheddau gan gynnwys dadansoddiad ystadegol ym mhapur cefndir Amcanestyniadau Poblogaeth ac Aelwydydd y Cyngor (2013) a'r papur cefndir ar Ddarparu Tai (2015).

5.44 Daw'r galw mwyaf am dai newydd o newidiadau ym mhoblogaeth Bro Morgannwg dros gyfnod y cynllun 2011 – 2026, gydag amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd awdurdodau lleol Llywodraeth Cymru – Y Gyfradd Ymfudo Gyfartalog dros 10 Mlynedd sy'n seiliedig ar 2011 yn dynodi y bydd y boblogaeth yn cynyddu yn ôl cyfradd o 9,602 o bobl rhwng 2011 a 2026, ac y bydd hynny'n creu'r angen am 7,399 o anheddau ychwanegol. Hefyd, ac o ganlyniad i'r dyheadau ar gyfer twf economaidd yn y CDLl, mae'r Cyngor yn rhagweld bod gan y dyraniadau cyflogaeth strategol yn Ardaloedd Menter Sain Tathan a Maes Awyr Caerdydd, a Thir i'r De o Gyffordd 34 yn Hensol, gyda'i gilydd, y potensial i greu'r angen am 1,602 annedd arall erbyn 2026. Gwneir darpariaeth hefyd ar gyfer 459 annedd ychwanegol i roi cymorth i ddiwallu'r lefel uchel o angen am dai fforddiadwy ym Mro Morgannwg, sy'n cyfateb i ôl-groniad o 1 flwyddyn o angen am dai fforddiadwy a adnabuwyd yn Asesiad y Cyngor o'r Farchnad Dai Leol yn 2015.

5.45 Mae'r tabl isod yn nodi'r elfennau o'r gofyniad am anheddau yn y CDLl hyd at 2026; ceir manylion pellach o ran sut y bwriedir ateb y gofyniad hwn dan Bolisi MG1.

| Elfennau o'r Gofyniad am Anheddau ym Mro Morgannwg 2011 - 2026 | |
|---|---|
| | **Anheddau** |
| Amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd awdurdodau lleol – Y Gyfradd Ymfudo Gyfartalog dros 10 Mlynedd sy'n seiliedig ar 2011 | 7,399 |
| Effaith bosibl ar dwf economaidd –<br>1,540 o aelwydydd, wedi'i luosi â chyfradd trosi aelwydydd i anheddau o 1.04 | 1,602 |
| Lwfans ar gyfer darpariaeth tai fforddiadwy ychwanegol | 459 |
| Gofyniad am dai | 9,460 |

5.46 Er mwyn adeiladu 9,460 o unedau preswyl newydd ym Mro Morgannwg dros gyfnod y Cynllun bydd yn ofynnol cael cynnydd sylweddol mewn cyfraddau adeiladu tai, o gyfartaledd o 468 a brofwyd dros y 15 mlynedd ddiwethaf i gyfradd adeiladu o 631 y flwyddyn. Caiff y fframwaith ar gyfer cyflawni'r twf uwch hwn ei ddarparu gan Bolisi MG1 (Cyflenwad Tai ym Mro Morgannwg) a Pholisi MG2 (Dyraniadau Tai).

5.47 Mae'r mwyafrif o safleoedd tai newydd a restrir ym Mholisi MG2 wedi'u lleoli yn y Barri ac yn ardal Sain Tathan yn ogystal â'r Ganolfan Gwasanaethau Allweddol a'r Prif Aneddiadau a nodir yn Strategaeth y CDLl. Yn unol â hynny, mae ystod eang o gyfleusterau cyflogaeth, manwerthu, hamdden ac addysg presennol a datblygol o fewn cyrraedd rhwydd a chaiff yr aneddiadau eu gwasanaethu gan drafnidiaeth gyhoeddus dda. Hefyd, bydd tai newydd yng Nglannau'r Barri o gymorth i adfywio'r dref. Er mwyn hwyluso ystod a dewis o gyfleoedd datblygu, mae rhai safleoedd tai ychwanegol wedi cael eu dyrannu yn rhai o'r pentrefi mwy cynaliadwy yn y Fro Wledig hefyd. Yn hyn o beth mae hierarchaeth aneddiadau'r CDLl yn adnabod mân aneddiadau gwledig cynaliadwy amrywiol sydd â'r gallu i dderbyn rhywfaint o ddatblygu ychwanegol heb i hynny gael effaith annerbyniol ar eu cymeriad.

5.48 Er mwyn rheoli twf yn effeithiol, mae ffiniau aneddiadau wedi'u diffinio o amgylch yr holl aneddiadau yn Hierarchaeth Aneddiadau'r CDLl. Bydd cynigion datblygu'n cael eu hasesu yn unol â Pholisi MD5. Mewn mannau eraill, bydd llety ychwanegol yn cael ei ddarparu trwy ddisodli, adnewyddu ac addasu adeiladau gwledig presennol priodol (Polisi MD11) a safleoedd eithriadau tai fforddiadwy (Polisi MD10).

5.49 Bydd tir yn cael ei fonitro a'i ryddhau yn seiliedig ar Gydastudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai flynyddol y Cyngor, sy'n cynnwys mecanwaith ar gyfer cyfrifo'r cyflenwad o dir ar gyfer tai wedi'i fesur mewn blynyddoedd ac adroddiad monitro blynyddol ar gyfer y CDLl. Y nod yw sicrhau y dangosir safleoedd penodol, y gellir eu darparu ac sy'n gallu darparu cyflenwad 5 mlynedd o dir. Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i argaeledd a chyflawni seilwaith perthnasol.

## POLISI SP4 -
### DARPARIAETH TAI FFORDDIADWY

**Bydd disgwyl i'r gofyniad preswyl a nodir ym mholisi sp3 gyfrannu at anghenion tai cymunedol sefydledig bro morgannwg trwy ddarparu hyd at 3,252 o unedau preswyl fforddiadwy dros gyfnod y cynllun.**

5.50 Mae darpar tai fforddiadwy yn amcan allweddol yn Strategaeth y CDLl, ac mae cryfder cymharol marchnad dai Bro Morgannwg dros y 10 mlynedd ddiwethaf wedi peri i lawer o bobl leol brofi anawsterau wrth geisio prynu tai addas ar y farchnad agored.

5.51 Mae Asesiad y Cyngor o'r Farchnad Dai Leol a gyhoeddwyd yn 2015 yn nodi angen blynyddol net am 559 o Dai Fforddiadwy y flwyddyn dros y pum mlynedd nesaf (2015 – 2020), sy'n cynnwys 331 o dai rhent cymdeithasol, 115 o dai perchentyaeth gost isel a 113 o anheddau rhent canolradd. Mae'n nodi'r angen am dai fforddiadwy ledled Bro Morgannwg, ac yn nodi bod yr ardaloedd â'r angen mwyaf yn wardiau Penarth a Llandochau, a'r Barri, ac yna Llanilltud Fawr, Dinas Powys, Y Bont-faen, Y Rhws, Sili, Sain Tathan, Gwenfô, Llanbedr-y-fro, Llandŵ/Ewenni a Saint-y-brid.

5.52 Er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r angen a nodwyd, mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd y CDLl yn cyfrannu at ddiwallu'r angen dynodedig hwn trwy ddarparu hyd at 3,252 o anheddau fforddiadwy dros gyfnod y Cynllun. Bydd darparu tai fforddiadwy dros gyfnod y Cynllun yn digwydd yn bennaf trwy swyddogaeth statudol y Cyngor fel yr awdurdod tai lleol a'r awdurdod cynllunio lleol.

5.53 Fel yr awdurdod tai lleol bydd y Cyngor yn sicrhau bod y stoc dai'n cael ei rheoli'n effeithlon, gyda phwyslais arbennig ar leihau cyfraddau anheddau gwag, a bydd yn gweithio mewn partneriaeth gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i ddarparu tai newydd yn y sector cymdeithasol. Mae'r Cyngor wedi darparu 25 uned breswyl fforddiadwy newydd y flwyddyn ar gyfartaledd trwy'r grant tai cymdeithasol. Dros y 15 mlynedd nesaf rhagwelir y gallai hyn greu 375 o unedau preswyl fforddiadwy ychwanegol ond mae hyn yn ddibynnol ar barhad y Grant Tai Cymdeithasol ac o ganlyniad nid yw'r cyfraniad hwn wedi'i gynnwys yn y 3,252 o unedau a nodir ym Mholisi SP4.

5.54 Fel yr awdurdod cynllunio lleol bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau lefel briodol a chymysgedd priodol o dai fforddiadwy ym mhob datblygiad preswyl arfaethedig a gall gynnwys tai rhent cymdeithasol a chanolradd, tai'r farchnad gost isel, yn ogystal â thai cydweithredol a thai i bobl hŷn. Mae rhagor o wybodaeth am yr agwedd hon wedi'i chynnwys dan Bolisi MG4 ac ym mhapur cefndir y Cyngor ar Ddarparu Tai Fforddiadwy. Roedd tystiolaeth y Cyngor ar Hyfywedd Tai Fforddiadwy a baratowyd i oleuo'r CDLl yn asesu gallu datblygiadau preswyl newydd ledled ardal yr awdurdod i ddarparu elfen o dai fforddiadwy o fewn cynlluniau, a daeth i'r casgliad bod datblygiadau preswyl newydd ym Mro Morgannwg yn gallu darparu tai fforddiadwy yn ôl cyfradd sydd rhwng 30 a 40%. Mae'r gofynion hyn wedi cael eu cymryd i ystyriaeth wrth lunio Polisi MG4.

5.55 Mynegol yw'r ffigwr ar gyfer y gofyniad am dai fforddiadwy ym Mholisi SP4 ac mae'n ymwneud dim ond â'r cartrefi fforddiadwy hynny a gaiff eu sicrhau trwy'r system gynllunio. Mae'r ffigwr yn cynnwys cyfraniadau gan safleoedd wedi'u neilltuo, tai ychwanegol o ddyraniadau newydd, hapsafleoedd a safleoedd bychain a nodir ym Mholisïau MG1, MG2, MG4 ac MD5. Rhagwelir y bydd dyraniadau newydd yn cyfrannu hyd at 2,627 o unedau o dai fforddiadwy ac y bydd hapsafleoedd a safleoedd bychain yn cyfrannu hyd at 625 o unedau preswyl fforddiadwy, gan gynnwys y lwfans hyblygrwydd o 10% yn y cyflenwad a nodir dan Bolisi MG1.

5.56 Er mwyn bod o gymorth i ddarparu unedau preswyl fforddiadwy mae Polisi MD10 yn darparu fframwaith sy'n darparu ar gyfer datblygu tai fforddiadwy mewn lleoliadau cynaliadwy y tu allan i ffiniau anheddu'r trefi a'r pentrefi a nodir yn hierarchaeth aneddiadau'r CDLl.

5.57 Mae manylion pellach ynglŷn â gofynion safle-benodol y CDLl ar gyfer darparu tai fforddiadwy wedi'u nodi ym mholisïau Rheoli Twf a Rheoli Datblygu'r Cynllun (gweler adrannau 6 a 7 yn y drefn honno).

# Gweithio

## POLISI SP5 -
### GOFYNION CYFLOGAETH

**Er mwyn sicrhau ffyniant parhaus Bro Morgannwg a hybu twf yn y brifddinas-ranbarth, dyrennir 492 hectar (369 ha net) o dir i ddiwallu anghenion cyflogaeth rhanbarthol a lleol.**

5.58 Mae Strategaeth y CDLl yn cydnabod y dylanwad pwysig y mae datblygu tir at ddibenion economaidd yn gallu ei gael ar economi Bro Morgannwg a'r rhanbarth ehangach. Mae adnabod Ardaloedd Cyfle Strategol Sain Tathan, a Llantrisant a Gogledd Orllewin Caerdydd, ynghyd ag adnabod Ardal Fenter Sain Tathan – Maes Awyr Caerdydd, yn golygu bod gan Fro Morgannwg rôl bwysig yn ffyniant economaidd y Brifddinas-Ranbarth yn y dyfodol.

5.59 I hybu twf economaidd mae Polisi MG9 y CDLl yn dyrannu 437.56 hectar (314.23 Ha net) o dir ar dri safle cyflogaeth pwysig ym Mharc Busnes Awyrofod Sain Tathan, ar dir ar bwys Maes Awyr Caerdydd, a thir i'r de o Gyffordd 34 yr M4 (Hensol) i ddiwallu anghenion rhanbarthol. Wrth ddyrannu'r safleoedd hyn mae'r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd strategol pob safle o ran ei leoliad ac fel y sbardun ar gyfer cyflogaeth newydd yn rhanbarth De Ddwyrain Cymru. Amcangyfrifir y bydd datblygu'r tir cyflogaeth sydd wedi'i ddyrannu'n creu 7,610 – 10,610 o swyddi posibl ym Mro Morgannwg. Bydd datblygu'r safleoedd hyn hefyd yn creu swyddi (anuniongyrchol) ychwanegol yn y rhanbarth ehangach. Mae'r dyraniadau cyflogaeth strategol wedi'u bwriadu'n benodol i ddiwallu anghenion y sectorau economaidd allweddol canlynol:

- Y Diwydiant Awyrofod;
- Gweithgynhyrchu Uwch-dechnolegol; a
- Logisteg a Dosbarthu.

5.60 Er mwyn sicrhau bod digon o dir yn bodoli i ddiwallu'r anghenion o ran cyflogaeth leol, fe gomisiynodd y Cyngor adolygiad o'r tir a safleoedd cyflogaeth presennol ym Mro Morgannwg[4]. Canfu hwn fod y farchnad swyddfeydd yn fach ac yn lleol yn bennaf, a hithau wedi'i chanoli yn nhrefi'r Barri, Y Bont-faen a Phenarth gyda galw am adeiladau sy'n llai na 100 metr sgwâr. O ran tir ac adeiladau diwydiannol, ceir galw cryf yn lleol am adeiladau diwydiannol rhatach/cymedrol, gyda'r cyflenwad presennol o eiddo wedi'i ganoli mewn tri lleoliad allweddol, sef y Barri a Llandochau, sy'n gwasanaethu'r Fro ddwyreiniol, a Llandŵ, sy'n gwasanaethu'r Fro wledig. Ystyrir bod y Barri yn lleoliad ar gyfer adleoli cwmnïau o Gaerdydd.

5.61 O ran darparu tir ar gyfer cyflogaeth leol, mae'r Astudiaeth Tir Cyflogaeth (2013) wedi dod i'r casgliad bod angen rhagamcanol am 53 ha, gyda'r banc tir cyflogaeth presennol yn ddigonol o ran lleoliad a chyflenwad hyd at 2026. Fodd bynnag, fe wnaeth yr astudiaeth nodi hefyd bod gwerthoedd tir isel a gwerthoedd rhenti gostyngol yn rhwystr i ddatblygu tir ac adeiladau cyflogaeth ar hap, gyda hynny'n arwain at ddiffyg tir ac adeiladau diwydiannol â gwasanaeth sydd o ansawdd i ateb y galw'n lleol.

[4]Papur Cefndir Astudiaeth Tir Cyflogaeth 2013

5.62 I wella'r sefyllfa, nododd yr astudiaeth gyfres o argymhellion a oedd yn cynnwys:

- Gan fod prinder o ran ystod a dewis o dir datblygadwy sydd ar gael, dylai'r Cyngor warchod safleoedd ac adeiladau cyflogaeth presennol rhag defnyddiau eraill.
- Gweithio gyda pherchnogion i gyflwyno lleiniau â gwasanaeth, dwysau defnyddiau cyflogaeth ar safleoedd presennol trwy uwchraddio/ailddatblygu adeiladau presennol.
- Y tu allan i'r prif safleoedd cyflogaeth, ystyried, lle y bo'n briodol, datblygiadau defnydd cymysg sy'n dwyn mwy o fudd i'r gymuned leol ac a allai greu swyddi.
- Rhoi anogaeth ar gyfer twf cyflogaeth mewn ardaloedd gwledig trwy hybu mentrau gwledig a chamau i arallgyfeirio.

5.63 Er mwyn sicrhau bod amrywiaeth briodol o dir ar gael ledled ardal yr awdurdod i ateb gofynion o ran cyflogaeth leol, mae Polisi MG9 yn dyrannu 54.68 hectar o dir ar gyfer datblygiadau B1, B2 a B8, sy'n cynnwys clustog o ran y cyflenwad 5 mlynedd i ddarparu rhywfaint o hyblygrwydd dros gyfnod y Cynllun. Mae hyn yn ychwanegol at y tri safle cyflogaeth pwysig a enwyd uchod a fydd, ar y cyd, yn darparu ystod a dewis i ateb y galw lleol a chefnogi anghenion y rhanbarth ehangach. Yn ychwanegol at ddyraniadau tir penodol, mae Polisi MD17 yn darparu cyd-destun sy'n hybu camau i arallgyfeirio a menter yn economi'r Fro wledig.

## POLISI SP6 -
### MANWERTHU

**Er mwyn sicrhau bywiogrwydd, hyfywedd a dengarwch parhaus canolfannau tref ac ardal Bro Morgannwg, gwneir darpariaeth ar gyfer 2,329 metr sgwâr (net) o arwynebedd llawr ar gyfer manwerthu nwyddau cymharol a 3,495 metr sgwâr (net) ar gyfer manwerthu nwyddau cyfleustra. hefyd, bydd cyfleoedd i ddefnyddio arwynebedd llawr gwag yn effeithiol ac adnewyddu adeiladau'n cael eu cynyddu i'r eithaf, ynghyd â mesurau i wella tir y cyhoedd a mynediad.**

5.64 Mae darpariaeth manwerthu ym Mro Morgannwg wedi'i chanoli'n bennaf yng nghanol tref y Barri a chanolfannau ardal Penarth, Y Bont-faen a Llanilltud Fawr. Nodweddir yr ardaloedd manwerthu hyn gan ystod o fanwerthwyr lleol a chenedlaethol ac maent yn gwasanaethu dalgylchoedd cymharol eang. Hefyd, mae canolfannau lleol a chymdogaeth yn darparu gwasanaeth lleol pwysig ar gyfer eu dalgylch uniongyrchol ac yn darparu cyfleoedd i leihau siwrneiau mewn car.

5.65 Roedd yr Astudiaeth Fanwerthu (2009) a gwblhawyd ar gyfer y Cyngor gan CACI yn darparu asesiad meintiol ac ansoddol o ddarparu nwyddau cyfleustra a chymharol yn yr awdurdod. Roedd yr Astudiaeth yn nodi angen i ddarparu 6,235 metr sgwâr (net) o arwynebedd llawr ar gyfer manwerthu nwyddau cyfleustra a 1,072 metr sgwâr (net) o arwynebedd llawr ar gyfer manwerthu nwyddau cymharol dros gyfnod y cynllun. Dylid nodi, ers i'r astudiaeth hon gael ei chwblhau, bod peth wmbredd o arwynebedd llawr newydd ar gyfer manwerthu nwyddau cyfleustra wedi cael ei ddarparu neu yn yr arfaeth ar hyn o bryd yn y canolfannau presennol. Mae hyn yn cynnwys datblygu siop fwyd 'Waitrose' yng nghanol tref y Bont-faen sy'n mesur 1,319 metr sgwâr (net), a phedair uned fanwerthu gysylltiedig nad ydynt yn ymwneud â bwyd sy'n gorchuddio tua 577 metr sgwâr (net), a fydd nid yn unig yn dwyn manteision cadarnhaol i'r Bont-faen, gan atgyfnerthu ei safle yn yr hierarchaeth fanwerthu, ond a fydd hefyd yn cadw gwariant ar nwyddau cyfleustra yn y dref. Mae manylion llawn ynglŷn â darpariaeth ychwanegol wedi'u cynnwys yn y Diweddariad i'r Astudiaeth Cynllunio ar gyfer Anghenion Manwerthu 2016.

5.66 Bydd y gofynion sy'n weddill am arwynebedd llawr newydd ar gyfer manwerthu nwyddau cyfleustra'n cael eu hateb yn Natblygiad Glannau'r Barri, dan Bolisi MG3, a fydd yn cynnwys 3,495 metr sgwâr (net) o arwynebedd llawr ar gyfer manwerthu nwyddau cyfleustra.

5.67 Bydd yr arwynebedd llawr ychwanegol ar gyfer manwerthu nwyddau cymharol yn cael ei ddarparu yng Nglannau'r Barri (2,329 metr sgwâr (net) dan Bolisi MG3) a chanolfannau manwerthu presennol y Barri,

Penarth, Llanilltud Fawr a'r Bont-faen. Roedd astudiaeth CACI yn rhagfynegi y bydd yr arwynebedd llawr sydd dros ben ar gyfer manwerthu nwyddau cymharol yn cyrraedd 1,072 metr sgwâr erbyn 2026. Trwy'r Polisïau Rheoli Datblygu, bydd y CDLl yn darparu fframwaith polisi cadarnhaol ar gyfer rheoli a chynnal amgylchedd manwerthu hyfyw yn y canolfannau presennol hyn.

5.68 Mae canolfannau tref ac ardal yn cyflawni rôl hollbwysig o ran diwallu anghenion trigolion a bydd y CDLl yn ceisio ffafrio cynigion sy'n cyfrannu at adfywio canolfannau o'r fath, trwy adnewyddu ac ailddefnyddio adeiladau gwag. Bydd y CDLl hefyd yn ceisio gwella'r arlwy manwerthu mewn canolfannau tref ac ardal, gyda ffocws ar weithgarwch adfywio sydd wedi'i ganoli ar ailddefnyddio arwynebedd llawr gwag yn effeithiol ar lefel y stryd ac ar loriau uwch yn ogystal â gwelliannau i dir y cyhoedd, cylchrediad a mynediad.

## Rheoli

### POLISI SP7 -
### TRAFNIDIAETH

**Bydd gwelliannau o ran trafnidiaeth gynaliadwy sy'n gwasanaethu anghenion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Bro Morgannwg ac yn hybu amcanion cynllun trafnidiaeth rhanbarthol de ddwyrain cymru a'r cynllun trafnidiaeth lleol yn cael eu ffafrio. Y blaenoriaethau allweddol ar gyfer cyflawni seilwaith trafnidiaeth strategol fydd:**

1. **Ffordd gyswllt newydd i Ynys y Barri;**
2. **Ffordd fynediad ogleddol newydd yn ardal fenter Sain Tathan;**
3. **Gwelliannau i'r A4226 rhwng Waycock Cross, y Barri a Sycamore Cross, A48 (Five Mile Lane);**
4. **Gwelliannau i'r B4265 yn Silstwn – yr Hen Felin;**
5. **Moderneiddio cledrau'r cymoedd;**
6. **Y rhwydwaith Beicio Cenedlaethol - llwybr 88; #;**
7. **Llwybrau beicio ynt:**
   - **A4050 Croes Cwrlwys i faes Awyr Caerdydd;**
   - **A48 Croes Cwrlwys i Ben-y-Bont ar Ogwr Trwy'r Bont-Faen; a**
   - **Glannau'r Barri i Ddinas Powys.**
8. **Parcio a theithio ar fws yn Cosmeston, Penarth;**
9. **Mesurau i roi blaenoriaeth i fysiau yn:**
   - **A4050 Croes Cwrlwys i faes Awyr Caerdydd;**
   - **A48 Croes Cwrlwys i Ben-y-Bont ar Ogwr Trwy'r Bont-Faen;**
   - **Merrie Harrier Cardiff Road, y Barri i Gaerdydd trwy Barry Road;**
   - **Leckwith Road, Llandochau i Gaerdydd; a**
   - **Lavernock Road i Gaerdydd Dros y Morglawdd.**

**Rhoddir blaenoriaeth hefyd i gynlluniau sy'n gwella diogelwch a hygyrchedd priffyrdd, trafnidiaeth gyhoeddus, cerdded a beicio.**

**Bydd yn ofynnol i'r holl ddatblygiadau newydd sy'n cael effaith uniongyrchol ar y seilwaith trafnidiaeth strategol gyflawni gwelliannau priodol i'r rhwydwaith.**

*# Mynegol yw Llwybr 88 y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol a ddangosir ar Fap Cynigion y CDLl a bydd gwaith dichonoldeb pellach yn cael ei wneud arno oni ddynodir fel arall eu bod yn llwybrau wedi'u cadarnhau.*

5.69 Bydd cyflawni safleoedd tai arfaethedig a safleoedd cyflogaeth sy'n bwysig yn strategol yn ddibynnol ar weithredu cynlluniau trafnidiaeth gynaliadwy a gwella priffyrdd allweddol.

5.70 Mae darparu ffordd gyswllt newydd i Ynys y Barri'n elfen allweddol o'r cynigion i ddatblygu Glannau'r Barri, gan wella cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus allweddol a chysylltiadau trafnidiaeth gynaliadwy a helpu i atgyfnerthu cysylltiadau presennol rhwng Glannau'r Barri ac Ynys y Barri. Bydd felly'n dwyn manteision sylweddol o ran hyrwyddo Ynys y Barri fel cyrchfan twristiaeth a hamdden.

5.71 Mae gan yr Ardal Fenter yn Sain Tathan – Maes Awyr Caerdydd y potensial i ddwyn twf economaidd sylweddol i Fro Morgannwg a'r Brifddinas-Ranbarth ehangach. Er mwyn gallu gwireddu'r potensial hwn, fodd bynnag, mae angen i wynebau ffyrdd a mynediad â thrafnidiaeth gyhoeddus i Faes Awyr Caerdydd, a mynediad ar hyd y briffordd i'r Parc Busnes Awyrofod yn Sain Tathan gael eu gwella'n sylweddol. Bydd hyn yn cynnwys mesurau i roi blaenoriaeth i fysiau i'r maes awyr a darparu Ffordd Fynediad Ogleddol newydd, gyda'r ail o'r rhain yn ymgorffori seilwaith cerdded a beicio i gysylltu ardal Sain Tathan â Llanilltud Fawr yn Sain Tathan.

5.72 Mae'r A4226 (Five Mile Lane) yn cysylltu'r Barri yng nghylchfan Waycock Cross â chyffordd Sycamore Cross ar yr A48, ac yn rhan hanfodol o'r rhwydwaith priffyrdd sy'n arwain at yr Ardal Fenter. Mae'r Gwelliannau i Briffordd Five Mile Lane sydd yn yr arfaeth yn deillio o gynigion Llywodraeth Cymru i droi'r llwybr o Groes Cwrlwys – Sycamore Cross – Five Mile Lane – Maes Awyr yn gefnffordd. Mae'r Cyngor wedi cael Grant Prif Ffordd yn flaenorol gan Lywodraeth Cymru i fwrw ymlaen â Chynllun Gwella Priffordd Five Mile Lane, a hyd yma mae'r gwaith hwn wedi cynnwys gosod signalau ar gyffordd Sycamore Cross, yn ogystal â gwaith dylunio a dichonoldeb cychwynnol ynghyd ag asesiadau amgylcheddol amrywiol. Mae cyllid ar gyfer y cynllun wedi cael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru a chyflwynwyd cais cynllunio ym mis Mawrth 2016.

5.73 Cafodd symudiad ar hyd y B4265 ei wella'n sylweddol yn dilyn adeiladu ffyrdd osgoi'r Rhws a Llanilltud Fawr. Mae cynllun gwella priffordd Silstwn – Yr Hen Felin wedi gwella aliniadau llorweddol a fertigol y briffordd ac wedi gwella mynediad i Bwerdy Aberddawan a'r Ardal Fenter / Parc Busnes Awyrofod yn Sain Tathan – Maes Awyr Caerdydd yn sylweddol.

5.74 Bydd Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth gyda rhanddeiliaid eraill, yn bwrw ymlaen â chynigion i foderneiddio rhwydwaith rheilffyrdd Cledrau'r Cymoedd, gan gynnwys rheilffordd Bro Morgannwg. Bydd moderneiddio Cledrau'r Cymoedd fel rhan o gynigion ar gyfer Metro Caerdydd yn dwyn manteision amgylcheddol, yn creu siwrneiau cyflymach, mwy o gapasiti ac o gymorth gydag adfywio economaidd a thwf swyddi yn Ne Cymru.

5.75 Wrth geisio creu cymunedau cynaliadwy a chynhwysol, bydd y CDLl yn rhoi anogaeth i ddatblygu dewisiadau teithio cynaliadwy ac yn gwella hygyrchedd. Bydd llwybr y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol ym Mro Morgannwg yn rhan o Lwybr 88 hirach sy'n cysylltu â Llwybr 4 i'r dwyrain yng Nghasnewydd ac i'r gorllewin ym Mharc Margam trwy Ben-y-bont ar Ogwr a Phorthcawl. Mae Llwybr 88 y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol yn rhedeg o'r dwyrain i'r gorllewin trwy Fro Morgannwg fel rheol ac fe'i dangosir ar y diagram allweddol.

5.76 Bydd Llwybr 88 y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol yn darparu cysylltiadau â chymunedau a chyrchfannau eraill sy'n agos at goridor y llwybr i ddarparu prif lwybr cydlynol gyda rhwydweithiau lleol cysylltiedig. Mae prif Lwybr 88 y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol yn dilyn lonydd tawel yng ngorllewin gwledig yr ardal lle ceir potensial hefyd ar gyfer llwybr cylchol at ddibenion hamdden. Mae'r darn canolog yn rhedeg yn agosach at y forlin ond mae rhai materion perchnogaeth tir ac adeiladu'n gysylltiedig ag ef, y gallai gymryd peth amser i'w datrys a'u cyllido. Mae darn dwyreiniol mwy trefol prif lwybr y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol yn cysylltu'r Barri, Sili a Phenarth â Chaerdydd ac yn rhwydwaith cynhwysfawr. Mae'r rhwydwaith hefyd yn cysylltu ardaloedd preswyl

Dinas Powys a Llandochau â chyrchfannau trefol ar gyfer siwrneiau ysgol, cymudo a theithiau aml-bwrpas eraill yn ogystal â'u cysylltu â'r rhwydwaith ehangach ar gyfer defnydd hamdden. Yn ffin ddwyreiniol yr awdurdod darperir cyswllt â chanol dinas Caerdydd a Bae Caerdydd gan lwybr cylchol o amgylch y Bae trwy bompren newydd sy'n croesi Afon Elai ym Mhenarth a chan ffordd gyswllt dros y morglawdd sy'n borth dramatig i'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol trwy Fro Morgannwg.

5.77 Yn 2013, fe ddadlennodd SEWTA gynigion ar gyfer system drafnidiaeth gwbl integredig yn rhanbarth Dinas Caerdydd, gan nodi gorsafoedd a llwybrau rheilffordd newydd posibl, yn ogystal â lonydd sy'n rhoi blaenoriaeth i fysiau a chledrau ysgafn, i gysylltu'r rhanbarth yn well. A hwythau wedi'u bwriadu i fod yn "sbardun" ar gyfer twf economaidd a chreu swyddi, gyda chymorth Llywodraeth Cymru mewn partneriaeth gyda'r sector cyhoeddus a'r sector preifat, y gobaith yw y bydd y cynigion yn dwyn gwelliannau i drafnidiaeth gyhoeddus ym Mro Morgannwg gan gynnwys gwella amseroedd siwrneiau a chynigion parcio a theithio integredig.

5.78 Mae Parcio a Theithio ar Fws yn un o ystod o offer cynllunio trafnidiaeth y gellir eu defnyddio i annog defnyddwyr ceir i newid i drafnidiaeth gyhoeddus a gall cyfleuster sydd wedi'i ddylunio a'i leoli'n dda fod o gymorth i leihau lefelau traffig yng nghanol y dref. Unig ddiben safleoedd o'r fath yw rhoi anogaeth ar gyfer newid dull o ddefnyddio car ag un teithiwr ynddo, gan symud traffig o'r rhwydwaith ffyrdd presennol a lleddfu tagfeydd presennol. Gall Parcio a Theithio ar Fws helpu i ffurfio delwedd gadarnhaol o drafnidiaeth gyhoeddus sy'n gallu rhoi anogaeth i ddefnyddio gwasanaethau prif ffrwd eraill yn fwy. Caiff cyfleusterau parcio a theithio a pharcio a rhannu eu cefnogi gan Gynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol Llywodraeth Cymru a Chynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol SEWTA ac mae angen i safleoedd fod yn ddigon mawr i leihau'r defnydd o geir ar y coridorau targed yn sylweddol gyda mannau parcio'n cael eu darparu ar gyfer isafswm o 500 o geir ynghyd â mesurau sy'n rhoi blaenoriaeth i fysiau ar hyd llinell y llwybr.

5.79 Mae Strategaeth Bysiau SEWTA (2007) yn cynnwys cynigion i wella'r coridor bysiau rhwng Bro Morgannwg a Chaerdydd ar hyd y prif rwydwaith ffyrdd. Prif argymhelliad astudiaeth y rhaglen buddsoddi mewn bysiau oedd y dylid canolbwyntio ar welliannau i goridor Dinas Powys, Llandochau a Lecwydd i Gaerdydd. Mae Astudiaeth Steer Davies Gleave 2008 yn ehangu ar y cynigion a nodwyd yn Strategaeth Fysiau SEWTA ac yn nodi 10 prif goridor ar gyfer mesurau sy'n rhoi blaenoriaeth i fysiau yn Rhanbarth SEWTA. Mae'r coridorau a adnabuwyd ym Mro Morgannwg yn cynnwys coridor Dinas Powys i Gaerdydd, coridor Croes Cwrlwys i'r Maes Awyr a choridor Pen-y-bont ar Ogwr i Gaerdydd trwy'r A48 a'r Bont-faen. Ystyrir ei bod yn fwy o broblem i fysiau gael blaenoriaeth dros y car ar y llwybrau hyn oherwydd tagfeydd a swm y traffig sy'n gwneud i'r bysiau eistedd yn yr un traffig â'r ceir. Bydd rhoi mantais i fysiau trwy roi blaenoriaeth iddynt yn annog pobl i newid dull trafnidiaeth o'r car i drafnidiaeth gyhoeddus.

5.80 Trwy ei Strategaeth Rhwydwaith Bysiau sy'n dod i'r amlwg, mae SEWTA yn cydnabod yr angen i weithredu mesurau sy'n rhoi blaenoriaeth i fysiau ar hyd coridorau lle darperir cyfleusterau parcio a theithio ar fws rhanbarthol. Felly, er mwyn ystyried cyfleuster parcio a theithio yn Cosmeston i ddarparu ar gyfer bysiau sy'n mynd i Gaerdydd dros y Morglawdd, bydd angen darparu mesurau sy'n rhoi blaenoriaeth i fysiau ar y coridor o Cosmeston i Fae Caerdydd.

5.81 Mae darparu rhwydwaith priffyrdd strategol yn hollbwysig i symudiad effeithlon pobl a nwyddau ym mhob rhan o Fro Morgannwg. Bydd y Cyngor yn parhau i bwyso am welliannau i'r rhwydwaith priffyrdd strategol, gyda phwyslais arbennig ar ddarparu gwelliannau o ran mynediad i'r Barri, y Maes Awyr a Sain Tathan o'r M4. Yn yr un modd, bydd yr holl ddatblygiadau newydd sy'n cael effaith ar y rhwydwaith priffyrdd strategol yn cael eu hasesu'n ofalus o ran yr angen i wella mynediad strategol.

5.82 Mae Astudiaeth Strategaeth Priffyrdd Cynghrair Trafnidiaeth De Ddwyrain Cymru (SEWTA) (2008) yn nodi'r A4055 trwy Ddinas Powys fel ardal broblemus allweddol o'r rhwydwaith ffyrdd rhanbarthol o ganlyniad i faint y traffig a thagfeydd cysylltiedig. Ystyrid bod y Ffordd Gyswllt o Lannau'r Barri i Gaerdydd (Ffordd Osgoi Dinas Powys) yn dwyn manteision deuol, gan helpu i leddfu tagfeydd traffig a gwella diogelwch y ffyrdd ar yr A4055 trwy Ddinas Powys, gan fod â'r potensial hefyd i wella mynediad at y rhwydwaith ffyrdd ehangach. Fodd bynnag, byddai materion yng Nghyffyrdd Ffordd Gangen Cogan a'r Merrie Harrier yn anodd i'w goresgyn.

5.83 Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (2010) yn datgan bod y cynllun yn cynnig canlyniadau cadarnhaol ac y dylid ei datblygu a'i werthuso ymhellach o fewn y rhaglen fuddsoddi. Er bod y Cyngor yn cefnogi'r cynllun hwn mewn egwyddor, ystyrir ei bod yn annhebygol y bydd yn cael ei wireddu yn ystod cyfnod y Cynllun, o ystyried yr hinsawdd economaidd sydd ohoni a'r ffaith ei bod yn well gan Lywodraeth Cymru wneud defnydd gwell o'r system drafnidiaeth bresennol a'r rhwydwaith priffyrdd presennol trwy wella llwybrau trafnidiaeth gyhoeddus a darparu cyfleusterau newydd ar gyfer cerdded, beicio a theithio ar drên. Yn unol â hynny, nid yw'r ffordd gyswllt / osgoi arfaethedig wedi'i chynnwys yn y CDLl.

5.84 Yn ogystal ag adnabod y blaenoriaethau allweddol ar gyfer cyflawni seilwaith trafnidiaeth strategol, fel rhan o'i waith Cynllunio Seilwaith manwl, rhoddwyd comisiwn i Capita Symonds gynnal asesiad o effaith datblygiadau preswyl posibl yn y dyfodol ar y rhwydwaith priffyrdd strategol ym Mro Morgannwg. Mae canlyniadau'r astudiaeth capasiti hon yn sail i'r cynlluniau priffyrdd a nodir ym Mholisi MG16 ac yng Nghynllun Seilwaith y Cyngor.

.

## POLISI SP8 -
### RHEOLI GWASTRAFF YN GYNALIADWY

**Byddir yn ffafrio cynigion datblygu sydd o gymorth i ddarparu rhwydwaith o gyfleusterau rheoli gwastraff integredig sydd o gymorth i fodloni'r capasiti rheoli gwastraff a nodir yn y cynllun sector casgliadau, seilwaith a marchnadoedd.**

**Ystyrir bod y lleoliadau canlynol yn addas ar gyfer datblygu datrysiadau rheoli gwastraff mewn adeiladau:**

- **Ystâd Fasnachu'r Iwerydd;**
- **Porthladd gweithredol Dociau'r Barri;**
- **Ystâd Fasnachu Llandŵ; ac**
- **Ar safleoedd cyflogaeth presennol ac wedi'u dyrannu a nodir ym mholisi MG9.**

**Bydd darparu cyfleusterau awyr agored megis safleoedd amwynder dinesig, compostio ac ailgylchu gwastraff masnachol a gwastraff dymchwel yn cael ei ganiatáu hefyd ar safleoedd cyflogaeth dosbarth B2 a B8 presennol, safleoedd gweithio mwynau gweithredol neu mewn neu ar bwys cyfadeiladau ffermydd presennol lle nad ydynt yn gwrthdaro â defnyddiau cyfagos presennol neu arfaethedig.**

5.85 Y Cynllun Sector Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd (2012) 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff' yw'r ddogfen strategaeth gwastraff drosfwaol ar gyfer Cymru, ac mae'n ymdrin â rheoli'r holl wastraff yng Nghymru ac yn awgrymu ble y mae angen ailgylchu'n well ac yn amcanu at hwyluso datblygiadau seilwaith i fynd i'r afael ag anghenion capasiti rheoli gwastraff Cymru. Ar gyfer De Ddwyrain Cymru, mae'r cynllun yn nodi gofyniad am gyfleusterau rheoli gwastraff ychwanegol sy'n gallu trin rhwng 421,000 ac 871,000 o dunelli erbyn 2024-2025.

5.86 Fel yr Awdurdod Cynllunio Gwastraff, mae gan y Cyngor gyfrifoldeb statudol am gasglu a gwaredu Gwastraff Trefol (cartrefi) a hefyd am reolaeth cynllunio defnydd tir ar reoli gwastraff. Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn cydymffurfio â'i ddyletswydd statudol trwy ddarparu dwy Ganolfan Ailgylchu Gwastraff Cartref sydd wedi'u lleoli yn Ystâd Fasnachu'r Iwerydd yn y Barri (sy'n gwasanaethu ardal Ddwyreiniol Bro Morgannwg) ac yn Ystâd Fasnachu Llandŵ yn Llandŵ (sy'n gwasanaethu ardal Orllewinol Bro Morgannwg). Mae'r Ganolfa Ailgylchu Gwastraff Cartref yn Ystâd Fasnachu'r Iwerydd yn gyfleuster modern sy'n cydymffurfio â'r rheoliadau cyfredol ac mae wedi bod yn weithredol ers mis Medi 2011; fodd bynnag mae taer angen uwchraddio neu ddisodli Canolfan Ailgylchu Gwastraff Cartref yr ardal Orllewinol yn Llandŵ sydd wedi bod yn weithredol ers 1993/94 ac nad yw'n cael ei ystyried yn addas mwyach i ddiwallu anghenion hirdymor yr ardal. Cydnabyddir felly y bydd angen darparu Canolfan Ailgylchu Gwastraff Cartref newydd (neu uwchraddio'r cyfleuster presennol) i wneud darpariaeth briodol ar gyfer trigolion presennol a newydd rhan orllewinol Bro Morgannwg, gyda chynigion o'r fath yn cael eu hystyried dan Bolisi SP8.

5.87 Yn ogystal â'r Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Cartref mae'r Cyngor, mewn partneriaeth gyda Chaerdydd, Casnewydd, Caerffili a Sir Fynwy, wedi ffurfio Prosiect Gwyrdd at ddibenion caffael cyfleuster gwastraff gweddillol trefol rhanbarthol. Cyhoeddodd y bartneriaeth yn 2013 mai Viridor oedd y cynigydd a ffefrir, gyda'u cynnig ym Mharc Trident yng Nghaerdydd yn ceisio cyflawni cyfleuster a fydd yn disodli trefniadau presennol pob awdurdod lleol ar gyfer gwaredu gwastraff trefol gweddillol i safleoedd tirlenwi ar ôl cynyddu trefniadau ailgylchu a chompostio i'r eithaf. Daeth Canolfan Ailgylchu Gwastraff Cartref Parc Trident yn llwyr weithredol ym mis Mawrth 2015 a bydd yn trin 350,000 o dunelli o wastraff gweddillol, neu wastraff ar ôl ailgylchu, y flwyddyn, y bydd 172,000 o dunelli ohono'n dod o'r pum Cyngor sy'n rhan o bartneriaeth Prosiect Gwyrdd, gan felly waredu'r angen am y ddarpariaeth tirlenwi ychwanegol ym Mro Morgannwg.

5.88 Mae Polisi SP8 yn nodi'r lleoliadau a ffefrir gan y Cyngor ar gyfer cyfleusterau gwastraff mewn adeiladau, sydd wedi rhoi sylw i'r canllawiau dethol safleoedd sydd wedi'u cynnwys mewn polisi cynllunio cenedlaethol. Mae'r rhain yn cynghori y dylai awdurdodau cynllunio lleol fynd ati yn y lle cyntaf i archwilio pa un a allai safleoedd dosbarth B2 a safleoedd diwydiannol pwysig presennol dderbyn cyfleusterau rheoli gwastraff newydd er mwyn cefnogi'r rhwydwaith o gyfleusterau rheoli gwastraff integredig a nodir yn y Cynllun Sector Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd. Mae Ystâd Fasnachu'r Iwerydd, Porthladd Gweithredol Dociau'r Barri ac Ystâd Fasnachu Llandŵ yn cydymffurfio â'r canllawiau hyn ac mae ganddynt gapasiti digonol i ateb gofynion yr ardal yn y dyfodol. Mae'r lleoliadau a nodwyd yn y Barri a Llandŵ yn cynnwys cyfleusterau rheoli gwastraff ar hyn o bryd neu mae ganddynt ganiatâd cynllunio sydd mewn bod ar gyfer cyfleusterau o'r fath. Er mwyn darparu hyblygrwydd pellach, mae Polisi SP8 hefyd yn nodi safleoedd cyflogaeth 'diwydiannol cyffredinol Dosbarth B2 a 'storio a dosbarthu' B8 (a rhai tebyg) fel rhai a allai fod yn lleoliadau addas ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff ychwanegol yn gyson â chanllawiau cynllunio cenedlaethol. Mae nifer o safleoedd o'r fath wedi'u dyrannu o fewn y cynllun ac wedi'u nodi ym Mholisi Mg9 (Dyraniadau Cyflogaeth). Dylid nodi bod rhannau o Ddociau'r Barri ac Ystâd Fasnachu'r Iwerydd yn gorwedd ym mharth llifogydd C2 lle na fydd datblygiadau sy'n wynebu bygythiad mawr a gaiff eu diffinio yn TAN15 yn briodol. Mae hyn yn cyfyngu ar yr ystod o ddefnyddiau posibl ar safleoedd cyflogaeth sydd wedi'u dyrannu, sef MG9 (4) yn Ystâd Fasnachu'r Iwerydd ac MG9 (7) Hayes Road, Sili ac mae Atodiad 4 yn darparu manylion safle-benodol pellach. Bydd cynigion ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff newydd yn cael eu hystyried yn erbyn y lleoliadau a ffefrir a nodir ym Mholisi SP9 a'r meini prawf dan Bolisi MD20 (Asesu Cynigion Rheoli Gwastraff).

5.89 Ar gyfer cyfleusterau awyr agored, mae'r CDLl yn ceisio hwyluso'r drefn o'u darparu trwy Bolisi SP8 trwy adnabod lleoliadau addas lle gall cyfleusterau o'r fath fod yn dderbyniol a lle na fyddent yn gwrthdaro â defnyddiau cyfagos.

5.90 Bydd ceisiadau cynllunio ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff yn cael eu hystyried yn erbyn polisi a chanllawiau cenedlaethol a Pholisïau perthnasol eraill yn y CDLl. Mae Nodyn Cyngor Technegol 21:

Gwastraff (2014) yn nodi canllawiau manwl ynghylch ystyriaethau cynllunio penodol sy'n gysylltiedig â gwastraff y bydd yn ofynnol i ddatblygwyr gydymffurfio â hwy er mwyn bodloni Polisi SP8.

## POLISI SP9 - 
### MWYNAU

**Bydd yr angen lleol a rhanbarthol i ddarparu cyflenwad parhaus o fwynau'n cael ei ddiwallu trwy'r canlynol:**

1. **Cynnal isafswm o 10 mlynedd o fanc tir o graig galed trwy gydol cyfnod y cynllun; gan gynnwys cyfnodau estynedig i gwblhau gwaith cloddio a ganiateir ar safleoedd presennol;**
2. **Ffafrio cynigion sy'n hybu defnydd cynaliadwy o fwynau ac yn rhoi anogaeth i ddefnyddio adnoddau eilaidd ac amgen;**
3. **Diogelu adnoddau tywodfaen, calchfaen, tywod a graean hysbys (lle mae'r rhain i'w cael y tu allan i aneddiadau), rhag datblygu parhaol a fyddai'n eu hanffrwythloni'n ddiangen neu'n eu hatal rhag gallu cael eu cloddio yn y dyfodol; a**
4. **Diogelu cyfleusterau ceiau ar gyfer glanio tywod a graean wedi'i garthu o'r môr.**

5.91 Mae Bro Morgannwg yn gyflenwr mwynau pwysig ac fel yr Awdurdod Cynllunio Mwynau gan y Cyngor y mae'r cyfrifoldeb am sicrhau bod y CDLl yn darparu ar gyfer cyflenwad parhaus o fwynau yn ystod y cyfnod y mae'r CDLl yn ei rychwantu a'r tu hwnt. Caiff yr asesiad o ddigonolrwydd y banc tir ei gynnal yng ngoleuni canllawiau sydd wedi'u cynnwys yn MTAN1: Agregau ac yn Natganiad Technegol Rhanbarthol De Cymru ar Agregau.

5.92 Yn seiliedig ar ffigwr cronfeydd banc tir y Cyngor ym mis Gorffennaf 2016 (31,962,000 o dunelli) a'r ffigwr cynhyrchu cyfartalog dros 10 mlynedd roedd banc tir Bro Morgannwg ar gyfer agregau craig galed yn 40.7 mlynedd sy'n rhoi banc tir o 30.7 mlynedd sydd ar gael yn 2026. Mae cronfeydd craig galed ar gyfer cynhyrchu ar wahân i agregau (h.y. cynhyrchu sment) yn ddigonol ar gyfer 19.8 mlynedd o gyflenwad. Felly mae gan Fro Morgannwg gronfeydd digonol i ateb gofynion y Datganiad Technegol Rhanbarthol. Mae gan Fro Morgannwg felly gronfeydd digonol i ateb gofynion y Datganiad Technegol Rhanbarthol. Mae cronfeydd ar safleoedd megis Chwarel Rhuthun a Chwarel Fferm Garwa, lle mae cloddio am amser cyfyngedig yn dod i ben yn 2017 ac yn 2019 yn y drefn honno, wedi'u cynnwys yn y banc tir. Ni fydd y lefel o gloddio a ganiateir yn cael ei chwblhau ar y safleoedd hyn o fewn y cyfnodau hyn ond nid oes rheswm amgylcheddol na rheswm o safbwynt amwynder dros beidio ag ymestyn y cyfyngiadau amser i ganiatáu parhau i ennill a gweithio'r adnodd.

Mae'r canlynol yn safleoedd gweithio mwynau gweithredol ym Mro Morgannwg a safleoedd anweithredol lle ystyrir ei bod yn debygol y bydd gweithio mwynau'n digwydd yn y dyfodol:

1. Aberddawan - Liasig
2. Ewenni - Carbonifferaidd
3. Forest Wood - Carbonifferaidd (Rhennir gyda Rhondda Cynon Taf)
4. Pant - Carbonifferaidd
5. Pantyffynnon - Carbonifferaidd
6. Longlands - Carbonifferaidd
7. Lithalun - Carbonifferaidd
8. Gwenfô - Carbonifferaidd
9. Fferm Garwa * - Carbonifferaidd
10. Rhuthun *- Carbonifferaidd

** Yn anweithredol ar hyn o bryd ond cronfeydd yn cael eu cadw wrth gefn*

5.93 Mae adnoddau mwynol yn derfynol ac felly mae'n hollbwysig defnyddio'r adnoddau hyn yn ddoeth ac yn effeithlon yn ogystal a rhoi anogaeth i ddefnyddio dewisiadau eraill yn lle mwynau sydd i'w cael yn naturiol lle bynnag y mae hyn yn dechnegol bosibl a lle nad yw'n cael effeithiau annerbyniol ar yr amgylchedd lleol. Yn hyn o beth, mae Polisi SP9 yn trosi canllawiau cenedlaethol a rhanbarthol ynghylch darparu agregau i'r lefel leol trwy hybu defnydd cynaliadwy o fwynau naturiol ac mae'n rhoi anogaeth i ddefnyddio adnoddau eilaidd ac amgen.

5.94 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio pwysigrwydd diogelu dyddodion mwynol y gall fod ar gymdeithas eu hangen yn y dyfodol. Mae calchfaen carbonifferaidd a Liasig yn gyffredin ym Mro Morgannwg. Mae'r polisi hwn yn diogelu'r adnoddau hynny yn unol â pholisi cenedlaethol i sicrhau eu hargaeledd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Dangosir yr ardaloedd a ddiogelir ar y Map Cynigion. Mae Polisi MG22 yn nodi'r meini prawf a fydd yn cael eu defnyddio i asesu cynigion datblygu a allai anffrwythloni adnoddau mwynau a ddiogelir neu eu hatal rhag gallu cael eu cloddio yn y dyfodol. Hefyd, er nad oes hanes o gloddio tywod a graean o'r tir ym Mro Morgannwg, mae nifer o ardaloedd wedi cael eu hadnabod a fyddai o bosibl yn gallu cyfrannu yn y dyfodol fel dewisiadau yn lle deunyddiau a gafwyd trwy garthu morol. Yng ngoleuni argaeledd cyfyngedig deunyddiau o'r fath mae'r ardaloedd hyn hefyd yn cael eu diogelu rhag datblygu a fyddai'n peryglu'r gallu i'w cloddio o bosibl yn y dyfodol a hynny'n ddiangen.

5.95 Er nad yw'r Lanfa yn Nociau'r Barri wedi bod yn cael ei defnyddio i lanio tywod a graean morol ers 2005, cydnabyddir bod hwn yn llwybr cyflenwi posibl i ddod ag adnodd tywod a graean i mewn i'r rhanbarth. Felly mae safle'r lanfa'n cael ei ddiogelu ar y Map Cynigion a bydd angen i gynigion yn y dyfodol ystyried yr effaith bosibl ar landio tywod a graean morol yn Nociau'r Barri. Nid yw diogelu'r lanfa'n ei hatal rhag cael ei defnyddio i lanio nwyddau eraill ac nid yw'n effeithio ar hawliau datblygu a ganiateir.

## POLISI SP10 -
### YR AMGYLCHEDD ADEILEDIG A NATURIOL

**Rhaid i gynigion datblygu warchod a lle y bo'n bosibl gwella treftadaeth ac amgylchedd adeiledig a naturiol cyfoethog ac amrywiol Bro Morgannwg gan gynnwys:**

1. **Nodweddion pensaerniol a / neu hanesyddol adeiladau neu ardaloedd cadwraeth, gan gynnwys adeiladau sydd wedi'u rhestru'n lleol;**
2. **Tirweddau, parciau a gerddi hanesyddol;**
3. **Ardaloedd tirwedd arbennig;**
4. **Arfordir Treftadaeth Morgannwg;**
5. **Safleoedd a ddynodwyd oherwydd eu pwysigrwydd cadwraeth natur lleol, cenedlaethol ac ewropeaidd**
6. **Nodweddion archeolegol a daearegol pwysig.**

5.96 Mae nodweddion amgylcheddol naturiol ac adeiledig Bro Morgannwg yn cyfrannu'n sylweddol at ei hunaniaeth a hefyd yn darparu cyfleoedd twristiaeth a hamdden lleol gwerthfawr. Mae'r asedau hyn yn cynnwys ardaloedd sydd wedi cael eu cydnabod yn rhai o bwysigrwydd Ewropeaidd, cenedlaethol a lleol, gan gynnwys morlin Bro Morgannwg sy'n cynnwys dynodiad Arfordir Treftadaeth Morgannwg ac Ardal Gwarchodaeth Arbennig Aber Afon Hafren (gweler Atodiad 2).

5.97 Mae Polisi SP10 yn pwysleisio'r angen i warchod asedau amgylcheddol naturiol ac adeiledig Bro Morgannwg ac yn atgyfnerthu'r ffaith bod dyluniad sensitif a dewis sensitif o leoliad ar gyfer datblygiad newydd yn gallu cael effaith gadarnhaol ar dreftadaeth adeiledig a naturiol Bro

Morgannwg. Yn yr un modd, bydd yn ofynnol i ddatblygiadau newydd leihau i'r eithaf eu heffaith ar systemau naturiol, tirweddau, rhywogaethau a chynefinoedd a, lle y bo'n briodol, darparu cyfleoedd i greu cynefinoedd newydd neu wella cynefinoedd presennol mewn modd sensitif.

5.98 Mae'r CDLl yn darparu fframwaith polisi sy'n ceisio gwarchod a gwella amgylchedd adeiledig hanesyddol pwysig Bro Morgannwg yn enwedig mewn perthynas â'r adeiladau rhestredig (yn rhai statudol a lleol), ardaloedd cadwraeth, henebion rhestredig a thirweddau hanesyddol, parciau a gerddi niferus sy'n bodoli. Dylid nodi bod adeiladau rhestredig statudol wedi'u cynnwys dan Bolisi MD8 hefyd a bod deddfwriaeth ar wahân sy'n berthnasol iddynt. Hefyd, mae'n cydnabod pwysigrwydd gwarchod a gwella'r amgylchedd naturiol, yn bennaf cefn gwlad a'r arfordir, y mae iddynt werth tirwedd a chadwraeth natur sylweddol.

# Mwynhau

## POLISI SP11 -
### TWRISTIAETH A HAMDDEN

**Bydd cynigion sy'n hyrwyddo Bro Morgannwg fel cyrchfan twristiaeth a hamdden yn cael eu ffafrio. bydd cyfleusterau twristiaeth a hamdden presennol yn cael eu gwarchod a'u gwella, a bydd ystyriaeth ffafriol yn cael ei rhoi i gynigion sydd:**

1. **Yn gwella'r ystod a'r dewis o gyfleoedd twristiaeth a hamdden ym Mro Morgannwg, yn enwedig trwy ddarparu cyfleusterau trwy gydol y flwyddyn ac ystod a dewis o lety ar gyfer ymwelwyr mewn lleoliadau priodol;**
2. **Yn ffafrio arallgyfeirio gwledig a'r economi leol; ac**
3. **Yn gwarchod asedau twristiaeth presennol ac yn hybu defnydd cynaliadwy o gefn gwlad ac arfordir Treftadaeth Morgannwg.**

5.99 A hithau wedi'i lleoli yn yr ardal fwyaf poblog yng Nghymru ac yn agos at Gaerdydd, mae Bro Morgannwg mewn lleoliad da o ran ei dalgylch ar gyfer ymwelwyr dydd a hefyd fel canolfan ar gyfer ymwelwyr sy'n dymuno archwilio De Cymru. Mae lleoliad arfordirol a gwledig Bro Morgannwg yn ased twristiaeth a hamdden gwerthfawr, ac felly hefyd gyrchfannau ar gyfer teithiau dydd megis Bae Whitmore, Ynys y Barri a Phenarth. Cafodd yr asedau hyn eu gwella ymhellach yn 2012 pan agorwyd Llwybr Arfordir Cymru, prosiect twristiaeth blaenllaw sy'n gallu dwyn budd economaidd i gymunedau arfordirol. Mae cyrchfannau ac asedau o'r fath hefyd yn darparu ffynhonnell werthfawr ar gyfer cyflogaeth leol, gan gyflogi tua 3,000 o bobl[5] a chreu rhyw £169.6 miliwn o wariant gan ymwelwyr yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol.

5.100 Mae Strategaeth Gymunedol Cyngor Bro Morgannwg yn ceisio adeiladu ar y cryfderau twristiaeth hyn. Y dyhead yw y bydd Bro Morgannwg yn dod yn "ysgyfaint Gwyrdd De Ddwyrain Cymru" gan gydnabod pwysigrwydd sicrhau yr eir ar drywydd twristiaeth mewn modd cynaliadwy fel bod yr asedau twristiaeth naturiol ac adeiledig yn cael eu cynnal er mwynhad cenedlaethau'r dyfodol. Mae'r CDLl yn darparu fframwaith polisi sy'n rhoi anogaeth ar gyfer buddsoddiadau newydd mewn cyfleusterau twristiaeth a hamdden cynaliadwy ac sy'n ceisio gwarchod a gwella cyfleusterau presennol er budd trigolion, ymwelwyr a'r economi leol.

[5] Strategaeth Twristiaeth Bro Morgannwg 2011-2015

5.101 Ar ben hynny, mae'r CDLl yn darparu fframwaith polisi sy'n ceisio creu cyfleoedd newydd ar gyfer diwydiant twristiaeth a hamdden gan hefyd sicrhau bod yr amgylchedd adeiledig hanesyddol a naturiol yn cael ei ddiogelu a'i wella ar gyfer ymwelwyr a'r gymuned leol fel ei gilydd.

# Adran 6

# Rheoli Twf ym Mro Morgannwg



6.1 Mae'r adran hon yn nodi'r Polisïau Rheoli Twf a fydd yn cael eu defnyddio i sicrhau bod datblygiadau yn y dyfodol ym Mro Morgannwg yn cyfrannu at gyflawni Gweledigaeth, Amcanion a Strategaeth y CDLl. Bydd y Polisïau'n cael eu defnyddio i ategu canllawiau cynllunio cenedlaethol a luniwyd gan Lywodraeth Cymru a dylid eu hystyried yng nghyd-destun y polisïau cenedlaethol hyn ac ar y cyd â hwy. Nid yw'r polisïau'n ceisio ailadrodd polisi cenedlaethol, ond maent wedi cael eu datblygu i adlewyrchu amgylchiadau lleol er mwyn rheoli nodweddion unigryw Bro Morgannwg. Felly ni ddylai'r un polisi gael ei ystyried ar wahân gan fod y polisïau yn y Cynllun yn gasgliad o bolisïau cydberthynol.

6.2 Caiff y polisïau sydd wedi'u cynnwys yn yr adran hon eu nodi dan y themâu a nodir yn yr adran ar y Weledigaeth a'r Amcanion. Mae'r polisïau a nodir dan y thema byw yn darparu fframwaith ar gyfer datblygiadau preswyl newydd, mae'r polisïau hynny a nodir dan y thema gweithio'n darparu cyd-destun ar gyfer cynigion newydd sy'n ymwneud â chyflogaeth, manwerthu a thrafnidiaeth, mae'r thema rheoli'n darparu fframwaith ar gyfer diogelu ardaloedd tirwedd arbennig, yr ymyl drefol, adeiladau a strwythurau sy'n bwysig yn lleol ac adnoddau mwynol ac mae'r polisïau hynny a nodir dan y thema mwynhau'n darparu cyd-destun ar gyfer datblygiadau hamdden newydd ym Mro Morgannwg.

# Byw

## POLISI MG1 -
### CYFLENWAD TAI YM MRO MORGANNWG

**Er mwyn ateb y gofyniad am dir ar gyfer tai, sef digon ar gyfer 9,460 o anheddau newydd, bydd darpariaeth yn cael ei gwneud i ddatlygu hyd at 10,408 o anheddau newydd yn ystod cyfnod y cynllun. bwriedir cyflawni hyn trwy'r canlynol:**

1. **Dyraniadau o fewn y cynllun;**
2. **Safleoedd datblygu â chaniatad cynllunio sydd mewn bod;**
3. **Datblygu hapsafleoedd heb eu dyrannu mewn lleoliadau cynaliadwy; a**
4. **Safleoedd bychain, gan gynnwys mewnlenwi, addasu adeiladau addas ac isrannu anheddau presennol.**

6.3 Mae Polisi SP3 yn nodi gofyniad am dai o 9,460 o anheddau ar gyfer cyfnod y Cynllun. Mae'r ffigwr o ran y gofyniad yn seiliedig ar amcanestyniadau poblogaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Bro Morgannwg[6]. Er mwyn derbyn y lefel hon o dwf mae'r CDLl wedi bodi ystod o gyfleoedd datblygu ledled Bro Morgannwg. Mae'r CDLl yn darparu fframwaith ar gyfer cyflawni 9,460 o anheddau gan adael lle (10%) ar gyfer hyblygrwydd i sicrhau bod ystod a dewis o fathau o dir ar gyfer tai ar gael trwy gydol cyfnod y Cynllun.

6.4 Fel y mae Polisi MG1 yn ei ddynodi, darperir y cyflenwad o anheddau newydd trwy'r canlynol:

6.5 Dyraniadau o fewn y Cynllun – caiff tir ar gyfer datblygiadau preswyl newydd ei ddyrannu yn unol â Pholisïau SP3 ac MG2 ar gyfer 8,525 o anheddau.

6.6 Safleoedd datblygu â chaniatâd cynllunio mewn bod ym mis Ebrill 2011 – Ym mis Ebrill 2011, ac eithrio'r safleoedd hynny a ddyrennir dan Bolisi MG2, roedd caniatâd cynllunio mewn bod ym Mro Morgannwg ar gyfer 182 o anheddau ar safleoedd mawr (10 annedd neu fwy), gydag adeiladu wedi digwydd ar lawer o'r safleoedd hyn yn y cyfnod ers hynny. I osgoi amheuaeth, nid yw hyn yn cynnwys safleoedd â chyfyngiadau, a restrir yng Nghydastudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai 2011.

[6] Gweler y Papur Cefndir Amcanestyniadau Tai (2013) a'r Papur Cefndir Darparu Tai (Diweddariad 2015)

6.7 Rhaid nodi'r canlynol: os bydd caniatâd cynllunio ar gyfer safle wedi pallu, bydd ceisiadau cynllunio i adnewyddu'r caniatâd hwnnw'n cael eu hasesu yn erbyn y polisïau yn y CDLl.

6.8 Datblygu hapsafleoedd a safleoedd bychain heb eu dyrannu – Gall cyfraniad hapsafleoedd (safleoedd â 10 uned neu fwy) a safleoedd bychain (9 uned neu lai) heb eu dyrannu at y cyflenwad tai ar y cyfan ym Mro Morgannwg fod yn sylweddol. Yn seiliedig ar y duedd dros 10 mlynedd a ragflaenodd gyfnod y Cynllun, mae'r Cyngor yn amcangyfrif y bydd datblygu safleoedd bychain a hapsafleoedd mawr gyda'i gilydd yn cyfrannu 1,701 o anheddau dros gyfnod y cynllun.

6.9 Er mwyn darparu digon o dir i dderbyn y twf rhagamcanol, bydd y CDLl yn darparu fframwaith polisi ar gyfer adeiladu anheddau newydd fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Datblygu Safleoedd â chaniatâd cynllunio sydd mewn bod (10 annedd neu fwy) ym mis Ebrill 2011 | 182 |
| Dyraniadau o fewn y Cynllun | 8,525 |
| Datblygu hapsafleoedd heb eu dyrannu (10 annedd neu fwy) | 840 |
| Datblygu safleoedd bychain (llai na 10 annedd) | 861 |
| CYFANSWM Y CYFLENWAD ANHEDDAU 2011-2026 | 10,408 |

## POLISI MG2 -
### DYRANIADAU TAI

**Er mwyn ateb y gofyniad am dai a nodir ym mholisi SP3 dyrennir tir ar gyfer datblygiadau preswyl yn y lleoliadau canlynol:**

| | | Maint (ha) | Nifer |
|---|---|---|---|
| | **Safleoedd Tai Strategol** | | |
| 1 | Cam 2, Glannau'r Barri * # ≈ | 48.55 | 1,700 |
| 2 | Tir yn Higher End, Sain Tathan # (yn rhannol) | 9.78 | 220 |
| 3 | Tir yn Church Farm, Sain Tathan | 8.4 | 250 |
| 4 | Safle'r Hen Stadiwm / Tir ar bwys Burley Place, Sain Tathan | 2.2 | 65 |
| 5 | Tir i'r dwyrain o Eglwys Brewis, Sain Tathan ≈ | 10.9 | 255 |
| 6 | Tir ar bwys Froglands Farm, Llanilltud Fawr ≈ | 4.4 | 90 |
| 7 | Tir rhwng y Ffordd Fynediad Ogleddol newydd a Heol Eglwys Brewis, Llanilltud Fawr ≈ | 15.8 | 375 |
| | | | **2,955** |
| | **Anheddiad Allweddol: Y Barri** | | |
| 8 | Parc Pleser Ynys y Bari # | 1.18 | 25 |
| 9 | White Farm ** # | 12.14 | 177 |
| 10 | Tir i'r dwyrain o Pencoedtre Lane # | 2.8 | 67 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 11 | Tir i'r gorllewin o Pencoedtre Lane | 4.45 | 137 |
| 12 | Ysgol Maes Dyfan # | 1.44 | 81 |
| 13 | Llys Ynadon y Barri # | 0.41 | 52 |
| 14 | Depo Court Road, Y Barri | 1.6 | 50 |
| 15 | Holm View | 1.2 | 50 |
| 16 | Hayes Wood, The Bendricks | 1.8 | 55 |
| | | | **694** |

**Canolfan Wasanaeth: Y Bont-faen**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 17 | Safle Ysgol Isaf Ysgol Gyfun y Bont-faen # | 0.8 | 21 |
| 18 | Bloc 6ed Dosbarth Ysgol Gyfun y Bont-faen, Aberthin Road | 0.52 | 20 |
| 19 | Tir ar bwys St. Athan Road, Y Bont-faen | 4.3 | 130 |
| 20 | Tir i'r gogledd a'r gorllewin o Darren Close, Y Bont-faen ** # | 27 | 475 |
| | | | **646** |

**Canolfan Wasanaeth: Llanilltud Fawr**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 21 | Plasnewydd Farm, Llanilltud Fawr r ≈ # | 4.4 | 149 |
| 22 | Tir ar bwys Ffordd Osgoi Llanilltud Fawr | 2.4 | 70 |
| 23 | Hen Safle Ysgol Gynradd Eagleswell, Llanilltud Fawr | 2.4 | 72 |
| | | | **291** |

**Canolfan Wasanaeth: Penarth**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 24 | Tir yn Upper Cosmeston Farm, Larnog ** | 22.2 | 576 |
| 25 | Tir ar bwys Ysgol San Joseff, Sully Road # | 2.7 | 74 |
| 26 | Ysgol Headlands, St. Augustine's Road ** | 2.2 | 65 |
| 27 | Tir ar bwys Oak Court, Penarth | 4.0 | 145 |
| | | | **860** |

**Prif Anheddiad: Dinas Powys**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 28 | Tir yn ac ar bwys Ysgol St. Cyres, Murch Road ** | 13.2 | 300 |
| 29 | Tir oddi ar Caerleon Road, Dinas Powys ≈ # | 2.5 | 70 |
| 30 | Tir yn Ardwyn, Pen-y-Turnpike # | 1.6 | 18 |
| 31 | Tir yn Cross Common Road ≈ # | 2.3 | 50 |
| | | | **438** |

**Prif Anheddiad: Llandochau (Penarth)**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 32 | Tir i'r de o Llandough Hill / Heol Penarth | 5.2 | 130 |
| 33 | Tir i'r gogledd o Leckwith Road # | 0.6 | 8 |
| 34 | Llandough Landings ≈ | 6.0 | 120 |
| | | | **258** |

**Prif Anheddiad: Y Rhws**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 35 | Tir i'r gogledd o'r Llinell Reilffordd, Y Rhws ** # | 25.82 | 700 |
| 36 | Tir i'r de o'r Llinell Reilffordd, Y Rhws # | 2.65 | 87 |
| | | | **787** |

**Prif Anheddiad: Sili**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 37 | Tir i'r gorllewin o Swanbridge Road, Sili # (yn rhannol) | 20 | 500 |
| | | | **500** |

**Prif Anheddiad: Gwenfô**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 38 | Tir i'r gorllewin o Port Road, Gwenfô # | 6.98 | 132 |
| | | | **132** |

**Mân Aneddiadau Gwledig:**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 39 | Tir ar bwys Court Close, Aberthin | 0.75 | 20 |
| 40 | Tir i'r dwyrain o Dresimwn ** | 7.2 | 120 |
| 41 | Tir y tu ôl i Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant, Tregolwyn # | 2.5 | 64 |
| 42 | ITV Wales, Croes Cwrlwys # | 7.1 | 224 |
| 43 | The Garden Emporium, Fferm Goch # | 2.2 | 40 |
| 44 | Canolfan Breswyl Ogwr # | 3.25 | 70 |
| 45 | Parc Carafanau Ogwr # | 3.7 | 100 |
| 46 | Tir i'r dwyrain o Sain Niclas | 4.4 | 117 |
| 47 | Tir oddi ar St. Brides Road, Y Wig # | 4.0 | 124 |
| 48 | Tir oddi ar Sandy Lane, Ystradowen ** # (yn rhannol) | 4.2 | 85 |
| | | | **964** |
| | **CYFANSWM YR UNEDAU** | | **8,525** |

* *Dyrennir Glannau'r Barri fel defnydd cymysg sy'n ymgorffori ysgol newydd, seilwaith trafnidiaeth strategol, man agored strategol a seilwaith cymunedol.*

** *Dyraniad ar gyfer defnydd cymysg gan gynnwys darparu man agored neu seilwaith cymunedol neu ran o'r safle i ddarparu ysgol newydd.*

\# *Safleoedd â Chaniatâd Cynllunio (gan gynnwys safleoedd sy'n disgwyl am A106) ym mis Medi 2016.*

≈ *Safleoedd yr effeithiwyd arnynt gan barth llifogydd C1 neu C2 fel a nodwyd ar Fapiau Cyngor Datblygu 2015.*

6.10 Yn unol â Strategaeth y CDLl a Pholisi SP3, mae tir wedi cael ei ddyrannu ar gyfer 8,525 o anheddau ychwanegol dros gyfnod y Cynllun ar 48 safle i ystyried newidiadau sy'n deillio o newid demograffig, ymfudo a newidiadau yn ffurfiannau aelwydydd. Mae nifer yr unedau a gynigir ar gyfer pob safle'n seiliedig ar asesiad o ddwysedd priodol. Lle mae gan safleoedd ganiatâd cynllunio'n barod, mae'r ffigyrau'n adlewyrchu caniatadau gwirioneddol, ac ar rai safleoedd mae dwyseddau wedi cael eu haddasu i adlewyrchu amgylchiadau safle-benodol, gan gynnwys cyfyngiadau sy'n ymwneud â llifogydd.

6.11 Ar y cyfan, mae ffigwr dwysedd gros o 30 annedd yr hectar wedi cael ei ddefnyddio i adlewyrchu dyheadau'r Cyngor i wneud defnydd gwell o dir yn unol ag egwyddorion cynaliadwyedd, a atgyfnerthir trwy Bolisi Dwysedd Tai MD6. Fodd bynnag, lle ceir cyfyngiadau hysbys y mae disgwyl iddynt leihau'r ardal ddatblygadwy net yn sylweddol, neu ar gyfer dyraniadau defnydd cymysg gan gynnwys addysg a mannau agored strategol, yna mae dwysedd gros is wedi cael ei ddefnyddio a chaiff hwn ei egluro yn y disgrifiadau safle-benodol yn Atodiad 3. Ar ben hynny, mae dwysedd gros is o 25 annedd yr hectar wedi cael ei ddefnyddio ar gyfer safleoedd y mân aneddiadau i adlewyrchu cymeriad yr ardaloedd hyn. Bydd lefelau dwysedd yn cael eu hystyried mewn manylder ar y cam ymgeisio gan roi sylw i Bolisi MD6.

6.12 Mae dosbarthiad gofodol safleoedd sydd wedi'u dyrannu'n adlewyrchu pwysigrwydd strategol y Barri ac ardal Sain Tathan, ac yn cydnabod yr angen i sicrhau y darperir ystod a dewis o dir ar gyfer tai ledled Bro Morgannwg. Mae safleoedd wedi cael eu dyrannu yn yr aneddiadau sydd fwyaf priodol i dderbyn datblygiadau newydd ym marn y Cyngor. Wrth wneud hynny mae'r Cyngor yn cydnabod bod rôl llawer o'r canolfannau gwasanaethau a'r prif ganolfannau'n hanfodol i ffyniant

parhaus yr ardal. Bydd disgwyl i'r holl safleoedd sydd wedi'u dyrannu gyfrannu at yr ystod a'r dewis o fathau o dai ym Mro Morgannwg a chyfrannu at yr angen a nodir am dai fforddiadwy yn ôl y cyfraddau a nodir ym Mholisi MG4.

6.13 Derbynnir yn eang bod Bro Morgannwg yn ardal ddeniadol i fyw a datblygu ynddi. Dangosir hyn gan y nifer sylweddol o geisiadau cynllunio mawr a ddaeth i law'r Cyngor cyn cyhoeddi'r CDLl. Er bod y farchnad dai wedi profi gostyngiad yn nifer yr adeiladau preswyl a gwblhawyd ar ddechrau cyfnod y cynllun, rhagwelir y bydd y farchnad yn dod ati'i hun a'r arwyddion gan ddatblygwyr yw y bydd Bro Morgannwg yn un o'r lleoedd cyntaf i brofi cynnydd yn yr adeiladau preswyl a gaiff eu cwblhau. Bydd argaeledd tir ar gyfer tai, gan gynnwys lleoliad a nifer yr hapsafleoedd a gaiff eu cwblhau, yn cael ei fonitro i sicrhau bod y Fro yn cynnig ystod a dewis o safleoedd tai trwy gydol cyfnod y Cynllun. Bydd yr wybodaeth hon yn goleuo'r broses Rheoli Datblygu hefyd.

6.14 Darperir dadansoddiad fesul safle o'r dyraniadau uchod yn Atodiad 3, gyda'r Cyngor yn ceisio sicrhau bod yr holl safleoedd yn darparu seilwaith hanfodol yn unol â'r dystiolaeth gefndir sy'n ategu'r CDLl yn enwedig y dystiolaeth a geir yn y Cynllun Seilwaith (2013).

## POLIS MG3 -
### SAFLE STRATEGOL YNG NGLANNAU'R BARRI

**Caiff tir yng Nglannau'r barri ei ddyrannu i ddatblygu 1,700 o anheddau newydd, 5,824 metr sgwâr (net) o arwynebedd llawr manwerthu newydd, gwesty, caffi, bariau a bwytai, swyddfeydd (dosbarth b1), cyfleusterau cymunedol, hamdden ac addysg. Bydd y safle'n cael ei wasanaethu gan Ffordd Gyswllt Ynys y barri a seilwaith trafnidiaeth gynaliadwy arall a fydd yn cael eu datblygu.**

6.15 Mae datblygiad Glannau'r Barri wedi cael ei arwain gan ddogfen Egwyddorion Datblygu Glannau'r Barri sydd wedi'i chymeradwyo[7], ac a oedd yn nodi Gweledigaeth y Cyngor ar gyfer Glannau'r Barri fel a ganlyn:

*"Creu ardal drefol newydd gynaliadwy gyda chymdogaethau unigryw, lleoedd deniadol a chyfleusterau cymunedol sy'n ategu, yn integreiddio ac yn cysylltu â Thref y Barri ac Ynys y Barri, gan fanteisio'n llawn ar leoliad morol Doc Rhif 1."*

6.16 Mae gan ailddatblygiad Glannau'r Barri hanes cynllunio maith gan fod caniatâd cynllunio amlinellol wedi cael ei roi'n wreiddiol ym mis Gorffennaf 1988 gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar y pryd. Cafodd adnewyddiadau dilynol ar gyfer ailddatblygiad cynhwysfawr ar y safle eu cytuno ym 1991 a 1994 ac mae ceisiadau niferus wedi cael eu cymeradwyo ers yr adeg hon sydd wedi arwain at ddatblygu sylweddol yn ardal y Glannau. Ym mis Hydref 2007, ymrwymodd Consortiwm o adeiladwyr tai a oedd yn cynnwys Persimmon Homes, Taylor Wimpey a Barratt Homes i gytundeb gyda Associated British Ports a Llywodraeth Cymru ar gyfer yr hawl i ddatblygu ardal y Glannau. Ym mis Mawrth 2012 rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer ailddatblygiad cynhwysfawr ar y safle gydag amodau a Chytundeb Adran 106. Mae gwaith datblygu wedi dechrau ers hynny ar gamau cychwynnol y datblygiad.

6.17 Mae'r safle wedi'i leoli rhwng canol Tref y Barri i'r gogledd ddwyrain, Ynys y Barri i'r de a'r Hen Harbwr ac Ardal Cadwraeth Forol y Barri i'r de orllewin. Mae'r safle'n cynnwys 48.55 hectar o dir sydd wedi'i rannu rhwng 6 ardal â chymeriad gwahanol o fewn hen Ddociau'r Barri a ddisgrifir fel: - Canolfan Ardal, West Pond, South Quay Parkside, South Quay Waterside, Arno Quay ac East Quay.

[7] Egwyddorion Datblygu Glannau'r Barri (Cyngor Bro Morgannwg Gorffennaf 2009)

6.18 Bydd y datblygiad arfaethedig yn cynnwys:

- Adeiladu tua 1,700 o anheddau newydd;
- Darparu 5,824 metr sgwâr (net) o arwynebedd llawr manwerthu newydd, a fydd yn cynnwys siop fwyd 'Asda' (4,158 metr sgwâr) ac arwynebedd llawr o 1,666 metr sgwâr ar gyfer nwyddau cymharol mewn 2 uned fanwerthu a fydd wedi'u lleoli yn y 'ganolfan ardal' i'r gogledd orllewin o safle'r datblygiad ar bwys West Pond, safle'r ysgol a'r Ardal Arloesi;
- Caffis, bariau a bwytai ag arwynebedd llawr o 750 metr sgwâr – 1820 metr sgwâr ar y cyd wedi'u lleoli drwy'r datblygiad ond yn y Ganolfan Ardal yn bennaf;
- Gwesty ag arwynebedd llawr gros o 3,500 metr sgwâr wedi'i leoli o fewn y Ganolfan Ardal; Swyddfeydd (B1) ag arwynebedd llawr gros o 3,450 metr sgwâr;
- Ysgol gynradd newydd yn 'West Pond' i ddiwallu anghenion addysgol y plant ysgol gynradd a meithrin Saesneg a fydd yn deillio o'r datblygiad.
- Hyd at 400 metr sgwâr o Gyfleusterau Cymunedol (D1 / D2); ac
- Adeiladu Ffordd Gyswllt Ynys y Barri i gysylltu'r ffordd bresennol, Ffordd y Mileniwm, ag Ynys y Barri.

6.19 Bydd cynigion hefyd yn cynnwys mynediad newydd ar gyfer cerbydau a cherddwyr/beiciau, ailraddio'r safle i ffurfio lefelau newydd ar y safle a gwaith cysylltiedig i'r seilwaith, mannau parcio, gwasanaethau, tirlunio, tir y cyhoedd a darparu mannau agored cyhoeddus. Yn unol â'r Weledigaeth, bydd hefyd yn ofynnol i gynigion roi sylw i'w gyd-destun morol a, lle y bo'n briodol, gwarchod a gwella'r amgylchedd morol.

6.20 Er mwyn sicrhau bod y datblygiad yn dod gerbron mewn modd cynhwysfawr ac yn cyflawni lefelau priodol o seilwaith cymunedol, mae dull datblygu fesul cam wedi cael ei fabwysiadu. Bydd Cam 1 yn cynnwys y Ganolfan Ardal, rhan o West Pond ac Arno Quay. Bydd y cam hwn yn cynnwys dan o'r ffordd gyswllt newydd i Ynys y Barri yn ogystal â'r archfarchnad a'r arwynebedd llawr manwerthu ar gyfer nwyddau heblaw bwyd, yr orsaf betrol, y gwesty, defnyddiau A3, swyddfeydd, defnydd preswyl, man agored cyhoeddus a darpariaeth tir y cyhoedd.

6.21 Bydd Cam 2 yn cynnwys gweddill y datblygiad preswyl yn West Pond. Caiff trydydd cam y datblygiad ei enwi'n South Quay Parkside ac amcangyfrifir y bydd yn cynnwys tua 300 o unedau preswyl ac yn arwain at gwblhau'r ffordd gyswllt newydd i Ynys y Barri. Mae'r cam hwn hefyd yn cynnwys y prif Linear Park a rhai defnyddiau A3. Mae Cam 4 yn cynnwys South Quay Waterside ynghyd â darparu unedau preswyl pellach a rhai defnyddiau A3, a man agored cyhoeddus East Quay, ac mae'r pumed cam, sef yr olaf, yn cynnwys y datblygiad preswyl yn East Quay.

## POLISI MG4 -
### TAI FFORDDIADWY

**Bydd datblygiadau preswyl (gan gynnwys cynlluniau defnydd cymysg) yn ofynnol i gyfrannu at ddiwallu'r angen am dai fforddiadwy a dylent fodloni'r lefelau o dai fforddiadwy a nodir isod:**

- **Tai fforddiadwy yn ôl cyfradd o 30% ar ddatblygiadau preswyl a hynny'n arwain at gynnydd net o 5 uned neu fwy yn:**
  - **Y Barry;**
- **Tai fforddiadwy yn ôl cyfradd o 35% ar ddatblygiadau preswyl a hynny'n arwain at gynnydd net o 5 uned neu fwy yn:**
  - **Llanilltud Fawr;**
  - **y Rhws; a**
  - **Sain Tathan.**
- **Tai fforddiadwy yn ôl cyfradd o 40% ar ddatblygiadau preswyl a hynny'n arwain at gynnydd net o 1 uned neu fwy; neu addasu adeiladau presennol a hynny'n arwain at gynnydd net o 2 annedd neu fwy yn:**
  - **y Bont-Faen;**
  - **Dinas Powys;**
  - **Llandochau;**
  - **Penarth;**
  - **Sili;**
  - **Gwenfô;**
  - **y mân aneddiadau gwledig; a**
  - **Bro Morgannwg wledig.**

**Bydd y ddarpariaeth tai fforddiadwy yn cael ei negodi fesul safle unigol gan ystyried hyfywedd y datblygiad ar sail y dystiolaeth a ddangoswyd.**

**Ar safleoedd â 10 neu fwy o anheddau dylid darparu tai fforddiadwy ar y safle, oni bai y dangosir amgylchiadau eithriadol, gyda'r gofyniad yn cael ei dalgrynnu i fyny i'r rhif cyfan agosaf. Ar safleoedd â llai na 10 annedd bydd y gofyniad am dai fforddiadwy'n cael ei gyfrifo a dylid darparu unrhyw unedau cyfan ar y safle, oni bai y dangosir amgylchiadau eithriadol, gyda'r swm sy'n weddill yn cael ei ddarparu fel cyfraniad ariannol cyfwerth. Bydd cyfraniadau oddi ar y safle a geir yn cael eu defnyddio i ddarparu tai fforddiadwy eraill ym Mro Morgannwg.**

**Bydd cyfraniadau'n cael eu gwneud yn unol â'r gofynion a nodir yng nghanllawiau Cynllunio Atodol y Pyngor ar dai fforddiadwy, sy'n rhoi arweiniad ynghylch hyfywedd a'r amgylchiadau lle gellir amrywio neu adolygu cyfraniadau.**

6.22 Mae Polisi SP4 yn nodi targed ar gyfer hyd at 3,252 o gartrefi fforddiadwy ledled Bro Morgannwg dros gyfnod y Cynllun yn unol â chanfyddiadau Asesiad y Cyngor o'r Farchnad Dai Leol (2015) a oedd yn ystyried natur a graddfa'r prinder tai fforddiadwy ym Mro Morgannwg dros gyfnod y Cynllun.

6.23 At ddiben Polisi MG4 bydd y gofynion yn berthnasol i'r ardaloedd hynny o fewn y ffin anheddiad a nodir ar gyfer yr anheddiad perthnasol a enwir, fel a ddangosir ar y Map Cynigion. Mae 'Bro Morgannwg Wledig' yn golygu'r ardal y tu allan i unrhyw ffin anheddiad ddiffiniedig. Bydd safleoedd datblygu ar bwys neu'n agos at ffiniau anheddiad y Barri, Llanilltud Fawr, Y Rhws a Sain Tathan yn cael eu trin fel 'Bro Morgannwg Wledig' a bydd disgwyl iddynt ddarparu tai fforddiadwy yn ôl cyfradd o 40%, oni bai fod y datblygwr yn darparu tystiolaeth hyfywedd i gyfiawnhau dewis arall.

6.24 Mae canfyddiadau Adroddiad Diweddaru Asesiad Hyfywedd Tai Fforddiadwy'r Cyngor (2014)[8] yn amlygu bod prisiau tai ym Mro Morgannwg gyda'r uchaf yng Nghymru, sy'n creu gwerthoedd tir sylweddol y gall y Cyngor geisio cyfraniadau Adran 106 ohonynt. Dynodir bod gan ddatblygiadau preswyl newydd ym Mro Morgannwg y potensial i gefnogi cyfraniadau tai fforddiadwy o 30% yn ardal farchnad dai'r Barri, 35% yn Llanilltud Fawr, Y Rhws a Sain Tathan, a chyfraniadau tai fforddiadwy o 40% mewn mannau eraill.

6.25 Roedd yr Asesiad Hyfywedd Tai Fforddiadwy hefyd yn ailgadarnhau canfyddiadau Astudiaeth Hyfywedd Safleoedd Bychain y Cyngor (2013)[9], a oedd yn argymell y dylai'r Cyngor fabwysiadu trothwy o un annedd yn yr ardaloedd â'r lefelau uchaf o ran hyfywedd tai fforddiadwy. Fodd bynnag, roedd yr astudiaeth hefyd yn amlygu y dylai datblygiadau sy'n golygu trosi ysguboriau unigol a disodli annedd bresennol ar sail un am un, trosi/isrannu annedd bresennol yn 2 uned, a throsi adeiladau presennol yn un annedd beidio â chael eu cynnwys.

6.26 Mae Polisi MG4 yn adlewyrchu canfyddiadau Asesiad Hyfywedd Tai Fforddiadwy 2014, ac yn gosod cyfraniad targed o 30% yn y Barri, a tharged o 35% o fewn Llanilltud Fawr, Y Rhws a Sain Tathan ar safleoedd preswyl a defnydd cymysg gan arwain at gynnydd net o 5 annedd neu fwy.

6.27 Yn y Bont-faen, Penarth, Dinas Powys, Gwenfô, mewn mân aneddiadau gwledig ac ym Mro Morgannwg wledig gosodir targed o 40% ar gyfer tai fforddiadwy ar yr holl gynlluniau datblygu preswyl newydd sy'n creu cynnydd net o 1 annedd neu fwy; a datblygiadau sy'n golygu naill ai isrannu anheddau presennol neu drosi adeiladau presennol, lle mae'r rhain yn arwain at gynnydd net o 2 annedd neu fwy. Yn unol ag argymhelliad yr astudiaeth hyfywedd safleoedd bychain, nid yw datblygiadau sy'n golygu trosi ysguborio wedi'u cynnwys yng ngofynion Polisi MG4.

6.28 Gan roi sylw i ganfyddiadau Asesiad y Cyngor o'r Farchnad Dai Leol (2015) a'r dystiolaeth ar hyfywedd datblygu, fel arfer bydd y Cyngor yn ceisio rhaniad deiliadaeth o ran y tai fforddiadwy a fydd yn cael eu darparu ar y safle, sef tai rhent cymdeithasol yn ôl cyfradd o 70% a thai canolradd yn ôl cyfradd o 30%, a allai fod naill ai'n dai rhent canolradd neu'n dai perchentyaeth gost isel ar yr amod eu bod yn bodloni'r diffiniad o Dai Fforddiadwy yn TAN 2. Fodd bynnag, gellir ystyried cymysgedd deiliadaeth fesul achos unigol lle mae tystiolaeth yn awgrymu nad yw'r cymysgedd a ffafrir gan y Cyngor yn briodol neu na ellir ei gyflawni neu lle mae'r dystiolaeth leol o angen yn dynodi y byddai cymysgedd arall yn fwy priodol.

6.29 Mae Polisi MG4 yn nodi ffafriaeth y Cyngor i ddarparu tai fforddiadwy ar y safle ond mae'n cydnabod y bydd y gofyniad ar safleoedd bychain (â llai na 10 annedd) yn aml yn cyfateb i lai nag anheddau cyflawn. Dan amgylchiadau o'r fath, o ystyried graddfa fach y datblygiadau hynny, mae'n briodol ei gwneud yn ofynnol rhoi cyfraniad ariannol sy'n gymesur â'r gofyniad gweddillol, y gellir ei gyfuno a'i ddefnyddio i'w gwneud yn bosibl darparu tai fforddiadwy oddi ar y safle. Bydd y Cyngor wastad yn ffafrio'r dewis i ddarparu tai fforddiadwy ar y safle; fodd bynnag, lle y bo'n briodol gall y Cyngor ganiatáu i gyfran o'r tai fforddiadwy gael ei darparu oddi ar y safle neu drwy ddarparu symiau gohiriedig i hwyluso tai fforddiadwy mewn ardaloedd â'r angen mwyaf, tai fforddiadwy ar dir y mae'r Cyngor neu Landlord Cymdeithasol Cofrestredig yn berchen arno neu welliannau i dai fforddiadwy presennol, neu gall ganiatáu i'r Cyngor ddefnyddio cyllid i ddarparu tai fforddiadwy yn yr ardaloedd â'r angen mwyaf. Caiff dull y Cyngor o ymdrin â chyfraniadau ariannol (symiau gohiriedig) ei nodi mewn mwy o fanylder yn y Canllawiau Cynllunio Atodol ar Dai Fforddiadwy. Bydd symiau gohiriedig yn cael eu cyfrifo gan ddefnyddio cost gyfwerth darpariaeth ar y safle a byddant yn cael eu defnyddio i roi cymorth i ddatblygu tai fforddiadwy i ddiwallu anghenion a adnabuwyd.

[8] Adroddiad Diweddaru Hyfywedd Cyngor Bro Morgannwg (2014)

[9] Darparu Cyngor ynghylch Hyfywedd a Pholisi mewn perthynas â Thai Fforddiadwy, Safleoedd Bychain a Symiau Gohiriedig ar gyfer Cyngor Bro Morgannwg, Awst 2013)

6.30 Lle codir pryderon ynghylch hyfywedd, cyfrifoldeb y datblygwr fydd dangos trwy gyflwyno arfarniad hyfywedd y byddai'r cyfraniad sy'n ofynnol yn gwneud y datblygiad yn anhyfyw.

6.31 Lle dangoswyd fod amgylchiadau economaidd profedig sy'n effeithio ar ddarparu tai fforddiadwy, er enghraifft lle mae amgylchiadau'r farchnad wedi newid neu lle mae gwerthoedd defnydd presennol yn atal targed y polisi rhag cael ei gyrraedd, gall y Cyngor negodi lefel, math, deiliadaeth a natur darpariaeth ar y safle neu, lle y bo'n briodol, darpariaeth oddi ar y safle. Mewn achosion lle ystyrir bod cyfraniad ariannol yn lle darparu tai fforddiadwy yn dderbyniol, y Cyngor fydd yn pennu'r defnydd mwyaf priodol o'r cyllid hwn. Gallai hyn gynnwys darparu tai fforddiadwy ar dir y mae'r Cyngor neu Landlord Cymdeithasol Cofrestredig yn berchen arno neu welliannau i dai fforddiadwy presennol, neu gall ganiatáu i'r Cyngor ddefnyddio cyllid i ddarparu tai fforddiadwy yn yr ardaloedd â'r angen mwyaf.

6.32 Lle mae darpariaeth ar y safle'n ofynnol, bydd y pwyslais ar ddarparu ystod a dewis o dai fforddiadwy i ddiwallu anghenion tai lleol ac er mwyn darparu ar gyfer datblygiad sy'n cynnwys cymysgedd a'r cydbwysedd priodol. Hefyd, bydd darparu polisïau gosodiadau lleol yn bwysig wrth ddwyn safleoedd gerbron ar gyfer tai fforddiadwy. Ceir rhagor o wybodaeth ynghylch yr angen am dai fforddiadwy yn y Papur Cefndir ar Ddarparu Tai Fforddiadwy.

6.33 Bydd amodau cynllunio a/neu rwymedigaethau cynllunio priodol yn cael eu defnyddio i sicrhau bod tai fforddiadwy a ddarperir trwy ddatblygiad newydd yn parhau i fod yn fforddiadwy hyd byth. Ceir canllawiau manwl pellach ynghylch gweithredu'r polisi hwn yng Nghanllawiau Cynllunio Atodol y Cyngor ar Dai Fforddiadwy.

## POLISI MG5 -
### SAFLE SIPSIWN A THEITHWYR

**Dyrennir tir yn Llangan i ddarparu safle sipsiwn a theithwyr â dwy lain.**

6.34 Mae adrannau 101 i 103 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol asesu anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr o fewn eu hardal a dyrannu safle(oedd) digonol yn CDLl y Cyngor i ddiwallu'r angen lle canfuwyd angen o'r fath.

6.35 Canfu Asesiad Bro Morgannwg o Lety Sipsiwn a Theithwyr 2016 angen sydd heb ei ddiwallu am 2 lain breswyl dros y tymor byr a chanolig ac angen pellach sydd heb ei ddiwallu am 18 llain breswyl am weddill cyfnod y cynllun datblygu (h.y. ar ôl 2021). Mae'r fframwaith monitro'n nodi camau arfaethedig y Cyngor i adnabod a darparu safle pellach i ddiwallu'r angen hwn sydd heb ei ddiwallu.

6.36 Mae'r safle Sipsiwn a Theithwyr presennol yn Llangan dan berchnogaeth y Cyngor ac ystyrir ei fod yn addas i ddiwallu'r angen yn y tymor byr a chanolig am 2 lain a ganfuwyd yn yr Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr[10].

6.37 Mae Fframwaith Monitro'r Cyngor wedi nodi amserlen 2 flynedd i adnabod safle priodol i ddiwallu unrhyw anghenion a fydd yn codi yn y dyfodol mewn perthynas â Sipsiwn a Theithwyr.

6.38 O ran darparu safleoedd tramwy daeth yr Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr i'r casgliad nad oes angen ar hyn o bryd i'r Cyngor ddarparu safle tramwy ym Mro Morgannwg. Fodd bynnag, dylai'r

[10] **Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr Bro Morgannwg (Mai 2016)**

Cyngor barhau i fonitro nifer y gwersylloedd diawdurdod ac ystyried defnyddio goddefgarwch byrdymor neu Drefniadau Atal wedi'u Negodi i ymdrin ag unrhyw arosiadau tramwy byrdymor.

## POLISI MG6 -
### DARPARU CYFLEUSTERAU ADDYSGOL

**Dyrennir tir i ddatblygu ysgolion newydd yn y mannau canlynol: -**

1. **Cymuned ddysgu Penaeth, Sully Road, Penarth (12.89 ha);**
2. **Llanilltud Fawr (ysgolion uwchradd a chynradd) Ham Lane, Llanilltud Fawr (10.79 ha);**
3. **Ysgol gynradd ac ysgol feithrin newydd yng nglannau'r Barri, y Barri (2.0 ha)**
4. **Ysgol gynradd ar dir i'r gogledd a'r gorllewin o Darren Close, y Bont-Faen (2.0 ha)**
5. **Ysgol gynradd ac ysgol feithrin newydd ar dir yn Upper Cosmeston Farm, Larnog (1.0 ha)**
6. **Ysgol gynradd ac ysgol feithrin newydd ar dir i'r gogledd o'r llinell reilffordd, y Rhws (1.0ha)**

**Hefyd, bydd ysgolion presennol yn cael eu hymestyn neu eu gwella i ateb y galw am leoedd mewn ysgolion yn ystod cyfnod y cynllun.**

6.39 Mae Cymuned Ddysgu Penarth a Chynllun Llanilltud Fawr sydd yn yr arfaeth yn rhan o Raglen Strategol Ysgolion yr 21ain Ganrif y Cyngor ac fe'u cynlluniwyd er mwyn ymateb i'r galwadau presennol am gyfleusterau addysgol yn hytrach nag o ganlyniad i'r rhagolygon ar gyfer twf yn y CDLl. Mae Cymuned Ddysgu Penarth, sy'n ddarpariaeth newydd, yn cynnwys ail-ddarparu Ysgol St. Cyres ac uno 3 ysgol arbennig; Ashgrove, Ysgol Erw'r Delyn ac Ysgol Maes Dyfan ar un safle gyda gofal preswyl a seibiant, a chyfleusterau a gwasanaethau a rennir. Mae Cynllun Llanilltud Fawr yn cynnwys ailadeiladu'r ysgol gyfun bresennol, codi adeiladau newydd ar gyfer Ysgolion Cynradd presennol Eagleswell a Llanilltud Fawr, ac ehangu Ysgol Dewi Sant, ynghyd â chyfleusterau hamdden a diwylliannol ychwanegol.

6.40 Mae disgwyl y bydd ysgolion newydd yn ofynnol hefyd i ateb y galw cynyddol am leoedd mewn ysgolion o ganlyniad yn uniongyrchol i dai newydd a thwf cysylltiedig yn y boblogaeth yn ystod cyfnod y cynllun. Mae'r Papur Cefndir Cyfleusterau Addysgol yn nodi ble nad yw'r galw newydd hwn yn gallu cael ei ateb gan y capasiti presennol mewn ysgolion ac felly, lle mae'r angen yn codi am ysgolion newydd ac estyniadau neu welliannau i ysgolion presennol. Er mwyn sicrhau bod ysgolion newydd yn cael eu cynllunio ac y gellir eu darparu, mae tir wedi cael ei ddyrannu ar gyfer ysgolion newydd fel rhan o ddyraniadau tai ar raddfa fawr yng Nglannau'r Barri, Darren Close yn y Bont-faen, Upper Cosmeston Farm ym Mhenarth, ac i'r gogledd o'r llinell reilffordd yn y Rhws. Bydd yr ysgolion hyn yn diwallu'r angen disgwyliedig am leoedd mewn ysgolion a ganfuwyd a byddant hefyd yn helpu i greu cymunedau cynaliadwy trwy ddarparu hwb cymunedol lleol yn y datblygiadau tai hyn.

6.41 Mae'r Papur Cefndir Cyfleusterau Addysgol hefyd yn nodi nifer o ysgolion y mae angen eu hymestyn neu eu gwella i ddiwallu anghenion ychwanegol sy'n deillio o ddatblygiadau newydd. Yn yr achosion hyn ystyrir bod yr ysgolion yn gallu cael eu hymestyn o fewn cyfyngiadau safleoedd presennol yr ysgolion ac felly nid oes unrhyw dir ychwanegol wedi cael ei ddyrannu ar gyfer y gwelliannau hyn i'r seilwaith.

## POLISI MG7 -
### DARPARU CYFLEUSTERAU CYMUNEDOL

**Dyrennir tir i ddatblygu seilwaith cymunedol newydd yn y dyfodol yn y mannau canlynol:**

1. **Glannau'r Barri (fel rhan o ddefnydd cymysg)**
2. **St Cyres (fel rhan o ddefnydd cymysg)**
3. **Canolfan breswyl ogwr**
4. **Cosmeston farm (fel rhan o ddefnydd cymysg)**

**Er mwyn diwallu anghenion dynodedig datblygiadau yng nghyfnod y cynllun, bydd cyfleusterau cymunedol newydd / gwell yn cael eu ceisio mewn ardaloedd lle nad yw'r angen yn gallu cael ei ddiwallu gan gyfleusterau presennol yn seiliedig ar y dystiolaeth fwyaf cyfoes o'r angen.**

**Bydd cynigion sy'n darparu cyfleusterau cymunedol amlddefnydd newydd neu well, gan gynnwys cydleoli cyfleusterau gofal iechyd, ysgolion, llyfrgelloedd a chyfleusterau hamdden a gwasanaethau cymunedol eraill mewn lleoliadau hygyrch yn cael eu ffafrio..**

6.42 Mae cyfleusterau cymunedol megis neuaddau cymunedol, llyfrgelloedd, ysgolion a chanolfannau hamdden yn hanfodol i lesiant cymdeithasol a chorfforol trigolion ac yn elfennau sy'n allweddol i gynnal bywiogrwydd a hyfywedd bywyd cymunedol mewn aneddiadau trefol a gwledig.

6.43 Er mwyn deall y gofynion yn y dyfodol am gyfleusterau cymunedol yn ystod cyfnod y Cynllun, a goleuo'r Cynllun Cyflawni Seilwaith, mae'r Cyngor wedi cynnal asesiad o gyfleusterau cymunedol presennol (adeiladau cymunedol, llyfrgelloedd a chyfleusterau chwaraeon adeiledig) ym Mro Morgannwg[11]. Mae'r asesiad yn amlygu diffygion presennol, yn nodi natur y galw am gyfleusterau cymunedol ychwanegol sy'n deillio o ddatblygiadau tai arfaethedig a hapddatblygiadau tai, ac yn nodi ble y mae cyfleusterau newydd neu well yn ofynnol i dderbyn twf yn y dyfodol.

6.44 Yn unol ag argymhellion yr asesiad, mae Polisi MG7 yn dyrannu tir i ddarparu seilwaith cymunedol newydd, a fydd yn cael ei ddarparu ar y cyd â dyraniadau tai yng Nglannau'r Barri, St Cyres, Canolfan Breswyl Ogwr a Cosmeston Farm, Penarth. Hefyd, lle mae'r dystiolaeth fwyaf cyfoes o'r angen yn dangos na all anghenion datblygiadau newydd gael eu diwallu gan gyfleusterau cymunedol presennol, mae Polisi MG7 yn ei gwneud yn ofynnol ceisio cyfleusterau cymunedol newydd neu well trwy gyfraniadau Adran 106 neu'r Ardoll Seilwaith Cymunedol yn unol â Pholisi MD4. Mae'r Papur Cefndir Cyfleusterau Cymunedol yn cyflwyno tystiolaeth ddiweddaraf y Cyngor o'r angen. Canfu ei bod yn debygol y bydd cyfleusterau cymunedol newydd neu well yn ofynnol ar gyfer yr aneddiadau canlynol yn ystod Cyfnod y Cynllun o ganlyniad i dwf arfaethedig: Y Barri, Y Bont-faen, Dinas Powys, Llandochau, Llanilltud Fawr, Penarth, Y Rhws, Sain Tathan, Sili a Gwenfô.

6.45 Mae Polisi MG7 hefyd yn hybu datblygiad cyfleusterau cymunedol amlddefnydd sy'n cynnig ystod o wasanaethau cymunedol hygyrch megis gwasanaethau hamdden, gofal iechyd, addysg, mannau cyfarfod cymunedol a gwasanaethau cymunedol hanfodol eraill. Gall cyfleusterau o'r fath fod o gymorth i leihau'r galw am deithio, hybu cymunedau cynaliadwy, a hwyluso'r broses o ddarparu cyfleusterau cymunedol yn effeithiol gan nifer o sefydliadau. Yn y cyswllt hwn, bydd y Cynllun hefyd yn ffafrio datblygiad cyfleusterau amlddefnydd ar y safleoedd a nodir ym Mholisi MG7, ar y cyd â chynigion addysgol a nodir ym Mholisi MG6, a chynigion cynllunio sy'n gwella hyfywedd, hygyrchedd neu werth cymunedol gwasanaethau a chyfleusterau presennol megis siopau pentref, swyddfeydd post, gorsafoedd petrol gwledig, neuaddau pentref ac eglwys a thafarndai gwledig.

[11] **Papur Cefndir Cyfleusterau Cymunedol (2013)**

## POLISI MG8 -
### DARPARU CYFLEUSTERAU IECHYD

**Diogelir tir i ddatblygu ac ehangu Ysbyty Llandochau yn y dyfodol ar gyfer defnyddiau sy'n gysylltiedig ag iechyd**

**Bydd datblygiadau sy'n darparu cyfleusterau iechyd newydd neu well, gan gynnwys cydleoli cyfleusterau gofal iechyd, ysgolion, llyfrgelloedd a chyfleusterau hamdden a gwasanaethau cymunedol eraill mewn lleoliadau hygyrch yn cael eu ffafrio.**

6.46 Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol (BIP) Caerdydd a'r Fro yn bwriadu buddsoddi'n sylweddol yn safle Ysbyty Athrofaol Llandochau dros y 3 blynedd nesaf. Mae'r buddsoddiad hwn yn natblygiad yr ystâd yn ategu cynllun strategol y BIP ar gyfer safle Ysbyty Athrofaol Llandochau ddod yn 'ganolfan ragoriaeth' ar gyfer gwasanaethau adsefydlu ac adfer a bydd yn arwain at gynnydd sylweddol yn nifer y gwelyau a gweithgarwch cleifion allanol ar y safle. Fodd bynnag, o ystyried natur flaenllaw'r safle, bydd yn ofynnol i unrhyw gynigion yn y dyfodol fod wedi'u dylunio'n ofalus yn unol â Pholisïau MD1 ac MD2 i sicrhau eu bod yn parchu cyd-destun a chymeriad lleol yr amgylchedd naturiol ac adeiledig o gwmpas. Bydd unrhyw waith i ehangu'r ysbyty'n golygu ei bod yn ofynnol gwneud gwelliannau sylweddol i'r briffordd a gwella'r mynediad presennol i'r safle ar droed, ar feic ac ar drafnidiaeth gyhoeddus.

6.47 O ran gofal iechyd sylfaenol a gwasanaethau cymunedol mae'r BIP wedi hysbysu bod y rhan fwyaf o feddygfeydd teulu ym Mro Morgannwg yn gweithio o fewn capasiti; fodd bynnag, mae practisau ym Mhenarth yn gweithio ar neu'n agos at eu maint rhestr cleifion. Yn ôl yr ymchwiliad cychwynnol ym mis Awst 2013 ymddengys fod capasiti digonol ar gyfer twf mewn meddygfeydd presennol ledled Bro Morgannwg i dderbyn lefel y twf a nodwyd yn ystod cyfnod y Cynllun. Fodd bynnag, o ran Penarth mae'r practisau yn yr ardal hon yn gweithredu hyd eithaf eu capasiti a byddai angen rhywfaint o fuddsoddiad o fewn practisau presennol i reoli'r galw uwch yma, er enghraifft trwy grantiau gwella Llywodraeth Cymru.

6.48 Mae Canolfannau Adnoddau Iechyd Cymunedol yn darparu'r seilwaith sy'n angenrheidiol i gefnogi gweithwyr gofal sylfaenol proffesiynol a'u galluogi i ddarparu'r ystod lawnaf o wasanaethau gofal iechyd ar lefel leol, gan dargedu anghenion penodol y gymuned yn yr ardal. Bydd angen i nifer a lleoliad y cyfleusterau hyn ym Mro Morgannwg gael eu hystyried yn ofalus i sicrhau mynediad cyfartal lle mae cymunedau ar ymyl y dalgylch.

6.49 Mae Canolfannau Iechyd a Thriniaeth lleol yn darparu canolfan ar gyfer gwasanaethau cymunedol presennol a'r potensial i adleoli cyfleusterau gofal sylfaenol, ynghyd ag integreiddio gwasanaethau eraill yn y sector statudol a gwirfoddol. Maent yn ei gwneud yn bosibl datganoli gwasanaethau i ffwrdd o ysbytai acíwt ac yn darparu canolfan ar gyfer y gwasanaethau hynny na ellir eu darparu'n effeithiol mewn practisau unigol. Yn Ysbyty'r Barri y mae Canolfan Iechyd a Thriniaeth Leol y Fro ac mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu canolfan ragoriaeth ar gyfer gwasanaethau cymunedol yn y Fro. Bydd ystod o wasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a llesiant integredig yn cael eu darparu gan y Bwrdd Iechyd Prifysgol i ddiwallu'r angen lleol lle y bo'n briodol.

6.50 Fel a nodir ym Mholisi MG7, mae'r cyfle'n bodoli i gyfleusterau gofal iechyd fod yn rhan o gyfleusterau cymunedol amlddefnydd sy'n cynnig ystod o wasanaethau cymunedol hygyrch. Yn y cyswllt hwn, mae'r Cynllun yn ffafrio datblygiad cyfleusterau iechyd fel rhan o gynigion amlddefnydd mewn lleoliadau hygyrch.

# Gweithio

## POLISI MG9 -
### DYRANIADAU CYFLOGAETH

**Dyrennir tir ar gyfer cyflogaeth yn y lleoliadau canlynol:**

| | Safle | Defnyddiau | Maint Gros (Ha) | Maint Net (Ha) |
|---|---|---|---|---|
| | **Safleoedd Cyflogaeth Strategol** | | | |
| 1 | Tir i'r De o Gyffordd 34 yr M4 Hensol I ≈ | B1, B2, B8 | 55.16 | 29.59 |
| 2 | Tir ar bwys Maes Awyr Caerdydd a Port Road, Y Rhws (rhan o Ardal Fenter Sain Tathan – Maes Awyr Caerdydd) | B1, B2, B8 | 77.4 | 76.64 |
| 3 | Y Parc Busnes Awyrofod, Sain Tathan Y Rhws (rhan o Ardal Fenter Sain Tathan – Maes Awyr Caerdydd) ≈ | Y Parc Busnes Awyrofod, Cyflogaeth ac Addysg | 305 | 208 |
| | | Is-Gyfanswm | 437.56 | 314.23 |
| | **Safleoedd Cyflogaeth Leol** | | | |
| 4 | Ystâd Fasnachu'r Iwerydd ≈ + | B1, B2, B8 | 9.14 | 9.14 |
| 5 | Tir yn Ffordd y Mileniwm + | B1, B2, B8 | 8.9 | 8.9 |
| 6 | Hayes Lane, Y Barri + | B1, B8 | 1.4 | 1.4 |
| 7 | Hayes Road, Sili ≈ + | B1, B8 | 7.5 | 7.5 |
| 8 | Hayes Wood, Y Barri + | B1, B8 | 1.9 | 1.9 |
| 9 | Ystâd Fasnachu Llandŵ + | B1, B2, B8 | 6.8 | 6.8 |
| 10 | Parc Busnes y Fro | B1, B2, B8 | 12.4 | 12.4 |
| 11 | Tir i'r De o Gyffordd 34 yr M4 Hensol | B1, B2 | 6.64* | 6.64* |
| | | **Is-Gyfanswm** | **54.68** | **54.68** |
| | | **Cyfanswm** | **492.24** | **368.91** |

** Mae 6.64 Ha o'r safle sy'n 61.8 Ha ar y cyfan ar dir i'r De o Gyffordd 34, M4 wedi'i ddynodi'n dir i ddiwallu anghenion lleol yn hytrach na strategol.*

*+ Addas ar gyfer Cyfleusterau Rheoli Gwastraff (gweler Polisi SP8 ac MD20).*

*≈ Safleoedd yr effeithir arnynt gan barth llifogydd C1 neu C2 fel a nodir ar Fapiau Cyngor Datblygu 2015.*

6.51 Mae Polisi MG9 yn dyrannu cyfanswm o 492.24 hectar (gros) o dir ar gyfer defnyddiau cyflogaeth ym Mro Morgannwg er mwyn sicrhau bod cyflenwad a dewis digonol o dir cyflogaeth sydd wedi'i leoli'n briodol ac sy'n addas ar gael i gefnogi amcanion y CDLl ac i ddiwallu'r angen am gyflogaeth leol. Mae'r safleoedd hyn yn cynnwys safleoedd blaenllaw sydd wedi'u lleoli'n strategol a fydd yn ysgogi mewnfuddsoddiad ac yn cyfnerthu rôl Bro Morgannwg o fewn y Brifddinas-Ranbarth yn ogystal â safleoedd cyflogaeth leol sy'n cynorthwyo busnesau brodorol i ehangu ac yn hwyluso'r broses o sefydlu mentrau cyflogaeth newydd er budd yr economi leol.

6.52 Mae tri safle cyflogaeth pwysig wedi cael eu dyrannu sy'n ceisio manteisio ar Ardal Fenter Sain Tathan – Maes Awyr Caerdydd (gan gynnwys y Parc Busnes Awyrofod yn Sain Tathan a Maes Awyr Caerdydd ei hun) ac agosrwydd traffordd yr M4. Mae'r safleoedd hyn wedi'u bwriadu i ddarparu'n

benodol ar gyfer anghenion y diwydiant awyrofod a gweithgynhyrchu uwchdechnolegol, gan roi anogaeth ar gyfer buddsoddiad o'r farchnad ranbarthol ac isranbarthol.

6.53 Mae dyraniadau ar gyfer cyflogaeth leol yn rhoi cyfrif am 54.68 hectar (net) arall o dir ar gyfer defnyddiau B1, B2 a B8 a ddyrannwyd i sicrhau bod ystod a dewis priodol o dir ar gael ar hyd a lled ardal yr awdurdod i ateb gofynion o ran cyflogaeth leol yn y dyfodol yn ystod cyfnod y Cynllun. Mae'r tri safle 'pwysig' yn cael eu hystyried dan bolisïau ar wahân, sef Polisi MG10 (Ardal Fenter) a Pholisi MG11 (Hensol), gyda manylion pellach, gan gynnwys cyfyngiadau, ar gyfer pob un o'r dyraniadau 'lleol' yn cael eu darparu yn Atodiad 4.

## POLISI MG10 -
### ARDAL FENTER SAIN TATHAN – MAES AWYR CAERDYDD

**Dyrennir tir ar bwys maes Awyr Caerdydd a Port Road, y Rhws (77 ha) ac yn y Parc Busnes awyrofod yn Sain Tathan (305ha) i ddatblygu 382 hectar o dir cyflogaeth strategol (dosbarth B1, B2 a B8) sy'n rhan o ardal fenter Sain Tathan – Maes Awyr Caerdydd.**

**Bydd yr ardal fenter yn cael ei datblygu yn ôl yr arweiniad mewn uwchgynllun a fydd yn cynnwys yr elfennau canlynol**

- **Adnewyddu'r sied awyrennau 70,000 metr sgwâr bresennol yn sain tathan (17.95 ha);**
- **Parc Busnes awyrofod i'r gogledd a'r de o'r rhedfa yn Sain Tathan;**
- **Parc Busnes ar gyfer gwasanaethau cymorth hedfanaeth yn Pickertston (11.79 ha);**
- **Ffordd fynediad ogleddol newydd yn ardal fenter Sain Tathan (Gweler Polisi MG16);**
- **Datblygiad awyrofod, addysg, ymchwil a datblygu, gweithgynhyrchu, swyddfeydd a datblygiad atodol arall yn ardal ddatblygu maes Awyr a phorth Caerdydd (77 ha);**
- **Estyniad 42 hectar i Barc Gwledig Porthceri (Gweler Polisi MG28);**
- **Darparu seilwaith trafnidiaeth gynaliadwy; ac**
- **Ymgorffori canolfan ynni cynaliadwy yn ardal ddatblygu maes awyr a phorth Caerdydd.**

6.54 Mae Ardal Fenter Sain Tathan – Maes Awyr Caerdydd yn un o chwe Ardal Fenter a ddynodwyd yn ddiwedd yng Nghymru. Mae'r Ardal Fenter yn cyfuno canolfan y Weinyddiaeth Amddiffyn yn Sain Tathan a Maes Awyr Caerdydd (gan gynnwys tir maes glas cyfagos a berchnogir gan y Cyngor a Legal and General) mewn un Ardal. Bydd datblygiad yn yr Ardal Fenter hon yn canolbwyntio ar y sectorau awyrofod ac amddiffyn. Mae Llywodraeth Cymru wrthi ar hyn o bryd yn paratoi Uwchgynllun ar gyfer yr Ardal Fenter a fydd yn sail i gynllunio a datblygu'r dyraniad yn y dyfodol.

## Tir ar bwys Maes Awyr Caerdydd a Port Road, Y Rhws

6.55 Mae'r safle cyflogaeth strategol hwn, sydd wedi'i leoli yn union i'r dwyrain o'r Maes Awyr, ac i'r de o Port Road, yn mesur tua 77.4 hectar ac yn elwa o'i ddynodiad fel Ardal Fenter, ochr yn ochr â Pharch Busnes Awyrofod Llywodraeth Cymru yn Sain Tathan, yn ogystal â'i agosrwydd at y rhwydwaith traffyrdd. Bydd datblygu'r safle'n rhoi anogaeth ar gyfer mewnfuddsoddi ac yn cyfnerthu rôl Bro Morgannwg o fewn y Brifddinas-Ranbarth.

6.56 Nid yw'r safle hwn yn cael ei ddyrannu i ateb y galw yn y farchnad leol am ddefnyddiau diwydiannol cyffredinol neu ddefnydd fel swyddfeydd, ond yn hytrach i dderbyn defnyddiau busnes a

chyflogaeth sy'n darparu'n benodol ar gyfer anghenion y diwydiant awyrofod a gweithgynhyrchu uwchdechnolegol. Mae cynlluniau ar y gweill i greu 'dinas maes awyr', ar ffurf dynodiad busnes ar gyfer busnesau lleol a rhyngwladol gan gynnwys swyddfeydd, cyfleusterau addysg a hyfforddiant arbenigol a datblygiadau hamdden o ansawdd. Felly ni fydd datblygiad diwydiannol B1, B2 a B8 cyffredinol yn dderbyniol ar y safle hwn.

6.57 Er mwyn cyflawni datblygiad sydd o ansawdd da, yn gynhwysfawr ac yn gynaliadwy ar y safle strategol bwysig hwn, bydd yn rhaid wrth Uwchgynllun i roi arweiniad ar gyfer y datblygiad yn Ardal Fenter Sain Tathan a Maes Awyr Caerdydd gan ystyried yr elfennau a nodir ym Mholisi MG10. Ar gyfer Ardal Ddatblygu Porth Maes Awyr Caerdydd bydd hyn yn cynnwys yr elfennau canlynol:

a. Cyflogaeth – bydd y safle cyflogaeth strategol yn cael ei ddatblygu ar gyfer defnyddiau B1, B2 a B8, y bydd yn ofynnol iddynt fod yn gysylltiedig â gweithgarwch gweithgynhyrchu, ymchwil a datblygu priodol.

b. Tir ar gyfer yr estyniad ym Mharc Gwledig Porthceri – Os ystyried nodweddion tirwedd cain Bro Morgannwg, a'r angen i hybu cynaliadwyedd, ystyrir bod datblygiad i'r de o Port Road yn dderbyniol dim ond fel rhan o ddatblygiad cynhwysfawr gan gynnwys trosglwyddo tir i berchnogaeth Bro Morgannwg (ynghyd â chyfraniadau ariannol priodol wedi'u negodi) ar gyfer estyniad 42 ha i Barc Gwledig Porthceri (gweler Polisi MG28).

c. Darparu canolfan ynni, megis Gwaith Gwres a Phŵer Cyfunol, i sicrhau bod gan y datblygiad nodweddion cynaliadwy uchel.

d. Seilwaith trafnidiaeth gynaliadwy gan gynnwys ystyried llwybr ar gyfer cyswllt rheilffordd posibl â Maes Awyr Caerdydd ar draws y safle i sicrhau nad yw'r datblygiad yn peryglu cynigion yn y dyfodol i wella mynediad cynaliadwy at y maes awyr.

6.58 Bydd mynd ar drywydd datblygiad o'r fath fesul cyfnod hollbwysig ac, yn unol â hynny, bydd yn ofynnol bod yr Uwchgynllun yn ystyried mynd ar drywydd y dyraniad cyfan fesul cyfnod.

## Sain Tathan

6.59 Mae dyrannu'r safle pwysig hwn yn darparu cyfle arwyddocaol i ddatblygiad economaidd o bwys rhanbarthol ddigwydd ym Mro Morgannwg. Mae'r rhan hon o'r Ardal Fenter yn cynnwys adeiladau a rhedfa Uned y Weinyddiaeth Amddiffyn yn Sain Tathan, a Pharc Busnes Awyrofod presennol.

6.60 Llywodraeth Cymru sy'n berchen ar y safle ac mae'n paratoi Uwchgynllun ar gyfer y Parc Busnes Awyrofod, gyda 22 ha o'r safle'n cael ei gadw gan y Weinyddiaeth Amddiffyn at ddibenion milwrol, gan felly leihau'r ardal ddatblygadwy net o dir cyflogaeth i oddeutu 208 ha.

6.61 Mae disgwyl i'r datblygiad arfaethedig gynnwys:

a. Adnewyddu'r sied awyrennau 70,000 metr sgwâr bresennol (ar 17.95 ha);

b. Codi adeiladau, strwythurau a chyfleusterau gweithredol y maes awyr, yn rhai newydd ac yn rhai yn lle'r rhai presennol, i'r gogledd a'r de o'r rhedfa (Rhan Ogleddol y Parc Busnes Awyrofod a Rhan Ddeheuol y Parc Busnes Awyrofod);

c. Datblygu parc busnes ar gyfer gwasanaethau cymorth hedfanaeth yng ngogledd y safle yn Picketston (ar 11.79 ha) a hwnnw'n cael ei farchnata i gwmnïau hedfan sifil.

6.62 Dyrennir y safle ar gyfer datblygiad sy'n gysylltiedig ag awyrofod, a bydd disgwyl iddo ddiwallu anghenion strategol yn hytrach na lleol.

6.63 Mae'r cynigion canlynol mewn perthynas â'r seilwaith yn ofynnol i hwyluso, neu ystyrir eu bod yn hollbwysig i lwyddiant, y cynnig ar gyfer Ardal Fenter yn Sain Tathan:-

- Ffordd Fynediad Ogleddol.
- Gwelliannau i'r briffordd ar y B4265 rhwng Sain Tathan ac Aberddawan yn yr Hen Felin yn Silstwn i leddfu materion presennol o ran diogelwch y briffordd ar hyd y coridor trafnidiaeth allweddol hwn.
- Datblygiad tai newydd yn Sain Tathan (wedi'i ddyrannu dan Bolisi MG2).

## POLISI MG11 -
### TIR I'R DE O GYFFORDD 34 YR M4 HENSOL

**Dyrennir tir i'r de o gyffordd 34 yr M4 (Hensol) (55.16 ha gros) at ddibenion cyflogaeth (dosbarth B1, B2 a B8) sy'n cynnwys 29.59 ha (net) ar gyfer cyflogaeth strategol a 6.64 ha i ddiwallu angen lleol.**

6.64 Cafodd hen ffatri Bosch a'r tir o'i chwmpas (sy'n ymestyn i 76.99 ha ar y cyfan, ac sy'n ffinio â'r M4 a Chyffordd 34 i'r gogledd a'r gorllewin, y llinell reilffordd i'r de a gwaith trin dŵr gwastraff i'r dwyrain) ei chaffael gan Renishaw yn 2011, sydd ers hynny wedi meddiannu'r adeiladau presennol ar gyfer eu gweithgareddau gweithgynhyrchu. Rhoddwyd caniatâd cynllunio amlinellol ym mis Mehefin 2016 ar gyfer datblygiad sy'n cynnwys hyd at 151,060 metr sgwâr o ddefnyddiau Dosbarth B1, B2 a B8; Gwesty/Canolfan Hyfforddi Breswyl (Dosbarth C1/C2); a hyd at 1,300 metr sgwâr o ddefnyddiau atodol yn Nosbarthiadau A1, A2, A3; 30.5 ha o seilwaith gwyrdd (sy'n cynnwys tirlunio ac ardaloedd cydbwyso dŵr), mynediad ac ardaloedd trin, mannau parcio ceir, draenio a mynediad, darparu seilwaith cyfleustodau (gan gynnwys canolfan(nau) ynni) (cyfeirnod 2014/00228/EAO). Dyrennir 55.16 Ha (gros) o'r tir hwn sy'n faes glas yn bennaf i ddiwallu anghenion Strategol a chyflogaeth leol, ond gan roi sylw i gyfyngiadau sylweddol ar y safle gan gynnwys Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, cyrsiau dŵr, coed a warchodir, a pherygl llifogydd, mae'r ardal ddatblygadwy net o dir cyflogaeth wedi'i lleihau i 36.23 Ha.

6.65 Dyrennir 29.59 Ha o'r safle yn llwyr i gyflawni amcanion cyflogaeth Strategol, er mwyn cyfrannu at nodau economaidd rhanbarthol a chreu swyddi. Bydd datblygiadau'n cael eu cyfyngu i ddefnyddiau B1, B2 a B8 o ansawdd da, gyda defnyddiau ar wahân i gyflogaeth ar y safle'n cael eu cyfyngu i gynigion ar raddfa fach sy'n atodol wrth y dyraniad tir strategol. Mae cynnig ar gyfer Parc Busnes 6.64 ha yn rhan o'r dyraniad hefyd er mwyn diwallu anghenion cyflogaeth leol.

## POLISI MG12 -
### HIERARCHAETH MANWERTHU

**Caiff yr hierarchaeth canolfannau manwerthu ym Mro Morgannwg ei diffinio fel a ganlyn:**

**Canol trefi**

- Y Barri

**Canolfannau ardal**

- Y Barri (High Street/Broad Street)
- Y Bont-Faen
- Llanilltud Fawr
- Penarth

**Canolfannau lleol**

- Y Barri: Main Street, Tregatwg; Vere Street, Tregatwg; Park Crescent; Barry Road, Ger Tregatwg; Upper Holton Road
- Dinas Powys: Cardiff Road; Canol Pentref Dinas Powys
- Penarth: Cornerswell Road
- y Rhws: Fontygary Road
- Sain Tathan: y Sgwâr

**Canolfannau cymdogaeth**

- Y Barri: Bron-y-Môr; Cwm Talwg; Canolfan Gibbonsdown; Park Road
- Trebefered
- Dinas Powys: Camms Corner; Castle Court/The Parade
- Font-y-Gary: Adenfield Way
- Llanilltud Fawr: Crawshay Drive
- Penarth: Pill Street; Tennyson Road

6.66 Dylanwedir yn fawr ar hierarchaeth manwerthu Bro Morgannwg gan argaeledd darpariaeth fanwerthu yng Nghaerdydd ac ar gyrion y ddinas. Canol Dinas Caerdydd, sy'n hygyrch iawn ar drafnidiaeth gyhoeddus o ardaloedd o fewn Bro Morgannwg, yw'r brif ganolfan fanwerthu sy'n denu siopwyr yn y rhanbarth ac mae'n cynnig ystod a detholiad eang o siopau cyfleustra a chymharol. Mae'r prif Barc Manwerthu y tu allan i ganol y dref yng Nghroes Cwrlwys ar ymyl ddwyreiniol Bro Morgannwg yn agos at brif ganolfannau tref ac ardal y Barri, Penarth a'r Bont-faen ac yn effeithio arnynt ac mae'n atyniad manwerthu arwyddocaol yn ei rinwedd ei hun. Ceir nifer o ardaloedd manwerthu presennol eraill y tu allan i drefi ac ar gyrion trefi ym Mro Morgannwg nad ydynt yn rhan o'r hierarchaeth manwerthu. Bydd cynigion ar gyfer datblygiadau manwerthu newydd neu arwynebedd llawr ychwanegol yn yr ardaloedd manwerthu hyn yn cael eu hasesu yn erbyn Polisi MG13.

6.67 O fewn Bro Morgannwg mae'r ddarpariaeth siopa wedi'i chanoli'n bennaf o fewn Canol Tref y Barri a Chanolfannau Manwerthu Ardal Penarth, Y Bont-faen a Llanilltud Fawr. Mae Canol Tref y Barri, a enwir yng Nghynllun Gofodol Cymru fel un o'r pedwar anheddiad allweddol ar ddeg sydd â rôl hollbwysig yn nhwf y Brifddinas-Ranbarth, yn darparu ar gyfer ystod eang o ddefnyddiau manwerthu, gwasanaethau, cyflogaeth a hamdden sy'n diwallu mwy nag angen lleol. Nodweddir y ddarpariaeth manwerthu yn y canolfannau ardal gan ystod o fanwerthwyr a darparwyr gwasanaethau lleol a chenedlaethol sy'n gwasanaethu dalgylchoedd lleol yn bennaf. Mewn rhannau eraill o Fro Morgannwg, mae manwerthwyr annibynnol llai yn darparu gwasanaethau cyfleustra beunyddiol pwysig ar gyfer y dalgylch uniongyrchol o amgylch y canolfannau lleol a chymdogaeth.

6.68 Mae'r Cyngor wedi paratoi Asesiad Manwerthu Tref ac Ardal[12] ar gyfer pob un o'r canolfannau manwerthu tref ac ardal yn yr hierarchaeth sy'n diffinio maint ffiniau'r canolfannau ac yn nodi'r ffryntiadau siopa cynradd ac eilaidd. Dangosir y rhain yn Atodiad 5. Hefyd, fe gomisiynodd y Cyngor waith i ddarparu Fframwaith ar gyfer Canol Tref y Barri a Chanolfannau Ardal Y Bont-faen, Llanilltud Fawr, Penarth a'r Barri (High Street/Broad Street) a rhagwelir y bydd y fframwaith hwn yn cael ei gyhoeddi fel Canllawiau Cynllunio Atodol. Mae'r Cyngor hefyd wedi adolygu'r canolfannau manwerthu lleol a chymdogaeth[13] a chaiff y ffiniau canolfannau manwerthu perthnasol eu dangos yn Atodiad 6.

## POLICY MG13 -
### ARDALOEDD MANWERTHU AR GYRION TREFI A'R TU ALLAN I DREFI

**Bydd cynigion ar gyfer datblygiadau manwerthu newydd ar safleoedd newydd neu ardaloedd manwerthu presennol mewn lleoliadau ar gyrion trefi a'r tu allan i drefi, gan gynnwys newid defnydd, estyniadau, uno neu isrannu unedau presennol neu ddiwygiadau i amodau cynllunio presennol mewn perthynas â gwerthu nwyddau'n cael eu caniatáu dim ond yn yr achosion canlynol:**

1. **lle gellir dangos bod angen ychwanegol am y cynnig na ellir ei ddarparu mewn canolfan fanwerthu tref neu ardal bresennol, a**
2. **lle na fyddai'r cynnig, boed yn unigol neu'n gronnol gyda datblygiadau eraill y rhoddwyd caniatâd iddynt yn ddiweddar neu y mae caniatâd iddynt yn yr arfaeth ar hyn o bryd, yn cael effaith annerbyniol ar fasnach, trosiant, bywiogrwydd a hyfywedd y canolfannau tref, ardal, lleol neu gymdogaeth.**

6.69 Mae hierarchaeth manwerthu Bro Morgannwg yn cynnwys y canolfannau tref, ardal, lleol a chymdogaeth a enwir ym Mholisi MG12, ac nid yw'n cynnwys unrhyw barciau manwerthu presennol ar gyrion canol trefi neu'r tu allan i drefi ym Mro Morgannwg. Mae canolfannau manwerthu presennol ar gyrion canol trefi a'r tu allan i drefi ym Mro Morgannwg wedi cael eu hadnabod yn y lleoliadau canlynol:

**Ar Gyrion Canol Trefi**

- Y Barri: Glannau'r Barri; Palmerston; Pencoedtre; Highlight Park
- Penarth: Terra Nova Way

**Y Tu Allan i Drefi**

- Parc Manwerthu Cwrlwys, Croes Cwrlwys
- Parc Manwerthu Brooklands Terrace, Croes Cwrlwys
- Parc Manwerthu Valegate, Croes Cwrlwys
- Parc Manwerthu Heol Penarth

6.70 Bydd cynigion ar gyfer datblygiadau manwerthu newydd mewn ardaloedd manwerthu ar gyrion trefi a'r tu allan i drefi yn cael eu rheoli'n llym yn unol â pholisi cenedlaethol, er mwyn cefnogi canolfannau manwerthu sefydledig presennol yn yr hierarchaeth manwerthu

6.71 Mae Polisi MG13 yn nodi'r meini prawf a fydd yn cael eu defnyddio i asesu cynigion ar gyfer datblygiadau manwerthu newydd mewn lleoliadau ar gyrion trefi a'r tu allan i drefi yn unol â pholisi cenedlaethol. Mae'n gymwys i'r holl gynigion sy'n creu arwynebedd llawr manwerthu ychwanegol, gan gynnwys newid defnydd, estyniadau, isrannu / uno unedau presennol, lledloriau ac amrywiadau i amodau cynllunio perthnasol. Nod y polisi yw gwarchod a gwella bywiogrwydd, hyfywedd a dengarwch canolfannau tref, ardal, lleol a chymdogaeth yn ogystal â hybu cymunedau cynaliadwy a phatrymau teithio cynaliadwy. Yn y cyswllt hwn, bydd cynigion ar gyfer siopau bychain sy'n gwasanaethau cymdogaeth leol neu bentref gwledig a siopau ffermydd yn cael eu ffafrio y tu allan i ganolfannau manwerthu presennol.

[12] **Asesiad Manwerthu Canolfannau Tref ac Ardal Bro Morgannwg (Diweddariad 2013**
[13] **Adolygiad Canolfannau Manwerthu Lleol a Chymdogaeth Bro Morgannwg (Ebrill 2015)**

6.72 Bydd angen i gynigion ar gyfer datblygiadau manwerthu newydd y tu allan i'r canolfannau manwerthu sydd wedi'u cynnwys yn yr hierarchaeth manwerthu ddangos eu bod wedi bodloni'r prawf cymalog y cyfeirir ato mewn polisi cynllunio cenedlaethol. Bydd angen i ddatblygwyr ddangos bod yr holl opsiynau posibl yng nghanol tref wedi cael eu hasesu'n drylwyr gan ddefnyddio'r dull cymalog cyn bod safleoedd ar gyrion trefi a'r tu allan i drefi'n cael eu hystyried ar gyfer defnyddiau allweddol a geir yng nghanol trefi. Mae'r dull hwn yn golygu ei bod yn ofynnol i ddatblygwyr a manwerthwyr fod yn hyblyg ac yn arloesol ynglŷn â fformat, dyluniad a graddfa'r datblygiad arfaethedig a faint o le parcio a ddarperir, gan deilwra'r rhain fel eu bod yn gweddu i amgylchiadau lleol.

6.73 Lle rhoddir caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiadau manwerthu newydd ar gyrion trefi a'r tu allan i drefi gellir gosod amodau i reoli natur a graddfa'r gweithgarwch manwerthu ac i leihau i'r eithaf unrhyw effaith bosibl ar y canolfannau manwerthu presennol yn yr hierarchaeth manwerthu.

## POLISI MG14 -
### DEFNYDDIAU HEBLAW A1 MANWERTHU MEWN CANOLFANNAU MANWERTHU TREF AC ARDAL

**Bydd cynigion ar gyfer defnyddiau heblaw A1 manwerthu ar lefel y llawr gwaelod yn y canolfannau tref ac ardal yn cael eu caniatáu yn yr achosion canlynol:**

1. **lle na fyddent yn arwain at fwy na 35% o ddefnydd manwerthu heblaw A1 manwerthu o fewn y ffryntiad siopa cynradd;**
2. **lle na fyddent yn arwain at fwy na 50% o ddefnydd manwerthu heblaw A1 manwerthu o fewn y ffryntiad siopa eilaidd;**
3. **lle na fyddent yn creu crynhoad gormodol o ddefnyddiau heblaw A1 manwerthu o fewn y ganolfan;**
4. **lle maent yn ategu cymeriad y ganolfan bresennol, yn dwyn budd i'r economi ddydd ac yn cynnal ffryntiad siop deniadol; a**
5. **lle na fyddent yn atal defnydd neu ailddefnydd buddiol o loriau uwch.**

**O fewn ffiniau'r canolfannau manwerthu tref ac ardal, bydd cynigion ar gyfer trosi uned at bresennol ar lefel y llawr gwaelod yn ddefnydd heblaw A1 yn cael eu caniatáu dim ond lle gellir dangos bod yr uned wedi cael ei marchnata'n briodol ac na fyddai'r defnydd arfaethedig yn cael unrhyw effaith annerbyniol ar rôl a swyddogaeth y ganolfan fanwerthu.**

6.74 Caiff lleoliad y ffryntiadau siopa cynradd ac eilaidd eu darparu yn Atodiad 5, a chaiff ffiniau'r canolfannau manwerthu Tref ac Ardal eu dangos ar y Map Cynigion hefyd.

6.75 O fewn yr ardaloedd hyn bydd yr ystod a'r cymysgedd o ddefnyddiau'n cael eu rheoli'n effeithiol i sicrhau bywiogrwydd, hyfywedd a dengarwch parhaus y canolfannau manwerthu. Er y gall defnyddiau heblaw manwerthu megis gwasanaethau ariannol a phroffesiynol (A2), mannau gwerthu bwyd a diod (A3), a swyddfeydd (Dosbarth B1) gyfrannu at amrywiaeth canolfan fanwerthu a chreu nifer uwch o ymwelwyr, gall lluosogiad defnyddiau o'r fath gael effaith negyddol ar fywiogrwydd, hyfywedd a dengarwch hirdymor y ganolfan hefyd gan wasgaru adeiladau manwerthu a gwanhau'r craidd manwerthu.

6.76 Mewn ffryntiadau cynradd ac eilaidd ar lefel y llawr gwaelod, bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau nad oes mwy na 35% a 50% o siopau yn y drefn honno'n cael eu meddiannu gan ddefnyddiau heblaw A1. Lle mae defnyddiau presennol heblaw manwerthu eisoes yn uwch na'r lefelau a nodir yn y Polisi, bydd y Cyngor yn ffafrio cynigion sy'n ceisio adfer defnyddiau A1 sy'n cryfhau rôl a swyddogaeth y canolfannau manwerthu ymhellach. Bydd angen i gynigion ar gyfer defnyddiau heblaw A1 ddangos nad aethpwyd y tu hwnt i'r trothwyon a nodir ym Mholisi MG14 a bydd angen iddynt gael eu hategu gan arolwg manwerthu cyfoes sy'n dangos y ddarpariaeth manwerthu sydd

eisoes yn bodoli yn y ganolfan. Fodd bynnag, lle mae lle gwag yn bodoli ar loriau uwch, bydd trosi'n ddefnyddiau preswyl, masnachol neu gymunedol yn cael ei ffafrio.

6.77 Mewn ffryntiadau cynradd ac eilaidd byddir yn ystyried hefyd a fyddai'r cynnig yn arwain at gydgrynhoi neu glystyru defnyddiau heblaw A1. Felly bydd crynoadau o ddefnyddiau heblaw A1 yn cael eu rheoli'n ofalus i atal creu ffryntiadau manwerthu marw sy'n tynnu oddi ar gymeriad ac edrychiad manwerthu cydnabyddedig yr ardal a byddant yn cael eu hystyried fesul safle unigol.

6.78 Gall defnyddiau bwyd a diod A3 megis caffis, bariau gwin a siopau cludfwyd poeth gwblhau canolfannau manwerthu presennol gan helpu i gefnogi eu hyfywedd a'u hamrywiaeth. Fodd bynnag, gall gorgrynhoad o ddefnyddiau o'r fath mewn canolfan gael effaith anffafriol hefyd ar adeiladau manwerthu presennol a'r ganolfan fanwerthu ei hun ac felly bydd defnyddiau o'r fath yn cael eu rheoli'n ofalus.

6.79 Lle gellir dangos nad yw cadw defnydd manwerthu A1 presennol ar lawr gwaelod yn hyfyw mwyach o safbwynt economaidd, gellir cadarnhau defnyddiau eraill. Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd ddangos bod yr eiddo wedi cael ei farchnata'n weithredol am gyfnod parhaus o 12 mis o leiaf ac na fyddai'r defnydd arfaethedig yn cael unrhyw effaith annerbyniol ar rôl a swyddogaeth y ganolfan fanwerthu. Gallai gwybodaeth gan yr asiant neu'r ymgeisydd am farchnata priodol fod ar ffurf adroddiad marchnata neu ohebiaeth gan yr asiant eiddo perthnasol. Gallai'r math o wybodaeth gynnwys y canlynol:

- Manylion y defnydd presennol neu'r defnydd blaenorol os yw'n wag;
- Am faint o amser y mae'r uned wedi bod yn wag, os yn berthnasol;
- Y math o ddefnydd y mae'r uned wedi cael ei marchnata ar ei gyfer, beth oedd y strategaeth farchnata a'i hyd;
- Faint o ddiddordeb fu yn yr uned yn ystod y cyfnod marchnata – dylai hyn nodi nifer yr ymholiadau, y math o ddefnyddiau a oedd yn cael eu ceisio ac, os yn hysbys, y rheswm dros beidio â chanlyn arni ag unrhyw ymholiadau cychwynnol.

6.80 Er mwyn sicrhau bod nifer yr unedau manwerthu yn y canolfannau manwerthu tref ac ardal yn cael ei gynnal, bydd cynigion i newid defnydd safleoedd masnachol ar y llawr gwaelod yn ddefnydd preswyl yn annhebygol o gael eu caniatáu o fewn y ffryntiadau cynradd ac eilaidd a nodwyd. Fodd bynnag, lle mae lle gwag yn bodoli ar loriau uwch, bydd trosi'n ddefnyddiau preswyl, masnachol neu gymunedol yn cael ei ffafrio.

## POLISI MG15 -

### DEFNYDDIAU HEBLAW A1 MANWERTHU MEWN CANOLFANNAU MANWERTHU LLEOL A CHYMDOGAETH

**Mewn canolfannau manwerthu lleol, bydd cynigion ar gyfer defnyddiau manwerthu heblaw A1 yn cael eu caniatáu yn yr achosion canlynol:**

1. **Lle na fyddent yn achosi i ganran y defnyddiau heblaw A1 manwerthu fynd i tu hwnt i 50%;**
2. **Lle dangosir trwy farchnata gweithredol a phriodol nad yw'r defnydd presennol yn hyfyw mwyach o safbwynt economaidd; a**
3. **Lle na fyddai'r cynnig yn arwain at orgrynhoad o ddefnyddiau heblaw A1 a fyddai'n anffafriol i fywiogrwydd, dengarwch a hyfywedd y ganolfan leol.**

**Mewn canolfannau manwerthu cymdogaeth, bydd cynigion ar gyfer defnyddiau heblaw A1 manwerthu yn cael eu caniatáu lle dangosir na fyddai'r defnydd newydd yn cael effaith annerbyniol ar fywiogrwydd, dengarwch a hyfywedd y ganolfan trwy'r canlynol:**

- **Gorgrynhoad o ddefnyddiau heblaw a1 manwerthu;**
- **Creu ffryntiad ffenestri marw; neu**
- **Effaith annerbyniol ar amwynder defnyddiau cyfagos.**

6.81 Mae'r Cyngor wedi cynnal adolygiad o'r canolfannau manwerthu lleol a chymdogaeth i ganfod maint a hyfywedd pob canolfan a chaiff ffiniau'r canolfannau hyn eu dangos yn Atodiad 8.

6.82 Fel rhan o'r asesiad manwerthu, fe ailddiffiniwyd Holton Road Uchaf yn ganolfan fanwerthu leol yn yr hierarchaeth manwerthu, gyda chraidd manwerthu bach wedi'i nodi. Er mwyn ceisio cynnal y craidd manwerthu hwn, mae'r Cyngor wedi paratoi Canllawiau Datblygu fel Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n ceisio rhoi anogaeth i wella'r ganolfan fanwerthu er mwyn gwella'i dengarwch a'i hyfywedd.

6.83 Mae gan ganolfannau manwerthu lleol a chymdogaeth Bro Morgannwg rôl werthfawr o ran cynnal cymunedau lleol, darparu ar gyfer anghenion beunyddiol trigolion lleol a lleihau'r angen i deithio. Fodd bynnag, mae arferion siopa modern wedi achosi rôl canolfannau lleol a chymdogaeth ddirywio ac mae'r ystod o gyfleusterau mewn llawer o'r canolfannau'n cael ei herydu'n araf a'i disodli gan ddefnyddiau heblaw manwerthu, sy'n aml yn ddefnyddiau gwasanaethau neu mae'r adeiladau'n cael eu trosi'n rhai preswyl. Er bod newidiadau o'r fath yn arwain mewn rhai achosion at ailddefnydd buddiol o adeiladau a fyddai'n wag fel arall ac sy'n tynnu oddi ar yr amgylchedd lleol, gall eraill niweidio hyfywedd canolfan yn sylweddol a chyfrannu at ei dirywiad ac at ei cholli yn y pen draw. Felly mae'n bwysig sicrhau bod newidiadau o'r fath yn cael eu rheoli'n ofalus a bod rôl bwysig canolfannau manwerthu lleol yn cael ei chynnal.

6.84 Felly, er mwyn gwarchod bywiogrwydd, dengarwch a hyfywedd canolfannau manwerthu lleol, bydd newidiadau defnydd i ddefnyddiau heblaw A1 yn cael eu caniatáu dim ond lle mae ymdrechion marchnata priodol wedi cael eu gwneud am o leiaf 6 mis i ddangos nad oes galw am ddefnyddiau A1. Gallai gwybodaeth gan yr asiant neu'r ymgeisydd am farchnata priodol fod ar ffurf adroddiad marchnata neu ohebiaeth gan yr asiant eiddo perthnasol. Gallai'r math o wybodaeth gynnwys y canlynol:

- Manylion y defnydd presennol neu'r defnydd blaenorol os yw'n wag;
- Am faint o amser y mae'r uned wedi bod yn wag, os yn berthnasol;
- Y math o ddefnydd y mae'r uned wedi cael ei marchnata ar ei gyfer, beth oedd y strategaeth farchnata a'i hyd;
- Faint o ddiddordeb fu yn yr uned yn ystod y cyfnod marchnata – dylai hyn nodi nifer yr ymholiadau, y math o ddefnyddiau a oedd yn cael eu ceisio ac, os yn hysbys, y rheswm dros beidio â chanlyn arni ag unrhyw ymholiadau cychwynnol.

6.85 Yn yr un modd, bydd cynigion a fyddai'n arwain at orgrynhoi neu glystyru safleoedd heblaw A1 manwerthu, gan gynnwys defnydd preswyl, mewn canolfan fanwerthu leol yn cael eu rheoli'n ofalus i sicrhau bod hyfywedd a swyddogaeth fanwerthu'r ganolfan leol yn cael eu cynnal. Fodd bynnag, cydnabyddir bod cymysgedd o ddefnyddiau heblaw manwerthu megis canolfannau meddygol a phractisau deintyddol yn gallu cyfrannu at neu wella hyfywedd canolfannau lleol, gan ddarparu gwasanaethau lleol gwell a chynyddu nifer yr ymwelwyr yn agos at safleoedd manwerthu. Felly bydd defnyddiau o'r fath yn cael eu ffafrio fel rheol lle mae rôl fanwerthu'r ganolfa leol yn cael ei chynnal a lle nad oes unrhyw effaith annerbyniol ar amwynder lleol. O ystyried amrywiaeth y canolfannau manwerthu a nodwyd, bydd cynigion ar gyfer defnyddiau heblaw A1 yn cael eu hasesu fesul achos unigol gan ystyried nodweddion unigol pob canolfan leol.

6.86 Effeithir yn fwy ar y canolfannau cymdogaeth llai ym Mro Morgannwg gan newidiadau mewn ymddygiad siopa ac maent yn fwy tebygol o fod dan fygythiad o ganlyniad i ddefnyddiau eraill, yn enwedig trosi'n ddefnydd preswyl. Er ei fod yn cydnabod pwysigrwydd y defnyddiau manwerthu yn y canolfannau cymdogaeth hyn a'u rôl o ran lleihau'r angen i deithio, mae'r Cyngor yn cydnabod nad yw cadw presenoldeb manwerthu wastad yn hyfyw o safbwynt masnachol. Felly, er bod cadw defnyddiau A1 manwerthu mewn canolfannau cymdogaeth yn ddymunol ac y bydd anogaeth yn cael ei rhoi i wneud hynny, lle gellir dangos na fydd unrhyw effaith anffafriol ar hyfywedd a bywiogrwydd y ganolfan a lle nad yw cadw defnydd A1 manwerthu'n hyfyw mwyach o safbwynt economaidd, bydd defnyddiau eraill yn cael eu caniatáu.

6.87 Bydd cynigion ar gyfer defnyddiau eraill mewn canolfannau lleol a chymdogaeth yn cael eu ffafrio lle maent yn wasanaethau manwerthu o ran eu natur neu'n ddefnyddiau masnachol neu gymunedol eraill sy'n ychwanegu at ddengarwch y ganolfan a'i harlwy ar y cyfan. Gall y defnyddiau hyn gynnwys y rhai sy'n perthyn i ddosbarthiadau defnydd A2 (gwasanaethau ariannol a phroffesiynol), A3 (bwyd a diod), D1 (sefydliadau dibreswyl), D2 (ymgynnull a hamdden), B1 (defnyddiau fel swyddfeydd) a defnyddiau unigryw lle ystyrir bod hynny'n briodol.

# Rheoli

## POLISI MG16 -
**CYNIGION TRAFNIDIAETH**

DYRENNIR TIR AR GYFER Y CYNLLUNIAU TRAFNIDIAETH CANLYNOL:

**CERDDED A BEICIO**

1. **Llwybr 88 y Rhwydwaith Beicio cenedlaethol a chysylltiadau trefol a gwledig cysylltiedig #.**
2. **A4050 Port Road i faes Awyr Caerdydd.**
3. **A48 Croes Cwrlwys i Ben-y-Bont ar Ogwr.**
4. **Eglwys Brewis Road ar y cyd â'r Ffordd Fynediad ogleddol arfaethedig, Ardal Fenter Sain Tathan.**
5. **Glannau'r Barri i Ddinas Powys.**

**RHEILFFYRDD**

6. **Moderneiddio cledrau'r cymoedd.**

**BYSIAU**

7. **A4050 Croes Cwrlwys i faes awyr Caerdydd.**
8. **A48 Croes Cwrlwys i Ben-y-Bont ar Ogwr trwy'r Bont-Faen.**
9. **Merrie Harrier Cardiff Road y Barri i gaerdydd ar hyd Barry Road.**
10. **Leckwith Road, Llandochau i Gaerdydd.**
11. **Lavernock Road i Gaerdydd ar hyd y Morglawdd.**
12. **Parcio a theithio ar fws yn Cosmeston Penarth.**

**PRIFFYRDD**

13. **Ffordd Gyswllt ynys y Barri.**
14. **Ffordd Fynediad ogleddol (ardal fenter Sain Tathan).**
15. **Silstwn – Hen Felin B4265.**
16. **Gwelliannau i'r A4226 rhwng Waycock Cross, y Barri a Sycamore Cross, A48 (Five Mile Lane).**
17. **Gwelliannau i gyffordd Cross Common Road.**
18. **I'r gogledd o'r A48, gwelliannau i Bonvilston Road.**
19. **Ffordd gyswllt rhwng yr A48 a Llantwit Major Road, y Bont-Faen.**

**CYFNEWIDFEYDD**

20. **Cyfnewidfa Fysiau gorsaf Doc y Barri.**

**GWAITH GWELLA PRIFFYRDD**

**Hefyd, i liniaru effaith datblygu ar y rhwydwaith priffyrdd, bydd gwaith gwella priffyrdd ar ffurf cynlluniau gwella coridorau neu gyffyrdd yn ofynnol.**

*# - Mae Llwybr 88 y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol a ddangosir ar Fap Cynigion y CDLl yn fynegol ac yn amodol ar waith dichonoldeb pellach oni nodir yn wahanol fel llwybrau wedi'u cadarnhau*

6.88 Mae Polisi MG16 yn nodi a, lle y bo angen, yn diogelu tir sy'n ofynnol ar gyfer cynigion trafnidiaeth ar gyfer y CDLl, gan ddarparu gwelliannau a fydd yn cefnogi amcanion strategol y Cynllun ac yn gwireddu cyfleusterau trafnidiaeth gynaliadwy gwell a gwelliannau i'r priffyrdd. Mae llawer o'r cynlluniau a nodir wedi'u cynnwys yng Nghynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Cynghrair Trafnidiaeth De Ddwyrain Cymru (Sewta) ac mae eraill yn gynlluniau parhaus neu'n elfennau o gynigion a arweinir gan ddatblygu yr ymrwymwyd iddynt Mae'r cynlluniau a nodir ym Mholisi MG16 wedi cyrraedd camau gwahanol yn eu datblygiad ac felly er bod aliniadau llwybrau diffiniol ar gael ar gyfer rhai cynigion, ar gyfer eraill dim ond aliniadau mynegol sydd ar gael. Caiff yr holl lwybrau ac ardaloedd i'w gwarchod eu dangos ar y Map Cynigion.

6.89 Hefyd, mae Asesiad o'r Effaith ar Briffyrdd[14] wedi cael ei gynnal sydd wedi ystyried materion capasiti o ganlyniad i dwf arfaethedig trwy'r CDLl, ac wedi adnabod cysylltiadau a chyffyrdd problemus lle bydd gwelliannau'n ofynnol. O ganlyniad, mae Polisi MG16 hefyd yn nodi'r angen a nifer o gynlluniau seilwaith sy'n ofynnol i liniaru effeithiau datblygu ar y rhwydwaith priffyrdd, y byddir yn ceisio'u cyflawni trwy ddatblygiadau a thrwy'r Ardoll Seilwaith Cymunedol.

## Cerdded a Beicio

6.90 Mae Cerdded a Beicio'n ddewisiadau cynaliadwy ac ymarferol yn lle'r car preifat, gan gefnogi ffyrdd iach o fyw a lleihau'r effaith ar yr amgylchedd. Un elfen hanfodol er mwyn annog pobl i gerdded a beicio mwy yw darparu rhwydwaith o lwybrau pwrpasol o ansawdd da sy'n cysylltu cymunedau ac yn darparu mynediad at gyfleoedd manwerthu, cyflogaeth a hamdden lleol. Bydd y CDLl yn ceisio rhoi anogaeth i gyflwyno cynigion sy'n gwella cyfleoedd i gerdded a beicio a bydd yn rhoi blaenoriaeth i'r cynigion hynny.

6.91 Mae gan y Cyngor ymrwymiad hirsefydlog i ddatblygu'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol ym Mro Morgannwg. Mae Llwybr 88 y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol yn cysylltu Llwybr 4 y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol ym Mharc Margam ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, trwy Fro Morgannwg â dechrau Llwybr 8 y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol ym Mae Caerdydd. Mae astudiaeth ddichonoldeb sy'n nodi llwybr mynegol ond a ffafrir ar gyfer Llwybr 88 y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol wedi cael ei baratoi ar gyfer Cyngor Bro Morgannwg gan Sustrans[15] a dangosir y llwybr hwn ar Fap Cynigion y CDLl. Mae rhai darnau o'r llwybr wedi cael eu cadarnhau a'u hadeiladu a dangosir y rhain ar y Map Cynigion. Mae gweddill y llwybr yn fynegol ac wedi cyrraedd camau amrywiol o ran ei ddatblygiad. Er bod astudiaethau dichonoldeb a dylunio cychwynnol wedi cael eu cynnal ar gyfer rhai darnau, megis y rhai ar hyd Cardiff Road rhwng y Barri a Dinas Powys, nid oes unrhyw ymchwiliadau manwl wedi cael eu cynnal i ddarnau eraill. Bydd gwaith i ddatblygu'r llwybr yn ceisio manteisio ar raglenni sefydledig megis cynlluniau Llwybrau Diogel mewn Cymunedau a weithredir ledled Bro Morgannwg a rhaglen Penarth Connect2 yn ogystal â chyfraniadau at drafnidiaeth gynaliadwy o gynigion datblygu newydd.

6.92 Mae Pont Y Werin dros Afon Elái yn gyswllt cerdded a beicio strategol rhwng Bro Morgannwg a Chaerdydd. Mae Cyngor Bro Morgannwg yn ymrwymedig i ddatblygu rhwydwaith o lwybrau cerdded a beicio ym Mhenarth sy'n arwain at Bont Y Werin ac sy'n annog pobl i wneud mwy o ddefnydd o ddulliau trafnidiaeth eraill a mwy cynaliadwy ar gyfer teithiau amlbwrpas a hamdden. Bydd cwblhau'r rhwydwaith hefyd yn cyfrannu at gwblhau Llwybr 88 y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol ym Mro Morgannwg ac yn darparu parhad â llwybrau cerdded a beicio yng Nghaerdydd.

6.93 Mae'r A4050 Port Road yn lwybr trafnidiaeth strategol pwysig sy'n cysylltu Maes Awyr Caerdydd trwy'r Barri â'r gyfnewidfa drafnidiaeth yng Nghroes Cwrlwys a'r M4. Gyda chymorth gan Lywodraeth

[14] Astudiaeth o'r Effaith ar Briffyrdd (Capita) 2013
[15] Astudiaeth Ddichonoldeb o'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol trwy Fro Morgannwg (Sustrans 2008)

Cymru a Sewta, bydd datblygu llwybrau cerdded a beicio gwell ar hyd y coridor trafnidiaeth hwn sy'n bwysig yn strategol yn adeiladu ar brosiectau llwyddiannus sydd wedi cael eu gweithredu gan Gyngor Bro Morgannwg dan y rhaglen Llwybrau Diogel mewn Cymunedau yng ngogledd y Barri a bydd yn cefnogi datblygiad mynediad cynaliadwy gwell at Faes Awyr Caerdydd.

6.94 Mae'r A48 Pen-y-bont ar Ogwr i Groes Cwrlwys yn cael ei gydnabod gan Gynghrair Trafnidiaeth De Ddwyrain Cymru fel llwybr trafnidiaeth strategol pwysig sy'n cysylltu Pen-y-bont ar Ogwr â Chaerdydd a'r Fro wledig â Chaerdydd a'r M4. Er bod y llwybr hwn wedi cael ei adnabod fel un sydd yn 10 uchaf y coridorau yn ardal Sewta ar gyfer gwelliannau o ran blaenoriaeth i fysiau, bydd y llwybr hefyd yn elwa o lwybrau cerdded a beicio i wella'r coridor trafnidiaeth hwn sy'n bwysig yn strategol a chysylltu'r cymunedau gwledig â'r gyfnewidfa drafnidiaeth yng Nghroes Cwrlwys.

6.95 Fel rhan o'r Ardal Fenter a'r datblygiad tai cysylltiedig yn ac o amgylch Sain Tathan, ystyrir ei bod yn hanfodol darparu seilwaith cerdded a beicio ar Eglwys Brewis Road pan fydd y Ffordd Fynediad Ogleddol yn cael ei datblygu, o ystyried pwysigrwydd cysylltu Sain Tathan â Llanilltud Fawr ar gyfer mynediad at y gyfnewidfa drafnidiaeth yn Llanilltud Fawr. Bydd hyn yn darparu opsiynau gwirioneddol o ran trafnidiaeth gynaliadwy ar gyfer trigolion Sain Tathan ac yn cynorthwyo Aelodau'r Lluoedd Arfog a defnyddwyr y Parc Busnes Awyrofod i gael mynediad at y safle trwy ddulliau heblaw'r car. Bydd hefyd yn cynorthwyo disgyblion ysgol i gael mynediad at yr ysgol uwchradd heb y gofyniad i ddarparu trafnidiaeth sydd wedi'i neilltuo i gludo plant i'r ysgol, ac yn hybu ffyrdd iach ac egnïol o fyw.

6.96 Mae Glannau'r Barri i Ddinas Powys yn cael ei adnabod fel coridor trafnidiaeth strategol pwysig sy'n cysylltu anheddiad y Barri â Chaerdydd. Ar hyn o bryd nid oes cyfleusterau cerdded a beicio sy'n cysylltu'r Glannau â Dinas Powys rhwng Cylchfan Biglis ar gyrion y Barri a Dinas Powys ar y coridor i Gaerdydd. Mae Sewta eisoes wedi ariannu'r astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer llwybr cerdded a beicio ar hyd y coridor hwn ac mae'r Cyngor wrthi ar hyn o bryd yn ystyried yr opsiynau o ran tir i ddarparu llwybr cerdded a beicio pwrpasol i gysylltu'r aneddiadau hyn. Mae darpariaeth cerdded a beicio eisoes wedi cael ei darparu o Ddinas Powys i Landochau ar hyd coridor blaenoriaeth i fysiau'r Merrie Harrier ac ar Cardiff Road, Y Barri a Hayes Road, Sili. Ystyrir bod y cyswllt coll yn bwysig i adeiladu ar y prosiectau llwyddiannus blaenorol sydd wedi cael eu gweithredu gan Gyngor Bro Morgannwg trwy raglen y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a'r rhaglen Llwybrau Diogel mewn Cymunedau.

6.97 Mae Rhaglen Gwella Mynediad Arfordirol Cymru yn ceisio gwella mynediad at arfordir Cymru ar gyfer cymunedau lleol ac ymwelwyr trwy welliannau i lwybrau presennol a datblygu llwybrau newydd. Gyda 53 cilometr o arfordir mae morlin Bro Morgannwg yn rhan annatod o'r Llwybr Arfordirol gan ymestyn o Fae Caerdydd/Aber Elái yn y dwyrain i Afon Ogwr yn y gorllewin. A hithau'n cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru a rheolaeth prosiect arni'n cael ei darparu gan Cyfoeth Naturiol Cymru, mae'r rhaglen wedi darparu llwybr cerdded a beicio o ansawdd da o amgylch morlin Cymru (gweler Polisi SP11).

## Rheilffyrdd a Bysiau

6.98 Mae gwasanaethau a seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus gwell yn hwyluso gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus mwy dibynadwy ac yn rhoi anogaeth ar gyfer mwy o ddefnydd, gan leihau'r ddibyniaeth ar y car preifat a dwyn budd i'r amgylchedd.

6.99 Mae gan Faes Awyr Caerdydd a Pharc Busnes y Maes Awyr sydd ar ei bwys y potensial, fel rhan o'r Ardal Fenter, i ddod â thwf economaidd sylweddol a hirdymor i Fro Morgannwg ac ardal ehangach y Brifddinas-Ranbarth. Fodd bynnag, cyfyngwyd ar y potensial hwn gan fynediad arwyneb annigonol

sydd wedi cyfyngu ar y twf ac wedi achosi oedi o ran buddsoddi. Felly bydd yr holl gyfleoedd i wella mynediad ar drafnidiaeth gyhoeddus at y maes awyr, a darparu manteision economaidd a lleihau dibyniaeth ar y car preifat, yn cael eu cefnogi.

6.100 Bydd Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth gyda rhanddeiliaid eraill, yn bwrw ymlaen â chynigion i foderneiddio rhwydwaith rheilffyrdd Cledrau'r Cymoedd, gan gynnwys rheilffordd Bro Morgannwg. Bydd moderneiddio Cledrau'r Cymoedd fel rhan o gynigion ar gyfer Metro Caerdydd yn arwain at fanteision amgylcheddol, siwrneiau cyflymach, mwy o gapasiti ac yn cefnogi adfywio economaidd a thwf swyddi yn Ne Cymru.

6.101 Fel rhan o astudiaeth gan Ymgynghoriaeth Jacobs yn 2010 a gomisiynwyd gan Sewta, cafodd nifer o orsafoedd ar Reilffordd Bro Morgannwg eu hadnabod fel ardaloedd lle byddai angen mannau parcio a theithio ychwanegol yn y tymor byr a chanolig. Mae Gorsaf Dociau'r Barri wedi cael ei chyflawni'n barod, gan ddarparu 220 o fannau parcio yn 2011, er nad yw lleoliad pellach a adnabuwyd yn Cogan, Penarth wedi cael ei gyflawni oherwydd materion o ran y gallu i'w ddarparu yn ystod cyfnod y Cynllun.

6.102 Fel rhan o ddatblygu cynllun ar gyfer Gorsaf Ganolog newydd i wasanaethu Canol Tref y Barri a Glannau'r Barri, yn 2002 fe nododd Cyngor Bro Morgannwg ddull integredig a fesul cyfnod ar gyfer ailddatblygu a gwella Gorsaf Doc y Barri a'r ardal o'i chwmpas. Mae camau cychwynnol wedi arwain at uwchraddio platfform yr orsaf ac adeiladu pompren strategol newydd sy'n cysylltu Thompson Street â safle Holton Reach ar Lannau'r Barri. Gyda chymorth Llywodraeth Cymru a Chynghrair Trafnidiaeth De Ddwyrain Cymru, mae safle Parcio a Theithio wedi cael ei gwblhau yng ngorsaf Dociau'r Barri hefyd, gan gynnwys uwchraddio maes parcio Swyddfa Doc y Barri a darparu tua 220 o fannau parcio a theithio.

6.103 Mae Strategaeth Fysiau Sewta (2007) yn cynnwys cynigion i wella'r coridor bysiau rhwng Bro Morgannwg a Chaerdydd ar hyd y prif rwydwaith ffyrdd. Prif argymhelliad yr astudiaeth o'r rhaglen buddsoddi mewn bysiau oedd y dylid canolbwyntio gwelliannau ar goridor Dinas Powys, Llandochau a Lecwydd i Gaerdydd. Mae Astudiaeth Steer Davies Gleave 2008 yn ehangu ar y cynigion a nodwyd yn Strategaeth Fysiau Sewta ac yn adnabod 10 coridor pwysig ar gyfer mesurau blaenoriaeth i fysiau yn Rhanbarth Sewta. Mae'r coridorau a adnabuwyd ym Mro Morgannwg yn cynnwys coridor Dinas Powys i Gaerdydd, coridor Croes Cwrlwys i'r Maes Awyr a choridor Pen-y-bont ar Ogwr i Gaerdydd ar hyd yr A48 a thrwy'r Bont-faen. Ystyrir bod y llwybrau hyn yn fwy o broblem i fysiau o ran cael mantais dros y car oherwydd tagfeydd a maint y traffig sy'n gwneud i'r bysiau eistedd yn yr un traffig â'r ceir. Bydd mantais i fysiau trwy roi blaenoriaeth i fysiau'n annog pobl i newid eu dull trafnidiaeth o'r car i drafnidiaeth gyhoeddus.

6.104 Mae gofyn gwneud gwaith dichonoldeb manwl mewn perthynas â'r llwybrau allweddol hyn, a fydd yn cael ei ystyried fel rhan o asesiad cynhwysfawr o'r modd y gellir lliniaru effaith datblygu ar y rhwydwaith priffyrdd strategol, y bydd cyllid ar ei gyfer yn cael ei geisio o grantiau cenedlaethol a chynigion datblygu ar y cyd â Chynllun Seilwaith y Cyngor a'r Ardoll Seilwaith Cymunedol.

6.105 Yn haf 2013, fe ddadlennodd Sewta gynigion ar gyfer system drafnidiaeth gwbl integredig yn rhanbarth Dinas Caerdydd, gan nodi gorsafoedd a llwybrau rheilffordd newydd posibl, yn ogystal â lonydd blaenoriaeth i fysiau a rheilffordd ysgafn, i gysylltu'r rhanbarth yn well. Gan amcanu at "sbarduno" twf economaidd a'r broses o greu swyddi, gyda chymorth Llywodraeth Cymru mewn partneriaeth gyda'r sector cyhoeddus a phreifat, y gobaith yw cyflawni gwelliannau i drafnidiaeth gyhoeddus ym Mro Morgannwg gan gynnwys gwelliannau i amseroedd siwrneiau a chynigion parcio a theithio integredig.

6.106 Fe wnaeth Astudiaeth Parcio a Rhannu Capita (2007) a gwblhawyd ar ran Sewta adnabod angen i ddarparu tir ar gyfer cyfleuster parcio a theithio/parcio a rhannu ym Mhenarth. Mae tir yn Cosmeston wedi cael ei adnabod fel tir sy'n ddigon mawr ac yn ddigon agos, i ateb y gofynion i alluogi'r 500 o fannau parcio sy'n ofynnol ar gyfer safle rhanbarthol i gael eu darparu. Trwy ei Strategaeth Rhwydwaith Bysiau sy'n dod i'r amlwg, mae Sewta yn cydnabod yr angen i weithredu mesurau blaenoriaeth i fysiau ar hyd coridorau lle darperir cyfleusterau parcio a theithio rhanbarthol sy'n seiliedig ar fysiau. Felly, er mwyn ystyried cyfleuster parcio a theithio yn Cosmeston i ddarparu ar gyfer bysiau sy'n mynd i Gaerdydd ar hyd y Morglawdd, bydd angen darparu mesurau blaenoriaeth i fysiau ar y coridor o Cosmeston i Fae Caerdydd.

## Priffyrdd

6.107 Fel rhan o Ardal Fenter Sain Tathan, cynigir Ffordd Fynediad Ogleddol newydd ar gyfer y B4265 rhwng Cyffyrdd Signalau Trebefered a Llanfaes, i fod yn gyson ar y cyfan â'r cynllun a gymeradwywyd yn llawn yn flaenorol gan geisiadau cyf. 2009/00500/OUT a 2009/00501/OUT ar gyfer y Coleg Technegol Amddiffyn a'r Parc Busnes Awyrofod. Ystyrir bod y Ffordd Fynediad Ogleddol yn hanfodol i hwyluso datblygu yn yr Ardal Fenter a dwyn y manteision economaidd i Fro Morgannwg a'r rhanbarth ehangach.

6.108 Mae gan y Cyngor gynigion hirsefydlog i wella'r briffordd ar hyd y B4265 yn Silstwn – Yr Hen Felin lle cyfyngir ar aliniad presennol y ffordd rhwng Sain Tathan ac Aberddawan gan y topograffi lleol sy'n creu materion arwyddocaol o ran diogelwch ar y ffyrdd. Mae'r cynnig ar gyfer Silstwn – Yr Hen Felin yn cynnwys gwelliannau i'r B4265 a fydd ar ac oddi ar y ffordd bresennol ac sy'n cynnwys ailalinio'r ffordd gerbydau'n llorweddol ac yn fertigol i leddfu'r materion presennol o ran diogelwch ar y briffordd ar hyd y coridor mynediad allweddol hwn sy'n gwasanaethu fel y prif gyswllt ffordd â Phwerdy Aberddawan, Llanilltud Fawr a'r Parc Busnes Awyrofod / Ardal Fenter yn Sain Tathan.

6.109 Mae Ffordd Gyswllt Ynys y Barri yn rhan annatod o Ail Gam cynllun adfywio strategol bwysig Glannau'r Barri. Y ffordd gyswllt newydd fydd y prif goridor mynediad trwy'r ardal ddatblygu gan ddarparu seilwaith trafnidiaeth gynaliadwy gwell, gan gynyddu hydreiddedd lleol o fewn y Glannau a hwyluso integreiddio gwell rhwng yr ardal adfywio, y dref a'r cymunedau a'r ganolfan dwristaidd yn Ynys y Barri. Bydd y Cyngor yn mynd ati'n weithredol i gynnal trafodaethau gyda'r datblygwyr a Llywodraeth Cymru ynglŷn â darparu'r ffordd gyswllt ar y cam cynharaf posibl yn y datblygiad.

6.110 Mae Cyngor Bro Morgannwg wedi canlyn arni ag astudiaethau amgylcheddol ac wedi adnabod opsiynau o ran aliniad y llwybr mewn perthynas â gwelliannau i ddiogelwch y briffordd ar hyd Five Mile Lane. Mae'r llwybr yn goridor pwysig rhwng y gogledd a'r de ym Mro Morgannwg gydag aliniad gwael sy'n cyfrannu at bryderon ynghylch diogelwch ar y ffordd. Mae'r astudiaethau a gynhaliwyd wedi bod yn sail i gynigion presennol y Cyngor i uwchraddio aliniad Five Mile Lane a'r gwelliannau i'r gyffordd yn Sycamore Cross (a gwblhawyd yn 2013) a Waycock Cross. Byddai'r cynigion yn gwella diogelwch y priffyrdd, gan helpu i leihau tagfeydd a gwella mynediad at Faes Awyr Caerdydd a Sain Tathan. Mae cyllid ar gyfer y cynllun wedi cael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru a chyflwynwyd cais cynllunio ym mis Mawrth 2016.

6.111 Hefyd, bydd yn ofynnol i'r tri dyraniad preswyl pwysig canlynol dan Bolisi MG2 hwyluso neu gyflawni gwelliannau i briffyrdd allweddol, gyda manylion pellach ar weithredu'n cael eu darparu dan Bolisi MG2: -

- Tir i'r gogledd a'r gorllewin o Darren Close, Y Bont-faen (MG2 (20)) – Ffordd Gyswllt Rhwng yr A48 a Llantwit Major Road, Y Bont-faen
- Tir yn Cross Common Road (MG2 (31)) – Cyffordd newydd ar gyfer Cross Common Road/ Cardiff Road
- Tir i'r dwyrain o Dresimwn (MG2 (40)) – Gwelliannau i'r briffordd o'r A48

6.112 Fel a nodir uchod, mae'r Asesiad o'r Effaith ar Briffyrdd[16] wedi nodi'r cysylltiadau a'r cyffyrdd a fydd wedi cyrraedd eu capasiti neu wedi mynd y tu hwnt i'w capasiti o ganlyniad i'r CDLl erbyn 2026. Mae'r rhestr o gysylltiadau/cyffyrdd sy'n ofynnol yn ôl Polisi MG16 i leddfu effaith datblygu ar y rhwydwaith priffyrdd fel a ganlyn:

**Cysylltiadau / Cynlluniau Gwella Coridorau**

a. Windsor Road, Penarth
b. Pontypridd Road, Y Barri
c. Port Road (De Gwenfô)
d. Cardiff Road (Gwenllian Street)
e. Port Road (De Gwenfô)
f. Ffordd Gyswllt Dociau'r Barri (I'r Gogledd o'r Signalau)
g. Port Road (Depo Bro Morgannwg)
h. Cardiff Road (Gwenllian Street)
i. Port Road (Merthyr Dyfan Road)
j. Port Road (Clwb Golff Gwenfô)
k. Broad Street, Y Barri
l. Port Road (Depo Bro Morgannwg)
m. Pontypridd Road, Y Barri
n. Broad Street, Y Barri
o. Port Road West (Tesco)

**Cyffyrdd**

a. Cylchfan yr A4232/Heol Orllewinol y Bont-faen/A4050/A48
b. Cyffordd Cardiff Road/Murch Road/Millbrook Road
c. Cyffordd Flaenoriaeth A48/A4226/Ffordd i'r Gogledd
d. Cyffordd Heol Penarth/Ffordd Gangen Cogan/Windsor Road/Barry Road
e. Cylchfan Waycock Road/Port Road W/Pontypridd Road
f. Cyffyrdd Penlan Road/Barry Road/Andrew Road/Cardiff Road a Cardiff Road/Redlands Road
g. Cyffordd Flaenoriaeth Leckwith Road/Pen-Y-Turnpike Road
h. Cylchfan yr A4050 Port Road/Caerau Lane/Nant Isaf
i. Cyffordd Flaenoriaeth yr A48/B4265/Ffordd i'r Gogledd
j. Cylchfan yr A4050 Port Road/Morfa Lane/Old Port Road
k. Cylchfan yr A4231/A4055 Cardiff Road/B4267 Sully Moors Road
l. Cyffordd Palmerston Road/Cardiff Road
m. Cylchfan yr A4050/A4231/Port Road
n. Cyffordd Flaenoriaeth yr A4222/B4270
o. Cyffordd Aberthin Road/Cardiff Road/St. Athan Road/Eastgate
p. Cylchfan Port Road/Colcot Road

[16] Asesiad o'r Effaith ar Briffyrdd (Capita) 2013

q. Cyffordd Flaenoriaeth y B4265/Gileston Road (Dwyrain)
r. Cylchfan Gladstone Road/Broad Street/Gladstone Bridge
s. Cylchfan Ffordd Y Mileniwm/A4055/Cardiff Road
t. Cylchfan Pontypridd Road/Jenner Road / Park Crescent/Gaen Street
u. Cylchfan Cogan Hill/Ffordd Ddynesu o Terra Nova

6.113 Bydd angen 'Cynlluniau Gwella Coridorau' ar gyfer y cysylltiadau a enwir uchod, ac fe allai'r cynlluniau hynny gynnwys mesurau blaenoriaeth i fysiau; lonydd cerbydau ychwanegol; ffyrdd (osgoi) newydd; llwybrau beiciau; lonydd i gerbydau â nifer fawr o deithwyr, VMS (Arwyddion â Negeseuon Newidiol), heolydd unffordd a.y.b. Yn yr un modd, bydd y 'Cynlluniau Gwella Cyffyrdd' yn cynnwys cyffyrdd newydd, uwchraddio signalau neu gylchfannau, lonydd dynesu/ymadael ychwanegol, gatiau ar gyfer bysiau, defnyddio systemau deallus, amseriadau gwell ar gyfer signalau a.y.b.

6.114 Bydd gwaith dichonoldeb manwl, gan gynnwys yr holl gamau angenrheidiol i integreiddio gwelliannau i'r priffyrdd â chysylltiadau trafnidiaeth gynaliadwy, yn rhan hanfodol o waith parhaus y Cyngor i gyflawni'r seilwaith. Bydd y gwaith hwn yn ceisio adnabod gwelliannau neu fesurau lliniaru a fydd yn helpu i: (a) annog pobl i ddefnyddio dulliau teithio cynaliadwy ar wahân i'r car preifat, gwella'r dulliau teithio cynaliadwy hynny neu ddarparu'r seilwaith ar eu cyfer; a/neu (b) cynyddu capasiti cysylltiadau neu gyffyrdd trwy welliannau i'r priffyrdd, neu greu llwybrau newydd (adeiladu cyswllt newydd er enghraifft).

6.115 Mae Cynllun Seilwaith y Cyngor yn ymgorffori manylion pellach ar gyfer gwelliannau arfaethedig i'r priffyrdd a mecanweithiau cyflawni, gan gynnwys trwy'r Ardoll Seilwaith Cymunedol.

## Cyfnewidfeydd

6.116 Mae cyfnewidfeydd yn darparu ffocws canolog a phwynt integreiddio ar gyfer gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus. Mae ansawdd a diogelwch y cyfleusterau a ddarperir mewn cyfnewidfeydd yn ddylanwad allweddol ar ganfyddiad teithwyr am wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus ac mae darparu cyfleusterau o ansawdd da mewn cyfnewidfeydd trafnidiaeth gyhoeddus yn aml yn dwyn manteision pwysig o ran adfywio fel sbardun i ysgogi buddsoddiadau oherwydd nifer yr ymwelwyr sy'n gysylltiedig â hynny. Ers iddi ddarfod am y depo bysiau ar Broad Street yn y Barri ym 1992, cydnabyddir yn adroddiad Steer Davies Gleave (2008) y byddai'r Barri, fel y dref fwyaf yn y rhanbarth, yn elwa o gyfnewidfa ar hyd llinell y rheilffordd, a honno'n cynnwys cyfnewidfa fysiau. I ddechrau, y farn oedd y gallai gorsaf reilffordd y Barri fod yn lleoliad mwy ffafriol ar gyfer gorsaf fysiau, ond oherwydd y diffyg tir a'r ffaith bod Dociau'r Barri'n fwy canolog ar gyfer canol y dref a'r Glannau, roedd yr adroddiad yn cydnabod angen am orsaf fysiau'n agos at orsaf reilffordd Dociau'r Barri. Felly, fel cam terfynol yn y gwaith gwella parhaus yng Ngorsaf Doc y Barri, cynigir cyfnewidfa drafnidiaeth integredig. Cefnogir y cynllun hwn gan Sewta ac mae wedi'i adnabod fel cynllun a fydd yn cael ei gyflawni o fewn rhaglen gyfalaf y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol. Bydd yn cwblhau'r cyfleusterau Parcio a Theithio gwell y yr orsaf ac yn integreiddio Glannau'r Barri ymhellach â chanol Tref y Barri.

POLIS MG17 -
**ARDALOEDD TIRWEDD ARBENNIG**

**Dynodir yr ardaloedd canlynol yn ardaloedd tirwedd arbennig:**

1. **Castle Upon Alun;**
2. **Dyffryn afon ddawan uchaf ac isaf;**
3. **Dyffryn a llethrau cefn afon elái;**
4. **Nant Llancarfan;**
5. **Basn a llethrau cefn Dyffryn;**
6. **Basn Cwrt-yr-Ala.**

**O fewn yr ardaloedd tirwedd arbennig a nodir uchod, bydd cynigion datblygu'n cael eu caniatáu lle dangosir na fyddent yn achosi unrhyw niwed annerbyniol i gymeriad tirwedd pwysig yr ardal.**

6.117 Mae Ardaloedd Tirwedd Arbennig wedi cael eu dynodi i warchod ardaloedd ym Mro Morgannwg[17] yr ystyrir eu bod yn bwysig oherwydd eu harwyddocâd daearegol, naturiol, gweledol, hanesyddol neu ddiwylliannol. Mae'r ardaloedd hyn wedi cael eu hadnabod trwy ddefnyddio methodoleg a ddyfeisiwyd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru gynt (Cyfoeth Naturiol Cymru bellach) ar y cyd â chonsortiwm o awdurdodau lleol yn Ne Ddwyrain Cymru[18], sy'n defnyddio data LANDMAP. Mae'r broses yn ei gwneud yn bosibl casglu, trefnu a gwerthuso gwybodaeth am y dirwedd mewn set ddata â sicrwydd ansawdd sy'n gyson yn genedlaethol.

6.118 Mae manylion yr Ardaloedd Tirwedd Arbennig a adnabuwyd wedi'u cynnwys ym Mhapur Cefndir Dynodi Ardaloedd Tirwedd Arbennig Bro Morgannwg (2013).

6.119 Nid yw dynodi Ardaloedd Tirwedd Arbennig wedi'i fwriadu i atal datblygu ond yn hytrach sicrhau lle mae datblygu'n dderbyniol, y rhoddir ystyriaeth ofalus i elfennau dylunio'r cynnig megis y gosodiad, cyfeiriad, cynllun a thirlunio, er mwyn sicrhau bod y nodweddion arbennig a oedd yn sail i ddynodi'r Ardaloedd Tirwedd Arbennig yn cael eu gwarchod.

6.120 Bydd yn ofynnol i gynigion datblygu o fewn Ardaloedd Tirwedd Arbennig roi ystyriaeth lawn i effaith y cynnig ar yr Ardal Tirwedd Arbennig trwy gyflwyno Asesiad o'r Effaith ar y Dirwedd a'r Effaith Weledol. Bydd Asesiad o'r Effaith ar y Dirwedd a'r Effaith Weledol yn ofynnol ar gyfer unrhyw ddatblygiad sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar gymeriad y dirwedd, neu gael effaith weledol sylweddol yn y dirwedd ehangach (yn rhinwedd ei faint neu ei amlygrwydd neu faint ei effaith ar yr ardal leol) a bydd yn cael ei baratoi yn unol â chanllawiau diweddaraf y Sefydliad Tirwedd a'r Sefydliad Rheoli ac Asesu Amgylcheddol[19]. Lle y bo'n berthnasol, dylai hwn fod yn elfen allweddol o ddatganiad dylunio a mynediad cais cynllunio a dylai ddangos bod y cynnig wedi'i fwriadu i ddileu neu leihau unrhyw effeithiau annerbyniol ar y nodweddion a oedd yn sail i ddynodi'r Ardal Tirwedd Arbennig. Dylai unrhyw effeithiau cronnol y gallai'r cynnig eu cael mewn perthynas â chynigion presennol neu arfaethedig yn yr ardal leol gael eu hystyried hefyd. Mae hyn yn arbennig o wir am dyrbinau gwynt neu strwythurau mawr a chynigion ar raddfa fawr megis ffermydd solar. Dylai lefel y manylder sy'n ofynnol ym mhob asesiad o'r effaith ar y dirwedd fod yn gymesur â graddfa'r cynnig.

.

[17] Dynodi Ardaloedd Tirwedd Arbennig (Ebrill 2008) TACP
[18] Datblygu Meini Prawf Dynodi Ardaloedd Tirwedd Arbennig ar gyfer Awdurdodau Lleol De Ddwyrain Cymru (Gorffennaf 2007)
[19] Canllawiau Cynllunio Atodol Dylunio yn y Dirwedd, Cyngor Bro Morgannwg (2006))

## POLISI MG18 -
### LLETEMAU GLAS

**Mae lletemau glas wedi cael eu hadnabod er mwyn atal aneddiadau rhag ymgyfuno ac i gadw natur agored tir yn y lleoliadau canlynol:**

1. **Rhwng Dinas Powys, Penarth a Llandochau;**
2. **I'r gogledd orllewin o Sili;**
3. **I'r gogledd o Wenfô;**
4. **I'r de o Ben-y-Bont ar Ogwr;**
5. **Rhwng y Barri a'r Rhws;**
6. **O dde Penarth i Sili; a**
7. **Rhwng y Rhws ac Aberddawan.**

**Yn yr ardaloedd hyn ni fydd datblygiadau sy'n peryglu natur agored y tir yn cael eu caniatáu.**

6.121 Mae tir ar yr ymyl drefol yn enwedig o amgylch yr aneddiadau allweddol, y canolfannau gwasanaethau a'r aneddiadau cynradd yn Ardal y De Ddwyrain yn wynebu bygythiad o ganlyniad i ddatblygu ar hap sy'n gallu cymylu'r ffiniau rhwng ymylon aneddiadau a chefn gwlad agored. Heb ei atal, byddai datblygu o'r fath yn arwain at golli tir agored fesul tipyn ac yn y pendraw at ymgyfuniad aneddiadau gydag effaith niweidiol ar amaethyddiaeth, y dirwedd a gwerth amwynder tir o ganlyniad.

6.122 Tra bo polisïau eraill yn y CDLl yn ceisio atal datblygu amhriodol yng nghefn gwlad agored ystyried bod yr ardaloedd a ddiffinnir gan y lletemau glas yn wynebu mwy o fygythiad ac yn fwy tueddol o newid a'i bod yn ofynnol cyflwyno mesurau ychwanegol i'w gwarchod. Felly, yn yr ardaloedd a ddiffinnir gan y lletemau glas bydd rhagdybiaeth yn erbyn datblygu amhriodol[20] a fyddai'n cyfrannu at ymgyfuniad trefol, yn peryglu natur agored y tir, neu'n cael effaith anffafriol ar leoliad ardal drefol. Wrth gymhwyso'r mesurau gwarchod hyn, fodd bynnag, cydnabyddir bod grwpiau unigol neu fach o anheddau'n bodoli o fewn y dynodiadau a bod gweithgareddau megis amaethyddiaeth, coedwigaeth a hamdden yn digwydd. O ganlyniad, bydd datblygu sy'n gysylltiedig â defnyddiau presennol yn cael ei gyfyngu i fân strwythurau sy'n gwbl atodol wrth ddefnyddiau presennol. Mae manylion yr holl ddynodiadau wedi'u cynnwys yn y Papur Cefndir ar Letemau Glas (2013).

## POLISI MG19 -
### SAFLEOEDD A RHYWOGAETHAU O BWYSIGRWYDD EWROPEAIDD

**Bydd cynigion datblygu sy'n debygol o gael effaith arwyddocaol ar safle ewropeaidd, pan gânt eu hystyried ar eu pennau eu hunain neu ar y cyd â phrosiectau neu gynlluniau eraill, yn cael eu caniatáu dim ond yn yr achosion canlynol:**

1. **Lle mae'r cynnig yn uniongyrchol gysylltiedig â gwarchod a gwella safle a'i reoli'n gadarnhaol at ddiben cadwraeth neu'n angenrheidiol ar gyfer hynny; neu**
2. **Lle na fydd y cynnig yn cael effaith anffafriol ar gyfanrwydd y safle;**
3. **Lle nad oes datrysiad arall;**
4. **Lle ceir rhesymau sydd er budd cyhoeddus tra phwysig; a**
5. **Lle caiff mesurau cydadferol priodol eu sicrhau.**

[20] PCC Rhifyn 9 (Tachwedd 2016) paragraffau 4.8.14 i 4.8.18.

**Bydd cynigion datblygu sy'n debygol o gael effaith anffafriol ar rywogaeth a warchodir gan ewrop yn cael eu caniatáu dim ond yn yr achosion canlynol:**

1. **Lle ceir rhesymau sydd er bydd cyhoeddus tra phwysig;**
2. **Lle nad oes dewis arall boddhaol; a**
3. **Lle na fydd y cam gweithredu a awdurdodir yn niweidiol i gynnal poblogaeth y rhywogaeth dan sylw ar statws cadwraeth ffafriol yn ei hamrediad naturiol**

6.123 Mae safleoedd a ddynodwyd yn rhyngwladol yn cynnwys Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig a Safleoedd Ramsar. Mae gan Fro Morgannwg 2 safle rhyngwladol: - Bae Dwnrhefn (Ardal Cadwraeth Arbennig) ac Aber Afon Hafren (Ardal Cadwraeth Arbennig, Ardal Gwarchodaeth Arbennig, Safle Ramsar) ac mae'n union ar bwys Ardal Cadwraeth Arbennig Cynffig ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Dangosir lleoliadau'r safleoedd Ewropeaidd ar y Map Cyfyngiadau.

6.124 Bydd penderfyniadau ynghylch unrhyw gynigion datblygu sy'n debygol o effeithio ar safleoedd dynodedig Ewropeaidd neu Rywogaethau a Warchodir gan Ewrop yn cael eu gwneud yn unol â pholisi cynllunio cenedlaethol a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol 5: Cadwraeth Natur a Chynllunio (2009) a chyfraith achosion berthnasol.

6.125 Yn unol â Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y'u diwygiwyd), bydd unrhyw gynigion datblygu sydd â'r potensial i gael effaith anffafriol ar gyfanrwydd safle Ewropeaidd yn cael Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.

6.126 Cyn gweithredu unrhyw ganiatâd a all gael ei roi ac a allai effeithio ar rywogaethau o bwysigrwydd Ewropeaidd, bydd angen i ddatblygwyr sicrhau rhanddirymiad gan Cyfoeth Naturiol Cymru dan Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y'u diwygiwyd), sef y 'Rheoliadau Cynefinoedd'.

## POLISI MG20 –
### SAFLEOEDD A RHYWOGAETHAU A WARCHODIR YN GENEDLAETHOL

**Bydd datblygiadau sy'n debygol o gael effaith anffafriol naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ar werth cadwraeth safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig yn cael eu caniatáu dim ond lle dangosir:**

1. **Nad oes dewis arall addas yn lle'r datblygiad arfaethedig**
2. **Bod y manteision sy'n deillio o'r datblygiad yn amlwg yn gwrthbwyso diddordeb arbennig y safle; a**
3. **Bod mesurau cydadferol priodol yn cael eu sicrhau; neu**
4. **Bod y cynnig yn cyfrannu at warchod neu wella'r safle neu ei reoli'n gadarnhaol.**

**Bydd cynigion datblygu sy'n debygol o effeithio ar rywogaethau a warchodir yn cael eu caniatáu dim ond lle dangosir:**

1. **Na fydd effaith anffafriol ar amrediad a dosbarthiad poblogaeth y rhywogaethau;**
2. **Nad oes dewis arall addas yn lle'r datblygiad arfaethedig;**
3. **Bod manteision y datblygiad yn amlwg yn gwrthbwyso'r effeithiau anffafriol ar y rhywogaethau a warchodir; a**
4. **Bod mesurau osgoi, lliniaru a gwneud iawn priodol yn cael eu darparu**

6.127 At ddibenion y polisi hwn, mae safleoedd a ddynodwyd yn genedlaethol y cynnwys Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA). Ym Mro Morgannwg ceir 28 SoDdGA ac mae'r rhain wedi'u nodi y Atodiad 2 a dangosir eu lleoliadau ar y Map Cyfyngiadau. Rhywogaethau a warchodir yw'r rhai a nodir yn Neddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd) a deddfwriaeth rhywogaeth benodol e.e. Deddf Gwarchod Moch Daear 1992.

6.128 Mae presenoldeb rhywogaeth a warchodir yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ynghylch ceisiadau cynllunio. Wrth asesu unrhyw gynnig datblygu a fyddai'n debygol o achosi niwed i rywogaeth a warchodir neu ei chynefin pe bai'n cael ei gyflawni, bydd y Cyngor yn cael ei arwain gan gyngor a geir gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

6.129 Bydd wastad rhagdybiaeth yn erbyn datblygiad sy'n debygol o niweidio safle neu rywogaeth a warchodir. Fodd bynnag, efallai hefyd y bydd achosion lle bydd pwysigrwydd datblygiad yn gwrthbwyso'r gwerth cadwraeth, naill ai dros dro neu'n barhaol i SoDdGA / rhywogaeth a warchodir ac mewn achosion o'r fath, yr amcan bob amser fydd sicrhau bod gwerth cadwraeth natur y safle neu'r rhywogaeth a warchodir yn cael ei warchod a, lle y bo'n bosibl, yn cael ei wella.

6.130 Lle caniateir datblygiad, bydd amodau priodol neu rwymedigaethau cynllunio y cytunwyd arnynt yn cael eu defnyddio i sicrhau mesurau gwneud iawn neu liniaru priodol.

## POLISI MG21 –
## SAFLEOEDD O BWYSIGRWYDD AR GYFER CADWRAETH NATUR, SAFLEOEDD DAEAREGOL A GEOMORFFOLEGOL SY'N BWYSIG YN RHANBARTHOL A CHYNEFINOEDD A RHYWOGAETHAU Y RHODDIR BLAENORIAETH IDDYNT

**Bydd cynigion datblygu sy'n debygol o gael effaith anffafriol ar safleoedd o bwysigrwydd ar gyfer cadwraeth natur neu gynefinoedd a rhywogaethau y rhoddir blaenoriaeth iddynt yn cael eu caniatáu dim ond lle gellir dangos:**

1. **Bod yr angen am y datblygiad yn amlwg yn gwrthbwyso gwerth cadwraeth natur y safle;**
2. **Bod effeithiau anffafriol ar gadwraeth natur a nodweddion daearegol yn gallu cael eu hosgoi;**
3. **Y gellir darparu mesurau lliniaru a gwneud iawn priodol a chymesur; a**
4. **Bod y datblygiad yn gwarchod a, lle y bo'n bosibl, yn gwella diddordebau bioamrywiaeth.**

6.131 Caiff Safleoedd o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur eu hadnabod er mwyn gwarchod ardaloedd o werth bywyd gwyllt uchel ar lefel leol. Mae Safleoedd Daearegol a Geomorffolegol sy'n Bwysig yn Rhanbarthol yn safleoedd a ddynodwyd yn lleol sydd o bwysigrwydd lleol, cenedlaethol a rhanbarthol ar gyfer geoamrywiaeth (daeareg a geomorffoleg).

6.132 Caiff Cynefinoedd a Rhywogaethau y Rhoddir Blaenoriaeth Iddynt ar gyfer Cadwraeth eu hadnabod yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, Adran 7. Mae rhywogaethau neu gynefinoedd yn nodweddion pwysig ar fywyd gwyllt, yn brin neu'n dirywio ac nid ydynt yn cael eu gwarchod gan ddeddfwriaeth sylfaenol.

6.133 Bydd yn ofynnol i ddatblygiadau sy'n debygol o gael effaith anffafriol ar Safleoedd sydd o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur, Safleoedd Daearegol sy'n Bwysig yn Rhanbarthol neu Gynefinoedd a Rhywogaethau y Rhoddir Blaenoriaeth Iddynt ddangos bod pob ymdrech wedi cael ei wneud i osgoi a lliniaru unrhyw effeithiau anffafriol a bod yr angen am y datblygiad yn gwrthbwyso'r

gwerth cadwraeth natur neu ddaearegol. Lle nad yw lliniaru ar y safle'n bosibl neu'n ddigonol i atal unrhyw effaith anffafriol yna bydd yn ofynnol gwneud iawn oddi ar y safle. Bydd mesurau ar gyfer gwneud iawn oddi ar y safle'n cael eu sicrhau trwy amodau cynllunio neu gytundebau Adran 106 fel y bo'n briodol.

6.134 Bydd y Cyngor yn cynhyrchu Canllawiau Cynllunio Atodol ar 'Fioamrywiaeth a Datblygu' i ategu'r polisïau hyn a rhoi cyngor i ddatblygwyr ynghylch dull y Cyngor o fynd ar drywydd materion bioamrywiaeth.

## POLISI MG22 -
### DATBLYGIADAU MEWN ARDALOEDD DIOGELU MWYNAU

**Caiff adnoddau mwynol hysbys ar ffurf tywodfaen, tywod a graean a chalchfaen eu diogelu fel a ddangosir ar y map cynigion.**

**Bydd datblygiadau newydd yn cael eu caniatáu mewn ardal ag adnoddau mwynol hysbys lle dangoswyd yn gyntaf:**

1. **Bod unrhyw gronfeydd mwynau'n gallu cael eu cloddio'n ddarbodus cyn i'r datblygiad ddechrau;**
2. **Neu y byddai cloddio'n cael effaith annerbyniol ar ystyriaethau o ran yr amgylchedd neu amwynder; neu**
3. **Na fyddai'r datblygiad yn cael unrhyw effaith arwyddocaol ar weithio'r adnodd o bosibl yn rhinwedd ei natur neu ei faint; neu**
4. **Fod ansawdd/maint yr adnodd dan sylw'n wael.**

6.135 O ystyried y banc tir o gronfeydd â chaniatâd cynllunio mewn safleoedd gweithio mwynau presennol ym Mro Morgannwg, nid oes gofyniad bod y Cynllun yn dyrannu ardaloedd ychwanegol ar gyfer cloddio am galchfaen. Fodd bynnag, mae ardaloedd arwyddocaol wedi cael eu hadnabod fel rhai sy'n cynnwys adnoddau a allai fod o werth ar gyfer gweithio mwynau yn y dyfodol. Caiff yr ardaloedd hynny eu nodi ar y Map Cynigion ac maent yn cael eu gwarchod rhan datblygu parhaol a allai eu hanffrwythloni neu eu hatal rhag gallu cael eu cloddio yn y dyfodol.

6.136 Dylai'r rheswm dros yr ardal a ddiogelir (h.y. budd hirdymor posibl yr adnodd dan sylw) gael ei ystyried yn berthynol i'r angen am ddatblygu ac unrhyw ddadleuon economaidd byrdymor.

6.137 Hefyd, bydd cynigion datblygu ar raddfa fach, er enghraifft datblygiadau cyfyngedig ar ffurf datblygiadau mewnlenwi, datblygiadau gan ddeiliaid tai, neu ddatblygiadau amaethyddol, yn aml yn cael eu caniatáu mewn ardaloedd a ddiogelir, er y bydd angen iddynt ddangos yn gyntaf na fyddent yn peryglu'r gallu i fanteisio ar yr adnodd a ddiogelir yn y dyfodol.

6.138 Bydd manylion pellach ynglŷn â gweithredu'r Polisi yn cael sylw trwy Ganllawiau Cynllunio Atodol.

## POLISI MG23 -
### CLUSTOGFEYDD CHWARELI

**Mae clustogfeydd wedi cael eu hadnabod o amgylch safleoedd gweithio mwynau. mewn clustogfeydd bydd cynigion ar gyfer datblygu'n cael eu caniatáu dim ond lle dangosir:**

1. **Na fyddai'r cynnig yn cyfyngu ar weithrediadau'r safle mwynau; neu**
2. **Fod y cynnig wedi'i leoli mewn ardal adeiledig bresennol sydd eisoes yn tresmasu ar y glustogfa.**

6.139 Mae gweithrediad gweithiau mwynau yn aml yn gwrthdaro â defnyddiau tir eraill ac effeithiau megis sŵn, llwch a dirgryndod sy'n gallu effeithio'n sylweddol ar amwynder lleol. Yn yr un modd, mae datblygiadau sy'n agos iawn at weithiau mwynau'n gallu cyfyngu'n fawr ar y gallu i gloddio adnoddau mwynol. Er mwyn darparu ardaloedd gwarchodaeth o amgylch gweithiau mwynau, mae clustogfeydd wedi cael eu hadnabod i leihau'r gwrthdaro rhwng y gweithrediad mwynol a defnyddiau tir sensitif eraill megis ardaloedd preswyl, ysbytai ac ysgolion. O fewn y glustogfa, ni ddylai fod unrhyw weithgarwch newydd i gloddio mwynau na datblygiad sensitif newydd, ac eithrio lle byddai safle'r datblygiad newydd wedi'i leoli mewn ardal adeiledig bresennol sydd eisoes yn tresmasu ar y glustogfa. Gall datblygiadau eraill llai sensitif megis diwydiant neu gyflogaeth fod yn dderbyniol lle gellir dangos na fyddai cynigion o'r fath yn effeithio'n annerbyniol ar weithrediadau'r gwaith mwynau.

6.140 Mae maint y glustogfa'n seiliedig ar ganllawiau cenedlaethol safonol sydd wedi'u cynnwys yn MTAN1, sef 200m ar gyfer chwarelau craig galed. Mae'r clustogfeydd mwynau wedi cael eu nodi ar y Map Cynigion. Yn unol â hynny, lle ceir cais am estyniad i chwarel, byddir yn ystyried fel arfer bod clustogfa'r chwarel yn ymestyn 200m o ffin yr estyniad, oni chyfiawnheir yn wahanol fel rhan o'r broses o ystyried y cynnig hwnnw.

## POLISI MG24 -
### SAFLEOEDD MWYNAU SEGUR

**Bydd y Cyngor yn ceisio atal gweithgarwch pellach i gloddio mwynau trwy geisio cyflwyno gorchmynion gwahardd yn y safleoedd mwynau canlynol sydd wedi bod yn segur am amser hir lle cafwyd argyhoeddiad bod ailddechrau ennill a gweithio mwynau neu ddyddodi gwastraff mwynol i unrhyw raddau sylweddol yn annhebygol:**

1. **Chwarel y Bewbyr (Long Grove), Saint Hilari;**
2. **Chwarel Cnap twt, Castle upon Alun;**
3. **Chwarel Cosmeston, Penarth;**
4. **Chwarel Cross Common, Dinas Powys;**
5. **Chwarel Downswood, Penarth;**
6. **Gwaith Brics trelai (safle a rennir gyda Chaerdydd);**
7. **Chwarel Larnog;**
8. **Chwarel Saint Andras, Saint Andras;**
9. **Chwarel Southerndown Road.**

**Gan fod asesiad wedi dangos bod gan y cronfeydd segur yn argoed isha, llansanwyr y potensial i gael eu hailweithio yn y dyfodol, ni fydd y cyngor yn ceisio cyflwyno gorchymyn gwahardd yn y safle hwn**

6.141 Yn ychwanegol at safleoedd chwareli gweithredol, ceir nifer o safleoedd mwynau sy'n anweithredol ac wedi bod yn segur am amser hir ym Mro Morgannwg lle nad oes unrhyw weithio wedi digwydd am fwy na 10 mlynedd. Dangosir y rhain ar y Map Cynigion. Mae llawer o'r safleoedd wedi adfywio'n naturiol, yn cael eu defnyddio mewn ffyrdd eraill bellach neu mae datblygiadau cyfagos yn cyfyngu arnynt. Er enghraifft, cafodd Chwarel Cosmeston ei llenwi â dŵr hyd at ddyfnder o 20 metr pan ddaeth gweithgarwch chwarela i ben yn y 1960au ac ers hynny mae wedi cael ei ymgorffori ym Mharc Gwledig Cosmeston; mae Chwarel Larnog a Chwarel Southerndown Road wedi cael eu defnyddio fel safleoedd gwaredu gwastraff; ac mae Gwaith Brics Treláí (a rennir gyda Chaerdydd) wedi cael ei orchuddio i raddau helaeth gan Ffordd Gyswllt Treláí. Hefyd, mae oddeutu 5.4 hectar i'r gogledd o Chwarel Larnog wedi cael ei ddyrannu ar gyfer datblygiad preswyl dan Bolisi MG2 (24) Tir yn Upper Cosmeston Farm, Larnog, mae Cronfeydd yn Bewpyr, Cnap Twt, Cross Common a Downswood yn gyfyngedig a/neu dan gyfyngiadau ac fe gyfyngir ar Chwarel Sant Andras gan ddatblygiad sensitif gerllaw.

6.142 Bydd y Cyngor yn ceisio atal gwaith pellach i gloddio adnoddau yn y safleoedd a restrir ym Mholisi MG24 er mwyn darparu sicrwydd ynglŷn â'u gweithio yn y dyfodol a bydd yn ceisio sicrhau bod gwaith adfer yn cael ei wneud lle y bo'n briodol. Bydd adfer ac ôl-ddefnyddio'n dibynnu'n bennaf ar adfywio naturiol at ddibenion cadwraeth natur/ecolegol. O ran Chwarel Larnog, bydd datblygiad preswyl yn digwydd ar ran ogleddol y chwarel segur a ddyrannwyd fel rhan o MG2 (24) Tir yn Upper Cosmeston Farm, Larnog.

6.143 Ystyrir y gallai cronfeydd yn Chwarel Argoed Isha, Llansanwyr, gael eu hailweithio yn y dyfodol yn amodol ar gymeradwyo cynllun newydd o weithiau. Yn unol â hynny, bydd y Cyngor yn gwneud gwaith monitro safleoedd mwynau yn flynyddol mewn perthynas â'r holl chwareli i fonitro'r cyfraniad posibl yn y dyfodol gan chwareli anweithredol.

6.144 Mae'r chwarel yng Nghnap Twt, Castle upon Alun, yn SoDdGA daearegol. Mae Adran 28G o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 yn gosod dyletswydd ar Awdurdodau Lleol "to take reasonable steps, consistent with the proper exercise of the Authority's functions, to further the conservation and enhancement of the flora, fauna or geological or physiographical features by reason of which the site is of special scientific interest". Gan fod y nodweddion ar y safle sydd o ddiddordeb yn wyneb y graig, ystyrir na ddylai unrhyw waith adfer ddigwydd oni bai a nes bod cynigion o'r fath wedi cael eu cymeradwyo gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

## POLISI MG25 -
### GWEITHIO MWYNAU (GAN GYNNWYS ECHDYNNU OLEW A NWY)

**Byddir yn ffafrio cynigion sy'n rhoi blaenoriaeth i ddefnyddio deunydd wedi'i ailgylchu ac agregau eilaidd cyn bod ffynonellau newydd ar gyfer deunyddiau crai yn cael eu datblygu lle nad yw hyn yn cael effaith annerbyniol ar amwynder neu'r amgylchedd.**

**Bydd cynigion i gloddio am fwynau crai newydd yn cael eu caniatáu dim ond lle ceir angen cenedlaethol, rhanbarthol neu leol am y mwyn a hefyd:**

1. **Lle mae unrhyw effeithiau anffafriol ar yr amgylchedd naturiol yn cael eu hosgoi neu eu lliniaru i lefel dderbyniol, a lle mae cynigion yn cynnwys, lle y bo'n briodol, mesurau i wella'r amgylchedd naturiol;**
2. **Lle mae effeithiau ar y dreftadaeth adeiledig a diwylliannol yn cael eu lliniaru i lefel dderbyniol a'u gwella lle bynnag y bo'n bosibl;**
3. **Lle nad yw effeithiau ar amwynder trigolion lleol a chymunedau lleol yn annerbyniol, yn enwedig o ran sŵn, iechyd, ansawdd aer, dirgryndod, effaith weledol, darparu mynediad a chreu traffig;**
4. **Lle mae effeithiau ar ddaeareg, hydroleg a hydroddaeareg, gan gynnwys sefydlogrwydd tir a chyflenwadau dŵr, yn dderbyniol;**
5. **Lle ceir tystiolaeth glir na fydd unrhyw achos annerbyniol o golli tir amaethyddol o radd 1, 2 a 3a y comisiwn tir amaethyddol;**
6. **Lle mae mwynau'n cael eu cludo gan ddefnyddio'r dull mwyaf cynaliadwy a lle mae'r potensial i fwynau gael eu cludo trwy ddulliau heblaw ar hyd y ffyrdd wedi cael ei asesu'n ddigonol;**
7. **Lle mae darpariaeth i'r tir gael ei adfer fesul tipyn ac yn derfynol i safon uchel ac i ôl-ddefnydd buddiol a chynaliadwy gan gynnwys ei reoli yn yr hirdymor ar ôl cau; a**
8. **Lle mae cyfleoedd i ailddefnyddio ac ailgylchu gwastraff mwynol wedi cael eu hystyried a lle nad oes unrhyw ddeunyddiau y gellir yn ymarferol eu defnyddio yn eu lle ac y gellir eu darparu am gostau amgylcheddol is**

6.145 Bydd y Polisi hwn yn cael ei gymhwyso i weithiau newydd, estyniadau i weithiau presennol ac ailweithio neu ailagor hen weithiau a bydd yn cael ei ddefnyddio i ystyried ceisiadau i weithio pob math o fwynau.

6.146 Yng ngoleuni'r banc tir presennol o gronfeydd â chaniatâd cynllunio mewn safleoedd gweithio mwynau presennol ym Mro Morgannwg, nid oes gofyniad bod y Cynllun yn dyrannu ardaloedd ychwanegol ar gyfer cloddio calchfaen. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn cydnabod y gall y banc tir o gronfeydd newid dros oes y CDLl. Mae lefelau allbwn yn isel ar hyn o bryd ac os byddant yn dychwelyd i lefelau blaenorol, er nad oes disgwyl i hynny ddigwydd, bydd y banc tir yn cael ei ddisbyddu'n gyflymach nag a ragwelir. Mae'r Polisi hwn yn galluogi'r Cynllun i adweithio i newidiadau o'r fath mewn amgylchiadau dros gyfnod y Cynllun ac yn darparu fframwaith i ystyried cynigion ar gyfer safleoedd gweithio mwynau newydd neu estynedig.

6.147 Byddir yn ffafrio cynigion sy'n rhoi blaenoriaeth i ddefnyddio deunyddiau wedi'u hailgylchu ac agregau eilaidd cyn bod ffynonellau newydd ar gyfer deunyddiau crai yn cael eu datblygu. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen am newid yn y patrwm cyflenwi mwynau o ffynonellau crai i ddewisiadau eraill ac y byddai gorddarparu deunyddiau crai o ganlyniad i ganiatadau sydd mewn bod a rhoi caniatadau newydd yn rhoi anogaeth i ddefnyddio adnoddau mewn modd anghynaliadwy. Felly, bydd cloddio deunyddiau crai newydd yn ychwanegol at y banc tir o gronfeydd a ganiateir yn cael ei ganiatáu fel arfer dim ond lle gellir dangos nad oes unrhyw ddeunyddiau y gellir yn ymarferol eu defnyddio yn eu lle ac y gellir eu darparu am gostau amgylcheddol is a lle canfuwyd diffyg cronfeydd y gellir ei gyfiawnhau dan Bolisi MG25 (MTAN1 Paragraff 34).

6.148 Er mwyn sicrhau y terfir gyn lleied â phosibl ar dir, bydd disgwyl i ddatblygiadau ddigwydd fesul cyfnod ac i waith adfer ddigwydd bob yn dipyn lle bynnag y bo'n bosibl er y cydnabyddir y gallai cyfleoedd fod yn gyfyngedig i weithrediadau craig galed ag oes hir.

6.149 Mae mwynau'n cael eu cloddio yn y Fro at ddibenion adeiladu yn bennaf, gan ddarparu ar gyfer cynhyrchion agregau a sment. Cafodd arolygon ar gyfer adnoddau hydrocarbon eu cynnal dros lawer o'r Fro orllewinol yn y 1990au; fodd bynnag, ar hyn o bryd nid oes unrhyw ffynonellau ynni mwynol hysbys (olew, nwy neu lo) yn y Fro. Bydd ceisiadau yn y dyfodol i chwilio am nwy siâl hefyd yn cael eu hystyried gan ddefnyddio polisïau perthnasol y Cynllun ar ddylunio a diogelu'r amgylchedd gan gynnwys SP10 (Amgylchedd Adeiledig a Naturiol) ac MD7 (Diogelu'r Amgylchedd). Bydd angen i gynigion newydd i gloddio mwynau gael eu hystyried gan ddefnyddio Polisi MG25; fodd bynnag, pe bai archwilio yn y dyfodol yn arwain at ddarganfod mwynau gwahanol, megis hydrocarbonau, mae'n ddigon posibl y bydd derbynioldeb eu gweithio'n dibynnu ar faterion eraill sy'n gysylltiedig â'r datblygiad.

## POLISI MG26 -
### SAFLEOEDD PENODOL AR GYFER GWEITHIO MWYNAU

**Mae Chwarel Rhuthun a Chwarel Garwa Farm wedi'u hadnabod fel safleoedd penodol ar gyfer gweithio mwynau.**

6.150 Mae adnoddau mwynol agregol y gwyddys fod arwyddocâd masnachol iddynt yn bodoli yn Chwarel Rhuthun a Chwarel Fferm Garwa. Hefyd, gall Chwarel Fferm Garwa gyflenwi adnoddau mwynol sylweddol sy'n addas ar gyfer defnydd heblaw agregau yn y diwydiant sment.

6.151 Mae Chwarel Rhuthun yn ganiatâd Gorchymyn Datblygu Interim a roddwyd ar 16 Ebrill 1947 a chafodd y caniatâd ei gofrestru fel un 'segur' dan ddarpariaethau Deddf Cynllunio a Digolledu 1991.

Ar hyn o bryd mae cyfyngiad amser ar gloddio mwynau yn Chwarel Rhuthun tan ddiwedd 2017 dan amodau Cytundeb Adran 106 yr ymrwymwyd iddo ar 3 Tachwedd 1982. Mae cyfyngiad amser ar gloddio mwynau yn Chwarel Garwa Farm tan ddiwedd 2019 dan amodau caniatâd cynllunio 97/00796/FUL a roddwyd ar 25 Medi 1997; fodd bynnag, mae'r caniatâd gwreiddiol yn dyddio'n ôl i 1970. Roedd y cyfyngiadau hyn yn cael eu hystyried yn briodol ar yr adeg y'u gosodwyd ac roeddent yn seiliedig ar ddyheadau i ddatblygu chwareli nad ydynt wedi cael eu gwireddu. Felly mae'r adnodd yn dal i fod yn ei le ac mae ar gael i gyfrannu at y banc tir ar yr amod bod y cyfnod ar gyfer gweithio'r adnodd yn cael ei ymestyn er mwyn ei alluogi i gael ei ennill.

6.152 Ystyrir bod Chwarel Rhuthun yn adnodd agregol pwysig ac mae ar gael yn lle chwareli yn Ewenni a Lithalun. Mae Chwarel Garwa Farm yn arbennig o bwysig fel cyflenwad posibl i'r gwaith sment yn Aberddawan ac adnodd yn lle Chwarel Pant yn y dyfodol. Byddai Garwa Farm hefyd yn cyfrannu at y cyflenwad o agregau sy'n ofynnol i gyflawni'r ffigur dosrannu agregau a nodir yn y Datganiad Technegol Rhanbarthol.

6.153 Nid oes cyfyngiadau arwyddocaol o safbwynt amgylcheddol nac amwynder ar barhau i weithio mwynau yn Chwareli Rhuthun a Garwa Farm. Mae mynediad addas at y system ffyrdd ar gael, nid effeithir yn sylweddol ar unrhyw ddynodiadau amgylcheddol ac nid oes unrhyw aneddiadau wedi'u lleoli yn agos iawn at y safleoedd. Hefyd, ystyrir bod parhau â'r caniatadau i gloddio mwynau yn Chwareli Rhuthun a Garwa Farm a'u hadfer wedyn yn ddewis gwell na dyrannu safleoedd Maes Glas ar gyfer gweithio mwynau agregol yn y dyfodol.

# Mwynhau

## POLISI MG27 -
### ARFORDIR TREFTADAETH MORGANNWG

**Bydd nodweddion amgylcheddol arbennig arfordirTreftadaeth Morgannwg yn Cael eu gwarchod a'u gwella. Bydd datblygiadau newydd yn cael eu cyfyngu i'r canlynol:**

1. **Datblygu sy'n angenrheidiol i amddiffyn yr arfordir fel a nodir yng Nghynllun Rheoli traethlin trwyn larnog i ben y Santes Ann 2;**
2. **Datblygu sy'n hanfodol ar gyfer amaethyddiaeth, cadwraeth natur, hamdden anffurfiol, twristiaeth effaith isel neu fynediad arfordirol;**
3. **Datblygu o fewn ffiniau aneddiadau; neu**
4. **Ddatblygu priodol a chynaliadwy arall sy'n gyson â Pholisi Cenedlaethol.**

**Ni fydd datblygu sy'n effeithio mewn modd annerbyniol ar nodweddion amgylcheddol arbennig arfordir Treftadaeth Morgannwg yn cael ei ganiatáu**

6.154 Fel arfer dim ond ar gyfer datblygiadau y mae angen iddynt fod ar yr arfordir y dylai Cynlluniau Datblygu gynnig lleoliadau arfordirol. Prin mai'r arfordir sydd heb ei ddatblygu fydd y lleoliad mwyaf priodol ar gyfer datblygu.[21]

6.155 Mae dynodiad Arfordir Treftadaeth Morgannwg yn cydnabod ei bwysigrwydd cenedlaethol fel ardal o forlin deniadol heb ei ddatblygu. Amcan y dynodiad yw sicrhau bod cymeriad arbennig a harddwch naturiol y morlin yn cael eu gwarchod a'u gwella gan ei gwneud yn bosibl ei fwynhau a gwella'r mwynhad ohono a hwyluso defnydd parhaus ohono ar gyfer amaethyddiaeth a gweithgareddau economaidd sefydledig a phriodol eraill.

[21] Pennod 5 Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 9 Tachwedd 2016) Paragraffau 5.8.1 a 5.8.2

6.156 Mae'r Cyngor yn cydnabod ei bod yn angenrheidiol rheoli gweithgareddau datblygu'n ofalus o fewn Arfordir Treftadaeth Morgannwg er mwyn sicrhau bod y nodweddion amgylcheddol naturiol a oedd yn sail i'w ddynodi'n cael eu gwarchod a'u gwella. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn cydnabod mai ffermio yw'r prif weithgaredd o fewn yr Arfordir Treftadaeth, gan helpu i gynnal cymeriad y dirwedd a chyflawni rôl bwysig o ran cefnogi'r economi wledig ac na ddylai'r gweithgaredd hwn gael ei atal yn ddiangen pan fo cynigion datblygu y gellir eu cyfiawnhau'n ofynnol. Wrth geisio gwarchod Arfordir Treftadaeth Morgannwg mae'r Cyngor yn cydnabod bod mân aneddiadau gwledig Ogwr a Southerndown yn rhan o'r dynodiad ac er ei fod yn ymwybodol o'r angen i warchod nodweddion arbennig Arfordir Treftadaeth Morgannwg, mae'r Cyngor yn derbyn bod datblygu o fewn yr aneddiadau hyn yn briodol. Yn hyn o beth, bydd cynigion datblygu o fewn ffiniau aneddiadau'n cael eu hasesu yn erbyn gofynion Polisi MD5 yn bennaf.

6.157 Mae Arfordir Treftadaeth Morgannwg yn ddynodiad pwysig ar gyfer ymwelwyr hefyd ac yn cynnig cyfleoedd ar gyfer hamdden anffurfiol, twristiaeth effaith isel a mynediad arfordirol. Byddai twristiaeth effaith isel yn cynnwys canolfannau dehongli, llwybrau troed, a datblygiadau eraill megis meysydd gwersylla lle mae'r effeithiau ar yr ardal leol yn aml yn rhai ar raddfa fach a thymhorol. Dylid annog y gweithgareddau hyn lle nad ydynt yn cael effaith annerbyniol ar nodweddion amgylcheddol naturiol cynhenid yr arfordir neu'r dirwedd neu'n arwain at effeithiau anffafriol ar Ardal Cadwraeth Arbennig Dwnrhefn.

6.158 Mae cynigion datblygu mawr yn annhebygol o fod yn dderbyniol o fewn Arfordir Treftadaeth Morgannwg oni bai eu bod yn ofynnol ar gyfer gwaith i amddiffynfeydd arfordirol. Bydd angen i unrhyw gynigion ar gyfer datblygiadau mawr ddangos bod lleoliad arfordirol yn hanfodol. Dylai gwaith i amddiffynfeydd arfordirol fod yn gyson â'r cynigion a nodir yng Nghynllun Rheoli Traethlin Trwyn Larnog i Ben y Santes Ann 2 (2010) a baratowyd i ystyried effaith hirdymor bosibl lefelau môr uwch o ganlyniad i'r newid yn yr hinsawdd. Mae'r Cynllun Rheoli Traethlin yn nodi polisïau a chamau gweithredu cyffredinol i reoli newid ar hyd yr arfordir. Dylai cynigion ar gyfer gwaith i amddiffynfeydd arfordirol ystyried yr holl effeithiau amgylcheddol posibl, ar y lan ac ar y môr.

## POLISI MG28 -
### DYRANIADAU AR GYFER MANNAU AGORED CYHOEDDUS

**Dyrennir tir i ddarparu mannau agored a chyfleusterau hamdden yn y canlynol:**

1. **Parc Gwledig Llynnoedd Cosmeston (27 ha).**
2. **Parc Gwledig Porthceri (42 ha).**
3. **Glannau'r Barri (7.83 ha).**
4. **White Farm (6.9 ha).**
5. **Tir ar bwys Ysgol Maes Dyfan(0.16 ha).**
6. **Ysgol Headlands, St.Augustines Road, Penarth (0.24 ha).**
7. **Tir i'r gogledd o'r rheilffordd, y Rhws(3.60 ha).**
8. **Tir i'r dwyrain o Dresimwn (0.55 ha).**
9. **Tir oddi ar Sandy Lane, Ystradowen (0.43 ha) a**
10. **Tir yn Upper Cosmeston Farm,Larnog(1 ha).**

6.159 Mae Parc Gwledig Llynnoedd Cosmeston, a ddynodwyd yn Barc Gwledig ym 1978, yn ymestyn dros ardal sy'n fwy na 100 hectar ac yn darparu ystod o gyfleoedd hamdden anffurfiol yn agos iawn

[22] Nodyn Cyngor Technegol 14: Cynllunio Arfordirol (Mawrth 1998)
[23] Cynllun Rheoli Traethlin Trwyn Larnog i Ben y Santes Ann 2 (2010)

at niferoedd mawr o boblogaeth Bro Morgannwg. Mae'r parc gwledig, sydd wedi'i ganoli ar ddwy chwarel sydd wedi llenwi â dŵr, yn cynnwys Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ac yn darparu amrywiaeth eang o gynefinoedd naturiol a rhywogaethau planhigion ac anifeiliaid amrywiol.

6.160 Er mwyn gwella gwerth amwynder cyhoeddus ac apêl dwristaidd Parc Gwledig Llynnoedd Cosmeston ymhellach, mae tua 27 hectar o dir i'r gorllewin o Mile End Road ac i'r gogledd o Fferm Cogan Hill wedi cael ei ddyrannu fel estyniad i'r parc gwledig a bydd yn ategu'r datblygiad tai yn Fferm Cogan Hall ym Mhenarth.

6.161 Cynigir darparu estyniad 42 hectar i Barc Gwledig Porthceri fel rhan o ddatblygu safle'r Ardal Fenter ar bwys Maes Awyr Caerdydd ac i'r de o Port Road, Y Rhws (gweler Polisi MG9 (2)). Mae'r estyniad i Barc Gwledig Porthceri'n rhan hanfodol o ddatblygiad o'r fath, a bydd yn ofynnol ei fod yn rhan o gam cyntaf datblygu'r tir at ddibenion cyflogaeth.

6.162 Mae'r Papur Cefndir Mannau Agored (2013) yn nodi ardaloedd presennol lle ceir gormod o fannau agored a chyfleusterau hamdden neu ddiffyg mannau agored a chyfleusterau hamdden ledled Bro Morgannwg i ddiwallu anghenion y boblogaeth bresennol. Fe wnaeth hefyd ddadansoddi'r lefel o alw newydd am gyfleusterau chwarae plant a chwaraeon awyr agored a gaiff ei greu o ganlyniad i dwf yn y boblogaeth sy'n gysylltiedig â datblygiadau tai newydd sy'n debygol o ddigwydd yn ystod cyfnod y cynllun. Lle nad yw'r galw ychwanegol hwn yn gallu cael ei ateb gan fannau agored a chyfleusterau hamdden dros ben (gan gynnwys rhandiroedd) sydd ar gael yn yr ardal, mae angen darparu ar gyfer cyfleusterau newydd neu well. Mae Polisi MG28 yn dyrannu tir ar gyfer mannau agored a gaiff eu darparu fel rhan o ddyraniadau tai yn yr ardaloedd hynny lle nad yw maint y galw am gyfleusterau o'r fath o ganlyniad i dwf tai yn gallu cael ei ateb gan y ddarpariaeth bresennol. Mae'r dyraniadau hyn wedi cael eu seilio ar dystiolaeth fwyaf cyfoes y Cyngor o angen. Fodd bynnag, cydnabyddir bod hyn yn gallu newid dros amser a lle nad oes angen mwyach am fan agored i ddiwallu anghenion datblygiadau newydd neu lle gwneir darpariaeth arall addas, bydd y Cyngor yn mabwysiadu dull hyblyg o ymateb i'r gofyniad hwn.

## POLIS MG29 -
### CYFLEUSTERAU HAMDDEN A THWRISTIAETH

**Bydd darparu cyfleusterau twristiaeth a hamdden trwy gydol y flwyddyn yn cael ei ffafrio. dyrennir tir yn y lleoliadau canlynol ar gyfer datblygu sy'n gysylltiedig â thwristiaeth:**

1. **Parc Pleser ynys y Barri, Bae Whitmore;**
2. **Tir yn Nhrwyn Nell, Bae Whitmore; a hefyd**
3. **Tir yng Nghwrs Golff Parc Cottrell**

6.163 Cydnabyddir mai glan môr Ynys y Barri a Bae Whitmore yw'r prif gyrchfannau twristaidd ym Mro Morgannwg. Mae'r cyrchfan yn adnabyddus ledled Cymoedd De Cymru, De Ddwyrain Lloegr a Gorllewin Canolbarth Lloegr, ardaloedd yr oedd cyfran uchel o'r ymwelwyr yn dod ohonynt yn hanesyddol. Mae prif atyniadau'r cyrchfan yn cynnwys y traeth, Parc Pleser Ynys y Barri, atyniadau llai eraill a difyrion, caffis a bariau niferus eraill. Er ei bod wedi gorfod wynebu newidiadau mawr yn y farchnad a galwadau bythol gynyddol mae'r ardal yn dal i ddenu 300,000 o ymwelwyr bob blwyddyn yn ôl yr amcangyfrifon.

6.164 Ers cau Gwersyll Gwyliau Ynys y Barri a chyda dim ond llond llaw o sefydliadau llety lleol, Bae Whitmore ac Ynys y Barri yw'r prif gyrchfannau ar gyfer ymwelwyr dydd ym Mro Morgannwg. Er mwyn cystadlu'n effeithiol gyda chyrchfannau eraill yn y DU ac er mwyn datblygu Ynys y Barri yn

gyrchfan sy'n cael ymwelwyr trwy gydol y flwyddyn, mae'n hollbwysig bod llety o ansawdd da ar gael a bod atyniadau pob tywydd yn cael eu datblygu.

6.165 Dros y blynyddoedd diwethaf mae'r Cyngor wedi bod wrthi'n gwella dengarwch y dref i ymwelwyr a busnesau, gyda dynodiad y Barri fel Ardal Adfywio'n darparu ffocws ar gyfer sicrhau buddsoddiad i ddwyn manteision economaidd a chymdeithasol gwirioneddol i'r dref. Mae hyn yn cynnwys nifer o brosiectau adfywio, megis y safle 'Triongl' 0.81 hectar sy'n darparu datblygiad ar ffurf gwesty/tŷ tafarn/bwyty sy'n ategu'r defnyddiau a nodwyd yng nghynllun Glannau'r Barri (Cam II) trwy wella'r cymysgedd o ddefnyddiau o fewn ailddatblygiad ardal y dociau ymhellach.

6.166 Dros y blynyddoedd diwethaf mae Parc Difyrion Ynys y Barri wedi bod yn ffocws ar gyfer diddordeb mewn datblygu ac mae'r Cyngor o'r farn y byddai ailddatblygu'r safle hwn yn gwella'n sylweddol yr ystod a'r dewis o atyniadau sydd ar gael ym Mae Whitmore. Wrth ddyrannu'r safle ar gyfer defnyddiau twristiaeth a hamdden mae'r Cyngor yn ymwybodol ei bod yn debygol y bydd lefel o ddatblygiad galluogol ar ffurf datblygiad preswyl neu ddatblygiad masnachol arall yn ofynnol i wneud cynllun yn hyfyw o safbwynt masnachol. Fodd bynnag, mae'n rhaid mai prif ffocws unrhyw ailddatblygiad yw darparu cyfleusterau twristiaeth a hamdden pob tywydd sy'n cefnogi unrhyw rôl dwristiaeth barhaus a gyflawnir gan Fae Whitmore ac Ynys y Barri. Yn hyn o beth byddir yn gwrthsefyll unrhyw gynnig ailddatblygu ar gyfer y safle sy'n tueddu'n ormodol at ddefnyddiau preswyl.

6.167 Mae safle adfywio pwysig arall ym Mae Whitmore wedi'i leoli yn Nhrwyn Nell. Mae'r safle gwag 4.45 hectar hwn, a arferai fod yn rhan o Wersyll Gwyliau Butlins, yn eiddo i Gyngor Bro Morgannwg ac yn cynrychioli cyfleoedd sylweddol i wella a chefnogi rôl dwristiaeth Ynys y Barri. Mae'r Cyngor wedi gwneud gwaith dichonoldeb cychwynnol gydag ymgynghorwyr arbenigol ac mae nifer o opsiynau datblygu'n cael eu hystyried.

6.168 Yng Nghwrs Golff Parc Cottrell, dyrennir tir yn Nhresimwn ar gyfer gwesty a sba moethus newydd pwysig i ategu'r cwrs golff presennol, i ddenu rhagor o ymwelwyr, i greu cyflogaeth leol ac i wella'r arlwy twristiaeth ym Mro Morgannwg. Bydd dyrannu'r safle hwn yn ychwanegu at yr ystod a'r dewis o lety gwesty o ansawdd yn yr ardal hefyd.

## POLISI MG30 -
### ARDALOEDD CHWILIO LLEOL AR GYFER YNNI SOLAR

**Dangosir ardaloedd chwilio lleol ar gyfer ynni solar ar y map Cynigion. Yn yr ardaloedd hyn bydd cynigion ar gyfer cynlluniau cynhyrchu ynni hyd at 50 mw yn cael eu caniatáu ar yr amod nad oes unrhyw effeithiau annerbyniol ar amwynder, asedau treftadaeth na'r amgylchedd.**

6.169 Mae Asesiad Ynni Adnewyddadwy'r Cyngor (2016) yn darparu asesiad o botensial ynni solar ym Mro Morgannwg yn unol â Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy – Pecyn Cymorth i gynllunwyr gan Lywodraeth Cymru (Medi 2015). Mae'n darparu asesiad lefel uchel o'r adnodd ynni solar posibl ym Mro Morgannwg ac mae wedi adnabod 6 ardal chwilio eang sydd â photensial ar gyfer cynlluniau ynni solar ar raddfa'r 'awdurdod lleol cyfan' (h.y. ar gyfer cynlluniau hyd at gapasiti gosodedig o 50 MW).

6.170 Fel ardaloedd chwilio eang dim ond syniad o'r potensial ar gyfer ynni solar y mae'r ardaloedd a adnabuwyd yn ei ddarparu yn hytrach nag ardaloedd penodol o dir wedi'i ddiogelu ar gyfer datblygiad solar. Mae'r ardaloedd chwilio wedi cael eu hadnabod trwy fapio'r adnodd ynni solar posibl (yn seiliedig ar godiad a chyfeiriad y tir) a thrwy gael gwared ar gyfyngiadau allweddol ar ddatblygu ynni solar.

6.171 O fewn yr 'ardaloedd chwilio lleol' a adnabuwyd bydd gwaith mireinio pellach yn ofynnol i adnabod cyfleoedd penodol ar gyfer cynigion datblygu manwl ac i ystyried eu derbynioldeb a'r capasiti ynni adnewyddadwy y gellir ei gyflawni. Bydd angen i gynigion manwl ddangos nad ydynt yn cael unrhyw effeithiau annerbyniol ar dir cyfagos o ran eu heffaith ar amwynder, asedau treftadaeth a'r amgylchedd ehangach. Bydd angen i gynigion ar gyfer datblygu ynni solar gydymffurfio â gofynion polisïau perthnasol eraill yn y Cynllun hefyd, megis Polisi MD19 (Cynhyrchu Ynni Carbon Isel ac Adnewyddadwy). Felly bydd angen i effaith cynigion manwl ar ddynodiadau amgylcheddol sy'n agos atynt gael ei hystyried yn ofalus. Mae'r paragraffau canlynol yn darparu disgrifiad byr o bob ardal chwilio leol a'r cyfyngiadau posibl ar ddatblygu ynni solar.

### Ardal Chwilio Leol 1 – I'r Dwyrain o Dreoes

6.172 Mae'r ardal chwilio hon yn mesur tua 135 hectar ac mae wedi'i lleoli i'r dwyrain o Dreoes ac mae'n ffinio â phentref Llangan yn y Fro orllewinol. Mae'r ardal chwilio wedi'i lleoli yn Ardal Tirwedd Arbennig Dyffryn Afon Ddawan Uchaf ac Isaf. Felly bydd angen i gynigion datblygu manwl roi ystyriaeth ofalus i faint yr effeithiau ar y dirwedd ac effeithiau gweledol. Mae'r adnodd ynni solar a adnabuwyd yn yr ardal hon yn ffinio â nifer o gyfyngiadau posibl eraill y bydd angen eu hystyried wrth baratoi ac asesu cynigion manwl. Mae hyn yn cynnwys Ardal Gadwraeth Llangan, dau Safle o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur (porfeydd brwyn a glaswellt y gweunydd), a pharth llifogydd C2 sy'n rhedeg ar hyd cwrs Nant Ganna ac sydd wedi'i leoli i'r gogledd ddwyrain o Langan.

### Ardal Chwilio 2 – Tir yn Llandŵ

6.173 Mae'r ardal chwilio hon yn mesur tua 112 hectar ac mae wedi'i lleoli yn y Fro orllewinol rhwng Ystâd Fasnachu Llandŵ i'r gorllewin, Parc Busnes Dyffryn i'r dwyrain a Pharc Busnes y Fro i'r gogledd. Mae'r ardal yn cynnwys hen faes awyr Llandŵ a chaeau sy'n ffinio â hi i'r dwyrain a'r gorllewin. Mae'r adnodd ynni solar a adnabuwyd yn yr ardal hon yn ffinio â'r safleoedd cyflogaeth presennol a dyranedig a adnabuwyd a choetiroedd i'r gogledd a'r gorllewin o Ystâd Fasnachu Llandŵ.

### Ardal Chwilio 3 – Tir i'r Gorllewin o Five Mile Lane

6.174 Mae'r ardal chwilio hon yn mesur tuag 86 hectar ac mae wedi'i lleoli i'r gogledd o'r A4226 (Five Mile Lane) ac i'r de o Dresimwn ac mae'n gorwedd yng nghefn gwlad agored. Mae'r ardal chwilio wedi'i lleoli yn Ardal Tirwedd Arbennig Nant Llancarfan lle bydd angen i gynigion datblygu manwl roi ystyriaeth ofalus i faint effeithiau ar y dirwedd ac effeithiau gweledol. Mae'r adnodd ynni solar a adnabuwyd yn yr ardal hon yn ffinio â nifer o gyfyngiadau y bydd angen eu hystyried wrth baratoi ac asesu cynigion manwl. Mae hyn yn cynnwys Safleoedd o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur (dolydd iseldir a phorfeydd brwyn a glaswellt y gweunydd) i'r de a choetir i'r gogledd a'r de. Hefyd, mae Heneb Gofrestredig (amddiffynfa gylch castell Tŷ'n-y-Coed) a ffin Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Llancarfan yn gorwedd yn agos iawn i'r gogledd a'r de orllewin o'r ardal chwilio yn y drefn honno.

### Ardal Chwilio 4 – Tir i'r De o'r M4, Hensol

6.175 Mae'r ardal chwilio hon yn mesur tua 54 hectar ac mae wedi'i lleoli yn union i'r de o'r M4 rhwng Cyffordd 34 i'r gorllewin a Chyffordd 33 i'r dwyrain. Er bod yr ardal wedi'i lleoli yng nghornel ogledd ddwyreiniol Bro Morgannwg a'r tu allan i unrhyw ddynodiad Ardal Tirwedd Arbennig mae Ardal Tirwedd Arbennig Dyffryn a Llethrau Cefn Afon Elái yn gorwedd i'r dwyrain o'r ardal chwilio. Mae'r adnodd ynni solar a adnabuwyd yn yr ardal hon yn ffinio â nifer o gyfyngiadau posibl eraill y bydd angen eu hystyried wrth baratoi ac asesu cynigion manwl. Mae hyn yn cynnwys ardal o barth llifogydd C2 i'r Gogledd Orllewin ar hyd cwrs Nant Coslech, Safle o Bwysigrwydd ar gyfer

Cadwraeth Natur (porfeydd brwyn a glaswellt y gweunydd) i'r dwyrain a choetiroedd i'r gogledd a'r dwyrain o'r ardal chwilio.

**Ardal Chwilio 5 – Tir i'r Dwyrain o Bwerdy Aberddawan**

6.176 Mae'r ardal chwilio hon yn mesur tua 30 hectar ac mae wedi'i lleoli rhwng Pwerdy Aberddawan i'r gorllewin a rheilffordd Bro Morgannwg a phentref Dwyrain Aberddawan i'r dwyrain. Mae'r ardal chwilio'n cynnwys tir a ddefnyddiwyd yn flaenorol fel twmpath sbwriel i waredu lludw o Bwerdy Aberddawan a pharsel o dir heb ei ddatblygu i'r gogledd ddwyrain sydd am y ffin â'r rheilffordd. Mae'r adnodd ynni solar a adnabuwyd yn yr ardal hon yn ffinio â nifer o gyfyngiadau posibl y bydd angen eu hystyried wrth baratoi ac asesu cynigion manwl. Mae hyn yn cynnwys coetiroedd a Safle o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur (dolydd iseldir a glaswelltir calchaidd) i'r gogledd a'r gorllewin o'r parsel o gae sydd heb ei ddatblygu. Hefyd, mae SoDdGA arfordirol Dwyrain Aberddawan wedi'i leoli ar hyd ffin ddeheuol yr ardal chwilio.

**Ardal Chwilio 6 – Tir i'r Gogledd Orllewin o Llanddunwyd**

6.177 Mae'r ardal chwilio hon yn mesur tuag 20 hectar ac mae wedi'i lleoli i'r Gogledd Orllewin o Llanddunwyd yng nghefn gwlad agored. Mae'r adnodd ynni solar a adnabuwyd yn yr ardal hon yn ffinio â nifer o gyfyngiadau posibl y bydd angen eu hystyried wrth baratoi ac asesu cynigion manwl. Mae hyn yn cynnwys Safleoedd o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur (porfeydd brwyn a glaswellt y gweunydd) a choetiroedd i'r de a'r dwyrain. Er nad yw'r ardal chwilio wedi'i lleoli o fewn dynodiad Ardal Tirwedd Arbennig mae Ardal Tirwedd Arbennig Dyffryn a Llethrau Cefn Afon Elái wedi'i lleoli i'r dwyrain.

# Adran 7

# Rheoli Datblygu ym Mro Morgannwg



7.1 Mae Gweledigaeth, Amcanion Strategol a Pholisïau Strategol y CDLl yn nodi'r lefelau twf a datblygu ar gyfer Bro Morgannwg dros gyfnod y Cynllun. Mae'r adran hon yn nodi'r fframwaith polisi ar gyfer rheoli datblygu yn y dyfodol ym Mro Morgannwg. Mae'r polisïau'n ceisio mynd i'r afael â materion sy'n berthnasol i bob math o gynigion datblygu, er enghraifft mynediad, dyluniad ac amwynder yn ogystal â darparu cyd-destun sy'n ymwneud yn benodol â datblygu ar gyfer cynigion megis cynhyrchu ynni ac adeiladau gwledig. Bydd y polisïau hyn ar y cyd â pholisïau eraill sydd wedi'u cynnwys yn y CDLl ac mewn polisi cynllunio cenedlaethol yn sail i benderfynu ynghylch ceisiadau cynllunio ym Mro Morgannwg yn y dyfodol.

## POLISI MD1 -
### LLEOLIAD DATBLYGIADAU NEWYDD

**Dylai datblygiadau newydd ar safleoedd heb eu dyrannu:**

1. **Beidio â chael unrhyw effaith annerbyniol ar gefn gwlad;**
2. **Atgyfnerthu rôl a swyddogaeth anheddiad allweddol y Barri, y canolfannau gwasanaethau, y prif aneddiadau neu fân aneddiadau gwledig fel darparwyr allweddol cyfleusterau masnachol, cymunedol a gofal iechyd;**
3. **Lle y bo'n briodol, hybu mentrau newydd a chyfleusterau twristiaeth, hamdden a chymunedol newydd ym Mro Morgannwg;**
4. **Yn achos datblygiadau preswyl, rhoi cymorth i ddarparu tai fforddiadwy mewn ardaloedd lle canfuwyd yr angen;**
5. **Bod â mynediad at ddulliau trafnidiaeth cynaliadwy neu hybu'r defnydd ohonynt;**
6. **Cael budd o ddarpariaeth bresennol o ran seilwaith neu lle y bo angen gwneud darpariaeth ar gyfer seilwaith newydd heb unrhyw effaith annerbyniol ar yr amgylchedd naturiol neu adeiledig;**
7. **Lle y bo'n bosibl, hybu adeiladu cynaliadwy a gwneud defnydd buddiol o dir ac adeiladau a ddatblygwyd yn flaenorol;**
8. **Darparu cyd-destun cadarnhaol ar gyfer rheoli'r amgylchedd dŵr trwy osgoi ardaloedd lle ceir perygl llifogydd yn unol â'r dull dilyniannol a nodir mewn polisi cenedlaethol a diogelu adnoddau dŵr; a hefyd**
9. **Peidio â chael unrhyw effaith annerbyniol ar y tir amaethyddol gorau a mwyaf hyblyg.**

7.2 Mae Polisi MD1 yn nodi'r fframwaith i ddatblygu ddigwydd yn y dyfodol ar safleoedd wedi'u dyrannu ym Mro Morgannwg. Bydd datblygiadau newydd yn cael eu cyfeirio at y lleoliadau hynny sy'n hygyrch ar drafnidiaeth gynaliadwy ac sy'n lleihau dibyniaeth ar y car preifat. Hefyd, mae'n ceisio sicrhau defnydd ac ailddefnydd effeithlon o dir ac adeiladau a rheoli adnoddau pwysig yn effeithiol. Wrth gyfeirio datblygiadau at y lleoliadau mwyaf cynaliadwy mae'r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod datblygiadau'n cael eu rheoli'n ofalus gan sicrhau nad yw datblygiadau'n cael effaith annerbyniol ar seilwaith presennol, amwynder lleol nac yn arwain at ailddatblygu mannau agored neu gyfleusterau cymunedol pwysig.

7.3 O fewn lleoliadau gwledig bydd datblygu'n cael ei reoli'n ofalus i sicrhau ei fod yn cyfrannu'n gadarnhaol at yr economi wledig a hyfywedd a chynaliadwyedd cymunedau gwledig, gan sicrhau bod cymeriad unigryw Bro Morgannwg yn cael ei warchod. Yn hyn o beth, mae Polisi MD1 yn dal i geisio pwysleisio pwysigrwydd gwarchod cefn gwlad rhag datblygu sy'n annerbyniol ac na ellir ei gyfiawnhau. At ddibenion y CDLl, diffinnir cefn gwlad fel yr ardal honno o dir sy'n gorwedd y tu allan i ffiniau aneddiadau'r prif drefi a phentrefi a nodir yn hierarchaeth aneddiadau'r CDLl nad yw wedi

cael ei datblygu ar gyfer defnydd cyflogaeth na'i dyrannu i'w datblygu yn y Cynllun. Bydd cynigion sy'n effeithio ar letemau glas, ardaloedd tirwedd arbennig ac Arfordir Treftadaeth Morgannwg yn cael eu hystyried yn erbyn polisïau MG18, MG17 ac MG27 yn y drefn honno.

7.4 Bydd disgwyl i ddatblygiadau newydd osgoi perygl llifogydd diangen ac ateb gofynion TAN 15: Datblygu a Pherygl Llifogydd. Ni fydd datblygiadau y mae bygythiad mawr iddynt yn cael eu caniatáu ym Mharth Map Cyngor Datblygu C2[24] a bydd datblygiadau'n cael eu hystyried mewn ardaloedd lle ceir perygl llifogydd dim ond lle gellir dangos bod y safle'n gallu cydymffurfio â'r gofynion cyfiawnhau ac asesu a nodir yn TAN 15.

## POLISI MD2 -
### DYLUNIAD DATBLYGIADAU NEWYDD

**Er mwyn creu lleoedd sydd o ansawdd da, yn iach, yn gynaliadwy ac yn unigryw yn lleol dylai cynigion datblygu:**

1. **Fod o safon dylunio uchel sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at gyd-destun a chymeriad yr amgylchedd naturiol ac adeiledig o gwmpas ac yn gwarchod nodweddion presennol o ddiddordeb treflun neu dirwedd;**
2. **Ymateb yn briodol i gyd-destun a chymeriad lleol adeiladau a defnyddiau cyfagos o ran defnydd, math, ffurf, graddfa, cymysgedd a dwysedd;**
3. **Lle y bo'n briodol, darparu ardaloedd newydd neu wedi'u gwella o dir y cyhoedd yn enwedig mewn lleoliadau allweddol megis canol trefi, prif lwybrau a chyffyrdd;**
4. **Hybu'r amcan i greu amgylcheddau iach a llesol a lleihau'r cyfle ar gyfer troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. yn achos canolfannau manwerthu, dylai datblygiadau ddarparu ffryntiadau stryd gweithredol i greu amgylchedd trefol deniadol a diogel;**
5. **Darparu amgylchedd diogel a hygyrch ar gyfer yr holl ddefnyddwyr, gan roi blaenoriaeth i gerddwyr, beicwyr a defnyddwyr trafnidiaeth gyhoeddus;**
6. **Beidio â chael unrhyw effaith annerbyniol ar ddiogelwch y briffordd nac achosi neu waethygu tagfeydd traffig presennol i raddau annerbyniol;**
7. **Lle y bo'n briodol, gwarchod a gwella ansawdd, a mynediad at, fannau agored a chyfleusterau cymunedol presennol;**
8. **Diogelu amwynder cyhoeddus a phreswyl presennol, yn enwedig o ran preifatrwydd, edrych drosodd, diogeledd, sŵn ac aflonyddwch;**
9. **Darparu mannau agored cyhoeddus, mannau amwynder preifat a mannau parcio ceir yn unol â safonau'r cyngor;**
10. **Ymgorffori nodweddion tirlunio sensitif, gan gynnwys, lle y bo'n briodol, cadw a gwella nodweddion presennol ar y dirwedd a diddordebau bioamrywiaeth;**
11. **Darparu cyfleusterau a mannau digonol i gasglu, compostio ac ailgylchu deunyddiau gwastraff ac archwilio cyfleoedd i ymgorffori deunyddiau neu gynhyrchion a ailddefnyddir neu y gellir eu hailgylchu mewn adeiladau neu strwythurau newydd; a hefyd**
12. **Lliniaru achosion y newid yn yr hinsawdd trwy leihau i'r eithaf allyriadau carbon a nwyon tŷ gwydr eraill sy'n gysylltiedig â'u dyluniadm, eu hadeiladu, eu defnyddio a'u dymchwel yn y pen draw, a chynnwys nodweddion sy'n darparu dull effeithiol o addasu i, a bod yn wydn rhag, effeithiau'r newid yn yr hinsawdd yn awr ac effeithiau a ragwelir yn y dyfodol.**

7.5 Mae Polisi MD2 yn nodi'r egwyddorion allweddol y dylai datblygwyr eu hystyried mewn perthynas â dyluniad, amwynder a mynediad sydd, gyda'i gilydd, yn cyfrannu at amgylcheddau deniadol, diogel a hygyrch. Mae diogelu cymeriad lleol trefi a phentrefi Bro Morgannwg yn ddibynnol ar

[24] Map Cyngor Datblygu TAN15 ar gael gan Cyfoeth Naturiol Cymru

sicrhau dyluniad o ansawdd da sydd o'r raddfa a ffurf briodol yn y lleoliad cywir. Yn yr un modd, mae cynllun a dyluniad datblygiad newydd yn hanfodol i wella ansawdd bywyd trigolion, gan greu ymdeimlad o le a sicrhau amgylchedd iach a diogel.

7.6 Bydd yn ofynnol i'r holl gynigion datblygu roi ystyriaeth lawn i gyd-destun a chymeriad yr ardal y mae'r cynnig datblygu wedi'i leoli ynddi er mwyn sicrhau ei fod yn cyfrannu'n gadarnhaol at y gosodiad lleol gan gynnwys golygfeydd a fistâu pwysig. Dylai materion sy'n gysylltiedig â diogelu amwynder preswyl gael sylw hefyd yn ystod y broses ddylunio yn enwedig lle cynigir datblygiadau defnydd cymysg. Mae'n aml yn bosibl canfod datrysiadau i broblemau megis edrych drosodd a sŵn trwy ddyluniad da. Dylai'r holl adeiladau newydd ymateb yn gadarnhaol i'w hamgylchoedd a'u parchu, a chyfrannu at gymunedau iach a bywiog, gan leihau ofn troseddu a chreu ymdeimlad o le. Yn hyn o beth rhaid i ddatblygiadau fod ar raddfa ac o ddwysedd a dyluniad sy'n briodol i'w lleoliad a gwneud cyfraniad cadarnhaol at yr amgylchedd lleol. Bydd canllawiau pellach yn cael eu darparu mewn Canllawiau Cynllunio Atodol sef y Canllawiau Dylunio i Ddeiliaid Tai.

7.7 Mae lleoliadau, megis canol trefi a phrif lwybrau/cyffyrdd sy'n gwasanaethu datblygiadau newydd, yn cyflwyno cyfleoedd i wella tir y cyhoedd ac atgyfnerthu ymdeimlad o le trwy ddefnyddio nodweddion tirlunio sensitif a chelf gyhoeddus. Ym mhob canolfan siopa, bydd y Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol bod â ffryntiau siopau sydd wedi'u dylunio'n dda ac a fydd yn gwella'r ardal ac yn ychwanegu at ei hunigrywiaeth leol.

7.8 Dylai pob datblygiad newydd fod yn hygyrch tu hwnt. Mae gan gerdded a beicio rôl bwysig o ran rheoli symudiad ar hyd a lled yr ardal, yn enwedig lleihau nifer y siwrneiau byr mewn car. Bydd yn ofynnol i ddatblygwyr sicrhau bod datblygiadau newydd yn rhoi anogaeth i gerdded a beicio trwy roi ystyriaeth ofalus i leoliad, dyluniad, trefniadau mynediad, 'llinellau dymuniad' teithio trwy ddatblygiad, ac integreiddio â chysylltiadau presennol a phosibl oddi ar y safle. Bydd darparu amgylcheddau cerdded a beicio diogel a chyfleus yn helpu i fynd i'r afael â phroblemau iechyd sy'n gysylltiedig ag anweithgarwch corfforol a ffactorau allgau cymdeithasol sy'n deillio o ddibyniaeth ar geir, mynediad gwael at wasanaethau a chyfleusterau trafnidiaeth gyhoeddus gwael.

7.9 Mae darparu mannau parcio ceir yn ddylanwad pwysig ar y dewis o ddull trafnidiaeth a'r patrwm datblygu. Bydd y Cyngor yn ceisio cyfyngu ar ddatblygiadau sy'n creu lefel uchel o siwrneiau (e.e. swyddfeydd, siopau a defnyddiau hamdden) i leoliadau a wasanaethir yn dda gan drafnidiaeth gyhoeddus. Ar ben hynny, bydd darpariaeth ar gyfer parcio'n cael ei lleihau yn unol â gwelliannau i hygyrchedd trafnidiaeth gyhoeddus. Caiff safonau'r Cyngor eu nodi yn y Canllawiau Cynllunio Atodol ar Safonau Parcio.

7.10 Yn ogystal â sicrhau amgylcheddau iach a llesol dylid hefyd ystyried effaith dyluniad adeiladau, y defnydd o ddeunyddiau a mynediad at ardaloedd golau a thawel ar iechyd a llesiant defnyddwyr y dyfodol. Bydd darparu nodweddion neu ddefnydd ar y cyd o gyfleusterau cymunedol ar gyfer anghenion gofal iechyd sy'n galluogi pobl i gadw eu hannibyniaeth ac aros yn y gymuned leol yn cael eu ffafrio lle ystyrir bod hynny'n briodol.

7.11 Mae Llywodraeth Cymru yn hybu'r syniad y dylai cynlluniau teithio gael eu mabwysiadu'n eang gan fusnesau, ysgolion, ysbytai, atyniadau i dwristiaid, datblygiadau preswyl mawr a defnyddiau eraill sy'n creu traffig sylweddol. Mae'r rhain o gymorth i reoli'r rhwydwaith priffyrdd yn effeithlon ac yn hybu dulliau trafnidiaeth eraill. Bydd yr angen am gynllun teithio'n cael ei adnabod yn gynnar fel rhan o'r broses cyn ymgeisio neu drafodaethau cwmpasu gyda'r Cyngor, a bydd yn destun Canllawiau Cynllunio Atodol.

7.12 Er mwyn cyrraedd y nod o ran cyflawni datblygu cynaliadwy, mae angen i gynigion wneud darpariaeth briodol ar gyfer lleihau ac ailgylchu gwastraff yn unol â'r hierarchaeth gwastraff. Mae rhoi anogaeth i arbed ynni a chynhyrchu ynni o ffynonellau adnewyddadwy yn un mesur y gall y system gynllunio'i ddefnyddio i wneud cyfraniad cadarnhaol tuag at leihau effaith datblygu newydd ar y newid yn yr hinsawdd. Rhaid i ddyluniad datblygiadau newydd roi sylw i'r angen i leihau'r ynni a ddefnyddir a chynyddu i'r eithaf y cyfleoedd i gynhyrchu ynni carbon isel. Dylai datblygwyr ystyried mesurau i helpu i leihau effeithiau sy'n gysylltiedig â'r newid yn yr hinsawdd, er enghraifft trwy ymgorffori mannau gwyrdd i ddarparu cysgod a systemau draenio cynaliadwy i leihau dŵr ffo, ymgorffori dull o gynhyrchu ynni adnewyddadwy fel rhan o ffabrig adeiladau neu ddyluniadau sy'n atal adeiladau rhag mynd yn rhy boeth er mwyn osgoi'r angen i oeri adeiladau mewn modd artiffisial.

7.13 Mae'n ofyniad statudol bod Datganiad Dylunio a Mynediad yn cael ei gyflwyno gyda rhai ceisiadau am ganiatâd cynllunio a chaniatâd adeilad rhestredig[25]. Lle y bo'n ofynnol, dylai Datganiad Dylunio a Mynediad egluro sut y gall cynigion gyfrannu'n gadarnhaol at leihau ofn troseddu a chreu ymdeimlad o le. Dylai lefel y manylder yn y datganiad fod yn gymesur â chymhlethdod y cynnig ond dylai gynnwys digon o fanylder i egluro sut y mae'r datblygiad yn mynd i'r afael ag unrhyw ffactorau sy'n berthnasol i raddfa'r datblygiad a'r math o ddatblygiad a gynigir.

7.14 Mae cynlluniau preswyl a masnachol mwy yn gyfle i gyflawni datblygiadau sy'n creu ymdeimlad o le, yn darparu amgylchedd hygyrch ac iach, ac yn atgyfnerthu neu'n gwella ardaloedd trefol presennol. Er mwyn sicrhau bod mannau cyhoeddus o ansawdd da'n cael eu creu, gall y Cyngor ei gwneud yn ofynnol i hyrwyddwyr safleoedd sydd wedi'u dyrannu a heb eu dyrannu baratoi uwchgynllun. Fel rhan o'r ymarfer paratoi uwchgynllun bydd yn ofynnol i ddatblygwyr ddangos eu bod wedi rhoi sylw i holl ofynion Polisi MD2.

## POLISI MD 3 -
### DARPARIAETH AR GYFER MANNAU AGORED

**Lle canfuwyd angen am fannau agored cyhoeddus, dylai fod yn ofynnol i ddatblygiadau preswyl newydd â chynnydd net o 5 annedd neu fwy ddarparu man agored cyhoeddus yn unol â'r safonau canlynol:**

1. **Darpariaeth chwaraeon awyr agored 1.6 hectar am bob 1,000 o bobl**
2. **Lle chwarae ag offer 0.25 hectar am bob 1,000 o bobl**
3. **Lle chwarae anffurfiol 0.55 hectar am bob 1,000 o bobl**

**Lle canfuwyd angen i ddarparu mannau agored cyhoeddus, lle mae'r arwynebedd llawr a fydd yn cael ei greu'n fwy na 1000 metr sgwâr neu lle mae'r safle'n 1 hectar neu fwy, bydd yn ofynnol i ddatblygiadau masnachol mawr ddarpar mannau agored cyhoeddus yn ôl cymhareb o 16 metr sgwâr am bob cyflogai cyfwerth ag amser llawn.**

**Er mwyn creu lleoedd cynaliadwy bydd yn ofynnol darparu mannau agored ar y safle fel rhan o gynigion datblygu newydd fel arfer. Lle nad yw'n ymarferol neu'n ddymunol gwneud darpariaeth ar y safle, bydd darpariaeth briodol oddi ar y safle neu gyfraniadau ariannol ar gyfer gwelliannau i gyfleusterau presennol yn ofynnol yn lle mannau agored cyhoeddus ar y safle.**

7.15 Mae Polisi Cynllunio Cymru (PCC) yn cyfarwyddo y dylai'r cynllun datblygu gynnwys polisïau eglur ar gyfer darparu, gwarchod a gwella cyfleusterau chwaraeon a hamdden. Dylid pennu safonau

[25] Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 (fel y'i diwygiwyd)

o ran y ddarpariaeth fel bod diffygion lleol yn gallu cael eu hadnabod a'u diwallu trwy'r broses gynllunio. Mae Polisi MD3 yn nodi safonau'r Cyngor ar gyfer darparu mannau agored fel rhan o ddatblygiadau newydd ac yn ategu Polisïau MD2 ac MD4.

7.16 Mae'r dystiolaeth ddiweddaraf o'r angen am fannau agored ym Mro Morgannwg wedi'i chynnwys yn y Papur Cefndir Mannau Agored sy'n ategu'r CDLl. Lle canfuwyd diffygion lleol o ran y ddarpariaeth, bydd disgwyl i ddatblygiadau preswyl newydd ym Mro Morgannwg ddarparu lle chwarae newydd i blant a man hamdden anffurfiol a bydd disgwyl i ddatblygiadau masnachol a phreswyl ddarparu cyfleusterau chwaraeon awyr agored newydd yn unol â'r safonau dynodedig. Wrth bennu safonau, mae'r Cyngor wedi mabwysiadu safonau meincnod Meysydd Chwarae Cymru ar gyfer mannau agored[26] y cyfeirir atynt yn TAN 16: Chwaraeon, Hamdden a Mannau Agored[27].

7.17 Bydd cymhwyso'r safonau hyn yn sicrhau, mewn ardaloedd lle ceir diffyg, y bydd datblygiadau newydd yn darparu mannau agored ar gyfer preswylwyr a chyflogeion yn y dyfodol ac na fyddant yn gosod baich ychwanegol ar lefelau presennol y ddarpariaeth. Bydd y safonau'n cael eu cymhwyso i bob datblygiad preswyl newydd gan gynnwys datblygiadau preswyl newydd, cynlluniau ailddatblygu, addasiadau a datblygiadau defnydd cymysg sy'n cynnwys tai a thai gwarchodol gyda chynnydd net o 5 annedd neu fwy. Mae'r polisi'n gymwys i bob cynnig ar gyfer datblygiad masnachol lle mae'r arwynebedd llawr newydd a fydd yn cael ei greu'n fwy na 1000 metr sgwâr neu lle mae arwynebedd y safle'n fwy nag 1 hectar. Lle mae'r cynnig yn ymwneud â newid defnydd i weithgarwch masnachol, bydd y polisi'n cael ei gymhwyso lle byddai dwysau'r defnydd yn creu galw ychwanegol am fannau agored, er enghraifft newid defnydd o ddefnydd storio B8 i ddefnydd Swyddfa B1 lle mae nifer y cyflogeion yn cynyddu'n sylweddol. At ddiben y polisi hwn cymerir bod datblygiad masnachol yn golygu cyflogaeth, manwerthu, hamdden a defnyddiau eraill sy'n darparu rhywfaint o gyflogaeth, gan gydnabod y ffaith bod defnyddiau o'r fath yn creu galw am fannau agored a gweithgareddau hamdden gan gyflogeion, h.y. cyn, ar ôl ac yn ystod egwylion hamdden.

7.18 Bydd yn ofynnol darparu mannau agored newydd ar y safle fel arfer er mwyn gwasanaethu'r preswylwyr a'r cyflogeion newydd hynny a fydd yn creu'r galw uwch. Lle nad yw'n bosibl darparu cyfleusterau ychwanegol ar y safle, er enghraifft oherwydd natur gyfyng y safle neu natur y datblygiad a gynigir, gall darpariaeth oddi ar y safle neu gyfraniadau ariannol tuag at wella neu gynnal cyfleusterau presennol neu fynediad at gyfleusterau presennol yn y cyffiniau fod yn briodol. Rhaid i unrhyw ddarpariaeth arall oddi ar y safle y cytunir arni fod wedi'i lleoli'n addas o fewn pellter cerdded diogel, rhwydd i'r datblygiad arfaethedig. Bydd y Cyngor yn gweithio gyda datblygwyr i gytuno ar y ffordd fwyaf priodol o gyrraedd y safonau a dderbynnir a chynnal lefel a chydbwysedd boddhaol o ran y ddarpariaeth os bydd amgylchiadau o'r fath yn codi. Lle mae mannau agored digonol yn bodoli yng nghyffiniau datblygiad ond bod eu hygyrchedd yn wael, gellir ceisio cysylltiadau mynediad gwell fel dewis yn lle darparu mannau agored.

7.19 Mae cynnal a chadw mannau agored yn y dyfodol yn hanfodol i sicrhau bod cyfleusterau diogel, o ansawdd da ar gael i ddefnyddwyr lleol. Bydd y Cyngor yn sicrhau trefniadau cynnal a chadw priodol yn y dyfodol trwy amodau neu rwymedigaethau cynllunio mewn cytundeb adran 106 i sicrhau bod yr holl fannau agored a ddarperir yn cael eu cynnal a'u cadw'n briodol.

7.20 Mae'r polisi uchod yn ymwneud â gofynion o ran mannau agored cyhoeddus, ac nid yw'n bwysicach na'r angen am ardaloedd eraill o fannau gwyrdd achlysurol ar hyd a lled cynigion datblygu. Er mwyn dylunio da ac i wella tir trefol, bydd yn ofynnol i bob datblygiad newydd gynnwys lefelau priodol o fannau gwyrdd a thirlunio ar gyfer amwynder cyhoeddus. Ar ben hynny, yn achos datblygiadau

[26] **Meysydd Chwarae Cymru Cynllunio a Chwaraeon a Chwarae Awyr Agored (2008)**
[27] **Nodyn Cyngor Technegol 16: Chwaraeon, Hamdden a Mannau Agored (Llywodraeth Cymru 2009)**

preswyl, rhaid darparu'n briodol ar gyfer mannau amwynder preifat megis gerddi, terasau to a balconïau, i ddiwallu anghenion uniongyrchol preswylwyr am le i storio, sychu dillad a mwynhad preifat achlysurol o'u heiddo. Ceir manylion pellach ynglŷn â darparu Mannau Amwynder yn y Canllawiau Cynllunio Atodol.

7.21 Bydd manylion pellach ynglŷn â chymhwyso'r safonau o ran mannau agored yn cael eu darparu yn y Canllawiau Cynllunio Atodol ar Rwymedigaethau Cynllunio.

## POLISI MD4 -
### SEILWAITH CYMUNEDOL A RHWYMEDIGAETHAU CYNLLUNIO

**Lle y bo'n briodol a chan roi sylw i hyfywedd datblygiadau, bydd y cyngor yn ceisio sicrhau seilwaith, cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol newydd a gwell trwy ddefnyddio rhwymedigaethau cynllunio. Gall seilwaith cymunedol gynnwys darparu neu wella:**

1. **Tai fforddiadwy;**
2. **Cyfleusterau addysgol;**
3. **Seilwaith trafnidiaeth a gwasanaethau ar gyfer cerddwyr, beicwyr, trafnidiaeth gyhoeddus a thraffig cerbydau;**
4. **Mannau agored cyhoeddus, celf gyhoeddus, a chyfleusterau hamdden a chwaraeon;**
5. **Cyfleusterau cymunedol;**
6. **Cyfleusterau gofal iechyd;**
7. **Seilwaith gwasanaethau a chyfleustodau;**
8. **Diogelu'r amgylchedd a mesurau gwella megis cadwraeth natur, atal llifogydd, adfywio canol trefi, rheoli llygredd neu adnewyddu hanesyddol;**
9. **Cyfleusterau ailgylchu a gwastraff; a**
10. **Cyfleoedd cyflogaeth a chyfleusterau cyflenwol gan gynnwys hyfforddiant.**

7.22 Mae ansawdd, hygyrchedd ac amrywiaeth y seilwaith cymunedol sydd ar gael i ddiwallu anghenion datblygiadau newydd yn hanfodol i greu cymunedau cynaliadwy. Mae Polisi MD4 yn ceisio sicrhau bod yr holl ddatblygiadau newydd ym Mro Morgannwg yn cael eu cefnogi gan wasanaethau a chyfleusterau priodol i ddiwallu eu hanghenion hwy ac anghenion y gymuned bresennol, i greu cymunedau diogel, cynaliadwy, cyfannedd, iach a chymysg. Gall hyn fod trwy welliannau i gyfleusterau presennol neu ddarparu seilwaith newydd. Mae'r Cynllun Seilwaith sy'n cyd-fynd â'r CDLl hwn yn nodi pa seilwaith sy'n ofynnol i gyflawni Strategaeth y CDLl a dyraniadau datblygu penodol, ac mae'n nodi sut y bydd y seilwaith hwn yn cael ei ddarparu trwy gydol cyfnod y Cynllun.

7.23 Bydd seilwaith cymunedol yn cael ei sicrhau naill ai trwy rwymedigaethau cynllunio sydd wedi'u cynnwys mewn cytundeb cyfreithiol dan Adran 106 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel y'i diwygiwyd), neu maes o law trwy dderbyniadau ardoll dan Reoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol 2010 (fel y'u diwygiwyd). Mae'r Cyngor wrthi ar hyn o bryd yn gweithio tuag at gyflwyno Ardoll Seilwaith Cymunedol ar gyfer Bro Morgannwg yn fuan wedi i'r CDLl gael ei fabwysiadu. Mae'n bwriadu paratoi rhestr codi tâl ddrafft yn 2016 gyda golwg ar fabwysiadu Ardoll Seilwaith Cymunedol erbyn 2017. Cyn mabwysiadu Ardoll Seilwaith Cymunedol bydd y Cyngor yn parhau i sicrhau seilwaith angenrheidiol trwy Rwymedigaethau Cynllunio dan Adran 106. Unwaith y bydd Ardoll Seilwaith Cymunedol wedi'i mabwysiadu, bydd y defnydd o Rwymedigaethau Cynllunio'n cael ei leihau i gynnwys y materion hynny nad yw Ardoll Seilwaith Cymunedol a thai fforddiadwy yn eu cwmpasu.

## Rhwymedigaethau Cynllunio

7.24 Yn unol â'r cyngor a geir ym Mholisi Cynllunio Cymru, Cylchlythyr 13/97 ar 'Rwymedigaethau Cynllunio' a Rheoliad 122 o'r Rheoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol 2010 (fel y'u diwygiwyd) (y Rheoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol), bydd y math o Rwymedigaethau Cynllunio a geisir mewn perthynas â chaniatâd cynllunio a gwerth y Rhwymedigaethau Cynllunio hynny yn cael eu hystyried fesul safle unigol gan roi sylw i'r polisi a phrofion deddfwriaethol. Ers 6 Ebrill 2010, gall rhwymedigaeth gynllunio fod yn rheswm cyfreithiol dros roi caniatâd cynllunio dim ond os yw: yn angenrheidiol er mwyn gwneud y datblygiad yn fwy derbyniol yn nhermau cynllunio; yn uniongyrchol gysylltiedig â'r datblygiad ac yn gysylltiedig yn deg ac yn rhesymol â'r datblygiad o ran graddfa a math. Bydd pob cais yn cael ei ystyried o ran yr angen am rwymedigaethau cynllunio yn seiliedig ar y math o ddatblygiad a gynigir, yr amgylchiadau lleol ac anghenion sy'n deillio o'r datblygiad a'r hyn y mae'n rhesymol disgwyl i'r datblygwr ei ddarparu yng ngoleuni'r polisïau cynllunio cenedlaethol a lleol perthnasol. Caiff manylion y mathau o seilwaith a all fod yn ofynnol eu nodi ym Mholisi MD4 a bydd rhagor o wybodaeth yn cael ei darparu mewn Canllawiau Cynllunio Atodol ar Rwymedigaethau Cynllunio. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd y Cyngor yn annog datblygwyr i ddarparu cyfleusterau a seilwaith ar y safle i wasanaethu meddianwyr y datblygiad yn y dyfodol. Lle digwydd hyn, bydd y cyfraniadau hyn 'mewn nwyddau neu wasanaethau' yn cael eu hystyried wrth gyfrifo swm unrhyw gyfraniadau oddi ar y safle. Lle ystyrir bod datblygiad yn diwallu ei holl anghenion ar y safle ac yn lliniaru ei effeithiau trwy gyfraniadau digonol mewn nwyddau neu wasanaethau, mae'n annhebygol y bydd unrhyw gyfraniadau ariannol ychwanegol yn cael eu ceisio.

7.25 Lle maent yn bodloni'r profion polisi, (h.y. yn angenrheidiol; yn berthnasol i gynllunio; yn berthnasol i'r datblygiad a fyddai'n cael ei ganiatáu; yn orfodadwy; yn fanwl gywir ac yn rhesymol ym mhob ffordd arall), bydd y Cyngor yn defnyddio amodau cynllunio yn hytrach na Rhwymedigaethau Cynllunio i sicrhau'r seilwaith cymunedol angenrheidiol sy'n ofynnol o ganlyniad i'r datblygiad (Polisi Cynllunio Cymru a Chylchlythyr 16/2014 'Defnyddio Amodau i Reoli Datblygu').

7.26 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn egluro na ddylid byth caniatáu datblygiad annerbyniol oherwydd manteision anghysylltiedig ac na ddylid byth gwrthod datblygiad derbyniol yn syml am nad yw ymgeisydd yn fodlon cynnig manteision o'r fath. Mae cytundebau Adran 106 yn wirfoddol ac mae'n rhaid wrth gydweithrediad y datblygwr er mwyn eu cyflawni. Fodd bynnag, lle mae datblygwr yn methu â dangos y gall liniaru effeithiau ei ddatblygiad yn ddigonol, naill ai trwy rwymedigaethau cynllunio neu fesurau eraill, mae'n annhebygol y bydd y cais yn cael ei wrthod.

## Ardoll Seilwaith Cymunedol

7.27 Daeth Rheoliadau Ardoll Cymunedol 2010 i rym ar 6 Ebrill 2010 yng Nghymru a Lloegr ac fe gyflwynon nhw bwerau i Awdurdodau Cynllunio Lleol sefydlu Ardoll Seilwaith Cymunedol i ariannu seilwaith sy'n ofynnol i gefnogi datblygiad yr ardal. Mae Adran 216 o Ddeddf Cynllunio 2008, fel y'i diwygiwyd gan Reoliad 63 yn y Rheoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol yn diffinio 'Seilwaith' at ddiben yr Ardoll Seilwaith Cymunedol fel nodweddion sy'n cynnwys ffyrdd a chyfleusterau trafnidiaeth eraill; amddiffynfeydd llifogydd; ysgolion a chyfleusterau addysgol eraill; cyfleusterau meddygol; cyfleusterau chwaraeon a hamdden, yn ogystal â mannau agored. Ar hyn o bryd nid yw cwmpas y diffiniad hwn yn cynnwys tai fforddiadwy. Fodd bynnag, os bydd yn cael ei gynnwys yn ddiweddarach mae Polisi MD4 yn darparu ar gyfer y naill senario neu'r llall.

7.28 Ym mis Chwefror 2011, fe benderfynodd y Cyngor mewn egwyddor y byddai'n dechrau paratoi Ardoll Seilwaith Cymunedol ar gyfer Bro Morgannwg. Unwaith y bydd wedi'i sefydlu, bydd yr Ardoll Seilwaith Cymunedol yn disodli cytundebau Adran 106 mewn nifer o ffyrdd. Felly'r Ardoll Seilwaith Cymunedol fydd y prif fecanwaith ar gyfer darparu seilwaith mewn perthynas â datblygiadau newydd

unwaith y bydd wedi'i mabwysiadu. Fodd bynnag, bydd cytundebau A106 ac amodau cynllunio yn dal i gael eu defnyddio i sicrhau seilwaith ar y safle megis mannau agored a thai fforddiadwy. Bydd y rhestr Ardoll Seilwaith Cymunedol ar gyfer Bro Morgannwg yn cael ei harchwilio'n annibynnol cyn ei mabwysiadu. Yn dilyn ei mabwysiadu, wrth ystyried yr angen am rwymedigaethau cynllunio, bydd angen i'r Cyngor ystyried lefel y rhwymedigaeth Ardoll Seilwaith Cymunedol ar y datblygiad ac i ba raddau y bydd anghenion y datblygiad o ran seilwaith cymunedol yn cael eu diwallu trwy weithredu Ardoll Seilwaith Cymunedol.

## Hyfywedd Datblygiadau

7.29 Lle mae datblygwr yn dadlau bod gofynion Adran 106 yn rhy feichus yn ychwanegol at y rhwymedigaeth Ardoll Seilwaith Cymunedol ac y gallent wneud y cynllun yn anhyfyw, bydd disgwyl iddynt gyflwyno dadansoddiad o'r costau datblygu a'r elw a ragwelir yn seiliedig ar dystiolaeth a gafwyd yn briodol. Rhaid i ddatblygwyr ystyried y gofynion angenrheidiol o ran rhwymedigaethau cynllunio ar adeg gynnar i sicrhau bod y rhain yn cael eu hadlewyrchu yn y tybiaethau ynghylch gwerth tir. Gall y Cyngor geisio gwiriad annibynnol o'r manylion hyn cyn ystyried a ddylid lleihau nifer a / neu werth rhwymedigaethau cynllunio a geisir. Mae'n debygol na fydd unrhyw ostyngiad dilynol ar y sail hon ond yn gallu cael ei gyfiawnhau lle mae rhinwedd gynllunio a / neu fudd cyhoeddus yn gysylltiedig â datblygu'r safle, e.e. ailddefnyddio adeilad rhestredig neu adfywio ardal drefol. Lle gellir cyfiawnhau'r gostyngiadau ar sail amgylchiadau anarferol yn y farchnad, megis gostyngiad annisgwyl mewn prisiau tai, fel arfer bydd y Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygwyr gytuno ag adegau adolygu amserol yn eu cytundeb Adran 106 i ystyried unrhyw adferiad dilynol yn y farchnad a fydd yn gwneud rhwymedigaethau cynllunio ychwanegol yn ddichonadwy.

7.30 Mae'r Cyngor yn derbyn efallai na fydd wastad yn bosibl i ddatblygwyr ateb yr holl ofynion o ran rhwymedigaethau cynllunio. Lle profir bod hyn yn wir, bydd angen i'r Cyngor ystyried beth fydd y blaenoriaethau o ran rhwymedigaethau cynllunio ar gyfer y datblygiad penodol hwnnw, gan ystyried lleoliad y safle a'r anghenion lleol yn y cyffiniau. Bydd hyn yn cael ei ystyried fesul safle unigol gan ystyried y profion statudol. Mae Llywodraeth Cymru wedi cynghori, dan amgylchiadau o'r fath, mai tai fforddiadwy ddylai fod y flaenoriaeth unwaith y sicrhawyd fod seilwaith digonol i alluogi'r cynllun i fynd rhagddo (megis cyfleusterau addysg i ateb y galw ychwanegol ar gyfer disgyblion) ar gael[28].

## Blaenoriaethu Seilwaith Cymunedol

7.31 Nid rhestr wedi'i blaenoriaethu yw'r rhestr uchod ym Mholisi MD4 a lle y bo angen blaenoriaethu rhwymedigaethau cynllunio bydd y Cyngor yn gwneud hynny fesul safle unigol, gan roi sylw i agweddau penodol ar y datblygiad ar yr adeg honno ac yng ngoleuni'r profion statudol. Fodd bynnag, wrth ystyried sut y bydd rhwymedigaethau cynllunio'n cael eu blaenoriaethu, bydd y Cyngor yn ystyried yr anghenion penodol sy'n deillio o'r datblygiad, gan ddefnyddio'r categorïau canlynol:

Seilwaith Hanfodol sy'n ofynnol i'w gwneud yn bosibl datblygu'r safle (cyfeirier at Amcanion 1, 2, 3, 4 ac 8 yn y CDLl) e.e. Seilwaith a gwasanaethau trafnidiaeth ar gyfer cerddwyr, beicwyr, trafnidiaeth gyhoeddus a thraffig cerbydau; seilwaith gwasanaethau a chyfleustodau; lliniaru ecolegol (lle mae'r datblygiad yn effeithio ar rywogaeth a warchodir) ac atal llifogydd.

**Seilwaith Angenrheidiol sy'n cynnwys:**

- Seilwaith sy'n ofynnol i liniaru effeithiau'r datblygiad arfaethedig ar wasanaethau lleol ac i ddarparu ar gyfer yr anghenion a gaiff eu creu gan y datblygiad, lle nad ydynt yn gallu cael eu diwallu gan gyfleusterau presennol (cyfeirier at Amcanion 1, 3 a 5 yn y CDLl), e.e. cyfleusterau addysgol; cyfleusterau cymunedol; cyfleusterau gofal iechyd; mannau agored cyhoeddus a chyfleusterau hamdden.

[28] **Llywodraeth Cymru: Darparu Tai Fforddiadwy gan ddefnyddio Cytundebau Adran 106 (2008) a Diweddariad Cyfarwyddyd 2010**

- Darparu tai fforddiadwy i ddiwallu anghenion lleol (cyfeirier at Amcanion 1 a 7 yn y CDLl).
- Seilwaith sy'n ofynnol i gyrraedd nod y Cyngor i ddarparu datblygiadau o ansawdd da sy'n dwyn manteision amgylcheddol a manteision eraill i Fro Morgannwg (cyfeirier at Amcanion 1, 4, 6, 9 a 10 yn y CDLl) e.e. celf gyhoeddus; diogelu a gwella'r amgylchedd; adfywio canol trefi; rheoli llygredd; adnewyddu hanesyddol; cyfleusterau ailgylchu a gwastraff.

7.32 Dim ond lle mae'r datblygwr wedi dangos na all y datblygiad ateb holl ofynion y Cyngor o ran rhwymedigaethau cynllunio oherwydd cyfyngiadau o ran hyfywedd y dylai'r categorïau hyn fod yn berthnasol. Mae'r Cyngor wedi cynnal asesiad hyfywedd o ofynion y Cynllun o ran rhwymedigaethau cynllunio a thai fforddiadwy ac o dan y rhan fwyaf o amgylchiadau bydd disgwyl i ddatblygwyr ateb yr holl ofynion a nodir ym Mholisi MD4.

## POLISI MD5 -
### DATBLYGIADAU O FEWN FFINIAU ANEDDIADAU

**Mae ffiniau anheddiadau wedi cael eu diffinio o amgylch yr holl aneddiadau yn hierarchaeth aneddiadau'r cdll. Bydd datblygiadau newydd o fewn yr aneddiadau hyn yn cael eu caniatáu lle mae'r datblygiad arfaethedig yn un:**

1. **Yn gwneud defnydd effeithlon o dir neu adeiladau;**
2. **Yn un na fyddai'n peryglu'r gallu i ddarparu safle datblygu a ddyrannwyd;**
3. **Yn un sydd ar raddfa, ac sydd â ffurf, cynllun a chymeriad sy'n gydnaws â'i leoliad uniongyrchol a'r amgylchoedd ehangach ac yn eu parchu ac yn peidio ag effeithio mewn modd annerbyniol ar gymeriad ac edrychiad yr ardal leol;**
4. **Yn gynnig na fyddai'n arwain at golli nodweddion naturiol neu adeiledig sydd yn unigol neu'n gronnol yn cyfrannu at gymeriad yr anheddiad neu ei leoliad;**
5. **Yn un na fyddai'n arwain at golli mannau agored cyhoeddus nac adeiladau na chyfleusterau cymunedol na thwristaidd mewn modd annerbyniol;**
6. **Yn un nad yw'n cael unrhyw effaith annerbyniol ar amwynder a chymeriad yr ardal leol ar ffurf sŵn, tagfeydd traffig a pharcio; ac**
7. **Yn gwneud darpariaeth briodol ar gyfer seilwaith cymunedol i ddiwallu anghenion meddianwyr yn y dyfodol.**

7.33 Mae ffiniau aneddiadau wedi cael eu llunio o amgylch yr aneddiadau ym Mro Morgannwg a nodir yn hierarchaeth y CDLl ac yr ystyrir eu bod yn gallu derbyn datblygiadau ychwanegol yn ystod cyfnod y Cynllun. Mae'r ffiniau'n diffinio'r aneddiadau y bydd datblygiadau newydd yn cael eu caniatáu ynddynt gan roi anogaeth i ailddefnyddio tir ac adeiladau ac atal datblygiadau newydd rhag ymledu yng nghefn gwlad agored. Yn unol â hynny, er mwyn gwarchod hunaniaeth yr aneddiadau hyn, i sicrhau defnydd effeithlon o dir ac i ddiogelu cefn gwlad rhag trefoli a cholled bob yn dipyn, ni fydd datblygiadau'n cael eu caniatáu y tu allan i'r ffiniau aneddiadau dynodedig oni bai eu bod yn cydymffurfio â pholisi cynllunio cenedlaethol a nodir ym mharagraff 9.3.2 ym Mholisi Cynllunio Cymru. Byddai angen i ddatblygiadau o'r fath ymateb yn briodol i'r cyd-destun lleol a bod yn gyson â Pholisïau MD1 ac MD2 hefyd.

7.34 Cydnabyddir bod yr aneddiadau hyn yn debygol o gynnwys safleoedd heb eu dyrannu neu "hapsafleoedd" (naill ai safleoedd a ddatblygwyd yn flaenorol neu safleoedd mewnlenwi) a allai dderbyn datblygiadau newydd y tu hwnt i'r safleoedd hynny sydd wedi'u dyrannu ym Mholisi MG2 ac a all wneud cyfraniad pwysig at y banc tir ar gyfer tai ac amcanion y CDLl. Bydd disgwyl i ddatblygiadau o'r fath fod yn gyson â Pholisi MD6 o ran dwysedd tai a gwneud y defnydd gorau o'r tir sydd ar gael.

7.35 Lle mae cynigion yn golygu colli mannau agored neu gyfleusterau cymunedol neu dwristaidd bydd y Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol cyflwyno tystiolaeth gadarn sy'n dangos nad oes angen y cyfleusterau mwyach neu na fyddai colled o'r fath yn cael effaith anffafriol ar ddarparu gwasanaethau lleol. At ddibenion y Polisi, ceir diffiniad o Gyfleusterau Cymunedol yn y Rhestr Termau yn Atodiad 1. Felly bydd angen i gynigion datblygu gael eu hategu gan dystiolaeth sy'n dangos naill ai nad oes angen adeiladau neu gyfleusterau cymunedol at eu diben gwreiddiol mwyach neu, yn achos mentrau masnachol, nad ydynt yn hyfyw mwyach o safbwynt economaidd. Gallai datganiadau cyfiawnhau gynnwys tystiolaeth bod darpariaeth arall ar gael yn agos at safle'r cynnig, y byddai'n well ei defnyddio na'r ddarpariaeth a fyddai'n cael ei cholli ac sy'n diwallu anghenion lleol.

7.36 Fodd bynnag, nid yw cynnwys tir o fewn ffin anheddiad yn awgrymu'n awtomatig ei fod yn addas i dderbyn datblygiad ac mae Polisi MD5 yn darparu fframwaith ar gyfer datblygu safleoedd o'r fath gan sicrhau, lle cânt eu hyrwyddo, eu bod yn briodol i'w hamgylchoedd. Byddai'r Cyngor yn gwrthod caniatâd i ddatblygu safle a fyddai'n peryglu'r gallu i ddarparu safle datblygu a ddyrannwyd, er enghraifft trwy atal mynediad ar gyfer cerbydau drwodd i safle a ddyrannwyd, cyflwyno defnydd a fyddai'n effeithio'n anffafriol ar amwynder ar safle a ddyrannwyd; neu danseilio'r gallu i'w ddarparu trwy roi pwysau ar seilwaith presennol y mae ei angen i wasanaethu dyraniad arfaethedig.

## POLIS MD6 -
### DWYSEDDAU TAI

**Bydd cynigion datblygu preswyl o fewn yr aneddiadau allweddol, y canolfannau gwasanaeth a'r prif aneddiadau'n cael eu caniatáu lle mae'r dwysedd preswyl net yn isafswm o 30 annedd yr hectar. mewn man aneddiadau gwledig, bydd dwysedd preswyl net lleiaf o 25 annedd yr hectar yn ofynnol.**

**Bydd lefelau dwysedd is yn cael eu caniatáu dim ond lle gellir dangos:**

1. **Y byddai datblygiad yn ôl y dwyseddau a ragnodir yn cael effaith annerbyniol ar gymeriad yr ardal o amgylch;**
2. **Bod dwyseddau is yn ofynnol o ganlyniad i gyfyngiadau sylweddol ar y safle neu i warchod nodwedd a fyddai'n cyfrannu at amwynder presennol neu amwynder yn y dyfodol; neu**
3. **Bod y cynnig yn un ar gyfer datblygiad defnydd cymysg lle mae defnydd preswyl wedi'i gynnwys fel yr elfen isradd o'r cynnig.**

**Bydd dwyseddau uwch yn cael eu caniatáu lle maent yn adlewyrchu cymeriad yr ardaloedd o amgylch a lle na fyddent yn effeithio'n annerbyniol ar amwynder lleol.**

7.37 Bydd datblygiadau preswyl newydd ym Mro Morgannwg yn ceisio defnyddio tir yn effeithlon, gan ddarparu anheddau sy'n diwallu anghenion tai presennol a hefyd gwarchod tir ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Felly bydd dwysedd preswyl isaf o 30 annedd net yr hectar yn ofynnol ar gyfer datblygiadau preswyl newydd o fewn aneddiadau allweddol, canolfannau gwasanaeth a phrif aneddiadau Bro Morgannwg. Ym mân aneddiadau gwledig Bro Morgannwg bydd datblygiadau preswyl newydd â dwysedd is o 25 annedd net yr hectar yn cael eu caniatáu. Mae hyn yn adlewyrchu natur sensitif llawer o bentrefi gwledig a chymeriad y ffurf adeiledig bresennol.

7.38 Mae'r ardal ddatblygadwy net yn cynnwys dim ond yr ardaloedd hynny a fydd yn cael eu datblygu ar gyfer tai a defnyddiau uniongyrchol gysylltiedig megis ffyrdd mynediad o fewn y safle, gerddi preifat, ardaloedd parcio ceir, mannau agored achlysurol a thirlunio, ac ardaloedd chwarae plant

lle bwriedir darparu'r rhain. Mae hyn yn wahanol i ddwyster gros a ddefnyddir i ddiffinio nifer yr anheddau mewn safle/ardal ddatblygu gan gynnwys prif ffyrdd a ffyrdd dosbarthu lleol, ysgolion cynradd, eglwysi, siopau lleol a.y.b., mannau agored sy'n gwasanaethu ardal ehangach a lleiniau clustogi sylweddol ar y dirwedd a all ddiffinio ffin y safle/ymyl y datblygiad. Wrth gyfrifo'r ardal ddatblygadwy net bydd yn rhesymol diystyru ardaloedd â chyfyngiadau sylweddol o fewn safle megis coetir y bwriedir ei gadw, parth llifogydd, ardaloedd lliniaru ecolegol a seilwaith strategol arall megis ffyrdd dosbarthu, meysydd chwarae neu ysgolion.

7.39 Ni fydd datblygiadau islaw'r lefelau dwysedd preswyl penodedig yn cael eu caniatáu oni bai y dangoswyd bod cyfyngiadau sylweddol yn gysylltiedig â safle sy'n atal rhag datblygu ar y lefelau penodedig neu lle byddai datblygu yn ôl y dwysedd sy'n ofynnol yn cael effaith anffafriol ar gymeriad neu edrychiad yr ardal leol neu'n arwain at golli nodwedd bwysig ar y safle. Bydd dwyseddau uwch yn cael eu caniatáu ac yn wir bydd anogaeth yn cael ei rhoi ar eu cyfer lle maent yn cynrychioli defnydd cynaliadwy o dir ac yn adlewyrchu cymeriad yr ardal o amgylch a lle na fyddent yn effeithio'n annerbyniol ar amwynder lleol. Er enghraifft, byddai disgwyl dwyseddau uwch mewn datblygiadau ar hyd y glannau, cynlluniau fflatiau ac ar safleoedd mewn ardaloedd a nodweddir eisoes gan ddatblygiad dwysedd uchel. Dylai pob datblygiad newydd gyfrannu at greu cymunedau cytbwys, gan ddarparu cymysgedd priodol o fathau o dai, grwpiau deiliadaeth a meintiau tai, gan gynnwys tai llai i ddiwallu'r angen lleol am dai.

## POLICY MD7 -
### DIOGELU'R AMGYLCHEDD

**Bydd yn ofynnol i gynigion datblygu ddangos na fyddant yn arwain at effaith annerbyniol ar bobl, amwynder preswyl, eiddo a / neu'r amgylchedd naturiol o ganlyniad naill ai i:**

1. **Llygru tir, dŵr wyneb, dŵr daear a'r aer;**
2. **Halogi tir;**
3. **Sylweddau peryglus;**
4. **Sŵn, dirgryndod, niwsans aroglau a llygredd golau;**
5. **Perygl a chanlyniadau llifogydd;**
6. **Erydu arfordirol neu sadrwydd tir;**
7. **Colli'r tir amaethyddol gorau a mwyaf hyblyg; neu**
8. **Unrhyw risg arall a ganfuwyd i iechyd a diogelwch y cyhoedd.**

**Lle canfyddir effeithiau bydd y cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr ddangos y gellir cymryd mesurau priodol i leihau'r effaith a ganfuwyd i lefel dderbyniol. Gellir gosod amodau cynllunio neu ymrwymo i rwymedigaeth gyfreithiol, i sicrhau unrhyw brosesau lliniaru a monitro.**

**O ran perygl llifogydd, bydd disgwyl i ddatblygiadau newydd osgoi perygl llifogydd diangen ac ateb gofynion TAN 15. Ni fydd datblygiadau sy'n wynebu bygythiad mawr yn cael eu caniatáu o fewn parth 2 yn y map cyngor datblygu. Bydd datblygiadau'n cael eu caniatáu mewn ardaloedd sy'n wynebu perygl llifogydd dim ond lle gellir dangos bod y safle'n gallu cydymffurfio â'r gofynion o ran cyfiawnhau ac asesu a nodir yn TAN15.**

7.40 Er bod nifer o elfennau o reoli llygredd y tu allan i gylch gwaith y system gynllunio mae'n bwysig nad yw datblygiadau newydd yn arwain at lefelau annerbyniol o lygredd. O ganlyniad i ymgynghori â chyrff megis Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, os yw'r

Cyngor o'r farn y byddai cynnig datblygu'n arwain at lygredd annerbyniol, neu'n gwneud problem bresennol yn waeth, yna ni fydd caniatâd cynllunio'n cael ei roi.

7.41 Mae Polisi MD7 yn dilyn y dull rhagofalus ac mae'r Cyngor yn annog datblygwyr i asesu unrhyw effaith ar yr adeg gynharaf fel bod cynigion datblygu'n lleihau unrhyw effaith sy'n bresennol i lefel dderbyniol. Lle caniateir datblygiad, bydd amodau'n cael eu rhoi ynghlwm wrth y caniatâd i leihau i'r eithaf unrhyw lefelau llygredd posibl a, lle y bo'n bosibl, monitro effeithiau'r datblygiad.

7.42 Cwmpesir Bro Morgannwg gan 2 Gynllun Rheoli Traethlin (CRhT). Mae'r rhain wedi cael eu paratoi i ystyried effaith hirdymor bosibl lefelau môr uwch o ganlyniad i'r newid yn yr hinsawdd. Mae'r Cynlluniau Rheoli Traethlin yn nodi polisïau a chamau gweithredu cyffredinol i reoli newid ar hyd yr arfordir. Wrth ddatblygu'r CDLl mae'r Cyngor wedi defnyddio'r Cynlluniau Rheoli Traethlin fel sail i ddyraniadau safle er mwyn sicrhau nad yw cynigion datblygu yn y dyfodol yn gwrthdaro â'r cynlluniau mwy hirdymor sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Rheoli Traethlin. Mae Polisi MD7 yn gyson â'r dull hwn trwy ei gwneud yn ofynnol bod cynigion mewn lleoliadau arfordirol yn cynnwys mesurau priodol i osgoi cynyddu erydiad arfordirol a lliniaru llifogydd posibl.

7.43 Diben y Polisi hwn yw troi datblygiadau heibio lle byddent yn wynebu perygl llifogydd o afon, cwrs dŵr cyffredin, yr arfordir, dŵr wyneb neu lle gallent gynyddu perygl llifogydd neu ddŵr ffo ychwanegol o ddatblygiadau mewn mannau eraill. Bydd y Polisi'n helpu i gyflawni amcanion y CDLl mewn perthynas â pherygl llifogydd ac mae'n adlewyrchu cyngor a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol 15: Datblygu a Pherygl Llifogydd (Gorffennaf 2004). Bydd perygl llifogydd diangen yn cael ei osgoi trwy gynnal asesiad llym o'r goblygiadau o ran perygl llifogydd sy'n deillio o gynigion datblygu mewn ardaloedd sy'n tueddu i gael llifogydd llanw neu afonol ac atal datblygiadau sy'n cynyddu'r perygl i raddau annerbyniol. Yn unol â TAN 15: Datblygu a Pherygl Llifogydd, ni fydd unrhyw ddatblygiad sy'n wynebu bygythiad mawr yn cael ei ganiatáu ym mharth cyngor datblygu C2. Bydd datblygiad yn cael ei ystyried mewn ardaloedd eraill sy'n wynebu perygl llifogydd uchel dim ond lle gellir dangos y gall y safle gydymffurfio â'r gofynion cyfiawnhau ac asesu yn TAN15 (2004 – Adran 6, 7 ac Atodiad 1)".

## POLISI MD8 -
### YR AMGYLCHEDD HANESYDDOL

**Rhaid i gynigion datblygu warchod nodweddion amgylchedd adeiledig a hanesyddol Bro Morgannwg, yn benodol:**

1. **Mewn ardaloedd cadwraeth, rhaid i gynigion datblygu warchod neu wella Cymeriad neu edrychiad yr ardal;**
2. **Ar gyfer adeiladau rhestredig ac adeiladau sydd wedi'u rhestru'n lleol, rhaid i gynigion datblygu warchod neu wella'r adeilad, ei leoliad ac unrhyw nodweddion o arwyddocâd y mae'n meddu arnynt;**
3. **Mewn tirweddau dynodedig, parciau a gerddi hanesyddol, a chadfeydd, rhaid i gynigion datblygu barchu cymeriad a nodwedd hanesyddol arbennig yr ardaloedd hyn, eu lleoliadau neu olygfeydd neu fistâu hanesyddol;**
4. **Ar gyfer safleoedd o ddiddordeb archeolegol, rhaid i gynigion datblygu warchod neu wella olion archeolegol a, lle y bo'n briodol, eu lleoliadau**

7.44 Mae'r amgylchedd hanesyddol yn adnodd arwyddocaol, ond un y mae pen draw iddo. Gyda sensitifrwydd a dychymyg, gall fod yn symbyliad i bensaernïaeth a dyluniad newydd creadigol, yn sail i adfywio a gwneud cyfraniad pwerus at ansawdd bywyd pobl.

7.45 Mae'r amgylchedd hanesyddol yn cofleidio nifer o nodweddion: adeiladau, strwythurau, henebion, olion, safleoedd archeolegol, gerddi, parciau, tirweddau a'u lleoliadau. Mae Atodiad 10 yn darparu manylion Adeiladau Rhestredig, Ardaloedd Cadwraeth, Trysorau Sirol Rhestredig Lleol, Parciau a Gerddi o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru, Tirweddau o Ddiddordeb Eithriadol yng Nghymru a Henebion Rhestredig. Mae deddfwriaeth genedlaethol[29] a pholisi cynllunio cenedlaethol[30, 31], yn dynodi y dylai'r holl agweddau hyn ar yr amgylchedd hanesyddol gael eu gwarchod. Mae gwarchod a gwella'r amgylchedd hanesyddol, gan gynnwys lleoliadau asedau hanesyddol, yn agwedd allweddol ar gyfrifoldebau ehangach y Cyngor, a bydd yn ystyriaeth berthnasol y rhoddir cryn bwys arni wrth benderfynu ynghylch ceisiadau sy'n effeithio ar asedau o'r fath.

7.46 Ym Mro Morgannwg mae 39 Ardal Gadwraeth sy'n gwneud cyfraniad arwyddocaol at ddengarwch y Fro, a hwythau wedi cael eu dynodi nid ar sail adeiladau unigol ond oherwydd ansawdd yr ardal ar y cyfan, ei chymysgedd o ddefnyddiau, ei chynllun hanesyddol, deunyddiau nodweddiadol, graddfa a manylion adeiladau a mannau agored. Mae'r Cyngor wedi paratoi arfarniadau manwl ar gyfer pob un o'i ardaloedd cadwraeth dynodedig, sy'n diffinio'u cymeriad arbennig a chanllawiau ar gyfer cynlluniau datblygu a gwella, ac mae'r rhain wedi cael eu mabwysiadu gan y Cyngor fel Canllawiau Cynllunio Atodol i ategu polisïau'r CDLl.

7.47 Mae gan Fro Morgannwg dwy na 740 o Adeiladau Rhestredig, y mae eu diddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig yn cael ei warchod gan yr angen i gael Caniatâd Adeilad Rhestredig dan ddarpariaethau Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990. Fodd bynnag, mae lleoliad adeiladau o'r fath yn aml yn hollbwysig i gymeriad yr adeilad, a gall fod yn gyfyngedig i'w safle uniongyrchol neu ymestyn i ardal ehangach o lawer. Mae felly'n hanfodol bod unrhyw gynigion datblygu yn dangos eu bod wedi rhoi sylw i'r angen i warchod neu wella'r adeilad a'i leoliad.

7.48 Mewn partneriaeth gyda'r Gymuned ehangach, mae'r Cyngor wedi adnabod adeiladau a strwythurau ym Mro Morgannwg yr ystyrir eu bod yn rhai o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol lleol arbennig. Mae'r 'Trysorau Sirol' hyn yn arwyddocaol i'r gymuned leol ac yn cyfrannu at dreftadaeth amgylcheddol a diwylliannol y sir. Er nad ydynt o bwysigrwydd cenedlaethol sy'n ofynnol i deilyngu eu rhestru'n statudol, mae eu gwerth lleol yn golygu eu bod yn haeddu cael eu gwarchod ac felly rhaid rhoi sylw i'r angen i gynigion datblygu warchod asedau o'r fath rhag datblygu ansensitif sy'n gallu niweidio cymeriad lleol yn unigol ac yn gronnol. Mae cyngor pellach ynghylch datblygu sy'n effeithio ar Drysorau Sirol sydd wedi'u rhestru'n lleol wedi cael ei baratoi a chaiff ei nodi mewn dogfen Canllawiau Cynllunio Atodol[32].

7.49 Mae gan Fro Morgannwg ddiddordeb archeolegol a hanesyddol sylweddol. Mae Ymddiriedolaeth Archeolegol Morgannwg-Gwent yn curadu Cofnod Amgylchedd Hanesyddol yr awdurdod. Gall nodweddion archeolegol gael dylanwad sylweddol ar ddichonoldeb cynigion datblygu. Lle gwyddys neu lle deallir bod olion archeolegol yn bresennol, dylid cynnal gwerthusiad maes archeolegol ar y cyfle cynharaf a'i gyflwyno fel rhan o gais cynllunio. Lle mae cynnig datblygu'n effeithio ar safle archeolegol pwysig neu ei leoliad, bydd rhagdybiaeth o blaid gwarchod yr olion yn ffisegol, ni waeth pa un a yw'r safle'n Heneb Gofrestredig ai peidio. Lle caniateir datblygu, dylai olion gael eu gwarchod a'u hymgorffori'n sensitif fel rhan o'r cynllun datblygu neu eu tynnu oddi yno i gael eu gwarchod oddi ar y safle, lle y bo'n briodol, yn unol â chyngor gan Ymddiriedolaeth Archeolegol Morgannwg-Gwent.

7.50 Mae Polisi MD8 yn ceisio sicrhau bod amgylchedd adeiledig a hanesyddol unigryw Bro Morgannwg yn cael ei warchod a'i wella. Bydd anogaeth i ddarparu cyfleusterau i wella a chynyddu mwynhad y cyhoedd o'r amgylcheddau hanesyddol hyn ar yr amod nad yw'r cyfleusterau'n gwrthdaro â'u cadwraeth.

[29] Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth), 1990 a Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016
[30] Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 9 Adran 6
[31] Nodyn Cyngor Technegol 24 – Yr Amgylchedd Hanesyddol (2017)
[32] Canllawiau Cynllunio Atodol Trysorau Sirol Bro Morgannwg (Mawrth 2009)

## POLISI MD9 -
### HYBU BIOAMRYWIAETH

**Bydd yn ofynnol bod cynigion datblygu newydd yn gwarchod a, lle y bo'n briodol, yn gwella diddordebau bioamrywiaeth oni bai y gellir dangos:**

1. **Bod yr angen am y datblygiad yn amlwg yn gorbwyso gwerth bioamrywiaeth y safle; a**
2. **Bod effeithiau'r datblygiad yn gallu cael eu lliniaru'n foddhaol a'u rheoli'n dderbyniol trwy gyfundrefnau rheoli priodol yn y dyfodol.**

7.51 Dylai gwerth bioamrywiaeth safle datblygu arfaethedig gael ei gadarnhau ar y cyfle cynharaf. Dylai gwerth bioamrywiaeth safleoedd gael ei asesu mewn cyd-destunau cenedlaethol a lleol. Yn rhinwedd eu dynodiad, mae gan safleoedd sydd wedi'u dynodi'n rhyngwladol ac yn genedlaethol y gwerth cadwraeth uchaf. Dylai safleoedd eraill megis Safleoedd o Bwysigrwydd o ran Cadwraeth Natur neu'r safleoedd hynny sy'n cynnal cynefin neu rywogaeth y rhoddir blaenoriaeth iddo/iddi gael eu hasesu'n unigol, ond maent yn debygol o fod o werth cadwraeth is.

7.52 Fodd bynnag, gall gwerth bioamrywiaeth safleoedd lleol gael ei gynyddu trwy fod ag unrhyw briodoleddau o blith yr isod.

- Amrywiaeth
- Prinder
- Naturioldeb
- Maint
- Nodweddiadoldeb
- Breuder
- Digymharwch.

7.53 Nodweddion eraill a allai gynyddu pwysigrwydd safle yw lle mae'r safle'n gweithredu fel 'cam graddol', yn darparu cysylltedd rhwng cynefinoedd neu'n gweithredu fel clustogfa i safle dynodedig. Bydd safleoedd ag un neu fwy o'r priodoleddau hyn yn bwysig o ran gwerth bioamrywiaeth.

7.54 Lle mae gan safle werth bioamrywiaeth, a lle bydd y datblygiad yn debygol o gael effaith anffafriol ar fioamrywiaeth, rhaid i'r angen am ddatblygu gael ei ystyried ochr yn ochr â gwerth bioamrywiaeth y safle datblygu arfaethedig. Lle bydd datblygiad yn cael effaith anffafriol ar werth bioamrywiaeth safle, rhaid i'r datblygiad ddangos bod yr angen am y datblygiad yn amlwg yn gorbwyso gwerth bioamrywiaeth y safle.

7.55 Rhaid i ddatblygwyr ddangos pa fesurau sydd wedi cael eu cymryd i osgoi effaith anffafriol ar fioamrywiaeth a pha fesurau lliniaru fydd yn cael eu rhoi ar waith i leihau i'r eithaf yr effaith ar fioamrywiaeth. Lle nad yw mesurau osgoi a lliniaru rhesymol yn ddigon i leihau effaith anffafriol i'r eithaf, dylid mynd i'r afael ag unrhyw effaith weddillol gan ddefnyddio mesurau digolledu priodol a chymesur. Yn ddelfrydol, dylai mesurau digolledu fod wedi'u lleoli mor agos â phosibl at y safle gwreiddiol a bod ar sail gyfatebol. Dylid dewis mesurau lliniaru a safleoedd digolledu mewn modd sy'n cynnal adnoddau neu nodweddion bioamrywiaeth.

7.56 Mae hi bron wastad yn bosibl gwella bioamrywiaeth ar safleoedd datblygu. Dylai lefelau gwella fod yn gymesur â lefel yr effaith anffafriol a graddfa'r datblygiad. Ymhlith y nodweddon lliniaru y gellir eu cynnwys y mae: tanffyrdd ar gyfer anifeiliaid bychain, blychau adar ar adeiladau newydd, coridorau hedfan tywyll â llystyfiant, pyllau, perthi, rhywogaethau brodorol mewn cynlluniau plannu, draenio sy'n ystyriol o fadfallod dŵr. Mae'r nodweddion hyn nid yn unig yn lliniaru ac yn gwella, ond maent hefyd yn gwneud cyfraniad sylweddol tuag at gynaliadwyedd a chynllunio adnoddau naturiol; gan sicrhau bod datblygiadau newydd yn y Fro "wedi'u diogelu ar gyfer y dyfodol" gan ddarparu ar gyfer mudo a chytrefu mewn ymateb i'r newid yn yr hinsawdd.

## POLISI MD10 -
## DATBLYGIADAU TAI FFORDDIADWY Y TU ALLAN I FFINIAU ANEDDIADAU

**Bydd datblygiadau tai fforddiadwy ar raddfa fach yn cael eu caniatáu y tu allan i ffiniau aneddiadau lle mae ganddynt berthynas ffisegol neu weledol unigryw ag anheddiad presennol a lle dangosir:**

1. **Bod y cynnig yn diwallu angen lleol dynodedig na ellir ei ddiwallu o fewn ffiniau aneddiadau dynodedig;**
2. **Bod nifer yr anheddau'n gymesur â maint yr anheddiad;**
3. **Y bydd yr annedd/anheddau arfaethedig o faint, deiliadaeth a dyluniad sy'n gymesur â'r angen am dai fforddiadwy;**
4. **Mewn achosion lle mae'r annedd yn mynd i gael ei darparu naill ai gan landlord preifat neu'r meddiannydd bwriadedig, bod mecanweithiau sicr wedi'u sefydlu i sicrhau y bydd yr eiddo'n parhau i fod yn fforddiadwy hyd byth; a hefyd**
5. **Bod gan y datblygiad fynediad rhesymol at argaeledd ac agosrwydd gwasanaethau a chyfleusterau cymunedol lleol.**

7.57 O ran ceisio darparu cymunedau cynaliadwy, mae Strategaeth y CDLl yn cyfeirio tai newydd at aneddiadau o fewn yr hierarchaeth aneddiadau sy'n meddu ar fynediad da neu sydd â mynediad da at ystod eang o wasanaethau a chyfleusterau (cyfeirier at Bolisi MD5). Fodd bynnag, gall fod achosion lle mae'r angen am dai'n codi y tu allan i ffiniau aneddiadau preswyl presennol neu o fewn pentrefi nad ydynt wedi'u cynnwys o fewn yr hierarchaeth aneddiadau. Mae Polisi MD10 yn gwneud darpariaeth i ganiatáu tai fforddiadwy yn yr ardaloedd hyn y tu allan i'r aneddiadau hynny â ffiniau aneddiadau wedi'u nodi yn hierarchaeth aneddiadau'r CDLl. Bydd cynigion o'r fath yn cael eu hystyried fel "eithriadau" i'r polisïau tai cyffredinol yn y Cynllun, er y bydd angen o hyd i ddatblygiadau fod â mynediad rhesymol at wasanaethau a chyfleusterau cymunedol lleol mewn aneddiadau cyfagos a bodloni'r meini prawf penodedig a pholisïau perthnasol eraill yn y Cynllun.

7.58 Rhaid i ddatblygiadau newydd gael eu hintegreiddio o fewn y patrwm aneddiadau presennol er mwyn iddynt beidio ag effeithio'n anffafriol ar eu cymeriad gwledig neu eu lleoliad. Yn unol â hynny, bydd angen i unrhyw gynllun tai fforddiadwy fod ar raddfa sy'n gymesur â maint yr anheddiad presennol, a chydymffurfio ar y cyfan â Pholisïau MD1 ac MD2 er mwyn sicrhau bod tai fforddiadwy newydd yn cael eu hintegreiddio'n briodol o fewn yr aneddiadau llai presennol ym Mro Morgannwg. Bydd ar raddfa fach at ddiben Polisi MD10 ar y cyfan yn golygu 10 annedd neu lai; fodd bynnag, yn neu ar bwys rhai o'r aneddiadau mwy, gall cynigion ar gyfer mwy na 10 annedd fod yn dderbyniol os ydynt yn ofynnol i ddiwallu angen penodol a lle mae nifer yr anheddau'n gymesur â maint yr anheddiad ac yn bodloni'r holl feini prawf eraill y byddai datblygiad tai'n cael ei farnu ar eu sail.

7.59 Ar y cyfan, bydd y Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol bod tai fforddiadwy'n cael eu darparu gan Landlord Cymdeithasol Cofrestredig neu'r gymuned ei hun, er enghraifft trwy ymddiriedolaeth tir cymunedol. Ar gyfer datblygiadau a gynigir gan ddatblygwr preifat bydd y Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol bod yr annedd/anheddau'n parhau i fod yn fforddiadwy hyd byth. Bydd hyn yn cael ei sicrhau trwy amod cynllunio neu gytundeb cyfreithiol. Bydd hyn yn golygu ei bod ofynnol bod pris ailwerthu'r eiddo'n cael ei gapio ar lefel fforddiadwy. Bydd gwneud hyn yn sicrhau bod yr annedd yn un â dyluniad ac ar raddfa sy'n fforddiadwy i'r gymuned ehangach. Yr unig eithriad i hyn fydd mewn achosion lle mae'r eiddo ym meddiant y morgeisai.

7.60 Mewn achosion lle mae datblygwr preifat yn cynnig datblygu a rheoli'r tai fforddiadwy heb gynnwys Landlord Cymdeithasol Cofrestredig, bydd cytundeb Adran 106 yn cael ei ddefnyddio i sicrhau mai dim ond gan bobl sydd ag angen lleol am dai y bydd y cartrefi'n cael eu meddiannu, i ddechrau a phan fydd y meddiannwr yn newid wedi hynny. At ddiben y Polisi hwn mae 'angen lleol am dai' yn cyfeirio at aelwydydd â chysylltiad lleol at yr ardal y mae arnynt angen tai fforddiadwy. Mae'r Cyngor yn gweithredu Polisi Gosodiadau Lleol ar gyfer cynlluniau tai fforddiadwy gwledig i sicrhau

eu bod yn diwallu'r angen lleol am dai. Bydd blaenoriaeth (1) yn cael ei rhoi i'r ymgeiswyr hynny â chysylltiad lleol â'r ardal (fel arfer y pentref(i) o fewn ychydig filltiroedd i'r safle datblygu neu o fewn ardal y cyngor cymuned). Bydd cysylltiad lleol yn cael ei ddiffinio fel a ganlyn: preswylydd presennol yn yr ardaloedd am y 12 mis diwethaf neu 3 allan o'r 5 mlynedd ddiwethaf; person neu aelwyd â rhieni neu deulu agos yn byw yn yr ardal; pobl wedi'u cyflogi'n barhaol (neu sy'n symud i gael eu cyflogi'n barhaol) yn yr ardal; pobl sy'n ymddeol o lety clwm yn yr ardal. Wrth ddyrannu eiddo, os nad oes digon o ymgeiswyr â chysylltiad lleol yna rhoddir blaenoriaeth (2) wedyn i ymgeiswyr o'r ardaloedd cyngor cymuned cyfagos, yn enwedig pentrefi lleol. Os na cheir digon o geisiadau o grwpiau Blaenoriaeth 1 a 2, yna rhoddir blaenoriaeth i ymgeiswyr â chysylltiad teuluol estynedig â'r ardal. Er bod hynny'n annhebygol, os nad oes digon o ymgeiswyr wrth ystyried y flaenoriaeth uchod, yma ymgeiswyr o'r ward etholiadol fydd y rhai nesaf i gael eu hystyried, ac yna ymgeiswyr o weddill y Fro wledig. Os na fydd digon o ymgeiswyr yn yr ardaloedd hyn ychwaith, yna gellir ymestyn gosodiadau i ymgeiswyr sy'n byw mewn rhannau eraill o Fro Morgannwg.

7.61 Dylai maint annedd adlewyrchu gofynion byw rhesymol yr ymgeisydd. Lle nad yw meddianwyr posibl wedi cael eu hadnabod eto, dylid darparu anheddau sy'n ateb y gofynion a nodir yn Asesiad y Cyngor o'r Farchnad Dai Leol[33]. Yn y cyswllt hwn, gall y Cyngor reoli hawliau datblygu a ganiateir yn y dyfodol i sicrhau nad yw tai'n cael estyniad nac yn cael eu haddasu mewn unrhyw ffordd i gynyddu gwerthoedd y tu hwnt i lefel fforddiadwy. Bydd y Cyngor yn ystyried addasrwydd unrhyw addasiadau neu estyniadau yn y dyfodol lle mae ar feddiannydd ag anableddau angen hynny neu i dderbyn estyniadau priodol ar gyfer twf teuluoedd.

## POLISI MD11 -
### ADDASU AC ADNEWYDDU ADEILADAU GWLEDIG

**Bydd cynigion i addasu neu adnewyddu adeiladau gwledig presennol ar gyfer defnydd gan fentrau gwledig, defnydd twristaidd, defnydd gan y gymuned neu ddefnydd preswyl yn dderbyniol dan yr amgylchiadau canlynol:**

1. **Lle na fyddai addasu adeilad gwledig presennol yn achosi'r angen am adeilad yn ei le; a**
2. **Lle gellir ailddefnyddio'r adeilad heb unrhyw ail-adeiladu, estyniad neu addasiad sylweddol sy'n effeithio'n annerbyniol ar edrychiad a chymeriad gwledig yr adeilad neu ei leoliad;**

**Bydd cynigion ar gyfer addasiadau i ddefnydd preswyl yn cael eu caniatáu dim ond lle dangosir;**

3. **Bod yr adeilad wedi cael ei farchnata'n briodol ar gyfer defnyddiau eraill megis arallgyfeirio ar fferm, busnes, y gymuned, twristiaeth, neu ddefnyddiau hamdden ac y dangoswyd nad yw defnyddiau eraill o'r fath yn ddichonadwy; a**
4. **Bod lleoliad yr adeilad yn gynaliadwy o ran mynediad at wasanaethau lleol, trafnidiaeth gyhoeddus a chyfleusterau cymunedol.**

7.62 Gyda newidiadau mewn arferion ffermio, nid oes angen llawer o adeiladau gwledig mwyach. Yn y Fro wledig, mae rhai o'r adeiladau hyn yn ychwanegu cryn dipyn at gymeriad cefn gwlad ac at unigrywiaeth lleol. Lle y bo'n bosibl mae'r Cyngor yn dymuno gweld adeiladau gwledig, yn enwedig y rhai sydd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol, yn cael eu cadw. Y dewis a ffefrir gan y Cyngor yw bod yr adeiladau hyn yn cael eu datblygu ar gyfer defnyddiau eraill sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at economi wledig Bro Morgannwg yn unol â pholisi cenedlaethol.

7.63 Mae llawer o adeiladau gwledig Bro Morgannwg yn ysguboriau wedi'u hadeiladu naill ai o garreg draddodiadol neu frics sydd o werth pensaernïol (a hwythau ar y cyfan yn dyddio'n ôl i'r cyfnod cyn 1914). Fodd bynnag, ceir nifer o adeiladau gwledig modern hefyd sy'n aml yn rhagsaernïedig ac iwtilitaraidd o ran eu harddull. Ar gyfer adeiladau gwledig traddodiadol a modern, bydd y Cyngor yn ffafrio ailddefnyddiau sy'n gallu gwneud cyfraniad cadarnhaol at yr economi wledig, megis mentrau gwledig, siopau ffermydd a chrefftau, mentrau masnachol a diwydiannol ysgafn ar raddfa fach, neu gyfleusterau twristiaeth a hamdden. Er mwyn sicrhau bod addasiadau'n gwneud cyfraniad

[33] Asesiad o Farchnad Dai Leol Bro Morgannwg (2015)

cadarnhaol at yr economi wledig, mae Maen Prawf 3 yn ei gwneud yn ofynnol bod cynigion ar gyfer defnydd preswyl yn cael eu hategu gan dystiolaeth farchnata briodol i ddangos bod yr adeilad wedi cael ei farchnata ar gyfer defnyddiau eraill am o leiaf 12 mis. Gallai gwybodaeth gan yr asiant neu'r ymgeisydd ynglŷn â'r galw am ddefnyddiau eraill fod ar ffurf adroddiad marchnata neu ohebiaeth oddi wrth yr asiant eiddo perthnasol. Gallai'r math o wybodaeth gynnwys y canlynol:

- Am faint o amser mae'r adeilad gwledig wedi bod yn peidio â chael ei ddefnyddio at ddibenion amaethyddol;
- Y mathau o ddefnyddiau y mae'r adeilad gwledig wedi bod yn cael ei farchnata ar eu cyfer, beth oedd y strategaeth farchnata'n ei gynnwys a'i hyd; a
- Faint o ddiddordeb a fu yn yr adeilad gwledig yn ystod y cyfnod marchnata – dylai hyn nodi nifer yr ymholiadau, y mathau o ddefnyddiau a oedd yn cael eu ceisio ac, os yw'n hysbys, y rheswm dros beidio â chanlyn unrhyw ymholiadau cychwynnol.

7.64 Er gwaethaf y dewisiadau hyn a ffefrir, y cynigion mwyaf cyffredin ym Mro Morgannwg yw cynigion i addasu adeiladau gwledig traddodiadol ar gyfer defnydd preswyl. Gall cynigio o'r fath arwain at batrwm gwasgaredig o anheddau sy'n achosi teithiau newydd a hwy i aneddiadau ac at wasanaethau ac sydd hefyd yn rhoi pwysau ychwanegol ar y Cyngor i ddarparu gwasanaethau a chyfleusterau hanfodol yn aml mewn lleoliadau ynysig. Felly mae maen prawf 4 yn datgan y bydd defnydd preswyl yn dderbyniol dim ond mewn lleoliadau sy'n gynaliadwy ac na fyddent yn achosi i'r meddianwyr fod yn or-ddibynnol ar y cerbyd modur preifat. Mewn lleoliadau gwledig mwy ynysig lle na fyddai datblygiadau preswyl yn dderbyniol fel arall, bydd cynigion ar gyfer addasiadau preswyl yn cael eu cyfyngu i lety twristaidd a bydd amodau o ran meddiannaeth yn cael eu gosod i atal meddiannaeth breswyl hirdymor.

7.65 Rhaid i waith i addasu adeiladau gwledig traddodiadol a modern fod yn gydnaws â'u lleoliad a pheidio â golygu bod angen unrhyw estyniadau neu addasiadau a fyddai'n achosi newid sylweddol yng nghymeriad yr adeilad gan gynnwys ei leoliad yn y dirwedd wledig. Ar gyfer adeiladau gwledig traddodiadol, mae canllawiau ar wahân wedi'u cynnwys yng Nghanllawiau Cynllunio Atodol y Cyngor, "Addasu Adeiladau Gwledig". Mae'n annhebygol y bydd unrhyw waith mawr i ailfodelu naill ai'r adeilad ei hun neu ei leoliad mewn modd na fyddai'n cynnal nac yn gwella'i gymeriad gwledig presennol yn cael ei ystyried yn ffafriol.

## POLISI MD12 -

### ANHEDDAU YNG NGHEFN GWLAD

**Bydd cynigion i godi annedd yn lle annedd bresennol yng nghefn gwlad yn cael eu caniatáu dan yr amgylchiadau canlynol**

1. **Os oes gan yr annedd ddefnydd preswyl cyfreithlon sydd wedi'i gadarnhau;**
2. **Os na fyddai'n arwain at golli annedd sy'n cyfrannu'n sylweddol at gymeriad gwledig yr ardal, oni bai y gellir dangos yn gyntaf bod yr adeilad yn ansad yn strwythurol a bod atgyweiriadau'n anhyfyw yn economaidd neu fod cyfyngiadau ffisegol neu amgylcheddol presennol ar y safle'n cyfyngu ar y gallu i godi estyniad priodol ar yr eiddo presennol;**
3. **Os byddai'r annedd newydd, oherwydd ei graddfa, ei safle, ei dyluniad, ei defnyddiau, ei nodweddion tirlunio a'i hymddangosiad allanol, yn gydnaws â'r amgylchedd adeiledig a naturiol o amgylch ac yn peidio â chael unrhyw effaith sy'n sylweddol fwy ar y dirwedd; ac**
4. **Os nad yw'r cynnig yn golygu bod angen estyniad annerbyniol ar y cwrtil preswyl.**

**Bydd estyniadau i anheddau yng ngefn gwlad yn cael eu caniatáu os yw'r annedd, ar ôl codi estyniad arni:**

1. **Heb fod yn anghymesur o ran maint â'r annedd wreiddiol,**
2. **Yn peidio â chael unrhyw effaith annerbyniol ar gymeriad yr annedd bresennol a'i chyfraniad at gymeriad gwledig; ac**
3. **Yn peidio â chael unrhyw effaith sy'n sylweddol fwy ar y dirwedd.**

7.66 At ddibenion y CDLl, diffinnir cefn gwlad fel yr ardal honno o dir sy'n gorwedd y tu allan i ffiniau aneddiadau'r prif drefi a phentrefi a nodir yn hierarchaeth aneddiadau'r CDLl nad yw wedi cael ei datblygu ar gyfer defnydd cyflogaeth na'i dyrannu i'w datblygu yn y Cynllun. Bydd cynigion ar gyfer anheddau newydd yn lle rhai presennol yng nghefn gwlad yn cael eu caniatáu lle gellir dangos bod gan yr annedd ddefnydd a gadarnhawyd ac nad yw wedi cael ei gadael. Bydd gwaith i godi annedd newydd yn lle annedd bresennol lle na ellir dangos bod yr eiddo'n dal i gael ei ddefnyddio'n cael ei drin fel annedd newydd. Mewn achosion lle gellir cadarnhau defnydd parhaus, bydd gwaith i godi annedd newydd yn lle annedd bresennol sy'n cyfrannu'n sylweddol at gymeriad gwledig yr ardal yn cael ei ganiatáu dim ond lle dangosir naill ai bod difrod strwythurol wedi cael effaith annerbyniol ar yr eiddo ac mai codi annedd newydd yw'r dewis sydd fwyaf hyfyw yn economaidd neu lle effeithir ar y safle gan gyfyngiadau amgylcheddol sy'n cyfyngu ar y gallu i godi estyniad priodol ar yr eiddo, er enghraifft lle effeithiwyd yn annerbyniol ar ran o'r safle gan berygl llifogydd neu dir ansad.

7.67 Dan amgylchiadau o'r fath, bydd disgwyl i'r annedd newydd wneud cyfraniad cadarnhaol at yr amgylchedd lleol, a pheidio â chael unrhyw effaith sy'n sylweddol fwy ar y dirwedd na'r annedd y mae'n ei disodli. Yn hyn o beth, ni ddylai'r annedd newydd fod yn anghymesur o ran maint â'r annedd sy'n cael ei disodli, na bod ar raddfa a fyddai'n effeithio'n sylweddol ar gymeriad preswyl eiddo yn yr ardal. Hefyd, dylai dyluniad allanol a deunyddiau'r annedd newydd fod yn gydnaws â'r amgylchedd lleol. Hefyd, gellir gosod amodau cynllunio i gyfyngu ar hawliau datblygu a ganiateir mewn perthynas ag estyniadau ac addasiadau ychwanegol. Mae hyn wedi'i fwriadu i ganiatáu i'r Cyngor gadw rheolaeth ar fân estyniadau / addasiadau i'r annedd newydd yn y dyfodol y mae angen iddynt fod yn sensitif o ystyried y lleoliad gwledig.

7.68 Mae gan estyniadau i anheddau presennol yng nghefn gwlad y gallu i newid cymeriad annedd yn sylweddol a chynyddu effaith ffisegol datblygu ar y dirwedd. Bydd estyniadau o'r fath yn cael eu rheoli'n llym o ran eu graddfa, eu dyluniad a'u hymddangosiad i adlewyrchu eu lleoliad gwledig, gyda Pholisi MD13 yn ceisio cadw cymeriad gwledig anheddau a lliniaru effaith ffisegol estyniadau o'r fath ar y dirwedd o amgylch.

7.69 Mae polisi cenedlaethol sydd wedi'i gynnwys ym mhennod 9 ym Mholisi Cynllunio Cymru yn ceisio arfer rheolaeth lem ar ddatblygu anheddau newydd yng nghefn gwlad agored, lle ceir diffyg cyfleoedd cyflogaeth, gwasanaethau a chyfleusterau trafnidiaeth gyhoeddus ar y cyfan ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae Polisi Cynllunio Cymru yn cydnabod y gall fod achosion lle gall mewnlenwi grwpiau o anheddau neu godi mân estyniadau iddynt fod yn dderbyniol (yn arbennig ar gyfer tai fforddiadwy i ddiwallu angen lleol). Bydd cynigion ar gyfer datblygiadau o'r fath yn cael eu hasesu yn erbyn y fframwaith polisi cenedlaethol hwn. Lle gellir cyfiawnhau datblygiad newydd yng nghefn gwlad agored, bydd polisïau perthnasol yn y CDLl yn gymwys hefyd, megis Polisïau MD2 Dyluniad Datblygiadau Newydd ac MD10 Tai Fforddiadwy. Hefyd, mae polisi cenedlaethol yn darparu ar gyfer anheddau newydd i letya mentrau cymdeithasol gwledig a 'datblygiadau un blaned' fel eithriadau ar gyfer datblygiad preswyl yng nghefn gwlad agored a rhoddir canllawiau eglur ynghylch y mathau hyn o ddatblygiadau yn TAN 6 Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy (Gorffennaf 2010).

## POLISI MD13 -
### TWRISTIAETH A HAMDDEN

**Bydd cynigion i ddatblygu cyfleusterau twristiaeth a hamdden newydd neu well yn cael eu caniatáu lle mae'r cynnig:**

1. **Wedi'i leoli o fewn yr anheddiad allweddol, y canolfannau gwasanaeth, prif aneddiadau a man aneddiadau gwledig; neu**

**2. Yn rhan o fenter wledig neu gynllun arallgyfeirio ar fferm; neu**

**3. Yn golygu addasu adeilad gwledig presennol yn unol â pholisi MD11; neu**

**4. Yn cynnwys cynigion twristiaeth a hamdden bach eu heffaith yng ngefn gwlad; a**

**Bydd cynigion a fyddai'n arwain at golli cyfleusterau twristiaeth a hamdden presennol yn cael eu gwrthod oni bai y gellir dangos bod cyflenwad digonol o gyfleusterau yn yr ardal i ateb y galw a/neu fod y cyfleuster wedi cael ei farchnata ac y profwyd nad yw'n hfyw yn economaidd mwyach.**

7.70 Mae Bro Morgannwg yn ardal sy'n gyforiog o dirwedd, morlun a threflun deniadol. Mae'r Cyngor o'r farn bod darparu cyfleusterau twristiaeth sydd wedi'u lleoli'n briodol ac wedi'u dylunio'n dda yn gyfle arwyddocaol i ddenu buddsoddiad newydd i Fro Morgannwg.

7.71 Mae darparu cyfleusterau twristiaeth newydd a gwell ym Mro Morgannwg yn elfen allweddol o Strategaeth Dwristiaeth y Cyngor a'r CDLl. Bydd cynigion ar gyfer llety twristiaeth newydd megis gwestai, sefydliadau gwely a brecwast, safleoedd gwersylla neu feysydd carafanau yn cael eu ffafrio lle mae'r datblygiad wedi'i leoli mewn aneddiadau a nodir yn yr hierarchaeth aneddiadau neu lle maent yn hybu mentrau gwledig a / neu arallgyfeirio. Byddai twristiaeth sy'n fach ei effaith yn cynnwys canolfannau dehongli, llwybrau troed, a datblygiadau eraill megis safleoedd gwersylla lle mae'r effeithiau ar yr ardal leol yn aml ar raddfa fach ac yn dymhorol. Mae gweithgareddau marchogaeth yn boblogaidd ym Mro Morgannwg a gallant gyfrannu at gyfleusterau twristiaeth a hamdden yn ogystal â'r economi wledig. Bydd dyluniad a lleoliad cyfleusterau newydd neu well yn cael eu hasesu yn unol â Pholisi MD2. Hefyd, bydd cynigion sy'n ymwneud â thwristiaeth gynaliadwy'n cael eu cefnogi ar y cyfan ar yr amod eu bod ar raddfa briodol a bod eu dyluniad yn briodol i'r ardal o'u cwmpas.

7.72 Rhywbeth sy'n hanfodol i ddatblygu diwydiant twristiaeth cadarn yw'r gofyniad i gadw cyfleusterau twristiaeth presennol. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod y diwydiant twristiaeth yn y Barri a Phenarth wedi bod yn dirywio am nifer o flynyddoedd, gyda llawer o gyfleusterau'n cael eu colli i ddefnyddiau eraill. Bydd cynigion i ailddatblygu cyfleusterau twristiaeth presennol ar gyfer defnyddiau eraill yn cael eu caniatáu dim ond lle dangosir nad yw'r cyfleuster yn hyfyw yn economaidd mwyach, neu lle ceir gwarged o ran cyflenwad o'r un math o ddefnydd ym Mro Morgannwg. Bydd y Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol bod cynigion yn cael eu hategu gan dystiolaeth nad yw cadw'r cyfleuster yn hyfyw yn economaidd mwyach neu'n ofynnol at ddibenion twristiaeth. Fel rhan o'r broses hon bydd y Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr ddangos bod y cyfleuster wedi cael ei farchnata'n weithredol am gyfnod o 12 mis am bris realistig.

## POLISI MD14 -
### CYNIGION CYFLOGAETH NEWYDD

**Ar safleoedd cyflogaeth presennol a rhai sydd wedi'u dyrannu bydd cynigion datblygu ar gyfer defnyddiau cyflogaeth B1, B2 a B8, a defnyddiau atodol cyflenwol, yn cael eu cefnogi.**

**Mewn mannau eraill bydd cynigion ar gyfer defnyddiau cyflogaeth newydd yn cael eu caniatáu dan yr amgylchiadau canlynol:**

**1. Os ydynt wedi'u lleoli o fewn neu ar bwys ffin anheddiad presennol, os yw graddfa'r defnydd cyflogaeth a'r math o ddefnydd cyflogaeth yn ategu eu lleoliad a defnyddiau cyfagos; neu**

**2. Os yw'r cynnig yn un ar gyfer menter amaethyddiaeth, coedwigaeth neu wledig lle gellir cyfiawnhau'r angen am leoliad gwledig; neu**

**3. Lle dangosir yn glir bod natur y busnes yn golygu bod lleoliad i ffwrdd oddi wrth aneddiadau a/neu ardaloedd cyflogaeth presennol yn angenrheidiol er mwyn lleddfu'r effaith ar amwynder.amenity.**

7.73 Mae Polisi Strategol 5 yn nodi'r gofynion o ran tir cyflogaeth, a hierarchaeth o safleoedd cyflogaeth o bwysigrwydd rhanbarthol a lleol, y mae'r Cyngor o'r farn y byddant yn darparu ar gyfer dewis hyblyg, i ddiwallu anghenion cyflogaeth y Fro dros gyfnod y Cynllun. Mae'r safleoedd mewn lleoliadau da mewn perthynas â chanolfannau cyflogaeth presennol ac ardaloedd lle mae datblygiadau cyflogaeth newydd wedi digwydd yn barod ydynt yn bennaf. Safleoedd cyflogaeth presennol yw'r safleoedd hynny sydd eisoes yn cael eu defnyddio ar gyfer defnyddiau B1, B2 a B8 ac fe'u dangosir ar Fap Cynigion y CDLl.

7.74 Yn unol â hynny, mae Polisi MD14 yn cefnogi cynigion ar gyfer defnyddiau cyflogaeth B1, B2 a B8 newydd, gan gynnwys defnyddiau atodol cyflenwol lle y bo'n briodol, ar safleoedd presennol neu safleoedd wedi'u dyrannu er mwyn cefnogi twf economaidd a hyfywedd hirdymor ardaloedd cyflogaeth presennol.

7.75 Mae'r Cynllun hefyd yn cydnabod bod achlysuron pan all beidio â bod yn briodol i gynigion cyflogaeth newydd gael eu lleoli ar safleoedd cyflogaeth presennol, megis gweithio gartref a busnesau ar raddfa fach. Felly mae Polisi MD14 yn cefnogi cyfleoedd sy'n galluogi busnesau newydd i ddatblygu ar safleoedd heb eu dyrannu o fewn neu ar bwys aneddiadau presennol.

7.76 Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn cydnabod bod diwydiannau y mae angen iddynt, oherwydd natur eu gweithgareddau, gael eu lleoli i ffwrdd o ardaloedd cyflogaeth gyffredinol sefydledig a chryn bellter o ardaloedd preswyl er mwyn osgoi effeithiau negyddol. Mae nifer o safleoedd cyflogaeth presennol wedi'u lleoli i ffwrdd oddi wrth adeiladau preswyl, gan gynnwys Ystâd Fasnachu'r Iwerydd, y Porth Gweithredol yn Nociau'r Barri ac Ystâd Ddiwydiannol Lland▯, a dylid ymchwilio i dir sydd ar gael yn yr ardaloedd hyn yn y lle cyntaf. Gall fod angen lleoliad gwledig yn benodol ar ddiwydiannau eraill, h.y. arallgyfeirio gwledig, amaethyddiaeth neu goedwigaeth ac mae Polisi MD14 yn cefnogi'r rhain.

7.77 Yn unol â'r prawf cymalog a gefnogir yn TAN 23, y tu allan i safleoedd cyflogaeth a ffiniau aneddiadau, ac eithrio datblygu gwledig a ganiateir gan Faen Prawf 2, bydd angen i'r Cyngor fod wedi'i argyhoeddi bod dull cymalog wedi cael ei ddefnyddio wrth adnabod y safle a bod yr holl opsiynau posibl wedi cael eu harchwilio sy'n dangos bod cyfiawnhad dros y lleoliad arfaethedig a'i fod yn opsiwn priodol wrth ystyried manteision posibl y cynnig ac anghenion y busnes a gynigir.

## POLISI MD15 -
### DIOGELU SAFLEOEDD CYFLOGAETH A DDYRANNWYD

**Ar ddyraniadau cyflogaeth strategol a lleol (cyfeirier at Bolisi MG9) ni fydd cynigion ar gyfer defnyddiau cyflogaeth heblaw dosbarth B, ac eithrio mân ddefnyddiau atodol, yn cael eu caniatáu. Bydd cynigion ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff ar y safleoedd a nodir ym mholisi MG9 yn cael eu ffafrio.**

7.78 Mae cynnal banc tir o safleoedd, yn enwedig lle gellir derbyn sectorau twf, yn hanfodol i lwyddiant mentrau a buddsoddiadau datblygu economaidd yr ardal. Felly, ni fydd cynigion ar gyfer defnyddiau eraill ar y dyraniadau o ran safleoedd cyflogaeth strategol a lleol a nodir ym Mholisi MG9 at ddibenion heblaw cyflogaeth yn cael eu caniatáu er mwyn gwarchod eu statws fel safleoedd cyflogaeth sy'n bwysig yn rhanbarthol ac yn lleol.

7.79 Gall defnyddiau atodol, bach y tu allan i Ddosbarth B, megis caffis, créches a chyfleusterau hyfforddi sy'n creu cyfleoedd cyflogaeth ac yn cefnogi swyddogaeth ehangach safleoedd cyflogaeth fod yn briodol lle na fyddai hyn yn effeithio ar gyfanrwydd y safleoedd hyn, neu'n lleihau'r cyflenwad o dir cyflogaeth yn annerbyniol. Yn yr un modd, ac yn amodol ar bolisïau gwastraff y Cynllun hwn, ystyrir bod y safleoedd cyflogaeth leol a nodir ym Mholisi MG9 yn lleoliadau addas ar gyfer cyfleusterau gwastraff

## POLISI MD16 -
**DIOGELU SAFLEOEDD AC ADEILADAU CYFLOGAETH PRESENNOL**

**Caiff y safleoedd canlynol eu henwi yn y cynllun fel safleoedd cyflogaeth presennol:**

1. **Dociau'r Barri.**
2. **Y Cyfadeilad Cemegol, y Barri.**
3. **Ystâd Fasnachu'r Iwerydd, y Barri.**
4. **Ystâd Fasnachu Palmerston, y Barri.**
5. **Ystâd Ddiwydiannol Sully Moors Road, y Barri.**
6. **Ystâd Ddiwydiannol Tŷ Verlon, y Barri.**
7. **Parc Busnes Cardiff Road, y Barri.**
8. **Canolfan Fenter y Fro, y Barri.**
9. **St Hilary Court, Croes Cwrlwys.**
10. **Ystâd Fasnachu Llandochau, Llandochau (Penarth).**
11. **Ystâd Fasnachu West Point, Llanochau, Llandough (Penarth).**
12. **Maes Awyr /Parc Busnes Maes Awyr Caerdydd, y Rhws.**
13. **Safle'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn Sain Tathan.**
14. **Pwerdy Aberddawan.**
15. **Gwaith Sment Aberddawan.**
16. **Y Parc Busnes Treftadaeth, Llanilltud Fawr.**
17. **Ystâd Fasnachu Llandŵ.**
18. **Parc Busnes y Fro, Llandŵ.**
19. **Parc Busnes Dyffryn, Llandŵ.**
20. **Ystâd Ddiwydiannol West Winds, Llangan.**
21. **Renishaw, tir i'r de o Gyffordd 34 yr M4.**

**Ar safleoedd ac mewn adeiladau cyflogaeth presennol bydd cynigion ar gyfer defnyddiau cyflogaeth nad ydynt yn perthyn i gategori B1, B2 na B8 yn cael eu caniatáu dim ond dan yr amgylchiadau canlynol:**

1. **Os yw'r cynnig yn un ar gyfer defnyddiau atodol neu sui generis na fyddent yn arwain yn unigol nac yn gronnol at newid stylweddol yn natur y safle cyflogaeth; neu**
2. **Os yw'r defnydd cyflogaeth presennol yn cael effeithiau anffafriol annerbyniol ar amwynder neu'r amgylchedd; neu**
3. **Os oes tir o ansawdd cystal neu well ar gael ar gyfer defnyddiau cyflogaeth yn rhywle arall; neu**
4. **Os dangosir nad yw'r safle neu'r adeilad yn addas neu'n hyfyw mwyach at ddibenion cyflogaeth; ac**
5. **Os na fyddai'r cynnig yn peryglu defnyddiau cyflogaeth presennol neu gyfagos, yn cael effaith annerbyniol ar amwynder neu'r amgylchedd ac os na fyddai'n arwain at newid sylweddol yn natur y safle cyflogaeth**

7.80 Mae safleoedd ac adeiladau cyflogaeth leol presennol wedi cael eu henwi ym Mholisi MD16 ac ar y Map Cynigion. Mae'r rhain yn darparu cyfleoedd gwerthfawr ar gyfer cyflogaeth yn agos at ble y mae pobl yn byw ac yn cefnogi twf economaidd a'r economi leol. Gan hynny gall colli defnyddiau cyflogaeth effeithio'n negyddol ar fynediad at swyddi lleol a chystadleurwydd yr ardal leol. Mae Astudiaeth Tir ac Adeiladau Cyflogaeth y Cyngor (2013) yn amlygu prinder cymharol ystod a dewis o dir sydd ar gael ac sy'n ddatblygadwy, ochr yn ochr â galw dynodedig o blith busnesau bach newydd a lle i "dyfu ymhellach" ym Mro Morgannwg.

7.81 Mae Polisi MD16 yn ceisio diogelu rhag colli safleoedd ac adeiladau cyflogaeth presennol i ddefnydd heblaw cyflogaeth, oni bai y dangosir yn glir nad yw'r safle'n addas neu'n hyfyw mwyach ar gyfer defnyddiau cyflogaeth; neu fod y defnydd cyflogaeth presennol yn cael effeithiau anffafriol annerbyniol ar amwynder neu'r amgylchedd; neu fod tir o ansawdd cystal neu well ar gael ar gyfer defnydd cyflogaeth yn rhywle arall. Lle mae cynigion yn golygu colli safle neu adeilad cyflogaeth presennol bydd y Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol eu hategu â thystiolaeth briodol sy'n eu cyfiawnhau dan y Polisi. Bydd y math o dystiolaeth sy'n ofynnol yn amrywio gan ddibynnu ar y defnydd ac amgylchiadau unigol ond gall gynnwys manylion pam nad yw'r tir neu'r adeilad yn cael ei ddefnyddio mwyach a thystiolaeth i ddangos bod ymdrechion priodol a rhesymol wedi cael eu gwneud i'w farchnata i'w werthu neu ei osod ar brydles ar gyfer ei ddefnydd presennol.

7.82 Gallai gwybodaeth gan yr asiant neu'r ymgeisydd ynghylch y galw (mewn perthynas â Maen Prawf 4) fod ar ffurf adroddiad marchnata neu ohebiaeth oddi wrth yr asiant eiddo perthnasol. Gallai'r math o wybodaeth gynnwys y canlynol:

- Manylion meddianwyr presennol, os oes rhai;
- Os yn briodol, am faint o amser y mae eiddo neu safle wedi bod yn wag;
- Y math o ddefnydd y mae'r eiddo/safle wedi cael ei farchnata ar ei gyfer, a beth oedd y strategaeth farchnata a'i hyd;
- Faint o ddiddordeb fu yn y safle yn ystod y cyfnod marchnata – dylai hyn nodi nifer yr ymholiadau, y math o ddefnydd a oedd yn cael ei geisio ac, os yn hysbys, y rheswm dros beidio â chanlyn arni â'r ymholiad cychwynnol
- Pa un a fydd y broses o adleoli meddianwyr presennol i eiddo neu safle arall addas yn cael ei hwyluso.

## POLISI MD17 -
### MENTRAU GWLEDIG

**Bydd cynigion i ddatblygu defnyddiau cyflogaeth ar raddfa fach sy'n hybu mentrau gwledig yn cael eu caniatáu lle mae'r cynnig:**

1. **Wedi'i leoli mewn mân anheddiad gwledig; neu**
2. **Yn rhan o gynllun arallgyfeirio ar fferm; neu**
3. **Yn golygu addasu adeilad gwledig presennol yn unol â pholisi MD11.**

**Bydd cynigion a fyddai'n arwain at golli defnyddiau cyflogaeth presennol sydd ar raddfa fach yn cael eu hasesu yn unol â pholisi MD16.**

7.83 Mae canfyddiadau'r Astudiaeth Cyflogaeth yn dynodi bod llawer o'r sectorau traddodiadol lle ceir cyflogaeth wledig megis amaethyddiaeth a choedwigaeth ym Mro Morgannwg yn dirywio. Er mwyn adfywhau'r economi wledig, mae'r Cyngor yn cydnabod ei bod yn angenrheidiol cynyddu i'r eithaf y cyfleoedd i gyflogaeth gynaliadwy ar raddfa fach ddigwydd y tu allan i aneddiadau mwy Bro Morgannwg. Felly mae hybu datblygu economaidd sydd yn ei dro'n hybu mentrau gwledig ac arallgyfeirio yn y Fro wledig yn elfen hanfodol o'r Strategaeth.

7.84 Bydd datblygu defnyddiau cyflogaeth newydd ar raddfa fach o fewn y Mân Aneddiadau Gwledig yn cael ei gefnogi lle mae'r defnydd arfaethedig yn gyson â gofynion Polisïau MD1 ac MD2. Bydd cynigion ar gyfer mentrau gwledig ar y cyd â chynllun arallgyfeirio ar fferm neu addasu adeilad gwledig yn cael eu hystyried yn unol â Pholisi MD11 a Chanllawiau Cynllunio Cenedlaethol[34].

[34] TAN 6 Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy (Llywodraeth Cymru Gorffennaf 2010)

## POLISI MD18 -
### LLETY SIPSIWN A THEITHWYR

**Bydd cynigion ar gyfer llety ychwanegol i sipsiwn a theithwyr yn cael eu caniatáu ar yr amod:**

1. **Bod mynediad rhesymol o'r safle at wasanaethau, cyfleusterau a chyflogaeth o ddydd i ddydd, gan gynnwys ysgolion, cyfleusterau meddygol, siopau a chyfleusterau cymunedol;;**
2. **Bod maint y safle a nifer y lleiniau'n briodol i'w leoliad ac anghenion yr ymgeisydd o ran llety;**
3. **Bod gwasanaethau digonol ar y safle ar gyfer cyflenwi dŵr, draenio, carthffosiaeth, trydan a gwaredu gwastraff ar gael neu'n gallu cael eu darparu heb achosi unrhyw effaith amgylcheddol annerbyniol; a**
4. **Bod y rhwydwaith priffyrdd presennol yn ddigonol i wasanaethu'r safle ac y gellir darparu mynedfa foddhaol, gan gynnwys darpariaerht ar gyfer parcio, troi, gwasanaethu a cherbydau brys**

**Bydd ffafriaeth o blaid diwallu anghenion llety ar unrhyw rai o'r canlynol:**

- **Safleoedd sipsiwn a theithwyr sydd wedi'u dyrannu;**
- **Safleoedd sipsiwn a theithwyr presennol neu ar estyniadau priodol i'r safleoedd hynny; neu**
- **Safleoedd o fewn aneddiadau presennol**

7.85 Mae canllawiau cenedlaethol yn cydnabod yr angen am Bolisi sy'n seiliedig ar feini prawf er mwyn asesu safleoedd preifat neu safleoedd eraill arfaethedig ar gyfer sipsiwn a theithwyr, er mwyn ateb y galw yn y dyfodol neu alw annisgwyl. Rhaid i bolisïau fod yn deg, yn rhesymol, yn realistig ac yn effeithiol o ran darparu safleoedd. Yn unol â hynny, mae Polisi MD18 yn nodi'r meini prawf ar gyfer llety newydd i sipsiwn a theithwyr.

7.86 Lle ystyrir bod cyfiawnhad dros y cynnig, bydd caniatâd cynllunio wedi'i gyfyngu i'r ymgeisydd a'i deulu preswyl dibynnol. Hefyd, bydd cynaliadwyedd y safle o ran mynediad at wasanaethau a chyfleusterau hanfodol yn ffactor pwysig wrth benderfynu ynghylch addasrwydd y cynigion.

7.87 Gall y Cyngor osod amodau cynllunio i reoli defnyddiau busnes ac adeiladau cysylltiedig ar y safle er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn atodol i ddefnydd preswyl. Yn y cyswllt hwn a lle y bo'n berthnasol, dylid cyflwyno manylion unrhyw gynigion ar gyfer storio cyfarpar ac offer sy'n gysylltiedig â gweithgareddau busnes y rhai sy'n byw ar y safle gyda cheisiadau cynllunio.

## POLISI MD19 -
### CYNHYRCHU YNNI CARBON ISEL AC ADNEWYDDADWY[35]

**Bydd cynigion i gynhyrchu ynni carbon isel ac adnewyddadwy yn cael eu caniatáu lle gellir dangos nad oes unrhyw effaith annerbyniol ar fuddiannau'r canlynol:**

- **Y tir amaethyddol gorau a mwyaf hyblyg;**
- **Diogelu awyrennau;**
- **Systemau cyfathrebu trydanol, radio neu eraill;**
- **Pwysigrwydd y dirwedd;**
- **Treftadaeth naturiol a diwylliannol;**
- **Cadwraeth natur;**
- **Amwynder preswyl; a**
- **Diogelu pridd.**

**Wrth asesu cynigion o'r fath, bydd effeithiau cronnol cynlluniau ynni adnewyddadwy yn ystyriaeth bwysig. lle y bo angen, dylai cynigion fael eu goleuo gan asesiad o'r effaith weledol a'r effaith ar y dirwedd.**

**Bydd ystyriaeth ffafriol yn cael ei rhoi i gynigion sy'n darparu cyfleoedd i gynhyrchu ynni a / neu wres adnewyddadwy a charbon isel i'w ddefnyddio yn y gymuned leol.**

[35] Nodyn Cyngor Technegol 8: Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy (Gorffennaf 2005)

7.88 Mae'r Asesiad Ynni Adnewyddadwy (2016) gan y Cyngor wedi asesu'r capasiti posibl i gynhyrchu ynni adnewyddadwy ym Mro Morgannwg. Fe wnaeth hwn adnabod cyfleoedd sylweddol ar gyfer ystod o gynigion ynni adnewyddadwy, yn enwedig o ddatblygiadau solar ffotofoltaig, clystyrau bychain o botensial ynni gwynt, biomas, ac o gynllunio microgynhyrchu gan gynnwys Ynni Adnewyddadwy mewn Adeiladau [BIR]. Ar gyfer potensial ynni gwynt mae'r rhain yn gysylltiedig yn bennaf â chynlluniau o fewn y raddfa 'micro' (hyd at 50kw) a hyd at y raddfa sy'n 'llai na graddfa'r awdurdodau lleol' (hyd at 5MW) a ddiffinnir dan bolisi cynllunio cenedlaethol. Ar gyfer ynni solar, mae potensial wedi cael ei adnabod ar gyfer cynlluniau o fewn y raddfa 'awdurdodau lleol' (h.y. ar gyfer cynlluniau hyd at 50MW). Yn unol â hynny, mae Ardaloedd Chwilio Lleol ar gyfer ynni solar wedi cael eu nodi ar y Map Cynigion fel a nodir ym mholisi MG30.

7.89 Mae Polisi MD19 yn ceisio ffafrio cynlluniau ynni carbon isel ac ynni adnewyddadwy, lle y bo'n briodol. Mae'r technolegau hyn yn cynnwys ynni ar y môr, nwy tirlenwi, cnydau ynni, ynni effeithlon o brosesau gwastraff, treulio anerobig, nwy carthffosiaeth, ynni dŵr, biomas, ynni solar, gwres a phŵer cyfunedig ac adeiladau â ffynonellau adnewyddadwy integredig, e.e. pŵer solar.

7.90 Er bod cyfleoedd sylweddol ar gyfer ynni adnewyddadwy ar raddfa fach ac ar y raddfa sy'n 'llai na graddfa'r awdurdodau lleol' ym Mro Morgannwg gall fod achlysuron lle mae cynlluniau ar raddfa fwy'n hyfyw yn dechnegol ac yn briodol yn nhermau cynllunio; fodd bynnag bydd yn ofynnol ystyried cynlluniau o'r fath yn ofalus. Mae'n debygol y bydd y rhain yn ymwneud â chynlluniau ar raddfa sy'n 'llai na graddfa'r awdurdodau lleol' (h.y. cynlluniau o 5MW i 25MW ar gyfer gwynt ar y tir a 5MW i 50MW ar gyfer pob technoleg arall). Gallai'r rhain gynnwys cynigion ar gyfer tyrbinau gwynt unigol neu gynlluniau ynni gwynt eraill lle gellir goresgyn effeithiau annerbyniol ar ddiogelu awyrennau a phob cyfyngiad arall. Mae cynlluniau eraill ar raddfa fwy lle ceir potensial a lefel uchel o ddiddordeb yn cynnwys cynigion ar gyfer araeau ar ffermydd solar annibynnol. Mae'r cynlluniau hyn yn debygol o fod wedi'u lleoli yng nghefn gwlad agored a gallant arwain at golli nodweddion ar y dirwedd (megis coes a llwyni) a gallant olygu ei bod yn ofynnol lefelu'r safle. Wrth asesu cynlluniau ar raddfa sy'n 'llai na graddfa'r awdurdodau lleol', mae effaith gronnol cynigion (o'u cymharu â chynlluniau presennol eraill neu gynlluniau eraill y rhoddwyd caniatâd ar eu cyfer) yn debygol o fod yn ystyriaeth arbennig o bwysig.

7.91 Ar bob graddfa, bydd angen rhoi ystyriaeth ofalus i effeithiau anffafriol tebygol a allai ddeillio o'r cynnig. O ran lliniaru, mae angen i gynlluniau fod wedi'u dylunio'n dda, adlewyrchu amgylchiadau lleol a dangos sut y mae unrhyw effeithiau amgylcheddol, cymdeithasol, effeithiau ar adnoddau ac effeithiau economaidd wedi cael eu lleihau i'r eithaf trwy fynd ati'n ofalus i ddethol, dylunio, adeiladu a gweithredu safleoedd a mesurau eraill. Yn y cyswllt hwn, wrth ystyried yr effaith ar fuddiannau'r nodweddion hynny a'r cyfyngiadau a restrir ym mholisi MD19, bydd angen i gynigion ynni adnewyddadwy roi ystyriaeth ddyledus i ofynion polisïau MD7 (Diogelu'r Amgylchedd), MD9 (Hybu Bioamrywiaeth) ac MG17 (Ardaloedd Tirwedd Arbennig) hefyd lle y bo'n berthnasol.

7.92 Mewn ardaloedd o werth tirwedd uchel megis Ardaloedd Tirwedd Arbennig, gall tyrbinau gwynt unigol neu ffermydd solar fod yn dderbyniol lle maent wedi'u lleoli fel eu bod yn lleihau effeithiau amgylcheddol. Dros amser gall effeithiau cronnol y strwythurau hyn gael effeithiau annerbyniol ar ansawdd gweledol yr ardal ehangach. Yn unol â hynny, bydd yn ofynnol fel arfer i gynigwyr tyrbinau gwynt neu strwythurau eraill sy'n cael effeithiau sylweddol ar y dirwedd gynnal Asesiad o'r Effaith Weledol a'r Effaith ar y Dirwedd i ddangos sut y maent wedi ystyried yr effeithiau hyn, gan gynnwys unrhyw effeithiau cronnol ar y dirwedd gyda datblygiadau presennol neu ddatblygiadau y rhoddwyd caniatâd ar eu cyfer.

7.93 Lle mae cynigion datblygu'n golygu defnyddio ynni a/neu wres o ffynhonnell adnewyddadwy neu garbon isel bydd ystyriaeth ffafriol yn cael ei rhoi. Gallai hyn ymwneud â sefydlu rhwydwaith gwres ardal neu gynigion i gyflenwi adeiladau sy'n defnyddio llawer o ynni yn y gymuned (e.e. pyllau nofio,

ysbytai, cartrefi gofal neu ddefnyddwyr masnachol neu ddomestig eraill). Mae'r dull hwn yn gyson â meini prawf sy'n ymwneud â lliniaru effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ac ymaddasu iddo o fewn Polisi MD2. Bydd canllawiau pellach ynghylch adnabod ac asesu cyfleoedd ynni adnewyddadwy o'r fath yn cael eu darparu trwy Ganllawiau Cynllunio Atodol newydd ar Ynni Adnewyddadwy.

## POLISI MD20 -
### ASESU CYNIGION RHEOLI GWASTRAFF

**Bydd cynigion datblygu ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff yn cael eu caniatáu dan yr amgylchiadau canlynol:**

1. **Os ategir y cynnig ag asesiad cynllunio gwastraff priodol;**
2. **Os yw'r cynnig yn rhoi sylw i'r hierarchaeth gwastraff, yr egwyddor agosrwydd a gofynion y gyfarwyddeb fframwaith gwastraff;**
3. **Os dangosir na fyddai'r datblygiad yn arwain at niwed annerbyniol i iechyd, yr amgylchedd neu i amwynder defnyddiau tir cyfagos; ac**
4. **Os oes gan y prif rwydwaith ffyrdd gapasiti digonol, neu welliannau i sicrhau y gall capasiti digonol gael ei ddarparu'n rhwydd ac yn ddarbodus, i dderbyn y symudiadau trafnidiaeth sy'n gysylltiedig â'r cynnig.**

**Bydd cynigion ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff sy'n gyson â'r lleoliadau a nodir ym Mholisi SP8 yn cael eu ffafrio.**

7.94 Rhagwelir y bydd ceisiadau'n dod gerbron yn ystod cyfnod y Cynllun ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff newydd. Mae ceisiadau'n debygol o gynnwys gwaredu gwastraff, prosesu, ailgylchu a throsglwyddo gwastraff.

7.95 Mae Polisi Strategol SP8 yn nodi'r lleoliadau a ffefrir gan y Cyngor ar gyfer darparu cyfleusterau gwastraff newydd, yn Ystâd Fasnachu'r Iwerydd, Dociau'r Barri, Ystâd Fasnachu Llandŵ a'r safleoedd cyflogaeth B2 a B8 sydd wedi'u dyrannu ac a nodir ym Mholisi MG9. Mae Polisi SP8 hefyd yn caniatáu cyfleusterau rheoli gwastraff awyr agored, megis safleoedd amwynder dinesig a rhesgompostio, ar safleoedd cyflogaeth B2 a B8 presennol, safleoedd gweithio mwynau gweithredol neu o fewn neu ar bwys cyfadeiladau ffermydd cyfagos lle nad yw'r rhain yn gwrthdaro â defnyddiau cyfagos presennol neu arfaethedig.

7.96 Mae Polisi MD20 yn nodi meini prawf a fydd yn sail i asesu'r holl geisiadau ar gyfer trin, prosesu, storio a dosbarthu gwastraff, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â chyfleusterau rheoli gwastraff newydd ac estyniadau i weithrediadau presennol.

7.97 Yn unol â pholisi cenedlaethol, bydd yn ofynnol cyflwyno Asesiad Cynllunio Gwastraff gyda phob cais ar gyfer cyfleuster rheoli gwastraff. Dylai'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr Asesiad Cynllunio Gwastraff fod yn briodol ac yn gymesur i natur a graddfa'r datblygiad a gynigir, a chynnwys yr holl wybodaeth berthnasol. Mae rhagor o fanylion ynghylch Asesiadau Cynllunio Gwastraff wedi'u cynnwys yn Atodiad B o TAN 21 (2014).

7.98 Fel rhan o'r Asesiad Cynllunio Gwastraff, dylai cynigion ddangos bod y broses drin yn adlewyrchu trefn flaenoriaeth yr hierarchaeth gwastraff hyd y gellir. Bydd yr hierarchaeth yn cael ystyriaeth ar y cyd â'r ystyriaethau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ehangach sy'n berthnasol i'r cynnig. Yn unol â pholisi cenedlaethol, bydd sylw'n cael ei roi hefyd i'r modd y mae cynigion wedi ystyried yr egwyddorion 'Gosodiad Priodol Agosaf' a 'Hunangynhaliaeth' a'r modd y maent yn cydymffurfio â hwy.

7.99 Bydd angen i gynigion ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff ddangos na fyddant yn arwain at niwed annerbyniol i bobl, tir, seilwaith a'r amgylchedd naturiol. Bydd yn ofynnol i gynigion ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff ddarparu tystiolaeth sy'n dangos sut y mae gofynion Polisi MD20 wedi cael sylw, ochr yn ochr â'r polisïau perthnasol eraill yn y Cynllun, megis Polisi MD7 (Diogelu'r Amgylchedd). Wrth asesu cynigion o'r fath, byddir yn ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru a bydd amodau'n cael eu hatodi wrth unrhyw ganiatadau a/neu gytundebau cyfreithiol a geisir i sicrhau mesurau diogelu a rheoli amgylcheddol digonol.

7.100 Mae Polisi MD20 yn ei gwneud yn ofynnol i gynigion fod â chapasiti priffyrdd digonol ar gyfer y symudiadau trafnidiaeth sy'n gysylltiedig â'r datblygiad. Felly bydd angen canfod yr effaith ar y briffordd a, lle y bo'n berthnasol, gall fod yn ofynnol i ddatblygwyr gynnal Asesiad Trafnidiaeth gan ddibynnu ar raddfa'r datblygiad arfaethedig.

# Adran 8

# Cyflawni a Gweithredu



# Cyflawni a Gweithredu

8.1 Mae paragraff 1.21 Cynlluniau Datblygu Lleol Cymru (2005) yn nodi pwysigrwydd sicrhau bod yr holl gynigion yn y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) yn 'realistig ac yn debygol o gael eu gweithredu yn ystod cyfnod y cynllun' er mwyn osgoi malltod. Yn hyn o beth, dylai'r holl gynigion sydd wedi'u cynnwys fel dyraniadau defnydd tir yn y CDLl fod â thystiolaeth ddigonol i ddangos y gellir eu cyflawni yn ystod cyfnod y Cynllun.

8.2 Mae pob un o'r Polisïau perthnasol mewn perthynas â chynigion defnydd tir penodol (e.e. tai, manwerthu, cyflogaeth) yn nodi manylion dyraniadau safle-benodol, gan gynnwys gwybodaeth am leoliad, maint, defnydd arfaethedig a nifer yr unedau neu faint datblygiad. Caiff manylion pellach ynghylch y cyfyngiadau ar safleoedd a nodwyd a'r gofynion o ran seilwaith ar gyfer y dyraniadau preswyl a chyflogaeth eu darparu yn Atodiadau 5 a 6 o'r CDLl.

## Gofynion o ran Seilwaith

8.3 Mae Polisi Cynllunio Cymru (paragraff 12.1.6) yn datgan y dylai capasiti'r seilwaith presennol a'r angen am gyfleusterau ychwanegol gael eu hystyried wrth baratoi Cynlluniau Datblygu. Mae Strategaeth y CDLl yn lleoli datblygiadau newydd mewn ardaloedd sy'n cynyddu'r defnydd o'r seilwaith presennol yn y Parth De Ddwyreiniol ac aneddiadau cynaliadwy eraill i'r eithaf.

8.4 Fel rhan o waith manwl y Cyngor i Gynllunio Seilwaith, mae asesiadau wedi cael eu cynnal mewn perthynas ag effeithiau ar y priffyrdd, trafnidiaeth gynaliadwy, cyfleusterau addysg, mannau agored a chyfleusterau cymunedol. Mae'r holl asesiadau manwl hyn yn rhoi sylw i'r dyraniadau tai yn y cynllun a dosbarthiad gofodol disgwyliedig hapddatblygiadau, ac yn bwydo'n uniongyrchol i'r dyraniadau safle-benodol (lle mae angen tir i ddarparu seilwaith angenrheidiol) a'r Cynllun Seilwaith.

8.5 Bydd yn rhaid rhoi sylw i oblygiadau unrhyw amgylchiadau nas rhagwelwyd megis effaith hapddatblygiadau a allai olygu bod seilwaith cymunedol ychwanegol yn ofynnol o fewn yr ardal leol (cyn cyflwyno'r Ardoll Seilwaith Cymunedol). O ganlyniad, bydd yn rhaid i unrhyw gynigion ar gyfer datblygu roi sylw arbennig i Bolisi MD4 – Seilwaith Cymunedol a Rhwymedigaethau Cynllunio. I roi enghreifftiau, bydd asesiad yn cael ei gynnal i ganfod a fydd gwelliannau i'r rhwydwaith priffyrdd lleol yn ofynnol o ganlyniad i'r datblygiad a gynigir.

8.6 Ar gyfer y mwyafrif o'r safleoedd sydd wedi'u dyrannu, bydd y cyllid i ddarparu seilwaith ychwanegol yn dod o rwymedigaethau cynllunio Adran 106, nes bod y Rhestr Codi Tâl Ardoll Seilwaith Cymunedol y Cyngor wedi cael ei mabwysiadu. Yn y cyswllt hwn, bydd cyfraniadau priodol yn cael eu ceisio tuag at addysg, gwasanaethau a seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus a chynaliadwy, gwella cyfleusterau cymunedol a darparu celf gyhoeddus, gan roi sylw i'r sefyllfa sy'n bodoli ar adeg y cais ac yn benodol gofynion Polisi MD4. Bydd y gofynion yn cael eu hadolygu hefyd fel rhan o unrhyw adolygiad o'r Cynllun.

8.7 Mae'r mwyafrif o safleoedd datblygu'n dibynnu ar fuddsoddi a gweithredu gan y sector preifat. Lle mae hyn yn wir mae disgwyl i ddatblygwyr yn y sector preifat ariannu seilwaith cyfleustodau hanfodol. Yn ychwanegol at y goblygiadau strategol ehangach ar gyfer y rhwydwaith priffyrdd, mae'r Cynllun wedi ystyried materion cychwynnol o ran priffyrdd a mynediad mewn perthynas â dyraniadau safle. Lle ceir cyfyngiadau sylweddol a / neu lle mae gwelliannau i briffyrdd yn ofynnol, cyfeirir at y rhain yn y testun ategol ochr yn ochr â materion safle-benodol eraill. Hefyd, mae ymgyngoriadau â'r prif ymgymerwyr statudol yn dynodi nad oes cyfyngiadau sylweddol ar y cyfan a fyddai'n rhwystr i ddarparu safleoedd a nodwyd i'w datblygu yn y CDLl.

8.8 Er bod ei Gynllun Adnoddau Dŵr Terfynol hyd at 2040 yn ystyried rhagolygon poblogaeth Llywodraeth Cymru, mae Dŵr Cymru Welsh Water (DCWW) wedi hysbysu bod goblygiadau datblygu sy'n gysylltiedig â chyflogaeth yn anos i'w rhagweld o ystyried yr ystod bosibl ac amrywiol o ddefnyddiau masnachol. Yn y cyswllt hwn, maent wedi hysbysu bod parth adnoddau dŵr System Defnydd Cydgyfunol De Ddwyrain Cymru (SEWCUS) yn un o ddau sy'n gwasanaethu Bro Morgannwg ac yn ardal y rhagwelir y bydd ganddi ddiffyg bach o ran y cyflenwad o oddeutu 2039. Mae DCWW wedi hysbysu y dylai fod ymgysylltu parhaus ynghylch cynigion datblygu yn y dyfodol ac unrhyw faterion posibl.

8.9 O ran adnoddau dŵr yn fwy cyffredinol, roedd canfyddiadau adroddiad yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar y CDLl Adneuo yn argymell y dylai'r Cyngor ddefnyddio dull ymarferol o ddeall y gofynion o ran dŵr yn y dyfodol yng nghyd-destun datblygu cynllunio. Yn unol â hynny, bydd y Cyngor yn cynnal Astudiaeth Cylch Dŵr ar y cyd ag awdurdodau lleol eraill yn Ne Ddwyrain Cymru yn ystod 4 blynedd gyntaf y CDLl ar ôl ei fabwysiadu.

# Adran 9

# Mesur Llwyddiant



9.1 Mae monitro'n agwedd allweddol ar ddull 'Cynllunio, Monitro a Rheoli' Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r system gynllunio ac mae hefyd yn sicrhau bod y CDLl yn cael ei gyflawni'n llwyddiannus. Yn unol â hynny, mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor lunio Adroddiad Monitro Blynyddol sydd i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref bob blwyddyn yn dilyn mabwysiadu'r CDLl.

9.2 Diben yr Adroddiad Monitro Blynyddol yw galluogi'r Cyngor i asesu perfformiad CDLl Bro Morgannwg mewn perthynas â chynnydd cynigion datblygu yn y cynllun a gweithredu polisïau.

9.3 Gall yr Adroddiad Monitro Blynyddol gynorthwyo'r Cyngor i -

- Adnabod meysydd lle ceir llwyddiant;
- Nodi ble nad yw rhai polisïau penodol yn llwyddiannus o ran cyflawni eu hamcan bwriadedig;
- Canfod bylchau yn y sail dystiolaeth, o bosibl trwy newid yn yr economi, y mae angen rhoi sylw iddynt a'u hadlewyrchu yn y CDLl; a
- Nodi pa gamau fydd yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r materion a adnabuwyd er mwyn sicrhau bod y CDLl yn cael ei gyflawni, gan gynnwys unrhyw ddiwygiadau y mae angen eu gwneud i'r CDLl.

9.4 Yn ychwanegol at fonitro blynyddol, dylai'r Cynllun gael ei adolygu'n llawn bob 4 blynedd a fydd yn gyfle i'r Cyngor adolygu'r cynnydd o ran gweithredu'r polisïau a gwneud addasiadau lle y bo'n briodol. Dylai'r adolygiad alluogi'r Cyngor hefyd i sicrhau bod y CDLl yn cael ei ddiweddaru'n gyson o ran newidiadau mewn polisi cynllunio cenedlaethol a dogfennau cysylltiedig megis Strategaeth Gymunedol Bro Morgannwg.

## Fframwaith Monitro

9.5 Er mwyn ei gwneud yn bosibl cyflawni'r CDLl yn effeithiol mae'r Cyngor wedi datblygu set o dargedau a dangosyddion y gellir eu defnyddio fel sail i fesur perfformiad y polisïau a chynigion datblygu. Mae targedau wedi cael eu gosod ar gyfer lefelau datblygu naill ai'n flynyddol neu fesul blwyddyn interim yn ystod cyfnod y CDLl. Y targed ar gyfer y Cynllun cyfan yw cyflawni strategaeth y CDLl.

9.6 Mae Rheoliad 37 yn y Rheoliadau CDLl yn rhagnodi dau ddangosydd craidd y mae'n rhaid eu cynnwys yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol:

- Y cyflenwad o dir ar gyfer tai wedi'i gymryd o'r Astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai gyfredol;
- Nifer (os o gwbl) yr anheddau ychwanegol net, yn rhai fforddiadwy ac ar y farchnad gyffredinol, a adeiladwyd yn ardal y CDLl yn y cyfnod y caiff yr adroddiad ei baratoi ar ei gyfer ac yn y cyfnod ers i'r CDLl gael ei dderbyn neu ei gymeradwyo gyntaf.

9.7 Caiff dangosyddion allbwn craidd awgrymedig eraill eu nodi yn y Llawlyfr CDLl (Rhifyn 2, 2015) a chaiff y rhain eu disgrifio isod a'u hadlewyrchu yn y fframwaith monitro.

- Cyfanswm yr unedau o dai y rhoddwyd caniatâd ar eu cyfer ar safleoedd sydd wedi'u dyrannu fel canran o'r ddarpariaeth tai ar y cyfan;
- Tir cyflogaeth y rhoddwyd caniatâd ar ei gyfer (ha) ar safleoedd sydd wedi'u dyrannu fel canran o'r holl ddyraniadau ar gyfer cyflogaeth;
- Faint o ddatblygiadau manwerthu, swyddfeydd a hamdden mawr (metr sgwâr) y rhoddwyd caniatâd ar eu cyfer o fewn a'r tu allan i ffiniau sefydledig canol trefi a chanolfannau ardal
- Faint o agregau crai wedi'u hennill o'r tir y rhoddwyd caniatâd ar eu cyfer yn unol â'r Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer Agregau wedi'i fynegi fel canran o'r capasiti ar y cyfan sy'n ofynnol fel a nodir yn y Datganiad Technegol Rhanbarthol (MTAN).

## Dangosyddion Lleol

9.8 Mae'r fframwaith monitro hefyd yn cynnwys ystod o ddangosyddion lleol sy'n ategu'r dangosyddion craidd y cyfeirir atynt uchod. Mae'r dangosyddion lleol yn ymwneud â chyd-destun Bro Morgannwg ac yn cyfeirio at ofynion penodol polisïau unigol a chynigion sydd wedi'u cynnwys yn y CDLl. Maent hefyd yn seiliedig ar argaeledd ac ansawdd data lleol. Mae'r dangosyddion craidd a lleol yn gysylltiedig ag amcanion y CDLl ac ystyrir eu bod yn bwysig i fonitro effeithiolrwydd strategaeth a pholisïau'r CDLl.

## Dangosyddion Monitro a Sbardunau

9.9 Mae fframwaith monitro'r CDLl yn cynnwys set o ddangosyddion a thargedau sy'n seiliedig ar sbardunau i ddynodi os nad yw un rhan o'r cynllun yn cyflawni'r canlyniadau a ddymunir. Mae sbardunau wedi cael eu cynnwys i asesu faint y mae Polisi wedi gwyro oddi wrth y targed monitro i'r fath raddau fel y gallai ganfod bod y Polisi'n methu â chael ei weithredu neu fod angen ei ddiwygio. Mae llawer o'r dangosyddion yn cynnwys targedu chwemisol neu'n cyfeirio at ddyddiadau targed priodol ar gyfer datblygiadau / cyfleusterau penodol i asesu perfformiad y Cynllun.

**Parhau i Fonitro (Gwyrdd)**

Lle mae dangosyddion yn awgrymu bod Polisïau'r CDLl yn cael eu gweithredu'n effeithiol a bod dim achos i adolygu.

**Angen Hyfforddiant (Glas)**

Lle mae dangosyddion yn awgrymu nad yw Polisïau'r CDLl yn cael eu gweithredu fel a fwriadwyd a bod angen hyfforddiant pellach ar swyddogion neu Aelodau.

**Angen Canllawiau Cynllunio Atodol a Briffiau Datblygu (Porffor)**

Gall dangosyddion awgrymu'r angen i ddarparu canllawiau pellach yn ychwanegol at y rhai a nodwyd eisoes yn y Cynllun. Hefyd, os na fydd safleoedd yn cael eu cyflwyno fel a ragwelwyd; bydd y Cyngor yn ymgysylltu'n weithredol â datblygwyr / tirfeddianwyr i gyflwyno Briffiau Datblygu ar safleoedd allweddol i helpu i ddechrau'r broses ddatblygu.

**Ymchwil Polisi (Melyn)**

Lle mae dangosyddion yn awgrymu nad yw Polisïau'r CDLl mor effeithiol ag y dylent fod, mae angen ymchwilio ymhellach. Gall hyn hefyd gynnwys defnyddio dangosyddion cyd-destunol a gall fod angen dwyn cymariaethau ag awdurdodau lleol eraill ac ystadegau cenedlaethol lle y bo'n briodol.

**Adolygiad Polisi (Ambr)**

Lle mae dangosyddion yn awgrymu bod strategaeth y CDLl yn methu a bod angen adolygiad ffurfiol o'r Cynllun. Bydd angen i'r opsiwn hwn i gynnal adolygiad llawn o'r Cynllun ddigwydd yn dilyn ymchwiliad llawn ac ystyriaeth ddwys.

**Adolygu'r Cynllun (Coch)**

Lle mae dangosyddion yn awgrymu bod strategaeth y CDLl yn methu a bod angen adolygiad ffurfiol o'r Cynllun. Bydd angen i'r opsiwn hwn i gynnal adolygiad llawn o'r Cynllun ddigwydd yn dilyn ymchwiliad llawn ac ystyriaeth ddwys.

9.10 Bydd yr opsiynau canlynol yn cael eu defnyddio er mwyn asesu difrifoldeb y sefyllfa gysylltiedig pan fo targed yn cael ei adolygu ac awgrymir ymateb priodol.

9.11 Caiff y dangosyddion monitro'u categoreiddio isod yn ôl amcanion y CDLl ac maent yn gysylltiedig â pholisïau perthnasol yn y CDLl / amcanion perthnasol yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd. Lle mae dyddiadau interim / targed wedi'u cynnwys yn y fframwaith maent yn ymwneud â'r 1 Ebrill yn y flwyddyn honno a chyhoeddi'r Adroddiad Monitro Blynyddol. Fodd bynnag, gall y data arolwg y mae'r wybodaeth yn seiliedig arno fod wedi cael ei gasglu a'i ddadansoddi ar adegau eraill yn ystod y flwyddyn flaenorol.

9.12 Fel rhan o broses yr Adroddiad Monitro Blynyddol, bydd y Cyngor hefyd yn cynnwys diweddariad ar y cynnydd o ran gweithredu safleoedd sydd wedi'u dyrannu. Bydd hwn yn amlygu'r gweithgarwch sydd wedi digwydd ar y safle, gwaith i baratoi astudiaethau neu'r camau ymlaen o ran datblygu. Os nad yw datblygiad ar safle'n mynd rhagddo yn unol â'r dyddiadau targed arfaethedig a nodir yn y fframwaith monitro, bydd hwn yn cael ei ddehongli fel sbardun a bydd y Cyngor yn cymryd camau gweithredu priodol os oes angen.

9.13 Mae'r diffiniad o'r term 'datblygiad mawr' a ddefnyddir yn y fframwaith yr un fath â'r un a geir yng Ngorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012, sef: ennill a gweithio mwynau neu ddefnyddio tir ar gyfer dyddodion o weithfeydd mwynau; datblygiad gwastraff; darparu 10 neu ragor o dai annedd (neu ar safle sydd â'i arwynebedd yn 0.5 hectar neu'n fwy); datblygiad sy'n 1,000 metr sgwâr neu ragor; neu ddatblygiad ar safle sydd â'i arwynebedd yn 1 hectar neu'n fwy.

9.14 Ni ystyrir bod y Targedau Polisi sydd wedi'u cynnwys yn yr adrannau canlynol yn cau ei gilydd allan ac wrth geisio cyflawni'r amcanion gall mwy nag un dangosydd Targed Polisi fod yn berthnasol. Bydd hyn yn cael ei wneud yn glir mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol lle ystyrir bod hyn yn wir.

# Vale of Glamorgan Local Development Plan 2011 – 2026

| CYMUNEDAU CYNALIADWY | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **AMCAN 1: Cynnal a hybu datblygiad cymunedau cynaliadwy ym Mro Morgannwg, gan ddarparu cyfleoedd i fyw, dysgu, gweithio a chymdeithasu ar gyfer pawb.** | | | | | |
| Cyfeirnod | Dangosydd – Craidd/ Lleol | Targed Monitro | Sbardun | Polisïau Perthnasol / Amcanion Perthnasol yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd | Ffynhonnell Data |
| 1.1 | CRAIDD: Cyfanswm yr unedau o dai y rhoddwyd caniatâd ar eu cyfer ar safleoedd sydd wedi'u dyrannu fel canran o'r ddarpariaeth tai ar y cyfan. | Caniatâd ar gyfer 82% o unedau o dai ar safleoedd sydd wedi'u dyrannu fel canran o'r ddarpariaeth tai ar y cyfan. | 10% yn llai na'r targed monitro dros 2 flynedd yn olynol. | Polisïau Strategol: SP1, SP2, SP3, SP4.<br>Polisïau Rheoli Twf / Datblygu: MG1, MG2, MG3, MG4, MD2, MD4, MD5, MD6.<br>Amcanion yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd: 1, 3, 4, 8, 10, 12. | Cofrestr Ceisiadau Cynllunio Bro Morgannwg.<br>Cyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai Flynyddol Bro Morgannwg.<br>Arolwg Tir Cyflogaeth Blynyddol Bro Morgannwg.<br>Taflwybr y Cyflenwad o Dir sydd ar gael ar gyfer Tai ym Mro Morgannwg. |
| 1.2 | LLEOL: Cyfanswm yr unedau o dai a gwblhawyd ar safleoedd sydd wedi'u dyrannu dan MG2. | Adeiladu 1,770 o anheddau ar safleoedd sydd wedi'u dyrannu dan MG2 erbyn 2018.<br>Adeiladu 2,428 o anheddau ar safleoedd sydd wedi'u dyrannu dan MG2 erbyn 2019.<br>Adeiladu 3,246 o anheddau ar safleoedd sydd wedi'u dyrannu dan MG2 erbyn 2020.<br>Adeiladu 4,279 o anheddau ar safleoedd sydd wedi'u dyrannu dan MG2 erbyn 2021.<br>Adeiladu 5,321 o anheddau ar safleoedd sydd wedi'u dyrannu dan MG2 erbyn 2022.<br>Adeiladu 6,228 o anheddau ar safleoedd sydd wedi'u dyrannu dan MG2 erbyn 2023.<br>Adeiladu 7,172 o anheddau ar safleoedd sydd wedi'u dyrannu dan MG2 erbyn 2024.<br>Adeiladu 7,969 o anheddau ar safleoedd sydd wedi'u dyrannu dan MG2 erbyn 2025.<br>Adeiladu 8,525 o anheddau ar safleoedd sydd wedi'u dyrannu dan MG2 erbyn 2026. | 10% yn llai na'r targed monitro dros 2 flynedd olynol. | Polisïau Strategol: SP1, SP2, SP3, SP4.<br>Polisïau Rheoli Twf: MG1, MG2, MG3 MG4, MD2, MD4, MD6.<br>Amcanion yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd: 1, 3, 4, 8, 10, 12. | Cyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai Flynyddol Bro Morgannwg.<br>Cofrestr Ceisiadau Cynllunio Bro Morgannwg. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 1.3 | CRAIDD: Tir cyflogaeth y rhoddwyd caniatâd ar ei gyfer (ha) ar safleoedd sydd wedi'u dyrannu fel canran o'r holl ddyraniadau cyflogaeth. | Sicrhau caniatadau cynllunio ar 9.8% (36.3 Ha) o dir cyflogaeth erbyn 2018.<br><br>Sicrhau caniatadau cynllunio ar 20% (73.6 Ha) o dir cyflogaeth erbyn 2020.<br><br>Sicrhau caniatadau cynllunio ar 44% (163 Ha) o dir cyflogaeth erbyn 2022.<br><br>Sicrhau caniatadau cynllunio ar 68% (251 Ha) o dir cyflogaeth erbyn 2024.<br><br>Sicrhau caniatadau cynllunio ar 92% (340.5 Ha) o dir cyflogaeth erbyn 2026. | 10% yn llai na'r targed monitro dros 2 flynedd olynol. | Polisïau Strategol: SP1, SP2, SP5.<br><br>Polisïau Rheoli Twf / Datblygu: MG3, MG9, MG10, MG11, MD14, MD15, MD16.<br><br>Amcanion yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd: 4, 10, 13. | Cofrestr Ceisiadau Cynllunio Bro Morgannwg.<br><br>Arolwg Tir Cyflogaeth Bro Morgannwg. |

| Y NEWID YN YR HINSAWDD | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **AMCAN 2: Sicrhau bod datblygu ym Mro Morgannwg yn gwneud cyfraniad cadarnhaol tuag at leihau effaith y newid yn yr hinsawdd a lliniaru ei effeithiau anffafriol.** | | | | | |
| Cyfeirnod | Dangosydd – Craidd/ Lleol | Targed Monitro | Sbardun | Polisïau Perthnasol / Amcanion Perthnasol yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd | Ffynhonnell Data |
| 2.1 | LLEOL: Faint o Ddatblygu (yn ôl y categorïau yn TAN15) y rhoddwyd caniatâd ar ei gyfer mewn ardaloedd gorlifdir C1 nad ydynt yn bodloni'r holl brofion yn TAN15. | Dim caniatadau cynllunio wedi'u rhoi mewn ardaloedd gorlifdir C1 oni bai bod yr holl brofion yn TAN15 wedi'u bodloni. | 1 neu fwy o ddatblygiadau wedi cael caniatâd mewn ardaloedd gorlifdir C1 nad ydynt yn bodloni'r holl brofion yn TAN15. | Polisïau Rheoli Datblygu: MD1, MD4, MD7.<br><br>Amcanion yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd: 6. | Cofrestr Ceisiadau Cynllunio Bro Morgannwg.<br><br>Cyfeirier at Ddangosydd Rheoli Datblygu – Datblygu Cynaliadwy 4. |
| 2.2 | LLEOL: Faint o Ddatblygu (yn ôl y categorïau yn TAN15) y rhoddwyd caniatâd ar ei gyfer mewn ardaloedd gorlifdir C2 nad ydynt yn bodloni'r holl brofion yn TAN15. | Dim caniatadau cynllunio wedi'u rhoi ar gyfer datblygiadau sy'n wynebu bygythiad mawr mewn ardaloedd gorlifdir C2 oni bai bod yr holl brofion TAN15 wedi'u bodloni. | 1 neu fwy o ddatblygiadau sy'n wynebu bygythiad mawr wedi cael caniatâd o fewn ardaloedd gorlifdir C2 heb i'r holl brofion TAN15 gael eu bodloni. | Polisïau Rheoli Datblygu: MD1, MD4, MD7.<br><br>Amcanion yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd: 6. | Cofrestr Ceisiadau Cynllunio Bro Morgannwg.<br><br>Cyfeirier at Ddangosydd Rheoli Datblygu – Datblygu Cynaliadwy 4. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 2.3 | LLEOL: Cyfanswm y capasiti allbwn ynni y rhoddwyd caniatâd cynllunio ar ei gyfer (MW) ar ddatblygiadau ynni adnewyddadwy annibynnol sy'n fwy na 1MW [36]. | Rhoi caniatadau cynllunio sy'n ddigonol i ateb 10.6% (56.68 GWh) o'r galw a ragamcanir am drydan trwy ffynonellau ynni adnewyddadwy erbyn 2020.<br>Rhoi caniatadau cynllunio sy'n ddigonol i ateb 21.19% (113.36 GWh) o'r galw a ragamcanir am drydan trwy ffynonellau ynni adnewyddadwy erbyn 2026.<br>Rhoi caniatadau cynllunio sy'n ddigonol i ateb 0.74% (11.28 GWh) o'r galw a ragamcanir am wres trwy ffynonellau ynni adnewyddadwy erbyn 2020.<br>Rhoi caniatadau cynllunio sy'n ddigonol i ateb 1.48% (22.56 GWh) o'r galw a ragamcanir am wres trwy ffynonellau ynni adnewyddadwy erbyn 2026. | Methu â rhoi caniatadau cynllunio i ddarparu digon o ynni adnewyddadwy i gyrraedd targedau penodedig o 20% neu fwy. | Polisïau Rheoli Twf / Datblygu: MG27, MD2, MD19.<br>Amcanion yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd: 6. | Cofrestr Ceisiadau Cynllunio Bro Morgannwg.<br>Cyfeirier at Ddangosydd Rheoli Datblygu – Datblygu Cynaliadwy 2. |
| 2.4 | LLEOL: Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol mewn perthynas ag Ynni Adnewyddadwy. | Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol Ynni Adnewyddadwy o fewn un flwyddyn i fabwysiadu'r Cynllun. | Methu â pharatoi Canllawiau Cynllunio Atodol Ynni Adnewyddadwy o fewn un flwyddyn i fabwysiadu'r Cynllun . | Polisïau Rheoli Twf / Datblygu: MG27, MD2, MD19.<br>Amcanion yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd: 6. | Tîm Polisi Cynllunio Bro Morgannwg.<br>Blaenraglen Waith y Cabinet. |

TRAFNIDIAETH

**AMCAN 3: Lleihau'r angen i drigolion Bro Morgannwg deithio i ddiwallu eu hanghenion beunyddiol a'u galluogi i gael mwy o fynediad at ddulliau trafnidiaeth sy'n gynaliadwy.**

| Cyfeirnod | Dangosydd – Craidd/ Lleol | Targed Monitro | Sbardun | Polisïau Perthnasol / Amcanion Perthnasol yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd | Ffynhonnell Data |
|---|---|---|---|---|---|
| 3.1 | LLEOL: Nifer y cynlluniau trafnidiaeth lleol a gyflawnwyd i roi cymorth i gyflawni cynlluniau a nodir ym Mholisïau SP7 ac MG16. | Cyflawni'r cynlluniau trafnidiaeth lleol canlynol erbyn 2020:<br>Mesurau i Roi Blaenoriaeth i Fysiau o A4050 Port Road i Faes Awyr Caerdydd.<br>Ffordd Gyswllt Ynys y Barri. Gwelliannau i'r B4265 yn Silstwn – Yr Hen Felin.<br>Gwelliannau i'r A4226 rhwng Weycock Cross, Y Barri a Sycamore Cross, A48 (Five Mile Lane).<br>Gwelliannau i Gyffordd Cross Common Road.<br>Gwelliannau i Bonvilston Road, i'r gogledd o'r A48.<br>Cyflawni'r holl gynlluniau trafnidiaeth a restrir ym mholisïau SP7 ac MG16 erbyn 2026. | Llai na 6 chynllun wedi'u cyflawni erbyn 2020.<br>Methu â chyflawni'r holl gynlluniau trafnidiaeth erbyn 2026. | Polisïau Strategol: SP1, SP2, SP7.<br>Polisïau Rheoli Twf / Datblygu: MG2, MG3, MG10, MG16, MD1, MD2, MD4.<br>Amcanion yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd: 6, 10, 12, 13, 15. | Adroddiad Monitro'r Cynllun Trafnidiaeth Lleol.<br>Seilwaith/ Ardoll Seilwaith Cymunedol/ Monitro A106. |

[36] **Bydd cyflawni capasiti ar gyfer ynni adnewyddadwy yn ddibynnol ar barodrwydd tirfeddianwyr, y galw yn y farchnad a'r cymorthdaliadau sydd ar gael. Felly bydd cyrraedd y targedau penodedig yn ddibynnol ar geisiadau cynllunio sy'n dod gerbron y byddir yn myfyrio arno mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol.**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 3.2 | LLEOL: Nifer y ceisiadau cynllunio mawr y bydd cynllun teithio'n cyd-fynd â hwy, uwchlaw'r trothwyon perthnasol ar gyfer Asesiad Trafnidiaeth a nodir yn TAN18 (cyfeirier at Atodiad D)[37]. | Cynllun teithio i gyd-fynd â'r holl geisiadau cynllunio perthnasol. | 1 neu fwy o geisiadau cynllunio'n cael eu cyflwyno heb Gynllun Teithio neu heb gael eu sicrhau ag amod. | Polisïau Strategol: SP1, SP2, SP3, SP5, SP7, SP11.<br>Polisïau Rheoli Twf / Datblygu: MG2, MG3, MG6, MG7, MG8, MG9, MG10, MG11, MG16, MG29, MD1, MD2, MD4, MD13.<br>Amcanion yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd: 6, 10, 12, 13, 15. | Cofrestr Ceisiadau Cynllunio Bro Morgannwg. |
| 3.3 | LLEOL: Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol mewn perthynas â Chynlluniau Teithio. | Cynhyrchu Canllawiau Cynllunio Atodol Cynlluniau Teithio erbyn 2019. | Methu â chynhyrchu Canllawiau Cynllunio Atodol Cynlluniau Teithio erbyn 2019. | Polisïau Strategol: SP1, SP2, SP3, SP5, SP7, SP11.<br>Polisïau Rheoli Twf / Datblygu: MG2, MG3, MG6, MG7, MG8, MG9, MG10, MG11, MG16, MG29, MD1, MD2, MD4, MD13.<br>Amcanion yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd: 6, 10, 12, 13, 15. | Tîm Polisi Cynllunio Bro Morgannwg.<br>Blaenraglen Waith y Cabinet. |
| 3.4 | LLEOL: Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol mewn perthynas â Safonau Parcio. | Cynhyrchu Canllawiau Cynllunio Atodol Safonau Parcio o fewn un flwyddyn i fabwysiadu'r Cynllun. | Methu â chynhyrchu Canllawiau Cynllunio Atodol Safonau Parcio o fewn un flwyddyn i fabwysiadu'r Cynllun. | Polisïau Strategol: SP7.<br>Polisïau Rheoli Twf / Datblygu MD2, MD5.<br>Amcanion yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd: 10, 12. | Tîm Polisi Cynllunio Bro Morgannwg.<br>Blaenraglen Waith y Cabinet. |

**[37] Trothwyon Defnydd: Manwerthu bwyd >1,000 metr sgwâr o arwynebedd llawr; Manwerthu heblaw bwyd > 1,000 metr sgwâr o arwynebedd llawr; Sinemâu a chyfleusterau cynadledda > 1,000 metr sgwâr o arwynebedd llawr; Cyfleusterau hamdden > 1,000 metr sgwâr o arwynebedd llawr; Busnes > 2,500 metr sgwâr o arwynebedd llawr; Diwydiant > 5,000 metr sgwâr o arwynebedd llawr; Dosbarthu a chadw mewn warws > 10,000 metr sgwâr o arwynebedd llawr; Ysbytai > 2,500 metr sgwâr o arwynebedd llawr; Addysg uwch a phellach > 2,500 metr sgwâr o arwynebedd llawr; Ysgolion Pob Ysgol Newydd (gweler D5 isod); Stadia > 1,500 o seddi Tai > 100 annedd; Gwestai > 1,000 metr sgwâr o arwynebedd llawr.**

# Atodiadau

| YR AMGYLCHEDD ADEILEDIG A NATURIOL | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **AMCAN 4: Diogelu a gwella amgylchedd hanesyddol, adeiledig a naurio Bro Morgannwg.** | | | | | |
| Cyfeirnod | Dangosydd – Craidd/ Lleol | Targed Monitro | Sbardun | Polisïau Perthnasol / Amcanion Perthnasol yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd | Ffynhonnell Data |
| 4.1 | LLEOL: Nifer y ceisiadau cynllunio a gymeradwywyd lle'r oedd gwrthwynebiad gan Cadw neu Cyfoeth Naturiol Cymru. | Dim ceisiadau cynllunio wedi'u cymeradwyo lle'r oedd gwrthwynebiad gan Cadw neu Cyfoeth Naturiol Cymru. | 1 neu fwy o geisiadau cynllunio wedi'u cymeradwyo lle'r oedd gwrthwynebiad gan Cadw neu Cyfoeth Naturiol Cymru. | Polisïau Strategol: SP1, SP10.<br>Polisïau Rheoli Twf / Datblygu MD1, MD2, MD5, MD6, MD7, MD8, MD9, MD11.<br>Amcanion yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd: 3, 9, 11. | Cofrestr Ceisiadau Cynllunio Bro Morgannwg.<br>Cofrestr Trysorau Sirol. |
| 4.2 | LLEOL: Nifer y ceisiadau cynllunio a gymeradwywyd mewn Ardal Tirwedd Arbennig heb i hynny fod yn unol â Pholisi MG17. | Dim ceisiadau cynllunio wedi'u cymeradwyo yn groes i Bolisi MG17. | 1 neu fwy o geisiadau cynllunio wedi'u cymeradwyo yn groes i Bolisi MG17. | Polisïau Strategol: SP1, SP10<br>Polisïau Rheoli Twf / Datblygu: MG17, MD1, MD2, MD10, MD11, MD12, MD13, MD14, MD17, MD19.<br>Amcanion yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd: 3, 9. | Cofrestr Ceisiadau Cynllunio Bro Morgannwg. |
| 4.3 | LLEOL: Nifer y ceisiadau cynllunio a gymeradwywyd mewn lletem las yn groes i Bolisi MG18. | Dim ceisiadau cynllunio wedi'u cymeradwyo yn groes i Bolisi MG18. | 1 neu fwy o geisiadau cynllunio wedi'u cymeradwyo yn groes i Bolisi MG18. | Polisïau Strategol: SP1, SP10.<br>Polisïau Rheoli Twf / Datblygu: MG2, MG18, MD1, MD2, MD5, MD10, MD11, MD12, MD13, MD14, MD17, MD19.<br>Amcanion yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd: 3, 9. | Cofrestr Ceisiadau Cynllunio Bro Morgannwg. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 4.4 | LLEOL: Nifer y ceisiadau cynllunio a gymeradwywyd yn Arfordir Treftadaeth Morgannwg yn groes i Bolisi MG27. | Dim ceisiadau cynllunio wedi'u cymeradwyo yn groes i Bolisi MG27. | 1 neu fwy o geisiadau cynllunio wedi'u cymeradwyo yn groes i Bolisi MG27. | Polisïau Strategol: SP1, SP10.<br>Polisïau Rheoli Twf / Datblygu: MG2, MG27, MD1, MD2, MD5, MD10, MD11, MD12, MD13, MD14, MD17, MD19.<br>Amcanion yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd: 3, 9. | Cofrestr Ceisiadau Cynllunio Bro Morgannwg. |
| 4.5 | LLEOL: Nifer y ceisiadau cynllunio wedi'u cymeradwyo a fyddai'n cael effaith anffafriol ar Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA). | Dim ceisiadau cynllunio wedi'u rhoi a fyddai'n cael effaith anffafriol ar y dynodiad heb gydymffurfio â'r profion a nodir ym Mholisi MG20 neu bolisi cenedlaethol. Cynllun. | 1 neu fwy o ganiatadau cynllunio wedi'u rhoi heb i hynny fod yn unol â Pholisi MG20 neu bolisi cenedlaethol. | Polisïau Strategol: SP1, SP10.<br>Polisïau Rheoli Twf / Datblygu: MG19, MG20, MG21, MD1, MD2, MD9.<br>Amcanion yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd: 3, 9. | Cofrestr Ceisiadau Cynllunio Bro Morgannwg. |
| 4.6 | LLEOL: Nifer y ceisiadau cynllunio wedi'u cymeradwyo a fyddai'n cael effaith anffafriol ar Safle o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur. | Dim ceisiadau cynllunio wedi'u rhoi a fyddai'n cael effaith anffafriol ar y dynodiad heb gydymffurfio â'r profion a nodir ym Mholisi MG21 neu bolisi cenedlaethol. Cynllun. | 1 neu fwy o ganiatadau cynllunio wedi'u rhoi heb i hynny fod yn unol â Pholisi MG21 neu bolisi cenedlaethol. | Polisïau Strategol: SP1, SP10.<br>Polisïau Rheoli Twf / Datblygu: MG21, MD1, MD2, MD9.<br>Amcanion yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd: 3, 9. | Cofrestr Ceisiadau Cynllunio Bro Morgannwg. |
| 4.7 | LLEOL: Faint o fannau agored cyhoeddus a enillwyd trwy ddatblygu. (Ha). | Cynnydd net mewn mannau agored. | Dim cynnydd chwemisol net mewn mannau agored. | Polisïau Strategol SP1, SP10.<br>Polisïau Rheoli Twf / Datblygu: MG2, MG3, MG10, MG28, MD1, MD2, MD3, MD4, MD5.<br>Amcanion yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd: 2, 3, 4, 5, 9, 15. | Cofrestr Ceisiadau Cynllunio Bro Morgannwg.<br>Cronfa Ddata A106 Bro Morgannwg.<br>Dangosydd RhD – Datblygu Cynaliadwy 6. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 4.8 | LLEOL: Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol mewn perthynas â Chanllawiau Dylunio i Ddeiliaid Tai. | Cynhyrchu Canllawiau Cynllunio Atodol Canllawiau Dylunio i Ddeiliaid Tai o fewn un flwyddyn i fabwysiadu'r Cynllun. | Methu â pharatoi Canllawiau Cynllunio Atodol o fewn un flwyddyn i fabwysiadu'r Cynllun. | Polisïau Strategol: SP1, SP10.<br>Polisïau Rheoli Twf / Datblygu: MD2, MD5, MD8, MD9, MD10, MD12.<br>Amcanion yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd: 1, 3, 9, 10. | Tîm Polisi Cynllunio Bro Morgannwg.<br>Blaenraglen Waith y Cabinet. |
| 4.9 | LLEOL: Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol mewn perthynas â Bioamrywiaeth a Datblygu. | Cynhyrchu Canllawiau Cynllunio Atodol Bioamrywiaeth a Datblygu o fewn un flwyddyn i fabwysiadu'r Cynllun. | Methu â paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol o fewn un flwyddyn i fabwysiadu'r Cynllun. | Polisïau Strategol: SP1, SP10.<br>Polisïau Rheoli Twf / Datblygu: MG19, MG20, MG21, MD1, MD2, MD9.<br>Amcanion yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd: 3, 9. | Tîm Polisi Cynllunio Bro Morgannwg.<br>Blaenraglen Waith y Cabinet. |
| 4.10 | LLEOL: Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol mewn perthynas ag Addasu ac Adnewyddu Adeiladau Gwledig. | Cynhyrchu Canllawiau Cynllunio Atodol Addasu ac Adnewyddu Adeiladau Gwledig o fewn un flwyddyn i fabwysiadu'r Cynllun. | Methu â pharatoi Canllawiau Cynllunio Atodol o fewn un flwyddyn i fabwysiadu'r Cynllun. | Polisïau Strategol: SP1, SP10.<br>Polisïau Rheoli Twf / Datblygu: MG1, MD1, MD2, MD8, MD11, MD13, MD17.<br>Amcanion yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd: 1, 8, 9, 10, 11, 15. | Tîm Polisi Cynllunio Bro Morgannwg.<br>Blaenraglen Waith y Cabinet. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 4.11 | LLEOL: Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol mewn perthynas â Dylunio yn y Dirwedd. | Cynhyrchu Canllawiau Cynllunio Atodol Dylunio yn y Dirwedd o fewn dwy flynedd i fabwysiadu'r Cynllun. | Methu â pharatoi Canllawiau Cynllunio Atodol o fewn dwy flynedd i fabwysiadu'r Cynllun. | Polisïau Strategol: SP1, SP10.<br><br>Polisïau Rheoli Twf / Datblygu: MG17, MG18, MG27, MD1, MD2, MD10, MD11, MD12, MD13, MD14, MD17, MD19<br><br>Amcanion yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd: 1, 9, 10. | Tîm Polisi Cynllunio Bro Morgannwg.<br><br>Blaenraglen Waith y Cabinet. |
| 4.12 | LLEOL: Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol mewn perthynas â Chelf Gyhoeddus. | Cynhyrchu Canllawiau Cynllunio Atodol Celf Gyhoeddus o fewn un flwyddyn i fabwysiadu'r Cynllun. | Methu â pharatoi Canllawiau Cynllunio Atodol o fewn un flwyddyn i fabwysiadu'r Cynllun. | Polisïau Strategol: SP1, SP10.<br><br>Polisïau Rheoli Twf / Datblygu: MD2, MD4.<br><br>Amcanion yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd: 4, 5, 9, 10. | Tîm Polisi Cynllunio Bro Morgannwg.<br><br>Blaenraglen Waith y Cabinet. |
| 4.13 | LLEOL: Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol mewn perthynas â Choed a Datblygu. | Cynhyrchu Canllawiau Cynllunio Atodol Coed a Datblygu o fewn un flwyddyn i fabwysiadu'r Cynllun. | Methu â pharatoi Canllawiau Cynllunio Atodol o fewn un flwyddyn i fabwysiadu'r Cynllun. | Polisïau Strategol: SP1, SP10.<br><br>Polisïau Rheoli Twf / Datblygu: MD1, MD2, MD9.<br><br>Amcanion yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd: 8, 9, 10. | Tîm Polisi Cynllunio Bro Morgannwg.<br><br>Blaenraglen Waith y Cabinet. |

| CYFLEUSTERAU CYMUNEDOL | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **AMCAN 5: Cynnal, gwella a hyrwyddo cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol ym Mro Morgannwg.** | | | | | |
| Cyfeirnod | Dangosydd – Craidd/ Lleol | Targed Monitro | Sbardun | Polisïau Perthnasol / Amcanion Perthnasol yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd | Ffynhonnell Data |
| 5.1 | LLEOL: Cyfleusterau addysg sydd wedi'u nodi ym Mholisi MG6, a sicrhawyd trwy A106/ Ardoll Seilwaith Cymunedol mewn cydweithrediad â datblygiad newydd. | Cyflawni cyfleuster addysg dan Bolisi MG6 (1) erbyn 2018.<br><br>Cyflawni cyfleuster addysg dan Bolisi MG6 (2) erbyn 2020.<br><br>Cyflawni cyfleusterau addysg dan Bolisi MG6 (3) a Pholisi MG6 (6) erbyn 2024.<br><br>Cyflawni cyfleusterau addysg dan Bolisi MG6 (4) a Pholisi MG6 (5) erbyn 2026. | Methu â chyflawni'r cyfleusterau addysg newydd a nodir ym Mholisi MG6 yn unol â'r targedau monitro. | Polisïau Strategol: SP1, SP2.<br><br>Polisïau Rheoli Twf / Datblygu: MG2, MG3, MG6, MD1, MD2, MD4, MD5.<br><br>Amcanion yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd: 2, 4, 5. | Cofrestr Ceisiadau Cynllunio Bro Morgannwg.<br><br>Cronfa ddata A106 Bro Morgannwg |

[38] **Diffiniad o Gyfleusterau Cymunedol: Cyfleusterau a ddefnyddir gan gymunedau lleol at ddibenion cymdeithasol, hamdden a diwylliannol. Cyfeirier at Atodiad 1 y CDLl..**

[39] **Ardaloedd ag Angen Dynodedig: Cyfeirier at Bapur Cefndir Cyfleusterau Cymunedol y CDLl (Medi 2013) a'r Canllawiau Cynllunio Atodol Rhwymedigaethau Cynllunio.**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 5.2 | LLEOL: Cyfleusterau cymunedol sydd wedi'u nodi ym Mholisi MG7, a sicrhawyd trwy A106/ Ardoll Seilwaith Cymunedol mewn cydweithrediad â datblygiad newydd. | Cyflawni cyfleuster cymunedol dan Bolisi MG7 (1) erbyn 2018.<br><br>Cyflawni cyfleuster cymunedol dan Bolisi MG7 (3) erbyn 2020.<br><br>Cyflawni cyfleuster cymunedol dan Bolisi MG7 (2) erbyn 2024.<br><br>Cyflawni cyfleuster cymunedol dan Bolisi MG7 (4) erbyn 2026 | Methu â chyflawni'r cyfleusterau cymunedol newydd a nodir ym Mholisi MG7 yn unol â'r targedau monitro | Polisïau Strategol SP1,SP2,SP6, SP11.<br><br>Polisïau Rheoli Twf / Datblygu: MG2, MG3, MG7, MG8, MG29, MD1, MD2, MD4, MD5, MD13.<br><br>Amcanion yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd: 2, 4, 5. | Cofrestr Ceisiadau Cynllunio Bro Morgannwg.<br><br>Cronfa ddata A106 Bro Morgannwg. |
| 5.3 | LLEOL: Mannau agored cyhoeddus sydd wedi'u nodi ym Mholisi MG7, a sicrhawyd trwy A106/ Ardoll Seilwaith Cymunedol mewn cydweithrediad â datblygiad newydd. | Cyflawni mannau agored cyhoeddus dan Bolisi MG28 (1) a Pholisi MG28 (4) erbyn 2018.<br><br>Cyflawni mannau agored cyhoeddus dan Bolisi MG28 (5), a Pholisi MG28 (8) erbyn 2020.<br><br>Cyflawni mannau agored cyhoeddus dan Bolisi MG28 (7), a Pholisi MG28 (11) erbyn 2024.<br><br>Cyflawni mannau agored cyhoeddus dan Bolisi MG28 (2), Polisi MG28 (3) a Pholisi MG25 (6) erbyn 2026. | Methu â chyflawni'r mannau agored cyhoeddus yn unol â'r targedau monitro. | Polisïau Strategol SP1, SP2.<br><br>Polisïau Rheoli Twf / Datblygu: MG2, MG3, MG28, MD1, MD2, MD3 MD4, MD5.<br><br>Amcanion yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd: 2, 4, 5, 8, 9, 10. | Cofrestr Ceisiadau Cynllunio Bro Morgannwg.<br><br>Cronfa ddata A106 Bro Morgannwg. |
| 5.4 | LLEOL: Nifer y cyfleusterau cymunedol[38] a gollwyd trwy ddatblygu. | Dim cyfleusterau cymunedol wedi'u colli'n annerbyniol mewn ardaloedd ag angen dynodedig[39] yn unol â Pholisi MD5 (Datblygu o fewn Ffiniau Aneddiadau). | Colli 1 cyfleuster cymunedol mewn ardal ag angen dynodedig heb i hynny fod yn unol â Pholisi MD5. | Polisïau Strategol SP1, SP11.<br><br>Polisïau Rheoli Twf / Datblygu: MG2, MG7, MG8, MG29, MD1, MD2, MD3, MD4, MD5, MD13.<br><br>Amcanion yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd: 2, 4, 5. | Cofrestr Ceisiadau Cynllunio Bro Morgannwg.<br><br>Monitro Ardoll Seilwaith Cymunedol/ A106.<br><br>Arolwg Aneddiadau Cynaliadwy Bro Morgannwg. |
| 5.5 | LLEOL: Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol mewn perthynas â Rhwymedigae-thau Cynllunio. | Cynhyrchu Canllawiau Cynllunio Atodol Rhwymedigaethau Cynllunio o fewn un flwyddyn i fabwysiadu'r Cynllun. | Methu â pharatoi Canllawiau Cynllunio Atodol o fewn un flwyddyn i fabwysiadu'r Cynllun. | Polisïau Strategol SP1, SP2, SP4, SP5, SP7.<br><br>Polisïau Rheoli Twf / Datblygu: MG2, MG3, MG4, MG6, MG7, MG8, MG9, MG16, MG28, MD1, MD2, MD3, MD4, MD5, MD9, MD10, MD14.<br><br>Amcanion yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd: 1, 2, 4, 5, 9, 10, 12, 13. | Tîm Polisi Cynllunio Bro Morgannwg.<br><br>Blaenraglen Waith y Cabinet. |

| MANWERTHU | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **AMCAN 6: Atgyfnerthu bywiogrwydd, hyfywedd a dengarwch canolfannau siopa tref, ardal, lleol a chymdogaeth Bro Morgannwg.** | | | | | |
| Cyfeirnod | Dangosydd – Craidd/ Lleol | Targed Monitro | Sbardun | Polisïau Perthnasol / Amcanion Perthnasol yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd | Ffynhonnell Data |
| 6.1 | CRAIDD: Faint o ddatblygiadau manwerthu, swyddfeydd a hamdden (metr sgwâr) a ganiatawyd o fewn ffiniau sefydledig canol trefi a chanolfannau ardal. | Cynnal neu gynyddu lefel yr arwynebedd llawr manwerthu o fewn canol trefi a chanolfannau ardal. | Gostyngiad o 10% yn lefel yr arwynebedd llawr manwerthu presennol o fewn canol trefi a chanolfannau ardal. | Polisïau Strategol: SP1, SP2, SP5, SP6, SP11.<br>Polisïau Rheoli Twf / Datblygu: MG2, MG3, MG7, MG9, MG10, MG11, MG12, MG13, MG14, MG15, MG29, MD1, MD4, MD13, MD14.<br>Amcanion yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd: 2, 4, 5, 13, 14, 15. | Cofrestr Ceisiadau Cynllunio Bro Morgannwg. |
| | | Cynnal neu gynyddu lefel yr arwynebedd llawr swyddfeydd o fewn canol trefi a chanolfannau ardal. | Gostyngiad o 10% yn lefel yr arwynebedd llawr swyddfeydd presennol o fewn canol trefi a chanolfannau ardal. | | |
| | | Cynnal neu gynyddu lefel yr arwynebedd llawr hamdden o fewn canol trefi a chanolfannau ardal. | Gostyngiad o 10% yn lefel yr arwynebedd llawr hamdden presennol o fewn canol trefi a chanolfannau ardal. | | |

[40] Ffiniau Canol Trefi a Chanolfannau Ardal a Phrif Ffryntiadau Siopa – Gweler Atodiad 5 Datganiad Ysgrifenedig y CDLl

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | CRAIDD: Faint o ddatblygiadau manwerthu, swyddfeydd a hamdden (metr sgwâr) a ganiatawyd y tu allan i ffiniau sefydledig canol trefi a chanolfannau ardal. | Peidio â chaniatáu unrhyw arwynebedd llawr manwerthu mawr y tu allan i ffiniau canol trefi a chanolfannau ardal oni bai bod hynny yn unol â Pholisi MG13 (Ardaloedd Manwerthu ar Gyrion Trefi a'r Tu Allan i Drefi). | 1 neu fwy o geisiadau cynllunio wedi'u cymeradwyo ar gyfer arwynebedd llawr manwerthu mawr y tu allan i ffiniau canol trefi a chanolfannau ardal a hynny heb fod yn unol â Pholisi MG13. | | |
| | | Peidio â chaniatáu unrhyw arwynebedd llawr swyddfeydd mawr y tu allan i ffiniau canol trefi a chanolfannau ardal oni bai bod hynny yn unol â Pholisi MD14 (Cynigion Cyflogaeth Newydd). | 1 neu fwy o geisiadau cynllunio wedi'u cymeradwyo ar gyfer arwynebedd llawr swyddfeydd mawr y tu allan i ffiniau canol trefi a chanolfannau ardal a hynny heb fod yn unol â Pholisi MD14. | | |
| | | Peidio â chaniatáu unrhyw arwynebedd llawr hamdden mawr y tu allan i ffiniau canol trefi a chanolfannau ardal oni bai bod hynny yn unol â Pholisi MD13 (Twristiaeth a Hamdden) neu MG29 (Cyfleusterau Twristiaeth a Hamdden). | 1 neu fwy o geisiadau cynllunio wedi'u cymeradwyo ar gyfer arwynebedd llawr hamdden mawr y tu allan i ffiniau canol trefi a chanolfannau ardal a hynny heb fod yn unol â Pholisïau MD13 ac MG29. | | |
| 6.2 | LLEOL: Nifer y ceisiadau a gymeradwywyd yn flynyddol ar gyfer defnyddiau heblaw A1 yn ffryntiadau cynradd ac eilaidd y canolfannau manwerthu canol tref ac ardal. | Mae lefel y defnyddiau heblaw A1 yn 35% neu lai mewn ffryntiadau cynradd ac yn 50% neu lai mewn ffryntiadau eilaidd yn unol â Pholisi MG14. | 1 neu fwy o ddefnyddiau heblaw A1 wedi cael caniatâd cynllunio lle mae canol y dref neu'r ganolfan ardal ar 35% neu'n uwch na hynny o fewn ffryntiadau cynradd a 50% o fewn ffryntiadau eilaidd. | Polisïau Strategol: SP1, SP6.<br>Polisïau Rheoli Twf / Datblygu: MG12, MG14, MD1, MD5.<br>Amcanion yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd: 2, 4, 5, 14. | Cofrestr Ceisiadau Cynllunio Bro Morgannwg.<br>Arolwg Arwynebedd Llawr Manwerthu Blynyddol Bro Morgannwg. |
| 6.3 | LLEOL: Nifer y ceisiadau a gymeradwywyd yn flynyddol ar gyfer defnyddiau heblaw A1 yn ffryntiadau cynradd ac eilaidd y canolfannau manwerthu lleol a chymdogaeth. | Mae lefel y defnyddiau heblaw A1 mewn canolfannau lleol a chymdogaeth yn 50% neu lai yn unol â Pholisi MG15. | 1 neu fwy o ddefnyddiau heblaw A1 wedi cael caniatâd cynllunio lle mae'r ganolfan leol neu gymdogaeth ar 50% neu'n uwch na hynny. | Polisïau Strategol: SP1, SP6.<br>Polisïau Rheoli Twf / Datblygu: MG12, MG15, MD1, MD5.<br>Amcanion yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd: 2, 4, 5, 14. | Cofrestr Ceisiadau Cynllunio Bro Morgannwg.<br>Arolwg Arwynebedd Llawr Manwerthu Blynyddol Bro Morgannwg. |

[41] **Ffiniau Canolfannau Lleol a Chymdogaeth – Gweler Atodiad 6 Datganiad Ysgrifenedig y CDLl**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 6.4 | LLEOL: Canran yr unedau manwerthu gwag yn y ffryntiadau cynradd ac eilaidd o fewn ffiniau'r canolfannau manwerthu canol tref ac ardal [40]. | Gostyngiad yng nghyfraddau'r unedau gwag mewn canolfannau tref ac ardal. | Cynnydd yng nghyfraddau'r unedau gwag a gofnodwyd am 2 flynedd olynol yng nghanol y trefi a'r canolfannau ardal. | Polisïau Strategol: SP1, SP6.<br>Polisïau Rheoli Twf / Datblygu: MG12, MG14, MD1, MD5.<br>Amcanion yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd: 2, 4, 5, 14. | Cofrestr Ceisiadau Cynllunio Bro Morgannwg.<br>Arolwg Arwynebedd Llawr Manwerthu Blynyddol Bro Morgannwg.<br>. |
| 6.5 | LLEOL: Canran yr unedau manwerthu gwag o fewn ffiniau'r canolfannau lleol a chymdogaeth.[41] | Gostyngiad yng nghyfraddau'r unedau gwag mewn canolfannau lleol a chymdogaeth. | Cynnydd yng nghyfraddau'r unedau gwag a gofnodwyd am 2 flynedd olynol mewn canolfannau lleol a chymdogaeth. | Polisïau Strategol: SP1, SP6.<br>Polisïau Rheoli Twf / Datblygu: MG12, MG15, MD1, MD5.<br>Amcanion yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd: 2, 4, 5, 14. | Cofrestr Ceisiadau Cynllunio Bro Morgannwg.<br>Arolwg Arwynebedd Llawr Manwerthu Blynyddol Bro Morgannwg. |

TAI

**AMCAN 7: Rhoi'r cyfle i bobl ym Mro Morgannwg ddiwallu eu hanghenion tai.**

| Cyfeirnod | Dangosydd – Craidd/ Lleol | Targed Monitro | Sbardun | Polisïau Perthnasol / Amcanion Perthnasol yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd | Ffynhonnell Data |
|---|---|---|---|---|---|
| 7.1 | CRAIDD: Cyflenwad o dir ar gyfer tai, wedi'i gymryd o'r Gydastudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai gyfredol (TAN1). | Cynnal cyflenwad 5 mlynedd o dir ar gyfer tai i'w ddatblygu am bob blwyddyn o'r cynllun yn dilyn ei fabwysiadu. | Mae cyflenwad llai na 5 mlynedd o dir ar gyfer tai wedi'i gofnodi, mewn unrhyw flwyddyn yn dilyn mabwysiadu'r Cynllun. | Polisïau Strategol: SP1, SP2, SP3, SP4.<br>Polisïau Rheoli Twf/ Datblygu: MG1, MG2, MG3, MG4, MD1, MD5, MD6, MD10, MD11.<br>Amcanion yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd: 1, 3, 4, 8, 10, 12. | Cydastudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai flynyddol Bro Morgannwg.<br>Cofrestr Ceisiadau Cynllunio Bro Morgannwg. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 7.2 | CRAIDD: Nifer yr anheddau fforddiadwy ychwanegol net a adeiladwyd. | Adeiladu 746 o anheddau fforddiadwy ychwanegol erbyn 2018.<br>Adeiladu 993 o anheddau fforddiadwy ychwanegol erbyn 2019.<br>Adeiladu 1,283 o anheddau fforddiadwy ychwanegol erbyn 2020.<br>Adeiladu 1,646 o anheddau fforddiadwy ychwanegol erbyn 2021.<br>Adeiladu 1,993 o anheddau fforddiadwy ychwanegol erbyn 2022.<br>Adeiladu 2,279 o anheddau fforddiadwy ychwanegol erbyn 2023.<br>Adeiladu 2,555 o anheddau fforddiadwy ychwanegol erbyn 2024.<br>Adeiladu 2,741 o anheddau fforddiadwy ychwanegol erbyn 2025.<br>Adeiladu 2,933 o anheddau fforddiadwy ychwanegol erbyn 2026. | 10% yn llai na'r targed tai fforddiadwy dros 2 flynedd olynol. | Polisïau Strategol: SP1, SP2, SP3, SP4.<br>Polisïau Rheoli Twf/ Datblygu: MG1, MG2, MG3, MG4, MD1, MD4, MD5, MD6, MD10.<br>Amcanion yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd: 1, 3, 4, 8, 10, 12. | Cydastudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai flynyddol Bro Morgannwg.<br>Cofrestr Ceisiadau Cynllunio Bro Morgannwg.<br>Dangosydd Datblygu Cynaliadwy 3 |
| 7.3 | CRAIDD: Nifer yr anheddau marchnad gyffredinol ychwanegol net a adeiladwyd. | Adeiladu 1,879 o anheddau marchnad gyffredinol ychwanegol erbyn 2018.<br>Adeiladu 2,418 o anheddau marchnad gyffredinol ychwanegol erbyn 2019.<br>Adeiladu 3,074 o anheddau marchnad gyffredinol ychwanegol erbyn 2020.<br>Adeiladu 3,872 o anheddau marchnad gyffredinol ychwanegol erbyn 2021.<br>Adeiladu 4,695 o anheddau marchnad gyffredinol ychwanegol erbyn 2022.<br>Adeiladu 5,445 o anheddau marchnad gyffredinol ychwanegol erbyn 2023.<br>Adeiladu 6,242 o anheddau marchnad gyffredinol ychwanegol erbyn 2024.<br>Adeiladu 6,387 o anheddau marchnad gyffredinol ychwanegol erbyn 2025.<br>Adeiladu 6,527 o anheddau marchnad gyffredinol ychwanegol erbyn 2026. | 10% yn llai na'r targed tai marchnad gyffredinol dros 2 flynedd olynol. | Polisïau Strategol: SP1, SP2, SP3.<br>Polisïau Rheoli Twf/ Datblygu: MG1, MG2, MG3, MD1, MD5, MD6, MD11, MD12.<br>Amcanion yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd: 1, 3, 4, 8, 10, 12. | Cydastudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai flynyddol Bro Morgannwg.<br>Cofrestr Ceisiadau Cynllunio Bro Morgannwg. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 7.4 | LLEOL: Diwallu'r angen byrdymor dynodedig am Lety Sipsiwn a Theithwyr awdurdodedig. | Darparu safle sipsiwn a theithwyr awdurdodedig ar gyfer dwy lain yn y 'Tir i'r Dwyrain o Langan' i ddiwallu'r anghenion llety dynodedig. | Methu â diwallu'r anghenion byrdy-mor dynodedig am lety sipsiwn a theithwyr erbyn 2018. | Polisïau Strategol: SP1.<br>Polisïau Rheoli Twf/ Datblygu: MG5, MD18.<br>Amcanion yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd: 1, 3, 4, 5, 8, 10, 12. | Arolwg Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr Blynyddol Llywodraeth Cymru.<br>Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr Bro Morgannwg. |
| 7.5 | LLEOL: Diwallu'r angen hirdymor dynodedig am Lety Sipsiwn a Theithwyr awdurdodedig. | Sefydlu Bwrdd Llety Sipsiwn a Theithwyr. | Erbyn mis Mehefin 2016. | Polisïau Strategol: SP1.<br>Polisïau Rheoli Twf/ Datblygu: MD18. | CBM / Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr. |
| | | Cytuno ar y trefniadau rheoli prosiect gan gynnwys strwythur adrodd. | Erbyn diwedd mis Mehefin 2016. | | |
| | | Gwneud cyswllt cychwynnol a chynnal cyswllt â meddianwyr Hayes Road. | Gorffennaf 2016 – Mai 2018. | | |
| | | Cytuno ar y fethodoleg ar gyfer cynnal chwiliad ac asesiad safleoedd. | Erbyn diwedd mis Rhagfyr 2016. | | |
| | | Cynnal chwiliad ac asesiad safleoedd a sicrhau cymeradwyaeth i'r canfyddiadau gan gynnwys adnabod safle neu safleoedd priodol a sicrhau caniatâd cynllunio ac, os yn briodol, cyllid (gan gynnwys unrhyw arian grant gan Lywodraeth Cymru) ar gyfer y safle dynodedig. | Erbyn diwedd mis Mai 2018. | | |
| 7.6 | LLEOL: Nifer yr anheddau y rhoddwyd caniatâd ar eu cyfer yn flynyddol y tu allan i'r ffiniau aneddiadau dynodedig nad ydynt yn ateb gofynion polisïau'r CDLl neu bolisi cenedlaethol. | Dim anheddau'n cael caniatâd y tu allan i'r ffiniau aneddiadau dynodedig nad ydynt yn ateb gofynion polisïau'r CDLl neu bolisi cenedlaethol. | 1 neu fwy o anheddau wedi cael caniatâd y tu allan i'r ffiniau aneddiadau dynodedig nad ydynt yn ateb gofynion polisïau'r CDLl neu bolisi cenedlaethol mewn unrhyw flwyddyn. | Polisïau Strategol: SP1.<br>Polisïau Rheoli Twf/ Datblygu: MG1, MD1, MD10, MD11, MD12.<br>Amcanion yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd: 1, 4, 5, 8, 10, 12. | Cofrestr Ceisiadau Cynllunio Bro Morgannwg. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 7.7 | LLEOL: Cyfanswm yr anheddau a gwblhawyd ar safleoedd tai strategol fel a nodir ym mholisïau dyrannu safleoedd MG2 ac MG3. | Cyflawni Polisi MG2 (4) erbyn 2022.<br>Cyflawni Polisi MG2 (2) a Pholisi MG2 (6) erbyn 2024.<br>Cyflawni Polisi MG2 (1), Polisi MG3, Polisi MG2 (3) Polisi MG2 (5) a Pholisi MG2 (7) erbyn 2026. | Methu â chyflawni safleoedd tai strategol erbyn y dyddiadau yn y targed monitro. | Polisïau Strategol: SP1, SP2, SP3, SP4.<br>Polisïau Rheoli Twf/ Datblygu: MG1, MG2, MG3, MG4, MD1, MD4, MD6.<br>Amcanion yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd: 1, 3, 4, 5, 8, 10, 12. | Cofrestr Ceisiadau Cynllunio Bro Morgannwg.<br><br>Cydastudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai flynyddol Bro Morgannwg. |
| 7.8 | LLEOL: Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol mewn perthynas â Thai Fforddiadwy | Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol Tai Fforddiadwy o fewn un flwyddyn i fabwysiadu'r Cynllun. | Methu â pharatoi Canllawiau Cynllunio Atodol Tai Fforddiadwy o fewn un flwyddyn i fabwysiadu'r Cynllun. | Polisïau Strategol: SP1, SP4.<br>Polisïau Rheoli Twf/ Datblygu: MG1, MG2, MG3, MG4, MD1, MD4, MD5, MD6, MD10.<br>Amcanion yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd: 1, 3, 4, 8, 10, 12. | Tîm Polisi Cynllunio Bro Morgannwg.<br><br>Blaenraglen Waith y Cabinet. |

| ECONOMI | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **AMCAN 8: Meithrin datblygiad economi leol amrywiol a chynaliadwy sy'n diwallu anghenion Bro Morgannwg a Rhanbarth ehangach De Ddwyrain Cymru.** | | | | | |
| Cyfeirnod | Indicator - Core /Local | Monitoring Target | Trigger Point | Relevant Policies /SA Objectives | Data Source |
| 8.1 | LLEOL: Cyfanswm y datblygiadau cyflogaeth strategol a ganiatawyd ar safleoedd sydd wedi'u dyrannu dan Bolisi MG9 (ha). | 31 ha (net) o dir cyflogaeth strategol gyda chaniatadau cynllunio wedi'u sicrhau erbyn 2018.<br>63 ha (net) o dir cyflogaeth strategol gyda chaniatadau cynllunio wedi'u sicrhau erbyn 2020.<br>147 ha (net) o dir cyflogaeth strategol gyda chaniatadau cynllunio wedi'u sicrhau erbyn 2022.<br>230 ha (net) o dir cyflogaeth strategol gyda chaniatadau cynllunio wedi'u sicrhau erbyn 2024.<br>314 ha (net) o dir cyflogaeth strategol gyda chaniatadau cynllunio wedi'u sicrhau erbyn 2026. | 10% yn llai na'r targed ar gyfer tir cyflogaeth strategol erbyn y dyddiad targed. | Polisïau Strategol: SP1, SP2, SP5.<br>Polisïau Rheoli Twf/ Datblygu: MG9, MG10, MG11, MD14, MD15, MD16.<br>Amcanion yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd: 2, 4, 8, 10, 12, 13. | Cofrestr Ceisiadau Cynllunio Bro Morgannwg.<br><br>Arolwg Tir Cyflogaeth Cyngor Bro Morgannwg.<br><br>Dangosydd Datblygu Cynaliadwy 1.<br>. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 8.2 | LLEOL: Nifer y swyddi a ragwelir ar safleoedd cyflogaeth strategol sydd wedi cael caniatâd. | Targedau Safleoedd Cyflogaeth Strategol ar y Cyfan Rhagwelir 920 – 1,120 o swyddi ar safleoedd cyflogaeth strategol sydd wedi cael caniatâd erbyn 2020.<br>Rhagwelir 4,610 – 5,610 o swyddi ar safleoedd cyflogaeth strategol sydd wedi cael caniatâd erbyn 2026.<br>Ardal Fenter<br>Rhagwelir 300 – 500 o swyddi ar dir sydd wedi cael caniatâd yn Ardal Fenter Sain Tathan a Maes Awyr Caerdydd erbyn 2020.<br>Rhagwelir 1,500 – 2,500 o swyddi ar dir sydd wedi cael caniatâd yn Ardal Fenter Sain Tathan a Maes Awyr Caerdydd erbyn 2026.<br>Tir i'r De o Gyffordd 34, M4 Hensol Rhagwelir 620 o swyddi ar dir sydd wedi cael caniatâd i'r De o Gyffordd 34, M4, Hensol erbyn 2020.<br>Rhagwelir 3,110 o swyddi ar dir sydd wedi cael caniatâd i'r De o Gyffordd 34, M4, Hensol erbyn 2026. | 10% yn llai na nifer y swyddi a ragwelid ar safleoedd cyflogaeth strategol erbyn y dyddiad targed. | Polisïau Strategol: SP1, SP2, SP5.<br>Polisïau Rheoli Twf/ Datblygu: MG9, MG10, MG11, MD14, MD15, MD16.<br>Amcanion yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd: 2, 4, 8, 10, 12, 13. | Cofrestr Ceisiadau Cynllunio Bro Morgannwg.<br>Arolwg Tir Cyflogaeth Cyngor Bro Morgannwg. |
| 8.3 | LLEOL: Cyfanswm y datblygiadau y rhoddwyd caniatâd ar eu cyfer yn unol â Pholisi MD14 ar safleoedd sydd wedi'u dyrannu dan Bolisi MG9 (ha). | 2.65 ha o dir cyflogaeth leol wedi'i ddatblygu y flwyddyn am y blynyddoedd sy'n weddill o gyfnod y Cynllun. | 10% yn llai na'r targed o ran tir cyflogaeth leol net dros 2 flynedd olynol. | Polisïau Strategol: SP1, SP5.<br>Polisïau Rheoli Twf/ Datblygu: MG9, MD14, MD15, MD16.<br>Amcanion yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd: 2, 4, 8, 10, 12, 13. | Cofrestr Ceisiadau Cynllunio Bro Morgannwg<br>Arolwg Tir Cyflogaeth Cyngor Bro Morgannwg.<br>Dangosydd Datblygu Cynaliadwy 1. |
| 8.4 | LLEOL: Faint o dir cyflogaeth presennol neu ddyraniadau dan Bolisi MG9 a gollwyd i ddefnyddiau heblaw dosbarth B. | Dim safleoedd cyflogaeth presennol na safleoedd cyflogaeth sydd wedi'u dyrannu wedi cael eu colli i ddefnyddiau heblaw dosbarth B oni bai bod hynny yn unol â Pholisi MD15 neu MD16. | 1 neu fwy o ganiatadau cynllunio wedi cael eu rhoi gan arwain at golli tir cyflogaeth i ddefnyddiau heblaw dosbarth B yn groes i bolisïau MD15 neu MD16. | Polisïau Strategol: SP1, SP2, SP5.<br>Polisïau Rheoli Twf/ Datblygu: MG3, MG9, MG10, MG11, MD1, MD14, MD15, MD16.<br>Amcanion yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd: 2, 3, 4, 8, 10, 12, 13. | Cofrestr Ceisiadau Cynllunio Bro Morgannwg.<br>.<br>Arolwg Tir Cyflogaeth Cyngor Bro Morgannwg. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 8.5 | LLEOL: Mabwysiadu Fframwaith Datblygu Strategol . | Ymgynghori ynghylch Fframwaith Datblygu Strategol drafft Ardal Fenter Maes Awyr Caerdydd a Sain Tathan o fewn un flwyddyn i fabwysiadu'r Cynllun. | Methu ag ymgynghori ynghylch Fframwaith Datblygu Strategol drafft Ardal Fenter Maes Awyr Caerdydd a Sain Tathan o fewn un flwyddyn i fabwysiadu'r Cynllun. | Polisïau Strategol: SP1, SP2, SP5.<br>Polisïau Rheoli Twf/ Datblygu: MG9, MG10, MD14, MD15, MD16.<br>Amcanion yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd: 2, 3, 4, 8, 10, 12, 13. | Tîm Polisi Cynllunio Bro Morgannwg.<br><br>Blaenraglen Waith y Cabinet. |

TWRISTIAETH

**AMCAN 9: Creu cyrchfan twristiaeth deniadol gyda delwedd gadarnhaol ar gyfer Bro Morgannwg, gan roi anogaeth ar gyfer datblygu cynaliadwy a chyfleusterau o ansawdd i gyfoethogi'r profiad ar gyfer ymwelwyr a thrigolion.**

| Cyfeirnod | Indicator - Core / Local | Monitoring Target | Trigger Point | Relevant Policies/SA Objectives | Data Source |
|---|---|---|---|---|---|
| 9.1 | LLEOL: Darparu cyfleusterau twristiaeth newydd a gwell a nodir ym Mholisi MG29. | Cyflawni Polisi MG29 (1) erbyn 2018.<br><br>Cyflawni Polisi MG29 (2) erbyn 2022.<br><br>Cyflawni Polisi MG29 (3) erbyn 2026. | Methu â chyflawni'r cyfleusterau twristiaeth newydd a gwell a nodir ym Mholisi MG29 yn unol â'r targedau monitro. | Polisïau Strategol: SP1, SP11.<br>Polisïau Rheoli Twf/ Datblygu: MG29, MD13.<br>Amcanion yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd: 2, 3, 5, 8, 10, 11, 12, 13, 15. | Cofrestr Ceisiadau Cynllunio Bro Morgannwg. |

ADNODDAU NATURIOL

**AMCAN 10: Sicrhau bod datblygiadau ym Mro Morgannwg yn defnyddio tir yn effeithiol ac yn effeithlon a hybu defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol a rheolaeth gynaliadwy arnynt.**

| Cyfeirnod | Indicator – Core / Local | Monitoring Target | Trigger Point | Relevant Policies /SA Objectives | Data Source |
|---|---|---|---|---|---|
| 10.1 | CRAIDD: Faint o agregau wedi'u hennill o'r tir a ganiatawyd yn unol â'r Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer Agregau wedi'i fynegi fel canran o'r capasiti ar y cyfan sy'n ofynnol fel a nodir yn y Datganiad Technegol Rhanbarthol (Gofyniad yn MTAN). | Cynnal banc tir 10 mlynedd o gronfeydd agregau a ganiateir. | Banc tir llai na 10 mlynedd o gronfeydd agregau a ganiateir. | Polisïau Strategol: SP9.<br>Polisïau Rheoli Twf/ Datblygu: MG22, MG23, MG25, MG26.<br>Amcanion yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd: 8, 9. | Gweithgor Agregau Rhanbarthol De Cymru (SWRAWP) – Adroddiad Blynyddol.<br><br>Cofrestr Ceisiadau Cynllunio Bro Morgannwg. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 10.2 | LLEOL: Faint o ddatblygu parhaol, sy'n diffrwytho fydd yn cael ei ganiatáu mewn ardal diogelu mwynau. | Dim datblygiadau parhaol, sy'n diffrwytho i gael eu caniatáu mewn ardal diogelu mwynau oni bai bod hynny'n unol â Pholisi MG22. | 1 neu fwy o ddatblygiadau parhaol, sy'n diffrwytho yn cael eu caniatáu mewn ardal diogelu mwynau yn groes i Bolisi MG22. | Polisïau Strategol: SP1, SP9.<br>Polisïau Rheoli Twf/ Datblygu: MG22, MG25, MG26, MD7.<br>Amcanion yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd: 8, 9. | Adroddiad Blynyddol Gweithgor Agregau Rhanbarthol De Cymru.<br>Cofrestr Ceisiadau Cynllunio Cyngor Bro Morgannwg. |
| 10.3 | LLEOL: Faint o ddatblygu a ganiatawyd mewn clustogfa mwynau. | Dim datblygiadau i gael eu caniatáu mewn clustogfa mwynau oni bai bod hyn yn cael ei gyfiawnhau gan Bolisi y MG23. | 1 neu fwy o ddatblygiadau wedi'u caniatáu mewn clustogfa mwynau yn groes i Bolisi MG23. | Polisïau Strategol: SP1, SP9.<br>Polisïau Rheoli Twf/ Datblygu: MG22, MG23, MG25, MG26.<br>Amcanion yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd: 8, 9. | Adroddiad Blynyddol Gweithgor Agregau Rhanbarthol De Cymru.<br>Cofrestr Ceisiadau Cynllunio Cyngor Bro Morgannwg. |
| 10.5 | LLEOL: Faint o dir maes glas a gollwyd i ddatblygiadau (ha) nad ydynt wedi'u dyrannu yn y Cynllun Datblygu neu nad ydynt yn ateb gofynion y Polisïau perthnasol yn y Cynllun Datblygu Lleol. | Nid oes unrhyw dir maes glas yn cael ei golli i ddatblygiad oni bai bod hynny yn unol â pholisïau eraill yn y Cynllun neu Bolisi cenedlaethol. | 1 neu fwy o ganiatadau cynllunio wedi'u rhoi ar gyfer datblygu ar dir maes glas mewn unrhyw flwyddyn benodol sy'n groes i bolisïau yn y Cynllun neu Bolisi cenedlaethol. | Polisïau Strategol: SP1, SP10<br>Polisïau Rheoli Twf/ Datblygu: MG17, MG18, MG19, MG20, MG21, MG27, MG28, MD1, MD3, MD9, MD10.<br>Amcanion yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd: 6, 8, 9, 10, 11. | Cofrestr Ceisiadau Cynllunio Cyngor Bro Morgannwg.<br>Dangosydd Datblygu Cynaliadwy 5. |
| 10.6 | LLEOL: Faint o ddatblygiadau tai newydd (ha) a ganiateir ar dir a ddatblygwyd yn flaenorol (ailddatblygu ar dir llwyd ac addasiadau) wedi'i fynegi fel % o'r holl dai y rhoddwyd caniatâd ar eu cyfer. | Isafswm o 38% o'r holl ganiatadau ar gyfer tai ar dir a ddatblygwyd yn flaenorol. | 10% yn llai na'r targed o 38% ar gyfer yr holl ganiatadau ar gyfer tai ar dir a ddatblygwyd yn flaenorol dros ddwy flynedd olynol. | Polisïau Strategol: SP1, SP2, SP3, SP4.<br>Polisïau Rheoli Twf/ Datblygu: MG1, MG2, MG3, MG4, MD1, MD10, MD12<br>Amcanion yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd: 1, 3, 4, 8, 9, 10 | Cofrestr Ceisiadau Cynllunio Cyngor Bro Morgannwg. |

# Atodiadau

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 10.7 | LLEOL: Faint o Dir Gorau a Mwyaf Hyblyg a gollir i hapddatblygiadau. | Ni fydd unrhyw Dir Amaethyddol Gorau a Mwyaf Hyblyg yn cael ei golli i hapddatblygiad oni bai bod hynny yn unol â pholisïau yn y Cynllun a Pholisi cenedlaethol. | Unrhyw Dir Amaethyddol Gorau a Mwyaf Hyblyg a gollwyd i hapddatblygiad yn groes i bolisïau yn y Cynllun. | Polisïau Strategol: SP1, SP3, SP4.<br>Polisïau Rheoli Twf/ Datblygu: MG1, MG2, MG4, MD1, MD10, MD12.<br>Amcanion yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd: 1, 3, 8, 9. | Cofrestr Ceisiadau Cynllunio Cyngor Bro Morgannwg. |
| 10.8 | LLEOL: Dwysedd datblygiadau tai y rhoddwyd caniatâd ar eu cyfer. | Dwysedd net lleiaf datblygiadau tai y rhoddwyd caniatâd ar eu cyfer o 30 annedd yr hectar (ayh) *mewn aneddiadau allweddol, canolfannau gwasanaeth a phrif aneddiadau.* | 1 neu fwy o ganiatadau cynllunio wedi'u rhoi gyda dwysedd tai net o lai na 30ayh, yn groes i Bolisi MD6. | Polisïau Strategol: SP1, SP2, SP3, SP4, SP10.<br>Polisïau Rheoli Twf/ Datblygu: MG1, MG2, MG3, MD1, MD2, MD5, MD6.<br>SA Objectives: 1, 3, 4, 8, 9, 10. | Cofrestr Ceisiadau Cynllunio Cyngor Bro Morgannwg. |
| | | Dwysedd net lleiaf datblygiadau tai y rhoddwyd caniatâd ar eu cyfer o 25 annedd yr hectar *(ayh) mewn mân aneddiadau gwledig.* | 1 neu fwy o ganiatadau cynllunio wedi'u rhoi gyda dwysedd tai net o lai na 25ayh, yn groes i Bolisi MD6. | Polisïau Strategol: SP1, SP3, SP4, SP10.<br>Polisïau Rheoli Twf/ Datblygu: MG1, MG2, MD1, MD2, MD5, MD6, MD10.<br>Amcanion yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd: 1, 3, 4, 8, 9, 10. | Cofrestr Ceisiadau Cynllunio Cyngor Bro Morgannwg. |
| 10.9 | LLEOL: Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol mewn perthynas â Diogelu Mwynau. | Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol Diogelu Mwynau o fewn blwyddyn i fabwysiadu'r Cynllun. | Methu â pharatoi Canllawiau Cynllunio Atodol Diogelu Mwynau o fewn blwyddyn i fabwysiadu'r Cynllun. | Polisïau Strategol: SP9.<br>Polisïau Rheoli Twf/ Datblygu:, MG22, MG23, MG24, MG25, MG26, MD7.<br>Amcanion yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd 8, 9. | Tîm Polisi Cynllunio Bro Morgannwg.<br><br>Blaenraglen Waith y Cabinet. |
| 10.10 | LLEOL: Faint o dir a chyfleusterau i ddarparu ar gyfer gwastraff ym Mro Morgannwg. | Cynnal capasiti digonol i ddarparu ar gyfer gwastraff Bro Morgannwg (i'w gadarnhau ar lefel ranbarthol yn unol â threfniadau monitro gwastraff TAN 21). | Sbardunau i gael eu sefydlu ar lefel ranbarthol yn unol â TAN 21. | Polisïau Strategol: SP8.<br>Polisïau Rheoli Twf/ Datblygu: MG9, MD8, MD15, MD16, MD20.<br>Amcanion yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd 7, 8, 9. | Adroddiad Monitro Gwastraff Rhanbarthol Blynyddol De Ddwyrain Cymru.<br>Tîm Polisi Cynllunio Bro Morgannwg. |

## ATODIAD 1 : Rhestr Termau

| | |
|---|---|
| **(Safle) Tir Llwyd** | Tir sydd wedi, neu a arferai fod wedi, ei feddiannu gan strwythur parhaol (ac eithrio adeiladau amaethyddiaeth neu goedwigaeth) a seilwaith arwyneb sefydlog cysylltiedig. Mae hyn yn cynnwys cwrtil datblygiad, adeiladau'r Weinyddiaeth Amddiffyn a thir a ddefnyddiwyd i gloddio mwynau a gwaredu gwastraff lle na wnaed darpariaeth ar gyfer adfer. |
| **Adeilad Rhestredig** | Adeilad, strwythur neu arteffact yr ystyrir ei fod o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig ac sydd wedi'i gynnwys ar restr statudol a luniwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae tair gradd, sef I, II* neu II a Gradd I yw'r uchaf. |
| **Adfywio Trefol** | Gwella hen dai ac ychwanegu amwynderau mewn ymgais i adfywhau hen ardaloedd yng nghanol dinasoedd. |
| **Adnodd y Mae Pen Draw Iddo** | Adnodd nad yw'n adnewyddadwy; unwaith y mae wedi cael ei ddefnyddio ni ellir ei ddefnyddio eto a bydd yn dod i ben yn y pen draw. |
| **Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd** | Dogfen y mae'n ofynnol ei chynhyrchu fel rhan o broses yr Arfarniad Cynaliadwyedd i ddisgrifio ac arfarnu'r effeithiau arwyddocaol tebygol ar gynaliadwyedd o ganlyniad i weithredu'r CDLl, sydd hefyd yn ateb y gofynion ar gyfer yr Adroddiad Amgylcheddol dan y Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol Strategol. Mae A62 (6) o Ddeddf 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod cynllunio lleol baratoi adroddiad ar ganfyddiadau'r arfarniad cynaliadwyedd o'r CDLl. |
| **Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd Cychwynnol** | Yr Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd a gynhyrchir yn ystod cam y Strategaeth a Ffefrir sy'n asesu'r CDLl yn erbyn y fframwaith Arfarnu Cynaliadwyedd. |
| **Adroddiad Monitro Blynyddol** | Adroddiad a gyhoeddir yn flynyddol ac a fydd yn asesu i ba raddau y mae polisïau yng Nghynllun Datblygu Lleol Bro Morgannwg yn cael eu rhoi ar waith yn llwyddiannus. |
| **Amcanestyniad Poblogaeth** | Y rhagfynegiad ar gyfer poblogaethau'r dyfodol yn seiliedig ar y strwythur oedran-rhyw presennol, a chyda'r cyfraddau ffrwythlondeb, marwolaethau ac ymfudo presennol. |
| **Anheddiad Hwb** | Mae'r aneddiadau hyn yn gweithredu fel hybiau gwasanaeth ar gyfer aneddiadau o'u hamgylch. Maent yn darparu'r fframwaith canolog y bydd cysylltiadau trafnidiaeth gynaliadwy â chapasiti uchel yn cael eu datblygu o'u hamgylch. Dylai ystod ehangach o wasanaethau gael eu darparu'n lleol ynddynt i leihau'r angen cyffredinol i deithio. |
| **Arallgyfeirio Gwledig** | Cyflwyno mentrau newydd ar ffermydd a hwythau'n fentrau nad ydynt yn cael eu cysylltu fel arfer â gweithgareddau ffermio traddodiadol ond sy'n cryfhau hyfywedd y fferm. |

# Atodiadau

## Rhestr Termau

| | |
|---|---|
| **Archwiliad** | Cynhelir yr archwiliad gan yr Arolygiaeth Gynllunio ar ran Llywodraeth Cymru ac mae'n golygu archwilio'r adroddiad, yr holl sylwadau ar y fersiwn adneuo, y Cynllun Datblygu Lleol Adneuo gyda'i dystiolaeth gefndir a'r Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd. Mae'n sicrhau bod y CDLl yn seiliedig ar wybodaeth a syniadau cadarn, a bod barn y rhai a chanddynt bryderon ynghylch y cynllun wedi cael eu hystyried. |
| **Ardal Cadwraeth Arbennig** | Safle a ddynodwyd dan Gyfarwyddeb Cynefinoedd y Gymuned Ewropeaidd (a wnaed yn gyfraith yn y DU trwy Reoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol a.y.b.) 1994), i warchod cynefinoedd naturiol a rhywogaethau sy'n bwysig yn rhyngwladol. |
| **Ardal Fenter** | Ardal wedi'i dynodi'n arbennig lle rhoddir manteision a chymhellion niferus i fusnesau megis credydau treth incwm, ad-daliadau treth ar offer a chredydau treth eiddo. Wrth ei graidd, mae'r Ardal Fenter yn ddull o dargedu ardal benodol ar gyfer adfywhau economaidd. Mae creu Ardal Fenter yn rhoi anogaeth ar gyfer buddsoddi ac yn hybu twf economaidd yn yr ardal honno. |
| **Ardaloedd Cyfle Strategol** | Mae Ardaloedd Cyfle Strategol yn cynnig manteision rhanbarthol posibl o'u datblygu'n gynaliadwy. Mae Ardaloedd Cyfle Strategol wedi'u bwriadu i wneud eu datblygiad yn fwy cydlynol, a'i gwneud yn bosibl cryfhau cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus. |
| **Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig** | Safleoedd a ddosbarthwyd dan Gyfarwyddeb y Gymuned Ewropeaidd ar Adar Gwyllt (a wnaed yn gyfraith yn y DU trwy Reoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol a.y.b.) 1994), i warchod rhywogaethau adar sy'n bwysig yn rhyngwladol. |
| **Ardoll Seilwaith Cymunedol** | Daeth y Rheoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol i rym ym mis Ebrill 2010, gan roi i Awdurdodau Cynllunio Lleol y pŵer i godi ardoll leol newydd ar y rhan fwyaf o ddatblygiadau newydd yn eu hardal er mwyn sicrhau cyllid ar gyfer y seilwaith sy'n ofynnol i roi cymorth i ddatblygu eu hardal. Mae'r Ardoll Seilwaith Cymunedol arfaethedig yn cynnig dull arall gael cyfraniadau gan ddatblygwyr a fydd, yn wahanol i gytundebau Adran 106, yn dâl safonol penodedig ac na fydd felly'n cael ei negodi fesul achos unigol. Bydd yr Ardoll Seilwaith Cymunedol yn cael ei chodi ar y rhan fwyaf o fathau o ddatblygiad (h.y. annedd unigol) yn hytrach na dim ond datblygiadau mawr ac felly mae ganddi'r potensial i sicrhau mwy o gyllid gan ddatblygwyr nag Adran 106. |
| **Arfarniad Cynaliadwyedd** | Offeryn i arfarnu polisïau a chynigion er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu amcanion datblygu cynaliadwy (h.y. ffactorau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd). Mae A62 (6) o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i bob ACLl gynnal Arfarniad Cynaliadwyedd o'r CDLl. Mae'r math yma o Arfarniad Cynaliadwyedd yn ymgorffori gofynion y Gyfarwyddeb Asesiad Amgylcheddol Strategol yn llawn. Mae'r term a ddefnyddir yn y CDLl yn cynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol, oni bai ei fod yn cael ei wneud yn glir fel arall. |

## Rhestr Termau

| | |
|---|---|
| **Asesiad Amgylcheddol Strategol** | Term generig a ddefnyddir i ddisgrifio asesiad amgylcheddol a gymhwysir i bolisïau, cynlluniau a rhaglenni. Mae'r rheoliadau Asesiad Amgylcheddol Strategol yn ei gwneud yn ofynnol cynnal asesiad amgylcheddol ffurfiol o gynlluniau a rhaglenni penodol, gan gynnwys y rhai ym maes cynllunio a defnydd tir. |
| **Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd** | Adroddiad a gaiff ei baratoi yn unol â Nodyn Cyngor Technegol 15 (TAN15) yw Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd, i geisio atal datblygu amhriodol rhag digwydd mewn ardaloedd yng Nghymru sy'n wynebu perygl llifogydd. Gellir cynnal Asesiad manwl o Ganlyniadau Llifogydd ar yr adeg y cyflwynir y cais cynllunio. |
| **Asesiad o Gymeriad y Dirwedd** | Offeryn a ddefnyddir i'n helpu i ddeall a disgrifio cymeriad y dirwedd yw Asesiad o Gymeriad y Dirwedd. Fe'i defnyddir ym mhroses y cynllun datblygu i helpu i oleuo polisïau ar lefelau strategol a lleol. |
| **Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol** | Gweithdrefn y mae'n rhaid ei dilyn ar gyfer mathau penodol o brosiectau cyn y gellir rhoi caniatâd datblygu iddynt. Mae'n golygu asesu effeithiau amgylcheddol sylweddol tebygol prosiect fel modd i roi cymorth i sicrhau bod pwysigrwydd effeithiau a ragwelir a'r cyfleoedd i'w lleihau'n cael eu deall yn iawn cyn y gwneir penderfyniad. |
| **Asesiad o'r Effaith ar y Dirwedd** | Un o ofynion statudol Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol a ddefnyddir i asesu effeithiau newid ar y dirwedd, e.e. cynnig ar gyfer ffordd newydd neu fferm wynt. Fe'i defnyddir i helpu i leoli a dylunio'r newid arfaethedig, fel bod effeithiau negyddol ar y dirwedd yn cael eu hosgoi, eu lleihau neu eu gwrthbwyso. |
| **Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd** | Mae Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn un o ofynion Cyfarwyddeb Asesu Ewrop 92/43/EEC sy'n asesu effeithiau posibl Cynllun Datblygu Lleol ar un safle Ewropeaidd neu fwy (safleoedd Natura 2000). Dylai'r asesiad ddod i gasgliad ar ôl ystyried a fyddai cynnig neu bolisi mewn Cynllun Datblygu yn cael effaith anffafriol ar gyfanrwydd y safle dan sylw ai peidio. |
| **Asesiad Trafnidiaeth** | Dogfen statudol a anfonir gyda chais cynllunio, ac a ddefnyddir gan Awdurdodau Cynllunio a Phriffyrdd i benderfynu a yw effaith datblygiad newydd ar y rhwydwaith trafnidiaeth yn dderbyniol. Dylai nodi pa fesurau all fod yn ofynnol i ymdrin â'r effeithiau a ragwelir ar drafnidiaeth ac i wella hygyrchedd a diogelwch, yn enwedig i gerddwyr, beicwyr a defnyddwyr trafnidiaeth gyhoeddus. |
| **Awdurdod Cynllunio Lleol** | Awdurdod Cynllunio sy'n gyfrifol am baratoi'r CDLl. |
| **Bioamrywiaeth** | Term a ddefnyddir i ddisgrifio'r amrywiaeth o fywyd ar y Ddaear, gan gynnwys yr amrywiaeth eang o ecosystemau ac organebau byw, anifeiliaid, planhigion, eu cynefinoedd a'u genynnau. |

# Atodiadau

## Rhestr Termau

**Bio-màs** — Mae bio-màs yn cyfeirio at ddeunydd biolegol sy'n fyw ac sydd newydd farw y gellir ei ddefnyddio fel tanwydd ar gyfer prosesau cynhyrchu diwydiannol. Yn fwyaf cyffredin, mae bio-màs yn cyfeirio at sylwedd planhigion a dyfir i'w ddefnyddio fel bio-tanwydd, ond mae hefyd yn cynnwys sylwedd planhigion neu anifeiliaid a ddefnyddir i gynhyrchu ffibrau, cemegau neu wres. Gall bio-màs gynnwys gwastraff pydradwy hefyd y gellir ei losgi fel tanwydd. Nid yw'n cynnwys deunydd organig sydd wedi cael ei drawsnewid gan brosesau daearegol yn sylweddau megis glo neu betrolewm.

**Bywyd Gwyllt a Chadwraeth Natur** — Yr arfer o warchod a gwella bioamrywiaeth gan gynnwys rhywogaethau planhigion ac anifeiliaid gwyllt pwysig a'u cynefinoedd.

**Cadernid** — Caiff y CDLl ei archwilio gan Arolygydd Cynllunio Annibynnol yn erbyn profion cadernid: profion diffiniedig yw'r rhain sy'n ystyried gweithdrefn, cysondeb, cydlyniad ac effeithiolrwydd.

**Canllawiau Cynllunio Atodol** — Canllawiau atodol mewn perthynas â pholisïau'r CDLl. Nid yw Canllawiau Cynllunio Atodol yn rhan o'r Cynllun Datblygu ac nid ydynt yn cael eu harchwilio'n annibynnol ond rhaid iddynt fod yn gyson ag ef ac yn gyson â pholisi cynllunio cenedlaethol.

**Clustogfa Mwynau** — Parth o amgylch gweithiau mwynau y rhoddwyd caniatâd ar eu cyfer neu sydd yn yr arfaeth er mwyn sefydlu pellter gwahanu rhwng defnyddiau tir a allai wrthdaro â'i gilydd.

**Corff Ymgynghori Amgylcheddol** — Awdurdod â chyfrifoldebau amgylcheddol sy'n ystyried effeithiau gweithredu cynlluniau a rhaglenni ac y mae'n rhaid ymgynghori ag ef dan y Rheoliadau Asesu Amgylcheddol Strategol, h.y. Cyfoeth Naturiol Cymru a Cadw.

**Coridor Trafnidiaeth** — Ardal o dir lle mae o leiaf un brif linell ar gyfer trafnidiaeth (ffordd, rheilffordd, camlas a.y.b.) wedi cael ei hadeiladu. Yn aml caiff llinellau trafnidiaeth newydd eu hadeiladu ochr yn ochr â rhai presennol i leihau i'r eithaf yr ardal yr effeithir arni gan lygredd.

**Cwmpasu** — Y broses o benderfynu ar gwmpas a lefel manylder Arfarniad Cynaliadwyedd, gan gynnwys yr effeithiau ar gynaliadwyedd a'r opsiynau o ran cynaliadwyedd y mae angen eu hystyried, y dulliau asesu a fydd yn cael eu defnyddio a strwythur a chynnwys yr Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd.

**Cyfleusterau Cymunedol** — Cyfleusterau a ddefnyddir gan gymunedau lleol at ddibenion cymdeithasol, hamdden a diwylliannol. Maent yn cynnwys amwynderau megis canolfannau cymunedol a mannau cwrdd, neuaddau cymunedol, mannau addoli, llyfrgelloedd, canolfannau bywyd, canolfannau hamdden, rhandiroedd a thir claddu. Mae cyfleusterau cymunedol yn cynnwys cyfleusterau anfasnachol a dielw; fodd bynnag, gallai 'tŷ tafarn' leol gael ei ystyried yn gyfleuster cymunedol yn enwedig os mai hwnnw yw'r unig adeilad cymunol mewn anheddiad bach.

**Cyfleusterau Iechyd** — Adeilad neu safle lle ymarferir meddygaeth.

## Rhestr Termau

| | |
|---|---|
| **Cymuned** | Pobl sy'n byw mewn ardal ddiffiniedig, neu sy'n rhannu buddiannau cyffredin. |
| **Cynefinoedd a Rhywogaethau y Rhoddir Blaenoriaeth Iddynt (a7)** | Y cynefinoedd a'r rhywogaethau hynny a nodwyd gan Lywodraeth Cymru fel rhai sydd o'r pwys mwyaf ar gyfer cadwraeth natur yng Nghymru.<br>Caiff y rhain eu rhestru yn adran 7 o Ddeddf yr Amgylchedd 2016. |
| **Cynllun Adneuo** | Cam ffurfiol yn y broses o baratoi cynllun lle gall unigolion a sefydliadau gyflwyno sylwadau ar gynnwys y cynllun drafft. |
| **Cynllun Cynnwys Cymunedau (CIS)** | Mae hwn yn nodi cynllun prosiect a pholisïau'r Awdurdod ar gyfer cynnwys cymunedau lleol, gan gynnwys busnesau, yn y gwaith o baratoi'r CDLl. Cyflwynir y Cynllun Cynnwys Cymunedau i Lywodraeth Cymru fel rhan o'r Cytundeb Cyflawni. |
| **Cynllun Datblygu Lleol** | Y cynllun statudol gofynnol ar gyfer ardal pob Awdurdod Cynllunio Lleol yng Nghymru dan Ran 6 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004. |
| **Cynllun Gofodol Cymru** | Cynllun a baratowyd ac a gymeradwywyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru dan A60 o Ddeddf 2004, sy'n nodi fframwaith strategol i roi arweiniad ar gyfer datblygu ac ymyriadau polisi yn y dyfodol, pa un a yw'r rhain yn ymwneud â rheolaeth gynllunio ffurfiol ar ddefnydd tir ai peidio. Dan A62 (5) (b) o'r Ddeddf rhaid i Awdurdod Cynllunio Lleol roi sylw i Gynllun Gofodol Cymru wrth baratoi CDLl. |
| **Cynnwys** | Term generig sy'n cynnwys cyfranogi ac ymgynghori. |
| **Cytundeb Adran 106** | Cytundeb cyfreithiol rhwng yr Awdurdod Cynllunio a'r ymgeisydd/datblygwr sy'n sicrhau bod gwaith ychwanegol penodol sy'n gysylltiedig â datblygiad yn cael ei wneud. Fe'i ceir dan Adran 106 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. |
| **Cytundeb Cyflawni** | Dogfen sy'n cynnwys amserlen Cyngor Bro Morgannwg (fel yr Awdurdod Cynllunio Lleol) ar gyfer paratoi'r CDLl a'r Cynllun Cynnwys Cymunedau a gyflwynir i Lywodraeth Cymru ar gyfer cytundeb. |
| **Datblygu** | Y diffiniad o ddatblygu mewn cyfraith gynllunio yw 'cyflawni gwaith adeiladu, peirianneg, cloddio neu weithrediadau eraill yn, ar, dros neu o dan dir' (Adran 55 o Ddeddf Cynllunio 1990 fel y'i diwygiwyd). |
| **Datblygu Cynaliadwy** | Datblygu sy'n diwallu anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau. |
| **Datblygu fesul cyfnod** | Datblygu safle bob yn dipyn dros gyfnod o amser yn hytrach na'r cwbl ar unwaith. |
| **Datganiad Dylunio a Mynediad** | Adroddiad byr sy'n cyd-fynd â chais cynllunio ac yn ei ategu gan egluro'r egwyddorion a chysyniadau dylunio a gymhwysir i agweddau penodol ar gynnig. Mae'n ofynnol yn ôl deddfwriaeth bod hwn yn cael ei gyflwyno gyda phob cais cynllunio (gyda rhai eithriadau). |

# Atodiadau

## Rhestr Termau

| | |
|---|---|
| **Datganiad Trafnidiaeth** | Asesiad Trafnidiaeth symlach a ddefnyddir mewn rhai achosion lle nad yw'n ofynnol o bosibl cwblhau Asesiad Trafnidiaeth llawn ar gyfer materion trafnidiaeth sy'n deillio o gynigion datblygu. |
| **Datrysiad Rheoli Gwastraff mewn Adeilad** | Cyfleuster rheoli gwastraff i drin a thrafod ac ailgylchu gwastraff mewn adeilad ac mae'r gweithrediad yr un fath â phrosesau diwydiannol cyffredinol ac yn cynnwys cyfleusterau trosglwyddo gwastraff, compostio a llosgi'n ulw. |
| **Defnydd Cymysg** | Datblygiadau neu gynigion sy'n cynnwys un neu sawl math o ddefnydd tir ar un safle. |
| **Diagram Allweddol** | Darlun o'r prif ardaloedd lle ceir twf a'r ardaloedd a fydd yn cael eu gwarchod rhag datblygu yn Ardal y Cynllun, a ddangosir ar ffurf diagram. |
| **Diogelu Pridd** | Set o strategaethau rheoli i atal pridd rhag cael ei erydu oddi ar wyneb y ddaear neu rhag cael ei newid yn gemegol trwy orddefnydd, asideiddio, halwyno neu halogi pridd yn gemegol mewn ffordd arall. |
| **Dosbarthiadau Defnydd** | Mae Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) 1987 (fel y'i diwygiwyd) yn cynnwys y canlynol:<br>A1: Siopau.<br>A2: Gwasanaethau ariannol a phroffesiynol.<br>A3: Bwyd a diod.<br>B1: Swyddfeydd (nid y rhai yn Nosbarth Defnydd A2), Ymchwil a Datblygu (cynhyrchion a phrosesau) neu unrhyw broses ddiwydiannol (defnydd a all ddigwydd mewn unrhyw ardal breswyl heb niwed i amwynder yr ardal honno).<br>B2: Diwydiannol Cyffredinol.<br>B8: Storio a dosbarthu.<br>C1: Gwestai, hostelau a thai llety.<br>C2: Sefydliadau Preswyl, ysgolion a cholegau preswyl, Ysbytai a chartrefi nyrsio.<br>C3: Anheddau.<br>D1: Sefydliadau Dibreswyl, Mannau addoli, clinigau, canolfannau iechyd, meithrinfeydd dydd, amgueddfeydd, neuaddau cyhoeddus, llyfrgelloedd, canolfannau addysg a hyfforddiant dibreswyl a.y.b.<br>D2: Sinemâu, neuaddau cyngerdd, neuaddau dawns, neuaddau chwaraeon, campfeydd, pyllau nofio, defnyddiau chwaraeon a hamdden dan do ac awyr agored eraill.<br>Sui Generis: Defnydd nad yw'n perthyn i unrhyw Ddosbarth Defnydd ac a ddisgrifir felly fel defnydd Sui Generis (dosbarthiadau yn eu rhinwedd eu hunain) e.e. ystafelloedd arddangos ceir, gorsafoedd petrol a.y.b. |
| **Ffiniau Aneddiadau** | Mae'n nodi terfynau ffisegol yr ardal adeiledig bresennol ac mae hefyd yn cofleidio tir ar ymyl anheddiad sydd wedi'i ddyrannu neu y rhoddwyd caniatâd ar gyfer datblygiad o natur adeiledig arno ac a fyddai, unwaith y byddai wedi'i gwblhau, yn rhan gydlynol o ffabrig yr anheddiad. |

## Rhestr Termau

| | |
|---|---|
| **Ffryntiadau Manwerthu** | *Prif Ffryntiadau* – Ffryntiadau siopa pwysicaf canol y dref. Mae gan y rhan fwyaf gyfran uchel o siopau gyda gwerthoedd rhentu uchel.<br>*Ffryntiadau Eilaidd* – Ffryntiadau siopa pwysig yng nghanol y dref, sydd fel rheol â mwy o amrywiaeth o ddefnyddiau manwerthu atodol na'r prif ffryntiadau a gwerthoedd rhentu is. |
| **Grant Tai Cymdeithasol (SHG)** | Grant a roddir i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymdeithasau Tai) gan Lywodraeth Cymru yw'r Grant Tai Cymdeithasol. Nod y grant yw darparu tai fforddiadwy newydd i'w rhentu, perchentyaeth cost isel neu dai canolradd eraill. |
| **Gwarchodfa Natur Genedlaethol** | Ardal a ddynodwyd oherwydd ei phwysigrwydd cenedlaethol o ran cadwraeth natur ac a reolir trwy gydgytundebau gwarchodfa natur gyda thirfeddianwyr a.y.b. |
| **Gwarchodfa Natur Leol** | Ardal a ddynodwyd oherwydd ei phwysigrwydd o ran cadwraeth natur leol. |
| **Hapsafleoedd** | Safle nad ydyw wedi'i ddyrannu'n benodol ar gyfer datblygu mewn cynllun datblygu, ond sy'n dod i fod ar gael yn annisgwyl yn ystod oes cynllun. |
| **Heneb Gofrestredig** | Safleoedd/henebion y cydnabuwyd fod iddynt arwyddocâd cenedlaethol ac a warchodir gan y gyfraith trwy Ddeddf Henebion ac Ardaloedd Archeolegol 1979. |
| **Hierarchaeth Aneddiadau** | Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn trefnu aneddiadau'n hierarchaeth, a ddefnyddir i bennu graddfa ddatblygu briodol mewn ardal benodol.<br>Ar gyfer CDLl Bro Morgannwg mae'r hierarchaeth wedi cael ei rhannu'n haenau o aneddiadau, sef:<br>- Aneddiadau Allweddol<br>- Canolfannau Gwasanaeth<br>- Prif Aneddiadau<br>- Mân Aneddiadau Gwledig |
| **Hwb Trafnidiaeth** | Lle mae teithwyr a chargo yn cael eu cyfnewid rhwng cerbydau neu rhwng dulliau trafnidiaeth. Mae Hybiau Trafnidiaeth Gyhoeddus yn cynnwys gorsafoedd trenau, gorsafoedd tramwyo cyflym, safleoedd bysiau, safleoedd tramiau, meysydd awyr a slipiau llongau fferi. |
| **Landlord Cymdeithasol Cofrestredig** | Sefydliadau dielw a ariennir gan y Llywodraeth sy'n darparu tai fforddiadwy yw Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. Maent yn cynnwys cymdeithasau tai, ymddiriedolaethau tai a mentrau tai cydweithredol. Maent yn gweithio gydag awdurdodau lleol i ddarparu cartrefi ar gyfer pobl sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer cartrefi fforddiadwy. Yn ogystal â datblygu tir ac adeiladu cartrefi, mae Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn cyflawni swyddogaeth landlord trwy gynnal a chadw tai a chasglu rhent. |
| **Lliniaru** | Mesurau i osgoi, lleihau neu wrthbwyso effeithiau anffafriol sylweddol. |
| **Mabwysiadu** | Cadarnhau CDLl yn derfynol pan fo'n dod yn Gynllun Datblygu statudol. |

# Atodiadau

## Rhestr Termau

| | |
|---|---|
| **Mannau Agored** | Yr holl fannau sydd o werth cyhoeddus gan gynnwys ardaloedd cyhoeddus wedi'u tirlunio, meysydd chwarae, parciau ac ardaloedd chwarae, a hefyd ardaloedd o ddŵr megis afonydd, camlesi, llynnoedd a chronfeydd dŵr, sy'n gallu cynnig cyfleoedd ar gyfer chwaraeon a hamdden neu sydd hefyd yn gallu gweithredu fel amwynder gweledol neu hafan ar gyfer bywyd gwyllt. |
| **Mesurau Blaenoriaeth i Fysiau** | Mae mesurau blaenoriaeth i fysiau'n cynnwys lonydd bysiau dynodedig, gwelliannau i gyffyrdd, cynlluniau ffyrdd a signalau traffig gwell a/neu gyflwyno cyfyngiadau lleol ar barcio a llwytho i leihau tagfeydd traffig ac oedi. |
| **Monitro** | Defnyddio gwybodaeth a thystiolaeth a gasglwyd i asesu'r cynnydd a wnaed o ran gweithredu polisïau'r CDLl. |
| **Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC)** | Y mesur swyddogol o amddifadedd mewn ardaloedd bach yng Nghymru. Mesur cymharol ydyw o grynodiadau o amddifadedd ar lefel ardaloedd bach. Mae'n ystyried materion megis incwm, tai, cyflogaeth, mynediad at wasanaethau, iechyd, yr amgylchedd, addysg a diogelwch cymunedol. |
| **Newid yn yr Hinsawdd** | Newidiadau hirdymor mewn tymheredd, gwlybaniaeth, gwynt a phob agwedd arall ar hinsawdd y Ddaear. Ystyrir yn aml ei fod wedi deillio o ganlyniad i weithgarwch dynol a defnyddio tanwyddau ffosil. |
| **Nodiadau Cyngor Technegol (TANS)** | Dogfennau a gynhyrchir gan Lywodraeth Cymru i ategu Polisi Cynllunio Cymru, sy'n rhoi canllawiau technegol manwl i Awdurdodau Cynllunio Lleol ynghylch materion cynllunio penodol. Dylent gael eu hystyried gan ACLlau yn y broses o baratoi cynllun datblygu. |
| **Parth Cynllunio Syml** | Ardal lle mae Awdurdod Cynllunio Lleol yn dymuno rhoi ysgogiad i ddatblygu ac anogaeth i fuddsoddi. Mae'n gweithredu trwy roi caniatâd cynllunio penodedig yn y parth heb yr angen i ymgeisio am ganiatâd cynllunio na thalu ffioedd cynllunio. |
| **Perifferi** | Llinell sy'n gweithredu fel ffin ar gyfer ardal benodol |
| **Polisi Cynllunio Cymru (PCC)** | Dogfen a baratowyd gan Lywodraeth Cymru sy'n cynnwys y polisi cynllunio defnydd tir cyfredol ar gyfer Cymru. Mae'n darparu'r fframwaith polisi ar gyfer paratoi cynlluniau datblygu ACLlau yn effeithiol. Fe'i hategir gan 21 Nodyn Cyngor Technegol (TAN) sy'n seiliedig ar destunau. |
| **Pwysigrwydd o ran y Dirwedd** | Mae Pwysigrwydd o ran y Dirwedd yn cynnwys ardaloedd a nodwyd oherwydd eu pwysigrwydd i'r dirwedd megis Ardaloedd Tirwedd Arbennig, tirweddau, parciau a gerddi o ddiddordeb hanesyddol arbennig, tirweddau o ddiddordeb hanesyddol eithriadol ac Arfordir Treftadaeth Morgannwg. Gall nodweddion o bwysigrwydd o ran y dirwedd gynnwys nodweddion naturiol neu o waith dyn sy'n bwysig i gymeriad y dirwedd, megis coed, coetiroedd, perthi, coridorau afonydd, pyllau, waliau cerrig, a glaswelltiroedd sy'n gyforiog o rywogaethau. |
| **Rhanddeiliad** | Buddiannau yr effeithir arnynt yn uniongyrchol gan y CDLl (a/neu'r Arfarniad Cynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol) – maent yn chwarae rhan fel rheol trwy gyrff sy'n eu cynrychioli. |

## Rhestr Termau

| | |
|---|---|
| **Safle Eithriadau Gwledig** | Safle tai ar raddfa fach o fewn neu ar bwys aneddiadau gwledig presennol i ddarparu tai fforddiadwy i ddiwallu anghenion lleol, na fyddai'n cael ei ddyrannu fel arall yn y cynllun datblygu. |
| **Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA)** | Safle a adnabuwyd dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000) fel ardal o ddiddordeb arbennig oherwydd ei fflora, ffawna, nodweddion daearegol neu ffisiograffigol, h.y. planhigion, anifeiliaid a nodweddion naturiol sy'n gysylltiedig â strwythur y Ddaear). |
| **Safle Ramsar** | Gwlypdiroedd o bwysigrwydd rhyngwladol a ddynodwyd dan Gonfensiwn Ramsar yw safleoedd Ramsar. |
| **Safleoedd Cyflogaeth Allweddol** | Safleoedd a nodwyd fel rhai sydd â rôl hirdymor bwysig yn yr economi, lle bydd anogaeth ar gyfer gweithgareddau sy'n creu cyflogaeth a lle mae'n rhaid wrth weithgarwch a rhaglenni buddsoddi cydgysylltiedig i wireddu eu llawn botensia.l |
| **Safleoedd o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur (SINC)** | Dynodiad anstatudol, sy'n ceisio gwarchod ardaloedd o werth uchel o ran bywyd gwyllt ar lefel leol, a fabwysiadwyd gan Awdurdodau Lleol at ddibenion cynllunio. |
| **Safleoedd Ymgeisiol** | Fel rhan o'r gwaith paratoi cyn cynhyrchu'r CDLl, caiff datblygwyr, darparwyr gwasanaethau, tirfeddianwyr ac eraill â buddiant mewn tir eu gwahodd gan eu Hawdurdod Cynllunio Lleol i gyflwyno safleoedd y maent yn dymuno iddynt gael eu hystyried ar gyfer datblygu neu ddefnyddiau eraill trwy'r CDLl. Cyfeirir at y safleoedd a nodir fel Safleoedd Ymgeisiol. Gellir cyflwyno Safleoedd Ymgeisiol ar gyfer defnyddiau posibl megis: tai, cyflogaeth, manwerthu, hamdden, gwastraff, trafnidiaeth (e.e. safleoedd parcio a theithio), mannau agored, iechyd a defnyddiau cymunedol. |
| **Sail Dystiolaeth** | Dehongli gwybodaeth/data sylfaenol neu wybodaeth/data arall i ddarparu'r sail ar gyfer polisi'r cynllun. |
| **Seilwaith** | Mae seilwaith yn cynnwys gwasanaethau megis ffyrdd, cyfleusterau trafnidiaeth, cyflenwadau dŵr, cyfleusterau carthffosiaeth a chyfleusterau trin dŵr gwastraff cysylltiedig, cyfleusterau rheoli gwastraff, cyflenwadau ynni (trydan a nwy) a rhwydweithiau dosbarthu a seilwaith telathrebu. At ddiben y CDLl mae hefyd yn cyfeirio at seilwaith cymunedol gan gynnwys cyfleusterau addysg, cyfleusterau cymunedol a mannau agored cyhoeddus. Mae seilwaith meddal yn cynnwys TGCh a thelathrebu. |
| **Sipsiwn a Theithwyr** | Pobl â ffordd nomadaidd o fyw, ni waeth beth fo'u hil na'u tarddiad, gan gynnwys pobl sydd, dim ond oherwydd eu hanghenion addysgol neu anghenion iechyd hwy eu hunain neu anghenion addysgol neu anghenion iechyd eu teulu neu ddibynyddion neu oherwydd henaint, wedi rhoi'r gorau i deithio dros dro neu'n barhaol, ond heb gynnwys aelodau o grŵp trefnedig o siewmyn teithiol neu bobl syrcas sy'n teithio gyda'i gilydd felly. |

# Atodiadau

## Rhestr Termau

| | |
|---|---|
| **Sui Generis** | Nid yw rhai defnyddiau'n perthyn i unrhyw ddosbarth defnydd a ddiffinnir gan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) 1987 (fel y'i diwygiwyd) ac ystyrir mai 'sui generis' ydynt. Mae defnyddiau o'r fath yn cynnwys: theatrau, hostelau, iardiau sgrap, gorsafoedd petrol a siopau sy'n gwerthu a/neu'n arddangos cerbydau modur, tai golchi, busnesau tacsis a chanolfannau difyrion. |
| **Tai Fforddiadwy** | Tai, boed am rent, rhanberchnogaeth a ddarperir am gost yr ystyrir ei fod yn fforddiadwy mewn perthynas ag incwm sy'n gyfartalog neu'n is na'r cyfartaledd, neu mewn perthynas â phris tai'r farchnad gyffredinol, a lle mae mecanweithiau diogel yn eu lle i sicrhau eu bod yn hygyrch i'r rhai nad ydynt yn gallu fforddio tai'r farchnad, pan fo pobl yn byw ynddynt gyntaf ac i'r rhai sy'n byw ynddynt wedi hynny. |
| **Tir a Ddatblygwyd yn Flaenorol** | Tir sydd wedi neu a oedd wedi'i feddiannu gan strwythur parhaol a seilwaith arwyneb sefydlog cysylltiedig. |
| **Tir/Safle Cyflogaeth** | Tir a ddefnyddir at ddibenion cyflogaeth gan un neu fwy o'r canlynol: swyddfeydd, gweithgynhyrchu, ymchwil a datblygu, storio a dosbarthu. |
| **Tir/Safle Maes Glas** | Tir nad yw wedi cael ei ddatblygu'n flaenorol, fel arfer tir fferm, glaswelltir neu rostir. |
| **Topograffeg** | Astudio neu ddisgrifio siapiau a nodweddion wyneb y Ddaear. |
| **Trafnidiaeth Gynaliadwy** | Mae'n aml yn golygu cerdded, beicio a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus (ac mewn rhai amgylchiadau, 'rhannu ceir'), yr ystyrir eu bod yn llai niweidiol i'r amgylchedd ac yn cyfrannu llai at dagfeydd traffig na siwrneiau mewn car gan un unigolyn. |
| **Treftadaeth Ddiwylliannol** | Mae hyn yn cyfeirio at heneb, grŵp o adeiladau neu safle o werth hanesyddol, esthetig, archeolegol, gwyddonol, ethnolegol neu anthropolegol. |
| **Treftadaeth Naturiol** | Mae Treftadaeth Naturiol yn cyfeirio at safleoedd naturiol gydag agweddau diwylliannol megis tirweddau diwylliannol, ffurfiannau ffisegol, biolegol neu ddaearegol. |
| **Treulio Anerobig** | Proses sy'n digwydd yn naturiol yw treulio anerobig, lle mae bio-màs yn cael ei ddadelfennu neu ei 'dreulio' gan facteria mewn amgylchedd di-ocsigen. Mae treulio anerobig yn digwydd mewn safleoedd tirlenwi ac fe'i defnyddir i drin rhai ffracsiynau o ddŵr gwastraff dinesig a dyfroedd gwastraff diwydiannol eraill. |
| **Uwchgynllunio** | Ym maes cynllunio defnydd tir, cynllun endid llywodraethol ar gyfer defnydd cyffredinol o ardal benodol, gan gynnwys ei dyrannu ar gyfer defnyddiau preswyl neu weithgynhyrchu a'r effeithiau amgylcheddol cyfatebol. |
| **Uwchlaw'r Datwm Ordnans** | Y lefel i gynyddu lefelau safleoedd wrth fynd i'r afael â pherygl llifogydd. |
| **Y Cam Cyn-adneuo** | Y cam o'r broses o baratoi'r CDLl sy'n ymwneud ag Opsiynau Strategol a'r Strategaeth a Ffafrir. |

## Rhestr Termau

| | |
|---|---|
| **Ymgynghori** | Proses ffurfiol lle gwahoddir sylwadau ar destun penodol neu set benodol o destunau, neu ddogfen ddrafft. Ardaloedd Cadwraeth, ardaloedd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig, y mae'n ddymunol gwarchod neu wella'u cymeriad neu eu hedrychiad. |
| **Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel** | Mae'n cynnwys ynni o wresogi ac oeri yn ogystal â chynhyrchu trydan. Mae ynni adnewyddadwy yn cynnwys y llifoedd ynni hynny sy'n digwydd yn naturiol a throsodd a throsodd yn yr amgylchedd – o'r gwynt, dŵr yn cwympo, y cefnforoedd yn symud, o'r haul a hefyd o fio-màs. Technolegau carbon isel yw'r rhai sy'n gallu helpu i leihau allyriadau carbon (gweler hefyd y disgrifiad uchod). Ymhlith cyflenwadau ynni adnewyddadwy a/neu garbon isel mae'r rhai o gnydau ynni a bio-màs; Gwres a Phŵer Cyfunedig/Oeri, Gwres a Phŵer Cyfunedig (a Gwres a Phŵer Cyfunedig Micro); gwres gwastraff a fyddai fel arall yn cael ei gynhyrchu'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o danwydd ffosil; ynni-o-wastraff effeithlon; systemau gwresogi ac oeri o'r ddaear; ynni dŵr; cynhyrchu ynni solar thermol a solar ffotofoltaig a chynhyrchu ynni gwynt. |
| **Ynni Carbon Isel** | Mae opsiynau ynni carbon isel yn cwmpasu ystod o ffynonellau ynni nad ydynt yn adnewyddadwy, ond sydd, serch hynny, yn gallu cynhyrchu llai o garbon na defnyddio'r grid trydan neu'r rhwydwaith nwy confensiynol, ac y gellir felly eu hystyried yn rhan bwysig o ddatgarboneiddio'r cyflenwad ynni. |
| **Ynni o Wastraff** | Mae Ynni o Wastraff yn cyfeirio at dechnolegau gan gynnwys treulio anerobig, llosgi uniongyrchol (llosgi'n ulw), defnyddio tanwydd soled wedi'i adfer (allbwn o brosesau trin mecanyddol a biolegol), pyrolysis a nwyeiddio. Mae unrhyw dechnoleg benodol yn fwy buddiol os gellir adfer gwres a thrydan. Mae'r Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff yn ystyried bod llosgi gwastraff mewn modd ynni-effeithlon (lle mae gwres yn cael ei ddefnyddio'n bennaf fel tanwydd neu ddull arall i gynhyrchu trydan) yn weithgarwch adfer ar yr amod ei fod yn cydymffurfio â meini prawf penodol, sy'n cynnwys effeithlonrwydd ynni. |

# Atodiadau

## ATODIAD 2 : Safleoedd Cadwraeth Natur Dynodedig a Diffiniedig

### Dynodiadau Rhyngwladol

Ardal Cadwraeth Arbennig Bae Dwnrhefn

Safle Cadwraeth Arbennig /ArdalGwarchodaeth Arbennig / Safle RAMSAR Aber Afon Hafren

Safle Cadwraeth Arbennig Cynffig (Yn ffinio)

### Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGAoedd)

Ynys y Barri
Rhostir Breigam
Clementstone Meadows, Y Wig
Cliff Wood / Grisiau Aur, Porthceri
Cnap Twt, Saint-y-brid
Coed y Bwl, Saint-y-brid
Coedydd Y Barri
Rhostir Cog
Cors Aberthin
Cwm Cydfin, Lecwydd
Arfordir Dwyrain Aberddawan
Dyffryn Elái
Chwareli Ewenni a'r Pant
Fferm Walters, Y Barri
Hayes Point – Bendricks Road, Y Barri
Larks Meadow
Llynnoedd Cosmeston
Arfordir Yr As Fawr
Coedydd Nant Whitton, Llancarfan
Dolydd Goleudy Nash
Old Castle Down, Saint-y-brid
Arfordir Penarth
Pysgodlyn Mawr, Llanddunwyd
Aber Afon Hafren
Arfordir Southerndown
Ynys Sili
Maes y Plwyf, Cae'r Rhedyn

### Gwarchodfeydd Natur Lleol

Coetir Llwynbedw, Y Barri
Cliff Wood, Porthceri
Parc Gwledig Llynnoedd Cosmeston, Larnog
Cwm Talwg, Y Barri

### Safleoedd a reolir gan Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru

Morfa Heli Aberddawan
Coed Garnllwyd, Llancarfan
Coed Llwyn Rhyddid, Hensol
Coed y Bwl, Castle upon Alun
Cwm Colhuw, Llanilltud Fawr
Gwern Rhyd, Sain Siorys
Trwyn Larnog

### Safleoedd Daearegol sy'n Bwysig yn Rhanbarthol

Chwarel Argoed Isha
Clogwyni Arfordirol Harbwr y Barri
Craig Bendrick
Rhan o'r Arfordir i'r dwyrain o'r Barri
Chwarel Ewenni
Clogwyni Arfordirol Friar's Point
Chwarel Goldsland Gorge
Simne Llangan
Porthceri i Cold Knap
Ynys Sili
Sili i Bendrick
Chwarel Gwenfô

# ATODIAD 3 : Dyraniadau Tai (Polisi MG2): Manylion Safleoedd Unigol

## Gofynion o ran Seilwaith Cyffredinol

I ategu'r dyraniadau datblygu sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol Adneuo mae'r Cyngor wedi paratoi dogfennau cefndir mewn perthynas â seilwaith a gofynion eraill, e.e. addysg, a fydd yn ofynnol i sicrhau nad yw datblygu'n rhoi gormod o straen ar adnoddau a chyfleusterau presennol. Er bod rhai gofynion o ran seilwaith mawr wedi cael eu cynnwys ym Mholisïau'r Cynllun Adneuo a/neu wedi cael eu nodi yn y disgrifiadau o safleoedd isod (lle mae'n ofynnol eu darparu ar y safle), bydd yn ofynnol i'r HOLL safleoedd gyfrannu at seilwaith a chyfleusterau lleol fel a nodir yn y papurau cefndir amrywiol.

Mae rhagor o wybodaeth am y gofynion hyn ar gael yn y papurau cefndir penodol (Cyfleusterau Addysg, Cyfleusterau Cymunedol, Mannau Agored a Thrafnidiaeth Gynaliadwy) a'r Cynllun Seilwaith trosfwaol.

## Gwybodaeth Ategol Gyffredinol ac Asesiadau

Yn ychwanegol at y materion safle-benodol a godir dan bob dyraniad, efallai y bydd angen cyflwyno amrywiaeth o wybodaeth gyda chynigion datblygu, gan gynnwys:

- Datganiadau Amgylcheddol (yn amodol ar broses Sgrinio i Asesu'r Effaith Amgylcheddol)
- Asesiadau Trafnidiaeth
- Datganiadau Dylunio a Mynediad
- Uwchgynlluniau
- Asesiadau Tirwedd
- Cynlluniau Teithio a, lle y bo angen, gwelliannau i roi anogaeth ar gyfer trafnidiaeth gynaliadwy, e.e. gwasanaethau bysiau gyda chymorth, troedffyrdd newydd neu wedi'u gwella, mannau agored cyhoeddus, gwelliannau i gyfleusterau addysg neu fwy o gapasiti.
- Asesiadau Ecolegol – er bod sylwadau safle-benodol wedi cael eu gwneud ar rai safleoedd ynghylch nodweddion posibl sydd o bwysigrwydd o ran bioamrywiaeth, bydd asesiad ecolegol y cytunwyd arno gydag ecolegydd y Cyngor neu, lle y bo'n briodol, Cyfoeth Naturiol Cymru, yn ofynnol ar gyfer pob safle.

Nid yw cynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol Adneuo yn cael gwared ar yr angen am asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd ar lefel prosiectau o safleoedd datblygu unigol lle gallent gael effaith anffafriol ar gyfanrwydd Safle a Ddiogelir dan Gyfraith Ewrop.

Ar y cyd ag awdurdodau lleol eraill yn rhanbarth De Ddwyrain Cymru mae Cyngor Bro Morgannwg yn cynnig cynnal Astudiaeth Cylch Dŵr i ddarparu dealltwriaeth am ofynion y rhanbarth yn y dyfodol o ran dŵr mewn perthynas â dyraniadau datblygu newydd. Lle y bo angen, bydd yn ofynnol i gynigion datblygu sy'n effeithio ar yr amgylchedd dŵr ddarparu gwybodaeth ar lefel sy'n briodol i raddfa'r datblygiad sy'n dangos na fydd y cynnig yn cael effaith anffafriol ar yr amgylchedd dŵr.

Efallai y bydd gan y dyraniadau safleoedd amrywiol yn y cynllun y potensial i gefnogi Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop yn ogystal â chynefinoedd o bwysigrwydd ar gyfer bioamrywiaeth. Wrth ddyrannu'r safleoedd hyn mae dull rhagofalus wedi cael ei fabwysiadu gan y Cyngor a bydd yn ofynnol cyflwyno arolygon rhywogaethau priodol a, lle y bo'n berthnasol, mesurau lliniaru priodol, gydag unrhyw gais cynllunio ar gyfer datblygu'r safleoedd er mwyn cydymffurfio â'r gofynion a nodir yn Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y'u diwygiwyd). Y rheswm dros hyn yw er mwyn sicrhau nad yw'r cynnig yn arwain at unrhyw niwed tebygol i gynnal statws cadwraeth ffafriol Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop.

## Dyraniadau Safle-benodol

Gan roi sylw i'r arfarniad safle manwl, ymgyngoriadau a chynlluniau seilwaith a nodir uchod, mae'r adran ganlynol yn rhoi crynodeb cyffredinol o'r materion allweddol sy'n gysylltiedig â phob un o'r 46 safle a ddyrennir gan Bolisi MG2.

Wrth ddyrannu'r safleoedd yn y CDLl mae'r Cyngor wedi rhoi sylw i ofynion TAN15 ac yn benodol y profion cyfiawnhau a nodir dan Adran 6.2. Mae'r Cyngor wedi'i argyhoeddi y gellir cyfiawnhau'r safle a ddyrennir ac y gellir eu cyflawni yn ystod cyfnod y cynllun ac na fydd unrhyw fesurau lliniaru sy'n ofynnol yn effeithio ar lefel y twf a gynigir yn y safle na'r gallu i gyflawni'r safleoedd.

| | CYFANSWM |
|---|---|
| **MG2 (1)** Cam 2, Glannau'r Barri | 1,700 |

Mae'r safle 48.55 hectar strategol hwn yn amgylchynu Doc Rhif 1 yng Nglannau'r Barri ac mae wedi'i leoli rhwng canol tref y Barri ac Ynys y Barri. Dyrennir y safle ar gyfer ailddatblygiad cynhwysfawr Dociau'r Barri gynt, gyda chaniatâd cynllunio amlinellol (cyf. 2009/00946/OUT) wedi cael ei roi ym mis Mawrth 2012 ar gyfer cymysgedd o ddefnyddiau preswyl (C3), manwerthu (A1), caffis, bariau a bwytai (A3), gwesty (C1), swyddfeydd (B1) a defnyddiau cymunedol a hamdden (D1 a D2) gan gynnwys ysgol gynradd newydd. Bydd tai fforddiadwy'n cael eu darparu yn unol â Pholisi MG4 .
Bydd ailddatblygu'r safle'n dwyn seilwaith mawr hanfodol gan gynnwys:

- Tai fforddiadwy;
- Ffordd gyswllt newydd i Ynys y Barri;
- Cysylltiadau trafnidiaeth gynaliadwy a seilwaith ar gyfer cerddwyr, beicwyr a defnyddwyr trafnidiaeth gyhoeddus;
- Gwelliannau sylweddol i'r priffyrdd lleol;
- Ysgol gynradd newydd ar safle 1.5 hectar;
- Mannau agored cyhoeddus (7.83 Ha) a fydd yn cynnwys 13 Ardal Chwarae Leol â Chyfarpar, 2 Ardal Chwarae Leol â Chyfarpar, ac 1 Ardal Chwarae Cymdogaeth â Chyfarpar;
- Cyfleusterau cymunedol ar y safle, neu gyfraniad yn lle hynny; a
- Mesurau lliniaru ecolegol ar y safle ac oddi arno.

Bydd y datblygiad defnydd cymysg strategol yng Nglannau'r Barri yn helpu i ddwyn manteision adfywio sylweddol i'r dref, integreiddio Ynys y Barri, y Glannau a chanol y dref a chryfhau rôl y Barri fel anheddiad allweddol yn y Brifddinas-Ranbarth. Bydd y safle'n cael ei ddatblygu yn unol â'r ddogfen egwyddorion gymeradwy Datblygiad Glannau'r Barri (2009). Mae Asesiad Canlyniadau Llifogydd wedi cael ei gwblhau ar gyfer y safle.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi hysbysu y gallai llifogydd effeithio ar y safle, ac mae rhai rhannau wedi'u henwi fel rhai sydd ym Mharth C1/C2 ar y Map Cyngor Datblygu. Bydd yn ofynnol i'r holl gynigion datblygu o fewn y dyraniad hwn ddangos eu bod yn cyd-fynd â pholisi cenedlaethol mewn perthynas â pherygl llifogydd a nodir yn TAN15. Rhaid cyflwyno Asesiad Canlyniadau Llifogydd safle-benodol/ Asesiad Canlyniadau Llifogydd safle-benodol wedi'i ddiweddaru os yw unrhyw ran o safle'r cais cynllunio mewn ardal y nodwyd ei bod yn wynebu perygl llifogydd.

Wrth nodi'r safle ar gyfer ei ddatblygu, mae'r Cyngor wedi ystyried maint yr ardaloedd ar y safle sydd ym mharth llifogydd C2 ac wedi lleihau'r ardal ddatblygadwy net ar y safle yn unol â hynny. Mae maint yr ardaloedd sydd ym mharth llifogydd C2 yn golygu y gellir cael mynediad i mewn i'r safle ac allan o'r safle y tu allan i ardaloedd sydd ym mharth llifogydd C2. Mae'r ardaloedd llifogydd wedi'u cynnwys o fewn ffiniau'r safle sy'n cynrychioli ffiniau ffisegol rhesymegol ar gyfer y safle, ond dim ond ar gyfer datblygiadau sy'n wynebu llai o fygythiad megis mannau agored amwynder y bydd yr ardaloedd hyn yn addas.

| MG2 (2) Tir yn Higher End, Sain Tathan | CYFANSWM |
|---|---|
| | 220 |

Mae'r safle Maes Glas 9.78 hectar hwn yn gorwedd i'r de o safle'r Weinyddiaeth Amddiffyn, Sain Tathan yn Higher End. Mae gan ran ddwyreiniol y safle (tua 4.5Ha) ganiatâd cynllunio ar gyfer 100 annedd ac mae gwaith adeiladu'n digwydd arno ar hyn o bryd (cyfeirier at 2009/01368/OUT, 2012/00066/RES, 2013/01148/FUL) a 2015/00335/RES) a bydd mynediad iddo'n cael ei ddarparu o St John's View. Mae disgwyl i ddatblygiad y rhan o'r safle sy'n weddill (tua 5.3 hectar) ddarparu 120 o anheddau. Gellid darparu mynediad trwy St John's View neu gallai mynediad arall fod ar gael o Llantwit Major Road. Bydd tai fforddiadwy yn cael eu darparu yn unol â Pholisi MG4.

Mae Peirianwyr y Cyngor wedi hysbysu bod mynediad diogel addas yn ofynnol, a hwnnw'n fynediad sy'n cydymffurfio â meini prawf dylunio cyfredol. Hefyd, rhaid i geisiadau cynllunio yn y dyfodol gael eu hategu gan Asesiad Trafnidiaeth cynhwysfawr a chadarn sy'n gwerthuso ac yn pennu mesurau lliniaru sy'n lleddfu unrhyw effaith niweidiol y bydd y datblygiad yn ei chael ar y rhwydwaith priffyrdd lleol a chyffyrdd cysylltiedig.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymwybodol bod rhywogaeth a warchodir gan Ewrop wedi cael ei chofnodi yng nghyffiniau'r safle a bydd yn ofynnol cynnal asesiad ecolegol i ategu unrhyw gais cynllunio yn y dyfodol.

Mae Dŵr Cymru Welsh Water wedi hysbysu y gellir trefnu bod cyflenwad dŵr ar gael i wasanaethu'r safle datblygu arfaethedig; fodd bynnag, efallai y bydd prif bibellau helaeth oddi ar y safle'n ofynnol. Bydd yn ofynnol cwblhau asesiad modelu hydrolig i bennu'r man lle bydd y datblygiad yn cysylltu â'r garthffos gyhoeddus a gall fod yn ofynnol creu capasiti ychwanegol yng Ngwaith Trin Dŵr Gwastraff Gorllewin Aberddawan ar gyfer y datblygiad hwn a datblygiadau eraill yn yr ardal yn y dyfodol. Nid oes unrhyw welliannau yn yr arfaeth yn Rhaglen Buddsoddi Cyfalaf AMP 6 Dŵr Cymru Welsh Water (2015 – 2020). Bydd cynllun o uwchraddiadau ar gyfer y Gwaith Trin Dŵr Gwastraff hwn yn rhan o gais DCWW i Gorff Rheoleiddio'r Diwydiant, Ofwat, ar gyfer AMP 7. Os bydd tirfeddiannwr/datblygwr yn dymuno bwrw ymlaen â'r datblygiad arfaethedig cyn y buddsoddiad Rheoleiddiol, gall ariannu astudiaeth ddichonoldeb a fydd yn nodi'r gwelliannau sy'n ofynnol. Mae carthffos gyhoeddus dŵr budr 225 mm yn croesi'r safle, a bydd mesurau diogelu ar ffurf lled hawddfraint a/neu ddargyfeiriad yn ofynnol ar gyfer hyn.

Bydd angen cyflwyno Asesiad Dŵr Wyneb gydag unrhyw gais cynllunio, a hwnnw'n cynnwys ystyriaeth briodol i ddefnyddio Systemau Draenio Trefol Cynaliadwy, i ddangos na fyddai unrhyw effeithiau anffafriol yn deillio o'r datblygiad.

O ystyried agosrwydd y safle at safle'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn Sain Tathan a'r Parc Busnes Awyrofod, bydd yn ofynnol cwblhau asesiad sŵn hefyd ar gyfer unrhyw gynigion datblygu yn y dyfodol.

| MG2 (3) Tir yn Church Farm, Sain Tathan | CYFANSWM |
|---|---|
| | 250 |

Mae'r safle maes glas 8.47 hectar hwn wedi'i leoli i'r dwyrain o bentref Sain Tathan. Bydd tai fforddiadwy'n cael eu darparu yn unol â Pholisi MG4.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymwybodol bod rhywogaeth a warchodir gan Ewrop wedi cael ei chofnodi yng nghyffiniau'r safle a bydd yn ofynnol cynnal asesiad ecolegol i ategu unrhyw gais cynllunio yn y dyfodol.

Mae Dŵr Cymru Welsh Water wedi hysbysu y gellir trefnu bod cyflenwad dŵr ar gael i wasanaethu'r safle datblygu arfaethedig; fodd bynnag, efallai y bydd prif bibellau helaeth oddi ar y safle'n ofynnol. Bydd yn ofynnol cwblhau asesiad modelu hydrolig i bennu'r man lle bydd y datblygiad yn cysylltu â'r garthffos gyhoeddus a/neu unrhyw waith gwella sy'n ofynnol. Nid oes unrhyw welliannau yn yr arfaeth yn Rhaglen Buddsoddi Cyfalaf AMP 6 Dŵr Cymru Welsh Water (2015 – 2020). Bydd cynllun o uwchraddiadau ar gyfer y Gwaith Trin Dŵr Gwastraff hwn yn rhan o gais DCWW i Gorff Rheoleiddio'r Diwydiant, Ofwat, ar gyfer AMP 7. Os bydd tirfeddiannwr/datblygwr yn dymuno bwrw ymlaen â'r datblygiad arfaethedig cyn y buddsoddiad Rheoleiddiol, gall ariannu astudiaeth ddichonoldeb a fydd yn nodi'r gwelliannau sy'n ofynnol.

Mae Peirianwyr y Cyngor wedi hysbysu bod mynediad diogel addas yn ofynnol, a hwnnw'n fynediad sy'n cydymffurfio â meini prawf dylunio cyfredol. Hefyd, rhaid i geisiadau cynllunio yn y dyfodol gael eu hategu gan Asesiad Trafnidiaeth cynhwysfawr a chadarn sy'n gwerthuso ac yn pennu mesurau lliniaru sy'n lleddfu unrhyw effaith niweidiol y bydd y datblygiad yn ei chael ar y rhwydwaith priffyrdd lleol a chyffyrdd cysylltiedig.

Bydd briff datblygu'n cael ei baratoi a bydd hwnnw'n sicrhau bod materion o ran y dirwedd a ac agweddau sensitif lleol yn cael eu hystyried yn llawn mewn cynigion datblygu yn y dyfodol. Bydd yn ofynnol cwblhau arolwg manwl yn ôl y 'canllawiau a meini prawf diwygiedig ar gyfer graddio ansawdd tir amaethyddol' (MAFF 1988) i gadarnhau gradd tir amaethyddol ac mae Ymddiriedolaeth Archeolegol Morgannwg Gwent wedi hysbysu y gall fod yn ofynnol cwblhau gwerthusiad archeolegol fel rhan o'r broses o gyflwyno cais cynllunio.

| | CYFANSWM |
|---|---|
| **MG2 (4)** Hen Safle'r Stadiwm / Tir ar bwys Burley Place, Sain Tathan | 65 |

Mae'r safle tir llwyd 2.2 hectar hwn wedi'i leoli i'r dwyrain o bentref Sain Tathan ar hen faes chwaraeon. Bydd tai fforddiadwy'n cael eu cyflawni yn unol â Pholisi MG4.

Mae Peirianwyr y Cyngor wedi hysbysu bod mynediad diogel addas yn ofynnol, a hwnnw'n fynediad sy'n cydymffurfio â meini prawf dylunio cyfredol. Hefyd, rhaid i geisiadau cynllunio yn y dyfodol gael eu hategu gan Asesiad Trafnidiaeth cynhwysfawr a chadarn sy'n gwerthuso ac yn pennu mesurau lliniaru sy'n lleddfu unrhyw effaith niweidiol y bydd y datblygiad yn ei chael ar y rhwydwaith priffyrdd lleol a chyffyrdd cysylltiedig.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymwybodol bod rhywogaeth a warchodir gan Ewrop wedi cael ei chofnodi yng nghyffiniau'r safle a bydd yn ofynnol cynnal asesiad ecolegol i ategu unrhyw gais cynllunio yn y dyfodol.

Mae Dŵr Cymru Welsh Water wedi hysbysu y gellir trefnu bod cyflenwad dŵr ar gael i wasanaethu'r safle datblygu arfaethedig; fodd bynnag, efallai y bydd prif bibellau helaeth oddi ar y safle'n ofynnol. Bydd yn ofynnol cwblhau asesiad modelu hydrolig i bennu'r man lle bydd y datblygiad yn cysylltu â'r garthffos gyhoeddus a/neu unrhyw waith gwella sy'n ofynnol. Nid oes unrhyw welliannau yn yr arfaeth yn Rhaglen Buddsoddi Cyfalaf AMP 6 Dŵr Cymru Welsh Water (2015 – 2020). Bydd cynllun o uwchraddiadau ar gyfer y Gwaith Trin Dŵr Gwastraff hwn yn rhan o gais DCWW i Gorff Rheoleiddio'r Diwydiant, Ofwat, ar gyfer AMP 7. Os bydd tirfeddiannwr/datblygwr yn dymuno bwrw ymlaen â'r datblygiad arfaethedig cyn y buddsoddiad Rheoleiddiol, gall ariannu astudiaeth ddichonoldeb a fydd yn nodi'r gwelliannau sy'n ofynnol.

Bydd Asesiad Dŵr Wyneb, a hwnnw'n cynnwys ystyriaeth briodol i ddefnyddio Systemau Draenio Trefol Cynaliadwy, yn ofynnol hefyd, i ddangos na fyddai unrhyw effeithiau anffafriol yn deillio o'r datblygiad

| | CYFANSWM |
|---|---|
| **MG2 (5)** Tir i'r dwyrain o Eglwys Brewis | 255 |

Mae'r safle Maes Glas 10.9 hectar hwn wedi'i leoli i'r gogledd o Sain Tathan i'r dwyrain o Heol y Bont-faen. Bydd tai fforddiadwy'n cael eu cyflawni yn unol â Pholisi MG4.

Mae Peirianwyr y Cyngor wedi hysbysu bod mynediad diogel addas yn ofynnol, a hwnnw'n fynediad sy'n cydymffurfio â meini prawf dylunio cyfredol. Hefyd, rhaid i geisiadau cynllunio yn y dyfodol gael eu hategu gan Asesiad Trafnidiaeth cynhwysfawr a chadarn sy'n gwerthuso ac yn pennu mesurau lliniaru sy'n lleddfu unrhyw effaith niweidiol y bydd y datblygiad yn ei chael ar y rhwydwaith priffyrdd lleol a chyffyrdd cysylltiedig.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi hysbysu y gallai llifogydd effeithio ar y safle, ac mae rhai rhannau wedi'u henwi fel rhai sydd ym Mharth C1/C2 ar y Map Cyngor Datblygu. Bydd yn ofynnol i'r holl gynigion datblygu o fewn y dyraniad hwn ddangos eu bod yn cyd-fynd â pholisi cenedlaethol mewn perthynas â pherygl llifogydd a nodir yn TAN15. Rhaid cyflwyno Asesiad Canlyniadau Llifogydd safle-benodol/ Asesiad Canlyniadau Llifogydd safle-benodol wedi'i ddiweddaru os yw unrhyw ran o safle'r cais cynllunio mewn ardal y nodwyd ei bod yn wynebu perygl llifogydd.

Wrth nodi'r safle ar gyfer ei ddatblygu, mae'r Cyngor wedi ystyried maint yr ardaloedd ar y safle sydd ym mharth llifogydd C2 ac wedi lleihau'r ardal ddatblygadwy net ar y safle yn unol â hynny. Mae maint yr ardaloedd sydd ym mharth llifogydd C2 yn golygu y gellir cael mynediad i mewn i'r safle ac allan o'r safle y tu allan i ardaloedd sydd ym mharth llifogydd C2. Mae'r ardaloedd llifogydd wedi'u cynnwys o fewn ffiniau'r safle sy'n cynrychioli ffiniau ffisegol rhesymegol ar gyfer y safle, ond dim ond ar gyfer datblygiadau sy'n wynebu llai o fygythiad megis mannau agored amwynder y bydd yr ardaloedd hyn yn addas.

Mae peiriannydd draenio'r Cyngor wedi hysbysu bod prif afon ddynodedig yn rhedeg ar hyd ffin y safle. Dylai unrhyw gais egluro lefel bresennol y perygl llifogydd ar y safle ac ystyried addasrwydd y brif afon i dderbyn unrhyw ddŵr wyneb ffo arfaethedig. Dylid ymchwilio i addasrwydd defnyddio ffosydd cerrig i waredu dŵr wyneb ffo, a dylid cynnal asesiad o'r potensial ar gyfer gwaredu dŵr wynebu gan ddefnyddio system ddraenio gynaliadwy. Bydd Asesiad Dŵr Wyneb, a hwnnw'n cynnwys ystyriaeth briodol i ddefnyddio Systemau Draenio Trefol Cynaliadwy, yn ofynnol hefyd, i ddangos na fyddai unrhyw effeithiau anffafriol yn deillio o'r datblygiad.

Mae Dŵr Cymru Welsh Water wedi hysbysu y gellir trefnu bod cyflenwad dŵr ar gael i wasanaethu'r safle datblygu arfaethedig; fodd bynnag, efallai y bydd prif bibellau helaeth oddi ar y safle'n ofynnol. Bydd yn ofynnol cwblhau asesiad modelu hydrolig i bennu'r man lle bydd y datblygiad yn cysylltu â'r garthffos gyhoeddus a/neu unrhyw waith gwella sy'n ofynnol a gall fod yn ofynnol creu capasiti ychwanegol. Mae carthffos gyhoeddus dŵr budr 150 mm a phibell godi dŵr budr 150 mm yn croesi'r safle, a bydd mesurau diogelu ar ffurf lled hawddfraint a/neu ddargyfeiriad yn ofynnol ar gyfer hyn. Ceir Gorsaf Pwmpio Carthion ar y rhwydwaith carthffosiaeth gyhoeddus o fewn y safle hefyd, a gall fod angen Cordon Sanitaire neu glustogfa ar gyfer hon er mwyn gwarchod amwynder preswyl. Gall DCWW ac Adran Iechyd yr Amgylchedd Bro Morgannwg roi cyngor pellach ynghylch hyn. Nid oes unrhyw welliannau yn yr arfaeth yn Rhaglen Buddsoddi Cyfalaf AMP 6 Dŵr Cymru Welsh Water (2015 – 2020). Bydd cynllun o uwchraddiadau ar gyfer y Gwaith Trin Dŵr Gwastraff hwn yn rhan o gais DCWW i Gorff Rheoleiddio'r Diwydiant, Ofwat, ar gyfer AMP 7. Os bydd tirfeddiannwr/datblygwr yn dymuno bwrw ymlaen â'r datblygiad arfaethedig cyn y buddsoddiad Rheoleiddiol, gall ariannu astudiaeth ddichonoldeb a fydd yn nodi'r gwelliannau sy'n ofynnol.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymwybodol bod rhywogaeth a warchodir gan Ewrop wedi cael ei chofnodi yng nghyffiniau'r safle a bydd yn ofynnol cynnal asesiad ecolegol i ategu unrhyw gais cynllunio yn y dyfodol.

Bydd yn ofynnol cwblhau arolwg manwl yn ôl y 'canllawiau a meini prawf diwygiedig ar gyfer graddio ansawdd tir amaethyddol' (MAFF 1988) i gadarnhau gradd tir amaethyddol. Mae nifer o goed â gwerth amwynder uchel wedi'u lleoli yng nghornel ddeheuol y safle a dylai'r rhain gael eu cadw mewn unrhyw gynigion datblygu.

| | CYFANSWM |
|---|---|
| **MG2 (6)** Tir ar bwys Froglands Farm, Llanilltud Fawr | 90 |

Mae'r safle Maes Glas 4.4 hectar hwn wedi'i leoli ar ymyl orllewinol pentref Sain Tathan ac mae'n debygol y ceir mynediad iddo o'r Ffordd Fynediad Ogleddol newydd a fydd yn cael ei darparu fel rhan o gynigion Ardal Fenter Sain Tathan – Maes Awyr Caerdydd. Gyda chyllid gan Lywodraeth Cymru ac o ffynonellau cyllido eraill, bydd y datblygiad yn cyfrannu at gyflawni'r Ffordd Fynediad Ogleddol (cyfeirier at Bolisïau SP7 (2) ac MG16 (4)) a gwaith hanfodol arall i briffyrdd a seilwaith cysylltiedig. Bydd tai fforddiadwy'n cael eu cyflawni yn unol â Pholisi MG4.

Mae peiriannydd draenio'r Cyngor wedi hysbysu bod prif afon ddynodedig yn rhedeg ar hyd ffin ddeheuol y safle a bod ardaloedd perygl llifogydd hysbys wedi'u lleoli i lawr yr afon. Felly bydd yn ofynnol ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru a bydd angen cwblhau Asesiad Canlyniad Llifogydd ac Asesiad Dŵr Wyneb, gan gynnwys ystyriaeth briodol i ddefnyddio Systemau Draenio Trefol Cynaliadwy, i ddangos na fyddai unrhyw effeithiau anffafriol yn deillio o'r datblygiad.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi hysbysu y gallai llifogydd effeithio ar y safle, ac mae rhai rhannau wedi'u henwi fel rhai sydd ym Mharth C1/C2 ar y Map Cyngor Datblygu. Bydd yn ofynnol i'r holl gynigion datblygu o fewn y dyraniad hwn ddangos eu bod yn cyd-fynd â pholisi cenedlaethol mewn perthynas â pherygl llifogydd a nodir yn TAN15. Rhaid cyflwyno Asesiad Canlyniadau Llifogydd safle-benodol/ Asesiad Canlyniadau Llifogydd safle-benodol wedi'i ddiweddaru os yw unrhyw ran o safle'r cais cynllunio mewn ardal y nodwyd ei bod yn wynebu perygl llifogydd.

Wrth nodi'r safle ar gyfer ei ddatblygu, mae'r Cyngor wedi ystyried maint yr ardaloedd ar y safle sydd ym mharth llifogydd C2 ac wedi lleihau'r ardal ddatblygadwy net ar y safle yn unol â hynny. Mae maint yr ardaloedd sydd ym mharth llifogydd C2 yn golygu y gellir cael mynediad i mewn i'r safle ac allan o'r safle y tu allan i ardaloedd sydd ym mharth llifogydd C2. Mae'r ardaloedd llifogydd wedi'u cynnwys o fewn ffiniau'r safle sy'n cynrychioli ffiniau ffisegol rhesymegol ar gyfer y safle, ond dim ond ar gyfer datblygiadau sy'n wynebu llai o fygythiad megis mannau agored amwynder y bydd yr ardaloedd hyn yn addas.

Mae Peirianwyr y Cyngor wedi hysbysu bod mynediad diogel addas yn ofynnol, a hwnnw'n fynediad sy'n cydymffurfio â meini prawf dylunio cyfredol. Hefyd, rhaid i geisiadau cynllunio yn y dyfodol gael eu hategu gan Asesiad Trafnidiaeth cynhwysfawr a chadarn sy'n gwerthuso ac yn pennu mesurau lliniaru sy'n lleddfu unrhyw effaith niweidiol y bydd y datblygiad yn ei chael ar y rhwydwaith priffyrdd lleol a chyffyrdd cysylltiedig.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymwybodol bod rhywogaeth a warchodir gan Ewrop wedi cael ei chofnodi yng nghyffiniau'r safle a bydd yn ofynnol cynnal asesiad ecolegol i ategu unrhyw gais cynllunio yn y dyfodol.

Mae Dŵr Cymru Welsh Water wedi hysbysu y gellir trefnu bod cyflenwad dŵr ar gael i wasanaethu'r safle datblygu arfaethedig; fodd bynnag, efallai y bydd prif bibellau helaeth oddi ar y safle'n ofynnol. Ni ragwelir unrhyw broblemau gyda'r system garthffosiaeth gyhoeddus ar gyfer dŵr budr domestig sy'n llifo o'r datblygiad arfaethedig hwn. Mae carthffos gyhoeddus dŵr budr 225 mm yn croesi'r safle, a bydd mesurau diogelu ar ffurf lled hawddfraint a/neu ddargyfeiriad yn ofynnol ar gyfer hyn.

Mae Ymddiriedolaeth Archeolegol Morgannwg Gwent wedi hysbysu y byddai angen cwblhau Asesiad Archeolegol cyn penderfynu ynghylch cais cynllunio yn y dyfodol.

Bydd yn ofynnol cwblhau arolwg manwl yn ôl y 'canllawiau a meini prawf diwygiedig ar gyfer graddio ansawdd tir amaethyddol' (MAFF 1988) i gadarnhau gradd tir amaethyddol er bod y tir yn annhebygol o fod y Tir Gorau a Mwyaf Hyblyg.

| | CYFANSWM |
|---|---|
| **MG2 (7)** Tir rhwng y Ffordd Fynediad Ogleddol newydd a Heol Eglwys Brewis | 375 |

Mae'r safle 15.8 hectar hwn wedi'i leoli i'r gorllewin o bentref Sain Tathan a bydd mynediad iddo'n cael ei ddarparu o'r Ffordd Fynediad Ogleddol newydd a fydd yn cael ei darparu fel rhan o gynigion Ardal Fenter Sain Tathan – Maes Awyr Caerdydd. Mae'r dwysedd safle llai a gynigir ar gyfer y safle'n adlewyrchu'r ffaith bod prif afon yn rhedeg ar hyd y ffin ddeheuol ac ar draws y safle. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi hysbysu y gallai llifogydd effeithio ar y safle, ac mae rhai rhannau wedi'u henwi fel rhai sydd ym Mharth C1/C2 ar y Map Cyngor Datblygu. Bydd yn ofynnol i'r holl gynigion datblygu o fewn y dyraniad hwn ddangos eu bod yn cyd-fynd â pholisi cenedlaethol mewn perthynas â pherygl llifogydd a nodir yn TAN15. Rhaid cyflwyno Asesiad Canlyniadau Llifogydd safle-benodol/ Asesiad Canlyniadau Llifogydd safle-benodol wedi'i ddiweddaru os yw unrhyw ran o safle'r cais cynllunio mewn ardal y nodwyd ei bod yn wynebu perygl llifogydd. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi hysbysu na fyddai unrhyw ddatblygiad yn cael ei ganiatáu o fewn 7 metr i'r brif afon a/neu'r asedau lliniaru llifogydd. Bydd tai fforddiadwy'n cael eu cyflawni yn unol â Pholisi MG4.

Wrth nodi'r safle ar gyfer ei ddatblygu, mae'r Cyngor wedi ystyried maint yr ardaloedd ar y safle sydd ym mharth llifogydd C2 ac wedi lleihau'r ardal ddatblygadwy net ar y safle yn unol â hynny. Mae maint yr ardaloedd sydd ym mharth llifogydd C2 yn golygu y gellir cael mynediad i mewn i'r safle ac allan o'r safle y tu allan i ardaloedd sydd ym mharth llifogydd C2. Mae'r ardaloedd llifogydd wedi'u cynnwys o fewn ffiniau'r safle sy'n cynrychioli ffiniau ffisegol rhesymegol ar gyfer y safle, ond dim ond ar gyfer datblygiadau sy'n wynebu llai o fygythiad megis mannau agored amwynder y bydd yr ardaloedd hyn yn addas.

Mae Peirianwyr y Cyngor wedi hysbysu bod mynediad diogel addas yn ofynnol, a hwnnw'n fynediad sy'n cydymffurfio â meini prawf dylunio cyfredol. Hefyd, rhaid i geisiadau cynllunio yn y dyfodol gael eu hategu gan Asesiad Trafnidiaeth cynhwysfawr a chadarn sy'n gwerthuso ac yn pennu mesurau lliniaru sy'n lleddfu unrhyw effaith niweidiol y bydd y datblygiad yn ei chael ar y rhwydwaith priffyrdd lleol a chyffyrdd cysylltiedig.

Mae Dŵr Cymru Welsh Water wedi hysbysu y gellir trefnu bod cyflenwad dŵr ar gael i wasanaethu'r safle datblygu arfaethedig; fodd bynnag, efallai y bydd prif bibellau helaeth oddi ar y safle'n ofynnol. Bydd yn ofynnol cwblhau asesiad modelu hydrolig i bennu'r man lle bydd y datblygiad yn cysylltu â'r garthffos gyhoeddus a/neu unrhyw waith gwella sy'n ofynnol. Mae dwy garthffos gyhoeddus dŵr budr 150 mm yn croesi'r safle, a bydd mesurau diogelu ar ffurf lled hawddfraint a/neu ddargyfeiriad yn ofynnol ar gyfer hyn.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymwybodol bod rhywogaeth a warchodir gan Ewrop wedi cael ei chofnodi yng nghyffiniau'r safle a bydd yn ofynnol cynnal asesiad ecolegol i ategu unrhyw gais cynllunio yn y dyfodol.

Mae Ymddiriedolaeth Archeolegol Morgannwg Gwent wedi hysbysu y byddai angen cwblhau Asesiad Archeolegol cyn penderfynu ynghylch cais cynllunio yn y dyfodol.

Bydd yn ofynnol cwblhau arolwg manwl yn ôl y 'canllawiau a meini prawf diwygiedig ar gyfer graddio ansawdd tir amaethyddol' (MAFF 1988) i gadarnhau gradd tir amaethyddol er bod y tir yn annhebygol o fod y Tir Gorau a Mwyaf Hyblyg.

Er mai menter dan arweiniad Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Ardal Fenter yw'r Ffordd Fynediad Ogleddol, bydd disgwyl i'r datblygiad gyfrannu at y gwaith hanfodol i briffyrdd a nodir ym Mholisïau SP7 ac MG16.

| MG2 (8) Parc Pleser Ynys y Barri | CYFANSWM |
|---|---|
| | 25 |

Mae'r safle tir llwyd 1.18 hectar hwn wedi cael eu ddyrannu ar gyfer 25 annedd. Cafodd rhan dde-ddwyreiniol y safle hwn ganiatâd cynllunio ar gyfer 25 uned breswyl a defnyddiau masnachol cysylltiedig ym mis Tachwedd 2015 (cyfeirier at 2014/01358/FUL). Mae'r rhan o'r safle sy'n weddill wedi'i dyrannu ar gyfer datblygiad hamdden defnydd cymysg

| MG2 (9) White Farm | CYFANSWM |
|---|---|
| | 177 |

Mae'r safle Maes Glas 12.1 hectar hwn wedi'i ddyrannu at ddibenion preswyl a hamdden. Mae'r elfen breswyl o'r safle'n cynnwys 5.2 hectar ac mae'r 6.9 hectar sy'n weddill wedi'i ddyrannu fel man agored anffurfiol. Mae gan y safle ganiatâd cynllunio llawn ar gyfer 177 o anheddau (cyfeirier at geisiadau 2002/01636/OUT a 2010/00123/RES), a chwblhawyd y datblygiad yn 2015.

| MG2 (10) Tir i'r dwyrain o Pencoedtre Lane | CYFANSWM |
|---|---|
| | 67 |

Roedd y safle 2.8 hectar hwn yn rhan o ddyraniad cyflogaeth hanesyddol ym Mhencoedtre sydd wedi cael ei gyflwyno ar gyfer datblygiad preswyl. Cafodd y safle ganiatâd cynllunio llawn (cyfeirier at geisiadau 2008/01531/OUT a 2010/01225/RES) ar gyfer 67 annedd a chwblhawyd y datblygiad yn 2014.

| MG2 (11) Tir i'r gorllewin o Pencoedtre Lane | CYFANSWM |
|---|---|
| | 137 |

Mae'r safle Maes Glas 4.45 hectar hwn wedi'i leoli i'r gogledd orllewin o Bencoedtre, Y Barri. Cafodd rhan o'r safle ganiatâd cynllunio'n flaenorol ar gyfer defnydd Busnes B1 (cyfeirier at gais cynllunio 2000/00860/FUL) fel rhan o ddyraniad cyflogaeth hanesyddol mwy; fodd bynnag, ni weithredwyd ar y caniatâd hwn ac ers hynny mae rhannau o'r dyraniad cyflogaeth hanesyddol i'r dwyrain wedi cael caniatâd ar gyfer defnydd preswyl (gweler MG2 (10)). Felly, o ystyried ei faint a'i berthynas â'r datblygiad preswyl i'r dwyrain mae'r safle hwn wedi cael ei ddyrannu ar gyfer defnydd preswyl a fydd yn darparu o leiaf 137 annedd. Ar hyn o bryd mae rhan orllewinol y safle'n rhan o dir Ysgol Gyfun Bryn Hafren yr ystyrir ei fod yn dir dros ben nad oes mo'i angen ar yr ysgol. Bydd datblygu'r safle'n hwyluso'r broses o ddarparu cyfleusterau hamdden gwell i wasanaethu'r ysgol ac, o bosibl, y gymuned ehangach. Bydd tai fforddiadwy'n cael eu cyflawni yn unol â Pholisi MG4.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymwybodol bod rhywogaeth a warchodir gan Ewrop wedi cael ei chofnodi yng nghyffiniau'r safle a bydd yn ofynnol cynnal asesiad ecolegol i ategu unrhyw gais cynllunio yn y dyfodol. Hefyd, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi hysbysu bod y safle'n agos at Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) Coedydd y Barri sy'n gorwedd rhyw 200 metr i'r dwyrain ac y dylai'r safle dynodedig gael ei warchod bob amser. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi rhoi anogaeth i gadw coed a pherthi aeddfed ar y safle arfaethedig oherwydd eu gwerth cadwraeth ac esthetig.

Mae Dŵr Cymru Welsh Water wedi hysbysu y gellir trefnu bod cyflenwad dŵr ar gael i wasanaethu'r safle datblygu arfaethedig. Mae pibell ddŵr y prif gyflenwad 36" yn croesi'r safle a phibell ddŵr y prif gyflenwad 450 mm yn croesi rhan ogleddol y safle a phrif bibell ddosbarthu 125 mm yn croesi rhan ddwyreiniol y safle, a bydd mesurau diogelu ar ffurf lled hawddfraint a/neu ddargyfeiriad yn ofynnol ar gyfer hyn. Bydd

yn ofynnol cwblhau asesiad modelu hydrolig i bennu'r man lle bydd y datblygiad yn cysylltu â'r garthffos gyhoeddus a/neu unrhyw waith gwella sy'n ofynnol.

Mae peirianwyr draenio'r Cyngor wedi hysbysu nad oes cwrs dŵr ar gael i waredu dŵr wyneb yn agos iawn at y safle ac felly bydd angen rhoi ystyriaeth i waredu dŵr wyneb ac asesu sut y caiff ei reoli. Dylai unrhyw ddarpar ddatblygwr ymchwilio i addasrwydd defnyddio ffosydd cerrig i waredu dŵr wyneb ffo yn y lle cyntaf, a sicrhau y cynhelir asesiad o'r potensial ar gyfer gwaredu dŵr wynebu gan ddefnyddio system ddraenio addas.

Mae Peirianwyr y Cyngor wedi hysbysu bod mynediad diogel addas yn ofynnol, a hwnnw'n fynediad sy'n cydymffurfio â meini prawf dylunio cyfredol. Hefyd, rhaid i geisiadau cynllunio yn y dyfodol gael eu hategu gan Asesiad Trafnidiaeth cynhwysfawr a chadarn sy'n gwerthuso ac yn pennu mesurau lliniaru sy'n lleddfu unrhyw effaith niweidiol y bydd y datblygiad yn ei chael ar y rhwydwaith priffyrdd lleol a chyffyrdd cysylltiedig.

Mae Ymddiriedolaeth Archeolegol Morgannwg Gwent wedi hysbysu y bydd yn ofynnol cwblhau Asesiad Archeolegol o'r safle ac y gall fod yn ofynnol cadw rhai rhannau o'r safle fel mannau agored er mwyn gwarchod nodweddion archeolegol.

| | CYFANSWM |
|---|---|
| **MG2 (12)** Ysgol Maes Dyfan | 81 |

Safle tir llwyd 1.44 hectar sydd wedi'i leoli yn anheddiad y Barri ac a gafodd ganiatâd cynllunio ar gyfer 81 uned breswyl yn 2015 (cyfeirier at 2015/00075/FUL a 2015/00076/FUL) yw hwn ac mae gwaith i ailddatblygu'r safle wedi dechrau. Bydd tai fforddiadwy'n cael eu cyflawni yn unol â Pholisi MG4

| | CYFANSWM |
|---|---|
| **MG2 (13)** Llys Ynadon y Barri | 52 |

Mae'r safle tir llwyd hwn wedi cael ei ddyrannu ar gyfer 52 uned o dai annedd. Cafodd y safle ganiatâd cynllunio ar gyfer cynllun defnydd cymysg a oedd yn cynnwys 52 uned breswyl ym mis Mawrth 2013 (cyfeirier at 2012/01114/FUL) a chafodd y gwaith o ailddatblygu'r safle ei gwblhau yn 2015.

| | CYFANSWM |
|---|---|
| **MG2 (14)** Depo Court Road, Y Barri | 50 |

Mae'r safle tir llwyd 1.6 hectar hwn wedi'i leoli yn anheddiad y Barri, ac mae'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd fel depo ar gyfer Cyngor Bro Morgannwg. Bydd tai fforddiadwy'n cael eu cyflawni yn unol â Pholisi MG4.

Mae peirianwyr draenio'r Cyngor wedi hysbysu y dylai darpar ymgeiswyr ar gyfer cynigion datblygu yn y dyfodol ymchwilio i addasrwydd defnyddio ffosydd cerrig i waredu dŵr wyneb ffo yn y lle cyntaf. Os nad yw hyn yn ddichonadwy, efallai y bydd modd cynnwys dŵr wyneb ffo o fewn y system bresennol ar gyfer draenio dŵr wyneb. Mae'n debygol y bydd llifoedd yn cael eu cyfyngu i gyfradd gollwng a fydd i'w chytuno gyda'r Cyngor yn gweithredu fel Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol. O ystyried y defnydd blaenorol o'r safle fel Depo'r Cyngor, dylid ystyried yr effaith bosibl y byddai halogiad tir yn ei chael ar ddarparu system i ddraenio dŵr wyneb.

Mae Dŵr Cymru Welsh Water (DCWW) wedi hysbysu y gellir trefnu bod cyflenwad dŵr ar gael i wasanaethu'r safle datblygu arfaethedig ac na ragwelir unrhyw broblemau gyda'r system garthffos gyhoeddus na'r Gwaith Trin Dŵr Gwastraff o ran ymdrin â dŵr budr sy'n llifo o'r datblygiad hwn.

# Atodiadau

Mae Peirianwyr y Cyngor wedi hysbysu bod mynediad diogel addas yn ofynnol, a hwnnw'n fynediad sy'n cydymffurfio â meini prawf dylunio cyfredol. Hefyd, rhaid i geisiadau cynllunio yn y dyfodol gael eu hategu gan Asesiad Trafnidiaeth cynhwysfawr a chadarn sy'n gwerthuso ac yn pennu mesurau lliniaru sy'n lleddfu unrhyw effaith niweidiol y bydd y datblygiad yn ei chael ar y rhwydwaith priffyrdd lleol a chyffyrdd cysylltiedig.

Mae Ymddiriedolaeth Archeolegol Morgannwg Gwent a swyddog cadwraeth y Cyngor wedi awgrymu y gallai rhai adeiladau presennol fod wedi bod yn rhan o gyfadeilad hen ladd-dy o Oes Fictoria ac y byddent yn dymuno cael eu cynnwys mewn proses ymgynghori ynghylch cynigion datblygu yn y dyfodol.

| | CYFANSWM |
|---|---|
| **MG2 (15)** Holm View | 50 |

Mae gan y safle tir llwyd hwn arwynebedd o 1.2 hectar. Dylai darpar ymgeiswyr ar gyfer cynigion datblygu yn y dyfodol ymchwilio i addasrwydd defnyddio ffosydd cerrig i waredu dŵr wyneb ffo yn y lle cyntaf. Os nad yw hyn yn ddichonadwy, efallai y bydd modd cynnwys dŵr wyneb ffo o fewn y system bresennol ar gyfer draenio dŵr wyneb. Mae'n debygol y bydd llifoedd yn cael eu cyfyngu i gyfradd gollwng a fydd i'w chytuno gyda'r Cyngor yn gweithredu fel Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol. Bydd yr Awdurdod Priffyrdd yn ei gwneud yn ofynnol darparu mynedfa diogel addas sy'n cydymffurfio â mini prawf dylunio cyfredol. Bydd tai fforddiadwy'n cael eu cyflawni yn unol â Pholisi MG4.

Mae Dŵr Cymru Welsh Water (DCWW) wedi hysbysu y gellir trefnu bod cyflenwad dŵr ar gael i wasanaethu'r safle datblygu arfaethedig ac na ragwelir unrhyw broblemau gyda'r system garthffos gyhoeddus na'r Gwaith Trin Dŵr Gwastraff o ran ymdrin â dŵr budr sy'n llifo o'r datblygiad hwn.

| | CYFANSWM |
|---|---|
| **MG2 (16)** Hayes Wood, The Bendricks | 55 |

Mae'r safle 1.8 hectar hwn wedi'i leoli i'r de ddwyrain o'r Barri. Bydd tai fforddiadwy'n cael eu cyflawni yn unol â Pholisi MG4.

Dylai darpar ymgeiswyr ar gyfer cynigion datblygu yn y dyfodol ymchwilio i addasrwydd defnyddio ffosydd cerrig i waredu dŵr wyneb ffo yn y lle cyntaf. Os nad yw hyn yn ddichonadwy, efallai y bydd modd cynnwys dŵr wyneb ffo o fewn y system bresennol ar gyfer draenio dŵr wyneb. Mae'n debygol y bydd llifoedd yn cael eu cyfyngu i gyfradd gollwng a fydd i'w chytuno gyda'r Cyngor yn gweithredu fel Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol.

Mae Dŵr Cymru Welsh Water (DCWW) wedi hysbysu y gellir trefnu bod cyflenwad dŵr ar gael i wasanaethu'r safle datblygu arfaethedig ac na ragwelir unrhyw broblemau gyda'r system garthffos gyhoeddus na'r Gwaith Trin Dŵr Gwastraff o ran ymdrin â dŵr budr sy'n llifo o'r datblygiad hwn. Mae prif bibell ddosbarthu 6" a charthffos gyhoeddus dŵr budr 100 mm yn croesi'r safle, a bydd mesurau diogelu ar ffurf lled hawddfraint a/neu ddargyfeiriad yn ofynnol ar gyfer hyn.

O ystyried agosrwydd y safle at goetir hynafol Coed Y Hayes bydd yn ofynnol ymgynghori ag ecolegydd y Cyngor cyn cyflwyno unrhyw gais cynllunio yn y dyfodol.

Bydd yr Awdurdod Priffyrdd yn ei gwneud yn ofynnol darparu mynedfa diogel addas sy'n cydymffurfio â mini prawf dylunio cyfredol; fodd bynnag, mae'n annhebygol y gellir darparu hyn o Hayes Road.

Mae Ymddiriedolaeth Archeolegol Morgannwg Gwent wedi hysbysu y dylid cynnal gwerthusiad archeolegol o'r safle fel rhan o unrhyw gynnig datblygu yn y dyfodol.

| | CYFANSWM |
|---|---|
| **MG2 (17)** Ysgol Isaf Ysgol Gyfun y Bont-faen | 21 |

Mae'r safle tir llwyd 0.80 hectar hwn wedi'i leoli'n agos iawn at ganol tref y Bont-faen ac mae'n ffinio ag Ardal Gadwraeth y Bont-faen a nifer o adeiladau rhestredig a heneb gofrestredig. Rhoddwyd caniatâd cynllunio (cyf. 2011/01248/FUL) ym mis Medi 2012 ar gyfer datblygu 21 annedd gyda thai fforddiadwy yn ôl cyfradd o 30%. Cafodd gwaith i ailddatblygu'r safle ei gwblhau yn 2015.

| | CYFANSWM |
|---|---|
| **MG2 (18)** Bloc 6ed Dosbarth Ysgol Gyfun y Bont-faen, Aberthin Road | 20 |

Mae'r safle 0.52 hectar hwn yn cynnwys yr hen adeilad Chweched Dosbarth ar Aberthin Road i'r gogledd ddwyrain o'r Bont-faen. Bydd tai fforddiadwy'n cael eu cyflawni yn unol â Pholisi MG4.

Dylai darpar ymgeiswyr ar gyfer cynigion datblygu yn y dyfodol ymchwilio i addasrwydd defnyddio ffosydd cerrig i waredu dŵr wyneb ffo yn y lle cyntaf. Os nad yw hyn yn ddichonadwy, efallai y bydd modd cynnwys dŵr wyneb ffo o fewn y system bresennol ar gyfer draenio dŵr wyneb. Mae'n debygol y bydd llifoedd yn cael eu cyfyngu i gyfradd gollwng a fydd i'w chytuno gyda'r Cyngor yn gweithredu fel Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol.

Mae Peirianwyr y Cyngor wedi hysbysu nad yw'r mynediad presennol ar gyfer cerbydau'n ddigon da a'i fod yn beryglus oherwydd y diffyg llain gweledol ac felly y bydd angen darparu mynediad diogel addas sy'n cydymffurfio â meini prawf dylunio cyfredol.

Mae Dŵr Cymru Welsh Water (DCWW) wedi hysbysu y gellir trefnu bod cyflenwad dŵr ar gael i wasanaethu'r safle datblygu arfaethedig ac na ragwelir unrhyw broblemau gyda'r system garthffos gyhoeddus ar gyfer dŵr budr sy'n llifo o'r datblygiad arfaethedig. Mae carthffos gyhoeddus gyfunedig 225 mm yn croesi'r safle, a bydd mesurau diogelu ar ffurf lled hawddfraint a/neu ddargyfeiriad yn ofynnol ar gyfer hyn. Mae gwaith gwella wedi'i raglennu i Waith Trin Dŵr Gwastraff y Bont-faen a allai wasanaethu'r datblygiad arfaethedig i fod i gael ei gwblhau erbyn mis Mawrth 2018.

Mae peth rhinwedd pensaernïol yn perthyn i'r adeilad ysgol Fictoraidd ac mae'n cynnig ei hun i gael ei addasu er nad yw'r adeilad wedi'i restru ar hyn o bryd. Mae Ymddiriedolaeth Archeolegol Morgannwg Gwent wedi hysbysu y bydd yn ofynnol cwblhau gwerthusiad archeolegol ac y gall fod angen cadw rhai rhannau o'r safle fel mannau agored er mwyn gwarchod nodweddion archeolegol.

| | CYFANSWM |
|---|---|
| **MG2 (19)** Tir ar bwys St. Athan Road, Y Bont-faen | 130 |

Mae'r safle Maes Glas 4.3 hectar hwn yn gorwedd i'r de ddwyrain o Lanfleiddan ac yn cynnwys dau barsel o dir ar bwys St Athan Road. Bydd caniatâd cynllunio amlinellol ar gyfer y safle cyfan yn ofynnol er mwyn sicrhau dull cynhwysfawr o ddatblygu a darparu unrhyw seilwaith angenrheidiol. Bydd tai fforddiadwy'n cael eu cyflawni yn unol â Pholisi MG4.

Mae Peirianwyr y Cyngor wedi hysbysu bod mynediad diogel addas yn ofynnol, a hwnnw'n fynediad sy'n cydymffurfio â meini prawf dylunio cyfredol. Hefyd, rhaid i geisiadau cynllunio yn y dyfodol gael eu

hategu gan Asesiad Trafnidiaeth cynhwysfawr a chadarn sy'n gwerthuso ac yn pennu mesurau lliniaru sy'n lleddfu unrhyw effaith niweidiol y bydd y datblygiad yn ei chael ar y rhwydwaith priffyrdd lleol a chyffyrdd cysylltiedig. Bydd yn ofynnol i'r datblygiad ariannu a gweithredu gwaith gwella priffyrdd ar ffurf ailalinio St Athan Road.

Dylai darpar ymgeiswyr ar gyfer cynigion datblygu yn y dyfodol ymchwilio i addasrwydd defnyddio ffosydd cerrig i waredu dŵr wyneb ffo yn y lle cyntaf. Os nad yw hyn yn ddichonadwy, efallai y bydd modd cynnwys dŵr wyneb ffo o fewn y system bresennol ar gyfer draenio dŵr wyneb. Mae'n debygol y bydd llifoedd yn cael eu cyfyngu i gyfradd gollwng a fydd i'w chytuno gyda'r Cyngor yn gweithredu fel Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol.

Mae Dŵr Cymru Welsh Water (DCWW) wedi hysbysu y gellir trefnu bod cyflenwad dŵr ar gael i wasanaethu'r safle datblygu arfaethedig; fodd bynnag, efallai y bydd prif bibellau helaeth oddi ar y safle'n ofynnol. Bydd yn ofynnol cwblhau asesiad modelu hydrolig i bennu'r man lle bydd y datblygiad yn cysylltu â'r garthffos gyhoeddus a/neu unrhyw waith gwella sy'n ofynnol. Mae prif bibell godi â diamedr o 65 mm yn croesi'r safle, gan redeg yn gyfochrog â St Athan Road, a bydd mesurau diogelu ar ffurf lled hawddfraint a/neu ddargyfeirio'r cyfleuster hwn yn ofynnol. Mae gwaith gwella wedi'i raglennu i Waith Trin Dŵr Gwastraff y Bont-faen a allai wasanaethu'r datblygiad arfaethedig i fod i gael ei gwblhau erbyn mis Mawrth 2018.

Mae Ymddiriedolaeth Archeolegol Morgannwg Gwent wedi hysbysu y bydd yn ofynnol cwblhau gwerthusiad archeolegol ac y gall fod angen cadw rhai rhannau o'r safle fel mannau agored er mwyn gwarchod nodweddion archeolegol presennol.

| | CYFANSWM |
|---|---|
| **MG2 (20)** Tir i'r gogledd a'r gorllewin o Darren Close, Y Bont-faen | 475 |

Mae'r safle Maes Glas 27 hectar hwn wedi'i leoli ar ymyl orllewinol y Bont-faen ac mae wedi'i ddyrannu ar gyfer datblygiad defnydd cymysg a fydd yn cynnwys cyfanswm o 475 annedd. Bydd tai fforddiadwy'n cael eu cyflawni yn unol â Pholisi MG4. Bydd datblygiad y safle'n cael ei oleuo gan uwchgynllun/briff datblygu.

Mae'r Cyngor wedi cymeradwyo cais Amlinellol (cyfeirier at gais 2015/01505/OUT) ar gyfer 475 annedd, a chais cynllunio llawn i gyflawni cyswllt priffyrdd newydd rhwng yr A48 a Llantwit Major Road. Fer gymeradwyodd Pwyllgor Cynllunio'r Cyngor y ceisiadau ym mhwyllgor cynllunio mis Ionawr 2016, yn amodol ar lofnodi Cytundeb Adran 106 a lofnodwyd ar 12 Gorffennaf 2016.

Wrth ddatblygu'r safle mae'n ofynnol cyflawni seilwaith mawr, gan gynnwys adeiladu cyswllt priffyrdd rhwng yr A48 a Llantwit Major Road ar y safle a throsglwyddo safle ysgol 2 hectar i gyflawni ysgol gynradd newydd yn y dyfodol, yn unol â Pholisïau MG16 (19) ac MG6 (4).

Mae Peirianwyr y Cyngor wedi hysbysu bod mynediad diogel addas yn ofynnol, a hwnnw'n fynediad sy'n cydymffurfio â meini prawf dylunio cyfredol. Hefyd, rhaid i geisiadau cynllunio yn y dyfodol gael eu hategu gan Asesiad Trafnidiaeth cynhwysfawr a chadarn sy'n gwerthuso ac yn pennu mesurau lliniaru sy'n lleddfu unrhyw effaith niweidiol y bydd y datblygiad yn ei chael ar y rhwydwaith priffyrdd lleol a chyffyrdd cysylltiedig.

Dylai darpar ymgeiswyr ar gyfer cynigion datblygu yn y dyfodol ymchwilio i addasrwydd defnyddio ffosydd cerrig i waredu dŵr wyneb ffo yn y lle cyntaf. Os nad yw hyn yn ddichonadwy, efallai y bydd modd cynnwys dŵr wyneb ffo o fewn y system bresennol ar gyfer draenio dŵr wyneb. Mae'n debygol y bydd llifoedd yn cael eu cyfyngu i gyfradd gollwng a fydd i'w chytuno gyda'r Cyngor yn gweithredu fel Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol.

Mae Dŵr Cymru Welsh Water wedi hysbysu y gellir trefnu bod cyflenwad dŵr ar gael i wasanaethu'r safle datblygu arfaethedig; fodd bynnag, efallai y bydd prif bibellau helaeth oddi ar y safle'n ofynnol. Bydd yn ofynnol cwblhau asesiad modelu hydrolig i bennu'r man lle bydd y datblygiad yn cysylltu â'r garthffos gyhoeddus a/neu unrhyw waith gwella sy'n ofynnol. Mae prif bibell godi â diamedr o 100 mm yn croesi trwy ganol y safle a bydd mesurau diogelu ar ffurf lled hawddfraint a/neu ddargyfeirio'r cyfleuster hwn yn ofynnol. Hefyd, mae'n hysbys bod cyfyngiadau ar y gwaith trin dŵr gwastraff presennol sy'n gwasanaethu'r ardal a bydd angen ymgynghori â DCWW a chynnal asesiad o gapasiti presennol i bennu unrhyw waith gwella sy'n ofynnol.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymwybodol bod rhywogaeth a warchodir gan Ewrop wedi cael ei chofnodi yng nghyffiniau'r safle a bydd yn ofynnol cynnal asesiad ecolegol i ategu unrhyw gais cynllunio yn y dyfodol.

Mae Ymddiriedolaeth Archeolegol Morgannwg Gwent wedi dweud ei bod yn hysbys bod y safle'n cynnwys adnoddau archeolegol a bydd amodau'n cael eu gosod ar ganiatadau cynllunio yn y dyfodol i warchod y nodweddion hyn.

| | CYFANSWM |
|---|---|
| **MG2 (21)** Plasnewydd Farm, Llanilltud Fawr | 149 |

Mae'r safle Maes Glas 4.4 hectar hwn wedi'i leoli i'r gogledd orllewin o Lanilltud Fawr yn Plasnewydd Farm. Cafodd y safle ganiatâd cynllunio ar gyfer 149 annedd ym mis Ionawr 2015 (cyfeirier at gais 2014/00831/FUL). Nid yw gwaith i ddatblygu'r safle wedi dechrau eto. Bydd tai fforddiadwy'n cael eu cyflawni yn unol â Pholisi MG4.

Mae Peirianwyr y Cyngor wedi hysbysu bod mynediad diogel addas yn ofynnol, a hwnnw'n fynediad sy'n cydymffurfio â meini prawf dylunio cyfredol a'i bod yn debygol y bydd hwn yn cael ei gyflawni trwy ailalinio'r cylchfan presennol ar Cowbridge Road. Hefyd, bydd angen Asesiad Trafnidiaeth cynhwysfawr a chadarn sy'n gwerthuso ac yn pennu mesurau lliniaru sy'n lleddfu unrhyw effaith niweidiol y bydd y datblygiad yn ei chael ar y rhwydwaith priffyrdd lleol a chyffyrdd cysylltiedig.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi hysbysu bod y B4265 ar bwys ffin ogledd orllewinol y safle yn wynebu perygl llifogydd. Bydd yn ofynnol i'r holl gynigion datblygu o fewn y dyraniad hwn ddangos eu bod yn cyd-fynd â pholisi cenedlaethol mewn perthynas â pherygl llifogydd a nodir yn TAN15.

Wrth nodi'r safle ar gyfer ei ddatblygu, mae'r Cyngor wedi ystyried maint yr ardaloedd ar y safle sydd ym mharth llifogydd C2 ac wedi lleihau'r ardal ddatblygadwy net ar y safle yn unol â hynny. Mae maint yr ardaloedd sydd ym mharth llifogydd C2 yn golygu y gellir cael mynediad i mewn i'r safle ac allan o'r safle y tu allan i ardaloedd sydd ym mharth llifogydd C2. Mae'r ardaloedd llifogydd wedi'u cynnwys o fewn ffiniau'r safle sy'n cynrychioli ffiniau ffisegol rhesymegol ar gyfer y safle, ond dim ond ar gyfer datblygiadau sy'n wynebu llai o fygythiad megis mannau agored amwynder y bydd yr ardaloedd hyn yn addas.

Dylai darpar ymgeiswyr ar gyfer cynigion datblygu yn y dyfodol ymchwilio i addasrwydd defnyddio ffosydd cerrig i waredu dŵr wyneb ffo yn y lle cyntaf. Os nad yw hyn yn ddichonadwy, efallai y bydd modd cynnwys dŵr wyneb ffo o fewn y system bresennol ar gyfer draenio dŵr wyneb. Mae'n debygol y bydd llifoedd yn cael eu cyfyngu i gyfradd gollwng a fydd i'w chytuno gyda'r Cyngor yn gweithredu fel Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol. Argymhellwyd hefyd y dylid ymgynghori â Network Rail o ystyried agosrwydd y safle at brif linell reilffordd Bro Morgannwg.

Mae Dŵr Cymru Welsh Water (DCWW) wedi hysbysu y gellir trefnu bod cyflenwad dŵr ar gael i wasanaethu'r safle datblygu arfaethedig; fodd bynnag, efallai y bydd prif bibellau helaeth oddi ar y safle'n ofynnol. Ni

ragwelir unrhyw broblemau gyda'r system garthffos gyhoeddus ar gyfer dŵr budr sy'n llifo o'r datblygiad arfaethedig hwn; fodd bynnag, efallai y bydd carthffosydd oddi ar y safle'n ofynnol.

Mae Ymddiriedolaeth Archeolegol Morgannwg Gwent wedi hysbysu y gall fod yn ofynnol cynnal gwerthusiad archeolegol er mwyn adnabod a gwarchod unrhyw adnodd archeolegol.

Mae arolwg o'r safle a gynhaliwyd yn 2006 yn dosbarthu'r safle fel un o ansawdd Gradd 3b, h.y. nid y tir amaethyddol Gorau a Mwyaf Hyblyg.

| | CYFANSWM |
|---|---|
| **MG2 (22)** Tir ar bwys Ffordd Osgoi Llanilltud Fawr | 70 |

Mae'r safle Maes Glas 2.4 hectar hwn wedi'i leoli i'r gogledd ddwyrain o Ffordd Osgoi Llanilltud Fawr ac ar bwys rheilffordd Bro Morgannwg. Mae'r Cyngor wedi cael cais cynllunio ar gyfer y safle hwn sy'n cael ei ystyried ar hyn o bryd (cyfeirier at gais 2014/00995/OUT). Bydd tai fforddiadwy'n cael eu cyflawni yn unol â Pholisi MG4.

Mae Peirianwyr y Cyngor wedi hysbysu bod mynediad diogel addas yn ofynnol, a hwnnw'n fynediad sy'n cydymffurfio â meini prawf dylunio cyfredol. Hefyd, rhaid i geisiadau cynllunio yn y dyfodol gael eu hategu gan Asesiad Trafnidiaeth cynhwysfawr a chadarn sy'n gwerthuso ac yn pennu mesurau lliniaru sy'n lleddfu unrhyw effaith niweidiol y bydd y datblygiad yn ei chael ar y rhwydwaith priffyrdd lleol a chyffyrdd cysylltiedig.

Mae prif afon ddynodedig yn rhedeg ar hyd ffin ddeheuol y safle ac mae ardaloedd perygl llifogydd hysbys wedi'u lleoli i lawr yr afon. Felly bydd yn ofynnol ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru a chwblhau Asesiad Canlyniadau Llifogydd ac Asesiad Dŵr Wyneb, a bydd angen rhoi ystyriaeth briodol i ddefnyddio Systemau Draenio Trefol Cynaliadwy i ddangos na fyddai unrhyw effeithiau anffafriol yn deillio o ddatblygu'r safle yn y dyfodol.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymwybodol bod rhywogaeth a warchodir gan Ewrop wedi cael ei chofnodi yng nghyffiniau'r safle a bydd yn ofynnol cynnal asesiad ecolegol i ategu unrhyw gais cynllunio yn y dyfodol.

Mae Dŵr Cymru Welsh Water (DCWW) wedi hysbysu y gellir trefnu bod cyflenwad dŵr ar gael i wasanaethu'r safle datblygu arfaethedig; fodd bynnag, efallai y bydd prif bibellau helaeth oddi ar y safle'n ofynnol. Ni ragwelir unrhyw broblemau gyda'r system garthffos gyhoeddus ar gyfer dŵr budr sy'n llifo o'r datblygiad arfaethedig hwn; fodd bynnag, efallai y bydd carthffosydd oddi ar y safle'n ofynnol.

Mae Ymddiriedolaeth Archeolegol Morgannwg Gwent wedi hysbysu y gall fod yn ofynnol cynnal gwerthusiad archeolegol er mwyn adnabod a gwarchod unrhyw adnodd archeolegol.

| | CYFANSWM |
|---|---|
| **MG2 (23)** Hen Safle Ysgol Gynradd Eagleswell, Llanilltud Fawr | 72 |

Mae'r dyraniad 2.41 hectar hwn yn cynnwys hen safle Ysgol Gynradd Eagleswell sydd wedi uno ag ysgol arall yn ddiweddar i ddod yn Ysgol y Ddraig ac wedi adleoli i safle newydd. Bydd tai fforddiadwy'n cael eu cyflawni yn unol â Pholisi MG4.

Mae Peirianwyr y Cyngor wedi hysbysu bod rhaid i geisiadau cynllunio yn y dyfodol gael eu hategu gan Asesiad Trafnidiaeth cynhwysfawr a chadarn sy'n gwerthuso ac yn pennu mesurau lliniaru sy'n lleddfu unrhyw effaith niweidiol y bydd y datblygiad yn ei chael ar y rhwydwaith priffyrdd lleol a chyffyrdd cysylltiedig.

O ran mynediad bydd mynediad at brif gorff y safle trwy gyffordd syml sy'n ymgorffori lleiniau gwelededd priodol yn uniongyrchol i Eagleswell Road. Bydd y lleoliad/paramedr yn cael ei gytuno fel rhan o unrhyw gais cynllunio yn y dyfodol ar y cyd â datblygiad ffryntiad sy'n gyson ag anheddau cyfagos presennol. Bydd yr holl nodweddion gostegu traffig yng nghyffiniau'r safle'n cael eu hadolygu fel rhan o unrhyw gais cynllunio yn y dyfodol a chan ddibynnu ar gynllun y datblygiad, bydd cynllun arall yn cael ei ddarparu ar draul y datblygwr. Bydd yn ofynnol i ddatblygiad gyfrannu at gyfleusterau trafnidiaeth gyhoeddus gwell a chysylltiadau ar gyfer cerddwyr a beicwyr o fewn y safle ac yn yr ardaloedd o'i amgylch.

Mae Peiriannydd Draenio'r Cyngor wedi hysbysu nad oes unrhyw gyrsiau dŵr hysbys yng nghyffiniau'r safle. Dylai unrhyw ddatblygwr yn y dyfodol sicrhau bod asesiad yn cael ei gynnal o'r potensial ar gyfer gwaredu dŵr wyneb gan ddefnyddio system ddraenio gynaliadwy. Dylai unrhyw ddarpar ddatblygwyr ymchwilio i addasrwydd defnyddio ffosydd cerrig i waredu dŵr wyneb ffo yn y lle cyntaf. Os nad yw draenio trwy ymdreiddio'n ddichonadwy yna nid oes unrhyw gyrsiau dŵr hysbys yng nghyffiniau'r safle hwn. Dylai unrhyw gamau i gysylltu mesurau draenio dŵr wyneb ffo arfaethedig â'r garthffos gyhoeddus gael eu trafod gyda Dŵr Cymru Welsh Water (DCWW) ac mae'n debygol y bydd yn ofynnol gwanhau i Gyfraddau Dŵr Ffo Meysydd Glas i osgoi niwed oddi ar y safle.

Mae Dŵr Cymru Welsh Water (DCWW) wedi hysbysu y gellir trefnu bod cyflenwad dŵr ar gael i wasanaethu'r safle datblygu arfaethedig; fodd bynnag, efallai y bydd prif bibellau helaeth oddi ar y safle'n ofynnol. Ni ragwelir unrhyw broblemau gyda'r system garthffos gyhoeddus ar gyfer dŵr budr sy'n llifo o'r datblygiad arfaethedig hwn; fodd bynnag, efallai y bydd carthffosydd oddi ar y safle'n ofynnol.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymwybodol bod rhywogaeth a warchodir gan Ewrop wedi cael ei chofnodi yng nghyffiniau'r safle a bydd yn ofynnol cynnal asesiad ecolegol i ategu unrhyw gais cynllunio yn y dyfodol.

Mae Ymddiriedolaeth Archeolegol Morgannwg Gwent wedi hysbysu nad oes unrhyw safleoedd archeolegol hysbys yn yr ardal.

| | CYFANSWM |
|---|---|
| **MG2 (24)** Tir yn Upper Cosmeston Farm, Larnog | 576 |

Mae'r safle maes glas 22.2 hectar hwn wedi'i leoli i'r de o Benarth ar bwys Lavernock Road. Bydd datblygiad y safle'n cael ei oleuo gan uwchgynllun/briff datblygu a fydd yn nodi ac yn diogelu darpariaethau ar gyfer seilwaith mawr a fydd yn cynnwys safle 1.0 hectar i ddarparu ysgol gynradd ac ysgol feithrin newydd; 1 hectar o fan agored cyhoeddus dynodedig a hefyd 0.1 – 0.2 hectar yn ychwanegol i ddarparu cyfleuster cymunedol dynodedig, yn unol â Pholisïau MG6 (5), MG28 (10) ac MG7 (4). Bydd tai fforddiadwy'n cael eu cyflawni yn unol â Pholisi MG4.

Mae Peirianwyr y Cyngor wedi hysbysu bod rhaid i geisiadau cynllunio yn y dyfodol gael eu hategu gan Asesiad Trafnidiaeth cynhwysfawr a chadarn sy'n gwerthuso ac yn pennu mesurau lliniaru sy'n lleddfu unrhyw effaith niweidiol y bydd y datblygiad yn ei chael ar y rhwydwaith priffyrdd lleol a chyffyrdd cysylltiedig. Bydd mynediad diogel addas yn ofynnol, a hwnnw'n fynediad sy'n cydymffurfio â meini prawf dylunio cyfredol. Yn y cyswllt hwn rhagwelir y bydd y datblygiad yn cael ei wasanaethu gan gyffordd newydd i ymuno â Lavernock Road, a fydd yn ymgorffori cyfleusterau diogel sy'n addas ar gyfer cerddwyr/beicwyr. Bydd disgwyl i'r datblygiad newydd gyfrannu at ddyheadau'r Cyngor ar gyfer cyfleusterau cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus gwell a sicrhau hydreiddedd da o fewn ac o amgylch y safle gan gynnwys gwelliannau i'r NCN88 rhwng Penarth, Sili a'r Barri.

Mae prif afon ddynodedig yn rhedeg yn agos at y safle a bydd yn ofynnol ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru i bennu addasrwydd y brif afon i dderbyn dŵr wyneb ffo arfaethedig. Dylai unrhyw ddarpar ddatblygwyr ymchwilio i addasrwydd defnyddio ffosydd cerrig i waredu dŵr wyneb ffo yn y lle cyntaf,

a sicrhau bod asesiad yn cael ei gynnal o'r potensial i waredu dŵr wyneb ffo gan ddefnyddio system ddraenio gynaliadwy. Os nad yw draenio trwy ymdreiddio'n ddichonadwy yna bydd yn ofynnol i lifoedd oddi ar y safle gael eu gwanhau i Gyfraddau Dŵr Ffo Meysydd Glas i osgoi niwed oddi ar y safle. Dylai unrhyw gamau i gysylltu mesurau draenio dŵr wyneb ffo arfaethedig â'r garthffos gyhoeddus gael eu trafod gyda Dŵr Cymru Welsh Water (DCWW) ac mae'n debygol y bydd yn ofynnol gwanhau i Gyfraddau Dŵr Ffo Meysydd Glas i osgoi niwed oddi ar y safle. Dylai'r datblygwr ystyried faint o fygythiad sydd i ddatblygiadau mewn parthau arfordirol ac enciliad tebygol y traethlin yn ystod oes y datblygiad. Ar hyn o bryd mae ffin y safle o fewn 10 m i'r clogwyn mewn mannau ac argymhellir bod y datblygwr yn edrych yn y fersiwn ddiweddaraf o Gynllun Rheoli Traethlin Aber Afon Hafren.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi hysbysu bod y safle'n agos iawn at SoDdGA Llynnoedd Cosmeston sy'n gorwedd tua 110 m i'r Gogledd a SoDdGA Arfordir Penarth. Dylid ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru i wneud yn siŵr bod y safleoedd dynodedig yn cael eu gwarchod ac na fyddai datblygu'r safle arfaethedig yn effeithio arnynt. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymwybodol bod rhywogaeth a warchodir gan Ewrop wedi cael ei chofnodi yng nghyffiniau'r safle a bydd yn ofynnol cynnal asesiad ecolegol i ategu unrhyw gais cynllunio yn y dyfodol er mwyn sicrhau nad oes unrhyw niwed i gynnal statws cadwraeth ffafriol Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop. O ystyried agosrwydd y safle at Ardal Cadwraeth Arbennig, Ardal Gwarchodaeth Arbennig a Ramsar Aber Afon Hafren, gall fod yn ofynnol cwblhau Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar lefel prosiect, a dylid trafod hyn gyda Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi hysbysu hefyd bod gan y safle'r potensial i gynnal cynefinoedd o bwysigrwydd bioamrywiaeth lleol ac y dylid ymgynghori ag ecolegydd y Cyngor i sicrhau y gwneir darpariaeth addas ar gyfer goroesiad unrhyw ddiddordeb bioamrywiaeth lleol o fewn y safle ac o'i amgylch. Hefyd, mae rhan o'r safle wedi'i leoli ar safle tirlenwi hanesyddol, sef 'Hen Domen Rhif 1 Cosmeston' ac fel lleiafswm, dylid cynnal asesiad risg rhagarweiniol o'r safle tirlenwi hanesyddol ac yn y cyswllt hwn cyfeirir ymgeiswyr at yr 'Egwyddorion Arweiniol ar gyfer Halogiad Tir' (Asiantaeth yr Amgylchedd 2016).

Mae Dŵr Cymru Welsh Water (DCWW) wedi hysbysu y gellir trefnu bod cyflenwad dŵr ar gael i wasanaethu'r safle datblygu arfaethedig; fodd bynnag, efallai y bydd prif bibellau helaeth oddi ar y safle'n ofynnol. Ni ragwelir unrhyw broblemau gyda'r system garthffos gyhoeddus ar gyfer dŵr budr sy'n llifo o'r datblygiad arfaethedig hwn; fodd bynnag, efallai y bydd carthffosydd oddi ar y safle'n ofynnol. Mae carthffos gyhoeddus dŵr budr strategol a phibell y prif gyflenwad dŵr sy'n 3" yn croesi rhan o'r safle, a bydd mesurau diogelu ar ffurf lled hawddfraint a/neu ddargyfeirio'n ofynnol ar gyfer hyn.

O ystyried agosrwydd y safle at nodweddion archeolegol hysbys mae Ymddiriedolaeth Archeolegol Morgannwg Gwent wedi hysbysu y bydd yn ofynnol cwblhau gwerthusiad archeolegol ac y gall fod angen cadw rhai rhannau o'r safle fel mannau agored er mwyn gwarchod nodweddion archeolegol presennol.

| | CYFANSWM |
|---|---|
| **MG2 (25)** Tir ar bwys Ysgol San Joseff, Sully Road | 74 |

Mae'r safle maes glas 2.68 hectar hwn wedi'i leoli i'r gorllewin o Benarth ar bwys Sully Road. Cafodd y safle ganiatâd cynllunio ym mis Mai 2016 ar gyfer 74 annedd ac mae gwaith i ailddatblygu'r safle wedi dechrau (cyfeirier at gais 2014/00460/FUL). Bydd tai fforddiadwy'n cael eu cyflawni yn unol â Pholisi MG4.

| | CYFANSWM |
|---|---|
| **MG2 (26)** Ysgol Headlands, St. Augustine's Road | 65 |

Mae'r safle tir llwyd 2.20 hectar hwn wedi'i leoli i'r gogledd ddwyrain o Benarth a cheir mynediad ato o St Augustine's Road. Ar y safle mae cartref plant Ysgol Headlands, Adeilad Rhestredig Gradd II, nifer o

dai allan a mannau agored/amwynder cysylltiedig gan gynnwys nifer o goed aeddfed sydd â Gorchymyn Diogelu Coed. Mae rhan flaen y safle'n cynnwys adeilad Ysgol Headlands o fewn Ardal Gadwraeth Penarth a bydd angen i gynigion datblygu yn y dyfodol roi sylw i hyfywedd hirdymor yr adeilad rhestredig a chymeriad Ardal Gadwraeth Penarth. Bydd tai fforddiadwy'n cael eu cyflawni yn unol â Pholisi MG4. Wrth ddatblygu'r safle bydd yn ofynnol darparu 0.24 hectar o ddarpariaeth chwaraeon awyr agored yn unol â Pholisi MG28 (6).

Mae Peirianwyr y Cyngor wedi hysbysu bod mynediad diogel addas yn ofynnol, a hwnnw'n fynediad sy'n cydymffurfio â meini prawf dylunio cyfredol. Hefyd, rhaid i geisiadau cynllunio yn y dyfodol gael eu hategu gan Asesiad Trafnidiaeth cynhwysfawr a chadarn sy'n gwerthuso ac yn pennu mesurau lliniaru sy'n lleddfu unrhyw effaith niweidiol y bydd y datblygiad yn ei chael ar y rhwydwaith priffyrdd lleol a chyffyrdd cysylltiedig.

Mae peirianwyr draenio'r Cyngor wedi hysbysu nad oes cwrs dŵr ar gael i waredu dŵr wyneb yn agos iawn at y safle ac felly bydd angen rhoi ystyriaeth i waredu dŵr wyneb ac asesu sut y caiff ei reoli. Dylai unrhyw ddarpar ddatblygwr ymchwilio i addasrwydd defnyddio ffosydd cerrig i waredu dŵr wyneb ffo yn y lle cyntaf. Dylai'r datblygwr sicrhau y cynhelir asesiad o'r potensial ar gyfer gwaredu dŵr wynebu gan ddefnyddio system ddraenio addas. Dylai unrhyw gamau i gysylltu mesurau draenio dŵr wyneb ffo arfaethedig â'r garthffos gyhoeddus gael eu trafod gyda Dŵr Cymru Welsh Water (DCWW).

Mae Dŵr Cymru Welsh Water wedi hysbysu y gellir trefnu bod cyflenwad dŵr ar gael i wasanaethu'r safle datblygu arfaethedig. Ni ragwelir unrhyw broblemau gyda'r garthffos gyhoeddus ar gyfer gwaredu dŵr budr domestig o'r datblygiad arfaethedig hwn. Mae carthffos gyhoeddus gyfunedig 300 mm a charthffos gyhoeddus dŵr budr 225 mm yn croesi'r safle, ac efallai y bydd mesurau diogelu ar ffurf lled hawddfraint a/neu ddargyfeiriad yn ofynnol ar gyfer hyn. Ceir Gorsaf Pwmpio Carthion ar y rhwydwaith carthffosiaeth gyhoeddus o fewn y safle hwn hefyd, a bydd Cordon Sanitaire neu glustogfa'n ofynnol ar gyfer hon er mwyn gwarchod amwynder preswyl. Cynghorir datblygwyr i drafod ymhellach gydag Adran Iechyd yr Amgylchedd Cyngor Bro Morgannwg.

Mae Ymddiriedolaeth Archeolegol Morgannwg Gwent wedi hysbysu y bydd yn ofynnol cwblhau gwerthusiad archeolegol ac y gall fod angen cadw rhai rhannau o'r safle fel mannau agored er mwyn gwarchod nodweddion archeolegol.

Bydd angen i'r datblygiad gyflawni 0.24 hectar o ddarpariaeth chwaraeon awyr agored ar y safle i gyfrannu at yr angen dynodedig o fewn yr ardal.

O ystyried agosrwydd y safle at Ardal Cadwraeth Arbennig, Ardal Gwarchodaeth Arbennig a Ramsar Aber Afon Hafren, gall fod yn ofynnol cwblhau Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar lefel prosiect, a dylid trafod y gofyniad hwn gyda Cyfoeth Naturiol Cymru.

| | CYFANSWM |
|---|---|
| **MG2 (27)** Tir ar bwys Oak Court, Penarth | 145 |

Mae'r safle maes glas 4 hectar hwn wedi'i leoli i'r gorllewin o Benarth o fewn anheddiad Penarth. Mae disgwyl i oddeutu 0.5 ha o'r safle ddarparu llety "gofal ychwanegol" i ddiwallu angen dynodedig yn yr ardal, a bydd y 3.5 ha sy'n weddill yn darparu tua 105 o gartrefi. Bydd tai fforddiadwy'n cael eu cyflawni yn unol â Pholisi MG4.

Yn flaenorol mae'r safle wedi cael ei gynnwys o fewn ffiniau safle'r cais ar gyfer cais cynllunio amlinellol 1993/01129/OUT a gafodd ganiatâd cynllunio ym 1997 ar gyfer datblygiad preswyl. Ers i'r caniatâd gwreiddiol gael ei gymeradwyo mae amryw barseli o dir sydd wedi'u cynnwys yn y caniatâd wedi cael eu

cyflwyno ac wedi cael eu datblygu. Ar hyn o bryd y safle hwn (y cyfeirir ato fel parseli N2 ac N3 y safle) yw'r rhan olaf o'r safle sydd eto i gael ei datblygu o'r cais gwreiddiol.

Mae Peirianwyr y Cyngor wedi hysbysu bod mynediad diogel addas yn ofynnol, a hwnnw'n fynediad sy'n cydymffurfio â meini prawf dylunio cyfredol a bod rhaid i geisiadau cynllunio yn y dyfodol gael eu hategu gan Asesiad Trafnidiaeth cynhwysfawr a chadarn sy'n gwerthuso ac yn pennu mesurau lliniaru sy'n lleddfu unrhyw effaith niweidiol y bydd y datblygiad yn ei chael ar y rhwydwaith priffyrdd lleol a chyffyrdd cysylltiedig.

Mae peirianwyr draenio'r Cyngor wedi hysbysu nad oes cwrs dŵr ar gael i waredu dŵr wyneb yn agos iawn at y safle ac felly bydd angen rhoi ystyriaeth i waredu dŵr wyneb ac asesu sut y caiff ei reoli. Dylai unrhyw ddarpar ddatblygwr ymchwilio i addasrwydd defnyddio ffosydd cerrig i waredu dŵr wyneb ffo yn y lle cyntaf a sicrhau y cynhelir asesiad o'r potensial ar gyfer gwaredu dŵr wynebu gan ddefnyddio system ddraenio addas.

Mae Dŵr Cymru Welsh Water (DCWW) wedi hysbysu y gellir trefnu bod cyflenwad dŵr ar gael i wasanaethu'r safle datblygu arfaethedig; fodd bynnag, efallai y bydd prif bibellau helaeth oddi ar y safle'n ofynnol. Mae carthffos gyhoeddus dŵr budr 150 mm, pibell godi dŵr budr 100 mm a Gorsaf Pwmpio Carthion yn croesi'r safle, pob un ohonynt yn rhan ogleddol y safle, a bydd mesurau diogelu ar ffurf dargyfeiriadau neu led hawddfraint yn ofynnol ar gyfer y garthffos a'r bibell godi, a Cordon Sanitaire ar gyfer yr Orsaf Pwmpio Carthion. Mae DCWW yn argymell cysylltu ag Adran Iechyd y Cyhoedd yn y Cyngor ynghylch maint y Cordon Sanitaire. Gwasanaethir y safle gan Waith Trin Dŵr Gwastraff Rhostir Cog, ac mae DCWW yn hysbysu nad oes unrhyw anawsterau o ran derbyn y llifoedd dŵr budr yn unig.

Mae Ymddiriedolaeth Archeolegol Morgannwg Gwent wedi hysbysu y bydd yn ofynnol cwblhau gwerthusiad archeolegol ac y gall fod angen cadw rhai rhannau o'r safle fel mannau agored er mwyn gwarchod nodweddion archeolegol. Mae'r safle'n agos iawn at heneb gofrestredig, felly dylid ceisio ymgynghori â CADW. Hefyd, argymhellir bod asesiad o Leoliad Asedau Treftadaeth yn cael ei gynnal cyn datblygu'r safle.

Mae Gorchmynion Diogelu Coed presennol mewn grym ar gyfer rhannau o'r safle a dylai coed ychwanegol ar y safle gael eu cadw lle y bo'n bosibl fel rhan o unrhyw waith i ddatblygu'r safle

| | CYFANSWM |
|---|---|
| **MG2 (28)** Tir yn ac ar bwys Ysgol St. Cyres, Murch Road | 300 |

Mae'r safle 13.2 hectar hwn wedi'i leoli i'r dwyrain o Ddinas Powys ac mae'n ffinio ag ardal a adwaenir fel 'the Murch'. Mae'r safle'n cynnwys cymysgedd o dir llwyd a thir maes glas gan gynnwys safle Ysgol St Cyres y nodwyd nad oes mo'i angen mwyach.

Bydd datblygiad y safle'n cael ei oleuo gan uwchgynllun/briff datblygu a fydd yn nodi y bydd y safle'n darparu datblygiad defnydd cymysg. Bydd y datblygiad yn darparu cyfleuster cymunedol newydd yn unol â Pholisi MG7 (2) ac yn cyfrannu at ddarparu a gwella seilwaith a chyfleusterau lleol presennol yn Ninas Powys, fel a nodir yn yr amryw bapurau cefndir ac yn unol â Pholisi MD4. Bydd pwyslais penodol yn cael ei roi ar fynediad gwell at Orsaf Reilffordd Eastbrook ar gyfer cerdded a beicio. Bydd tai fforddiadwy yn cael eu cyflawni yn unol â Pholisi MG4.

Mae Peirianwyr y Cyngor wedi hysbysu bod mynediad diogel addas yn ofynnol, a hwnnw'n fynediad sy'n cydymffurfio â meini prawf dylunio cyfredol. Hefyd, bydd angen cytuno ar Astudiaeth Gwmpasu gynhwysfawr gyda'r Awdurdod Cynllunio/Priffyrdd Lleol, er mwyn i honno fod yn sail i Asesiad Trafnidiaeth

cynhwysfawr a chadarn sy'n gwerthuso ac yn pennu mesurau lliniaru sy'n lleddfu unrhyw effaith niweidiol y bydd y datblygiad yn ei chael ar y rhwydwaith priffyrdd lleol a chyffyrdd cysylltiedig.

Mae peirianwyr draenio'r Cyngor wedi hysbysu nad oes cwrs dŵr ar gael i waredu dŵr wyneb yn agos iawn at y safle ac felly y bydd angen rhoi ystyriaeth i waredu dŵr wyneb ac asesu sut y caiff ei reoli. Dylai ymgeiswyr sy'n cyflwyno cynigion datblygu yn y dyfodol ymchwilio i addasrwydd defnyddio ffosydd cerrig i waredu dŵr wyneb ffo yn y lle cyntaf a dylai'r datblygwr sicrhau y cynhelir asesiad o'r potensial ar gyfer gwaredu dŵr wyneb gan ddefnyddio system ddraenio gynaliadwy.

Mae Dŵr Cymru Welsh Water (DCWW) wedi hysbysu y gellir trefnu bod cyflenwad dŵr ar gael i wasanaethu'r safle datblygu arfaethedig; fodd bynnag, efallai y bydd prif bibellau helaeth oddi ar y safle'n ofynnol. Mae prif bibell dŵr dosbarthu dŵr cyhoeddus 6" a phibell godi dŵr budr 4" yn croesi'r safle a bydd mesurau diogelu ar ffurf lled hawddfraint a/neu ddargyfeiriad yn ofynnol ar gyfer hyn. Bydd yn ofynnol cwblhau asesiad modelu hydrolig i bennu'r man lle bydd y datblygiad yn cysylltu â'r garthffos gyhoeddus a/neu unrhyw waith gwella sy'n ofynnol.

Mae'r safle'n ffinio â Safle o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur i'r de. Mae Gorchmynion Diogelu Coed presennol mewn grym ar gyfer rhannau o'r safle a dylid ystyried cynnwys coed ychwanegol ar y safle fel rhan o unrhyw ddatblygiad ar y safle.

Mae Ymddiriedolaeth Archeolegol Morgannwg Gwent wedi hysbysu y bydd gwerthusiad archeolegol o'r safle'n ofynnol ac y gall fod angen cadw rhai rhannau o'r safle i warchod nodweddion archeolegol.

Bydd yn ofynnol cwblhau arolwg manwl yn ôl y 'canllawiau a meini prawf diwygiedig ar gyfer graddio ansawdd tir amaethyddol' (MAFF 1988) i gadarnhau gradd tir amaethyddol er bod y tir yn annhebygol o fod y Gorau a'r Mwyaf Hyblyg. Bydd yn ofynnol cael caniatâd cynllunio amlinellol ar gyfer y safle cyfan, er mwyn sicrhau dull cynhwysfawr o ddatblygu a darparu seilwaith.

| | CYFANSWM |
|---|---|
| **MG2 (29)** Tir oddi ar Caerleon Road, Dinas Powys | 70 |

Mae'r safle Maes Glas 2.5 hectar hwn wedi'i leoli i'r gogledd ddwyrain o Ddinas Powys rhwng prif linell Bro Morgannwg ac ardal Murch yn y pentref. Mae'r safle wedi'i leoli'n agos at orsaf reilffordd Eastbrook. Cafodd y safle ganiatâd cynllunio ym mis Ionawr 2016 ar gyfer 70 annedd yn amodol ar lofnodi cytundeb A106. Bydd datblygu'r safle'n darparu gwelliannau i'r seilwaith lleol a fydd yn hwyluso defnydd o drafnidiaeth gynaliadwy. Bydd pwyslais penodol yn cael ei roi ar fynediad gwell at orsaf reilffordd Eastbrook ar gyfer cerdded a beicio. Bydd tai fforddiadwy'n cael eu cyflawni yn unol â Pholisi MG4.

Mae Peirianwyr y Cyngor wedi hysbysu bod mynediad diogel addas yn ofynnol, a hwnnw'n fynediad sy'n cydymffurfio â meini prawf dylunio cyfredol. Hefyd, rhaid i geisiadau cynllunio yn y dyfodol gael eu hategu gan Asesiad Trafnidiaeth cynhwysfawr a chadarn sy'n gwerthuso ac yn pennu mesurau lliniaru sy'n lleddfu unrhyw effaith niweidiol y bydd y datblygiad yn ei chael ar y rhwydwaith priffyrdd lleol a chyffyrdd cysylltiedig.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi hysbysu y gallai llifogydd effeithio ar y safle, ac mae rhai rhannau wedi'u henwi fel rhai sydd ym Mharth C1/C2 ar y Map Cyngor Datblygu. Bydd yn ofynnol i'r holl gynigion datblygu o fewn y dyraniad hwn ddangos eu bod yn cyd-fynd â pholisi cenedlaethol mewn perthynas â pherygl llifogydd a nodir yn TAN15. Rhaid cyflwyno Asesiad Canlyniadau Llifogydd safle-benodol/ Asesiad Canlyniadau Llifogydd safle-benodol wedi'i ddiweddaru os yw unrhyw ran o safle'r cais cynllunio mewn ardal y nodwyd ei bod yn wynebu perygl llifogydd.

Wrth nodi'r safle ar gyfer ei ddatblygu, mae'r Cyngor wedi ystyried maint yr ardaloedd ar y safle sydd ym mharth llifogydd C2 ac wedi lleihau'r ardal ddatblygadwy net ar y safle yn unol â hynny. Mae maint yr ardaloedd sydd ym mharth llifogydd C2 yn golygu y gellir cael mynediad i mewn i'r safle ac allan o'r safle y tu allan i ardaloedd sydd ym mharth llifogydd C2. Mae'r ardaloedd llifogydd wedi'u cynnwys o fewn ffiniau'r safle sy'n cynrychioli ffiniau ffisegol rhesymegol ar gyfer y safle, ond dim ond ar gyfer datblygiadau sy'n wynebu llai o fygythiad megis mannau agored amwynder y bydd yr ardaloedd hyn yn addas.

Mae peirianwyr draenio'r Cyngor wedi hysbysu nad oes cwrs dŵr ar gael i waredu dŵr wyneb yn agos iawn at y safle ac felly y bydd angen rhoi ystyriaeth i waredu dŵr wyneb ac asesu sut y caiff ei reoli. Dylai ymgeiswyr sy'n cyflwyno cynigion datblygu yn y dyfodol ymchwilio i addasrwydd defnyddio ffosydd cerrig i waredu dŵr wyneb ffo yn y lle cyntaf a dylai'r datblygwr sicrhau y cynhelir asesiad o'r potensial ar gyfer gwaredu dŵr wyneb gan ddefnyddio system ddraenio gynaliadwy. Mae prif afon ddynodedig yn rhedeg ar ochr orllewinol y rheilffordd sydd ar bwys y safle a bydd yn ofynnol ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru i bennu addasrwydd y brif afon hon i dderbyn dŵr wyneb ffo arfaethedig. Argymhellir y dylid ymgynghori â Network Rail oherwydd agosrwydd y safle at y rheilffordd i bennu maint unrhyw bibellau draenio tir sy'n mynd o dan y rheilffordd o'r safle hwn. Bydd angen cynnal llifoedd yn y pibellau hyn. Bydd yn ofynnol i unrhyw ddarpar ddatblygwr drafod addasrwydd y brif afon hon i dderbyn dŵr wyneb ffo arfaethedig gyda Cyfoeth Naturiol Cymru.

Mae Dŵr Cymru Welsh Water (DCWW) wedi hysbysu y gellir trefnu bod cyflenwad dŵr ar gael i wasanaethu'r safle datblygu arfaethedig; fodd bynnag, efallai y bydd prif bibellau helaeth oddi ar y safle'n ofynnol. Mae carthffos gyhoeddus â diamedr o 1,450 mm yn croesi'r safle a bydd mesurau diogelu ar ffurf lledau hawddfraint yn ofynnol ac fe allai hynny gyfyngu ar swm y dwysedd a gynigir. Mae gan Waith Trin Dŵr Gwastraff Rhostir Cog gapasiti cyfyngedig, a bydd angen ymgynghori â DCWW i bennu pa un a fydd yn ofynnol gwneud gwelliannau i'r cyfleuster hwn

| | CYFANSWM |
|---|---|
| **MG2 (30)** Tir sy'n ffinio ag Ardwyn, Pen-y-Turnpike | 18 |

Mae'r safle tir llwyd 1.6 hectar hwn wedi'i leoli i'r gogledd o Ddinas Powys ar bwys Pen-y-Turnpike Road. Cafodd y safle ganiatâd cynllunio ar gyfer 18 annedd ym mis Gorffennaf 2015 (cyfeirier at gais 2015/00095/FUL) ac mae gwaith i ailddatblygu'r safle wedi dechrau. Bydd tai fforddiadwy'n cael eu cyflawni yn unol â Pholisi MG4

| | CYFANSWM |
|---|---|
| **MG2 (31)** Tir yn Cross Common Road | 50 |

Mae'r safle Maes Glas 2.3 hectar hwn wedi'i leoli i'r de o Ddinas Powys ar gyffordd Cardiff Road a Longmeadow Drive. Cafodd y safle ganiatâd cynllunio ym mis Chwefror 2016 ar gyfer 50 annedd yn amodol ar lofnodi cytundeb A106 (cyfeirier at gais 2015/00392/OUT). Bydd yn ofynnol i ddatblygiad y safle gyfrannu at welliant o ran adeiladu cyffordd newydd ar gyfer mynediad at briffordd Cardiff Road (cyfeirier at MG16 (17)) i liniaru effaith datblygu a mynd i'r afael â materion diogelwch / capasiti ar y gyffordd bresennol. Bydd tai fforddiadwy'n cael eu cyflawni yn unol â Pholisi MG4.

Mae Peirianwyr y Cyngor wedi hysbysu bod mynediad diogel addas yn ofynnol, a hwnnw'n fynediad sy'n cydymffurfio â meini prawf dylunio cyfredol. Hefyd, rhaid i geisiadau cynllunio yn y dyfodol gael eu hategu gan Asesiad Trafnidiaeth cynhwysfawr a chadarn sy'n gwerthuso ac yn pennu mesurau lliniaru

sy'n lleddfu unrhyw effaith niweidiol y bydd y datblygiad yn ei chael ar y rhwydwaith priffyrdd lleol a chyffyrdd cysylltiedig.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi hysbysu y gallai llifogydd effeithio ar y safle, ac mae rhai rhannau wedi'u henwi fel rhai sydd ym Mharth C1/C2 ar y Map Cyngor Datblygu. Bydd yn ofynnol i'r holl gynigion datblygu o fewn y dyraniad hwn ddangos eu bod yn cyd-fynd â pholisi cenedlaethol mewn perthynas â pherygl llifogydd a nodir yn TAN15. Rhaid cyflwyno Asesiad Canlyniadau Llifogydd safle-benodol/ Asesiad Canlyniadau Llifogydd safle-benodol wedi'i ddiweddaru os yw unrhyw ran o safle'r cais cynllunio mewn ardal y nodwyd ei bod yn wynebu perygl llifogydd.

Wrth nodi'r safle ar gyfer ei ddatblygu, mae'r Cyngor wedi ystyried maint yr ardaloedd ar y safle sydd ym mharth llifogydd C2 ac wedi lleihau'r ardal ddatblygadwy net ar y safle yn unol â hynny. Mae maint yr ardaloedd sydd ym mharth llifogydd C2 yn golygu y gellir cael mynediad i mewn i'r safle ac allan o'r safle y tu allan i ardaloedd sydd ym mharth llifogydd C2. Mae'r ardaloedd llifogydd wedi'u cynnwys o fewn ffiniau'r safle sy'n cynrychioli ffiniau ffisegol rhesymegol ar gyfer y safle, ond dim ond ar gyfer datblygiadau sy'n wynebu llai o fygythiad megis mannau agored amwynder y bydd yr ardaloedd hyn yn addas.

Mae peirianwyr draenio'r Cyngor wedi hysbysu bod prif afon ddynodedig yn rhedeg yn agos at ffin orllewinol y safle a dylai unrhyw ddarpar ddatblygwr ymchwilio i addasrwydd defnyddio ffosydd cerrig i waredu dŵr wyneb ffo yn y lle cyntaf. Os nad yw draenio ar ffurf trylifo'n ddichonadwy, dylid ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru i bennu addasrwydd y brif afon i dderbyn unrhyw ddŵr wyneb ffo arfaethedig. Os yw'n addas, bydd yn ofynnol gwanhau dŵr wyneb gyda llifoedd yn cael eu cyfyngu i gyfradd gollwng a fydd yn cael ei chytuno. Dylid cynnal asesiad hefyd o'r potensial ar gyfer gwaredu'r dŵr wyneb gan ddefnyddio system ddraenio gynaliadwy.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi hysbysu y gall fod ardaloedd o laswelltir heb ei wella sydd o ddiddordeb yn ardal gyffredinol y safle ac y dylid ymgynghori ag ecolegydd y Cyngor i bennu faint o wybodaeth ecolegol ategol fydd ei hangen i ategu unrhyw gais cynllunio yn y dyfodol. Yn arbennig, mae tua 0.31 ha o'r safle'n laswelltir sy'n Safle o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur (3,100 metr sgwâr).

Mae Dŵr Cymru Welsh Water (DCWW) wedi hysbysu bod carthffos gyhoeddus â diamedr o 150 mm yn croesi canol y safle a bydd mesurau diogelu ar ffurf lledau hawddfraint neu ddargyfeirio'r cyfleuster hwn yn ofynnol.

| | CYFANSWM |
|---|---|
| **MG2 (32)** Tir i'r De o Llandough Hill / Heol Penarth | 130 |

Mae'r safle Maes Glas 5.23 hectar hwn wedi'i leoli rhwng Heol Penarth i'r dwyrain a Cogan Pill Road i'r gorllewin. Mae topograffeg y safle'n amrywio'n sylweddol ac mae rhan ddeheuol y safle'n cynnwys hen gronfa ddŵr yr ystyrir ei bod yn dir llwyd. Mae mur cynhaliol mawr yn cynnal y gronfa ddŵr ar bwys Heol Penarth a bydd yn ofynnol cwblhau arolwg strwythurol i ganfod cyflwr presennol y mur yma. Bydd yn ofynnol i'r datblygiad gyfrannu at ddarparu a/neu wella llwybrau cerdded a beicio rhwng Caerdydd a Bro Morgannwg gan gynnwys darparu cysylltiadau â'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol. Bydd tai fforddiadwy'n cael eu cyflawni yn unol â Pholisi MG4.

Mae Peirianwyr y Cyngor wedi hysbysu bod mynediad diogel addas yn ofynnol, a hwnnw'n fynediad sy'n cydymffurfio â meini prawf dylunio cyfredol. Hefyd, rhaid i geisiadau cynllunio yn y dyfodol gael eu hategu gan Asesiad Trafnidiaeth cynhwysfawr a chadarn sy'n gwerthuso ac yn pennu mesurau lliniaru sy'n lleddfu unrhyw effaith niweidiol y bydd y datblygiad yn ei chael ar y rhwydwaith priffyrdd lleol a chyffyrdd cysylltiedig.

Mae peirianwyr draenio'r Cyngor wedi hysbysu bod cwrs dŵr cyffredin yn mynd drwy'r safle ac y bydd yn ofynnol sefydlu clustogfa ar y cwrs dŵr. Ceir hanes o lifogydd mewn adeiladau sydd wedi bod yn deillio o'r cwrs dŵr cyffredin a hynny ar y datblygiad cyfagos i'r gogledd o'r safle a bydd angen ystyried mesurau lliniaru i atal llifogydd dŵr wyneb. Dylai unrhyw ddarpar ddatblygwr ymchwilio i addasrwydd defnyddio ffosydd cerrig i waredu dŵr wyneb ffo yn y lle cyntaf a dylai'r datblygwr sicrhau y cynhelir asesiad o'r potensial ar gyfer gwaredu'r dŵr wyneb gan ddefnyddio systemau draenio cynaliadwy. Os nad yw draenio ar ffurf trylifo'n ddichonadwy, dylid ymchwilio i addasrwydd y cwrs dŵr i dderbyn unrhyw ddŵr wyneb ffo arfaethedig. Os yw'n addas, bydd yn ofynnol gwanhau dŵr wyneb gyda llifoedd yn cael eu cyfyngu i gyfradd gollwng a fydd yn cael ei chytuno.

Mae Dŵr Cymru Welsh Water (DCWW) wedi hysbysu y gellir trefnu bod cyflenwad dŵr ar gael i wasanaethu'r safle datblygu arfaethedig. Mae prif bibell dosbarthu dŵr cyhoeddus 9" a charthffos gyhoeddus gyfunedig 355 mm a charthffos gyhoeddus â diamedr o 150 mm yn croesi'r safle a bydd mesurau diogelu ar ffurf lled hawddfraint a/neu ddargyfeiriad yn ofynnol ar gyfer y rhain. Ni ragwelir unrhyw broblemau gyda'r garthffos gyhoeddus ar gyfer gwaredu dŵr budr domestig o'r datblygiad arfaethedig hwn.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi hysbysu, o ystyried natur y safle, y dylid cynnal asesiad ecolegol llawn ac ymgynghori ag ecolegydd y Cyngor.

Mae Ymddiriedolaeth Archeolegol Morgannwg Gwent wedi hysbysu y bydd gwerthusiad archeolegol helaeth o'r safle'n ofynnol ac y gall fod angen cadw rhai rhannau o'r safle fel mannau agored er mwyn gwarchod nodweddion archeolegol.

| | CYFANSWM |
|---|---|
| **MG2 (33)** Tir i'r gogledd o Leckwith Road | 8 |

Mae'r safle 0.6 hectar wedi'i leoli ar ymyl ogledd orllewinol Llandochau ar bwys Leckwith Road. Mae'r safle mewn lleoliad amlwg ar grib uwchlaw hen chwarel sy'n ffinio ag ardal o goetir i'r gorllewin. Fe gymeradwyodd y Cyngor gais cynllunio amlinellol (cyfeirier at gais 2014/01401/OUT) ar gyfer 21 annedd ar dir i'r gogledd a'r de o Leckwith Road sy'n cynnwys y dyraniad ym mis Hydref 2015 yn amodol ar lofnodi cytundeb A106. Bydd tai fforddiadwy'n cael eu cyflawni yn unol â Pholisi MG4.

Mae Peirianwyr y Cyngor wedi hysbysu bod mynediad diogel addas yn ofynnol, a hwnnw'n fynediad sy'n cydymffurfio â meini prawf dylunio cyfredol. Hefyd, rhaid i geisiadau cynllunio yn y dyfodol gael eu hategu gan Asesiad Trafnidiaeth cynhwysfawr a chadarn sy'n gwerthuso ac yn pennu mesurau lliniaru sy'n lleddfu unrhyw effaith niweidiol y bydd y datblygiad yn ei chael ar y rhwydwaith priffyrdd lleol a chyffyrdd cysylltiedig.

Mae peirianwyr draenio'r Cyngor wedi hysbysu nad oes cwrs dŵr ar gael i waredu dŵr wyneb yn agos iawn at y safle ac felly y bydd angen rhoi ystyriaeth i waredu dŵr wyneb ac asesu sut y caiff ei reoli. Dylai unrhyw ddarpar ddatblygwr ymchwilio i addasrwydd defnyddio ffosydd cerrig i waredu dŵr wyneb ffo yn y lle cyntaf a dylai'r datblygwr sicrhau y cynhelir asesiad o'r potensial ar gyfer gwaredu dŵr wyneb gan ddefnyddio system ddraenio gynaliadwy.

Mae Dŵr Cymru Welsh Water (DCWW) wedi hysbysu y gellir trefnu bod cyflenwad dŵr ar gael i wasanaethu'r safle datblygu arfaethedig ac na ragwelir unrhyw broblemau gyda'r garthffos gyhoeddus ar gyfer gwaredu dŵr budr domestig o'r datblygiad arfaethedig hwn.

| | CYFANSWM |
|---|---|
| **MG2 (34)** Llandough Landings | 120 |

Mae'r safle 6 hectar hwn wedi'i leoli rhwng prif linell reilffordd Bro Morgannwg ac Afon Elái. Mae'n debygol mai o Anchor Way y bydd mynediad at y safle. Bydd tai fforddiadwy'n cael eu cyflawni yn unol â Pholisi MG4.

Mae Peirianwyr y Cyngor wedi hysbysu bod mynediad diogel addas yn ofynnol, a hwnnw'n fynediad sy'n cydymffurfio â meini prawf dylunio cyfredol. Hefyd, bydd angen cytuno ar Astudiaeth Gwmpasu gynhwysfawr gyda'r Awdurdod Cynllunio/Priffyrdd Lleol, er mwyn i honno fod yn sail i Asesiad Trafnidiaeth cynhwysfawr a chadarn sy'n gwerthuso ac yn pennu mesurau lliniaru sy'n lleddfu unrhyw effaith niweidiol y bydd y datblygiad yn ei chael ar y rhwydwaith priffyrdd lleol a chyffyrdd cysylltiedig. Bydd cyfraniadau gan ddatblygwyr yn cael eu ceisio i ddarparu/gwella llwybrau cerdded a beicio lleol rhwng Caerdydd a Bro Morgannwg gan gynnwys cysylltiadau â'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol.

Mae peirianwyr draenio'r Cyngor wedi hysbysu bod prif afon ddynodedig yn rhedeg ar hyd ffin ddwyreiniol y safle. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi hysbysu y gallai llifogydd effeithio ar y safle, ac mae rhai rhannau wedi'u henwi fel rhai sydd ym Mharth C1/C2 ar y Map Cyngor Datblygu. Bydd yn ofynnol i'r holl gynigion datblygu o fewn y dyraniad hwn ddangos eu bod yn cyd-fynd â pholisi cenedlaethol mewn perthynas â pherygl llifogydd a nodir yn TAN15. Rhaid cyflwyno Asesiad Canlyniadau Llifogydd safle-benodol/ Asesiad Canlyniadau Llifogydd safle-benodol wedi'i ddiweddaru os yw unrhyw ran o safle'r cais cynllunio mewn ardal y nodwyd ei bod yn wynebu perygl llifogydd.

Wrth nodi'r safle ar gyfer ei ddatblygu, mae'r Cyngor wedi ystyried maint yr ardaloedd ar y safle sydd ym mharth llifogydd C2 ac wedi lleihau'r ardal ddatblygadwy net ar y safle yn unol â hynny. Mae maint yr ardaloedd sydd ym mharth llifogydd C2 yn golygu y gellir cael mynediad i mewn i'r safle ac allan o'r safle y tu allan i ardaloedd sydd ym mharth llifogydd C2. Mae'r ardaloedd llifogydd wedi'u cynnwys o fewn ffiniau'r safle sy'n cynrychioli ffiniau ffisegol rhesymegol ar gyfer y safle, ond dim ond ar gyfer datblygiadau sy'n wynebu llai o fygythiad megis mannau agored amwynder y bydd yr ardaloedd hyn yn addas.

Dylai unrhyw ddarpar ddatblygwr ymchwilio i addasrwydd defnyddio ffosydd cerrig i waredu dŵr wyneb ffo oddi ar y safle yn y lle cyntaf. Os nad yw draenio ar ffurf trylifo'n ddichonadwy, dylid ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru i bennu addasrwydd y brif afon i dderbyn unrhyw ddŵr wyneb ffo arfaethedig. Os yw'n addas, bydd yn ofynnol gwanhau dŵr wyneb gyda llifoedd yn cael eu cyfyngu i gyfradd gollwng a fydd yn cael ei chytuno. Dylid cynnal asesiad hefyd o'r potensial ar gyfer gwaredu'r dŵr wyneb gan ddefnyddio system ddraenio gynaliadwy.

Mae Dŵr Cymru Welsh Water (DCWW) wedi hysbysu y gellir trefnu bod cyflenwad dŵr ar gael i wasanaethu'r safle datblygu arfaethedig; fodd bynnag, efallai y bydd prif bibellau helaeth oddi ar y safle'n ofynnol. Ni ragwelir unrhyw broblemau gyda'r garthffos gyhoeddus ar gyfer gwaredu dŵr budr domestig o'r datblygiad arfaethedig hwn. Mae carthffos gyhoeddus gyfunedig 300 mm yn croesi'r safle a bydd mesurau diogelu ar ffurf lled hawddfraint a/neu ddargyfeiriad yn ofynnol ar gyfer hyn.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi hysbysu y gall y safle fod yn darparu cynefin ar gyfer Rhywogaeth a Warchodir gan Ewrop, a gall fod angen cwblhau adroddiad sgrinio Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar gyfer y safle a dylid trafod y gofyniad hwn gyda Cyfoeth Naturiol Cymru ac ecolegydd y Cyngor. Efallai y bydd angen gwybodaeth ecolegol ychwanegol i ategu unrhyw gais cynllunio yn y dyfodol.

Mae Ymddiriedolaeth Archeolegol Morgannwg Gwent wedi hysbysu y bydd yn ofynnol cwblhau gwerthusiad archeolegol helaeth cyn gwneud penderfyniad cadarnhaol o blaid ceisiadau cynllunio ac y gall fod angen cadw rhai ardaloedd ar y safle fel mannau agored er mwyn gwarchod nodweddion archeolegol.

| | CYFANSWM |
|---|---|
| **MG2 (35)** Tir i'r gogledd o'r Llinell Reilffordd, Y Rhws | 700 |

Mae'r safle Maes Glas 25.82 hectar wedi'i leoli rhwng anheddiad presennol y Rhws a datblygiad Trwyn y Rhws ac roedd wedi'i ddyrannu ar gyfer datblygiad preswyl yng Nghynllun Datblygu Unedol Mabwysiedig Bro Morgannwg. Paratowyd briff datblygu safle (Awst 2007) sy'n ei gwneud yn ofynnol cyflawni ailddatblygiad cynhwysfawr ar y safle. Bydd tai fforddiadwy'n cael eu cyflawni yn unol â Pholisi MG4.

Fe gymeradwyodd y Cyngor gais amlinellol ar gyfer 350 annedd (cyfeirier at gais 2010/00686/EAO) ar gyfer hanner dwyreiniol y safle ym mis Ionawr 2014. Cafodd dau gais dilynol ar gyfer Materion a Gadwyd yn Ôl eu cymeradwyo ym mis Ebrill 2015 (cyfeirier at geisiadau 2014/00344/RES a 2014/00639/RES). Mae'r Cyngor hefyd wedi cymeradwyo cais amlinellol ar gyfer 350 annedd ym mis Mai 2015 ar gyfer hanner gorllewinol y safle (cyfeirier at gais 2014/00550/OUT) ac mae dau gais ar gyfer Materion a Gadwyd yn Ôl wrthi'n cael eu hystyried (cyfeirier at geisiadau 2015/01070/RES a 2015/01072/RES).

Wrth ddatblygu'r safle mae'n ofynnol darparu a diogelu safle o 1.0 hectar ar gyfer darparu ysgol gynradd ac ysgol feithrin newydd (210 lle) ar y safle, yn unol â Pholisi MG6 (6) a chyflawni seilwaith strategol allweddol, gan gynnwys 3.60 hectar o dir ar gyfer mannau agored cyhoeddus a'r rheiny'n cynnwys ardal gemau amlddefnydd a chyfleusterau newid cysylltiedig; cyfleusterau chwarae â chyfarpar a mannau agored amwynder yn unol â Pholisi MG28 (7).

Mae Peirianwyr y Cyngor wedi hysbysu bod mynediad diogel addas yn ofynnol, a hwnnw'n fynediad sy'n cydymffurfio â meini prawf dylunio cyfredol. Hefyd, rhaid i geisiadau cynllunio yn y dyfodol gael eu hategu gan Asesiad Trafnidiaeth cynhwysfawr a chadarn sy'n gwerthuso ac yn pennu mesurau lliniaru sy'n lleddfu unrhyw effaith niweidiol y bydd y datblygiad yn ei chael ar y rhwydwaith priffyrdd lleol a chyffyrdd cysylltiedig.

Mae peirianwyr draenio'r Cyngor wedi hysbysu nad oes cwrs dŵr ar gael i waredu dŵr wyneb yn agos at y safle ac felly y bydd angen rhoi ystyriaeth i waredu dŵr wyneb ac asesu sut y caiff ei reoli. Mae'n hysbys bod materion llifogydd yn effeithio ar adeiladau presennol i'r de o'r safle ac felly bydd yn ofynnol rhoi mesurau lliniaru yn eu lle i atal llifogydd dŵr wyneb pellach. Dylid nodi nad yw defnyddio ffosydd cerrig yn ddewis a argymhellir ar gyfer gwaredu dŵr wyneb ar y safle hwn ac y dylid ymchwilio i'r posibilrwydd o adael i ddŵr wyneb redeg yn uniongyrchol i'r môr. Mae'n hysbys bod ffosydd draenio tir yn croesi'r safle a bydd yn ofynnol ymgynghori â'r Cyngor fel yr Awdurdod Draenio Tir neu Cyfoeth Naturiol Cymru i ddangos sut y bydd y rhain yn cael eu cynnal a'u cadw a'u gwarchod.

Argymhellir hefyd y dylid ymgynghori â Network Rail oherwydd agosrwydd y safle at y rheilffordd a'r pibellau draenio mawr sy'n mynd oddi tano, y bydd angen i'r llifoedd drwyddynt gael eu cynnal.

Mae Dŵr Cymru Welsh Water wedi hysbysu y gellir trefnu bod cyflenwad dŵr ar gael i wasanaethu'r safle datblygu arfaethedig. Bydd yn ofynnol cwblhau asesiad modelu hydrolig i bennu'r man lle bydd y datblygiad yn cysylltu â'r garthffos gyhoeddus ac unrhyw waith gwella sy'n ofynnol. Mae pibell godi dŵr budr 300 mm yn croesi'r safle, a bydd mesurau diogelu ar ffurf lled hawddfraint a/neu ddargyfeiriad yn ofynnol ar gyfer hyn.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi dynodi bod y safle'n gorwedd ar brif ddyfrhaen ac na fydd caniatâd i waredu dŵr ffo budr sydd wedi'i halogi. Bydd angen ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru cyn gwneud unrhyw waith ar y safle i drafod y mesurau angenrheidiol sy'n ofynnol i warchod y ddyfrhaen.

| | CYFANSWM |
|---|---|
| **MG2 (36)** Tir i'r de o'r Llinell Reilffordd, Y Rhws | 87 |

Mae'r safle tir llwyd 2.65 hectar hwn wedi'i leoli yn union i'r de o'r llinell reilffordd ar Drwyn y Rhws. Cafodd y safle ganiatâd cynllunio ar gyfer 87 annedd a mannau agored cysylltiedig ym mis Mai 2013 ac mae gwaith i ddatblygu'r safle bellach wedi'i gwblhau.

| | CYFANSWM |
|---|---|
| **MG2 (37)** Tir i'r Gorllewin o Swanbridge Road, Sili | 500 |

Mae'r safle Maes Glas 20 hectar hwn wedi'i leoli i'r dwyrain o Sili ac mae'n ffinio â Swanbridge Road i'r dwyrain a Cog Road i'r gogledd. Cafodd rhan ogleddol y safle ganiatâd cynllunio ar gyfer hyd at 350 annedd ym mis Mai 2015 yn amodol ar lofnodi cytundeb A106 (cyfeirier at gais 2013/01279/OUT). Bydd tai fforddiadwy'n cael eu cyflawni yn unol â Pholisi MG4.

Mae Peirianwyr y Cyngor wedi hysbysu bod mynediad diogel addas yn ofynnol, a hwnnw'n fynediad sy'n cydymffurfio â meini prawf dylunio cyfredol a bydd angen cytuno ar Astudiaeth Gwmpasu lawn a chynhwysfawr gyda'r Cyngor, er mwyn i honno fod yn sail i Asesiad Trafnidiaeth cynhwysfawr a chadarn sy'n gwerthuso ac yn pennu mesurau lliniaru sy'n lleddfu unrhyw effaith niweidiol y bydd cynigion datblygu yn y dyfodol yn ei chael ar y rhwydwaith priffyrdd lleol a chyffyrdd cysylltiedig.

Mae peirianwyr draenio'r Cyngor wedi dweud ei bod yn hysbys bod materion llifogydd yn effeithio ar adeiladau i'r de a'r gorllewin o'r safle oherwydd dŵr wyneb yn llifo dros y tir a hwnnw'n deillio o'r safle hwn. Nid oes cwrs dŵr ar gael i waredu dŵr wyneb yn agos iawn at y safle a bydd angen rhoi ystyriaeth i waredu dŵr wyneb ac asesu sut y caiff ei reoli. Dylid ymchwilio i addasrwydd defnyddio ffosydd cerrig i waredu dŵr wyneb ffo a dylid cynnal asesiad o'r potensial ar gyfer gwaredu dŵr wyneb gan ddefnyddio systemau draenio cynaliadwy. Ni ddylai draenio dŵr wyneb o'r safle achosi materion llifogydd newydd na gwaethygu rhai hysbys presennol. Bydd angen ystyried rheoli ffosydd draenio presennol sy'n croesi'r safle a bydd angen i fanylion gael eu darparu ar gyfer y Cyngor fel yr Awdurdod Draenio Tir a chael eu cymeradwyo ganddo bod llifoedd o fewn y system draenio tir yn cael eu cynnal. Bydd yn ofynnol sefydlu clustogfa ar gyfer y draeniau tir.

Mae Dŵr Cymru Welsh Water wedi hysbysu y gellir trefnu bod cyflenwad dŵr ar gael i wasanaethu'r safle datblygu arfaethedig. Fodd bynnag, efallai y bydd yn ofynnol cwblhau asesiad, yn arbennig ar gyfer y dwyseddau mwy, i ddeall maint y prif bibellau oddi ar y safle a fydd yn ofynnol. Mae'r rhwydwaith carthffosiaeth lleol yn yr ardal hon yn rhy fach i dderbyn y llifoedd dŵr budr o ddatblygiad. Bydd yn ofynnol cwblhau asesiad modelu hydrolig i bennu'r man lle bydd y datblygiad yn cysylltu â'r garthffos gyhoeddus a/neu unrhyw waith gwella sy'n ofynnol. Mae pibell godi dŵr budr 150 mm a charthffos gyhoeddus dŵr budr 225 mm yn croesi'r safle, a bydd mesurau diogelu ar ffurf lled hawddfraint a/neu ddargyfeirio'r garthffos yn ofynnol ar gyfer hyn.

Bydd yn ofynnol cwblhau Arolwg Tir Amaethyddol safle-benodol yn unol â'r canllawiau a meini prawf diwygiedig ar gyfer graddio ansawdd tir amaethyddol (MAFF 1988) i gadarnhau gradd y tir.
Mae Ymddiriedolaeth Archeolegol Morgannwg Gwent wedi hysbysu y byddai'n ofynnol cwblhau gwerthusiad archeolegol helaeth o'r safle ac y gall fod angen cadw rhai ardaloedd ar y safle fel mannau agored er mwyn gwarchod nodweddion archeolegol.

Mae'r safle'n agos iawn at bentrefan Cog sy'n cynnwys nifer o adeiladau rhestredig ac mae'n meddu ar ansawdd treflun arwyddocaol yn ei rinwedd ei hun. Felly byddai angen i unrhyw gynnig datblygu ar

gyfer y safle yn y dyfodol gael ei ystyried yn ofalus er mwyn sicrhau ei fod yn berthnasol i nodweddion y pentrefan. Byddai'n ofynnol rhoi sylw digonol i faterion o'r fath mewn unrhyw friff datblygu ar gyfer y safle.

| | CYFANSWM |
|---|---|
| **MG2 (38)** Tir i'r gorllewin o Port Road, Gwenfô | 132 |

Mae'r safle Maes Glas 6.98 hectar hwn wedi'i leoli i'r de o Wenfô rhwng yr A4050 Port Road a'r datblygiad preswyl presennol yng Nghlos Llanfair. Cafodd y safle ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygiad preswyl sy'n cynnwys hyd at 140 annedd ym mis Ebrill 2014 (cyfeirier at gais 2013/00884/OUT) a chafodd dau gais ar gyfer Materion a Gadwyd yn Ôl eu cymeradwyo ar gyfer 132 annedd (cyfeirier at geisiadau 2014/00452/RES a 2015/00601/RES) ym mis Medi 2014 a mis Chwefror 2016 yn y drefn honno. Mae'r safle wrthi'n cael ei adeiladu ar hyn o bryd. Bydd tai fforddiadwy'n cael eu cyflawni yn unol â Pholisi MG4.

| | CYFANSWM |
|---|---|
| **MG2 (39)** Tir ar bwys Court Close, Aberthin | 20 |

Mae'r safle Maes Glas 0.75 hectar hwn yn ffinio â datblygiad preswyl presennol yn Court Close, Aberthin. Bydd tai fforddiadwy'n cael eu cyflawni yn unol â Pholisi MG4.

Mae Peirianwyr y Cyngor wedi hysbysu bod mynediad diogel addas yn ofynnol, a hwnnw'n fynediad sy'n cydymffurfio â meini prawf dylunio cyfredol. Hefyd, rhaid i geisiadau cynllunio yn y dyfodol gael eu hategu gan Asesiad Trafnidiaeth cynhwysfawr a chadarn sy'n gwerthuso ac yn pennu mesurau lliniaru sy'n lleddfu unrhyw effaith niweidiol y bydd y datblygiad yn ei chael ar y rhwydwaith priffyrdd lleol a chyffyrdd cysylltiedig.

Mae peirianwyr draenio'r Cyngor wedi hysbysu bod problem bresennol gyda dŵr wyneb ffo yn yr ardal hon yn achosi llifogydd i adeiladau cyfagos. Gan nad oes cwrs dŵr ar gael i waredu dŵr wyneb yn agos iawn at y safle a bydd angen rhoi ystyriaeth i waredu dŵr wyneb ac asesu sut y caiff ei reoli. Dylid ymchwilio i addasrwydd defnyddio ffosydd cerrig i waredu dŵr wyneb ffo a dylid cynnal asesiad o'r potensial ar gyfer gwaredu dŵr wyneb gan ddefnyddio systemau draenio cynaliadwy. Mae prif afon ddynodedig yn rhedeg i'r de o'r safle a dylid ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru ynghylch unrhyw gynigion i'r afon hon dderbyn dŵr wyneb ffo o'r safle.

Mae Dŵr Cymru Welsh Water wedi hysbysu y gellir trefnu bod cyflenwad dŵr ar gael i wasanaethu'r safle datblygu arfaethedig. Ni ragwelir unrhyw broblemau gyda'r garthffos gyhoeddus ar gyfer gwaredu dŵr budr domestig o'r datblygiad arfaethedig hwn. Mae gwaith gwella wedi'i raglennu i Waith Trin Dŵr Gwastraff y Bont-faen a allai dderbyn dŵr o'r datblygiad arfaethedig i fod i gael ei gwblhau erbyn mis Mawrth 2018.

Mae Ymddiriedolaeth Archeolegol Morgannwg Gwent wedi hysbysu y bydd yn ofynnol cwblhau gwerthusiad archeolegol o'r safle i ategu unrhyw gais cynllunio yn y dyfodol.

| | CYFANSWM |
|---|---|
| **MG2 (40)** Tir i'r dwyrain o Dresimwn | 120 |

Mae'r safle Maes Glas 7.2 hectar hwn wedi'i leoli i'r dwyrain o bentref Tresimwn. Cyflwynwyd cais cynllunio llawn i'r Cyngor ar gyfer 120 annedd (cyfeirier at gais 2015/00960/FUL) ym mis Hydref 2015. Bydd datblygu'r safle'n cyflawni seilwaith allweddol a hwnnw'n cynnwys gwelliannau i'r briffordd bresennol i'r gogledd o'r A48 (i'r gogledd o Sycamore Cross) ar hyd Bonvilston Road yn unol â Pholisi MG16

(18) a darparu 0.55 hectar o fannau agored cyhoeddus strategol yn unol â Pholisi MG28 (8). Bydd tai fforddiadwy'n cael eu cyflawni yn unol â Pholisi MG4.

Mae Peirianwyr y Cyngor wedi hysbysu bod mynediad diogel addas yn ofynnol, a hwnnw'n fynediad sy'n cydymffurfio â meini prawf dylunio cyfredol. Hefyd, rhaid i geisiadau cynllunio yn y dyfodol gael eu hategu gan Asesiad Trafnidiaeth cynhwysfawr a chadarn sy'n gwerthuso ac yn pennu mesurau lliniaru sy'n lleddfu unrhyw effaith niweidiol y bydd y datblygiad yn ei chael ar y rhwydwaith priffyrdd lleol a chyffyrdd cysylltiedig. Wrth ddatblygu'r safle bydd yn ofynnol cyflawni gwelliannau i briffyrdd lleol a fydd yn cyfrannu at fynediad diogel at y safle ac yn helpu i liniaru effeithiau niweidiol y datblygiad hwn ar y rhwydwaith priffyrdd lleol (cyfeirier at Bolisi MG16 (18)).

Mae peirianwyr draenio'r Cyngor wedi hysbysu nad oes cwrs dŵr ar gael i waredu dŵr wyneb yn agos iawn at y safle a bydd angen rhoi ystyriaeth i waredu dŵr wyneb ac asesu sut y caiff ei reoli. Dylid ymchwilio i addasrwydd defnyddio ffosydd cerrig i waredu dŵr wyneb ffo a dylid cynnal asesiad o'r potensial ar gyfer gwaredu dŵr wyneb gan ddefnyddio systemau draenio cynaliadwy.

Mae Dŵr Cymru Welsh Water wedi hysbysu y gellir trefnu bod cyflenwad dŵr ar gael i wasanaethu'r safle datblygu arfaethedig. Ni ragwelir unrhyw broblemau gyda'r garthffos gyhoeddus ar gyfer gwaredu dŵr budr domestig o'r datblygiad arfaethedig hwn. Mae carthffos gyhoeddus â diamedr o 225 mm yn croesi'r safle, a bydd mesurau diogelu ar ffurf lled hawddfraint a/neu ddargyfeiriad yn ofynnol ar gyfer hyn. Mae capasiti cyfyngedig yng Ngwaith Trin Dŵr Gwastraff Dwyrain Tresimwn ac nid oes unrhyw welliannau yn yr arfaeth yn Rhaglen Buddsoddi Cyfalaf AMP 6 Dŵr Cymru Welsh Water (2015 – 2020). Bydd cynllun o uwchraddiadau ar gyfer y Gwaith Trin Dŵr Gwastraff hwn yn rhan o'r cais i Gorff Rheoleiddio'r Diwydiant, Ofwat, ar gyfer AMP 7. Os bydd tirfeddiannwr/datblygwr yn dymuno bwrw ymlaen â'r datblygiad arfaethedig cyn y buddsoddiad Rheoleiddiol, gall ariannu astudiaeth ddichonoldeb a fydd yn nodi'r gwelliannau sy'n ofynnol.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi dynodi bod y safle'n gorwedd ar brif ddyfrhaen ac na fydd caniatâd i waredu dŵr ffo budr sydd wedi'i halogi. Bydd angen ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru cyn gwneud unrhyw waith ar y safle i drafod y mesurau angenrheidiol sy'n ofynnol i warchod y ddyfrhaen.

Mae Ymddiriedolaeth Archeolegol Morgannwg Gwent wedi hysbysu y bydd yn ofynnol cwblhau gwerthusiad archeolegol helaeth o'r safle cyn gwneud unrhyw benderfyniad cadarnhaol ynghylch ceisiadau cynllunio ac y gall fod angen cadw rhai rhannau o'r safle fel mannau agored er mwyn gwarchod nodweddion archeolegol.

Bydd yn ofynnol cwblhau Arolwg Tir Amaethyddol safle-benodol yn unol â'r canllawiau a meini prawf diwygiedig ar gyfer graddio ansawdd tir amaethyddol (MAFF 1988) i gadarnhau gradd y tir.

Mae'r safle'n gorwedd i'r dwyrain o ardal gadwraeth Tresimwn a bydd yn ofynnol i gynigion yn y dyfodol sicrhau na fydd datblygu'n cael effaith annerbyniol ar y dynodiad pwysig fel ardal gadwraeth.

| | CYFANSWM |
|---|---|
| **MG2 (41)** Tir y tu ôl i Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant, Tregolwyn | 64 |

Mae'r safle Maes Glas 2.55 hectar hwn wedi'i leoli i'r dwyrain ar bwys Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant yn Nhregolwyn. Cafodd y safle ganiatâd cynllunio ar gyfer 64 annedd ym mis Mehefin 2015 (cyfeirier at gais 2014/00242/FUL) ac mae gwaith adeiladu wrthi'n digwydd ar y safle. Bydd tai fforddiadwy'n cael eu cyflawni yn unol â Pholisi MG4.

| MG2 (42) ITV Wales, Croes Cwrlwys | CYFANSWM |
|---|---|
| | 224 |

Mae'r safle tir llwyd 7.13 hectar hwn wedi'i leoli yng Nghroes Cwrlwys ac arferai fod yn gartref i gyfadeilad Stiwdios Teledu ITV Wales. Cafodd y safle ganiatâd cynllunio amlinellol ar gyfer 243 uned breswyl ym mis Mawrth 2014 (cyfeirier at gais 2013/01152/OUT) ac fe gymeradwywyd cais ar gyfer Materion a Gadwyd yn Ôl ym mis Mawrth 2015 i godi 224 annedd (cyfeirier at gais 2014/01079/RES). Bydd tai fforddiadwy'n cael eu cyflawni yn unol â'r Polisi. Mae gwaith adeiladu wrthi'n mynd rhagddo ar y safle.

| MG2 (43) The Garden Emporium, Fferm Goch | CYFANSWM |
|---|---|
| | 40 |

Mae'r safle 2.19 hectar hwn yn cynnwys tir ac adeiladau a arferai fod yn Ganolfan Arddio, i'r dwyrain o Langan, ar bwys prif ran St Mary Hill Road. Cafodd y safle ganiatâd cynllunio amlinellol ym mis Rhagfyr 2013 ar gyfer 40 uned breswyl (cyfeirier at gais 2012/00862/OUT) ac fe gymeradwywyd cais ar gyfer Materion a Gadwyd yn Ôl ym mis Ebrill 2014 (cyfeirier at gais 2014/00008/RES). Mae gwaith i ailddatblygu'r safle wedi cael ei gwblhau.

| MG2 (44) Canolfan Breswyl Ogwr | CYFANSWM |
|---|---|
| | 70 |

Mae'r safle tir llwyd 3.25 wedi'i leoli i'r dwyrain o bentref Ogwr ar dir a oedd yn cael ei ddefnyddio'n flaenorol fel gwersyll preswyl i ysgolion. Bydd tai fforddiadwy'n cael eu cyflawni yn unol â Pholisi MG4. Rhoddwyd caniatâd cynllunio amlinellol mewn apêl i ailddatblygu'r safle at ddibenion preswyl ym mis Mawrth 2012 (cyfeirier at geisiadau 2009/00489/OUT a APP/Z6950/A/11/2157934). Roedd y caniatâd yn cynnwys amodau a oedd yn mynd i'r afael â'r angen am fynediad diogel at y rhwydwaith priffyrdd lleol; asesiad o'r potensial ar gyfer gwaredu dŵr wyneb gan ddefnyddio systemau draenio cynaliadwy; brif gwylio archeolegol; a chamau lliniaru o ran rhywogaethau a warchodir.

Fe gymeradwyodd y Cyngor gais ar gyfer Materion a Gadwyd yn Ôl mewn perthynas â'r safle i godi 70 annedd ym mis Mai 2014 (cyfeirier at gais 2013/00862/RES). Mae gwaith adeiladau wrthi'n mynd rhagddo ar y safle.

| MG2 (45) Parc Carafanau Ogwr | CYFANSWM |
|---|---|
| | 100 |

Mae'r safle 3.64 hectar hwn wedi'i leoli i'r dwyrain o bentref Aber Ogwr ar dir a ddefnyddir fel parc carafanau. Cafodd y safle ganiatâd cynllunio amlinellol ar gyfer 100 annedd ym mis Medi 2011 (cyfeirier at gais ) ac fe gymeradwywyd cais ar gyfer Materion a Gadwyd yn Ôl ym mis Mai 2015 (cyfeirier at gais 2014/01108/RES). Mae gwaith adeiladu wrthi'n mynd rhagddo ar y safle. Bydd tai fforddiadwy'n cael eu cyflawni yn unol â Pholisi MG4.

| MG2 (46) Tir i'r Dwyrain o Sain Niclas | CYFANSWM |
|---|---|
| | 117 |

Mae'r safle Maes Glas 4.4 hectar hwn wedi'i leoli i'r dwyrain o bentref Sain Niclas i'r gogledd o'r A48. Mae'r Cyngor wedi cael 2 gais cynllunio llawn (cyfeirier at geisiadau 2015/00249/FUL a 2015/00662/FUL). Bydd tai fforddiadwy'n cael eu cyflawni yn unol â Pholisi MG4.

Mae Peirianwyr y Cyngor wedi hysbysu bod mynediad diogel addas yn ofynnol, a hwnnw'n fynediad sy'n cydymffurfio â meini prawf dylunio cyfredol a bod angen cytuno ar Astudiaeth Gwmpasu lawn a chynhwysfawr gyda'r Awdurdod Cynllunio/Priffyrdd Lleol, er mwyn i honno fod yn sail i Asesiad Trafnidiaeth

cynhwysfawr a chadarn sy'n gwerthuso ac yn pennu mesurau lliniaru sy'n lleddfu unrhyw effaith niweidiol y bydd cynigion datblygu yn y dyfodol yn ei chael ar y rhwydwaith priffyrdd lleol a chyffyrdd cysylltiedig.

Mae peirianwyr draenio'r Cyngor wedi hysbysu nad oes cwrs dŵr ar gael i waredu dŵr wyneb yn agos iawn at y safle a bydd angen rhoi ystyriaeth i waredu dŵr wyneb ac asesu sut y caiff ei reoli. Dylid ymchwilio i addasrwydd defnyddio ffosydd cerrig i waredu dŵr wyneb ffo a dylid cynnal asesiad o'r potensial ar gyfer gwaredu dŵr wyneb gan ddefnyddio systemau draenio cynaliadwy.

Mae Dŵr Cymru Welsh Water (DCWW) wedi hysbysu y gellir trefnu bod cyflenwad dŵr ar gael i wasanaethu'r safle datblygu arfaethedig; fodd bynnag, efallai y bydd prif bibellau helaeth oddi ar y safle'n ofynnol. Ni ragwelir unrhyw broblemau gyda'r garthffos gyhoeddus ar gyfer gwaredu dŵr budr domestig o'r datblygiad arfaethedig hwn. Mae carthffos gyhoeddus dŵr budr 150 mm yn croesi'r safle a bydd mesurau diogelu ar ffurf lled hawddfraint a/neu ddargyfeiriad yn ofynnol ar gyfer hon. Mae Dŵr Cymru Welsh Water wedi hysbysu mai capasiti cyfyngedig sydd gan Waith Trin Dŵr Gwastraff Sain Niclas a bydd yn ofynnol ymgynghori â DCWW i bennu a fydd gwelliannau i'r cyfleuster hwn yn ofynnol.

Bydd yn ofynnol cwblhau Arolwg Tir Amaethyddol safle-benodol yn unol â'r canllawiau a meini prawf diwygiedig ar gyfer graddio ansawdd tir amaethyddol (MAFF 1988) i gadarnhau gradd y tir.

Mae Ymddiriedolaeth Archeolegol Morgannwg Gwent wedi hysbysu y bydd yn ofynnol cwblhau gwerthusiad archeolegol helaeth o'r safle cyn gwneud unrhyw benderfyniad cadarnhaol ynghylch ceisiadau cynllunio ac y gall fod angen cadw rhai rhannau o'r safle fel mannau agored er mwyn gwarchod nodweddion archeolegol.

Mae'r safle'n gorwedd yn agos at Ardal Gadwraeth Sain Niclas ac Ardal Tirwedd Arbennig Dyffryn a Llethrau Cefn Afon Elái.

| | CYFANSWM |
|---|---|
| **MG2 (47)** Tir oddi ar St.Brides Road, Y Wig | 124 |

Mae'r safle Maes Glas 4 hectar hwn wedi'i leoli yn rhan ogledd orllewinol pentref y Wig rhwng Heol Fain a St Brides Road. Tir fferm heb ei ddatblygu yw'r safle ar hyn o bryd ac mae wedi'i leoli'n agos at ganol y pentref. Cafodd y safle ganiatâd cynllunio llawn ar gyfer 124 annedd ym mis Tachwedd 2015 (cyfeirier at gais 2014/01424/FUL) a dechreuodd gwaith ar y safle ym mis Ionawr 2016. Bydd tai fforddiadwy'n cael eu cyflawni yn unol â Pholisi MG4.

| | CYFANSWM |
|---|---|
| **MG2 (48)** Tir oddi ar Sandy Lane, Ystradowen | 85 |

Mae'r safle Maes Glas 4.2 hectar hwn wedi'i leoli i'r gogledd ddwyrain o Ystradowen ar dir y naill ochr a'r llall i Sandy Lane. Cafodd tua hanner y safle i'r de o Sandy Lane ganiatâd cynllunio ar gyfer 40 annedd ym mis Mai 2015 (cyfeirier at geisiadau 2013/00856/OUT a 2014/01483/RES) ac mae gwaith adeiladu wrthi'n mynd rhagddo ar y safle. Bydd y dyraniad yn ei gyfanrwydd yn darparu 0.43 hectar o fannau agored a chyfleusterau hamdden yn unol â Pholisi MG28 (9). Bydd tai fforddiadwy'n cael eu cyflawni yn unol â Pholisi MG4

Mae Peirianwyr y Cyngor wedi hysbysu bod mynediad diogel addas yn ofynnol, a hwnnw'n fynediad sy'n cydymffurfio â meini prawf dylunio cyfredol. Hefyd, rhaid i geisiadau cynllunio yn y dyfodol gael eu hategu gan Asesiad Trafnidiaeth cynhwysfawr a chadarn sy'n gwerthuso ac yn pennu mesurau lliniaru

sy'n lleddfu unrhyw effaith niweidiol y bydd y datblygiad yn ei chael ar y rhwydwaith priffyrdd lleol a chyffyrdd cysylltiedig.

Mae peirianwyr draenio'r Cyngor wedi hysbysu bod cwrs dŵr cyffredin yn agos at y safle ac y y dylai unrhyw ddatblygwr ymchwilio i addasrwydd defnyddio ffosydd cerrig i waredu dŵr wyneb ffo yn y lle cyntaf, ac y dylid cynnal asesiad o'r potensial ar gyfer gwaredu dŵr wyneb gan ddefnyddio systemau draenio cynaliadwy. Os nad yw draenio ar ffurf trylifo'n ddichonadwy, dylid ymchwilio i addasrwydd y cwrs dŵr i dderbyn dŵr wyneb ffo arfaethedig a bydd yn ofynnol gwanhau dŵr wyneb gyda llifoedd yn cael eu cyfyngu i gyfradd gollwng a fydd i'w chytuno gyda'r Cyngor fel yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol.

Mae Dŵr Cymru Welsh Water (DCWW) wedi hysbysu y gellir trefnu bod cyflenwad dŵr ar gael i wasanaethu'r safle datblygu arfaethedig; fodd bynnag, efallai y bydd prif bibellau helaeth oddi ar y safle'n ofynnol. Mae'r rhwydwaith carthffosiaeth lleol yn yr ardal hon yn rhy fach i dderbyn y llifoedd dŵr budr o ddatblygiad o'r maint yma a bydd yn ofynnol cwblhau asesiad modelu hydrolig i bennu'r man lle bydd y datblygiad yn cysylltu â'r garthffos gyhoeddus a/neu unrhyw waith gwella sy'n ofynnol. Mae carthffos gyhoeddus dŵr budr 150 mm yn croesi'r safle, a bydd mesurau diogelu ar ffurf lled hawddfraint a/neu ddargyfeiriad yn ofynnol ar gyfer hyn. Mae gwaith gwella wedi'i raglennu i Waith Trin Dŵr Gwastraff y Bont-faen a allai dderbyn dŵr o'r datblygiad arfaethedig i fod i gael ei gwblhau erbyn mis Mawrth 2018.

Bydd yn ofynnol cwblhau Arolwg Tir Amaethyddol safle-benodol yn unol â'r canllawiau a meini prawf diwygiedig ar gyfer graddio ansawdd tir amaethyddol (MAFF 1988) i gadarnhau gradd y tir.

| | Cyfanswm y Lleiniau |
|---|---|
| **MG5** Tir i'r Dwyrain o Langan | 2 |

Mae'r safle 0.76 hectar hwn sy'n safle maes glas yn bennaf wedi'i leoli yn agos at fân anheddiad gwledig Fferm Goch ac mae oddeutu 600 metr o bentref Llangan. Mae canolfan wasanaeth y Bont-faen oddeutu 7.5 cilomedr i ffwrdd o'r safle. Yn seiliedig ar Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr Bro Morgannwg (Mai 2016), mae'r angen cyfredol am leiniau yn y Fro yn 2 lain, sef y nifer a awgrymir ar gyfer y safle hwn. Oherwydd maint y safle byddai'n gallu ymateb i beth cynnydd yn anghenion llety sipsiwn a theithwyr ym Mro Morgannwg yn y dyfodol.

Mae Peirianwyr y Cyngor wedi hysbysu ei bod yn ofynnol darparu mynediad diogel addas, a hwnnw'n fynediad sy'n cydymffurfio â meini prawf dylunio cyfredol.

Mae Dŵr Cymru Welsh Water (DCWW) wedi hysbysu nad oes unrhyw broblemau o ran darparu cyflenwad o ddŵr glân na charthffos gyhoeddus ar gyfer y safle, ond y bydd lefel sylweddol o brif bibellau oddi ar y safle a charthffosydd oddi ar y safle'n ofynnol er mwyn cysylltu'r safle. Mae'r safle y tu allan i ddalgylchoedd Gweithfeydd Trin Dŵr Gwastraff, er y bydd y carthffosydd oddi ar y safle yn ei gwneud yn bosibl cysylltu â dalgylch Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Pen-y-bont.

Mae un uned deuluol ar y safle'n barod ac mae'n eiddo i'r Cyngor. Nid oes unrhyw ddynodiadau ecolegol, archeolegol na hanesyddol yn effeithio ar y safle, ac yn seiliedig ar ymgynghori ag ymgyngoreion statudol, mae'r Cyngor o'r farn y gellir darparu'r safle ac nad oes unrhyw ofynion o ran seilwaith na ellir eu hateb na chyfyngiadau eraill na ellir eu goresgyn a fyddai'n rhwystr i ddatblygu'r safle er mwyn diwallu'r angen dynodedig.

# ATODIAD 4 : Dyraniadau Cyflogaeth Leol (Polisi MG9): Manylion Safleoedd Unigol

## Gwybodaeth Ategol Gyffredinol ac Asesiadau

Yn ogystal â'r materion safle-benodol a godir dan bob dyraniad, gall fod yn angenrheidiol cyflwyno amrywiaeth o wybodaeth ategol i gyd-fynd â chynigion ar gyfer datblygu, gan gynnwys:-

- Datganiadau Amgylcheddol (yn amodol ar broses Sgrinio i Asesu'r Effaith Amgylcheddol)
- Asesiadau Trafnidiaeth
- Datganiadau Dylunio a Mynediad
- Uwchgynlluniau
- Asesiadau Tirwedd
- Cynlluniau Teithio a, lle y bo angen, gwelliannau i roi anogaeth ar gyfer trafnidiaeth gynaliadwy, e.e. gwasanaethau bysiau â chymorth, troetffyrdd newydd neu wedi'u gwella, mannau agored cyhoeddus, gwelliannau i gyfleusterau addysg neu fwy o gapasiti.
- Asesiadau ecolegol – er bod sylwadau safle-benodol wedi cael eu gwneud ynghylch rhai safleoedd o ran nodweddion posibl o bwysigrwydd ar gyfer bioamrywiaeth, bydd asesiad ecolegol y cytunwyd arno gydag ecolegydd y Cyngor neu, lle y bo'n bosibl, Cyfoeth Naturiol Cymru, yn ofynnol ar gyfer yr holl safleoedd.

Nid yw cynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol Adneuo yn cael gwared ar yr angen am asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd ar lefel prosiect ar gyfer safleoedd datblygu unigol lle gallent gael effaith anffafriol ar gyfanrwydd Safle a Ddiogelir dan Gyfraith Ewrop.

Mewn cydweithrediad gydag awdurdodau lleol eraill yn rhanbarth De Ddwyrain Cymru mae Cyngor Bro Morgannwg yn cynnig cynnal Astudiaeth Cylch Dŵr i ddarparu dealltwriaeth am ofynion y rhanbarth yn y dyfodol o ran dŵr mewn perthynas â dyraniadau datblygu newydd. Lle y bo angen, bydd yn ofynnol i gynigion datblygu sy'n effeithio ar yr amgylchedd dŵr ddarparu gwybodaeth ar lefel sy'n briodol i raddfa'r datblygiad sy'n dangos na fydd y cynnig yn cael effaith anffafriol ar yr amgylchedd dŵr.

Efallai y bydd gan yr amryw ddyraniadau safle yn y cynllun y potensial i gefnogi Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop yn ogystal â chynefinoedd o bwysigrwydd ar gyfer bioamrywiaeth. Wrth ddyrannu'r safleoedd hyn mae'r Cyngor wedi mabwysiadu dull rhagofalus a bydd yn ofynnol cyflwyno arolygon rhywogaethau priodol a, lle y bo'n berthnasol, mesurau lliniaru priodol gydag unrhyw gais cynllunio i ddatblygu'r safleoedd er mwyn cydymffurfio â'r gofynion a nodir yn rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y'u diwygiwyd). Y rheswm dros hyn yw er mwyn sicrhau nad yw'r cynnig yn achosi unrhyw niwed tebygol i gadw statws cadwraeth ffafriol Rhywogaeth a Warchodir gan Ewrop.

## Dyraniadau Safle-benodol

Gan roi sylw i'r arfarniad safleoedd manwl, ymgyngoriadau a chynlluniau seilwaith a nodir uchod, mae'r adran ganlynol yn rhoi crynodeb cyffredinol o'r materion allweddol sy'n gysylltiedig â phob un o'r safleoedd cyflogaeth leol a ddyrennir gan Bolisi MG9. Ymdrinnir â'r safleoedd 'strategol' trwy Bolisïau safle-benodol yn y Cynllun.

Wrth ddyrannu safleoedd y CDLl mae'r Cyngor wedi rhoi sylw i ofynion TAN15 ac yn benodol y profion cyfiawnhau a nodir dan Adran 6.2. Mae'r Cyngor wedi'i argyhoeddi bod modd cyfiawnhau'r safleoedd a ddyrennir ac y gellir eu darparu yn ystod cyfnod y cynllun ac na fydd unrhyw fesurau lliniaru sy'n ofynnol yn effeithio ar lefel y twf a gynigir ar y safleoedd na'r gallu i ddarparu'r safleoedd.

## MG9 (1), MG11 Tir i'r De o Gyffordd 34 yr M4 Hensol

### DEFNYDDIAU A DDYRENNIR: B1, B2, B8

Mae'r dyraniad yn cynnwys 29.59 ha net o dir cyflogaeth strategol a 6.64 ha net o dir cyflogaeth leol mewn arwynebedd safle gros o 55.16 ha.

Mae gan y safle ganiatâd cynllunio amlinellol ar gyfer datblygu'r safle a hwnnw'n cynnwys defnyddiau Dosbarth B1, B2 a B8; gwesty/canolfan hyfforddi breswyl (Dosbarth C1/C2); defnyddiau atodol o fewn Dosbarthiadau A1, A2, A3; gwaith peirianneg a modelu tir a seilwaith cysylltiedig, parcio ceir, draenio a mynediad ar gyfer pob defnydd; darparu seilwaith (gan gynnwys canolfan(nau) ynni); a thirlunio a'r holl waith galluogi atodol. Mae pob mater wedi'i gadw'n ôl ac eithrio mynediad, sy'n dangos y defnydd o'r ffordd wasanaeth bresennol sy'n rhedeg yn uniongyrchol oddi ar gyffordd 34 yr M4.

Mae gan y safle maes glas gymeriad gwledig amrywiol, gyda dylanwadau sy'n trefoli oherwydd traffordd gyfagos yr M4, cyfadeilad diwydiannol presennol, mynedfeydd a mannau parcio sydd wedi'u saernïo'n helaeth a'r gwaith trin carthion cyfagos. Mae gan rannau o'r safle gymeriad gwledig, caeedig oherwydd y llystyfiant strwythurol presennol, topograffeg donnog a graddfa fach y patrwm caeau hanesyddol caeedig; fodd bynnag mae'r ffyrdd a'r defnyddiau cyfagos yn lleihau'r ymdeimlad o lonyddwch a phellenigrwydd. Mae'r safle'n cynnwys ardaloedd diogelu tywod a graean a ddangosir ar y Map Cynigion a bydd yn ofynnol cwblhau asesiad adnoddau mwynol cynhwysfawr.

Mae'r safle wedi'i leoli yn Ardal Tirwedd Arbennig Dyffryn a Llethrau Cefn Afon Elái a nodweddir gan dirwedd fryniog isel yn bennaf, y mae dyffryn Afon Elái yn rhedeg drwyddi. Mae Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) Dyffryn Elái yn ffinio â chornel dde ddwyreiniol y safle ac yn ymestyn ychydig i mewn i'r safle. Mae gan y safle nifer o glystyrau Gorchymyn Diogelu Coed arwyddocaol.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi dynodi bod ardaloedd mawr o laswelltir corsiog yn rhan ddwyreiniol y safle yn rhai o werth cadwraeth natur cenedlaethol, gan gynnwys y mwyafrif o Safle o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur 26. Mae nifer o gynefinoedd pwysig a rhywogaethau a warchodir wedi cael eu hadnabod yn y safle hefyd. Felly bydd yn ofynnol cynnal ymgynghoriad llawn a manwl gyda Cyfoeth Naturiol Cymru ac ecolegydd y Cyngor ynghylch unrhyw gynigion datblygu yn y dyfodol.

Mae prif afonydd dynodedig gan gynnwys Afon Elái yn rhedeg yn agos at y safle. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi hysbysu y gallai llifogydd effeithio ar y safle, ac mae rhai rhannau wedi'u henwi fel rhai sydd ym Mharth C1/C2 ar y Map Cyngor Datblygu. Bydd yn ofynnol i'r holl gynigion datblygu o fewn y dyraniad hwn ddangos eu bod yn cyd-fynd â pholisi cenedlaethol mewn perthynas â pherygl llifogydd a nodir yn TAN15. Rhaid cyflwyno Asesiad Canlyniadau Llifogydd safle-benodol/ Asesiad Canlyniadau Llifogydd safle-benodol wedi'i ddiweddaru os yw unrhyw ran o safle'r cais cynllunio mewn ardal y nodwyd ei bod yn wynebu perygl llifogydd.

Wrth nodi'r safle ar gyfer ei ddatblygu, mae'r Cyngor wedi ystyried maint yr ardaloedd ar y safle sydd ym mharth llifogydd C2 ac wedi lleihau'r ardal ddatblygadwy net ar y safle yn unol â hynny. Mae maint yr ardaloedd sydd ym mharth llifogydd C2 yn golygu y gellir cael mynediad i mewn i'r safle ac allan o'r safle y tu allan i ardaloedd sydd ym mharth llifogydd C2. Mae'r ardaloedd llifogydd wedi'u cynnwys o fewn ffiniau'r safle sy'n cynrychioli ffiniau ffisegol rhesymegol ar gyfer y safle, ond dim ond ar gyfer datblygiadau sy'n wynebu llai o fygythiad megis mannau agored amwynder y bydd yr ardaloedd hyn yn addas.

Mae Dŵr Cymru Welsh Water wedi hysbysu y gellir trefnu bod cyflenwad dŵr ar gael i wasanaethu'r llifoedd domestig o'r safle datblygu arfaethedig. Fodd bynnag, efallai y bydd yn ofynnol i'r datblygwr gyfrannu dan Adrannau 40-41 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 tuag at ddarparu prif bibellau dŵr a seilwaith cysylltiedig newydd oddi ar y safle a/neu oddi ar y safle. Mae prif bibell dŵr cyhoeddus 500 mm a charthffos gyhoeddus dŵr budr gyfunedig 750 mm yn croesi'r safle, a bydd mesurau diogelu ar ffurf lled

hawddfraint a/neu ddargyfeiriad yn ofynnol ar gyfer hyn. Ni ragwelir unrhyw broblemau gyda'r garthffos gyhoeddus ar gyfer gwaredu dŵr budr domestig o'r datblygiad arfaethedig hwn.

Er bod y safle wedi'i leoli'n agos iawn at Gyffordd 34 yr M4, mae'r safle'n llai hygyrch gan ddefnyddio dulliau trafnidiaeth cynaliadwy, gan gynnwys cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus. Bydd angen lliniaru a chywiro hyn, lle y bo'n bosibl, fel rhan o'r cynigion datblygu manwl. Felly, oherwydd lleoliad, graddfa a natur y cynigion cyflogaeth a ddychmygir ar gyfer y dyraniad cyflogaeth strategol, bydd Cynllun Teithio gweithle manwl yn ofynnol fel rhan o unrhyw gynigion datblygu yn y dyfodol.

## MG9 (2), MG10, SP2 (3) Tir ar bwys Maes Awyr Caerdydd a Port Road, Y Rhws (rhan o ardal fenter Sain Tathan – Maes Awyr Caerdydd)

### DEFNYDDIAU A DDYRENNIR: B1, B2, B8

Mae'r dyraniad yn cynnwys 77.4 ha o dir cyflogaeth strategol gros ac mae wedi'i ddynodi'n Ardal Fenter gan Lywodraeth Cymru. Dyrennir y safle i ddiwallu'r anghenion cyflogaeth rhanbarthol fel rhan o Ardal Cyfle Strategol Sain Tathan.

Mae Llywodraeth Cymru wrthi ar hyn o bryd yn paratoi fframwaith datblygu ar gyfer datblygu'r Ardal Fenter yn y dyfodol a fydd yn nodi cynigion ar gyfer defnyddiau diwydiannol neu swyddfeydd a'r rheiny'n canolbwyntio ar y diwydiant awyrofod a gweithgynhyrchu uwchdechnolegol ac estyniad 42 ha i Barc Gwledig Porthceri yn ogystal ag ystyried canolfan ynni a rheilffordd gangen.

Mae'r safle'n rhan o dir heb ei ddatblygu rhwng y Rhws/Maes Awyr Caerdydd a Gorllewin y Barri. Mae'r defnydd tir ar y safle'n ddefnydd ar gyfer amaethyddiaeth yn bennaf. Caeau âr sydd fwyaf amlwg yn yr ardaloedd uwch, mwy agored a gwastad yn bennaf, tra bo'r llethrau a'r dyffrynnoedd yn cynnwys tir pori a lleiniau o goetiroedd gan mwyaf. Mae'r system caeau'n cynnwys caeau o faint cymedrol a amgaeir gan berthi o uchder a dwysedd amrywiol. Mae'r perthi ar dir uwch yn gymharol isel gan sgrinio rhywfaint yn enwedig tuag at Port Road ond gan ei gwneud yn bosibl cael golygfeydd pell o'r ardal o amgylch a golygfeydd ar draws Môr Hafren. Mae dwy nant yn bodoli ar y safle: Whitelands Brook, sy'n croesi'r safle o'r gogledd i'r de a Bullhouse Brook sy'n rhedeg tua'r gorllewin ac yn ymuno â Whitelands Brook yn Egerton Grey.

Nid yw'r safle mewn Ardal Tirwedd Arbennig; fodd bynnag, mae Ardal Tirwedd Arbennig Nant Llancarfan yn agos at y ffin ogleddol. Byddai datblygu'n cael effaith ar y dirwedd; fodd bynnag, effaith gyfyngedig fyddai'n ei chael ar ardaloedd arfordirol o ystyried yr estyniad i Barc Gwledig Porthceri. Hefyd, o ystyried graddfa a maint y datblygiad a gynigir ar y safle, ni fydd y canfyddiad o fwlch ffisegol sylweddol rhwng y Barri a'r Maes Awyr yn cael ei beryglu.

Mae'r defnydd presennol o'r tir amaethyddol yn gymysgedd o dir âr, tir pori wedi'i wella, a thir pori parhaol; fodd bynnag dim ond 1.7% o'r tir sy'n dir o'r ansawdd gorau a mwyaf hyblyg (Tir amaethyddol Gradd 3A).

Nid oes dynodiadau cadwraeth natur statudol ar y safle nac ar ei bwys. Y safle dynodedig statudol agosaf yw Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) Coetir y Barri, sydd tua 380 m i'r gogledd ddwyrain o'r safle. Nid oes unrhyw Safleoedd o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur ar y safle; fodd bynnag yr agosaf yw Bullhouse Brook sy'n ffinio â'r safle yn y de. O ystyrid agosrwydd y safle at y safleoedd hyn, bydd yn ofynnol cwblhau asesiad ecolegol ac ymgynghori ag ecolegydd y Cyngor i ategu unrhyw gais cynllunio yn y dyfodol.

Mae Dŵr Cymru Welsh Water wedi hysbysu y gellir trefnu bod cyflenwad dŵr ar gael i wasanaethu'r llifoedd domestig o'r safle datblygu arfaethedig. Fodd bynnag, gall fod yn ofynnol cwblhau asesiad yn enwedig ar gyfer dwyseddau mwy i ddeall maint y prif bibellau oddi ar y safle fydd yn ofynnol. Mae prif bibell ddŵr, pibell godi dŵr budr 250 mm, carthffos disgyrchiant 375 mm a Gorsaf Pwmpio Carthion yn

croesi'r safle, y bydd mesurau diogelu ar ffurf lled hawddfraint a/neu ddargyfeiriad yn ofynnol ar eu cyfer. Bydd yn ofynnol cwblhau asesiad modelu hydrolig i bennu'r man lle bydd y datblygiad yn cysylltu â'r garthffos gyhoeddus ac unrhyw waith gwella sy'n ofynnol i'r rhwydwaith presennol i dderbyn y twf gan gynnwys maint y carthffosydd oddi ar y safle. Os bydd unrhyw gynnig yn ei gwneud yn ofynnol gwaredu carthffrwd fasnachol i mewn i'r garthffos gyhoeddus yna bydd yn ofynnol cael Cydsyniad yr ymgymerwr carthffosiaeth statudol (Adran 118 Deddf y Diwydiant Dŵr 1991). Ar hyn o bryd mae gan Waith Trin Dŵr Gwastraff Rhostir Cog gapasiti i dderbyn datblygiad newydd. Unwaith y bydd y llifoedd dŵr budr 'domestig' o'r dyraniad arfaethedig wedi'u cadarnhau bydd yn ofynnol cwblhau asesiad pellach i ganfod a oes capasiti'n bodoli.

Gan fod y datblygiad yn un mawr, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi dynodi y byddai asesiad dŵr wyneb yn ofynnol cyn datblygu. Cynghorir bod dŵr wyneb ffo yn cael ei reoli mor agos at y tarddiad â phosibl trwy ddull draenio cynaliadwy mewn perthynas â dŵr wyneb.

Er bod y Rhws yn cael ei wasanaethu'n dda gan drafnidiaeth gyhoeddus yn rhinwedd ei leoliad ar hyd priffordd a rheilffordd Bro Morgannwg, bydd y cynigion ar gyfer yr Hwb Trafnidiaeth yn gwella mynediad â thrafnidiaeth gyhoeddus. Hefyd, dan Bolisi SP7 (3) mae cynigion i wneud gwelliannau i'r A4226 rhwng Waycock Cross a Sycamore Cross, A48 (Five Mile Lane).
.

## MG9 (3), MG10, SP2 (2) Sain Tathan, Parc Busnes Awyrofod, (rhan o Ardal Fenter Sain Tathan – Maes Awyr Caerdydd)

### DEFNYDDIAU A DDYRENNIR: CYFLOGAETH AC ADDYSG

Mae'r safle'n cynnwys safle cyflogaeth strategol 305 ha gros, gydag ardal ddatblygadwy net o 208 ha ar gyfer hyfforddiant, addysg a rhagoriaeth mewn cyflogaeth, yn enwedig ar gyfer y sectorau milwrol ac awyrofod. Fe'i dyrennir er mwyn diwallu'r anghenion cyflogaeth rhanbarthol. Mae Llywodraeth Cymru, sy'n berchen arno, wedi dynodi'r safle'n Ardal Fenter ac mae wrthi ar hyn o bryd yn paratoi Fframwaith Datblygu Strategol i oleuo ei ddatblygiad yn y dyfodol.

Mae gan y safle hanes cynllunio helaeth ar gyfer defnyddiau milwrol, hyfforddiant a masnachol. Mae'r Cyngor wedi cymeradwyo cais Tystysgrif Datblygu Cyfreithlon (cyfeirier at gais 2016/00613/LAW) yn sied awyrennau fawr y Weinyddiaeth Amddiffyn sydd wedi'i lleoli o fewn y parc busnes awyrofod yn Sain Tathan, ar gyfer cynnig i ddefnyddio'r adeiladau i weithgynhyrchu a chydosod ceir modur (Dosbarth B2) gyda defnyddiau atodol ar gyfer storio/dosbarthu, swyddfeydd, derbynfa ac ardal arddangos, ffreutur staff a pharcio ar gyfer Aston Martin Lagonda Ltd. Roedd hyn yn dilyn y caniatâd blaenorol (2013/00576/FUL) ar gyfer defnyddiau B1, B2 a B8 yn y Sied Awyrennau Fawr.

Mae'r dirwedd leol o amgylch y safle'n cynnwys amrywiaeth o gynefinoedd gwledig gan gynnwys glaswelltiroedd, tir fferm, coetir a gwlypdir. Mae perthi brodorol aeddfed sylweddol sy'n ffinio â chaeau a ffyrdd yn nodweddiadol o'r ardal. Mae clystyrau preswyl bach wedi'u gwasgaru o amgylch y safle ac mae'r patrwm hwn o bentrefi, pentrefannau a daliadau fferm unigol gwasgaredig yn nodweddiadol o Fro Morgannwg. Mae safle'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn Sain Tathan yn wahanol i'r defnyddiau tir lleol o'i amgylch ac mae'n meddu ar gymeriad unigryw iawn yn y dirwedd leol gan fod y safle presennol eisoes yn cynnwys strwythurau milwrol helaeth ac, mewn rhai achosion, ar raddfa fawr.

Nid yw'r safle mewn Ardal Tirwedd Arbennig; fodd bynnag, mae Arfordir Treftadaeth Morgannwg ar bwys y ffin ddeheuol ac mae Ardal Tirwedd Arbennig Dyffryn Afon Ddawan Uchaf ac Isaf ar bwys y ffin ddwyreiniol.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi datgan bod y prif faterion ecolegol yn ymwneud â'r Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop ar y safle (y rhywogaethau hynny a restrir ar Atodlen 2 yn Rheoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol a.y.b.) 1994), yn arbennig madfallod dŵr cribog, ystlumod, dyfrgwn a phathewod. Mae angen rhoi ystyriaeth

hefyd i warchod a gwella'r cynefinoedd sy'n cynnal y rhywogaethau hyn. Felly bydd yn ofynnol cwblhau asesiad ecolegol ac ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru i ategu unrhyw gais cynllunio yn y dyfodol.

Mae Dŵr Cymru Welsh Water wedi hysbysu y gellir trefnu bod cyflenwad dŵr ar gael i wasanaethu'r llifoedd domestig o'r safle datblygu arfaethedig. Fodd bynnag, efallai y bydd prif bibellau helaeth oddi ar y safle'n ofynnol ar draul y datblygwr i wasanaethu'r safle. Felly gall fod yn ofynnol cwblhau asesiad i ddeall maint y prif bibellau oddi ar y safle a fydd yn ofynnol. Mae prif bibell ddŵr yn croesi'r safle, y bydd mesurau diogelu ar ffurf lled hawddfraint a/neu ddargyfeiriad yn ofynnol ar ei chyfer. Bydd yn ofynnol cwblhau asesiad modelu hydrolig o'r rhwydwaith carthffosiaeth cyhoeddus i bennu'r mannau lle gall y datblygiad gysylltu ac unrhyw welliannau sy'n ofynnol i'r rhwydwaith presennol i dderbyn y twf gan gynnwys maint y carthffosydd oddi ar y safle. Os bydd unrhyw gynnig yn ei gwneud yn ofynnol gwaredu carthffrwd fasnachol i mewn i'r garthffos gyhoeddus yna bydd yn ofynnol cael Cydsyniad yr ymgymerwr carthffosiaeth statudol (Adran 118 Deddf y Diwydiant Dŵr 1991). Mae'r safle'n croesi dau ddalgylch Gwaith Trin Dŵr Gwastraff ac felly bydd cryn dipyn yn ddibynnol ar y man cysylltu terfynol a maint y llifoedd i bob Gwaith Trin Dŵr Gwastraff. Unwaith y bydd y llifoedd dŵr budr 'domestig' o'r dyraniad arfaethedig wedi'u cadarnhau bydd yn ofynnol cwblhau asesiad pellach i ganfod a oes capasiti'n bodoli.

Mae tri chwrs dŵr o fewn y safle: Nant Trebefered i'r gorllewin, Nant y Stepsau i'r gogledd ddwyrain a ffrwd y Rhyl i'r de ddwyrain. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi hysbysu y gallai llifogydd effeithio ar y safle, ac mae rhai rhannau wedi'u henwi fel rhai sydd ym Mharth C1/C2 ar y Map Cyngor Datblygu. Bydd yn ofynnol i'r holl gynigion datblygu o fewn y dyraniad hwn ddangos eu bod yn cyd-fynd â pholisi cenedlaethol mewn perthynas â pherygl llifogydd a nodir yn TAN15. Rhaid cyflwyno Asesiad Canlyniadau Llifogydd safle-benodol/ Asesiad Canlyniadau Llifogydd safle-benodol wedi'i ddiweddaru os yw unrhyw ran o safle'r cais cynllunio mewn ardal y nodwyd ei bod yn wynebu perygl llifogydd.

Wrth nodi'r safle ar gyfer ei ddatblygu, mae'r Cyngor wedi ystyried maint yr ardaloedd ar y safle sydd ym mharth llifogydd C2 ac wedi lleihau'r ardal ddatblygadwy net ar y safle yn unol â hynny. Mae maint yr ardaloedd sydd ym mharth llifogydd C2 yn golygu y gellir cael mynediad i mewn i'r safle ac allan o'r safle y tu allan i ardaloedd sydd ym mharth llifogydd C2. Mae'r ardaloedd llifogydd wedi'u cynnwys o fewn ffiniau'r safle sy'n cynrychioli ffiniau ffisegol rhesymegol ar gyfer y safle, ond dim ond ar gyfer datblygiadau sy'n wynebu llai o fygythiad megis mannau agored amwynder y bydd yr ardaloedd hyn yn addas.

Mae gan y safle ardaloedd o ddiddordeb archeolegol gan gynnwys claddiadau o'r Oes Efydd, aneddiadau Rhufeinig a chanoloesol, yn anad dim Eglwys Brewis, Capel Bethesda'r Fro a Picketson House. Hefyd, o fewn ystâd bresennol Sain Tathan mae cyfres o elfennau archeolegol o bwysigrwydd o'r Ail Ryfel Byd gan gynnwys Ceyrydd Pickett-Hamiltons, Caerau Tanddaearol, Cadlysoedd a Llochesau Cyrch Awyr.

## MG9 (4) Ystâd Fasnachu'r Iwerydd

### DEFNYDDIAU A DDYRENNIR - B1, B2, B8

Mae'r dyraniad yn cynnwys pum safle mewn amlberchnogaeth, a'r rheiny wedi'u lleoli i'r de o Ddoc Rhif 2 yn y Barri, ac yn ymestyn dros gyfanswm o 9.14 Ha, a'r prif dirfeddianwyr yw Associated British Ports ac LJ Developments.

Dylai datblygu'r safle yn y dyfodol fod yn amodol ar ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru o ystyried agosrwydd y safle at ddynodiadau amgylcheddol ac adnoddau dŵr lleol, e.e. Ardal Cadwraeth Arbennig ac Ardal Gwarchodaeth Arbennig Aber Afon Hafren, prif ddyfrhaen dŵr daear, Afon Tregatwg, Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, parthau llifogydd hysbys.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi hysbysu y gallai llifogydd effeithio ar y safle, ac mae rhai rhannau wedi'u henwi fel rhai sydd ym Mharth C1/C2 ar y Map Cyngor Datblygu. Bydd yn ofynnol i'r holl gynigion datblygu o

fewn y dyraniad hwn ddangos eu bod yn cyd-fynd â pholisi cenedlaethol mewn perthynas â pherygl llifogydd a nodir yn TAN15. Rhaid cyflwyno Asesiad Canlyniadau Llifogydd safle-benodol/ Asesiad Canlyniadau Llifogydd safle-benodol wedi'i ddiweddaru os yw unrhyw ran o safle'r cais cynllunio mewn ardal y nodwyd ei bod yn wynebu perygl llifogydd. Yn arbennig, mae lleiniau B ac C i'r de orllewin o'r dyraniad yn gorwedd ym mharth llifogydd C2 lle na fydd cynigion ar gyfer datblygiadau diwydiannol sy'n agored iawn i fygythiadau megis pwerdai, gweithfeydd cemegol, llosgyddion a safleoedd gwaredu gwastraff yn briodol yn unol â pholisi cenedlaethol sydd wedi'i gynnwys yn TAN 15. Gellir ystyried bod cynigion ar gyfer datblygiadau diwydiannol cyffredinol, cyflogaeth a seilwaith cyfleustodau neu ddatblygiadau diwydiannol eraill sy'n debyg o ran natur ac yn perthyn i'r categori datblygiadau llai agored i fygythiadau yn dderbyniol yn amodol ar gymhwyso'r prawf cyfiawnhau yn TAN 15, gan gynnwys derbynioldeb canlyniadau.

Wrth nodi'r safle ar gyfer ei ddatblygu, mae'r Cyngor wedi ystyried maint yr ardaloedd ar y safle sydd ym mharth llifogydd C2 ac wedi lleihau'r ardal ddatblygadwy net ar y safle yn unol â hynny. Mae maint yr ardaloedd sydd ym mharth llifogydd C2 yn golygu y gellir cael mynediad i mewn i'r safle ac allan o'r safle y tu allan i ardaloedd sydd ym mharth llifogydd C2. Mae'r ardaloedd llifogydd wedi'u cynnwys o fewn ffiniau'r safle sy'n cynrychioli ffiniau ffisegol rhesymegol ar gyfer y safle, ond dim ond ar gyfer datblygiadau sy'n wynebu llai o fygythiad megis mannau agored amwynder y bydd yr ardaloedd hyn yn addas.

Mae Dŵr Cymru Welsh Water wedi hysbysu y gellir trefnu bod cyflenwad dŵr ar gael i wasanaethu'r llifoedd domestig o'r safle datblygu arfaethedig. Fodd bynnag, gall fod yn ofynnol i'r datblygwr gyfrannu dan Adrannau 40-41 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 tuag at ddarparu prif bibell ddŵr a seilwaith cysylltiedig newydd ar a/neu oddi ar y safle. Bydd yn ofynnol cwblhau asesiad modelu hydrolig o'r rhwydwaith carthffosiaeth gyhoeddus i bennu'r mannau lle gall y datblygiad gysylltu ac unrhyw welliannau sy'n ofynnol i'r rhwydwaith presennol i dderbyn y twf gan gynnwys maint y carthffosydd oddi ar y safle. Os bydd unrhyw gynnig yn ei gwneud yn ofynnol gwaredu carthffrwd fasnachol i mewn i'r garthffos gyhoeddus yna bydd yn ofynnol cael Cydsyniad yr ymgymerwr carthffosiaeth statudol (Adran 118 Deddf y Diwydiant Dŵr 1991). Unwaith y bydd y llifoedd dŵr budr domestig o'r dyraniad arfaethedig wedi'u cadarnhau bydd yn ofynnol cwblhau asesiad pellach i ganfod a oes capasiti'n bodoli.

Mae Ymddiriedolaeth Archeolegol Morgannwg Gwent wedi hysbysu bod rhan o'r ardal a ddyrennir yn cynnwys adnodd archeolegol arwyddocaol ac y bydd yn ofynnol cwblhau gwerthusiad archeolegol o'r safle cyn ei ddatblygu yn y dyfodol.

Mae'n hysbys bod problemau lleol gyda'r cyflenwad trydan yn bodoli ar draws y safle.

## MG9 (5) Tir Ffordd y Mileniwm

### DEFNYDDIAU A DDYRENNIR - B1, B2, B8

Mae'r safle tir llwyd preifat 8.9 hectar hwn yn gorwedd ar bwys Ffordd y Mileniwm, y brif fynedfa o'r dwyrain i ardal strategol bwysig, sef Ardal Ailddatblygu Glannau'r Barri. Mae natur amlwg y safle porth yn golygu ei bod yn ofynnol i gynigion datblygu yn y dyfodol roi ystyriaeth lawn i effaith weledol datblygiadau ar Ardal Ailddatblygu'r Glannau, a bod yn destun brif datblygu.

Mae'r safle'n gorwedd o fewn 250 metr i hen safle tirlenwi ac effeithir arno gan barthau llifogydd hysbys neu mae'n agos iawn atynt. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi hysbysu y gallai llifogydd effeithio ar y safle, ac mae rhai rhannau wedi'u henwi fel rhai sydd ym Mharth C1/C2 ar y Map Cyngor Datblygu. Bydd yn ofynnol i'r holl gynigion datblygu o fewn y dyraniad hwn ddangos eu bod yn cyd-fynd â pholisi cenedlaethol mewn perthynas â pherygl llifogydd a nodir yn TAN15. Gallai dŵr wyneb ffo gael ei waredu'n uniongyrchol i Ddoc Rhif 2 ac argymhellir bod unrhyw ddarpar ddatblygwr yn trafod y posibilrwydd hwn gyda gweithredydd y Doc, Associated British Ports.

Wrth nodi'r safle ar gyfer ei ddatblygu, mae'r Cyngor wedi ystyried maint yr ardaloedd ar y safle sydd ym mharth llifogydd C2 ac wedi lleihau'r ardal ddatblygadwy net ar y safle yn unol â hynny. Mae maint yr ardaloedd sydd ym mharth llifogydd C2 yn golygu y gellir cael mynediad i mewn i'r safle ac allan o'r safle y tu allan i ardaloedd sydd ym mharth llifogydd C2. Mae'r ardaloedd llifogydd wedi'u cynnwys o fewn ffiniau'r safle sy'n cynrychioli ffiniau ffisegol rhesymegol ar gyfer y safle, ond dim ond ar gyfer datblygiadau sy'n wynebu llai o fygythiad megis mannau agored amwynder y bydd yr ardaloedd hyn yn addas.

Mae Dŵr Cymru Welsh Water wedi hysbysu y gellir trefnu bod cyflenwad dŵr ar gael i wasanaethu'r llifoedd domestig o'r safle datblygu arfaethedig. Bydd yn ofynnol cwblhau asesiad modelu hydrolig o'r rhwydwaith carthffosiaeth cyhoeddus i bennu'r mannau lle gall y datblygiad gysylltu ac unrhyw welliannau sy'n ofynnol i'r rhwydwaith presennol i dderbyn y twf gan gynnwys maint y carthffosydd oddi ar y safle. Os bydd unrhyw gynnig yn ei gwneud yn ofynnol gwaredu carthffrwd fasnachol i mewn i'r garthffos gyhoeddus yna bydd yn ofynnol cael Cydsyniad yr ymgymerwr carthffosiaeth statudol (Adran 118 Deddf y Diwydiant Dŵr 1991). Unwaith y bydd y llifoedd dŵr budr domestig o'r dyraniad arfaethedig wedi'u cadarnhau bydd yn ofynnol cwblhau asesiad pellach i ganfod a oes capasiti'n bodoli.

Mae Ymddiriedolaeth Archeolegol Morgannwg Gwent wedi hysbysu bod adnoddau archeolegol wedi'u cynnwys yn yr ardal ac y bydd yn ofynnol cwblhau gwerthusiad archeolegol a allai gyfyngu ar yr ardal sydd ar gael i'w datblygu.

## MG9 (6) Hayes Lane, Y Barri

### DEFNYDDIAU A DDYRENNIR - B1, B8

Mae'r safle diwydiannol preifat gwag yma'n ymestyn i 1.4 hectar ac mae wedi'i leoli ar bwys Hayes Lane yn agos at Ystâd Fasnachu'r Iwerydd (MG9 (4)).

Mae'r safle wedi'i leoli o fewn 250 metr i hen safle tirlenwi a dylid ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru ynghylch cynigion datblygu yn y dyfodol.

Mae Dŵr Cymru Welsh Water wedi hysbysu y gellir trefnu bod cyflenwad dŵr ar gael i wasanaethu'r llifoedd domestig o'r safle datblygu arfaethedig. Bydd yn ofynnol cwblhau asesiad modelu hydrolig o'r rhwydwaith carthffosiaeth gyhoeddus i bennu'r mannau lle gall y datblygiad gysylltu ac unrhyw welliannau sy'n ofynnol i'r rhwydwaith presennol i dderbyn y twf gan gynnwys maint y carthffosydd oddi ar y safle. Os bydd unrhyw gynnig yn ei gwneud yn ofynnol gwaredu carthffrwd fasnachol i mewn i'r garthffos gyhoeddus yna bydd yn ofynnol cael Cydsyniad yr ymgymerwr carthffosiaeth statudol (Adran 118 Deddf y Diwydiant Dŵr 1991). Unwaith y bydd y llifoedd dŵr budr domestig o'r dyraniad arfaethedig wedi'u cadarnhau bydd yn ofynnol cwblhau asesiad pellach i ganfod a oes capasiti'n bodoli.

Mae'r safle wedi cael caniatâd cynllunio'n flaenorol ar gyfer depo bysiau / coetsis (gweler cais 2003/01394/FUL) a Depo Trosglwyddo Rheoli Gwastraff (gweler cais 2004/01505/FUL).

## MG9 (7) Hayes Road, Sili

### DEFNYDDIAU A DDYRENNIR - B1, B8

Mae'r safle tir llwyd 7.5 hectar preifat yma wedi'i leoli rhwng Hayes Road a'r arfordir. Dyrennir y safle ar gyfer defnyddiau B1 a B8 i sicrhau na fyddai cynigion cyflogaeth yn y dyfodol yn peryglu defnyddiau preswyl presennol sydd wedi'u lleoli i'r gorllewin o'r safle.

Cafodd y safle'i ddefnyddio'n flaenorol fel cyfleuster storio gan y Weinyddiaeth Amddiffyn ac os cynigir gwaith i baratoi'r tir mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi hysbysu y bydd Asesiad Risg Rhagarweiniol yn ofynnol cyn datblygu er mwyn asesu'r risg posibl o halogi o ganlyniad i dirlenwi hanesyddol.

Mae gan y safle gapasiti cyfyngedig ar gyfer draenio dŵr wyneb ac mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi hysbysu y gallai llifogydd effeithio ar y safle, ac mae rhai rhannau wedi'u henwi fel rhai sydd ym Mharth C1/C2 ar y Map Cyngor Datblygu. Bydd yn ofynnol i'r holl gynigion datblygu o fewn y dyraniad hwn ddangos eu bod yn cyd-fynd â pholisi cenedlaethol mewn perthynas â pherygl llifogydd a nodir yn TAN15. Rhaid cyflwyno Asesiad Canlyniadau Llifogydd safle-benodol/ Asesiad Canlyniadau Llifogydd safle-benodol wedi'i ddiweddaru os yw unrhyw ran o safle'r cais cynllunio mewn ardal y nodwyd ei bod yn wynebu perygl llifogydd.

Wrth nodi'r safle ar gyfer ei ddatblygu, mae'r Cyngor wedi ystyried maint yr ardaloedd ar y safle sydd ym mharth llifogydd C2 ac wedi lleihau'r ardal ddatblygadwy net ar y safle yn unol â hynny. Mae maint yr ardaloedd sydd ym mharth llifogydd C2 yn golygu y gellir cael mynediad i mewn i'r safle ac allan o'r safle y tu allan i ardaloedd sydd ym mharth llifogydd C2. Mae'r ardaloedd llifogydd wedi'u cynnwys o fewn ffiniau'r safle sy'n cynrychioli ffiniau ffisegol rhesymegol ar gyfer y safle, ond dim ond ar gyfer datblygiadau sy'n wynebu llai o fygythiad megis mannau agored amwynder y bydd yr ardaloedd hyn yn addas.

Gan fod y safle a ddyrennir yn gorwedd yn rhannol ym mharth llifogydd C2, ni fydd cynigion ar gyfer datblygiadau diwydiannol sy'n agored iawn i fygythiadau megis pwerdai, gweithfeydd cemegol, llosgyddion a safleoedd gwaredu gwastraff yn briodol yn unol â pholisi cenedlaethol sydd wedi'i gynnwys yn TAN 15. Gellir ystyried bod cynigion ar gyfer datblygiadau diwydiannol cyffredinol, cyflogaeth a seilwaith cyfleustodau neu ddatblygiadau diwydiannol eraill sy'n debyg o ran natur ac yn perthyn i'r categori datblygiadau llai agored i fygythiadau yn dderbyniol yn amodol ar gymhwyso'r prawf cyfiawnhau yn TAN 15, gan gynnwys derbynioldeb canlyniadau.

Mae Dŵr Cymru Welsh Water wedi hysbysu y gellir trefnu bod cyflenwad dŵr ar gael i wasanaethu'r llifoedd domestig o'r safle datblygu arfaethedig. Bydd yn ofynnol cwblhau asesiad modelu hydrolig o'r rhwydwaith carthffosiaeth cyhoeddus i bennu'r mannau lle gall y datblygiad gysylltu ac unrhyw welliannau sy'n ofynnol i'r rhwydwaith presennol i dderbyn y twf gan gynnwys maint y carthffosydd oddi ar y safle. Os bydd unrhyw gynnig yn ei gwneud yn ofynnol gwaredu carthffrwd fasnachol i mewn i'r garthffos gyhoeddus yna bydd yn ofynnol cael Cydsyniad yr ymgymerwr carthffosiaeth statudol (Adran 118 Deddf y Diwydiant Dŵr 1991). Unwaith y bydd y llifoedd dŵr budr domestig o'r dyraniad arfaethedig wedi'u cadarnhau bydd yn ofynnol cwblhau asesiad pellach i ganfod a oes capasiti'n bodoli.

Mae'r safle'n agos iawn at Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Hayes Point i Bendricks Rock a bydd yn ofynnol ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru i sicrhau na cheir effaith anffafriol ar y dynodiad hwn.

## MG9 (8) Hayes Wood, Y Barri

### DEFNYDDIAU A DDYRENNIR - B1, B8

Mae'r safle tir llwyd 1.9 hectar hwn yn eiddo i Lywodraeth Cymru ac mae wedi'i leoli i'r dwyrain o Hayes Lane yn agos iawn at ddyraniadau cyflogaeth Hayes Lane (MG9 (6)) ac Ystâd Fasnachu'r Iwerydd (MG9 (4)), a chyferbyn â dyraniad preswyl dan Bolisi MG2 (16) Hayes Wood.

Mae'r safle'n cael ei wasanaethu i raddau helaeth a gellir darparu mynediad yn rhwydd o'r rhwydwaith priffyrdd lleol sydd heb ei fabwysiadu.

Mae Dŵr Cymru Welsh Water wedi hysbysu y gellir trefnu bod cyflenwad dŵr ar gael i wasanaethu'r llifoedd domestig o'r safle datblygu arfaethedig. Bydd yn ofynnol cwblhau asesiad modelu hydrolig o'r rhwydwaith carthffosiaeth gyhoeddus i bennu'r mannau lle gall y datblygiad gysylltu ac unrhyw welliannau sy'n ofynnol i'r rhwydwaith presennol i dderbyn y twf gan gynnwys maint y carthffosydd oddi ar y safle. Os bydd unrhyw gynnig yn ei gwneud yn ofynnol gwaredu carthffrwd fasnachol i mewn i'r garthffos gyhoeddus yna bydd yn ofynnol cael Cydsyniad yr ymgymerwr carthffosiaeth statudol (Adran 118 Deddf

y Diwydiant Dŵr 1991). Unwaith y bydd y llifoedd dŵr budr domestig o'r dyraniad arfaethedig wedi'u cadarnhau bydd yn ofynnol cwblhau asesiad pellach i ganfod a oes capasiti'n bodoli. Mae'r safle'n agos at ardal o goetir hynafol a lled naturiol a Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Hayes Point i Bendricks Rock ac felly argymhellir y dylid ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru ynghylch cynigion datblygu yn y dyfodol a allai effeithio ar y dynodiadau hyn. Ni fydd defnyddiau dosbarth B2 yn dderbyniol oherwydd y gwrthdaro posibl gydag anheddau presennol ac arfaethedig

## MG9 (9) Ystâd Ddiwydiannol Llandŵ

### DEFNYDDIAU A DDYRENNIR - B1, B2, B8

Mae'r safle tir llwyd 6.8 hectar preifat hwn wedi'i leoli ar ymyl orllewinol hen faes awyr Llandŵ. Mae'r safle'n gorwedd yn union i'r gogledd o ddefnyddiau cyflogaeth presennol a nodweddir gan ddiwydiant cyffredinol gradd isel.

Mae'n hanfodol ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru ynghylch cynigion datblygu yn y dyfodol gan fod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi dweud ei bod yn hysbys bod rhan fawr o'r safle'n draenio i ddyfrhaen calchfaen carbonifferaidd y mae dŵr daear yn cael ei echdynnu ohoni. Felly er bod defnyddiau derbyniol yn cynnwys B1, B2 a B8, gall Cyfoeth Naturiol Cymru osod cyfyngiadau ar rai datblygiadau mewn perthynas â rheoli llygredd a storio deunyddiau.

Os cynigir gwaith i baratoi'r tir mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi hysbysu y bydd Asesiad Risg Rhagarweiniol yn ofynnol cyn datblygu er mwyn asesu'r risg posibl o halogi o ganlyniad i dirlenwi hanesyddol, gan ei bod yn hysbys bod y safle'n gorwedd o fewn 250 metr o hen safle tirlenwi. Os nad yw draenio ar ffurf trylifo'n ddichonadwy, efallai y bydd yn ofynnol gwanhau dŵr wyneb gyda llifoedd yn cael eu cyfyngu i gyfradd gollwng a fydd yn cael ei chytuno.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymwybodol bod rhywogaeth a warchodir gan Ewrop wedi cael ei chofnodi yn agos at y safle a bydd yn ofynnol cwblhau asesiad ecolegol ac ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru i ategu unrhyw gais cynllunio yn y dyfodol.

Mae Ymddiriedolaeth Archeolegol Morgannwg Gwent wedi hysbysu bod yr ardal yn cynnwys adnoddau archeolegol ac y gall fod yn ofynnol cwblhau gwerthusiad archeolegol hefyd cyn datblygu yn y dyfodol.

Mae Dŵr Cymru Welsh Water wedi hysbysu y gellir trefnu bod cyflenwad dŵr ar gael i wasanaethu'r llifoedd domestig o'r safle datblygu arfaethedig. Mae prif bibell ddŵr yn croesi'r safle datblygu arfaethedig, ac efallai bydd mesurau diogelu ar ffurf hawddfraint a/neu ddargyfeiriad yn ofynnol. Nid oes carthffos gyhoeddus yn yr ardal hon ac ar gyfer unrhyw ddatblygiad newydd bydd yn ofynnol darparu cyfleusterau eraill boddhaol i waredu carthion.

## MG9 (10) Parc Busnes y Fro, Llandŵ

### DEFNYDDIAU A DDYRENNIR - B1, B2, B8

Mae'r safle preifat 12.40 hectar hwn yn cynnwys dwy elfen (10.8 ha ac 1.6 ha) sydd wedi'u lleoli yn rhan ogleddol hen faes awyr Llandŵ ac y ceir mynediad iddynt o'r B4279.

Mae Parc Busnes y Fro, a adwaenid yn flaenorol fel Ystâd Ddiwydiannol Llandŵ, wedi bod yn ffocws ar gyfer cryn dipyn o fuddsoddi yn ddiweddar ac mae bellach yn gartref i ystod eang o fentrau diwydiannol a busnes.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi dweud ei bod yn hysbys bod rhan o'r safle(oedd) yn draenio i ddyfrhaen calchfaen carbonifferaidd y mae dŵr daear yn cael ei echdynnu ohoni ac felly mae'n bosibl y bydd

cyfyngiadau'n cael eu gosod ar rai defnyddiau. Felly bydd yn ofynnol ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru ynghylch unrhyw gynigion datblygu yn y dyfodol.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymwybodol bod rhywogaeth a warchodir gan Ewrop wedi cael ei chofnodi yn agos at y safle a bydd yn ofynnol cwblhau asesiad ecolegol i ategu unrhyw gais cynllunio yn y dyfodol.

Mae Dŵr Cymru Welsh Water wedi hysbysu y gellir trefnu bod cyflenwad dŵr ar gael i wasanaethu'r llifoedd domestig o'r safle datblygu arfaethedig. Nid oes carthffos gyhoeddus yn yr ardal hon ac ar gyfer unrhyw ddatblygiad newydd bydd yn ofynnol darparu cyfleusterau eraill boddhaol i waredu carthion.

Ar gyfer datblygiad yn y rhan fwy o'r dyraniad gall fod yn ofynnol gwneud gwelliannau i'r briffordd leol er mwyn hwyluso trefniadau mynediad gwell.

Mae Ymddiriedolaeth Archeolegol Morgannwg Gwent wedi hysbysu y bydd yn ofynnol cwblhau Gwerthusiad Archeolegol wrth benderfynu ynghylch unrhyw gais cynllunio ar gyfer datblygu.

## MG9 (11) Tir i'r De o Gyffordd 34 yr M4 Hensol

### DEFNYDDIAU A DDYRENNIR - B1, B2

Mae'r safle 6.64 hectar hwn yn rhan o safle 55.16 hectar ehangach (cyfeirier at Bolisïau MG9 (1) ac MG11), sydd wedi'i leoli'n agos at draffordd yr M4 yng ngogledd Bro Morgannwg. Mae cyfyngiadau niferus ar y safle gan gynnwys Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, Ardal Tirwedd Arbennig ac ardaloedd eraill o werth ecolegol uchel gan gynnwys Gorchmynion Diogelu Coed, ardaloedd o berygl llifogydd a chapasiti cyfyngedig i ddraenio dŵr wyneb. Felly bydd y Cyngor yn ceisio mesurau lliniaru a rheoli priodol ar gyfer yr ardaloedd hyn mewn unrhyw gynigion datblygu pellach ar gyfer y safle ac felly bydd yn ofynnol ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru ac ecolegydd y Cyngor. Cafodd Asesiad Canlyniadau Llifogydd ei baratoi ar gyfer y safle yn 2011 mewn perthynas â'r caniatâd cynllunio amlinellol a roddwyd ym mis Mehefin 2016. Felly rhaid cyflwyno Asesiad Canlyniadau Llifogydd safle-benodol ar gyfer unrhyw geisiadau cynllunio diwygiedig yw unrhyw ran o safle'r cais cynllunio mewn ardal y nodwyd ei bod yn wynebu perygl llifogydd.

Wrth nodi'r safle ar gyfer ei ddatblygu, mae'r Cyngor wedi ystyried maint yr ardaloedd ar y safle sydd ym mharth llifogydd C2 ac wedi lleihau'r ardal ddatblygadwy net ar y safle yn unol â hynny. Mae maint yr ardaloedd sydd ym mharth llifogydd C2 yn golygu y gellir cael mynediad i mewn i'r safle ac allan o'r safle y tu allan i ardaloedd sydd ym mharth llifogydd C2. Mae'r ardaloedd llifogydd wedi'u cynnwys o fewn ffiniau'r safle sy'n cynrychioli ffiniau ffisegol rhesymegol ar gyfer y safle, ond dim ond ar gyfer datblygiadau sy'n wynebu llai o fygythiad megis mannau agored amwynder y bydd yr ardaloedd hyn yn addas.


Dyrennir y safle ar gyfer parc busnes B1/B2 i ddiwallu anghenion cyflogaeth leol a dylid ei ddatblygu ar y cyd â chynigion ar gyfer y safle strategol mwy. O ystyried lleoliad y safle a natur cynigion datblygu yn y dyfodol, bydd yn ofynnol paratoi cynllun teithio ar gyfer y safle i ategu unrhyw gais cynllunio yn y dyfodol.

# ATODIAD 5 : Canol Trefi a Chanolfannau Ardal: Prif Ffryntiadau Siopau a Ffryntiadau Siopau Eilaidd


- Dynodiadau Ffiniau a Ffryntiadau Manwerthu Ardal High Street / Broad Street yn y Barri
- Dynodiadau Ffiniau a Ffryntiadau Manwerthu Ardal Holton Road yn y Barri
- Dynodiadau Ffiniau a Ffryntiadau Manwerthu Ardal y Bont-faen
- Dynodiadau Ffiniau a Ffryntiadau Manwerthu Ardal Llanilltud Fawr
- Dynodiadau Ffiniau a Ffryntiadau Manwerthu Ardal Penarth

## Canol Trefi a Chanolfannau Ardal: Prif Ffryntiadau Siopau a Ffryntiadau Siopau Eilaidd

Dynodiadau Ffiniau a Ffryntiadau Manwerthu Ardal High Street / Broad Street yn y Barri




Dynodiadau Ffiniau a Ffryntiadau Manwerthu Ardal Holton Road yn y Barri




## Canol Trefi a Chanolfannau Ardal: Prif Ffryntiadau Siopau a Ffryntiadau Siopau Eilaidd

Dynodiadau Ffiniau a Ffryntiadau Manwerthu Ardal y Bont-faen




Dynodiadau Ffiniau a Ffryntiadau Manwerthu Ardal Llanilltud Fawr



## Canol Trefi a Chanolfannau Ardal: Prif Ffryntiadau Siopau a Ffryntiadau Siopau Eilaidd

Dynodiadau Ffiniau a Ffryntiadau Manwerthu Ardal Penarth



# ATODIAD 6 : Ffiniau Canolfannau Manwerthu Lleol a Chymdogaeth:

## Ffiniau Canolfannau Manwerthu Lleol a Chymdogaeth: Canolfannau Lleol

- Barry Road, Tregatwg, Y Barri
- Main Street, Tregatwg, Y Barri
- Park Crescent, Y Barri
- Rhan Uchaf Holton Road, Y Barri
- Vere Street, Tregatwg
- Cardiff Road, Dinas Powys
- Pentref Dinas Powys
- Cornerswell Road, Penarth
- Sain Tathan, The Square
- Y Rhws, Fontygary Road

## Ffiniau Canolfannau Manwerthu Lleol a Chymdogaeth: Canolfannau Cymdogaeth

- Bron y Môr, Y Barri
- Canolfan Cwm Talwg, Y Barri
- Canolfan Gibbonsdown, Y Barri
- Park Road, Y Barri
- Trebefered
- Camm's Corner, Dinas Powys
- Castle Court / The Parade, Dinas Powys
- Crawshay Drive, Llanilltud Fawr
- Pill Street, Penarth
- Tennyson Road, Penarth
- Adenfield Way, Fontygari, Y Rhws


## Ffiniau Canolfannau Manwerthu Lleol a Chymdogaeth: Canolfannau Lleol

### Barry Road, Tregatwg, Y Barri




© Crown copyright and database rights 2017 Ordnance Survey 100023424
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2017 Arolwg Ordnans 100023424


### Main Street, Tregatwg, Y Barri




© Crown copyright and database rights 2017 Ordnance Survey 100023424
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2017 Arolwg Ordnans 100023424

## Ffiniau Canolfannau Manwerthu Lleol a Chymdogaeth: Canolfannau Lleol

### Park Crescent, Y Barri





© Crown copyright and database rights 2017 Ordnance Survey 100023424

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2017 Arolwg Ordnans 100023424


### Rhan Uchaf Holton Road, Y Barri





© Crown copyright and database rights 2017 Ordnance Survey 100023424

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2017 Arolwg Ordnans 100023424


## Ffiniau Canolfannau Manwerthu Lleol a Chymdogaeth: Canolfannau Lleol

### Vere Street, Tregatwg




© Crown copyright and database rights 2017 Ordnance Survey 100023424
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2017 Arolwg Ordnans 100023424


### Cardiff Road, Dinas Powys




© Crown copyright and database rights 2017 Ordnance Survey 100023424
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2017 Arolwg Ordnans 100023424

## Ffiniau Canolfannau Manwerthu Lleol a Chymdogaeth: Canolfannau Lleol

### Pentref Dinas Powys




© Crown copyright and database rights 2017 Ordnance Survey 100023424
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2017 Arolwg Ordnans 100023424


### Cornerswell Road, Penarth




© Crown copyright and database rights 2017 Ordnance Survey 100023424
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2017 Arolwg Ordnans 100023424

## Ffiniau Canolfannau Manwerthu Lleol a Chymdogaeth: Canolfannau Lleol

### Sain Tathan, The Square




© Crown copyright and database rights 2017 Ordnance Survey 100023424

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2017 Arolwg Ordnans 100023424

### Y Rhws, Fontygary Road





© Crown copyright and database rights 2017 Ordnance Survey 100023424

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2017 Arolwg Ordnans 100023424

## Ffiniau Canolfannau Manwerthu Lleol a Chymdogaeth: Canolfannau Cymdogaeth


### Bron y Môr, Y Barri




© Crown copyright and database rights 2017 Ordnance Survey 100023424

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2017 Arolwg Ordnans 100023424

### Canolfan Cwm Talwg, Y Barri





© Crown copyright and database rights 2017 Ordnance Survey 100023424

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2017 Arolwg Ordnans 100023424


## Ffiniau Canolfannau Manwerthu Lleol a Chymdogaeth: Canolfannau Cymdogaeth

### Canolfan Gibbonsdown, Y Barri




© Crown copyright and database rights 2017 Ordnance Survey 100023424
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2017 Arolwg Ordnans 100023424


### Park Road, Y Barri




© Crown copyright and database rights 2017 Ordnance Survey 100023424
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2017 Arolwg Ordnans 100023424

## Ffiniau Canolfannau Manwerthu Lleol a Chymdogaeth: Canolfannau Cymdogaeth


### Trebefered




© Crown copyright and database rights 2017 Ordnance Survey 100023424

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2017 Arolwg Ordnans 100023424

### Camm's Corner, Dinas Powys





© Crown copyright and database rights 2017 Ordnance Survey 100023424

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2017 Arolwg Ordnans 100023424


## Ffiniau Canolfannau Manwerthu Lleol a Chymdogaeth: Canolfannau Cymdogaeth

### Castle Court / The Parade, Dinas Powys





© Crown copyright and database rights 2017 Ordnance Survey 100023424
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2017 Arolwg Ordnans 100023424

### Crawshay Drive, Llanilltud Fawr




© Crown copyright and database rights 2017 Ordnance Survey 100023424
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2017 Arolwg Ordnans 100023424

Pill Street, Penarth




© Crown copyright and database rights 2017 Ordnance Survey 100023424
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2017 Arolwg Ordnans 100023424


Tennyson Road, Penarth




© Crown copyright and database rights 2017 Ordnance Survey 100023424
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2017 Arolwg Ordnans 100023424

Ffiniau Canolfannau Manwerthu Lleol a Chymdogaeth: Canolfannau Cymdogaeth

Adenfield Way, Fontygari, Y Rhws




© Crown copyright and database rights 2017 Ordnance Survey 100023424

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2017 Arolwg Ordnans 100023424

# ATODIAD 7 : Safleoedd o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur

| Rhif y Safle o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur | Enw'r Safle o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur | Rhif y Safle o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur | Enw'r Safle o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur |
|---|---|---|---|
| 1 | Craig Tan-y-Lan | 35 | Tir i'r Gogledd Ddwyrain o Newland |
| 2 | I'r De o Dyla Gwyn | 36 | Tir i'r Gorllewin o Langan |
| 3 | Cae Coed | 37 | Tir i'r Gogledd o Langan |
| 4 | I'r Gogledd o Gae Coed | 38 | Coed Mansel |
| 5 | Ffynnon y Dera | 39 | Tir i'r Dwyrain o Goed Pant- Llywydd |
| 6 | Penymynydd | 40 | Coed y Graig |
| 7 | Fferm Ruthin Fach | 41 | Pwll Readers Way |
| 8 | Coed Mawr | 42 | Coed y Stanby |
| 9 | Tir i'r Dwyrain o Fynydd Ruthin | 43 | Ham Wood |
| 10 | Mynydd Ruthin | 44 | Tir i'r Gogledd Orllewin o'r Hen Felin |
| 11 | Tir i'r De o Fynydd Ruthin | 45 | Pwll Pysgod Penllyn |
| 12 | I'r Gogledd Orllewin o Fferm Pant-y-Lliwydd | 46 | Coed Llansanwyr |
| 13 | Coed Breigam | 47 | Coed y Graig |
| 14 | Coed y Brynau | 48 | I'r De Orllewin o King Coed |
| 15 | Pwll Gladstone Road | 49 | Coed Pen-Cyrn |
| 16 | Pwll i'r Gogledd o Gae-Rhys-Ddu | 50 | Mynydd y Fforest |
| 17 | Coed Pant-Llywydd | 51 | Gogledd Ystradowen |
| 18 | Tir i'r Dwyrain o Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llansanwyr a Llanhari | 52 | Yr Hen Chwarel, Heol y Bont-faen |
| 19 | Tir i'r Dwyrain o Fferm Tynytrach | 53 | Coed Wern-Fawr |
| 20 | I'r De o Chwarel Forest Wood | 54 | Coed Cattwg-Glas |
| 21 | Fferm Fforest Fach | 55 | Pwll Llwyn-yoy |
| 22 | Tir i'r Gorllewin o Fferm Llanfarach | 56 | Coed Llwyn-Rhyddid |
| 23 | Tir i'r De Orllewin o Fferm Llanfarach | 57 | I'r De Ddwyrain o Fythynnod Llwyn-Rhyddid |
| 24 | Tir rhwng yr M4 a'r Ystâd Ddiwydiannol | 58 | I'r Gogledd o Goed Leision |
| 25 | Tir i'r De o Fferm Llanfarach | 59 | I'r Gorllewin o Stablau Newydd |
| 26 | Tir i'r Gorllewin o Fferm Tŷ Newydd | 60 | Tir ger Coed Pen-Brych |
| 27 | I'r gogledd o Wern-y-Gedrych | 61 | I'r Gorllewin o Fferm Clawdd-Coch |
| 28 | King's Wood | 62 | Coed Waunn-Lloff |
| 29 | Long Wood | 63 | I'r De Orllewin o Gastell Bach |
| 30 | I'r De o Long Wood | 64 | Tir ger Melin Hensol |
| 31 | I'r Gogledd o Gorntwn | 65 | Tir i'r De o Hafod Y Wennol |
| 32 | Cottage Wood | 66 | Tir i'r Gorllewin o Felin Hensol |
| 33 | Tir i'r De o Moor Mill | 67 | Hafod Y Wennol |
| 34 | I'r Gogledd Orllewin o Court Farm | 68 | Llyn Hensol |

# Atodiadau

| Rhif y Safle o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur | Enw'r Safle o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur | Rhif y Safle o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur | Enw'r Safle o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur |
|---|---|---|---|
| 69 | Pyllau'r Felin | 108 | Tir yn Nhrerhyngyll |
| 70 | Coed Fros-Ceibr | 109 | Gogledd Caercady |
| 71 | I'r De Orllewin o Ddyffryn Bach | 110 | De Caercady |
| 72 | I'r Gogledd Orllewin o Fferm Dyffryn Mawr | 111 | I'r Gorllewin o Dŷ Mynydd |
| 73 | Coed Cadw | 112 | I'r Gogledd o Landdunwyd |
| 74 | I'r Gogledd o Rostir Pendeulwyn | 113 | Tir i'r Gogledd o Dŷ'r Mynydd |
| 75 | Tir ger Gwern y Gae Isaf | 114 | Tir ar bwys Tŷ'r Mynydd |
| 76 | Tir i'r Gogledd o Brooklands Farm | 115 | I'r Dwyrain o Benfford |
| 77 | I'r Gorllewin o Markswood | 116 | Tir i'r Gorllewin o Goed Hensol |
| 78 | Tir i'r De o Oakfield | 117 | Tir ar bwys Forester's House |
| 79 | Tir i'r De o Glenholme | 118 | Pwll y Felin |
| 80 | Fferm Maendy | 119 | Parc Fferm Warren Mill |
| 81 | I'r De Orllewin o Barc Coed Machen | 120 | I'r Gorllewin o Barc Fferm |
| 82 | I'r De Orllewin o The Paddocks | 121 | Coed Counsellor |
| 83 | I'r Gogledd Orllewin o Fferm Hillfields | 122 | Tir yn Rhostir Pendeulwyn |
| 84 | Tir ger Pyllau Sant y-Nyll | 123 | I'r Dwyrain o Dy'n-y-Pwll |
| 85 | I'r Gogledd o Fferm Palla | 124 | I'r Gogledd Orllewin o Gapel Bedyddwyr Croes-y-Parc |
| 86 | I'r De o Fferm Forty | 125 | Gwern-y-Steeple |
| 87 | Gogledd Aber Ogwr | 126 | Coed Pen-y-ffordd-fawr |
| 88 | Tir ger Afon Ogwr | 127 | Kingsland |
| 89 | Pant Norton | 128 | I'r Dwyrain o Kingsland |
| 90 | Craig Ddu | 129 | I'r Dwyrain o Homri Farm |
| 91 | Twyni Ogwr | 130 | I'r Dwyrain o Waith Dŵr Glyncory |
| 92 | Pant Mari Flanders | 131 | Tir i'r De Ddwyrain o Fythynnod Ffordd |
| 93 | | 132 | Coed Quinnet |
| 94 | Cwm Alun | 133 | Tir ger Bythynnod Ffordd |
| 95 | Cwm Alun | 134 | Tir i'r De Ddwyrain o Fythynnod Ffordd |
| 96 | Morfa Heli Aber Afon Ewenni | 135 | Tir i'r Gogledd o Goedarhydyglyn |
| 97 | Fferm Pwllywrach | 136 | I'r Gogledd o Castle Farm |
| 98 | Glaswelltir Slon Lane | 137 | Coed Rhostir Pen-llin |
| 99 | Gerddi | 138 | Pant y Groes |
| 100 | Coed y Parc | 139 | Pwll y Mer |
| 101 | Tir i'r De Orllewin o Goed y Stanby | 140 | Tir i'r De o Bont Fach |
| 102 | Gwely Fioled | 141 | Nant Clemenstone |
| 103 | Coed y Castell | 142 | Tir i'r Gorllewin o Dynewydd |
| 104 | Llwyn Ffawydd | 143 | Church Farm |
| 105 | I'r Gorllewin o Drebettyn | 144 | Franklen Farm |
| 106 | Pwll Coetir Ymddiriedolaeth Amelia | 145 | Tir i'r De o Fferm Parcau |
| 107 | Gwlithbwll Ymddiriedolaeth Amelia | 146 | Tir i'r Gogledd Orllewin o Stembridge Farm |

| Rhif y Safle o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur | Enw'r Safle o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur | Rhif y Safle o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur | Enw'r Safle o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur |
|---|---|---|---|
| 147 | Ty-Draw i'r De o Dregolwyn | 185 | Coed y Cymdda |
| 148 | Pwll ar Lawnt Flaen Castell Gwenfô | 186 | Coed y Dylluan |
| 149 | Planhigfeydd Hilton | 187 | West Hill Wood |
| 150 | Bears Wood | 188 | Factory Wood |
| 151 | I'r De Orllewin o Lyswyrny | 189 | Coed y Gronfa Ddŵr |
| 152 | Pwll 11 Rhostir Biglis | 190 | Parc Dwnrhefn |
| 153 | Pwwl Erw-Naw | 191 | Cwm Mawr |
| 154 | I'r Gogledd o Rostir Cog | 192 | Tir yn Sutton |
| 155 | Gerddi'r Maenordy | 193 | Tir i'r Gogledd o Fferm Tŷ-Newydd |
| 156 | I'r Gorllewin o Lyswyrny | 194 | Factory Brook |
| 157 | Tir i'r Gogledd o Limefield House | 195 | Rhostir Ruff |
| 158 | Twyni Bryn Llanfleiddan | 196 | Tir i'r De o Rostir Ruff |
| 159 | Tir i'r De Orllewin o Lanfleiddan | 197 | Tir i'r De Ddwyrain o Lanmihangel |
| 160 | Coed y Castell | 198 | Coed y Pentre |
| 161 | Coed Bach | 199 | I'r De o Brookside Farm |
| 162 | Tir i'r Gorllewin o Ysgol Gyfun y Bont-faen | 200 | Tir ger Ffynnon Math Lwdd |
| 163 | Coed Llanquian | 201 | Tir i'r Gorllewin o Goed y Pentre |
| 164 | Tir i'r De o Whitefield Farm | 202 | Crookland Gorse |
| 165 | Tir ar hyd Nant Aberthin | 203 | Tir ar hyd Nant Llanmihangel |
| 166 | Long Grove | 204 | Coetir Castell Dinas Powys |
| 167 | Coed y Seler | 205 | Coed y Grabla |
| 168 | Ravenswood | 206 | Coed y Seler |
| 169 | Coed Gaer | 207 | Coed yr Arglwydd |
| 170 | Log Wood | 208 | Coed y Gellast |
| 171 | Coed Cottrell | 209 | Coed Francis |
| 172 | Coed y Lan | 210 | Tir i'r Gorllewin o Ben-Matn |
| 173 | Redland Wood | 211 | Coed Hills |
| 174 | Coed Betty Lucas | 212 | Coed Arthur |
| 175 | Coed y Cwm | 213 | I'r Gogledd o'r Garn |
| 176 | Tir ar hyd Afon Waycock | 214 | Tir i'r Gogledd o Fferm Llanfeuthin |
| 177 | Tir yn Winchpit | 215 | I'r Gogledd Orllewin o Fferm Garnllwyd |
| 178 | Tir i'r Gogledd Orllewin o Goed Nant Bran | 216 | Tir ar hyd Nant Llancarfan |
| 179 | Coed Nant-Bran | 217 | Tir i'r De o Dy'n-y-Coed |
| 180 | Beechwood | 218 | Coed Quinnet |
| 181 | I'r Gorllewin o White Hall | 219 | I'r Gorllewin o Goed Quinnet |
| 182 | Cae Tegeirian Gwenfô | 220 | Tir i'r De o Blackland Farm |
| 183 | I'r Dwyrain o Gae Tegeirian Gwenfô | 221 | Tir i'r Gogledd o Whitton Rosser Farm |
| 184 | The Downs | 222 | Tir i'r Gogledd Orllewin o Whitton Rosser Farm |

# Atodiadau

| Rhif y Safle o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur | Enw'r Safle o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur | Rhif y Safle o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur | Enw'r Safle o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur |
|---|---|---|---|
| 223 | Brook Wood | 262 | I'r Gorllewin o Dŷ-to-Maen |
| 224 | Coed Sion Hywel | 263 | Tir i'r Gorllewin o Lancarfan |
| 225 | Coed y Graig | 264 | Tir i'r Gogledd o Lancarfan |
| 226 | Tir i'r Gogledd o Little Hamston Farm | 265 | Tir i'r Gogledd Ddwyrain o Lancarfan |
| 227 | Tir i'r De o Little Hamston | 266 | Tir oddi ar Pancross Farm |
| 228 | Tir i'r Gorllewin o Ddyffryn | 267 | Tir i'r Gorllewin o Fferm Pen Onn |
| 229 | Tir i'r Dwyrain o Ddyffryn Springs | 268 | Tir i'r Gorllewin o Pen-Doines |
| 230 | Great Hamston | 269 | Pen-Doines |
| 231 | Dyffryn Golwch | 270 | Tir i'r Gogledd o Benmarc |
| 232 | Gerddi Dyffryn | 271 | Tir i'r Gogledd Ddwyrain o Benmarc |
| 233 | Tir i'r Gogledd o Ddyffryn | 272 | Tir i'r Gogledd o Fferm Pen Onn |
| 234 | Tir ar hyd Nant Bran | 273 | De Ddwyrain Llancarfan |
| 235 | Coed Maesyfelin | 274 | Ford Farm |
| 236 | Pwll Goldsland Farm | 275 | Cwm Flaxland |
| 237 | Coed Gwenfô | 276 | Tir i'r Gogledd o Broomwell |
| 238 | I'r Dwyrain o Little Oaks | 277 | Coed y Cwm |
| 239 | Cae Aberthin | 278 | Breach Wood |
| 240 | Tir ger Nant Winstone | 279 | Tir i'r Gogledd o Goed y Cwm |
| 241 | Coed Ysgubor-Goch | 280 | Tir i'r Gogledd o Flaxlands |
| 242 | Coed Clwyd-Gwyn i'r De Orllewin o Llanfihangel y Pwll | 281 | Tir i'r Gorllewin o Northcliff Farm |
| 243 | Coed Twyncyn | 282 | Coed Garw |
| 244 | Case Hill Wood | 283 | Coed Sutton |
| 245 | Cwm Cewydd | 284 | I'r Gogledd Orllewin o Ganolfan Heboca Cymru |
| 246 | Clawdd y Mynach | 285 | I'r Gorllewin o Goleg y Barri |
| 247 | Pwll Glan-y-môr | 286 | I'r Gogledd o Highlight Farm |
| 248 | Pwll Sealands Farm | 287 | Tir yn Nant Bryhill |
| 249 | Cae a Phwll Beacon Towers | 288 | Brynhill |
| 250 | I'r Dwyrain o Blanhigfa Meadowvale | 289 | Caeau ym Merthyr Dyfan |
| 251 | Frampton Court Farm | 290 | Tir i'r Gogledd o Port News |
| 252 | East Flemingston | 291 | Tir i'r Gorllewin o Windrush |
| 253 | Tir i'r Gogledd o Rostir Llanbydderi | 292 | I'r Gogledd Orllewin o Goed Pencoedtre |
| 254 | Tir i'r De o Fwthyn Treguff | 293 | I'r Gorllewin o Goed Pencoedtre |
| 255 | Coed y Colwn | 294 | Rhostir Dinas Powys |
| 256 | Tir i'r Gorllewin o Rostir Llanbydderi | 295 | Shortlands Wood |
| 257 | I'r Gogledd o Bant y Coed | 296 | I'r Gogledd o Pop Hill |
| 258 | I'r De o Bant y Coed | 297 | Cross Common |
| 259 | Tir i'r De Orllewin o Bant y Coed | 298 | Pop Hill |
| 260 | Dwyrain Pant y Coed | 299 | Rhostir Cog |
| 261 | Tir i'r De Orllewin o Lanbydderi | 300 | Pwll Cogan |

| Rhif y Safle o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur | Enw'r Safle o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur | Rhif y Safle o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur | Enw'r Safle o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur |
|---|---|---|---|
| 301 | Llynnoedd Cosmeston | 332 | I'r Gogledd Ddwyrain o Knock Man Down Wood |
| 302 | Cwm Marcroes | 333 | I'r De o Fferm Cwm Ciddy |
| 303 | Coedwig yn Llanddunwyd | 334 | |
| 304 | Cwm Tresilian | 335 | Gogledd Cwm Barri |
| 305 | I'r Gorllewin o Gwm Colhuw | 336 | Walters Farm |
| 306 | Cwm Colhuw | 337 | Gwlypdiroedd Tregatwg |
| 307 | East Orchard Wood | 338 | Afon Tregatwg |
| 308 | Oxmoor Wood | 339 | I'r Gogledd o North Road |
| 309 | Ox Moor | 340 | |
| 310 | Coed Llancadle | 341 | Tŷ'r Orsaf |
| 311 | Dyffryn Afon Ddawan Isaf | 342 | Dwyrain Trwyn Larnog |
| 312 | I'r Gogledd o Waith Sment Aberddawan | 343 | Pyllau Water Lane |
| 313 | Tir ar bwys Planhigfa Burton | 344 | Gwlithbwll 2 Highfield Farm |
| 314 | Tir i'r De o Lancadle | 345 | Summerhouse Bay West |
| 315 | Llancadle | 346 | Pwll Sutton Road |
| 316 | Hen Chwarel Dwyrain Aberddawan | 347 | Pwll Parc Busnes Dyffryn |
| 317 | Llancadle Gorse | 348 | Yr Arfordir ym Mhwerdy Aberddawan |
| 318 | Tir ar bwys Kenson Wood | 349 | Y Waliau yn Aberddawan |
| 319 | Kenson Wood | 350 | Tir yn Nwyrain Aberddawan |
| 320 | Castle Wood | 351 | Fontygari |
| 321 | Cliff Wood | 352 | Trwyn y Rhws |
| 322 | Tir i'r De o Benmarc | 353 | I'r De Orllewin o Church Farm |
| 323 | Tir i'r De Orllewin o Curnix Farm | 354 | I'r Dwyrain o Borthceri Isaf |
| 324 | Tir i'r De o Curnix Farm | 355 | Pwll Flaxland |
| 325 | Curnix Farm | 356 | Pwll Pentref Llanddunwyd |
| 326 | Church Hill Wood | 357 | Friars Point |
| 327 | Tir i'r Gogledd o Blackton Farm | 358 | Nell's Point East |
| 327 | Tir i'r Gogledd o Blackton Farm | 359 | Lawnt y Coed |
| 328 | Gogledd Orllewin Bullhouse Brook | 360 | Coed Lecwydd |
| 329 | Gogledd Bullhouse Brook | 361 | Downs Wood |
| 330 | I'r Gorllewin o'r Hen Reithordy | 362 | Goldsland Wood |
| 331 | Knock Man Down Wood | 363 | Coed Uchaf |

**NODYN:**

360 Safle o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur ar y cyfan ***(dim rhif 93*** gan fod hwn wedi'i ymgorffori fel rhan o Safle o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur rhif 91***; dim rhif 334*** gan fod hwn wedi'i ymgorffori fel rhan o Safle o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur rhif 335; ***nid oes rhif 340)***

# Atodiadau

## ATODIAD 8 : Dynodiadau Amgylchedd Hanesyddol

### Dosbarthiad Adeiladau Rhestredig

| Cymuned | Gradd II | Gradd II* | Gradd I |
|---|---|---|---|
| Y Barri | 47 | 7 | 1 |
| Tregolwyn | 10 | 0 | 1 |
| Y Bont-faen gyda Llanfleiddan | 88 | 8 | 2 |
| Dinas Powys a Saint Andras | 14 | 2 | 0 |
| Ewenni | 16 | 5 | 7 |
| Llancarfan | 14 | 4 | 1 |
| Llandochau | 4 | 0 | 0 |
| Llandŵ | 18 | 5 | 2 |
| Llanfair | 22 | 4 | 1 |
| Llangan | 14 | 0 | 1 |
| Llanmaes | 8 | 3 | 0 |
| Llanilltud Fawr | 71 | 6 | 1 |
| Llanfihangel | 6 | 1 | 1 |
| Penarth | 51 | 1 | 1 |
| Pendeulwyn | 9 | 1 | 1 |
| Penllyn | 23 | 1 | 2 |
| Llanbedr-y-fro | 19 | 1 | 0 |
| Y Rhws | 29 | 6 | 1 |
| Sain Tathan | 33 | 5 | 1 |
| Saint-y-brid | 33 | 2 | 1 |
| Sain Dunwyd | 34 | 1 | 4 |
| Sain Siorys | 8 | 2 | 2 |
| Sain Niclas | 18 | 2 | 0 |
| Sili | 12 | 1 | 0 |
| Llanddunwyd | 3 | 0 | 1 |
| Gwenfô | 15 | 2 | 0 |
| Y Wig | 19 | 1 | 0 |
| Cyfanswm | 638 | 70 | 32 |

CYFANSWM Y CWBL o ran Adeiladau Rhestredig ym Mro Morgannwg (Hydref 2011): 740

## Dosbarthiad Henebion Cofrestredig

| Cymuned | Enw |
|---|---|
| **Y Barri** | Castell y Barri |
| | Eglwys Uchelolau, Gweddillion |
| | Safle Tŷ Canoloesol Uchelolau |
| | Safle Rhufeinig Cnap |
| | Beddrod Crwn 612 m i'r Gogledd o Bendrick Rock |
| | Safle Melin a Chafn Melin Ganoloesol Cliffwood |
| | Capel Sant Baruch |
| | Beddrod Crwn Westward Corner |
| **Y Bont-faen a Llanfleiddan** | Caer Dynnaf |
| | Castell Llanquian |
| | Gwersyll Coed Llanquian |
| | Beddrod Crwn 800 m i'r De Ddwyrain o Blasty Marlborough |
| | Beddrodau Crynion i'r Gogledd o Breach Farm (1) |
| | Beddrodau Crynion i'r Gogledd o Breach Farm (2) |
| | Beddrodau Crynion i'r Gogledd o Breach Farm (3) |
| | South Gate |
| | Castell San Cwintin |
| | Beddrod Crwn Stalling Down |
| **Dinas Powys** | Dinas Powys Castle |
| | Fferm Rufeinig-Brydeinig, Tir Comin Dinas Powys |
| **Ewenni** | Clostir Sarn Corntwn |
| | Wal Caeadle Dwyreiniol Priordy Ewenni |
| | Porth Gogleddol Priordy Ewenni |
| | Tŵr Gogleddol Priordy Ewenni (1) |
| | Tŵr Gogleddol Priordy Ewenni (2) |
| | Eglwys y Priordy |
| | Tŷ'r Priordy (Y Caeadle Gorllewinol) |
| **Llancarfan** | Castell Moel |
| | Ffosydd y Castell |
| | Safle Ffosedig Horseland |
| | Pentref Canoloesol Anghyfannedd Llancadle |
| | Mynachlog Llancarfan (Ei safle) |
| | Gwersyll Llantriddyd |
| | Plas Llantriddyd, Gweddillion Tŷ, Gerddi a Ffynhonnau Adfeiliedig |
| | Gwersyll Llanfeuthin |
| | Safle Tŷ Canoloesol, Dyffryn (1) |
| | Safle Tŷ Canoloesol, Dyffryn (2) |
| | Gwrthglawdd Trewallter |
| **Llandochau** | Croes Golofn ym mynwent Llandochau |

# Atodiadau

## Dosbarthiad Henebion Cofrestredig

| | |
|---|---|
| **Llandŵ** | Amddiffynfa Gylch Castell Llandŵ<br>Mynydd Bychan<br>Beddrodau Crynion i'r Gorllewin o Gant-Erw (1)<br>Beddrodau Crynion i'r Gorllewin o Gant-Erw (2)<br>Beddrodau Crynion i'r Gorllewin o Gant-Erw (3)<br>Llandough Castle, Remains of Hall<br>Old Beaupre Castle |
| **Llanfair** | Castell Llandochau, Gweddillion Neuadd<br>Hen Gastell y Bewpyr |
| **Llangan** | Croes Geltaidd Llangan (Eglwys St. Canna)<br>Croes ym Mynwent Eglwys y Santes Fair<br>Croes Ganoloesol yn y Fynwent (Eglwys St. Canna)<br>Amddiffynfa Gylch a Beili yng Ngelligarn |
| **Llanmaes** | Beddrodau Crynion Domen Fawr |
| **Llanilltud Fawr** | Castell Bedford<br>Plas Trebefered<br>Safle Rhufeinig Caermead<br>Gwersyll Ffosydd y Castell<br>Castell Llanilltud Fawr<br>Colomendy Llanilltud Fawr<br>Porthdy Llanilltud Fawr<br>Anheddiad Mynachaidd Llanilltud Fawr (Ei safle) (1)<br>Anheddiad Mynachaidd Llanilltud Fawr (Ei safle) (2)<br>Beddrod Crwn Tŷ Morfa<br>Gwersyll yr Hafdy |
| **Llanfihangel** | Tŷ'r Siantri<br>Gwersyll Caerau<br>Gwersyll Cwm George<br>Pont Lecwydd<br>Gwrthglawdd Tyn y Coed |
| **Penarth** | Pentref Canoloesol Anghyfannedd Cogan<br>Croes Mynwent Penarth (Y Tu Mewn i Eglwys Penarth Bellach) |
| **Pendeulwyn** | Twmpath Castell Felin Isaf<br>Dau Dwmpath Coginio i'r Dwyrain o Dy'n y Pwll (1)<br>Dau Dwmpath Coginio i'r Dwyrain o Dy'n y Pwll (2) |
| **Penllyn** | Twmpath Castell Ystradowen |
| **Llanbedr-y-fro** | Gweddillion Castell Llanbedr-y-fro |
| **Y Rhws** | Gwaith Sment Cynnar<br>Castell Penmarc<br>Gwersyll y Rhagfuriau |
| **Sain Tathan** | Pentref Canoloesol Anghyfannedd i'r Gogledd Ddwyrain o Rock Farm |

| | |
|---|---|
| | Maenordy East Orchard<br>Caer Danddaearol East Orchard<br>Pentref Anghyfannedd Flemingston<br>Amddiffynfeydd Gwrthymosodiad Limpert Bay<br>Safle Canoloesol Gorllewin Aberddawan<br>Maenordy West Orchard |
| **Saint-y-brid** | Croes Antoni<br>Bryngaer Dwnrhefn<br>Beddrod Crwn Heol y Mynydd<br>Cerrig Rhyd Ogwr<br>Caer Bentir ar Dwyni Fleming<br>Croes Mynwent Saint-y-brid<br>Stepsau Duon<br>Castell Ogwr |
| **Sain Dunwyd** | Ardal o Bentref Canoloesol Suddedig<br>Beddrod Crwn Croes Heol y Splott<br>Gwersyll Trwyn yr As<br>Beddrodau Crynion Trwyn yr As (1)<br>Beddrodau Crynion Trwyn yr As (2)<br>Beddrodau Crynion Trwyn yr As (3)<br>Beddrodau Crynion Trwyn yr As (4)<br>Beddrodau Crynion i'r Gogledd Ddwyrain o Church Farm (1)<br>Beddrodau Crynion i'r Gogledd Ddwyrain o Church Farm (2)<br>Beddrodau Crynion i'r De o Monkton (1)<br>Beddrodau Crynion i'r De o Monkton (2)<br>Beddrodau Crynion i'r De o Monkton (3)<br>Croes Mynwent Sain Dunwyd<br>Ysgubor Ddegwm, Colomendy a Gweddillion Adeiladau Eraill |
| **Sain Siorys** | Beddrod Crwn Sant-y-Nyll |
| **Sain Niclas a Thresimwn** | Carnedd Gellog Coed-y-Cwm<br>Amddiffynfa Gylch Coed-y-Cwm<br>Twmpath Castell Cottrell<br>Amddiffynfa Gylch Cottrell<br>Safle Ffosedig Doghill, Dyffryn<br>Siambr Gladdu Tinkinswood<br>Y Gaer |
| **Sili** | Magnelfa Wrthawyrennol i'r Gorllewin o Drwyn Larnog<br>Safle Ffosedig Middleton<br>Ynys Sili, "Caer Ddanaidd" |
| **Llanddunwyd** | Castell Tal-y-Fan |

# Atodiadau
## Dosbarthiad Henebion Cofrestredig

| | |
|---|---|
| | Beddrod Crwn Maes-yr-Hwyaid<br>Dau Feddrod Crwn 300 i'r Gogledd o Dair Onnen (1)<br>Dau Feddrod Crwn 300 i'r Gogledd o Dair Onnen (2) |
| **Gwenfô** | Beddrod Crwn Greave<br>Safle Rhufeinig 340 m i'r De Ddwyrain o Groesffordd Whitton<br>Siambr Gladdu Llwyneliddon |
| **Y Wig** | Ysgubor Buarth Mawr<br>Gwersylloedd Cwm Bach<br>Beddrod Crwn Rhyle |

### Ardaloedd Cadwraeth

Aberthin
Maestref Gardd y Barri
Ardal Forol y Barri
Tresimwn
Trebefered
Broughton
Tregatwg
Tregolwyn
Y Bont-faen
Dinas Powys
Drope
Dwyrain Aberddawan
Flemingston
Silstwn
Llanbydderi
Llanfleiddan
Llancadle
Llancarfan
Llandŵ
Llangan
Llanmaes
Llanfihangel
Llantriddyd
Llanilltud Fawr
Llyswyrny
Llanfihangel-y-pwll
Yr As Fawr
Penarth
Pendeulwyn
Penmarc
Llanbedr-y-fro
Porthceri
Y Rhws
Saint-y-brid
Sain Siorys
Saint Hilari
Sain Niclas
Talygarn
Gwenfô

### Parciau a Gerddi o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru

Parc Alexandra, Penarth
Coedarhydyglyn
Gerddi'r Cnap, Y Barri
Cwrt-yr-ala
Parc Dwnrhefn
Dyffryn
Priordy Ewenni
Castell Ffonmon
Castell Hensol
Gerddi Eidalaidd, Penarth
Plas Llanfihangel
Plas Llantriddyd
Hen Gastell y Bewpyr
Pwll-y-wrach
Parc Romilly, Y Barri
Castell Sain Dunwyd
Castell Gwenfô
Gerddi Windsor, Penarth

### Tirweddau o Ddiddordeb Eithriadol yng Nghymru

Llancarfan, Twyni Tywod Merthyr Mawr, Cynffig a Margam (Yn rhannol ym Mro Morgannwg)

Cynllun Datblygu Lleol
**Bro Morgannwg**
Swyddfa'r Dociau
Dociau y Barri
Y Barry CF63 4RT

LDP@valeofglamorgan.gov.uk
www.valeofglamorgan.gov.uk